



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines


Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>



P.M. 27 V 935 e. 85

Y

GEINIOG WERTH:

CYLCHGRAWN MISOL

AM Y FLWYDDYN 1849.

CYF. III.

DINBYCH:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN THOMAS GEORGE

AC I'W GAEL GAN Y LLYFRWERTHWYR.

M.DCCC.XLIX.



CYNNWYSIAD.

	Tudal.	Tudal.	
A oedd Judas yn cyfranogi o Swper yr Arglydd	39	Cyfarchiad at ddarllenwyr ieu- ainc y "Geiniogwerth."	321
Abram y Ceunant	71	Cyffelybrwydd einioes	162
Adfywiad dirwestol a chref- yddol	193	Cynghor iachusol	23
Adolygiad ar "Hanes Bywyd y Parch. J. Evans, Llwyn- ffortun."	133	Cynghorion ymarferol	326
Amaethyddiaeth	275	Cysgu anamserol	221
Anerch at athrawon a deiliaid yr Ysgol Sabbathol	90	Dafydd a Goliah	273
Anerchiad at Arolygwyr yr Yagol Sabbathol	41	Darllen mewn amser ac allan o amser	25
Anghysonderau benywaidd	127	Darostyngiad Pen yr Eglwys	247
Anniweirdeb Cymru	192	Dattod gweithredoedd y diafol	285
Arferion y Cymry	324	Dechreuaed Methodistiaeth yn y Bala	26, 75, 118
Arwyddion ymgaledu dan weinidogaeth y Gair	206	Detholion	166
Atebiad i weddi	239	Dic Wirion	52
Atebiad i Ofyniadau	271	Difrifwch	50
At Ieuencyd	70	Diolehgwarwch ysgoleiges Sab- bothol i'w hathraw	46
At Olygwyry "Geiniogwerth"	158	Dirwest	303
At y Cymry	113	Dirwest a'i adegau	68
Awsafiaeth	97	Diwygiad ar y môr	59
Awstian am Dduw	136	Diwedd arswydus Deist	221
Benjamin Franklin	130	Dr. Franklin	48
Beth sydd yn rhwystroy Cymry	315	Dr. Owen a'i waith	253
Beth y mae rhyfel yn gostio .	82	Drygedd meddwdod	245
Breuddwyd Sion y Melinydd	185	Duw yn bendithio cynghor	138
Bu farw	138	Dyddiau boreuol Jonathan Edwards	1
"Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd," &c.	6	Dydd Nadolig	3
Can Cymdeithasa Sir Aberteifi	246	Dylanwad addysg Yagrythyrol	201
Cân Hen Wr y Cwm	387	Dyledswydd dyn at ei gymyd- og	36
Carwriaeth hynod	119	Dyledswyddau rhieni	57
Catechism o waith Archesgob Leighton	77	Dymunoldeb Person Crist	70
Celwydd	265	Dysgeidiaeth a gwagddyseid- iaeth	277
Chwedi am y Parch. Rowland Hill	285	Dywediadau detholedig	326
Clust o ymrwrandawiad i'r "Llaia."	165	Dywediadau Philip Henry	229
Cofnodiadau	55	Effaith goleuni ar iechyd	135
Cwyn Joseph	24	Englynion i'r "Geiniogwerth" i Yagol Frytanaidd	81
Cybydd yn cael ei gosbi	49	Edeyrn	218
Cyfaill y bobl	85	Ffair y gwagedd	141
		Ffeithiau hynod	278
		Ffoedigaeth Caumont ieuanc	
		65, 106, 128	

	Tudal.	Tudal.
Ffraeth-ddywediadau	Mary,	" Maddeuwyd ei haml bechoda au hi."
Iarles Warwick	54	94
Ffrainc	28, 55, 83	Mangre genedigaeth ein Gwaredrwr
" Ffrwyth yn amlhau."	99	43
—yr Ysbryd yw dir- west"	208	Marwolaeth trwy fygiad
Gair ar lan y bedd	191	27
—at Ferched Cymru	287	Mawredd meddylddrychau y Bibl
—at y gwragedd	80	67
—at y rhai a arferant gysgu yn yr addoldy	248	Meddyliau dyn dystaw
Gardd Gethsemane	108	217
Germani	55	Muckle Kate
Glanweithdra	305	16
Golwg ddiweddaf ar ddyn yn boddi	197	Myfyrdod wrth ddarllen y "Llwybr i'r Berth."
Gorchfygu yspeilwyr	277	301
Goror Clawdd Offa	165	Nodiadau Ysgrythyrol 8, 42, 129, 189, 232, 300
Greddf hynod	15	Oediad
Grym gweddi	218	263
Gyrfa dedwyddwch	163	Pedwar mis yn California
Hanesion, 111, 139, 167, 198, 223, 250, 278, 307		Pennod yr Athronydd 127, 160, 189
Hanes y darn pren	180	" Peth neatia ar ddyn yw natur dda."
Heddwch	59, 145	281
Helbulon cyfoeth	290	Pregeth y diweddar William Charles
Hen arferion	172	237
John Brown o Haddington . .	87	Pregeth hynod
Iachawdwriaeth ein plant . .	9	49
Iaith yr Iuddewon ar ol y gaethglud	61	Promised land
Itali	65	25
Iwerddon	59	Prwsia
Laura Bridgman	266	28
Llais o Oror Clawdd Offa . .	109	Prynu yr amser
Llawenydd trwy gredu . . .	309	261
Lloegr	59	Rhagolygiad argyfnod newydd .
Llofruddiaeth arswydlawn . .	28	40
Llwyddiant gweddi daer . .	48	Rhy ddiweddar
Llyfr cydwybod	263	87
Llythyr Hen Wr Mynyddig 123, 151, 193, 210, 257		Salm xci.
Llythyr y Parch. Thomas Jones, Dinbych	7	302
Llythyr y Parch. James Hughes, Llundain	10	Solon a Chroesus
Llythyr y diweddar Barch. W. Charles at bregethwrieuanc	283	264
Llythyr oddiwrth y diweddar Barch. Richard Jones, Bala	216	" Taith y Pererin," a'r "Ym- ofynnydd Pryderus."
Llythyr oddiwrth y Parch. J. Hughes, Pontrobert	314	155
		Tarddiad yr enw Cristionogion .
		92
		" Ti a borthir yn ddiau." . . .
		220
		Trefn Eglwys Crist a threfn yr Eglwys Sefydledig
		34
		Tywysog Albert a Thwyysog Cymru
		8
		Ufudd-dod mabajdd
		5
		Vavasor Powell
		7
		Vestry Remsen
		13
		" Wele fi anfon fi,"
		301
		Whitfield yn dechreu pregethu .
		161
		Wil anstyriol a Sian ddefos- iynol
		240
		William Hutton,
		147, 177
		Y bachgen carpiog—y mar- siandwr cyfoethog
		62
		Y Banc Cynnifo
		26, 329
		Y Bibl
		25
		Y Ceiniogau
		286
		Y ddua leidr
		231
		Y ddwy Nos Sadwrn
		192
		Y dirwestwr gwrthgiliadig .
		163

	Tudal.		Tudal.
Y dyn annedwydd	318	Y perygl o ddechreu cellwair â phechod	225
Y dyn dedwydd	98	Y Professor Heyne o Göttingen	151
Y ffordd i gael rhai i'r Ysgol Sabbothol	238	Yr anghyssonderau benywaid yn cael eu tafli yn ol	191
Y gair "Sacrament."	299	Yr enwog Porson	18
Y genadaeth ddinasaid	319	Yr Hinfesurydd ysbrydol	47
Y golled fawr	190	Yr hyn a raid i bawb ei ddys- gwyl	180
Y Gymdeithas Heddwch	80	Yr Iwerddon	83
"Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn."	37	Yr udgorn diweddaf	222
Ymddangosiad rhyfedd o dda- ioni Duw	71	Yr undeb yn cael ei gondemni gan berthynas rhieni & phlant	44
Ymddyddan rhwng Jones o Edeyrn, ac un o bererin- ion Lleyn	82	Yr undeb yn caeleigondemnio gan hanes yr Eglwys	31
Y meddwyn	32	Y Saint	133
Ymfudiad	83	Y Senedd	84, 112, 140, 168, 224
Ymfudiaeth	255	Ysgrepan y dirwestwr	108
Ymherawdwr Awstria	28	Ysgrifenn Cbwareudy	203
Y nefoedd	104	Ysyl Sabbothol Ffynnon Groew	51
Y Pab,	19, 28, 54, 83	Yspaen	28
Y Parch. Baptist Noel	27, 54	Ystori y Flag wen	233
William Williams, Pant-y-Celyn, a'i "Banthe- ologia."	169	Y Tafod	307
Y pechod o anghyflawnder	214		

AT EIN DARLLENWÝR.

NID ydym yn myned i ganmawl y "Geiniogwerth." Yr ydych wedi cael prawf o honi: os ydych yn ei chymeradwyo, pleidiwch hi; os fel arall, hyderwn, er hyny, y gadewch i ni fyned ymlaen am siwyddyn eto goreu gallom.

Nid ydym ychwaith yn rhyfeddu fod rhai yn ein gwrthwynebu. Nid oes modd i ni gael lle i'r bedwaredd ran o'r gohebiaethau a dderbyniwn: ac ni bydd y "Geiniogwerth," a hyny allan, yn werth dim yn ngolwg y rhai a wrthodir.

Y mae llawer hefyd am rywbeth dyfneddysg, heb ystyried mai llyfr i bawb yw y "Geiniogwerth." Os ydynt am draethodau dyfnion, darllenent y "Traethodydd," am yr hwn y mae ysgrifenydd yn y "Quarterly Review," un o brif gyhoeddiadau y Saeson, yn dyweyd ei fod yn synu wrth ei ddarllen.

Y mae rhai drachefn na welant werth mewn dim os na fydd yn dyfod o Lundain; ac eraill yn ystyried eu hunain dan rwymau i wrthwynebu pob peth na fyddo yn perthyn i'w sect hwy. Rhwng pawb, mae yn ddigon rhyfedd fod ein misolyn bychan yn fyw.

Ychydig sydd yn meddwl mai *Ceiniogwerth* ydyw. Pe buasai pob rhifyn yn costio dimai yn ychwaneg, buasai wedi hyny mor rad ag un cyhoeddiad yn Nghymru; ac os golygwn fod nifer y derbynwyr rywbeth yn gyffelyb, buasai y ddimai hono yn dwyn i ni dros *bwm cant o bunnau mewn un siwyddyn*. Oni ddylai pob Cymro aberthu ychydig er mwyn ein cynnorthwyo.

Gwyddom fod amryw o'n dosbarthwyr caredig yn cael eu digaloni yn fawr trwy anonestrwydd rhai o'r derbynwyr. Nid oes genym ond taer obeithio y bydd iddynt barhau yn ffyddlawn yn ngwyneb pob rhwyst am un siwyddyn eto. Y mae ganddynt gyfie rhagorol i ddysgu gonest-rwydd i'w cymydogion trwy wneyd i bawb-dalu wrth dderbyn.

Lle nad yw y "Geiniogwerth," yn cael ei dosbarthu yn ffyddlawn cymered rhyw un y gwaith mewn llaw. Nid rhaid iddo ofyn cenad neb, ac nid oes hawl gan neb i'w rwystro. Ond gobethiwn hefyd y bydd pregethwyr a diaconiaid yn *blaenorï* yn hyn, fel yn mhob gwaith da arall. Ein prif amcan yw ymladd yn erbyn pechodau yr oes. Os ydych yn barnu fod yr amcan yn dda, pleidiwch ni yn gyhoeddus, a phleidiwch ni yn wreag.

Y GEINIOGWERTH.

Dyddianau boreuol Jonathan Edwards.

GANWYD Jonathan Edwards yn Windsor Dwyreiniol, America. Ei dad oedd y Parch. Timothy Edwards, gweinidog llafurus, ac ysgol-lig da. Yr eodd ei fam yn wraig o wybodaeth bur èang, yn enwedig yn yr ysgrifyrau, ac yn hynod am ei duwioldeb. Dan ofal y fath rïeni, dygwyd ef i fynu "yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd," a thrwy eu gofal serchog a gwyliadwrus hwy, cadwyd ef oddiwrth y cymdeithion a'r ymddyddanion hynny sydd yn fynych yn terfynu yn ninystri ieuencetyd. Dysgwyd ef o'i fabandoed i arferyd ac i nerthu cynneddfau ei feddwi trwy ei wneuthur yn gydnabyddus a phob gwirthdrychau myfyrdod o fewn ei gyrhaedd. Tra eto yn blentyn, yr oedd yn gydnabyddus a'i nodwediad ei hun, a'i ddyledswydd, a ffordd iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, ac a bywyd trwywyddol, a ddechreuir ar y ddaear ond a berffeithir yn y nefoedd. Dechreuodd gweddiau ei rïeni drosto gyda dechreuad ei yrfa ddaearol; ac fel pob gweddi a gyflwynir mewn ffydd, atebwyd hwynt. Yr oedd argraffiadau boreuol Edwards yn nerthol yn moreu ei oes, ac yn enwedig cyn iddo fyned i'r athrofa. Fe brofodd yn helaeth o nerthoedd diwygiad a gymerodd le yn y gynnulleidfa yr oedd ei dad yn weinidog iddi. Diflanodd yr argraffiadau hyn, pa fod bynag, yn fuan, heb adacl, yn ei farn ef ei hun, ddim effeithiau parhaol o natur sancteiddiol. Dechreuodd yn foreu ymarfer ei hun i gyfansoddi, a chyn iddo gyrhaedd ei ddeuddegfel flwydd oed, dangosodd nerth a gwreiddioldeb mawr yn ei syniadau.

Aeth i'r athrofa cyn bod yn dair-ar-ddeg oed, ac a hynododd ei hun yn fuan, am ei ymroddiad llwyr i'w efrydiau, ac am ei gynydd mewn dysgeidiaeth. Pan nad oedd ond bachgen yn yr athrofa efe a ddangosodd hoffder at yr ymchwiliadau dyfniion, a'r gwreiddioldeb meddwl hwnw a'i galluogodd ar ol hynny i ddwyn allan y fath olygiadau mawreddus ar lywodraeth foesol Duw. Trwy ymarferiad parhaus, efe a nerthodd ei alluoedd ymresymiadol, ac a ddygodd ei hun i gael yr hyfrydwch mwyaf mewn meddwl caled; ac i hyn yn ddiau y mae priodoli ei ragoriaeth mewn darganfod ac egluro gwirioedd, a dadrys rhwydwaith cyfeiliornad.

Pan oedd tua dwy-ar-bymtheg oed daeth "amser ei ymweliad." Am ei olygiadau a'i deimladau o barthed crefydd tua'r amser hwn, ni a allwn farnu oddiwrth y dyfniadau canlynol:—"Ni adawai Duw i mi fyned ymlaen yn fy nifaterwch ddim yn hwy; ar ol llawer o ymdrechiadau celyd a fy llygredd, a phenderfyniadau i ddiwygio, dygwyd fi o'r diwedd i ymadael a phob peth y dywedai fy nghydwybod ei fod yn bechod, ac i geisio iachawdwriaeth fy enaid fel fy unig orchwyl; mi a deimlais awyddfryd i ymadael a phob peth yn y byd er mwyn cael rhan yn y Gwareddwr. Parhaodd fy mhryder a fy ymdrechiadau tufewrol; eto nis gallaf alw yr hyn a deimlais yn ddychryn. Y tro cyntaf y teimlais yr hyfrydwch melus hwnw yn

Nuw a phethau dwyfol (yr wyf wedi byw llawer ynddo ar ol hyny), oedd wrth ddarllen y geiriau hyny, l Tim. i. 17; "Ac i'r Brenin tragywyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth y byddo aorhycedd a gogoniant yn o: o: o:soedd, Awen." Fel yr oeddwn yn darllen y geiriau, daeth i fy enaid, ac ymwasgarodd drwyddo, deimlad o gogoniant y Bod Dwyfol; teimlad newydd, na phrofais erioed ei gyffelyb o'r blaen. Teimlais ynof fy hun mor ardderchog oedd y Bod hwnaw, ac mor ddedwydd a fyddwn pe cawn ei fwynhau, a fy llyncu i fynu ynddo byth. Mi aawn dros y geiriau hyn, ac a'u canwn i mi fy hun. Awn at Dduw i ofyn iddo a gawn ei fwynhau, a gweddïwn gyda rhyw deimlad holol newydd. Ond ni dcaeth i fy meddwl fod dim ysbrydol neu gadwedigol yn hyn.

Nid yn hir ar ol i mi ddechreu teimlo pethau fel hyn, y dywedais wrth f: nhad am rai o'r pethau oedd yn myned trwy fy meddwl. Effeithiodd yr ymddyddan arnaf yn ddwys: ar ol darfod, mi a aethum allan i'r cae i fyf, ris, ond pan oeddwa yn rhodio ac yn edrych i fynu tua'r nefoedd a'r cymylau, daeth i fy meddwl y fath deimlad melus o fawrhydi gogoneiddus a gras Duw, nas gallaf ei roi mewn geiriau. Teimlwn fel yn gweled y ddaau mewn undeb hyfryd a'u gilydd; yr oedd y mawrhydi yn felus, yn dirion, yn sanctaidd; a'i drugaredd yn fawreddig, melusder ofnadwy, a thiriondeb uchel, mawr a sanctaidd."

O'r amser hwn cafodd Mr. Edwards olygiadau cliriach ar waith y prynedigaeth trwy haeddiannau Iesu Crist. Yn awr yr oedd melusder neillduol mewn llyfrau a myfyrdolau ar bethau dwyfol. I'w lygad ef yr oedd ymddangosiad pob peth wedi newid, gwelai brydferthwch newydd yn mhob gwirthdrych, ac yn mhob golygfa; fe welai ogoniant, daioni, a mawredd Duw. "Yr oedd rhagoriaeth doethineb a chariad Duw yn ymddangos i mi yn mhob peth—yn yr haul, y lleuad, y sér, yn y cymylau a'r wybren las, yn y gwelltglas, y blodau, a'r coed, yn y dwfr, ac yn holl natur." Fe ddechreuodd gael hyfrydwch mewn gweithredoedd natur na wyr y "dyn anianol" ddim am dano. Nid oedd ddim mor hyfryd ganddo a chlywed llais ofnadwz Duw yn y daran, a gweled ei ogoniant yn y mellt, unw ith yr oedd y pethau hyu yn ei lenwi a dychryn, ond yn awr yr oedd ei feadwl mewn "tanguefedd heddychol" yn ymorphwys ar Dduw.

Yn Mehefin, 1722, pan nad oedd eto yn bedair-ar-bymtheg oed, dechreuodd bregethu. Am beth amser o'u yn llafurio yn mysg y Presbyteriaid yn New York. Yma fe fwynhaodd lawer o bresennoldeb y Dyddanydi mawr. "Yr oedd fy hiraeth am Dduw a sanct-eiddrwydd," meblai, "wedi mawr gynnyddu. Yr oedd crefydd bur, ostyngedig, sanctaidd, a ne'l, yn ymddangos i mi yn dr. dynunol. Yr oeddwn yn llosgi i fod yn gristion cyflawn; yn mhoo peth i fod yn debyg i Crist, ac i fyw yn ol rheolau pur a sanctaidd yr efengyl. Fy ymgais gwastadol ddydd a nos oedd pa fod i fyw yn fwy sanctaidd, yn debycach i blentyn Duw, a dysgybl Crist. Yr oedd sanct-eiddrwydd yn ymddangos i mi o natur hyfryd, melus, addfwyn, a thirion, yr hyn a ddygai burdeb, tangnefedd, dysgleirdeb, allawenydd

yn anhhraethadwy i fy meddwl. Yn ddangosai enaid sanctaidd i mi fel gardd yr Arglwydd yn llawn o flodau, ac yn mwynhau awelon hyfryd, a phelydrau adfywiol yr haul."

Ar y deuddegfed o Ionawr, 1723, efe a gyflwynodd ei hun mewn cyfammod "i gymeryd Duw yn rhan ac yn ddedwyddwch iddo," ac "i ymladd â'i holl nerth yn erbyn byd, cnawd, a diafol, hyd ddiwedd ei yrfa." Yn niweddyd y flwyddyn hon efe a adawodd New York, ac a aeth i dŷ ei dad. Yn yr amser yr oedd yn ymbaratoi i'r weinidogaeth, a thra yr oedd yn New York ac yn nhŷ ei dad, efe a barotodd gyfres o benderfyniadau sydd yn dangos ei ymroddiad i Dduw a sancteiddrwydd, a lleshad ei gyd-ddyngion. Mae yn eu dechreu trwy ddyweyd, "Gan fy mod yn llwyr deimladwy nas gallaf wneyd dim o honof fy hun, yr wyf yn ostyngedig erfyn ar Dduw, trwy ei ras, fy ngalluogi i gadw y penderfyniadau hyn, mor bell ag y maent yn gysyn â'i ewyllws ef, er mwyn enw ei Fab"

"Mi a wnaf pa beth bynag y tybiwyf sydd fwyaf er gogoniant Duw, a fy lleshad a fy nghysur fy hun, nid gyda golwg ar y fynyd bresennol, ond gyda golwg ar barhâd tragediwyddol: mi a wnaf pa beth bynag a dybiwyf yn ddyledswydd arnaf, ac yn fwyaf er lleshad a daioni dynolryw yn gyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd fel hyn, pa anhawsderau bynag y cyfarfyddaf a hwynt, pa mor liosog bynag, a pha mor fawr bynag."

"Yr wyf yn penderfynu ymdrechu yn wastadol i *ddyfeisio rhyw ffyrdd newyddion i gyflawni y penderfyniadau blaenorol*."

"Yr wyf yn penderfynu peidio colli mynyd o amser, ond ei ddefnyddio yn y modd mwyaf manteisiol a allaf. I beidio gwneyd dim os bydd cymaint o ammheuaeth yn fy meddwl am ei gyfreithlondeb ag i beri i mi aros i ystyried neu chwilio a ydyw yn gyfreithlawn neu beidio, os na bydd cymaint o ammheuaeth yn fy meddwl mawn perthynas i ommedad y weithred."

"I ofyn i mi fy hun yn niweddyd pob dydd, wythnos, mis, blwyddyn, mewn pa beth y gallawn wneyd yn well."

Mae deg-a-thriugain o'r penderfyniadau hyn, ond nis gallwn roddi lle i ychwaneg o honynt yn bresennol. Yr ydym yn ammheu wrth eu darllen drosodd yn bresennol, ar ollawer gwaith o'r blaen, a allem wneyd cymwynas fwy i'n darllenwyr nag wrth eu rhoddi yn gyflawn. "Mae y penderfyniadau hyn," medd Mr. Dwight, ei tywgraffydd, "yn cynnwys y crynodeb anysbrydoledig goreu, i bob oedran, ac yn enwedig i ieuencptyd, o ddyledswydd cristion, a'r cyfarwyddiadau goreu i gyrhaeddiadau uchel mewn rhinwedd efengyl-airod a ffurfiwyd erioed gan feddwl dyn." Mae y penderfyniadau hyn yn taflu goleu cryf ar nodweddiaid Mr. Edwards; ac nid ydym yn synu fod hwn yn y bedwaredd-flwyddyn-ar-bymtheg o'i oed, a'u ffurfiodd megys yn mhresennoldeb Duw, wedi cyrhaedd yn y blyneddau diweddaraf o'i fywyd raddau helaeth mewn rhinwedd a sancteiddrwydd.

Dydd Nadolig.

WERTH yr enw hwn yr adnabyddir y 25ain o Ragfyr genym. Ystyr y gair *Nadolig yw genedigaeth*; felly dydd Nadolig yw dydd

genedigaeth. Gelwir ef yn Saesoneg, *Christmas*, enw yn deilliau o'r Eglwys Babaidd. *Christ-mas*, yw *mass for Christ*, neu offeren i Grist. Mae cymaint a 136 o wahanol farnau wedi bod o barth dydd genedigaeth ein Hiachawdwr. Mae wedi ei ddeddi i lawr gan wahanol enwadau cristionogol, a dynion dysgedig, yn mhob mis o'r flwyddyn. Eglwys Rhufain oedd yr hon a benderfynai dydd genedigaeth Crist i fod ar y 25ain o Ragfyr, yr hyn a wnaed dan y Pab Julius I, a chan ei bod hi yn dal yr awdurdod uchaf mewn pethau tymorol, ac yn anffaeledig mewn pethau ysbrydol, y sefydliad hwn a ffynai.

Yr un diwrnod yw hwn a'r un y cedwid gŵyl arno i'r dduwies Bruma gan yr hen Rufeniaid. Yr achos paham y dewisai y pab y diwrnod hwn yn hytrach nag un arall oedd, mai ar hwn y tröi yr haul yn ol tua'r pwynt gogleddol, gan ddybenu y gauaf, estyn y dydd, a dwyn y gwanwyn i mewn. Tybid fod hyn yn arwyddocâol o Haul y Cyflawnder yn codi ar dywyllwch y byd, ac yn peri i oleuni iachawdwriaeth ymweled â'n dacar ni.

Dyfyna *Gieseler* amryw o awduron i ddangos y cedwid dydd genedigaeth, a bedydd ein Harglwydd, yn yr eglwysi dwyreiniol ar y cyntaf ar yr Ystwyll, sef y chweched o Ionawr; ond i'r pummed-ar-hugain o Ragfyr gael ei ddewis gan yr Eglwys Orllewinol tua chanol y bedwaredd ganrif, fel dydd genedigaeth yr Iesu, a'r Ystwyll fel dydd ei fedydd. Dywed *Chrysostom* (Ioan Aur-euau) nad oedd ond tua deng mlynedd cyn yr amser yr ysgrifennai, er pan y dechreuodd yr eglwys yn Antioch gadw y Nadolig ar y pummed-ar-hugain o Ragfyr.

Addefa *Clemens Alexandrinus*, yr hwn oedd yn byw tua chanol yr ail ganrif, fod y dynion uwyaif dysgedig, gan uwyaif, wedi pendarfynu mai y pummed-ar-hugain o Fai oedd y dydd. Mae rhai pethau, yn wir, yn ei wneyd yn debygol mai tua'r tymor hwn o'r flwyddyn y dygwyddodd. Dywed Luc fod y "bugeliaid, yn aros yn y maes, yn gwyllo eu prai 'd liw nos." yr hyn ni wnaed yn y wlad hono yn nhymmor y gauaf. Dywedir mai yr achos a arweiniodd yr Eglwys Orllewinol i benderfynu ar y diwrnod hwn oedd, "Fod y bobl cyn eu tröedigaeth at Gristionogaeth, yn arferol o gadw gŵyl genedigaeth y duw Sol (yr haul), neu Sul, ar y dydd hwn, a gwneyd anrhigion i'w gilydd, a gollwng eu gwasanaeth-ddynion yn rhydd dros dymmor, &c., a'u bod yn anfoddolawn i roddi y defodau hyn heibio. Er eu dwyn i ymgymodi â'r cyfnewidiad o Baganiaeth i Gristionogaeth, gorchymwynwyd cadw yr wyl o barch i enedigaeth Crist yn lle yr wyl o barch i Sol. Oddi ar hyn y tardda yr arferiad o roddi anrhigion, ac o wneyd gwleddoedd yn y tymor hwn, ac hefyd, mewn llawer o fanau, o fod gwasanaeth-ddynion yn newid eu lle. Gweddill Paganiaeth wedi ei impio ar Gristionogaeth ydyw; v rhai hyn yn disgyn i ni tiwy Eglwys lygredig Rhufain, ac felly yn tiilyngu cu dodi heibio gan bob gwir Bro-testant."

A ddylai Cristionogion gadw y dydd hwn fel dydd cysegredig? Cywestiwn yw hwn ag sydd wedi achosi petrusder a phryderwch i

bob dilynwr cydwybodol o'r Arglwydd Iesu o'r bron. Mewn atebiad, dymunem ddyweyd nad ydym yn golygu fod peidio a chadw dydd Nadolig yn un amlaen ar y Gwareddwr bendigedig. Nid ydym yn gwybod am un gorchymyn neillduol i gadw y dydd hwn rhagor dydd arall. Nid oes un coffâd yn y Testament Newydd am y dydd na'r mis, yn mha un y ganwyd yr Iachawdwr. Pe ba'i o bwys i'r eglwys ei gadw, gallem ddysgwyl y buasai rhyw awgrymiad yn cael ei ddodi i lawr, trwy ba un y gellid nodi yr amser. Nid oes yr un prawf ychwaith fod y Gwareddwr wedi ei eni ar y diwrnod hwn. Nid oes yr un awgrymiad fod dydd ei enedigaeth i gael ei gadw mewn modd yn y byd. Nid yw hanesiaeth eglwysig yn rhoi un math o hysbysiad fod y cristionogion boreuol yn cadw na hwn nac unrhyw ddydd arall, er coffadwriaeth am enedigaeth yr Arglwydd Iesu. Yr arwyddion cyntaf a gawn ni o fod rhyw amser yn cael ei gadw fel dydd Nadolig, sydd yn yr ail ganrif, pryd yr oedd dyryswnch, fel y gwelwyd uchod, ynghylch yr amser. Ond a golygu mai ar y dydd hwn, sef y pummed-ar-hugain o Ragfyr y ganwyd yr Arglwydd Iesu, a oes rhwymedigaeth arnom ni o herwydd hyny i'w gadw? Nac oes, mewn un modd—marwolaeth Iesu Grist, ac nid ei enedigaeth, yw yr hyn y mae i ni ei goffau, "Gnewch hyn er coffa am danaf; canys cynnifer gwaith bynag y bwyteawch y bara hwn, ac yr yfoch y cwpan hwn, y dangoswnch farwolaeth yr Arglwydd oni ddele."

Ganwyd ef er mwyn iddo farw, a thrwy ei farwolaeth y mae bywyd tragicwyddol. Llawer cymwynaswr da a anwyd i'r byd yma, a buont o werth mawr ynddo tra y buont hwy byw, ac yr oedd dydd eu marwolaeth yn golled i'r byd; ac felly mwy priodol ydyw cadw coffadwriaeth am ddydd eu genedigaeth, a galaru am eu marwolaeth; ond nid felly Iesu Grist. Fe'u ganwyd hwy i fyw, ond Iesu Grist i farw, "y Cyflawn dros yr anghyflawn, fel y dygai ni at Dduw." Y mae rhyw briodoldeb ynto mewn cadw ei angeu mewn coffadwriaeth, ac yn wir dyma yw ei orchymyn. Ond os cedwir y dydd Nadolig mewn modd yn y byd, dylid cofio y dylai hyny fod mewn cydweddiad â dyben dyfodiad Iesu Grist i'r byd, ynghyd â'i gymeriad a'i feddwl. Pe baem yn cadw coffadwriaeth am ryw wr dysgedig, gwnaem hyny mewn rhyw ddull llênyddol; pe am filwr enwog, neu fuddugoliaeth odidog, gwnaem hyny mewn rhyw ddull milwraidd. Felly hefyd am Iesu Grist, Tywysog tangnefedd, yr hwn a ymddangosodd i ddal lloedd gweithredoedd y diafol, bydded hyny yn ysbryd yr efengyl, mewn cysondeb âg egwyddorion ei Hawdwr; nid trwy wleddoedd, a diota, a meddwdod, ond trwy weddi a mawl, a gwneyd rhyw ymgais newydd at gyflawn ddymuniad y llu angelaid o fod "gogonian yn y Goruchaf i Dduw, ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da."

Ufudd-dod mabaidd.

BACHGEN a demtiwyd gan rai o'i gyfoedion i dynu afalau oddiar goeden ag oedd ei dad wedi peri iddo beidio a'i chyffwrdd. "Ni-

raid i ti ofni," meddynt, "os bydd i'th dad gael gwybod dy fod wedi eu cymeryd, y mae ef mor dirion ni wna dy friwo." "Dyna yw yr unig reswm," meddai y bachgen, "paham na ddylwn eu cyffwrdd; gwir yw na friwa fy nhad fi, ond mor wir a hynny, mi a wñ y poena fy anufudd-dod i fy nhad, ac fe fyddai hynny yn waeth i mi na dim arall." Onid oedd hwn yn rheswm rhagorol? *Cyf. Iota.*

"*Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar o! llawer o ddyddiau:*" *Preg. ii. 1.*

PAN oeddwn yn athraw mewn ysgol sul, efallai ynghylch y flwyddyn 1818 neu 1820, darfu i wr ieuanc hardd, mewn tilled morwr, alw arnaf, gan ofyn pa sut yr oeddwn. Yn canfod ei fod yn ymddangos yn ddyeithr-ddyn, dywedodd wrthyf ei fod wedi bod yn ysgolâig yn un o'r dosbarthau uchaf, ysgrifenydd yr hwn oeddwn: ond gan nad oeddwn eto yn ei adnabod, tynodd allan o'i logell Testament, a gofynodd onid oeddwn yn cofio i mi ei roddi iddo? Gan fy mod wedi cwbl anghofio y dywyddiad, ymddangosai fel yn rhyfeddu yn fawr y gallasai y fath ddygwyddiad pwysig yn ei olwg ef, gnel ei anghofio yn llwyr genyf, ac yn ebrwydd dan-gesodd i mi fy llaw-ysgrifen fy hun, yn ysgrifenu ei enw ac yn dymuno bendith iddo oddiwrth y rhoda. Yna canfyddais iddo gael ei ddwyn ataf fi, megys ysgrifenydd, am ryddhad anrhyydeddus o'r ysgol ar ei fynediad ar y môr, ac felly iddo gael y Testament. Mewn ymddyddan hir, cesglais oddiwrtho hanes ei yrfa ei hun, ac effaith y gyfrol fechan ar amryw galonau. Yn gyntaf, aethai i blith yr Italiaid; ac i hudo amser, yn fynych darllenai ei Testament tra yn gwneuthur felly; rhai o'r morwyr a ymgasglent o'i amgylch, ac a deisifent arno ei ddarllen yn uchel. Yr oeddynnt oll yn anwybodus o'r Llyfr Sanctaidd; ond gweithredodd yn y fath fodd ar yu medd, liau, fel y cynnygiasant amryw weithiau tri neu bedwar dollar am dano, ond efe a nacodd ymadael a'i dystiolaeth o'r ymddygiad da yn yr ysgol. Pa fodd bynag, penderfynodd amryw o honynyt brynu un, pa faint bynag fiddai ei bris, os canfyddent un yn y porthlaedoedd; ond hyd ou i adawodd y llong, nid oedd uu i'w gael yn unlle. Oddiwrth y gwaith hwn, aeth i long bwsgota o Scotland, yn cael ei llywyddu gan fab y perchenog; ac er fod ganddo ehwech neu saith o wyr dano, eto ni fedrai un o honynyt ddarllen. Weithiau, gan nad oedd gan y morwyr daim i'w wneuthur, heblaw rhoddi abwyd ar y bachau, deisifent glwyd eil y llyfr; a daeth rhai mor awyddus i gytraru, fel ag i ofyn i'r llywydd ei hun ddyfod i'w ddarllen; a'r hyn y cydsyniodd, ac yn fynych a'i gorchymynai o'i fodd iddo gael ei ddarllen yn uchel. Yr oeddynnt oll yn halog yn eu hymdifyddanion; ond yn fuan canfyddwyd fod yn rhaid iddynt roddi heibio dyngu neu gau y llyfr, a'r llywydd oedd y cyntaf a beidiodd a thynnu dan ei ddyllauwad, dechreuodd rhai o'r morwyr weddio, a hwy oll a gawsant y fath gysur mewn gwrandaw gair Duw, ac yn y drefn a wnaeth yn eu mysg, fel ag y cyttunwyd i gadw'r

Sabbath. Yua prynasant draethodau yn y portladd cyntaf; dyrchafwyd y bachgen i fod yn gaplan; gosodwyd i fynu foddion rheolaiadd; darlleneut weddiâu o'u traethodau, a weithiau ceid pregeth yn eu plith, y rhai, ynghyd â'r Bibl a llyfrau eraill, a wnaethant iddynt weithredu yn lled dda. Yn awr a'i pethau ymlaen yn well nac erioed; cyttunai pawb na fuont erioed mor ddedwyd; ond canfyddwyd fod yn rhaid i bechodau eraill gwympo o flaen gair Duw, ac felly y bu yn awr; yr oedd diwygiad hollol ya y cyfan: yr is gadben a dau o'r morwyr a geisiasant lyfrau syllebu i ddysgu darllen iddynt eu hunain; dywe-iai y llywedd y gwnai yntau felly hefyd, ac yr amser hwnnw, yr oedd yntau wedi cael dwy gyfrol o bregethau erbyn y daith nesaf. Hyn oedd y peth diweddaf a glywais am y mater; pa un a goliwyd y llestr, neu a fu farw y gwr ieuanc, nis gwn; ond pa un bynag, yr oedd yn ddigon i'm calonogi i addysgu bechgyn, ac i ranu Testamentau i forwyr.

Llythyr y Parch. Thomas Jones, Dinbych, at un oedd mewn profedigaeth oddiwrth ei frod yr crefyddol.

ANWYL FRAWD,

Mae yn ddrwg genyf glywed am eich helynt anghysurus yn Rhuthyn; ac yn ddiau er mor anfuddiol y byddwn, ni fedrwn lai na dyfod i ymwele i a chwi pe meddyliwn fod Rhagluniaeth yn rhoi i mi ddrws agored. Ond rhwng fy afiechyd, a phob rhwystr arall, nid wyf yn medru gweled fod i mi fod i ddyfod yn bresennol. Gobeithiaf y daw atoch cyn hir ryw rai o'r brod yr a fydd er bendith neillduol yn eich mysg. Yn y cyfainser, fy nghyngor ydyw, i chwi beiâio ymollwng er dim, na gadael y tŷ yn Rhuthyn, na gwaith y tŷ. Ni ddyoddefasoch eto hyd at waed, &c.—O blinaist ti gyd â'r gwyr traed, pa foddyr ymddarewi a'r meirch, &c. Dyoddef gystudd fel milwr da i Iesu Grist. Ymdrechwch, llefwch, gweithiwch, nes y bo i'r Arglwydd eich galw ymaith, neu ynte hyd oni bo iddo beri i adar a bwystfilod y nos gilio ymaith. A chofiwch, pryd na cheir ymwared na chymhorth gan un creadur, mae nerth i'w gael wrth orsedd gras. Ni ddaeth i'ch cyfarfod un brofedigaeth ond un ddynol, am hyny atolygwch ar yr hwn a ddywedodd, "Digon i ti fy ngras i;" a'r hwn, gan ei fod yn ffyddlawn, ni ad eich temtio uwchlawn yr hyn a alloch, ond a ddyry ynghyd â'r demtasiwn ddiangfa hefyd fel y galloch ei dwyn. Bellach yr wyf yn ymhyfhau i'ch gorchymyn yn enw yr Arglwydd na adawoch ei waith, ac na bo i chwi letya na digofaint na digalondid yn yr achos. Dystewch yn yr Arglwydd, ac ym!onvddwch: ie, ymostyngwch ger ei fron ac efe a lefara drosech. Hen yn fyr ac mewn brys (gyda'r caredig anerch atoch chwi a'n awraig a'r cyfeillion gofidus yn Rhuthyn) oddiwrth eich gwaelaf gyfaill,

THOMAS JONES.

Y Tywysog Albert a Thywysog Cymru.

MEWN cyfarfod cynnorthwyol i'r Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, Mr. T. J. Bourne, un o oruchwylwyr y *Parent Society*, a adroddai yr hanesyn canlynol, mewn ffodd o esboniad ar yr hyn a ddywedasid gan y llefarwr blaenorol, sef fod sefyllfa uchel bresennol y wlad hon i'w briodoli i'r ffaith o fod yr orsedd Brydeinig yn meddu gair Duw yn sylfaen iddi:—“Ychydig amser yn ol, Miss Hillyard, yr athrawes yn y teulu breninol, wrth ganfod fod Tywysog Cymru yn ddiofal yn nghylch ei wersi, a ddywedodd ‘Nid ydych chwi yn gofalu am eich gorchwyl, syr, a welwch chwi yn dda edrych ar eich llyfr a dysgu eich gwersi.’ Ei fawrhydi a atebai, na wnae. ‘Wel, elbai hithau,’ ‘mi a'ch rhoddaf chwi yn y *gornel*.’ Yntau a atebai drachefn, na ddyagai efe ei wersi, ac nad a'i unrhyw *gornel* chwaith, oblegid ei fod ef yn Dywysog Cymru, ac i'r dyben i ddangos ei awdurdod, efe a dorodd ysgwâr o wydr a'i droed bach. Miss Hillyard, wedi synu at ei ymddygiad hyf, gan gyfodi o'i heisteddle, a ddywedai, ‘Syr, y mae yn rhaid i chwi ddysgu eich gwersi, ac os na wnewch, er eich bod yn Dywysog Cymru, mi a'ch rhoddaf yn y *gornel*.’ Pa fodd bynag, nid oedd y bygythiad yn llwyddo dim, ond dywedai y Tywysog yr un peth ac o'r blaen, a thorodd ysgwâr arall o wydr. Miss Hillyard, wrth weled fod ei hawdurdod yn ddiystyr gandde, a ganodd y gloch, gan ddymuned ar Ei Fawrhydi, y Tywysog Albert ddyfod yno. Yntau a ddaeth yn ddioedi, ac wedi ei hysbysu paham y galwyd am dano, efe a gyfarchodd Dywysog Cymru, gan gyfairio at ystol fechan oedd yno, a dywedai, ‘Eistedd-wch chwi yna, syr.’ Ei Fawrhydi a ddychwelodd i'w ystafell ei hun, ac a ddaeth yn ol drachefn a Bibl yn ei law, gan ddyweddyd wrth Dywysog Cymru, ‘Yn awr dymunaf arnoch wrandaw ar yr hyn a ddywed Paul wrth y rhai sydd dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr.’ Ac ar ol darllen iddo yr ymadroddien hyny, efe a chwanegai, ‘Y mae yn wirionedd eich chwi yn Dywysog Cymru, ac os ymddygwch yn briodol, fe ellwch ryw dydd fod yn ddyn mawr, a bod yn frenin yn lle eich mam: ond yn awr yr ydych yn fachgen bach: er eich bod yn Dywysog Cymru nid ydych ond plentyn dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, y mae yn rhaid ufuddhau iddynt.

‘Heblaw hyny’ meddai Ei Fawrhydi, ‘rhaid i mi adrodd i chwi yr hyn a ddywed Selomon.’ Ac yna feddarllenodd iddo yr ymadrodd fod yr hwn sydd yn caru ei fab yn ei geryddu mewn amser, ac i'r dyben i ddangos ei gariad tuag at ei blentyn, efe a'i ceryddodd ac a'i gosododd inewn *cornel*, gan ddyweddyd, ‘Yn awr, syr, arhoswch chwi yna hyd oni ddysgwch eich gwersi, a chael caniatâd gan Miss Hillyard i ddyfod oddi yno: a chofiwch eich bod dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, ac y mae yn rhaid iddynt gael ufudd-dod.’

Nodiadau Ysgrythyrol.

HEB. iv. 2. “Canys i ni y pregethwyd yr efengyl megys ag iddynt hwythau.” Am yr Israeliaid yn yr anialwch y dywedir hyn; onid

ydyw yn ymgynnyg yn gwestiwn naturiol i'r meddwl pa fodd y pregethwyd yr efengyl iddynt hwy? Mae tywyllweh ymddangosiadol yn cyfodi oddiar nad yw y geiriau a gyfeithir "pregethwyd yr efengyl," ddim wedi eu cyfeithu yn eu hystyr gyntaf, a hellol lythyrenol, sef *cyhoeddi newydd da*. Darlener, "Canys i ni y cyhoeddwyd y newydd da (am orphwysfa) megys ag iddynt hwythau." Neu fel y mae Calvin yn eu cyfeithu, "Canys i ni y cyhoeddwyd yr addewid (am orphwysfa) megys ag iddynt hwy :" ac fe welir ystyr geiriau yr apostol yn well.

Mae yr un sylwad yn gymhwysiadol at y geiriau yn *Esay* lii. 7 ; "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efengylu :" neu fel y maent yn y dyfyniad yn *Rhuf.* x. 15 ; "Mor brydferth yw traed y rhai sydd yn efengylu tangnerefedd." Os deallir y gair *efengylu* yn ei ystyr presennol, am gyhoeddi iachawdwriaeth trwy Grist, mae yn naturiol gofyn pa beth yw priodoldeb y cyfeiriad sydd at weddeidd-dra neu brydferthwch traed y rhai sydd yn efengylu. Ond cymarer y geiriau yn eu hystyr lythyrenol, yna fe welir priodoldeb a phrydferthwch y gymhariaeth. "Mor brydferth ar y mynyddoedd yw traed y rhai sydd yn dwyn cenadwri llawen, yn cyhoedddi heddwch." Mae y prophyd yn dyweyd, fod cenadwri heddwch i rai wedi eu hir orthrymu a'u darostwng trwy ryfel a'i ganlyniadau, mor hyfryd, nes gwneyd i draed llychlyd y rhai oedd yn ei ddwyn o bell, ar hyd ffyrdd anhygyrch a chaled, trwy wlad boeth, ymddangos yn ddymunol. Yr oedd dymunoldeb y genadwri yn gwneyd hyd yn nod i'w traed, wedi eu baeddu, eu llychwino, a'u anharddu, ymddangos yn hyfryd ac yn brydferth i'r llygad. Mae hyn yn cael ei gadw o'r golwg i fesur trwy beidio cyfeithu y gair yn y fath fodd ag i ddwyn ei ystyr cyntaf i'r amlwg.

Iachawdwriaeth boreuol ein Plant.

Ni ddylai dim llai na chrefydd amlwg, ymroddiad llwyr, mewn calon a bywyd, foddloni rhieni ar ran eu plant ; y cyfryw ymroddiad presennol, penderfynol, diammheuol, ag y mae Mab Duw yn ceisio gan rieni drostynt eu hunain, y dylent hwythau weddio ac ymdrechu am dano i'w plant. Nid gofyn iddynt gael eu hachub a'u bendithio rywbryd wedi iddynt dreulio eu dyddiau boreuol ; ond yn awr, tra y maent yn *Wyn* yn mysig y praid, yn ddilwgr oddiwrth y byd. Nid eu meithrin i fod yn eiddo yr Arglwydd yn mhen amser i ddyfod, ond fe'n gorchymynir i'w dwyn yn awr, tra yn blant bychain at Grist, iddo ef eu cymeryd yn ei freichiau a'u bendithio. Ac wrth wneuthur hyn, ni a ddylem, nid yn unig eu rhoddi i'w ofal ef i'w cadw oddiwrth ddrygau y byd, ond i'w wasanaeth a'i feddiant ef am amser a byth ; nid i'w cadw i fod yn eiddo iddo mewn amer i ddyfod, ond fel y byd o i waith achubol gael ei ddechreu ynddynt, dan ei fendith ef, yn lloioed, y fath ag a orphenir "hyd dydd Iesu Grist."

Y mae o'r pwys mwyaf i hyn gael ei ddeall yn iawn. Mae haner y ffordd mor bell eddiwrth ein dyledswydd ein hunin, a ben-dith Duw gyda golwg ar ein plant, ag ydyw gyda golwg arnom ein hunain. Dylai rhieni ddyfod i benderfyniad diammheul pwy a wasanaethant yn y mater hwn, fel yn mhob peth arall, a phwy hefyd, mor bell ag a allent hwy benderfynu y cwestiwn, y caiff eu plant ei wasanaethu. Yn hyn, fel yn mhob peth, "nis gallwn wasanaethu dau arglwydd." Nis gall y byd a chrefydd ymuno yn addysg yr Arglwydd. Nid oes addewid am fendith ar addysg nad yw yn amcanu at ddwyn y plant dan ddyylanwad crefydd ond i'r pellder hwnnw fyddo yn gyson âg arferion ac ysbryd y byd; yr oll, "yn gwbl oll." Oedi ymdrechu dros iachawdwriaeth eu heneidiau tan amser dyfodol, ac ymfoddloni ar addysg ac ufudd-dod allanol, sydd yn debyg i waith y dyn sydd am ranu ei galon rhwng y byd a chrefydd; am fyw iddo ei hun yn awr, ac eto am beidio colli y nefoedd ar ol hyn.

Cofier mai egwyddor gyntaf, mwyaf hanfodol yn addysgiad crefyddol plant, ydyw gwneyd eu cadwedigaeth foreuol yn nod i gyfeirio ato, i fod yn amcan yn y meddwl yn wastadol. Nid ydym i foddloni i'w dysgu yn awr, a'u cael yn grefyddol rywbryd eto; nid moesau yn awr, a duwioldeb wed'yn, ond duwioldeb yn awr, ymraddiad i Grist yn awr; "Ceisiwch yn gyntaf de'r nas Dduw, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg."

*Llythyr oddiwrth y diweddar Barch. James Hughes, Llundain,
at y Parch. Moses Jones, Dinas, sir Gaernarfon.*

4, Stringer's Row, Rotherhithe, ger Llunduin,
Awst 19, 1839.

ANWYL A PHARCHEDIG FRAWD.

Boreu ddoe, wele, cefais unwaith drachefn yr anrhynedd o dderbyn eich llythyr llawn a charedig; ac er y parai ei gynnwysiad flinder i'm meddwl, yr oedd yn llawen genyf ei gael o herwydd tybiaswn lawer gwaith wrth eich gweled cyhyd yn ddystaw y waith hon, eich bo i chwi, fel agos i bawb eraill, wedi fy angofio fel un marw allan o olwg. Nid pawb o'r rhai a fuont o Gymru yn gweinidogaethu yn Llundain a feddyliasant am ymohebu âg Iago druan ar ol eu hymadawiad, er i mi fod mor hyf âg anfon at amryw o honyn, er mwyn cadw i fvnu y gyfeillach. Mae yn wir mai digon oerlyyd y cawsant hwy fel chwithau fi pan yma: effalai fod gormod o'r oerni a'r pellder hyun yn fy natur farwaidd a digyfeillach; eto yr wyf yn sicr i mi garu a pharchu yn fy nghalon bob brawd a fu yma; gwrandewais hwy yn wastad gyda hyfrydwch mawr, a chyda pheth eiddigedd hefyd, nad allaswn fy hunan bregethu fel y byddwn yn eu clywed hwy; gwnaethum bo ymdrech erioed yn ol allasaify nhymher drymllyd i, i ddangos pob parch iddynt, a bod yn frawdol tuag atynt; ac ni chlywais fod yr un cwyn yn fy erbyn ar y pen hwn. Yn wir yr wyf yn teimlo cynheswydd ychwanegol atoch, o herwyddi

parhau o honoch i ddwyn ymlaen y gyfeillach trwy lythyrau, a'r peth lleiaf a allaf wneyd yw ysgrifenu yn ol, er na gwn yn iawn y tro hwn, eto, pa beth gwerth ei ddarllen a ysgrifenaef.

Ychydig ddyddiau yn ol y clwswn y newydd galarus am farwolaeth eich anwyl briod. Ac yr oedd yn wir ddrwg genyf y traillod mawr hwn a ddaeth arnoch, ac a amlygir genyf ymewn ymadroddion mor fywiog a grymus yn eich llythyr. Deallwch, anwyl frawd, nad wyf mewn un modd yn eich leio am ddefnyddio ymadroddion rhy gryfion; eithr yn y gwrtwyneb, yr wyf yn eich caru o'm calon am y teimladau o gariad hiraeth, a galas a ddangoswch; ac yr wyf yn rhyfeddu eich inedr i osod allan deimladau eich calon yn eich amgylchiad presennol. Pahau yr ydych yn eich euro ac yn eich darostwng eich hun gymaint, ac yn dyrchafu eich hen gyfail Iago mor fawr? Prin y gallaf gredu eich bod yn hollol ddiragrith yn hyn. Gwn yn dda, nad ydych chwi mor wael, ac nad wyf finnau mor fawr ag y dywelwch. Ac yn wir yr wyf yn gweled fy holl ysgrifennwaith fy hun, ar bob achosion a thestunau, yn beth diflas iawn yn wyneb eich llythyr bywiog chwi. Ond gadewch i ni fod yn ffyd llawn ar a llom, ac yn ol a roddwyd i ni, gan adael heibio bob rhagrith a gweniaith i'n gilydd. Diolch i Dduw am yr ychydig drawn a rodde Efe i chwi a minnau, defnyddiwn hyny mewn symledd er ei o-goniant Ef, a lles eneidiadu a, nion.

Cawscoch chwi yn fwy na nemawr ei h profi am flyneddau lawer, yn ngwaeledd a chystudd eich anwyl Hannah; ond gwelaf i'r Arglwydd fel ysu y cwpnaid chwerw yn rhyfedd iawn, i chwi ac i'ddi hithau, yn y serchawgrwydd, y cariad, yr anlynedd, a'r diddig-rwydd digyffelyb, a rodde Efe ynnoch tuag at eich gilydd, mewn amgylchiadau o drallod a phrofedigaethau, na ddaeth eu cyffelyb i ran ond ychydig ddynion. Brant fawr yloedd hyn i chwi, anwyl frawd; diau fod hyn yn gysur mawr i'ch meddwl y dydd heddyw; a diaminhau genyf eich bod yn diolch i Dduw am eich cynnal fel y gwnaeth, a rhoddi i chwi a ch anwyl briod y cyfryw deimladau tuag at eich gilydd. Gerthfawr iawn ydyw nad oes yr un gair croes na chwerw a ddygwyddodd gynt, mewn awr o brofedigaeth, yn ochenaid ac yn draengwydd calon i chwi y dydd heddyw. Yr wyf yn teiu yn ddiolchgar i Dduw drosoch chwi am y rhagorfraint hon, yr hon o drugaredd a gefais innau hefyd, i fesur daionus, mewn hir flyneddau o aml brofedigaethau, ond nid fel yr eiddoch chwi. "Dafydd a ymgysurodd yn yr Arglwydd ei Dduw," ac felly rhaid i Moses wneyd hefyd: mae y Duw hwnnw yn fyw eto, ac yn abl i gysuro a chynnal yn y galar mwyaf, a than y beichiau trymaf; a Duw hawdd ei gacl mewn cyfyngder ydyw; gwyddoch chwi, anwyl frawd, hyny yn dda, ac nid ydwyf fi deilwng i'ch cynggori yn y pethau hyn. Yngymodwch a threfn ddoeth yr Arglwydd, ac ymostyngwch tan ei alluog law Ef, canys daeth ei amser cyfaddas i'w dyrchafu, nid i ieched yn y byd hwn fel y dylgwyliech, eithr yn berffaith iach a dedwydd i deyrn-gadair gogoniant yn y byd a ddaw, i ganu yn bêr heb gwyno byth. A chan i'r Arglwyd i ei harwain hi trwy ddyfroedd mor ddyfnion, a'i chynnal

hefyd mor rhyfodol yn ei holl a'i hir gystuddiau, meddyliwyf yn sier y dylech osod ychydig o'i hanes hi yn y "Drysorfa;" er dangos i gristionogion pa fodd y mae yr Arglwydd yn trin rhai o'i blant yn y byd hwn, a pha fodd y medr eu cynnal a'u gwneyd loewach loewach yn eu crefydd a'u heneidiau, yn a thrwy eu holl gystuddisu blinion. Gall hyny fod yn foddion i roddi taw ar rwgnachrwydd diachos llawer, i gywilyddio rhai dilewyrch yn eu crefydd er cael iechyd a hawddfyd, ac i gefnogi eraill i obeithio yn yr Arglwydd pan dan ei law geryddawl Ef.

Drwg iawn genyf glywed, anwyl frawd, eich bod yn wael eich iechyd ; gobeithio yn brudd (gair sir Aberteifi) eich bod erbyn hyn yn well, ac y cewch lawer o fyneddau o iechyd da eto, i lafurio yn eich gwaith mawr yn ngwinllan yr Arglwydd : pan ddarllenaus eich cwyn am iechyd rhedodd pennill fel hyn i fy meddwl :—

Na ddigalona Moses bach,
Ni gawn dy weled eto'n iach ;
Yn bloeddio 'n llon a bron ddibrudd,
Yr iachawdwriaeth yn Ngaerludd.

Mae i chwi gysur mawr, dybygwn i, fod eich holl blant yn eglwys Dduw, pryd nad oes yr un o'm rhai i, yn enwedig os oes arwyddion o waith grasol yr Ysbryd ar eu heneidiau ; diolchwrh lawer am hynny, a gweddiwrh lawer, am iddynt gael parhau yn ffodd yr Arglwydd. Gobeithiwyt eu bod oll yn iach, yn ofni Duweu tadau, yn caru Iesu hawddgar ac anwyl, yn ufudd a serchiadol iawn i chwi yn eich trallod, ac y byddant yn gysur i chwi fel y tyfont i fynu, yn enwedig yr Hannah fechan hono a fedyddiais i—Dyw a roddo ras i ti fy merch, ac i chwi oll. Gobeithiwyt y galluoga Rhagluniaeth Fawr y nef chwi a hwythau i gael eich tamaid yn ddiwall "ar wastadedd llwyd, brwynog, a thlodaidd gwlad Eifionydd," megys minnsau a'r eiddof, yn y lle trystfawr, blinfawr, ffwdanfawr a drudfawr hwn : gwyn-fyd na byddwn innau ar ryw wastadedd llwyd a brwynog, lle y cawn damaid a llongddwch gydag ef, yn lle bod yn y fan anghysbell, estronaidd, a chribddeiliog hon ; lle ni chair dim heb y geiniog, a'r geiniog hono yn darfod cyn gwybod o ba le y daw yr un ar ei hol : O ie, Moesen bach, felly y bu hi ar Iago a'i hen wraig ugeiniau o weithiau yn yr un-miynedd-ar-bymtheg diweddaf ; ac eto, byddaf yn gorfod asteb yr hen ofyniad, "A fu arnoch eisieu dim?" "Naddo ddim." Un rhyfedd yw Duw, a rhyfedd yn ei ffodd tuag atom ni, i'n cadw yn ein pwyll a'n syn-hwyrau, heb fyned yn wyltton, yn feilchion, ac yn anhawdd ein trin ; i'n cadw rhag chwyddo, a dringo, ac yna syrthio a thori ein hesgyrn. Gwell i ni y swmbwl yn y cnawd, y groes a'r wiaelen ar y war, ie, a chenad Satan i'n cernodio weithiau hefyd, efallai, na'n gadael i dra-ymddyrrchafu. Ac och, pa beth sydd genym ni, genyf fi wyf yn feddwl, i ymddyrrchafu arno? Dim o gwbl, eithr pob peth i'r gwrthwyneb : bugeilio defaid a gwartheg fy nhad yr oeddwn yn y dechreu, ar hyd bryniau a chorsydd Tri-chrug ; wedi hyny pedoli hen geffylau ; yna ymddyngnu ar ladd fy hun yn gwneyd angorion, ymhliith plant Alis, am un-ar-hugain o fyneddau ; ac yn

awr yn hen ddyn gwael a phesychlyd, na byddai colled i neb ond i'r wraig a'r plant, na galar gan neb arall ar fy ol, pe byddwn wedi fy nghuddio yn y bedd. Ac nid hyn yw y gwaethaf: treuliais ddeunaw mlynedd "heb Dduw yn y byd," mewn teulu nad oedd na rhieni, brodyr, na chwiorydd, yn meddwl dim am Dduw, ac nid ydynt eto; wedi hyny bum fyw am bum mlynedd ar enw o grefydd, a pha ryfedd oedd i mi fyned gyda'r ffrwd neu y gwynt, yn fuan wedi dyfod i'r lle gwylt, gwageddus, ac annuwiol hwn, a byw am dair blynedd heb grefydd yn y byd, bron yn bagan hollawl, ac yn fyw annuwiol nag erioed? Peth rhyfedd iawn na thorwyd fi ymaith, a'm taflu i usfern y pryd hwnnw; gwnaethum filoedd o achosion i'r Arglwydd wneyd hyny a mi, yn y tair blynedd a enwais; ac mi a'i bendithiaf byth. gobeithiwyf, am na wnaeth felly a mi. Tua blwyddyn wedi priodi, ac i wagedd ieuenciad ddi-flasu, ceisiais ymwasgu a'r dysgyblion drachefn, ac yn wir heb fawr o wasgfa am fy nghyflwr, na gofid am fy ngwrthgiliad; ond yn yr ymddyddan cyntaf, blingwyd fi yn fyw bron, gan arfau llymaion a geiriau heilltio y Parch. John Elias: prin yr oeddwn yn gallu dyoddef y pryd hwnnw; ond b'i ei ymadroddion yn dra bendithiol i mi wedi hyny, ac yr wyf y dydd heddyw, a llawer can' waith cyn heddyw, yn bendithio Duw, am y wers lêm a gefais y boreu Sabbath bythgof hwnnw; ac o'm calon yn parchu y gŵr a ddywedodd i mi mor onest a didderbyn wyneb, am y drwg o wrthgilio, a gadael Duw, ei achos, a'i bobl: gobeithiwyf yn wir na wrthgiliaf byth mwy.

Wele yn ihen dwy neu dair blynedd gwnaed fi yn flaenor bach i'r eglwys fechan yn Deptford; a rhaid i chwi feddwl ei bod yn dlawd gyda ni, pryd nad oedd neb gwell ei arogl i'w osod yn y swydd hono: o leiaf felly y meddyliais i gannoedd o weithiau wedi hyny; a mynch y byddaf yn gofio dan fy nghywilydd gan mor waeled y cyflawnais fy swydd. Ceisiais bob amser fod yn onest, a llawer gwaith, er fy ngefid, yr anfoddlonais ryw fath o ddynion drwy y gonestrwydd hyny. Ond wele, y peth rhyfeddaf eto yn ol, a rhyfedd iawn yw hefyd:—Pan yn un-ar-ddeg-ar-hugain oed, yn berchen gwraig a thri o blant i'w cynnal, ac heb braidd lyfr yn y byd ond y Bibl, na modd i gael yr un; wedi bod yn yr eglwys tua phum mlynedd, wele, cymhellwyd fi i bregethu! *Pregethu yn wir!*—Pregethais pan yn blentyn wrth fugeilio, ond ar yr amser a enwais, nid oeddwn i yn meddwl am y fath beth, ac ni buaswn yn yngan gair byth wrth neb am y cyfryw beth o honof fy hun. Ond gan iddynt hwy (hen flaenoriaid anwyl a thadol, sydd yn y nefoedd er's llawer blwyddyn bellach) geisio genyf, ni bum gyndyn ac anufudd, ceisiais bregethu yn enw dyn, ac wele gelwir fi yn bregethwr hyd heddyw. Ond O mor saled pregethwr! tybiaf rywbeth o honof fy hun weithiau, ond pan ddel yr oedfa galed, a mynch y daw hono, crâgen fechan iawn a gynnwys y pregethwr druan! yn enwedig pan ddel un o "lanciau yr Eryri," dewrion Gwynedd, a llawer o Ddeheubarth hefyd, yma, byddaf yn myned yn sitrechyn gwael a bychan iawn wrth eu gwrandaw. Mae yn ofidus genyf fod gwrandaw eraill yn effeithio

fel hyn arnaf, ond felly y bydd ; ac yn ddigellwair, bum bron **ag** addunedu lawer gwaith wrth wrandaw rhai o'r enwogion a grybwyllais, na ryfygwn fyned i bulpud byth mwyach. Am lefaru yn nghlyw dynion felly, byddai yn well genyf sefyll yn y rhigod o lawer : mae ofn dyn yn dwyn y fath fagl i mi, fel y byddaf **yn** crynu, yn dyrys, ac yn myned i'r fath annhreftn yn fy holl feddyliau, fel nas gallaf lefaru y pryd hwnnw hanner cystal ag ar amserau eraill : rhai o'r troion hyn a fuont y profedigaethau trymaf a ddygwyddodd i mi yn fy oes. "Dyma fy ngwendid," ac atolygaf arnoch, anwylfrawd, na chwarddoch am ben profedigaeth y diniweid: pe cawn ymgymysgu mwy a'm brodyr, fel y byddwch chwi yn cael, odid na orchfygwn beth o'r gwendid uchod ; ond yn y lle alltud a deoledig hwn y magwyd fi, ac y rhaid i mi aros, a'r cwbl a llaf ddywedyd yw, "Wele, gwael ydwyf."

Mae rhyw anhwyldeb rhyfedd arnaf mewn corff ac ysbryd er's wythnosau : bob yn awr ac yn y mân, bydd rhyw deimlad o ddi-frwythder yn cerdded drwy fy mraich ddeheu, ac i lawr y glun ddeheu, i fysedd y llaw ac i fysedd y troed, ac yna dybena hys y tro nesaf mewn rhyw gwsg marwaidd a phigiadau, ond eto heb boen. Llawer gwaith yn y dydd y byddaf fel hyn, a phan ddelo yr iasau hyny, mae yr ysgrifell yn syrthio o'm llaw, nis gallaf ysgrifenu mwy na baban newydd ei eni, nes codi, ymystwyd, a rhwbio fy hun ; ac yna byddaf fel arferol. Diammhau mai rhybuddion angeu yw y pethau hyn, efallai mai i angeu y twysant cyn bo hir. Caethiwed ac eistedd yn wastadol gyda y gorchwyl diddiwedd sydd genyf o ysgrifenu, &c. sydd yn un achos o'r anhwyl ; pan fyddaf allan ac mewn llafur corsforol yr wyf yn well. Aethum trwy ddiwrnod caled ddoe ; *society* a phregethu yn y boreu, pregeth yn y prydawn, pregeth y nos, gweini y sacrament i o bedwar i bum' cant o hobl, a cherdded dros ddeng milltir ar y ddau droed ; ac wedi y cwbl yr wyf yn o lew heddyw, ond yr iasau a enwais. Yn absennoldeb gŵr dyeithr y mae y gwaith yn drwm arnaf fi. Ac wedi y cwbl, y bobl, mae lle i ofni, yn ceintach o herwydd mana gwael y dyn cartrefol, a phaham na chaent ŵr dyeithr. O Moses, y mae gan ddyn yn gwael cartrefol brofedigaethau a theimladau, nas gwyddoch chwi a'ch brodyr teithiol a doniol ddim byd am danynt. Wele, bûm innau yn *wr dyeithr*, yr hyn sydd beth cynnaliaeth i mi heddyw. Byddai yn lles mawr i'm iechyd, pe gallwn roddi tro i rywle o'r fan hon, i newid awyr am bythefnos, pe byddai hyny i Lynlleifiad y stormllyd, neu Gaerbawdref fyglyd. Ond i ba beth y siaradaf, nis gallaf fyned oddi yma tra parhao y tywydd teg, oblegid nid oes genym yr un gŵr dyeithr er wythnos i heddyw. Wele, llenwais fy llythyr âg ynsydrwydd am danaf fy hun. Cefais yr anrhyydedd o ddarllen eich llythyr at yr eglwys i'r eglwys nos Sabbath : a da iawn ydoedd, a derbyniad da iawn a gafodd ; ymdrechais fy ngoreu i wneyd cyflawnder âg ef wrth ei ddarllen, er fy mod yn bur gryglyd, wedi bod yn bloeddio ac yn beichiaw trwy y dydd.

Weithian, fy anwyl frawd, pa foddy mae arnoch yn bresennol ?

Pa fodd y mae y pregethu yn myned ymlaen yn awr? A ydyw y dyn bach mawr yn gwaeddi fel cynt, pan gaffo ei hun ar ban Calfaria, neu ar uchelfanau mynydd Sion? Wele, yn wir, gwaeddedd a'i holl nerth pan ar y manau nefol hyny, tra y gallo waeddi; mae yr hen Iago druan (gwaeddwr o'i gôf gynt) wedi myned i fethu gwaeddi bron, gan hen besychu cas sydd yn ei dagu pan yr ewyllysio ac y dechreuo efe waeddi. Gobeithiwyf fod Moesen o hyd yn Efenglydd trwyadl, cyw'r, ac iachus; yr hen bethau Moses bach, a glywsioch gan eich tadau anwyl, ac ni'l v pethau newyddion, sydd yn werth eu gwaeddi uwch ben torfeydd o bechaduriaid, ie, ac o saint hefyd, pa le bynag yr eloch. Dywedwch wrth Dduw yn aml ar eich gliniau yn y dirgel, "Pa beth a waeddaf?" Ac wedi i chwi gael y pethau, gwaedwlwch hwy; a Duw a'ch llwyddo. Pa bryd y cair chwi i waeddi ar gysgaduriaid Llundain eto? Byddai yn dda iawn genyf fi a phawb eraill yma eich clywed am un tymmor eto, cyn fy myned i ddystawrwydd ac anghof y beid; ond nis gwn a gaf fi hyny a'i peidio. * * *

Nid oes yma ddim newydd yn y byd i'w ddanfon atosh; a marwadd a thrymaidd yw y gwaith yn ein plith, ychydig iawn yn cael eu geni yn Sion, aml un yn ein gadael, a mwyr trwy ieuo yn anghymharus na thrwy ddim arall: tra y mae rhai o honom a'u holl fryd yn rhoi topyn Dirwest mewn un bwlc, mae y cythraul yn llusgo dynion allan trwy y bwlc arall a enwais. Nid da bod rhyw un peth yn peri esgeuluso pob peth arall; yr oed id gwylwyr wrth holl byrth y deml gynt, y naill fel y llall. Bydded felly, anwyl frswd. Ond ni phoenaf mo honoch yn ychwaneg. Yr Arglwydd a'ch bendithio yn eich cawell a'ch toes, yn eich teulu, yn eich enaid, ac yn eich gweini togaeth, medd

Yr eiddoch yn wir ddiffuant,

JAMES HUGHES.

Greddf hynod.

UN o'r esiamplau mwysaf hynod o wybodaeth reddfyl mewn adar, a aml adroddwyd gan fy nhaid, yr hwn oedd ei hun yn llygad-dyst o'r ffait. Un diwrnod yn yr haf, denwyd ef i'r drws gan ryw lais main a thrallodedig, yn arwyddo caledi a braw. Aderyn a adeiladasai ei nyth mewn coeden yn agos i'r drws a redai yn ol ac ymlaen gyda'r buandra mwysaf, a chan dywallt allan gwynfanau wylofus yn ei fynediad. Yr oed id efe ar y cyntaf yn methu deall yr achos o'i gyffroad dyeithr, ond yn fuan y cafodd y dirgelwch ei amlygu trwy weled neidr yn dringo yn araf ar hyd y pren.

Y fam drallodedig yn y cyfamser a barhâai yn ei symudiadau cyflwm a'i hysgrechiadau: yr oedd yn ei chanfod yn myned ac yn dychwelyd yn barhaus, gan ddwyn rhywbeth yn ei chylfin o ryw goeden benodol, sef onen wen. Y neidr a ddirwynai i fynu, ond mor fuan ag y daeth ei phen yn agos i'r nyth, ei throellau a ddad-dorchai, ac yn ebrwydd y syrthiodd i'r llawr yn holol farw. Fy

nhaid a seliodd ei marwolaeth trwy dori ei phen, ac yna fe ddringodd y pren i ymchwilio i'r dirgelwch. Ynyth glyd oedd lawn o wyau, ac wedi ei gorchuddio a dail onen wen. Yr oedd yr aderyn bychan yn gwybod, os nad ydyw ein darllenwyr yn gwybod, fod cyffyrddiad a'r onen wen yn farwol i neidr. Nid coel grefydd wâg yw hyn, ond gwirionedd diysgog yn hanesiaeth anianyddol. Mae'r Indiaid yn wybyddus o hono, ac maent yn plethu taleithau o ddail yr onen wen oddeutu eu flerau fel nodded rhag y neidr gynffondrwst (*rattle-snake*). Mae y caethion yn aml yn cymeryd yr un rhag-ofal, pan byddont yn teithio trwy siglenydd a choedwigoedd.

Ni chlywais erioe i unrhyw eglurhad ar yr effaith a gynnrychir gan yr onen wen, oud yr wyf yn gwybod fod y rhai sy'n sefydlu yn yr anialwch yn hoffi cael y coed hyn oddeutu eu tai, gan eu bod yn argyhoeddedig, na fydd yr un neidr yn ewyllysgar i nesau at-ynt. Pan y cyffyrddir a hi a'r cangau, dywedir yr a yn sylw trwy ddwfn ddirgryniadau; yn mhen ychydig, dadebra eilwaith, ond bydd yn bur sal am beth amser.—*Mrs. Child.*

Muckle Kate.

YN Lochcarron, tref yn swydd Ross, yn ucheldiroedd Ysgotland, yr oedd yn byw amryw o flyneddau yn ol, hen ddynes hynod o annwylol, yr hon o herwydd ei maintioli corfforol a adnabyddid wrth yr enw "Muckle Kate." Yr oedd mor annuwiol fel y tybil hi yn euog o drosedd pob gorchymyn, oddigerth "Na ladd." Ni ddeuai byth i'r eglwys, a methai pob modillion a arferid i'r dyben hwnw; ofer oedd ei chymhell drwy erfyniadau, dagrau, ac ymweliadau beunyddiol; ymgaledai yn eu herbyn oll. O'r diwedd, penderfynodd Mr. Lauchlan, offeiriad y plwyf, gwr ag y mae ei goffadwriaeth yn para hyd heddyw fel gweinidog duwiol a thra defnyddiol, arferyd y dull canlynol o geisio ei hennill.—Yr oedd yn beth arferedig gan drigolien yr Ucheldiroedd yn y ganrif ddiweddaf, o ymgynnnull ynghyd yn nheiau eu gilydd, i ganu hen erddyganau Gaelaidd, ac i adrodd hanesion traddodiadol y lle. Gwyddai Mr. Lauchlan fod Kate yn arferol o gyrchu i'r cynnulliadau hyn gyda holl awydd hen chwedleuwraig; gan hyny, cyfansoddodd gân, yn yr hon y darluniai ac y ffrawyllai yn llymdost ei beiau adnabyddus. Rhoddodd hi i'w chanu gan rai pobl ieuainc ag oedd yn arfer cydgyrchu a Kate i'r cyfarfodydd hyn. Gall hyn ymddangos yn ffordd burrededd er ennill enaid, ond eto yr oedd yn llwyddiannus. Tarawwyd yr hen wraig a syndod—cyrhaeddodd y saeth ei chydwybod, ac erbyn hyn yr oedd ci hargyhoeddiad gymaint a'i chaledrwydd blaenorol. Yr oedd ymddangosiad oer a llwm cymydogaeth Lochcarron mewn cydnaws hynod a phrudd-der ei theimladau. Treuliai y rhan fwyaf o'i hamser mewn lleoedd anial, gan geisio lle i wylo; ac aml y clywid swn ei dolefain, am oriau ynghyd, gan breswylwyr i'w unigol oddiamgyich. Yr oedd prawf maith a thanllyd i'w haros. Er mor ddwfn ei hargyhoeddiad, ymddangosai fel penas llonyddai yn dragwyd; bu ei meddwl yn cael ei ddirboeni

am wythnosau, a misoedd, ie blyneddau. Yr oedd hyn yn rhýfedd, wrth ystyried ei bod wedi bod dros bedwar-ugain mlynedd yn byw mewn pechod, ac yn ymgaledu o hyd rhag y gwirionedd. Ond nid hyn oedd y cwbwl. Cymaint oedd ei galar, fel ag y *wylodd ei hunan yn ddall*, ie, yn *kolloll ddall!* Fel ag yr oedd un gweinidog yn rhodio gyda Mr. Lauchlan ar hyd rhyw gymoedd, clywid dynes yn gwaeddi mewn mawr boen meddwl. "Ust!" meddai y gweinidog, "a glywch chwi y waedd yna? Beth ydyw?" Gwyddai Mr. Lauchlan yn dda beth oedd, ac atebai, "Peidiwch gofalu, fe gostiodd y ddynes yna lawer deigrwn; gadawer iddi wyle trosti ei hunan yn awr." Daliodd ei lygad arni, pa fodd bynag, o hyny allan, a bu iddi fel tad mewn ystyr dymmorol ac ysbyryol.

Yn un o'i hymweliadau a chegin y persondŷ, tra yr oedd yn aros cael ymddyddan a'i gweinidog, dywedir ddarfod i'w sylw gael ei dynu gan sŵn haid o hwyaid ieuainc, y rhai oedd ynt yn dynesu at y fan lle yr oedd yn eistedd, ac heb dybio fod neb yn bresennol gyda hi, hi a doredd allan i ddywedyd, "O druain bach! yr ydych chwi yn greaduriaid dedwydd, dedwydd,—ni chroeshoeliasoch chwi Waredwr fel y gwneuthum i: da fuasai i Muckle Kate fod yn hwyanen fel chwi; canys ni fuasai ganddi un pechod i ateb drosto, un pechod, un pechod!" Er y dichon y geiriau hyn ymddangos yn ddisylwedd, y maent yn ddarluniad o deimladau llawer un, y rhai fel Kate, a ewyllysient fod yn gi neu gareg, fel na byddai un pechod iddynt ateb drosto. Yn y drydedd flwyddyn wedi ei hargyhoedd-iad, yr oedd Mr. Lauchlan yn dra awyddus am iddi gael cyfranogi o Swper yr Arglwydd, ac a'i taer gymhellodd i hyny; ond ni wnai er dim gyðsynio. "Yhi, nesu at y bwrdd sanctaidd hwnnw! Yhi, yr hon yr oedd ei brechiau wedi eu trochi hyd at yr ysgwyddau mewn gwaed Gwaredu! Buasai ei phresennoldeb yn halogi yr ordinhad fendifigedig, ac yn ddigon i lygru yr holl gynnuleidfa! Na, na, ni eisteddai hi byth wrth y bwrdd; nid oedd y cymundeb iddi hi!" Ond, pa fodd bynag, yr oedd gobeithion y gweinidog i'w cyflawni mewn modd na ddysgwylodd efe erioed am dano.

Daeth y Sabbath, nessodd amser y cyfarfod, ond yr oedd Kate yn parhau yn ddiysgog yn ei phenderfyniad. Cyfrenid yr ordinhad, fel y mae yn arferol ar y fath achlysur, yn yr awyr agored, yn nghanol bryniau gwylltio Lochcarron. Yr oedd yr ordinhad wedi ei gweinyddu, a'r elfenau wedi eu symud ymaith, a'r gweinidog wedi dychwelyd o'r babell, ac ar ddechreu ei anerchiad diweddaf, pan y clywid gwaedd o anobaith mewn rhan bellениg o'r gynnulleidfa, yr hon a atebid gan y creigiau cylchynol. Llais Muckle Kate oedd, yr hon a dybiodd fod pob peth drosodd, a'r cyfieusdra wedi ei golli am byth. Synwyd y dyrfa, neidiodd cannoedd ar eu traed, gan edrych yn awyddus tua'r fan a'r lle y daeth y llef: nid felly y gweinidog; yr oedd Mr. Lauchlan yn adnabod y llais yna, a gwyddai yn dda yr achos o hono. Heb ofyn gair, daeth i lawr o'r babell at y fan lle yr oedd Kate, a chan ei chymeryd erbyn ei llaw, fe'i harweiniodd drwy y dorf synedig at fwrrd y cymun, ac a'i rhoes i eistedd ei hun yn un pen iddo, ac a archodd ddwyn yn ol yr elfenau,

ac yno yr eisteddai Kate ddall ei hun yn unig, yn nghanol miloedd, yn cyfranogi o'r elfenau.

Dewisodd Mr Lauchlan y geiriau hyny fel testun ei anerchi .d., "Ni adewir ew'n yn ol :" *Exod.* x. 26 Ei bwnc oedd fod pawb ar a oedd wedi eu rhoddi mewn cymuned gan y Tad i'r Mab, mor ddiogel a pho baent eisoes yn y nefoedd, ac na chyfrgollir un enaid—na wneir, dim cymaint a Muckle Kate." Adnabyddid y gwasanaeth rhyfedd hwn wrth yr enw "Cymru-fwrdd Muckle Kate." a dywedir ddarfod i ddiam lli'i na *dau cant* o eneidiau gael eu deffroi i ofal a'm fater eu hensid drwy yr un anerchiad yma, yr hwe, mewn llawer o honyn, a addfedod i dduwiol eb dwys a gwirionedd. Bu Muckle Kate fyw tua thair blynedd ar ol ei chymundeb cyntaf, yn feddiannol ar "y tangnerefedd sydd uwchlaw pob deall." Bu farw yn fuddugoliaethus—Crist eedd oll yn oll. A thrw yr oedd eto yn sefyil ar drothwy tragwyddol ogoiant, cyn cau o'r porth yn hollol ar ei henaid prynedig, clywid ei thafod bloesg yn gwaeddi, fel ei hymgais ymadael o blaidd Crist, "Dyweddch, dywedwch i eraill ddarfod i mi ei gael Ef!"

Yr enwog Porson.

Yn oedd Porson unwaith yn yrdeithio mewn llog-gerbyd, pan yr oedd efrydydd ieuanc newydd ddyfod o Rydychain yn difyr y boneddiges u ag amrywieth o siarad, ac ymhlieth pethau eraill, a dyfyniad, fel y dywedai, o Sophocles, hen awdur. Dyfyniad Groeg, a hyny mewn cerbyd hefyd ! a ddeffrodd ein cadeirtraw (*professor*) o hanner cwsg, mewn congl ddirgei yn y cerbyd ; gan ysgwyd ei glustiau, a rhwbio ei lygaid, dwywedodd, "Yr wyf yn meddwl, foneddwr ieuanc, eich bod newydd ein ffafrio a dyfyniad o Sophocles : nid wyf yn dygwydd ei gofio." "O ! syr," meddai ein hymffrostiwr ieuanc, "mae y dyfyniad air am air fel yr adroddais ef, ac yn Sophocles hefyd : yr wyf yn tybied fod yspaid o amser er pan y daethoch o'r athrofa." Y cadeirtraw, gan rod i ei law yn ei gôb uchaf, a chymeryd allan argraffiad llogell bychan o Sophocles, a ofynodd iddo yn ddystaw a fyddai cystal a dangos iddo yr ymadrodd dan sylw yn y llyfr bychan hwn. Wedi iddo chwilio y dalenau am beth amser, fe atebodd, "Ar ail feddwl yr wyf yn cofio mai yn Euripides y mae" "Hwyrach ynte, syr," meddai'r cadeirtraw, gan roddi ei law yn ei logell eto, ac yn estyn iddo argraffiad tebyg o Euripides, "hwyrach, y bydd ach cystal a'i gael ef i mi yn y llyfr bychan hwn." Yna y trodd yr efrydydd eto at ei orchwyl, ond gyda diua mwy o lwyddiant, gan fwngial, pa fodd bynag, wrtho ei hun, "Bwth o'r fan yma, os dyfynaf Roeg mewn cerbyd eto." Yr oedd cilchwerthiniad y boneddigesau yn hysbysu iddo fyned i ddyrysni o'r diwedd. "Bobl bach, mor ddwi ydwyf ! yr wyf yn cofio yn berffaith mai yn *Aeschylus* y mae." Y cadeirtraw a drodd drachefn i'w logell anhysbyddadwy, ac yr oedd yn estyn *Aeschylus*, pan y crochwaeddodd yr efrydydd synedig, "Attaliwch y cerbyd !

Holo! cerbydwr, gollvngwch fi allan, mae yma ddyn a holl llyfrgell Bodleian (un o'r llyfrgelloedd mwyaf yn y deyrnas) yn ei logell. Gollyngwch fi allan, naill ai Porson yw neu'r cythraul!"

Y Pab.

NID ydym yn dëall fod Ewrop yn gyffredinel wedi amlygu y fath gyflwr o derfysg, annhoref, dvrswch, a gwendid, er ymdattodiad yr Ymherodraeth Orllewinol, a'r adeg bresennol. Y mae yn wir nad yw y parthau deheuol a gogledol, sef Yspaen a Scandinavia, ond wedi eu cynhyrfu yn ysgafn, hyd yn hyn, gan y ddaeargrbyn; ond y mae holl devrnasoedd canolbarth Ewrop "yn vmdroi ac yn ym-symud fel meddwyn, a'u holl ddoethineb wedi pallu." Y mae hyd yn nod y pab yn siglo, y mae ei afael yn meddyliad y cyffredin yn Itali wedi ei golli. Nid oes llawer er pan ddwywedwyd yn Florence fod y Pab Pius, wrth glywed y newyddion o Milan, "yn wylo yn chwerw dost."

Ar y ffraith hon y mae "Il popolare," cylchgrawn o Florence, mewn erthygl a ailagraffwyd yn ddiwedcar, ac a dlosbarthwyd wrth y miloedd yn Tuscany a Lombardy, yn sylwi fel hyn :—

Y mae y pab yn wylo! Wyla! y drwg gynghoredig archoffeiriad, wyla am dy ogoniant diflaniadig, a gyrhaeddwyd am bris mor isel, ac a gallwyd trwy aberth mor ddrudtwr o waed dynion, y rhai a addolasant ddyn gwag—delw o glai—cysgod o ddyn!

Wyla bab! wyla yn herwydd y cenedloedd a fradychaist—yn herwydd tynged Itali, yr hon nad allodd dy feddwl ofnog, llwfr, gorwael, ei chrafangu,—yn ymgysgodi o dan fantell grefyddol, yr hon y gallasech chwi ei helrhain i'w ffynnonell bur; ond yn y gwrthwynyb, yn ol hen arferiad dy hynafiaid, yr wyt yn ychwanegu ati dy gyfran dy hun o warth a llygredig-eth.

Wyla, O bab! Tydi anghrist byw, breninol—wyla dros dy anwyl gariadus Allmaeniaid, a chwyrndas! at benau eu lleiddiaid ger bron Milan falch, a Bologna anorhfygedig, chwyrndas! dy daranfoltau; nid oes ganddynt na phwysau na min!

Y mae y pab yn wylo! Wyla, O Iarll Mastai! Wyla, am nad yw y rhaglunieth yn ymddiriedaist ynddi yn caniatâu y canlyn-iadau yr amcanwyd yn nhynched Itali! O herwydd y mae yn eglur nad yw y rhaglunieth i'r hon y traddodaist ti dy bobl, yn arwyddo diun mwy na'n hen gynghreiryd, yr ymherodraeth—y barhaus ateg anffyddlon o Babaeth Simonaidd.

Oni ddarfu i ti ddorsi seddu y Tragywyddol, a gosod yn ei le y Forwyn, a'r rhai penaf o'r apostolion yn lle gweinidogion cyfrifol! Oni thraddodaist ti warchodaeth Rhufain i'r rhai hyn yn hytrach nag iddo Ef, gan obeithio, efallai, y byddai y llywyddiaeth ragddarbodawl hon yn y nef, fel y cyfryw ar y ddaear, yn wanach, ac yn llai gwyliadwrus na'r eiddo Duw y dial, y Duw ofnadwy, yr hwn sydd yn amddiffynwr i'r bobloedd, fel ag yr wyt tithau i freninoedd!

Wyla, wyla, O dad ! nid mwyach sanctaidd. Wyla, o herwydd fod dy drefniadau i ymattal rhag ymladd wedi cael eu trin fel anadl ysgafn, ac fel yr awel wag. Y mae dy drefniadau o uffffudd-dod dall i'r cyngreiriau gyda gelynion Itali, wedi diweddu yn nyfnder-oedd dystaw ac anffodus Vatican. Wyla, ti anwylddyn Loyola ! o herwydd os syrth, hyd yn nod canlynwyr rhyddid, drwy y cleddyf Allmaenaidd, ni chaiff canlynwyr Ignatius ddianc yn ddigerydd.

Wyla bab ! wyla ddagrau llordegid uwch ben y beddrod a gloddiaist i ti dy hun ! Wyla, o herwydd fe fydd Itali eto yn ffaith fawr a gogoneiddus, tra yr a y babaeth yn enw drewedig. Wyla, canys tra y mae Itali yn cyfodi yn fwy prydferth oddiwrth y pawl, i'r hon y condemniaist hi, y babaeth a sudda i lygriad a darfodiad yn nghanol bloeddiadau gorfoeddus cenedloedd rhyddion !

*Anerch at Athrawon a deiliaid yr Ysgol Sabbbothol perthynol
i bob enwad a phlaid o grefyddwyr trwy Gymru.*

ANWYL FRODYR A CHYFEILLION,

Yr wyf wedi teimlo awydd cryf ar fy meddwl i'ch cyfarch yn serchog, ar ddechreu blwyddyn newydd, a dyrchafu fy llais fel udgorn (pe gallwn), o Gaergybi i Gaerdydd, i'ch taer gymhell i ymuno a'n gilydd, fel cynghrair banerog, i ddyfod allan i'r maes mewn llawn arfogaeth, yn enw Arglwydd Dduw byddinoedd Israel, am y flwyddyn 1849, i bleidio ein chwaer ieuanc, y Gymdeithas Ddirwestol ; oblegid yr wyf yn canfod, er's tro bellach, fod ei byddin-oedd mewn amryw barthau o'n gwlad wedi eu gwasgaru, ac wedi llaesu dwylaw, ac amryw o honynyt yn hynod ddifygiol a digalon wrth weled cymaint yn troi eu cefnau yn nydd y frwydr : ac y mae y gelynion yn dechreu ymffrostio mai hwy sydd yn ennill tir, ac yn sicr o'r fuddygoliaeth, a'u bod yn dechreu cymeryd ieuencstyd y wlad wrth y degau, ac y cymerant flodau ein cenedl eto yn garcharorion, y rhwygant furiau Sion yn adwyau cydwastad a'r llawr, y deuant i mewn fel afon, ac y cwmpant wyr mawr eto yn Israel, ac y tynant gedynn o'u heisteddfan. Wele, fy anwyl frodyr a chyfeillion, nid yw yr ymffrost ofnadwy hon yn holol ddisail ganddynt, tra y parhao y fath ddifaterwch, a'r cysgadrwydd sydd yn ein gwlad, a'r diystyrwch ag sydd yn cael ei ddangos gan lawer y dyldiau enbyd hyn tuag at yr achos dirwestol, fel nad oes braidd un cyfarfed yn cael ei gynnal mewn blwyddyn, mewn rhai ardaloedd ; a'r lle y mae y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal, y mae amryw o'r rhai a welwyd bron ar y blaen gyda hwynt, ac a ddylai fod felly eto, yn eu hesgeuluso yn holol, a thrwy hynny yn achlysur i eraill eu hefelychu, ac o'r diwedd i ddychwelyd at eu hen arferion, ie, aml un o ieuencstyd prydferth ein gwlad, a olchwyd yn hardd oddiallan gan ddirwest, a welwyd yn dychwelyd fel y ci at ei chwydfa, a'r hwch wedi ei golchi i'w hymdreiglfa yn y dom !

Y mae ffrydiau y gwlybyroedd meddwol yn dechreu chwyddo dros eu glanau, ac y maent yn dechreu ysgubo ymaith rai o'n brod yr a'n cyfeillion o wersyll y saint yn barod : ac O ! gynnifer o ddeiliaid

yr Ysgolion Sabbathol sydd yn cael eu cymeryd ymaith gyda'r lli, o'r naill gw'r i'n teyrnas i'r llall, nes disgyn dros glogwyni rhyfyg i'r carcharau, i'r gwallgofdai, a phob math o drueni yn y bywyd hwn; ac O! gymaint o honynnt sydd yn disgyn bob blwyddyn dros y geulau i'r pwll diwaelod, y llyn syd yn llosgi o ddn a brwmstan. Wele, pwy gan hyny a gyfyd gyda ni yn eibyn y rhai drygionus, ac i waredu y rhai a lusgir i angeu? Ai difater genym eu colli hwyt, ac ar ein llaw cu gwaredu? Nid oes dim a ddyfeisiodd y gelyn erioed yn gwrthdaro cymaint yn erbyn llwyddiant yr Ysgol Sabbathol, ac yn gwrthweithio llafur ac ymdrechiau ffyddlawn ei hathrawon, ag yw yr ymarferiad a'r gwlybyroedd meddwol. Y mae yr haneson canlynol yn profi hyn yn anlwg. Dywed Mr. Smithies, iddo ymweled yn ddiweddar a charchar (*York Castle*), ac yn un o'i gelloedd, "cyfarfum," medd efe, "a 14 o ddrwg-weithredwyr condemniedig, a'r rhan fwyaf o honynnt dan ugain oed; ac wrth eu holi, er fy mawr syndod, canfum fod 13 o'r 14 yn ysgolæigion yr Ysgol Sabbathol, ac addefodd 10 o honynnt iddynt gyflawni y troseiddau a'u dygodd yno dan effeithiau y gwlybyroedd meddwol." Effeithiodd hyn yn ddwys ar fy meddwl, fel ysgrifenydd yr Ysgol Sabbathol, i ystyried ei bod yn ddyledswydd arbenig arnaf gymhell yn daer ar yr ieuencyd i fabwysiadu yr egwyddor ddirwestol. Fe ddywed Mr. Thomas Cramp, arolygwyr Ysgol Sabbathol capel Sion, East Grimstead, ei fod wedi bod yn dysgu dosbarth Biblau am bymtheng mlynedd, ei fod wedi gwneuthur ymchwiliad i ymarferiadau 46 a fu dan addysg gando yn nghorff hyn y amser, ac a oddynt wedi ymadael âg ef, gyda golwg ar gymedroldeb, yn y saith mlynedd gynt, a chefais eu bod fel y canlyu:—

13 yn feddwon.

9 yn feddwon achlysuol (neu yn meddwi ar achlysuron).

19 yn meddu cymeriad sobr.

5 yn anadnabyddus.

Gwnaeth yr un gwr ymholiad drachefn yn mhen y saith mlynedd, sef y flwyddyn 1847, a chafodd cf fel y canlyn:—

10 yn feddwon.

5 yn feddwan achlysuol.

17 o gymeriad sobr.

7 wedi marw.

7 yn anadnabyddus.

Ac o'r saith a fuont feirw, y mae pump wedi meirw trwy yfed yn anghymedrol, ac o'r pump hyn yr oedd dau frawd, y rhai a fuont feirw yn y *poorhouse*; a'r ieuangaf, yr hwn a fu y bachgen mwyafr gobeithiol yr olwg arno o neb yn yr ysgol, a ddybenodd ei oes trwy ymgrogi!

Y mae Mr. Smith, llywodraethwr cyfrifol carchar Edinburgh, yn hysbysu fod, o'r 171 carcharorion ieuainc, y bu ef yn edrych i mewn i'w hachos, fod 121 wedi bod yn perthyn i'r Ysgol Sabbathol. Mewn adroddiad diweddgar a ddarllenwyd ger bron cyfarfod perthynol i Gymdeithas Ddirwestol Ysgol Sabbathol Pilkington, gerllaw Manchester, hysbysir fod un o'r cyfeisteddwyr, er mwyn cael gwylod pa gan belled yr oedd anghymedroldeb yn myned ymlaen yn mysg deiliaid yr Ysgol Sabbathol, wedi gwneuthur ymchwiliad i

wyth dosbarth Biblaidd, yn cynnwys oll 81 o fechgyn, a chafodd allan fod un o bob tri o honynt wedi bod yn feddw. Hysbysir i ni o le arall, am 100 oedd wedi bod yn perthyn i Ysgol Sabbothol, a'u bod wedi cael allan hanes cywir am 65 o honynt, ac o'r nifer hyny fod 38 yn fedd-won sefydlog, a bod 5 wedi eu halltudio o honynt, a bod 1 wedi lladd ei fam, a'r lleill yn fedd-won ar achlysuron, a dim ond 2 o'r nifer a nodwyd wedi ymuno âg eglwys Dduw! Mewn pentref arall, pum milltir o Lundain, lle y mae Ysgol Sabbothol yn cynnwys 130, y mae 71 o honynt yn fedd-won cyhoeddus, a dim ond 7 yn byw yn ddirwestol. Ond heblaw fod meddwdod yn llygru deiliaid yr Ysgol Sabbothol i raddau dychrynllyd trwy ein teyrnas, beth am y miloedd, anwyl frodyr, sydd yn cael eu cadw yn holol o'r Ysgolion Sabbothol o herwydd meddwdod eu rhieni? Hysbysir i ni fed yn nghymydogaeth Llundain yn unig, ddim llai na 30,000 o'r crwydriaid truenus hyn, yn cael eu dwyn i fynu o'u mebyd mewn amddifadrwydd holol o bob manteision crefyddol, a'u harfer i gardoda, lladrata, a'u dysgu i gyflawni pob math o ddrygau; ac y mae y rhai hyn, fel y tyfond i oedran, yn debyg o gynnrychu miloedd eto o rai cyffelyb iddynt eu hunain, oddieithr iddynt gael eu dwyn dan iau y Gymdeithas Ddirwestol, a'u hymgeleddu a'u hyfforddi ganddi yn mhen eu ffydd.

Wele, fy anwyl frodyr, a'm cyfeillion, onid yw hyn, ynghyd a llawer yn ychwaneg o anghreiftiau a ellid nodi, yn galw yn uchel arnom i gydymarfogi, fel athrawon a deiliaid yr Ysgolion Sabbothol, ac ymgynghreirio fel un fyddin fawr, a dyfod a'n lluoedd allan i'r maes, yn bleidwyr calonog i ddirwest, yn erbyn byddinoedd estronol, creulawn, a dinystriol y gwlybyroedd meddwol? Y mae cynhyrfaid ardderchog at hyn wedi cymeryd lle ymhliith athrawon yr Ysgol Sabbothol yn Lloegr. Cyfarfu cannoedd o honynt ychydig amser yn ol yn Newcastle-upon-Tyne, a chynnaliasant gyfarfodydd ar yr achos am dri diwrnod, i ystyried pa fodd i gael hyn i ben, sef i gael athrawon a deiliaid yr Ysgolion Sabbothol i fabwsiadu yr eglwyddor ddirwestol. Yr athrawon ymgynnulledig ar yr achos hwn oedd ynt yn cynnrychioli 12,000 o ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol, a diammhau yr etyb y cyfarfod hwn ddybenion gogoneiddus, ac y bydd yn foddion i ychwanegu myrddiynau o ddeiliaid ein hysgolion trwy Loegr ac Ysgotland at fyddin dirwest. Y mae y tan sanctaidd hwn wedi ennyn yn barod mewn lliaws o fanau, a channoedd o'r ieuencyd wedi ardystio.

Wele, fy mrodyr, a gaiff y Saeson a'r Ysgotiaid ddeffroi, paratoi eu byddinoedd, a dyfod i'r maes, a ninnau yn cysgu? Na ato Duw; ond deuwn allan gyda hwynt fel un gwr, yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn. Y mae genym bob calonid i ddyfod allan yn wrol ac egniol, y dyddiau hyn; y mae nlynnyddoedd o rwystrau oedd ar ffordd llwyddiant gwaith ac achos Mab Duw, yn cael eu treiglo megys i ganol y môr, a theyrnas y bwystfil yn crynu o'i sylfeini. Wele pan glywech drwst yn mrig y morwydd, ymeginia. Y mae rhyw drwst newydd hefyd i'w glywed mewn rhai o'n trefydd a'n cymydogaethau yn

Nghymru gyda'r achos Dirwestol y tymmor hwn, rhagor a glywyd er's rhai blyneddau: a mwy na hyny, y mae mwy o arwyddion achub mewn rhai ardaloedd y dyddiau hyn nag a welwyd ers amser maith, fel y mae ugeiniau wedi cael eu chwanegu at yr eglwys i mewn ychydig wythnosau; bydded i ni gan hyny ymeginio i barotoi ffordd yr Arglwydd, ac unioni llwybr ein Duw ni yn y diffeithwch. Beth pe ceid holl athrawon yr Ysgolion Sabbathol trwy y deyrnas, sef dau cant a hanner o filoedd, ynghyda'r ddwy filiwn o ysgoléigion sydd o dan eu gofal, i'r maes yn ffyddlawn o blaid dirwest am un fiwyddyn, dan faner Tywysog llu yr Arglwydd; byddai ein harfau yn nerthol trwy Dduw i fwrw holl gestyll y fasnach feddwol i'r llawr. Yr wylf yn cofio yn dda am fuddygoliaethau enwog yr Ysgol Sabbathol er's hanner can' mlynedd yn ol, ar brif lygredigaethau yr oes, megys chwareu ceulys, a chicio y bel droed ar y Sabbathau; ylliaws gwylmabsantau. Hi a ddyrnodd y mynyddoedd criog hyn fel mwlwg i'r llawr, a diammheu genyf os daw hi a'i byddinoedd eto yn ffyddlawn i'r maes, yn erbyn prif lygredigaeth yr oes hon, y gellir dyweyd am dano, "Pwy wyt ti, y mynydd mawr; ger bron Zorobabel y byddi yn wastadedd."

Fy anwyl gariadus frodry, a chyfeillion oll, myfi a fum ieuanc, ac yr ydwyf yn hen, ac yn ystyried hon megys blwyddyn y Jubili, er pan yr ymunais a byddin yr Ysgol Sabbathol, ac y mae eiddigedd ar fy nghalon gael un trwydr egniol, nes ennill un o'r buddygoliaethau mwyaf enwog a gafwyd yn ein hoes, ar brif orthrymwr ein cenedl, a'r rhwystr penaf ar ffordd llwyddiant yr efengyl yn ein gwlad.

Yr wylf yn credu yn holol pe yr ymosodem yn ffyddlawn ac egniol, fel hyn, ac ymdrechu mewn modd hynaws, addfwyn ac amyneddgar, i gael yr holl athrawon yn ddirwestwyr, ac iddynt hwythau yr un modd, gael eu holl ysgoléigion i fabwysiadu yr un egwyddor, a'n gweddi ar Dduw am ei wyneb gyda ni, y llwyddem yn fuan i gael pen yr henelyn sydd yn gwaradwyddo byddinoedd y Duw byw i'r lawr, ac y gwasgerid yr hen Philistiaid eraill o bechodau, sydd yn ei ddilyn: ac yn y caulyniad y caem weled tyrfaoedd mawrion a'u hwynebau tua Sion, nes byddai yr un yn fil, a'r wael yn geneil gref: ac y caem eto glywed sain can a moliant yn ein gwlad, megys yn y dyddiau gynt, nid yn unig am i Ddirwest ei golchi a'i glanhau megys i bureiddiad y cnawd, a'i dwyn i'w dillad a'i hiawn bwyll: ond yn benaf am waed y groes sydd yn glanhau oddiwrth bob pecholi, ac am gael ein gwisgo a newid dillad, a chael y wisg oreu yn lle y bratiau budron. Iddo Ef, y hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun; Iddo ef y byddo y gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

ATHRAW.

Cyngor Iachusol.

GWESEND yr hyglod Dr. Darwin gymaint gan argyhoeddiad o'r anghenrheidrwydd am awyr dda, fel, gan ei fod yn dra phoblogaidd

yn nhref Derby, unwaith ar ddiwrnod marchnad, esgynai i ben twrnel (*tub*) a chyfarchai y dorf a'i gwrandoawai fel hyn :—“ Chwi wyr Derby, gyd-ddinas syddion, gwrandoewch arnaf ! Gwn eich bod yn grefiwyd colfydd a diwyd. Trwy eich ymdrechiadau yr ydych yn ennill i chwi eich hunain a'ch teuluedd anghenheidiau bywyd ; ond os collwch eich iechyd, rhaid i'r gallu o fod o ddefnydd iddynt ddarfod. Yr ydych oll yn gwybod y gwirionedd hwn ; ond mae arnaf ofn fod rhai o honoch heb ddeall pa fodd y cynnelir iechyd mewn nerth : mae hyn, ynte, yn ymddibynu ar eich bod yn anadlu awyr lân, o berwydd, dinystri purdeb yr awyr lle yr ymgasgl llawer ynghyd ; mae y chwysdarth oddiwrth y corff yn ei lygru. Cedwch ffenestri eich gweithdai yn agored, a chyn gynted ag y codwch, agorwch y ffenestri eich hun-dai. Byddwch yn sicr y gwna esgeulusdod y cyngor hwn ddwyn clefydau arnoch eich hunain, a magu y *typhus fever* yn eich plith, yr hon nid yw ond enw arall am y dwymyn fraenol (*putrid fever*) yr hon a ysguba ymaith eich gwragedd a'ch plant. Gadewch i mi adrodd fy nghyngor difrifol unwaith eto—*agorwch eich ffenestri i ollwng i mewn yr awyr bur*, o leiaf unwaith yn y dydd. Cofiwch yr hyn wyf yn ei ddywed yd, yr wyf yn llesfaru yn awr heb wobr, ac ni allaf gael un elw arall ond eich lles oddiwrth fy nghyngor.”

Cwyn Joseph.

Yn nhymmr gorhoenus fy ie'ntid,
 Cyn cilai plentyndra fy ngwedd,
 Canlynais fy mrodyr bradwras,
 Yn serchus heb ddysgwyl ond hedd,
 I feusydd bro Sichem lle gwylient
 Eu praid tra y porent heb fraw ;
 'Fi 'n ddidwyl, fel meddwl mawn mehyd,
 A mwyn fel yr wŷn ger fy llaw.

Rhyw ddydd pan dan gysgod y pa'mwydd,
 Mewn gweddi am nawdd Duw fy nhad,
 Yn rhuthrawl fy mrodyr a'm dalient,
 (Dychrynaf wrth gofio eu brâd ;)
 I bydew oer erchyll y'm taflywd,
 Yn rhys eu cefogen a'u llid,
 I'w hattal 'doedd genyf ond dagrâu,
 Fy ie'ntid diniwed a'm gwrid.

Ond cyn i ffun einioes lwyd gilio,
 Codasant fi eilwaith o'm cell,
 I'm gwerthu yn gaethwas, a'm hymlid
 O'm cartref, a'm ceraint yn mhell ;
 Tra bwrient fy ngwerth yn ddibryder,
 Tra rhanent wael elw eu bai,
 Gresynais—ystyriaus fy rhiant,
 Ow ! cofnais y gofid a gai !

"Promised Land."

B'LE mae nawr y proffwyd Daniel ?
 Fry yn y nefol fro,
 Aeth heb frath, trwy fiau y llewod,
 Fry i'r ddedwyddol fro.

B'le mae 'r hynod sant Elias ?
 Fry yn y nefol fro,
 Esgyn wnaeth mewn cerbyd tanllyd,
 Fry i'r ddedwyddol fro.

B'le mae 'r tri su 'n gwadu'r ddelw ?
 Fry yn y nefol fro,
 Aethant drwy y fwrmes filamllyd,
 Fry i'r ddedwyddol fro.

B'le mae Apostolion Iesu ?
 Fry yn y nefol fro,
 Hwy dreiddiasant drwy orthrymder
 Fry i'r ddedwyddol fro.

Iesu 'n awr sy 'n eiriol drosom
 Fry yn y nefol fro,
 Dysgwyl 'rym, ryw ddydd, ei ddilyn
 Fry i'r ddedwyddol fro.

Yno mae holl lu 'r Merthyri,
 Fry yn y nefol fro,
 Ninnau ganwn "Haleluia,"
 Pan aww i'r nefol fro.

Caer——n.

Cym. C.

Y Bibl.

Bibl Sanctaidd ! boed mewn bri !
 Gwerthfawr ddawn y nef i mi :
 Dysgi im' am grëad dyn,
 A dangosi im' fy llun :

F' eiddo wyt,—cyfrwyddi'm traed,
 Traethi'm rhwymau a'm rhyddhâd
 F' eiddo i ddangos cariad Crist,
 A fy nol o'm pelder trist.

Bibl Sanctaidd, boed mewn bri,
 Gwerthfawr ddawn y nef i mi.

Bibl Sanctaidd, boed mewn bri,
 Gwerthfawr ddawn y nef i mi.

D'weyd yr wyt am nefoedd wen,
 Am y llid tu draw i'r llen ;
 A pha fodd trwy sywiol ffydd,
 Caf orchifygu angeu prudd.
 Bibl Sanctaidd, boed mewn bri,
 Gwerthfawr ddawn y nef i mi.

Caer——n.

Cym. C.

*Darllen mewn amser ac allan o amser.***HYNAWS OLYGWYR,**

WRTH deithio llawer hyd Gymru, a gweled nifer mawr o'i chynnnull-eidfaedd crefyddol, mae un peth wedi fy nharo yn fawr fel arwydd nad ydyw ysbryd darllen ac ymchwilio wedi cymeryd gafael ond mewn ychydig iawn eto o'n cydwladwyr ; a hyn ydyw y niferoedd mawr fydd yn sefyll o gwmpas drysau y capelydd am chwarter neu hanner awr cyn dechreu y moddion, neu i aros y pregethwr. Onid gwell o lawer fyddai iddynt gario Bibl neu ryw lyfr crefyddol gyda hwyt, a myned i'r capel a darllen iddynt eu hunain, ac onid hyn a wnaent pe byddent wedi dwsgu gwerthfawrogi amser, ac wedi meithrin ychydig o ysbryd darllen. Gwelir ambell un yn rhoi gwerth ar ychydig o fynydau fel hyn ; ond hyd eithaf fy sylwad i, y maent yn anaml iawn, ac wrth geisio galwi gof yr esiamplau o hynny a dynodd fy sylw mewn gwabanol fanau, nis gallaf gofio fy mod wedi sylwi fawr erioed ar ddyn ieuanc yn prynu yr amser yn y modd hyn.

Mae hyn yn ymddangos i mi fel prawf lled eglur, mai nid yn fynych iawn y cyfarfyddir â'r dynion ieuaine hynny a all ddyweyd, "Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th far nedigaethau bob amser," ac mai ychydig mewn cymhariaeth sydd wedi gweled cymaint o werth mewn amser, nes achub ei fynydau, ei adraniaidau lleiaf, ei gornelau, mewys. Mae y bachgen neu y dyn sydd yn gosod gwerth ar amser, yn debyg i'r bobl sydd yn

chwilio am aur yn ngwaelod afonydd ac aberoedd Afrika, lle nad ydyw i'w gael ond mewn gronynau bychain yn gymsgedig â'r graian. Rhaid peidio diystyr u y gronyn lleiaf, onidâ ni ches, lir byth gyfoeth. Os gwastraffa y bachgen chwarter awr, wrth fyned o'r ty i'r capel, neu wrth ddrws y capel, nid yw ar y ffordd i gasglu cyfoeth gwybodaeth. Onid wrth achub ychydig o fynydau pan y ceir hwynt, ac nid wrth aros am awr, na hanner, na chwarter, ar eu hyd, y mae pawb sydd yn trysoni doeth-meb a dêall, yn gwneyd. Ydwyt yr eiddoch,

P.

Y Banc Cynnifo.

MAE gan y Saeson lawer o achosion i fod yn ddiolchgar, yn gyaint nad oes yr un wlad mae'n debyg trwy'r byd, yn mha un y gall llaw-gelf-yddydwyr a llafurwyr ieuanc sohr a diwyd ddyrchafu eu hunain i es-mwyhdra, ac mewn cymhariseth i annibyniaeth a chysur, yn gynt nag yn Lloegr. I lawer o esiamplau mewn bywyd a ellid eu dwyn ymlaen yn brawf o hyn; eto efa lai yr atebir ein hamcan presennol yn well trwy osod ger bron helynt un, yr hwn, wedi colli ei dad a'i fam pan oedd yn ieuanc, oedd yn ddyledus am y ddyseidiaeth a gyrhaeddodd i gymwyn-aswr. Yn yspaid ei brentisiaeth ni ennillodd fawr heblaw arferion o ddiwydrwydd. Yn yspaid saith mlynedd ei brentisiaeth, syrthiodd ei feistr o sefyllfa anrhyydeddus i un dlawd a distadl; yr oedd hyny i'w briodoli i'w waith yn cymeryd y gwyriad, ac yna ddau, tri, pedwar ac felly yn el flaen; nes o'r diwedd, trwy gamrau braidd anghanfyddadwy, yr esgeuluswyd ei gelyfddyd a'i deulu tra yr ymgasyltai ef a'i gyfeillion yn y dafarn. Ond na fydded i ni aros gyda'r darlun gresynol hwn. Ar ddiweddiad ei unfed-flwydd-ar-hugain, ymrwymodd ein bachgen amddifad mewn lle yn mha un yr oedd yn derbyn 15s. yr wythnos o gyflog; 8s. o ba rai a ddefnyddiai tuag at vmborth a llety, a 2s. tuag at ddillad ac ychydig o lyfrau buddiol, er gloewi yr hyn a ddisgasai yn yr ysgol ddyddiol. Wedi ei rybuddio trwy siampi ei ddiweddar feistr, efe a ymgadwai rhag y dafarn, a thrwy ei ymddygiad sefydlog ennillodd yn fuan ymddiried ei feistr, yr hwn, yn niwedd y flwyddyn gyntaf, a gyfododd ei gyflog i 21s. yr wythnos. Tua diwedd yr ail flwyddyn yr oedd ganddo yn ei feddiant dros 40p.; rhoddai yn nghadw yn yr ariandy 5s. yr wythnos yn rheolaidd y flwyddyn gyntaf, wr hyn a ddenai i 13p.; yn yr ail flwyddyn rhoddai yn ngadw 11s. yr wythnos, wr hyn oedd 28p. 12s. yn fwy. Nid oes anghenrheidrwydd arno'n i'w ddilyn, gam a cham, yn ei yrfa sefydlog eto yn un gynnyddol. Yn awr y mae wedi bod am bedair ar-bymtheg o flyneddau yn ei sefyllfa bresennol; y deg mlynedd diweddas, bu yn ben gweithiwr, â'i gyflog yn 30s yr wythnos. Deuddeg mlynedd yn ol ym-briododd a dynes ieuanc rinweddol; ac y mae ganddo yn awr chwech o blant. Mae y ty yn yr hwn y mae yn preswylio yn ei feddiant ef ei hun; yn gysylltiedig â'r ty y mae i ardd dda, ac ysnotyn prydferth a ffrwyth-lawn ydyw; y mae yn gwasanaethu fel lle rhagorol i'r plant i chwareu. Nid oedd gan y fam unrhyw waddol heblaw li ei hunan. Mae yn wir, ei bod wedi bod yn gwasanethu am rai blyneddau mewn teulu parchus, yn mha le yr oedd yn cael cyflog da; ond yr oedd yr hyn a aliasai ei hebgor yn cael ei neillduo tuag at gynnaliaeth ei mam, yr hon oedd lesg, yr hon, wedi iddi briodi a ddygwyd i dy ei gwr, yn mha le y mae pryd-nhawn ei hoes yn cael ei wneuthur yn gysurus. Pa fodd, meddwch, y gallodd dyn tua deugain mlwydd oed, yr hwn na chafodd ddim i ymddibynu arno ond ei lasfur—yr hwn y mae ganddo wraig, a chwech o blant, a

chwegr yr hon sydd lesg, i'w cynnal—prynu dernyn o dir, adeiliadu ty amo, a'i ddodrefn yu dda, a chanddo yn y diwedd uwchlaw 200p. ar lôg? gwas ydodd yu barhaus, a gwas ydyw eto. Wel, gadewch i ni edrych os gallwn gael allan pa fodd y mae. Yn y lle cyntaf (a pha un wedi'r cyfan ydyw y prif bwynt) ni warai ddim yu y dafarn; efe a gynnailai yr arian ag y mae llawer yn waeth na'i wario yno.

Pan yr oedd yn dair-ar-hugain oed, yr ydym yn canfod fod ganddo yn yr ariandy wedi eu cynnilo 40p.

Pan yn 24oed y mae ganddo 70p.

25	-	-	-	102
26	-	-	-	135
27	-	-	-	170
28	-	-	-	206

Yn awr mae 'n priodi ac yn gwario am ddodrefn 40p. yr hyn sydd yn tynu yr hyn oedd ganddo ar lôg i lawr i 166p.; ond y mae ei gyflog yn awr wedi ei godi i 20s. ac y mae ei drau wedi cynnyddu i 20s. yr wythnos; ei gynnaliad o 5s. ynghyda llôg mewn blwyddyn, a ddeuenit i 21p. yr hyn wedi eu hychwanegu at 166p. sydd yn gwneyd i fynu 187p. pan y mae yn naw-ar-ugain oed.

Pan yn ddeg-ar-hugain oed, mae ganddo 210p. Mae ei gyflog yn awr yn 30s., mae yn cynnilo yn awr 10s. a'r llôg. Mae ganddo yn awr pan yn un-ar-ddeg-ar-hugain oed 247p.

Pan yn ddeuddeg-ar-hugain oed, mae ganddo 286p.; y mae yn prynu dernyn o dir am 100p.; yn gwario 100p. wrth adeiladu ei annedd-dy, fel y mae yn tynu yr arian oedd ganddo i 36p.; yn cynnilo ei ddeg swilt yn yr wythnos, a llôg 36p.—27p. 16s.; yn gwneyd i fynu 63p. 16s. pan yn dair-ar-ddeg-ar-hugain oed.

Pan yn 34 oed mae ganddo 93p.

35	-	-	-	-	123
36	-	-	-	-	155
37	-	-	-	-	181
38	-	-	-	-	207

Y mae yn gwario y llôg, ac yn cynnilo deg swilt yr wythnos.

Pan yn 39 oed mae ganddo 233p.

40	-	-	-	-	259
----	---	---	---	---	-----

Yn ychwanegol at ei dy a'r ardd.

Y Parch. Baptist Noel.

Mae y gweinidog duwiol, doniol, a phoblogaidd hwn wedi ymadael âg Eglwys Loegr, o berwydd ei pherthynas â'r llywodraeth. Yn niweddi ei bregeth olaf i'w gynnwileidfa, te ddywedodd, "Os oes rhyw un yn gofyn paham yr ydwyf yn ymadael âg Eglwys Loegr, yr wylf yn ateb, am fod y iath beth a gwirionedd, a'r fath beth a chydwybod i eistedd mewn barn a, y gwirionedd, a phenderfyniad diyslog trwy ras Duw i lynu wrth y gwirionedd." Y mae wedi arwyddo y bydd iddo gyhoeddi llyfr yn fuan yn cynnwys rhesymau i gyflawnhau ei ymadaawiad. Dyrnod drom i'r hen fam ydyw colli y dyn goreu a feddai, a hyny o herwydd ei pherthynas gwladwriaethol.

Mariwolaethau trwy Fyriad.

MEWN llong o'r enw *Londonderry*, oedd yn cychwyn môrdaith o'r Iwerddon i America, bu farw deg-a-thriugain yu y modd mwyafr poenus y gellir dychymygu am dano bron. Cyfododd y storm, gyrryd pawb oedd ar fwrdd y llestr i lawr i'r hold, tua chant a hanner o honynyt, lle nad oedd mor o

iddynt braidd symud gan dyndra rhoddwyd y pyglen i orchuddio yr agorfa fel nad allai neb o honynyt ddyfod i fynu. Y canlyniad fu fod deg-a-thriugain o honynyt wedi mygu.

Llofruddiaeth Arswydlawn.

Yn Stanfield Hall, yn agos i Norwich, aeth dyn i mewn i'r iâ tua'r prydnaeon, yr oedd mwsgwd ar ei wyneb, a dau *bistol* gaundo, un yn mhob llaw, ac a saethodd y gŵr, Mr. Jeremy, yn farw, ac hefyd y mab: saethodd hefyd y wraig foneddig ac un o'i morwynion; ond dywedir fod y ddwy olaf yn gwellhau yn raddol. Dyn o'r enw Rush, ffermwyr cyfagos, a ddrwg dybir yn euog o'r weithred ofnadwy, o herwydd rhyw anghytundeb sydd wedi bod rhyngddo a Mr. Jeremy, ieuaf. Y mae Rush wedi bod dan amryw brawfholiadau, heb ddyfod eto i un penderfyniad.

Y Pab.

Mae y pab a'r nifer fwyaf o'i gardinaliaid wedi gorsod flio i Rufaini Dywedir ei fod ar ei ffordd i Ffrainc, ond y mae hyn yn ammheusus. N wvddys yn iawn paham y mae: "Ei Sancteiddrwydd" wedi flio, ond tybir nad allasai wrthsefyll yn hwy gynnydd egwyddorion rhydd; a chan na synai roddi ei gymeradwyaeth iddynt, dyma'r cam a gymerwyd.

Ymherawdwr Austria.

Y MAZ wedi rhoddi i fynu ei hawl i'r orsedd i'w nai. Fe ssodd ddwywaith o'i brif ddinas, Vienna, y flwyddyn ddiweddaaf. O'r diwedd y mae wedi gweled fod achosion ei ymherodraeth wedi syrthio i ddyryswn anadferadwy, heb rhyw gyfnewidiadau mawrion o blaid rhyddid a chyflawnder. Ond tybiodd fod dyn ieuangach, ac o duedd filwrol, yn debycach nag efe i sefyli dros ormes a chaethiwed, ac i wrthsefyll y cyfnewidiadau anghenrheidiol.

Prussia.

Y MAZ y cyfnewidiad hanfodol wedi cymeryd lle yn y llywodraeth. Mae y brenin wedi ei orfodi o'r diwedd i gydsynio â chais y bobl i ganiatau cyfansoddiad rhydd iddynt. Mae rhyddid y waag, rhyddid i gynnal cyfarfodydd pleidlais cyffredinol, rhyddid i bob credoau ac enwadau crefyddol, diddymiad rhagorfreintiau mawrion y wlad, wedi eu cyhoeddi. Mae dau dy seneddol wedi eu sefydlu yn lle un, heb unc ymhwyder arianol i fod yn aelod o'r ty isaf.

Yspain.

MAZ brenines y wlad hon wedi gorchymyn gweddïau cyhoeddus i fod yn yn yr holl eglwysi auri dri diwrnod yn olynol, am i'r Arglywydd roddi terfyn ar drallodau yr Eglwys Babaidd, ac yn enwedig ar ddyoddefiadau ei phen cyffredinol. Y mae'r Pabyddion yn yr Iwerddon hefyd yn gwedlo drosto.

Ffrainc.

Ea nad yw yn holol hysbys eto pwyl sydd wedi ei ethol i fod yn llywydd yu y wlad hon: ond yn o! pob tebygolwydd, Louis Napoleon, nai Napoleon Bonaparte, gaiff yr anrhyydedd. Fe fydd hyn eto yu sicr o dafli holl amgylchiadau Ffrainc i ddyryswn, cyn waethed, se ddichon, os nad yn waeth nag erioed.

Y GEINIOGWERTH.

Dechreuad Methodistiaeth yn y Bala.

[YN y "Traethodydd" am Ionawr, y mae hanes tra difyr ac adeiladol am y patriarch John Evans, o'r Bala. Ei waith ef yw y cronicl canlynol. Cawsom ef mewn hen lyfr, yn ei law-ysgrifen ei hun.]

1740. Yn y flwyddyn o oedran ein Harglwydd, 1740, ryw bryd yn mis Mawrth, yn amser y rhew mawr, y daeth Mr. Howell Harris (gŵr o le a elwir Trefeca, yn agos i Dalgarth, yn Sir Frycheiniog yn gyntaf i Lanuwchlyn, yn Sir Feirionydd, i bregethu; ac a safodd i fynu wrth gefn tŷ un Ellis Owen, yn y llan, lle yr oedd cynnull-eidfa fawr wedi dyfod ynghyd i wrandaw arno. Y dydd nesaf, efe a aeth i waered i dref y Bala; a safodd i fynu i bregethu wrth dalcen y Ty Marchnad (neu yr Hall;) a chynnulloedd llawer o bobl y dref a'r wlad i wrandaw arno. Bu pawb yn dra llonydd tra parhaodd i bregethu, a serchog a charedig iddo wedi ei ddarfod; a chafodd ddychwel y tro hyn i'w wlad ei hun mewn heddwch.

Dyma yr amser cyntaf y pregethwyd gan neb o'r Methodistiaid yn Llanuwchlyn na'r Bala, nac un man arall yn Sir Feirionydd. Mae lle i feddwl i Dduw arddel hyn o ddechreuad: mae rhai yn fyw yn awr sydd yn cyfrif amser eu troedigaeth oddiwrth y pryd hyn.

1740. Yr ail tro y daeth Mr Harris i'r Bala i bregethu, oedd yn yr haf y flwyddyn hon. Fe safodd i bregethu wrth y Ty Marchnad fel y tro cyntaf; ond ni chafodd mo'r crystal llonydd. Ymgynhyrfa odd rhai ychydig yn ei erbyn. Ymwyaf cynhyrfus oedd un Charles Evans, gŵr oedd yn byw mewn tŷ yn y dref a elwid *White Lion*. Hwn a fynai ei dynu ef i lawr oddiar y lle y safai arno i bregethu; ond eraill o dymherau mwy gweddaidd a'i hattaliasant rhag gwneuthur fally.

1740. Cyn diwedd y flwyddyn hon, tua'r gauaf, pa fis nis gwyddis, y daeth y Parchedig Mr. Daniel Rowland, cura'd Llangeitho, yn sir Aberteifi, i gynnyg pregethu yn Eglwys Llanuwchlyn. Wedi iddo fyned i mewn i'r eglwys trwy genad y Wardeniaid, ac eraill o'r plwyfolion, a dechreu canu Salm a gweddio, daeth person y plwyf, a Mr. Rowland Lloyd o'r Bala, ac a derfysgasant y gynnulleidfa, ac a rwystrasant iddo bregethu. Canasant y gloch hefyd er mwyn gwneuthur yn twy y terfysg; fel y gorfu ar y gŵr enwog hwn droi ei gefn a myned i'w ffordd heb pregethu, er mawr ofid i lawer iawn o'r gynnulleidfa, a chywilydd i'r gwrthwynebwyr.

1741. Yn mis Ionawr yn y flwyddyn 1741, ar nos Lun, y 19eg o'r mis, y daeth Mr. Howell Harris i blwyf Llanuwchlyn, ac a bregethodd yn *Nant y deiliau*. Dydd Mawrth y boreu, yr 20fed, daeth i'r Bala ar fedr pregethu. Yr oedd llawer hefyd yno wedi ymgynnll yn nhŷ un Catherine Edward, a'i gyfer y tŷ mawr a elwir y *Bull*, ar hyder gwrando arno. Ond un Mr. Robert Jones, yr

hwn oedd y pryd hyn yn Berson plwyf Llanycil, a brawd iddo a elwid Andrew Jones, a roddasant er y nos o'r blaen ryddid i bawb o wyr y plwyfi ddyfod ynghyd y boreu dydd Mawrth hwnwi Lanycil. Llawer iawn o wyr y plwyf a ddaethant; ac oedd ynt, wedi eu dyfod oll ynghyd, yn dyrfa fawr. O'r llan, yr hon sydd ynghylch milldir fesur oddiwrth y dref, arweiniodd y Person hwynt, fel blaenor llu yn arwain ei fyddin, i'r dref, i wrthwynebu Mr. Harris, ac i rwystro iddo bregethu. Yr oedd llawer o rai eraill wedi dyfod o amryw fanau o'r wlad tan amryw flaenoriaid, i'r un pwrrpas, i'w cyfarfod hwynt. Casglodd pawb o'r rhai'n ynghyd at y ty tafarn yn y dref, a elwir yr *Eagles*, ac yno yfasant gwrw lawer; canys dygwyd buril o hono, ar gost y Person Jones a blaenoriaid eraill, allan i'r heol, a rhanwyd ef iddynt yn haelionus.

Erbyn hyn yr oedd Mr. Harris yn nhŷ Catherine Edward, wedi dechreu: ac yn ddiattreg y dorf a ddaethant o amgylch y ty mewn llawn fwriad, nid yn unig i rwystro y bregeth, ond hefyd i anmharchu a churo y pregethwr a phawb oedd yn gwrandaw arno. Yna rhai o honynnt a ddringasant i nen y ty i'w dynu i lawr, a thynasant rai o geryg y tô. Eraill a amgylchynasant y ty fel na ffaoi neb ag oedd yn gwrandaw; a'r rhai wrth geisio ffoi a ddelid ganddynt, a gurent mewn mawr greulondeb. Cafodd rhai o'r gwrandawyr ffael i ddianc o'r tu cefn i'r dref i'r caeau: hwythau, pan wybuant, a ddyosgasant eu dillad hyd eu crysau, ac a erlidiasant ar eu hol; a phan y caent afael yn neb, current ef yn ddidrugaredd. Eraill a aethant i mewn i'r ty, ac a lusgasant Mr. Harris allan i'r heol. Safodd rhai o'i gyfeillion gydag ef, sef John Moses a John Robert o Dyddyn y Felin, ac eraill, i edrych a allent achub ychydig arno, a'i ddwyn allan o'u dwylaw hwynt; ond er dim a allodd y rhai'n wneyd anmharchwyd ef yn greulon: yr oedd meibion a merched, gwyr a gwragedd, yn bwrw coed, ceryg, a thom yr heol, ac oni buasai i'r gwyr uchod ac amryw o wyr cryfion eraill, ymeginio a gosod eu hunain mewn enbydrwyd, a chael llawer o anmharch, wrth bob argeel buasent yn euro ei enaid ef allan o'i gorff. Dilynasant ef fel hyn ymhell ar hyd y ffordd tua Llanycil: bu amryw weithiau ar lawr dan eu traed hwynt, a'i gorff yn glwyfau a'i waed yn rhedeg: clywais iddo ddyweyd iddo ddwywaith feddwl fod ei enaid yn ymadael a'i gorff.

Yr oedd Mr. Jenkin Morgan, meistr yr ysgol rad yn Llanuwchlyn, gyda Mr. Harris ac yn gyfranog o'r anmharch. Ar ffordd Llanycil, wrth ochr y llyn tynwyd y gwr hwn oddiar ei geffyl, a glynodd ei droed ef yn yr wrthaf; hwythau a yrasant y ceffyl, yr hwn a'i llusgodd ef felly lawer o ffordd. Amcanasant yru y ceffyl ac yntau felly yn llusgo wrtho, dros dorlan uchel i lawr tu a'r llyn; ond Mr. Lewis Davies o Ben y bont, a Mr. George Griffiths, curad Llanycil, a'u hattaliasant. Y gwyr hyn hefyd a fuont yn egniol yn achub Mr. Harris. Trwy ddaioni Duw, cafodd pawb eu bywyd; ond cafodd Hawer eu clwyfo, a chollwyd llawer o waed. Diwrnod árswyodus oedd hwn, sto dyoddefodd pawb yn amyneddus, a llawer yn ei chyfrif yn faint gael dyoddef dim er mwyn enw'r Iesu.

Bu'r dref rai blyneddau wedi hyn heb bregethu ynddi; eto y rhai a gawsent fias ar y gair a ymgynnnullent yn fynych yn nhŷ un Edward William ab Edward, y gwehydd, yn agos i'r *Eagles*, i ddarllen, canu, a gweddio, ac am hyn y oeddynt yn cael llawer o anmharch ac erlid.

1741. Yn y gwanwyn yma, ychydig ar ol yr erlid uchod, codwyd gwarant, a daliodd John Hugh, constabl y Bala, John Moses, a'i fam, Catherine Edward, am gynnwys Mr. Harris i'w ty; daliwyd hefyd Robert Griffith Siencyn, a David Stephen, dau wr o blwyf Llanuwchllyn, a m wrandaw arno: rhwymwyd y rhai hyn i ateb y Ghwarter Sessiwn y Pasc canlynol. Gorfu ar Catherine Edward dalu ugain swllt am dderbyn Mr. Harris i'w thy, a'r tri wyr eraill bum swllt bob un am wrandaw arno.

Yr undeb yn cael ei gondemnio gan hanes yr Eglwys.

Trawy yr holl fraslun blaenorol o hanesiaeth eglwysig, yr ydym yn gweled yr Eglwysi Gwladol, fel y butain ymherodrol yn yr aifed-bennod-ar-bymtheg o'r Daedguddiad, yn puteinio gyda breninoedd y ddaear, trwy dros glwyddo yn anffyddlawn iddynt hwy hawl Crist i lywodraethu ei eglwys, ac yn derbyn eu gwobr o aur eddiwrthynt hwythau yn ol: a'r Eglwysi rhydd fel y wraig yn y 12fed bennod o'r Daedguddiad yn cael ei herlid gan y ddraig, a'i gyru i'r diffeithwch. Yr ydym yn gweled yr Eglwysi Gwladol, fel y butain, wedi ei dilladu & phorhor a'i gwychu âg aur; *Dat. xvii. 4*: a'r Eglwysi rhydd fel y wraig wedi ei gwisgo a'r haul, yn ddysglaer gan ogoniant dwyfol ras: *Dat. xii. 1*. Yr ydym yn gweled yr Eglwysi Gwladol, fel y butain, yr hon oedd yn eistedd ar y bwystfil cysgodol, yn cael ei chynnal gan fwyafrif coelgrefyddol ac annuwiol; *Dat. xvii. 3*: a'r Eglwysi rhydd, fel y wraig ddysglaergan yr haul, yr hon oedd yn unig yn y diffaethwch, wedi ei hir adael a'i dinoddi gan ddynt: *Dat. xii. 6*. Yr ydym yn gweled yr Eglwysi Gwladol, fel y butain, yn erlid saint Duw; *Dat. xvii. 6*: a'r Eglwysi rhydd fel y wraig ddysglaer gan yr haul, yn cael ei chynnal gan Dduw o dan erledigaeth; *Dat. xii. 6*. Yr ydym yn gweled yr Eglwysi Gwladol, fel y butain, yn ymffrostio yn ei hymlynwyr lliosog, yn ei gallu, a'i chyfoeth, ac yn gwaeddi, "Yr wyf yn eistedd yn frenines, a galar nis gwelaf ddim;" *Dat. xviii. 7*: a'r Eglwysi rhydd, o'r diwedd, yn cael eu cynnorthwyo gan y ddaear, a hyn y am fod y byd o'r diwedd yn dechreu pleidio holol ryddid cydwybod, ac yn dechreu parchu cyflawnder rhwng dyn a dyn; *Dat. xii. 16*. Yn yr Eglwysi Gwladol yr ydym yn gweled gormod o agoshâd at y gwrthgiliad mawr; ac yn yr Eglwysi rhydd yr ydym yn gweled i'r un graddau gydymffurfiaid & sefyllfa rag-addawedig Eglwys Crist.

Y mae holl hanesyddiaeth yn cyhoeddi y dylai yr Undeb, yr hwn a brofwyd trwy ganrif oedd meithion o gam-drefn, ac a gafwyd yn mhob man yn alluog yn unig i effeithio drwg, roddi lle o'r diwedd i gyfraith Crist ei hun o ryddid ysbrydol, trwy yr hon yn unig y gall ei eglwysi gyflawni eu hamcan daionus o ddyfod a chenedloedd y

ddaeas i wasanaethu y Gwaredwr, a dwyn pob rheswm a chalon yn ddarostyngedig i'w ogoniant.

Baptist Noel.

Y Meddwyn.

Ni ddichon ein golwg byth ddisgyn ar un yn fwy o wrthddrych tosturi, cynghori, a gweddio ar ei ran. Un vdyw sydd wedi ei am-difadu o bob cysur tymorol ac ysbrydol. Un ag y mae gofidiau yn dylifo am ei ben o bob man. Unsyddyn ysglyfaeth i drueni ac annedwyddwch, ac wedi ei ddarostwng i'r radd iselaf y gall dynoliaeth gyrhaeddyd. Trueni gwirfoddol yw trueni y meddwyn. Mae yn ei wisgo morwirfoddol a'i dillad—llafuria yn galed i'w gyrraedd—croessa ddeddfau anghyfnewidiol i gael hyd iddo—darostyng a ei hnn—gwna ei fywyd yn flinder, a'i oes yn oes o annedwyddwch. Er nad yw yn teimlo oddiwrth ei drueni, gwna i bawb eraill o'i amgylch deimlo: mae ei gyflwr yn amlwg i bawb ond iddo ei hun. Mae wedi alldudio pob gronyn o gariad o'i fynwes, neu mae wedi ei grynhöi i weithredu i gyd ar un gwrthddrych, sef ei gwpan hoff—gadawa i'w berthynasau ofidio o'i herwydd, i'w wraig newynu, a'i blant drengu gan oerfel o'i ran ef; am dano ei hun, nid oes ganddo ddim parch tuag ato. Darostyng a ei hun yn is na'r anifeiliaid a'i gwasanaetha—bydd yn euog o beth ag y mae gan y creaduriaid direswm ddigon o wybodaeth i ymgadw oddiwrtho a'i ffieiddio—mae yn ddrwg wrth bawb, ac wrtho ei hun hefyd. Y ffolaf o ddynion y byd ydyw. Mae yn teimlo ac yn tosturio yn fawr wrth yr hwn sydd a diffyg yn ei synwyrau, ac yn ei gyfrif yn greadur annedwydd iawn; ond mae ef ei hun yn ffolach o lawer: gweithred rhagluniaeth yw y cyntaf, ac nis gellir ei dadwneyd na'i gwella; ond am yr olaf, a yn wirfoddol i'r un cyflwr—gwertha ei synwyrau, a thâl am gael ymadael â hwyt. Mae ef yn cyfrif ei hun yn ddyn rhydd, ond ni fu erioed fwy o gamsyniad. Y rhwymaf o bawb ydyw—mae wedi ymwerthu yn gaeth i ddiafol a'i chwant—wedi gweithio cadwynau iddo ei hun; chwanega fodrwyau atynt bob tro yr yfa, nes yw ei sefyllfa o'r diwedd yn fwy caled ac annyddiefol na sefyllfa yr un o dduon America; ond y fath yw ei dywyllwch a'i wallgofrwydd, fel y gorfoedda yn ei gaethiwed ac yr ymfrostia yn ei gadwynau. Nid oes dim cysur iddo o'i fywyd, nac esmwythdra iddo yn unman—llefa y boreu am yr hwyr, a'r hwyr am y boreu—mae ei syched y fath na thŷr dwfr oer mo hono; yr un fath fyddai iddo vfed awyr—gwerthai ei enaid am ddyferyn yn hytrach na bod hebddo. Mae mor ddiamddiffyn ag y gall fod—nid yw ei aelodau o un defnydd iddo—ni rydd ei lygaid, na'i glustiau, na dim arall yr un rhubudd iddo pan fo perygl yn agos, fel y mae yn agored o hyd i golli ei fywyd—mae fel llong heb yr un hwyl, llyw, nac angor, yn agored i beryglon y tonau cyndeiriog, i gael ei ddryllio yn erbyn creisiau anweledig, ac i suddo i ddyfideroedd o wae tragicwyddol. Mae wrth chwaieu ar yr ymyl, wedi llithro heb yn wypod iddo ei hun i

ganol y llif dinystriol sydd yn ei lusgo yn barhaus tua 'r rhaiadr ofnadwy—ychydig amser a'i gwel ef wedi ei dafu dros y dibyn i'r eigion diwaelod. Y fath yw dyfnder ei drueni, a'r fath lywodraeth mae y diodydd meddwol wedi gael arno, fel y cysegra y cwbl a fedd er cael gafael arnynt; nid oes dim mor ddymunol yn ei olwg. Mae sefyllfa gysurus yn ei ymwl, ond mae yn well ganddo dloidi dwfn, a chael mwynhau hyfrydwch ei gwpan. Mae ganddo gyfansoddiad cryf a iachus, ond dewisa un gwaelach ond cael ei gadwynau meddwol yn dynach am dano, ie, cofleidia y dyferyn er y gŵyr y costia hyny iddo gofleidio angeu yn y pen draw. Adeilada allor a'i ddwylaw ei hun, ac yn hytrach nag aberthu ei flys, abertha ei gorff a'i enaid yn wirfoddol arni. Yr hyn oll sydd gan wr a ddyry efe am ei einioes, oedd un o ymadroddion Satan: ond pe deuai i'n gwlad ni, deallai yn fuan ei gamgymmeriad—deallai mai yr hyn oll a rydd y meddwyn am fodion sicr i fyihau yr einioes. Er fod Satan a'i rwydau am ddynion y pryd hyny, yr oedd yn deall yn eithaf da yr ymadawent a'u pethau penaf er mwyn cael byw; ond am y meddwyn, mae mor llwyr dan lywodraeth meddwdod, fel yr ymadawa a phob peth er mwyn porthi y pryf yma sydd yn bwyta ei gorff, yn dadsylfaenu ei fywyd, ac yn dinystrio yn feunyddiol ei enaid anmhriadiwyd. Yr einioes a ddyry am ddiodydd meddwol. Mae mewn ymddygiad yn dyweyd fod ei oes yn rhy faith, y terfyn yn rhy bell, a'i ddinistr yn hepian—prysura yn gyflwm i'w gyfarfod. Iaith ei fywyd yw, marw a wnelwyf o farwolaeth y meddwyn, a bydded fy niwed fel yr eiddo yntau.

Yn y sefyllfa resynus yma y gwelir lluoedd o'n cyd-ddynion y dyddiau presennol, yn cael eu llusgo wrth y gadwyn yma o eiddo y diafol wrth y cannoedd tu a'i wlad annedwydd. Llusga drwy feddwdod ei driugain mil yn flyneddol o'n teyrnas ni yn unig; ac mae yn amlwg nad hon yw y flwyddyn ddiweddaf iddo. Sonir llawer y dyddiau hyn am y Colera—ofnir yn fawr ei bresennoldeb yn ein mysg; o herwydd pa le bynag y rhydd ei droed, nid oes ond wylolfaid a marw, a chladdu yn meddiannu y lle. Ond pa raid i ni ofni cymaint yn ei gylch: nid yw peth o'r fath yn ddyeithr i ni. Mae clefyd wedi gwneyd ei gartref yn ein gwlad ag sydd yn an-nhraethol waeth a mwy dinystriol. Nid rhoi tro unwaith neu ddwy mewn oes y mae, ond noda allan filoedd o aberthau bob blwyddyn—rhwyga deuluoedd oddiwrth eu gilydd—britha ein cymydogaethau a gweddwon ac amddifaid, a lleinw ein mynwentydd yn gynt na phryd. Mae yr ychydig argraffiadau ag y mae y corff yn ei dderbyn oddiwrth y colera yn cael eu holol ddileu yn y pridd; ni feiddia gyffwrdd a dim arall—ond derbynia enaid y meddwyn y fath archollion oddiwrth ei feddwdod, nad oes yr un feddyginieth yn nghreadigaeth Duw ar ei gyfer—ni wella tragedywyddoldeb ei glefyd angeuol, ond bydd yn gofadail bythol o ddiweddu truenus y rhai sydd yn anturio i grafangau y diodydd peryglus a dinystriol yma.

Gymry Dirwestol! Y mae y gelyn difiol yma i ddynolryw yn dyrchafu ei ben eto yn ein plith—mae mor fyw ag un amser, yn

difrodi yn ddychrynllyd, a bron ennill yr orseddfainc ar ein gwlad, yr hon a gollodd unwaith. Meddyliwyd yn ddiweddar ei fod wedi derbyn dyrnod farwol, a'i fyddinoedd wedi eu gwasgaru am byth ; ond fe swniwyd y *retreat* pan oeddym ar ennill y fuddugoliaeth ; a'r canlyniad yw, fod yn ei ddwylaw yr un llywodraeth ag o'r blaen. A gawn ni ymarfogi fel un gwr i ail ymosod ar amddiffnfeidd y gormesdeyrn yma ? Pe byddai y clefyd a enwyd yn gwneyd haner y galanasdra, cyfodai pawb yn mhob man i ddefnyddio moddion i gael gwared o hono ; ni fyddai dim yn ormod i'w aberthu. Paham, ynte, y gadewir y gelyn dinystriol yma, sydd wedi ac yn dyfetha mwy na'r un clefyd mewn un wlad erioed. Fe'n condemnir ni am ein difaterwch. Pechod sydd yn gorwedd wrth ein drysau. Mae lliaws o bethau yn galw ac yn deisif arnom ail ymeginio. Mae sefyllfa beryglus y meddwon, eu plant carpiog, a'u gwragedd newynllyd—mae Cristionogaeth, ie, dynoliaeth ei hun yn galw arnom ail ymosod yn ddioedi a di-ildio.

J. W.

Trefn Eglwys Crist, a threfn yr Eglwys Sefydledig.

WERTH adolygu yr Ysgrythyrau, ymddengys :

1. Mai ewyllys Crist yw, ar i weinidogion fod i'r eglwysi, ac efengylwyr i bregethu yr efengyl i'r holl fyd.
2. Fod Crist wedi gorchymyn i bob eglwys gynnal ei gweinidog, pan y mae hyny yn posibl.
3. Os bydd eglwys yn rhy dlawd, y dylai eglwysi eraill ei chynnorthwo.
4. Y dylai yr eglwysi hefyd gynnal efengylwyr i bregethu i'r paganiad.
5. Fod Crist wedi ymddiried i'w eglwys gyffredinol y ddyledswydd o gynnal ei weinidogion trwy y byd.
6. Pe mewn rhyw amgylchiad nas gallai gweinidog neu efengylwr gael cynnorthwy digonol oddiwrth ei frodyr Cristionogol, y gall weithio mewn rhyw alwedigaeth fyddol tuag at ei gynnaliaeth.

Y mae yn amlwg fod y gyfundrefn a ordeiniodd Crist er cynnaliaeth ei weinidogion, yn holol wrthwyneb i'r un a ddewiswyd gan Eglwys Loegr o dan yr Undeb.

Yn ol cyfraith Crist, y mae y gweinidog i gael ei gynnal trwy zel yr eglwys ; yn ol yr Undeb, y mae yn cael ei gynnal trwy weithred seneddol.

Yn ol cyfraith Crist, dylai gael ei gynnal gan grëdinwyr : yn ol yr Undeb, y mae yn cael ei gynnal gan bersonau o bob dosbarth, yn cynnwys, Pabyddion, Undodiaid, Anffyddwyr, ac oferwyr.

Yn ol cyfraith Crist, dylai gael ei gynnal gan y rhai sydd yn cyfranu o'u meddiannau eu hunain ; yn ol yr Undeb, y mae y llywodraeth wedi pleidleisio meddiannau eraill i'w cynnal.

Yn ol cyfraith Crist, dylai yr holl roddion tuag at ei gynnaliaeth fod yn wirfoddol ; trwy yr Undeb, y maent yn cael eu talu dan yr arswyd o'r eiddo i gael ei gymeryd ymaith.

Y mae effeithiau moesol y ddwy gyfundrefn hon tuag at gynnal-iaeth gweinidogion Crist yn holol wrthwneb i'w gilydd.

Y drefn a bennedwyd gan Grist yw y fwyaf cyfawn, oblegid, yn ol hon, y rhai sydd yn derbyn addysg yn unig sydd yn talu am dano ; tra yn ol trefn Eglwys Loegr, y mae yn rhaid i bawb dalu pa un hynag a dderbyniont ef a'i peidio.

Y mae y drefn a bennodwyd gan Grist yn galw ar Gristionogion i dalu, y rhai ydynt yn talu yn wirfoddol, am fod ganddynt ddyled yn gorffwys arnynt i Grist ac i'w gweinidogion ; tra y mae trefn Eglwys Loegr yn gorfodi llawer i dalu a wrthodent pe gallent.

Y mae y drefn a bennodwyd gan Grist yn dwyn i ymarferiad ffydd a chariad credinwyr, y rhai ydynt fel hyn yn gwneyd offrwm ewyllysgar iddo ef ; ond y mae trefn Eglwys Loegr yn gwasgu oddiar anghredinwyr, trwy ofn y gyfraith, dreth, yr hon sydd yn cael ei thalu yn anfoddllawn i'r llywodraeth.

Y mae y drefn a benodwyd gan Grist yn llawer mwy er cysur gweinidog duwiol, oblegid efe a all dderbyn gyda diolchgarwch a llawenydd, yr hyn y mae ei freddyf yn ei gyfranu mewn haelioni a chariad, oddiar eu rhwymedigaeth i Grist, a'u dyledswydd tuag ato yntau ; tra, o dan drefn Eglwys Loegr, y mae yn rhaid iddo wasgu allan ei gyflog trwy rym cyfraith, oddiwrth y rhai hyny sydd, efallai, yn ei felldithio ef a'i grefydd wrth ei dalu.

Y mae y drefn a benodwyd gan Grist yn tuedd i wasgu y gweinidogion a'r bobl at eu gilydd, gan fod y gweinidogion, o dan hon, trwy fod yn derbyn eu cynnaliaeth o serchawgrwydd eu praid, yn teimlo yn ddiolchgar am dano, tra y mae y bobl hefyd yn dyfod i deimlo fod gwneuthur caredigrwydd yn cynnyrchu cariad yn gy-maint a'i dderbyn ; ond y mae trefa Eglwys Loegr yn pellhau y ddwy blaid—y gweinidog yn gorfod cwyno o herwydd taliadau diffygiol ac ymgeiaiadau i ochel talu, tra y mae y praid yn cael eu temtio i farnu eu bugail yn hunanol a chreulawn.

Y mae trefn Crist, trwy fod yn galw am gynnaliaeth y gweinidogion oddiwrth y rhai hyny yn unig sydd yn gwerthfawrogi y gwirionedd ac yn cyfranu yn wirfoddol, yn denu dynion annuwiol i wrandaw yr efengyl heb arian ac heb werth ; ond y mae trefn Eglwys Loegr, yr hon sydd yn eu trethu am yr hyn y maent yn anghredu neu yn ei ddirmygu, yn cau eu clustiau rhag y gwirionedd.

Y mae trefn Crist yn dangos i'r byd rym crefydd, yr hyn a ellir ei fesur ganddynt i ryw raddau trwy yr aberthau y mae Cristionogion yn eu gwneyd yn wirfoddol er ei chynnaliaeth ; tra y mae trefn Eglwys Loegr yn peri i'r byd gredu fod Cristionogion mor hunanol ac mor gybyddlyd & hwythau, ac na wnaent gynnal eu gweinidogion, oni bae eu bod yn cael eu gorfodi i wneyd hyny.

Yn olaf, yn ol y drefn a benodwyd gan Grist, y gweinidogion goreu yn gyffredin yw y rhai sydd yn cael eu cynnal oreu, oblegid y mae Cristionogion yn gallu gwerthfawrogi gras yn gystal & doniau yn eu gweinidogion ; ond o dan drefn Eglwys Loegr, y mae y bywioliaethau brasaf yn myned i'r rhai sydd yn perthyn agosaf i'r

patrons, ac fel hyn yn fynych y gweinidgion gwaethaf yw y rhai sydd yn cael eu talu oraf, ac y mae yr eglwysi yn cael eu ham-gylchu gan y rhai a geisiant y weinidogaeth yn unig er mwyn ei helw.

Baptist Noel.

A oedd Judas yn cyfranogi o Swper yr Arglwydd.

Wrth gymharu yr hanes yn yr efengylwyr, y mae lle cryf i fedd-wl nad oedd Judas Iscariot yn bresennol pan oedd y dysgyblion eraill yn bwyta o'r bara, ac yn yfed o'r cwpan i ddangos marwolaeth yr Arglwydd. Nid yw yn debyg y buasai neb yn barnu fel arall, oni bae eu bod yn anghofio y gwahaniaeth rhwng swper a pasg, a'r hyn a elwir "Swper yr Arglwydd." Y mae yn amlwg mai cyn bwyta y pasg y llefarwyd y geiriau hyny yn *Luc xxii. 16, 17, 18*: "Ac efe a ddywedodd wrthynt, mi a chwennychais yn fawr fwyta y pasg hwn gyda chwi cyn dyoddef o honof. Canys yr ydwyt yn dywedyd i chwi, Ni fwytaf fi mwyach o hono, hyd oni chyflawner yn nheyrnas Duw. Ac wedi iddo gymeryd y cwpan, a rhoddi diolch, Efe a ddywedodd, Cymerwch hwn, a rhennwch yn eich plith: canys yr wyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o ffrwyth y winwydden, hyd oni ddel teyrnas Duw." Nid oedd y cwpan hwn ddim yn amgen nag a arferid gan yr Iuddewon cyn bwyta y pasg, ac nid oedd yn un rhan o Swper yr Arglwydd. Ar ol hyn, aeth Crist a'i ddysgyblion ymlaen gyda swper y pasg fel arferol: ac y mae yn ymddangos mai yn y fan yma, y mae yr hanes hwnnw yn dyfod i mewn yn *Ioan xiii. 2—30*. Dywedir yno, "Ac wedi dar-fod swper, (neu fel y mae rhai yn cyfeithu y gair, *Pan oedd ynt ar super, sef swper y pasg,*) wedi i ddiabol eisoes roi yn nghalon Judas Iscariot, fab Simon, ei fradychu ef, yr Iesu yn gwybod roddi o'r Tad bob peth oll yn ei ddwylaw ef, a'i fod wedi dyfod oddiwrth Dduw, ac yn myned at Dduw; efe a gyfododd oddiar swper, ac a roes heibio ei gochl-wisg, ac a gymerodd dywel, ac a ymwregys-odd." Yna rhoddir hanes am dano yn golchi traed ei ddysgyblion; ac ar ol hyny yn tystiolaethu y byddai i un o honynt ei fradychu; ac er mwyn gwneuthur yn hysbys i Ioan pwysedd yr hwn a'i bradychai, y mae yn gwlychu y tamai, ac yn ei roddi i Judas. "Yntau, gan hyny, wedi derbyn y tamaid, a aeth allan yn ebrwydd. Ac yr oedd hi yn nos." Y mae yn amlwg fod yr holl hanes hyd yn hyn yn perthyn i swper y pasg, ac mai rhan o'r swper hwnnw oedd y tamaid a roddwyd i Judas. A chan iddo fyned allan yn ebrwydd ar ol ei dderbyn, y mae yn rhaid ei fod wedi ymadael heb gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Ymddengys hyn eto yn fwy eglur wrth sylwi ar y dull y gosodir yr hanes i lawr gan yr efengylwyr eraill. Nid yw Luc yn gofalu cymaint am gadw at drefn amser; ond yn Mathew a Marc adroddir yr ymddyddan mewn perthynas i Judas, cyn son fod yr Iesu yn cymeryd y bara a'r cwpan, ac yn eu rhoddi i'w ddysgyblion.

Z.

Atebion i'r Gofyniadau yn mis Rhagfyr.

I. Pa le y mae yr adnod sydd yn dangos i un yn ychwaneg gae ei gyfodi ? sef ychwaneg na saith, gwel. Rhif. xxiv.

Yn 2 *Bren.* xiii. 20 : sef y gwr a fwriwyd i feddrod Eliseus. "A phan aeth y gwr i lawr, a chyffwrdd ag esgyrn Eliseus, efe a ddad-ebrodd, ac a gyfododd ar ei draed." Adgyfododd yr Arglwydd Iesu hefyd : mae yn debyg i P. J. a E. M. ei anghofio ef, yr hwn yw yr "adgyfodiad a'r bywyd."

II. Pa un o freninoedd Israel a gafodd ei enneinio fwyaf o weithiau yn frenin ?

Dafydd.

III. Pa sawl gwaith y cafodd y cyfryw ei enneinio yn frenin ?

Tair gwaith : 1 *Sam.* xvi. 12, 13 ; 2 *Sam.* ii. 4 ; 2 *Sam.* v. 3.

IV. Pa sawl un o freninoedd Israel y darllenwn iddynt gael eu henneinio yn frenin ?

Nid oes genym hanes am ragor nag wyth yn cael eu henneinio ; oblegid nid oedd raid enneinio yr hwn a ddylynai ei dad yn y freniniaeth : gwel *Barn.* ix. 6 ; 1 *Sam.* xvi. 12, 13 ; 1 *Bren.* i. 39 ; 2 *Bren.* xi. 12 ; a ix. 6 ; a xiv. 21 ; a xxiii. 30.

P. W.

"*Y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.*"

DYMA eiriau ac awdurdod dwyfol yn eu dilyn. Y mae yn rhaid i gyfnewidiad mor fawr gymeryd lle arnoch, cyn yr ewch i'r nefoedd, ag sydd mewn genedigaeth dyn i'r byd. Ni welwch nefoedd byth heb hyn ; ac ni ellwch byth fwynhau y nefoedd heb eich ailensi.

Rhaid i chwi, wrandawyr cyson yr efengyl—rhaid i chwi y moesolwyr manwl—rhaid i chwi, hiliogaeth rhieni duwiol, gael eich ailensi ; neu mae yn anmhosibl eich cadw a'ch trosglwyddo i wyaifyd tragedywyddol. Mae y geiriau mor bendant a phersonol a phe na byddai ond un dyn ar wyneb yr holl ddaear ; mae yn ddeddf mor anghyfnewidiol a't un a osododd y Jehovah mawr yn ei greadig-aeth fawr i gyd. Ie, nid oes un mor anghyfnewidiol a hon : "Nef a daear a ant heibio ; ond fy ngeiriau i nid ant heibio ddim." Nid a hyn byth heibio gyda Duw ; sef y penderfyniad nad aiff yr un dyn byth i'r nefoedd heb ei ailensi. Tra y bydd Duw yn bod, fe fydd hon ; mae mor anghyfnewidiol a'i natur ef ei hunan. "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Ei anghyfnewidioldeb oedd ei reswm am gadwraeth meibion Jacob ; a'r un rheswm sydd dros yr anghenrheidrwydd am y cyfnewidiad hwn. "Myfi yr Arglwydd, ni'm newidir ;" am hyny, y mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.

Mae y ddeddf hon yn cau pob graddau a sefyllfa allan o'r nefoedd am byth, heb y cyfnewidiad hwn. Nid aeth yr un, ac nid a yr un byth i'r nefoedd, heb ei ailensi. "Oddieithr eich troi chwi—nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd." *Math.* xviii. 3. Beth; ddim

i'r nefoedd, heb ryw dro fel yna ?—Nag ei.—Ni wnaethum i ddim o'i le erieed.—Nid ëi i mewn i deyrnas nefoedd heb dy aileni. Mae dy fod heb weled dy hun o'th le yn profi dy fod o'th le. “Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg,” oedd ateb Crist i rai yr un fath yn gymhwys a thi. “Pawb a bechasant, ac ydynt yn ol am ogoniant Duw.” Mae pawb yn bechaduriaid ; ac y mae yn rhaid i bob pechadur gael y tro hwn, neu mae yn annichonadwy iddo fyned i'r nefoedd na'i mwynhau byth heb hyn. Nid oes iachawdwriaeth heb hyn ; dyma y peth cyntaf, o'r bron, mae Duw yn ei wneyd ar y rhai a gedwir, yw eu haileni. Mae hyn mor anghenrheidiol er iachawdwriaeth, ag oedd edrych ar y sarff bres i'r brathiedig er meddyginaeth.

Mae hon yn un o ddeddfau tragicwyddol Duw. Rhaid eich geni chwi drachefn, sydd wirionedd dialw yn ol ; nid oes modd ei hosgei.

Ond mae *rhaid* arall yn bod. Mae rhaid o'th ochr di dy hun. Rhaid dy aileni cyn byth y gelli fwynhau y nefoedd. Nis gelli gael dim mwyniant yn y nef ei hun, heb dy aileni ; heb anian dduwiol. Saf uwch ben y pwnc am bum mynyd—ymresyma â thi dy hun yn deg am ychydig fynydau. A wyddost ti beth fydd elfen y nef ? A ystyriaist ti beth fydd yn myned ymlaen yno ? A feddyliaist ti erioed pwy fydd dy gymdeithion ? A phob peth i fod am dragwyddoldeb. Sancteiddrwydd fydd elfen y nef ; bydd Duw yno yn mhurdeb a thanbeidrwydd ei natur lân. A elli di fwynhau y nefoedd hon ? Fe fydd yno addoli didor, a molianu diddiwedd ar y Gwr fu farw ar Galfaria fryn ; telynau fyrrd fydd iddo yn canu. A elli di gydfyned â'r anthem, “Iddo Ef, yr hwn a'n carodd, ac a'n golchodd ni yn ei waed, &c. ? Y cymdeithion fydd y saint a'r angelion, a'r rhai hyn mor sanctaidd ag y mynai Duw iddynt fod, “heb arnynt na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfrwy.” Mae yn rhaid ein haileni cyn y gallwn fwynhau Duw yn ei sancteiddrwydd. “Heb sancteiddrwydd, ni chaiff neb weled yr Arglwydd.” Nid oes dim sancteiddrwydd buchedd heb ailenedig-aeth. “Mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.”

Mae yn rhaid ein haileni cyn y gallwn wir ymhyfrydu yn ngwasanaeth yr Arglwydd. Iaith dyn wedi ei aileni yw “hoffais drigfan dy, lle preswylfod dy ogoniant. “Gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil,” &c.

Mae yn rhaid ein haileni cyn y gallwn gael gwir hyfrydwch yn nghymdeithas y saint. “Cyfaill ydwyf fi i'r rhai oll a'th ofnant.” Nis gelli ymhyfrydu yn sancteiddrwydd Duw heb dy aileni, y peth sydd ynot yn groes i sancteiddrwydd a'th wna yn anhapus, oblegid sancteiddrwydd yw prif elfen dedwyddwch.

Hefyd, nis gelli ymddifyru yn ngwasanaeth y nef heb dy aileni ; ac nis gelli ymserchu yn nghwmniaeth y nef, heb dy aileni.

Rhaid i ti gael traed i'r nefoedd ; rhaid i ti gael llygaid i'r nefoedd ; rhaid i ti gael clustiau i'r nefoedd. Mae mor anghenrheidiol i ti gael dy aileni mewn trefn i allu fwynhau y nefoedd, ag yw nerth traed i gerdded, llygaid i weled a chlustiau i glywed.

Desgrifiad yw hwn o'r un peth ; a daw a'r holl bethau anghenrheidiol eraill i'w ganlyn, sef aileni.

Nis gelli gerdded yn y nef heb draed ; nis gelli ganfod prydferthwch sancteiddrywydd Duw heb dy aileni : ac nis gelli ymhyfrydu yn swn diolchiadau y gwaredigion am rinwedd gwaed yr Oen, heb dy aileni. Byddi yn fwy anghymhwys i'r nef heb dy aileni, na phe byddit yno heb un enaid rhesymol.

Rhaid cael hyn cyn y gellir mwynhau y nefoedd.

Ddarllenyydd, mae genyf un gair i'w ddywed y wrthyt cyn diweddnu. Os yw yn anmhosibl cael nefoedd heb ailenedigaeth, nid yw yn anmhosibl aileni. Os wyt wedi dy aileni, prawf y peth trwy dy rodiad. Os wyt hebddo, paid a gorffwys heb ofyn i Dduw dy aileni ; oblegid, "oddieithr eich geni chwi drachefn, ni ddichon i chwi fyned i mewn i deyrnas nefoed."

E. LL.

Dyledrioydd dyn at ei gymydog.

Yn gyntaf, Mewn Cariad.

1. Ei garu fel ni ein hunain.
2. Gwneuthur iddo bob daioni.
3. Ei gynnorthwyo yn ei gyfyngder.
4. Bod yn anwyl ac yn dyner wrtho.
5. Byw mewn heddwch ac undeb âg ef.
6. Tosturio wrth ei wendid a'i goll.
7. Peidio a'i dramgwyddo, os gellir.
8. Ei rybuddio rhag bai, a'i geryddu am fai.
9. Ei gefnogi pan bo ar lwybr da.
10. Cuddio ei bechoda'u a'i lithriadau.
11. Bod yn fwyn, yn gyweithas, yn hynawsedd, yn esmwyth, yn arafaidd, yn llariaidd, gan fod yn barod i faddeu iddo bob amser.
12. Mewn gair, mae cariad yn ein cymhell i wneyd iddo bob bob peth a'r a allom.

Y pethau na ddylem wneyd i'n cymydog.

1. Peidio bod mewn malais iddo.
2. Na chenfigenu wrtho.
3. Na'i gasâu na dial arno.
4. Peidio amrafaelio nac ymryson âg ef.
5. Na'i orthrymmu, na'i gablu, na'i farnu, na'i ddirmygu, na'i ddrygu.
6. Peidio credu pob chwedl a glywom am dano.
7. Na llawenhau pan glywom i ddrwg ddygwydd iddo.
8. Na ddylem beidio gweddio drosto.

Yn ail, Mewn Cyflawnder.

1. Rhoddi iddo yr hyn sydd yn eiddo.
2. Arfer pob moddion cyfreithlon i gadw ei fywyd.

3. Amddiffyn ei enw hyd y gallom.
4. Amddiffyn ei feddiannau eto.
5. Os gwnawn âg ef gam, gwneyd y cam i fynu ar ei bedwerydd.
6. Peidio tori gair nac ammod âg ef.
7. A pheidio chwennych dim a feddo.

Yr anghyflawnder na ddylem wneyd a'n cymydog.

1. Peidio ei ladd.
2. Peidio ymddwyn mewn modd creulawn, gorthrymus, dialgar, twyllodrus, celwyddeg, ffals.
3. Peidio myned i'w ddyled mewn modd nas gallwn dalu.
4. Peidio derbyn cam dystiolaeth yn ei erbyn, na'i absenu, na'i athrodi, ac felly yn y blaen.

Y pethau hyn a ysgrifennodd y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, yn Gareglefn, Mawrth 16eg, 1824.

R. J.

Rhagolygoniad ar Gyfnod Newydd.

Y MAE cyfnod newydd yn gwawrio, yn nghanol tymhestl, ar Ewrop—cyfnod o lywodraethau a sefydliadau rhydd—cyfnod o ysgolion a llyfrgelloedd, o ymchwiliad dilyffethair, a rhyddid cydwybod diattala—cyfnod o undeb ymhliith Cristionogion, ac o'u didoliad oddiwrth y byd—cyfnod o egni efengylaidd a zel adnewyddol. Ond ymhellach, pan y mae lluoedd o galon Ewrop i'w heithafion deheuol a gorllewinol, wedi eu rhyddhau oddiwrth ddichell offeiriadol, yn llawenychu o dan iau ogoneddus Crist, a phan y mae rhyddid cydwybod wedi adfywio duwioldeb pob cenedl, a fydd i filiwnau Rwsia, y rhai sydd yn gorwedd yn sathredig yn llaid coel-grefydd, a thraed y Czar a'i offeiriadau ar eu gyddfa, barhau ar lawr yn anobeithiol? Er i'r Rwsiaid, efallai, fod yn olaf i ddryllio y gadwen haiarn, yr hon y mae y gryfaf o ormes lywodraethau diweddar wedi ei hoelio ar eu cydwybodaau, nis gall yr unbenau eu cau allan yn y fath fodd o frawdoliaeth cenedloedd fel ag i'w rhwystro am byth i honi yr hawl o ganlyn Crist yn ol eu cydwybodaau eu hunain. Nis gall hawliau cydwybod, y rhai ydynt werthfawrocach na phob hawliau eraill, gael eu gwadu yn hir yn St. Petersburg, tra y maent yn cael eu cydnabod yn Llundain a Paris, yn Berlin a Vienna, yn Madrid a Rhufain.

Y mae a wneolo yr holl fyd mewn modd arbenig & dadgysylltiad yr eglwysi oddiwrth y wladwriaeth. Y mae meddylwyr cryfaf Ewrop, a'i Cristionogion mwyaf ymroddedig wedi ymlaeld am dano. Y mae eglwysi puraf Ewrop er ys talm wedi rhoddi dangosiad o hono yn gweithio; y mae wedi ei roddi i brawf gan genedl fawr dros yr Atlantic, a hyny gyda llwyddiant anghyffredinol: y mae dygyddiadau Ewrop trwy drugaredd yn ei brysuro ymlaen; a bydded i Loegr fed ymhliith y flaenaf o'r Cenedloedd Ewropeaidd i gyflaw ni y ddyledswydd, ac i fedi y manteision!

Baptist Noel.

Anerchiad i Arolygwyr yr Ysgol Sabbothol.

ANWYL FRODYL,

GAN fy mod yn tybied y gallwch fod oll yn ddarllenwyr y “Geiniogwerth,” defnyddiaf hi fel cyfrwng i’ch cyfarch. Nis gallaf lai nag edrych ar y swydd sydd wedi cael ei hymddiried i chwi yn swydd bwysig, os nid y bwysicaf o holl swyddau y byd crefyddol. Pa le bynag y mae olyniaeth apostolaidd, eglur yw nad oes un gymdeithas mor llafurus, a llwyddiannus i ddysgu ’r holl genedloedd yn egwyddorion y grefydd gristionogol a’r Ysgol Sabbothol, yr hon a ymaddiriedwyd i’ch gofal chwi; gan hyny ymeginwch, “Canys fe agorwyd i chwi ddrws mawr a grymus” i dywys y byd anwybodus i newn i ddirgelion teyrnas nefoedd; chwi ydyw y colyn ar ba un y mae y drws yn troi. Gwelwch y fath liaws o ieuencyd a phob ḡaddau o oedran sydd yn hongian wrth eich llywodraeth am agoriad gwybodaeth; ac os nad ydych chwi yn myned i mewn eich hunain, y rhai sydd yn myned i mewn, nis gadewch i fyned i mewn. Pan fyddo y bachgen ymchwilgar yn ymwithio ymlaen am agoriad, osir clywed yr hen *hinge* rhwddyd yn dechreua gwichian yn y fan, nes y byddo y llanc gwylaidd yn cilio yn ol rhag ofn gwneyd swn. Fell ydwyf o feddwl fod neb o arolygwyr yr Ysgol Sabbothol yn eneg o gau teyrnas nefoedd o flaen dynion; ond, anwyl frodyl, mae eisiau i chwi, beth bynag, fod wedi eich trochi yn yr olew etbyn bob Sabbath, fel y galloch agor yn rhwydd ac yn eang, i roddi pob mantais i ieuencyd yr oes, i wybod am ddirgelfa ’r babell i vnguddio erbyn y dydd blin. Fe ddywedir fod *hinge* ein llywodraeth yn ymagor o hono ei hun, i ollwng y bwystfil i mewn.

Os dod i mewn a wna,
Ar ol yr wyn yr a.

Nid ydyw yn debyg y gwna ymosod ar fywydau dynion mwy, canys yr oedd y tystion yn lliosogi wrth gael eu lladd, er ei waethaf, nes gwneyd ei ddyfais yn afwyddianus, a rhoddi iddo friw marwol: ac er cymaint o fedrusrwydd sydd yn cael ei arfer at iachau ei friw marwol ef y dyddiau hyn, nid yw yn debyg y daw yn ddigon cryf i godi ei ystanciau byth mwy; ond y mae yn debycach mai ar egwyddorion y bydd ei ymosodiad nesaf, ac nid ar fywydau; ac fe lwydda i ddyfetha dystiolaeth Iesu i’r fath raddau nes na bydd ganddo Ef gymaint a dau neu dri o dystion i wneuthur ei dystiolaeth yn safadwy a chyhoeddus; ac y mae lle cryf i ofni nad a’r oes hon heibio hyd oni wneler hyn oll. Ac os felly bydd yr amryfusedd diweddaf, yn waeth na ’r cyntaf. “Bellach, frodyl, gweddiwch ar fod i air yr Arglwydd redeg.” Gwelwch bob peth arall o’n hamgylch yn rhedeg gyda’r cyflymdra mwyaf; mae gwyyddoregau a chelfyddybau y byd hwn, wedi cael y dyfeisiau cywreiniiaf a’r ymdrech mwyaf at osod y cwbl i fyned; y dwfr a’r tan wedi cael eu gosod mewn ymdrech a’u gilydd, i yru y cerbydau a’r llongau, ac agos bob peiriant yn ddeg cyflymach nag o’r blaen; “Addysg wedi dyfod fel arwyddair yr holl deyrnas. Pa addysg

mor werthfawr ag addysg grefyddol ? pa gymdeithas mor fanteisiol i'w chyfranu a'r Ysgol Sabbothol ? Onid oes eisieu dyfeisiau cyw-reiniad i yru hon hefyd yn ddeg cyflymach i'r cof ac i'r deall ? Onid trwyddynt hwy y mae y ffordd unionaf i'r galon a'r fuchedd ? Anwyl frod yr, gwybyddwch fod llyw y llong o didocaf fedd addysg grefyddol, wedi cael ei hymddiried i'ch gofal chwi : a diammhau y bydd i lwyddiant mordaith lliaws o honoch wneuthur eich coffad-wriaeth yn fendifigedig. Wrth eich gadael, dynunaf arnoch gadw pedwar peth yn eich cof, tra byddoch yn eich swydd, sef, gwerth y llwyth, peryglon y daith, byrdra y dydd, a chyfrifoldeb y swydd. Cofiwch mai ysbyrdion i fyw byth yw y llwyth sydd dan eich gofal ; a bod eich taith rhwng creigiau cyfeiliornadau, ac ar draws creigiau calonau, a thrwy gulfor llongddrylliadau, a gwaeth na'r cwbl os oes tymhestl gerllaw : cyn i'r Arglwydd greu nefoedd newydd a daear newydd, y mae yn rhaid i'r hen rai fyned heibio gyntaf, a hyny yn ddiâu gyda thwrff ofnadwy : hefyd y mae y nos bron dyfod, mae y "dark night at hand," wedi cael ei chyhoeddi, a llawer o arwyddion y nos wedi ymddangos wedi hyny ; ond beth bynag am nos cyfeiliornadau, y mae y nos, yn yr hon na ddichon neb weithio, yn sicr e tod ar ddyfod : y mae hi wedi myned yn rhy hwyr ar lawer o honoch eisoes i weled i ddarllen eich Biblau, heb arfer gwydrau; gan hyny, gwnewch yr oll a alloch i gyfarwyddo ieuencyd eich oes i gilfach a glan iddi, cyn iddo Ef ddwyn tywllwch : ceir gor-wedd digon yn y llwch yn fuan. Ond y peth mwyaf difrifol o'r cwbl, ydyw y cyfrif raid ei roddi o'r oruchwyliaeth : cofiwch o hyd y gwahaniaeth annhraethol a thragywyddol fydd yn cael ei wneyd y dydd hwnnw, rhwng y gwas da a ffyddlawn, a'r gwas drwg a diog. Fy nymuniad ydyw i chwi oll gael myned i mewn i lawenydd eich Arglwydd.

THOMAS.

Nodiadau Ysgrythyrol.

Salm cxxiii. 2 : "Wele, fel y mae llygaid gweision ar law eu meistriaid, neu fel y mae llygaid llawforwyn ar law ei meistres ; felly y mae ein llygaid ni ar yr Arglwydd ein Duw, hyd oni thrugarhao efe wrthym ni."—Ychydig o eiriau a arferir yn y gwledydd dwyreiniol. Rhaid i'r gweision gadw eu llygaid yn sefydlog ar ddwylaw eu meistriaid i fyned neu ddyfod wrth yr awgrym lleiaf.

Esay xxv. 5 : "Fel gwres mewn sychder y darostyngi dwrf dy-eithriaid ; sef gwres a chysged cwmwl."—Fel y darostyngir gwres gan gysgod cwmwl, felly y mae Duw yn darostyng twrf galynion.

Mat. x. 42 : "A phwy bynag a rodio i'w yfed i un o'r rhai bych-ain hyn, phiolaid o ddwfr oer yn unig, yn enw dysgybl, yn wir meddaf i chwi, Ni chyll efe ei wobr."—Daeth Arabiad tirion allan o'i babell fel yr oeddym yn pasio, gan gynnig i ni ddwfr i'n dischedu, a dywedyd, "A fynwch chwi ddwfr i'w yfed ?" Mae yn debyg mai at amgylchiadau fel hyn y mae addewid ein Harglwydd yn cyfeirio, pan y mae dyn heb ofyn iddo yn chwilio am wrth-ddrychau i ddangos earedigrwydd iddynt.—*Mission to the Jews.*

Ioan xviii. 2 : "Oblegid mynch y cyrchasai yr Iesu a'i ddysgyblion yno." Mae yn debyg fod yr Iesu yn myned yn fynych i'r lle hwn, nid yn unig er mwyn ymneillduo i'r dirgel, ond hefyd am ei fod yn lle cyfieus i'r dysgyblion, ar ol eu gwasgaru trwy y ddinas ar hyd y dydd, ei gyfarfod ef yn y prydnaeon i fyned gydag ef dros y bryn i Bethania. Ac y mae yn ymddangos mai hyn yw gwir ystyrr y geiriau gwreiddiol.—Mission to the Jews.

Mangre genedigaeth ein Gwaredwyr.

GALLAI ymddangos i lawer o ddynion, ar yr elwg gyntaf, ond o ychydig bwys i fod yn hysbys o fangre genedigaeth Crist; canys dylem ei ystyried fel ein Hiachawdwr, pa beth bynag a allai fod yr amgylchiadau oedd yn gydfynedol a'i fywyd marwol. Ond fel y rhngodd bodd i Dduw hysbysu y fan yn mha un y genid Ceidwad dyn, daeth yn anghenrheidiol iddo ddygwyd yn gymhwys yn y lle apwyntiedig, fel y gallai fod yn un o'r nodweddau trwy ba un y gwybyddid mai Iesu Grist oedd y gwir Fessiah.

Nid yw ychwaith ond o ychydig bwys i ni yn mha le y byddem byw, ond i ni fwynhâu gwir ddedwyddwch. Nid oes yr un lle ar y ddaear, pa mor dlawd a dirmygedig bynag y byddo, nad allai fod yndd gwell a dedwyddach preswylyddion nag a geir yn y dinas oedd mwyaf ac enwocaf. A ydym yn gwybod am rhyw ysmotyn ar y ddaear lle nad ydyw gweithredoedd yr Arglwydd yn cyflwyno eu hunain o dan mil o ffurfau, a lle nad allai dyn mwynhau y dyddanwch melus sydd yn tarddu oddiwrth bywyd wedi ei iawn ddefnyddio? I unig ddyn, y lle hwnnw sydd i'w ddewis, lle y gall derbyn a chyfranogi o'r daioni penaf. I nifer o bobl, y lle hwnnw ydyw y goreu sydd yn cynnwys y cyfartalwydd mwyaf o ddynion doeth a da. Adfeilia pob cenedl mewn cyfartalwydd i fel ag y cyll crefydd a rhinwedd eu dylanwad ar feddyliau y bobl. Y lle yn mha un, yn ein maboed, yr ymsyniem agoriad y boreu a phrydferthwch adnewyddol natur, ynghyd a'r holl orlloenedd perthynol i'r oed hwnnw, tra y mawrhæm ein Duw gyda'r holl barch a chariad a deimlem mor wresog yn ein mynwsesau—y lle eysegredig i'n harddangosiad cyntaf o bur a dihalog ymlyniad at y gwrthdrychau a garem, neu lle y gwystlasant dau gyfaill eu cydserch—y lle y derbyniasom yr egwyddorion cyntaf o wybodaeth, neu y cyrhaeddasom dansoddau mawrion crefydd, nes dyfod yn esiamplau o ddioni a phurdeb, a ddylai fod yn gu iawn genym, ac wedi eirwymao yn dŷn o amgylch amglyddion ein calonau.

Yr oedd Bethlehem, yn ol yr egwyddorion hyn, er ei bychandra, yn lle hybarchus, yn gymaint a'i bod yn breswylfa gymaint o bobl duwiolfrydig; a bod gweithredoedd neillduol o dduwioldeb a chrefydd wedi eu harferu yno. Yno yr arosodd y patriarch Jacob peth amser i gyfodi cofadail i'w anwyl Rahel. Ym Methlehem y rhoddai Naomi, a'i merch-yn-nghyfraith serchus, Ruth, brofion tarawiadol o'u ffydd a'u rhinwedd; ac yno yr oedd gan Boaz, eu noddwr haell-

ionus, ei breswylfod a'i etifeddiaethau. Yn Methlehem y trigodd y gostyngedig Jesse, tad dedwydd cynnifer o feibion, yr ieuangaf o ba rai a ddychrafwyd o fod yn fugail i deyrnwialen Israel. Yno yr ymffurfiodd Dafydd fwriad o adeiladu ty i'r Arglwydd, ac yr amlygodd ei hun yn fugail ffyddlawn ac yn dad i'w bobl, pan, wrth yr olwg ar yr angel dinystriol, cleddyf yr hwn oedd yn dwyn gydag ef angeu a braw, yr eirioloedd dros y dyoddefwyr cystuddiol. Yn Methlehem y ganed y twysog Zorobabel, o achan Dafydd, yr hwn oedd gysgod o'r Rheolwr a'r Bugail hwnw, o dan faner yr hwn yr oedd Israel, ryw-ddydd, i gyd-ymgynnill, modd y gallent fwynhau dedwyddwch didor. Yn ddiweddaf, yn y ddinas hon yr ymddangosodd Mab Duw, yr hwn, trwy ei enedigaeth, a osodol sylfaen yr iachawdwriaeth hono, pa un, fel Achubwr, y pwrcasodd efe i'r holl fyd. Fel hyn, mewn lle o faintioli dielwig ac ymddangosiad salw, yr ydym weithiau yn gweled dynion yn codi i fynu ag ydynt yn dyfod yn dadau a neddwyr yr hil ddynol : ac yn aml y mae pentref an-adnabyddus i enwogrwydd wedi rhoddi bod i ddyn, yr hwn, trwy ei ddeethineb, uniawnder, neu wrolfrydedd, a fu yn fendith i deyrnasoedd cyfain.

Cyf. MOESSEN.

Yr undeb yn cael ei gondemnio gan berthynas rhieni a phlant.

GAN hyny, am fod amgylchiadau rhieni mor wahanol i'r eiddo y Llywodraeth, y mae yn amlwg nad yw yn ddiogel ymresymu oddiwrth ddyledswyddau y naill at swyddau y llall ; ond mor bell ag y mae cyfatebiad rhyngddynt, y mae y cyfatebiad hwnw yn condemnié awdurdod y Wladwriaeth ar yr Eglwys fel peth afresymol : oblegid pan y mae plant unrhyw deulu wedi tyfu i fynu i oedran, y maent bob amser yn cael eu rhyddhau oddiwrth awdurdod eu rhieni mewn pethau crefyddol. Pa rieni a feddylient am orchymyn i'w mab wedi cyrhaedd deg-ar-hugain oed, pa gredo i'w broffesu, neu pa weinidog i'w wrandaw ? Pa fab yn yr oedran hwnw a ym-ostyngai i'r fath orchymyn ? Erbyn yr adeg hono y mae awdurdod y tad mewn pethau crefyddol wedi darfod, gan fod pob dyn yn gyfrifol i Dduw am ei ymddygiad crefyddol, ac nas gall ganiatâu i neb gyfryngu rhyngddo ef a'i Wneuthurwr. Y mae y mab y pryd hwnw wedi dyfod yn annibvnol mewn ystyr grefyddol ; a byddai pob ymgais i osod arno gredo neu ddysgawdwr crefyddol yn ormes. Gan fod rhwymedigaeth y rhieni i addysgu y plaut yn cyfodi yn unig oddiar eu haugen am wirionedd dwyfol, a'u hanallu i farnu drostynt eu hunain, y mae y rheswm dros yr awdurdod hon yn peidio mor fuan ag y mae eu galluoedd wedi addfedu ; ac o'r pryd hwnw allan byddai yn bechadurus ynddynt oddef i'r awdurdod hon gael ei harfer. Y mae yn llawn cymaint gwendid a bai mewn cenedl i oddef i'r llywodraeth benderfynu ei chredo : oblegid y mae y genedl mewn cyflawn oed. Y mae amserau wedi bod, pan y gallai llywodraeth gyda rhyw ymddangosiad o reswm ymddwyn tuag at

genedl fel tad at blentyn : ond paham y dylai y genedl hon gael ei thrin fel plentyn yn awr ? Y mae myrddiynau o ddynion yn y wlad hon mor alluog i farnu drostynt eu hunain gyda golwg ar grefydd ag ydyw y 658 o aelodau Tŷ y Cyffredin i farnu drostynt. Ymhlieth pob cenedl rydd, y mae y wasg a'r esgynlawr yn alluoedd gogyfuwch a'r llywodraeth ei hun : ac yn y wlad hon, y mae pob dydd yn ei wneyd yn fwy amlwg mai nid addysgwyr plant yw aelodau Tŷ y Cyffredin, ond cynnrychiolwyr dynion ; ymhlieth y rhai y mae lliaws mor alluog a hwythau i wneyd ymchwiliad o bob cwestiwn yn gystal mewn gwladwriaeth a chrefydd : ac os yw y genedl yn cael ei gwneyd i fynu o ddynion, dylai y senedd beidio a'u trin yn hwy fel plant. Yn wir, nid ydynt yn cael eu trin fel plant mewn un achos arall. Nid yw y llywodraeth yn penderfynu ein cyfreithiwr i ni, neu ein meddyg, neu ein masnachwr ; paham ynte y dylai benodi i ni ein gweinidog ? Paham y mae yn dewis yr achos hwnnw i arfer awdurdod ynddo, yn yr hwn, o bob un, y mae yn fwyaf anghymhwys i awdurdodi, ac yn yr hwn y mae ei chamsyniadau yn fwyaf niweidiol. Pan y mae y rhieni yn dewis y gweinidog i'w plant, y maent yn dewis iddynt hefyd eu meddyg a'u masnachwr ; os yw y llywodraeth am chwareu rhan rhieni a dynion, bydded iddynt enwi ein meddygon a'n masnachwyr. Naill a'i triner ni yn hollol fel plant, neu yn hollol fel dynion.

Pan y mae tad yn rhoddi i fynu bob awdurdod ar grefydd ei blant, am eu bed wedi tyfu i oedran, efe a all er hyn fod yn ddoethach na hwy, ac y mae yn ddiau ei fod yn fwy profiadol. Ond pa ddoethineb crefyddol neu brofiad svdd gan y tad cenedlaethol etholedig hwn, sydd yn dal awdurdod dros eglwysi Crist ? Yn wir, yma, y mae y cyfatebiad sydd rhwng perthynas y llywodraeth a'r eglwysi a pherthynas tad a'i blant yn cael ei droi yn hollol o chwith. Yn eglwysi Crist, y mae holl ddoethineb grufyddol y wlad wedi ei gasglu ynghyd : yn Nhŷ y Cyffredin, nid oes nemawr ddim doethineb grefyddol. Os yw y senedd mewn gwybodaeth gwladwriaethol debyg i'r tad, a'r genedl i'r plentyn—mewn gwybodaeth grefyddol, mae y senedd fel y plentyn, tra y mae gan yr eglwysi ddoethineb y tad : ac nid yw ymddiried i'r senedd am gredo, deddfau, a dysgyblaeth yr eglwysi, ond yr un peth ag ymddiried gofal y tad i'r plentyn.

Ond nid dyna y cyfan o'r afresymoldeb sydd yn gysylltiedig a'r Esgobyyddiaeth Wladwriaethol. Megys ag nas gall neb addysgu yr hyn nad yw yn ei wybod, ac na wna neb argymhell yr hyn nad yw yn ei gredu, felly nis gall tad annuwiol addysgu ei blant mewn crefydd. I'r gwrthwyneb, gwybuwyd am rai rhieni annuwiol yn cymeryd y fath drefn a gofal i lygru meddyliau eu plant, nes y darfu i'r Canghell-llys (*Court of Chancery*) ar y tir hwn, gymeryd oddi arnynt warcheidwaeth eu meibion eu hunain. Y mae y llywodraeth o dan yr un anallu. Os Tŷ y Cyffredin yw y tad cenedlaethol, y mae yn dad mor anghrefyddol, fel ag y dylai y plant gael eu tynu oddi dan ei lywodraeth. Nid oes gan chwe' chant o aelodau seneddol, heb ganddynt fwy o grefydd na chwe'

chant o ddynion wedi eu cymeryd ar antur o unrhyw ddinas neu dref o Brydain Fawr, y rhai y mae eu barnau duwinyddol, trwy fod yn cynnwys Pabyddiaeth, Uchel-eglwysiaeth, Sosiniaeth, a mil o amrywiaethau eraill, yn gwneyd i fynu dryblith perffaith o anghys-onderau nas gellir eu cymmodi—nid oes gan y cyfryw rai a hyn hawl i lywodraethu cred a dysgyblaeth 12,000 o eglwysi Cristionogol.

I gwblhau yr olwg hon ar afresymoldeb yr Undeb, rhaid i ni ychwanegu : tra y mae penteulu yn cymeryd gofal addysg ei blant am ei fod yn talu am dano, y maeaelodau y ddau dŷ senedd yn lle talu eu hunain am addysg ysbrydol y genedl, yn gorfodi y genedl i dalu am dano, gan gymeryd gafael yn meddiannau pawb a wrthyd talu : yn debyg fel pe hyddai i dad anwybodus ac annuwio! orfodi ei blant, wedi iddynt dyfu i fynu i oedran, i dderbyn ysgolfeistr sal ganddo, a'u curo a'u gorfodi os na wnaent adeiladu ysgol, a thalu cyflogau yr ysgolfeistr eu hunain.—*Baptist Noel.*

Diolchgarwch ysgoléiges Sabbathol i'w hathraw.

YN un o gyfarfodydd blyneddol Undeb yr Ysgolion Sabbathol, adroddodd Mr. Reed, o Norwich, yr hanesyn canlynol, yr hwn a ddi-gwyddodd mewn cysylltiad â'i Ysgol Sabbathol ef :—

Yr oedd geneth fechan berthynol i'r ysgol, yr hon a gymerwyd yn glaf yn ieuanc, ac a fu farw. Yn ystod ei hafiechyd, ymwelwyd â hi yn fynychganei hathraw, yr hwn a fuasai yn dra ffyddlawn i'w dysgu a'i goleuo am drefn yr iachawdwriaeth. Y tro diweddaf yr ymwelodd â hi, gwelai bod anser ei hymddattodiad bron yn ymyl, a gofynodd iddi “a oedd yn ddedwyd?” i'r hyn yr atebai, “ydwyf.” Gofynodd drachefn, “beth oedd sylfaen ei dedwyddwch?” atebai, “ei bod yn gorhwyys ar air Iesu Grist;” ac ychwanegai, “oni ddywedasoch wrthyf y rhoddai Iesu Grist goron o aur yn y nefoedd i'r rhai a fyddant feirw a'u gobairt ynddo ef?” “Gwnaiff,” ebe yr athraw, pryd yr oedd y dagrau yn llifo i lawr dros ei ruddiau “chwi gewch goron o aur, fel y dywedodd Iesu Grist.” “O!” ebe hithau, “a gewch chwi goron o aur?” Y fath gwestiwn tarawiadol a phwysig a dreiddiodd i galon yr athraw, fel nas gwyddai beth i ateb; pryd y dyrchafodd y fechan hawddgar ei llygaid melusber tuag ato, y rhai a amlygent eu diolchgarwch diragrith iddo, ac y dywedodd, “Os na rydd efe goron i chwi, mi gymeraf fi fy nghorron oddi am fy mhen, ac a'i dodaf ar eich pen chwi.” Y fath gydnabyddiaeth o ddiolchgarwch, oddiwrth blentyn bron ar ehedeg i Baradwys, a ad-dalai yn dda am dymmor hir o lafur a thrafferth. “Ffrwyth y cyflawn sydd megys pren y hywyd; a'r neb a ennillio eneidiau sydd ddoeth.”

Cyf. BELTESSASSAR.

Yr Hini-fesurydd Ysbrydol.

D.S.. Bydded i'r darlenydd ddechreu yn y canol, a darllen i fynu neu i lawr, hyd oni chanfyddo y gradd wrth ba un y mae efe ei hun yn awr yn sefyll. Gwelir oddiwrth y radd-ddring hon, pa mor wyliadwrus y dylai fod ar yr ysgogiad cyntaf o eiddo pechod, canys y mae fel gollwng allan lawer o ddyfroedd. Canfyddwn y dechreuaad, ond nid y diwedd: "y mae hwn wedi ei amguddio a thywylwch; ond yn y gwrthwyneb, y mae "llwybr y cyfawn fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-fwy hyd ganol dydd."

20	GOGONIANT. Gollyngdod o'r corff. Chwant i ymddattod a bod gyda Christ. Dyoddefgar mewn cystudd. Ymffrostio yn y groes.
15	Cariad gwresog at eneidiau dynion. Dilyn yn brysur ar ol Duw. Marweiddiad i'r byd trwy groes Crist. Cariad Duw wedi ei dywallt yn y galon. Hyfrydwch a llawenydd wrth fwrdd yr Arglwydd.
10	Cyfarfodydd eglwysig a gweddiau. Hyfrydwch yn nghwmni pobl Dduw. • Hoffder o air a thy Dduw. Ymadawiad a chwmpeini ofer.
5	Darleniad dyddiol o'r Bibl, ynghyda gweddi. Goleuni ysbrydol. Ymneillduo i fyfyrlo a gweddio. Dychryn a braw. Gwasgfa am fater enaid.
0	DIFATERWCH. Addoliad teuluaid ar ddydd yr Arglwydd. Esgeulusdod mynch o weddi ddirgel. Addoliad teuluaid wedi ei adael yn llwyr. Ysgafnder mewn ymagwediad.
5	Dilyn y ffasiynau, pa mor gostus bynag. Gloddest a'r ddiod feedwol. Cyfeillach rydd a dynion llygredig. Hoffder o lyfrau gwag, ffeiriau, a chmpau, &c. Gwleddoedd, difyrwch, a dawnsiau.
10	Cefnu ar dŷ Dduw. Cyfeddach a diota. Ammheuaeth o air Duw. Gweddi ddirgel wedi ei hesgeuluso yn gwbl. Pleser yn nghyfeillach anffyddwyr.
15	Gwleddoedd a difyrwch ar y Sabbath. Meddwdod a godineb, &c. Canu maswedd ac afendid. Anffyddiaeth, gwawdio ar grefydd, &c. Afiechyd a marwolaeth.
20	DYSTBYW.

Llwyddiant Gwedi daer.

GWARIG i lafurwr tlawd yn swydd Wilts, pan ei galwyd drwy ras Duw, ei gŵr a dröai yn erlidiwr tost; a chan na wnai ei wraig ym-wrthod a gwasanaeth Duw, efe a'i gwthiodd dros y drws, un noson, yn nhymnor y gauaf. Gan ei bod yn wraig synwyrol, nis cyhoeddaei ei greulondeb yn mysg ei chymydogion; ond yn y gwrth-wyneb, rhag tynu eu sylw arni, elai i'r maesydd gerllaw, ac ym-roddai i weddio. Yn drallodedig iawn, eto nid yn anobeithiol, ei hunig gynnaliaeth ydoedd, fod pob peth yn bosibl gyda Duw. Penderfynai gan hyny i neillduo un awr bob dydd i weddio am dröedigaeth ei gŵr erlidgar. Galluogwvd i wneyd hyny, heb fethu un diwrnod, am flwyddyn gyfan. Heb weled eto un cyfnewisidai yn ei gŵr, gwnelai ail benderfyniad i ddal ati am chwe mis yn hwy; yr hyn a wnai hyd y dydd olaf, pryd vr ymneillduai am ddeuddeg ar y gloch, fel arferol, ac fel y meddylai, am y tro diweddaf. Gan ofni fod ei dymuniadau yn y peth hwn yn groes i ewyllys Duw, penderfynai na alwai mwy arno, gan na chaniatâi ei dymuniad—yr oedd ei gobaith wedi ei dori ymaith. Yr un diwrnod dychwelai ei gŵr oddiwrth ei waith mewn cyflwr o drymder dwys, ac wedi eistedd fel arferol wrth ei giniaw, elai rhag ei flaen i'w ystafell. Elai hithau ar ei led ol, a dêallai, er ei svndod diolchgar, fod yr hwn a arferai wawdio wedi troi i weddio. Wedi dyfod o'r ystafell, gwrthodai fwyta, ac elai at ei waith drachefn hyd yr hwy.

Pan ddaeth adref, gofynai ei wraig iddo yn serchus, "Pa beth yw y mater?" "Mater yn wir ebe yntau, yr ydwyf yn bechadur mawr colledig. Ynghylch deuddeg o'r gloch heddyw daeth gair o'r Bibl i fy meddwl gydag effaith dwys, ac nis gallaf gael gwaredd o hono." (O na chaem ninnau yn y dyddiau hyn deimlo gair Duw yn bachu ynom nes y bo i ninnau fethu cael gwaredd oddiwrtho.) "Ac," ychwanegai, "yr ydwyf yn sicr fy mod yn golledig." Ei wraig a'i hannogai i weddio; ond efe a'i hatebai, "O wraig, nid yw o ddyben yn y byd—nid oes maddeuant i mi." Gwedi ei daro â galar dirwasgedig wrth gofio ei ymddygiadau gynt, gofynai, "A wnewch chwi faddeu i mi?" Atebai hithau, "Gwnaf." "A wnewch chwihau weddio droswyf fi yn awr?" "Hyny a wnaf â'm holl galon." Yn ddioed syrthient eu dau ar eu gliniau gan wylo a chyflwyno eu deisyfiadau. Ei ddagrau ef o edifeirwch a gymysgent a'i dagrau hi o ddiolchgarwch a gorfoedd.

Daeth wedi hyny yn wr crefyddol iawn, a llafuriai i ddwyn ei gymydogion i adnabod ffordd iachawdwriaeth trwy Iesu Grist.

Gwelwn oddiwrth yr hanesyn hwn fawredd gras Duw yn nerthu y wraig hon i weddio mor ddi-ildio, dros ei gŵr creulawn gyhyd o amser; a hefyd nerth gair yr Arglwydd, pan ddel ya llaw yr Ysbryd Glan, i drywanu mewn argyhoeddiadau. Daw a'r graig yn llyn dwfr.—"Cyfaill o'r Hen Wlad," am Ionawr, 1843.

Llanfachreth.

R. W.

Dr. Franklin.

DR. FRANKLIN a ddywed iddo giniawa ar un achlysur gyda rhai cyfeillion, ac iddynt gloi y drws a gwneyd iddo yfed i ormodedd.

Yn mhen oddeutu mis, gwahoddodd y Dr. yr un cwnani ag y ciniawodd gyda hwy y tro hwnw, i giniawa yn ei dŷ ei hun; ac wedi iddynt ddigoni eu hunain, fe orchymynodd gael darnau o *beef* a *button*, pan oedd ynt yn dysgwyl y gwin. Yr oedd ynt yn rhyfeddu. Hwy a edrychasant arno ef, ac efe a edrychodd arnynt hwythau. Wedi cloi y drws, dywedodd, "Na ryfeddwch, foneddigion; pan y ciniawais gyda chwi, gwnaethoch i mi yfed, pa un bynag a wnaeon ai peidio, yn awr gwnaf i chwithau fwyta, pa un bynag a wnewch ai peidio." Pa un a lwyddodd efe i'w cywilyddio hwy allan o'u hymddygiad anifeilaidd, ni ddywedir; ond yn sicr nid oedd ei ymddygiad ef, er ei fod yn llai cyffredin na'u heiddo hwy, yn fwy gwrthun ac isel. Mae anghymedroldeb, pa un bynag ai mewn bwyd ai diod, ar unwaith yn bechod yn erbyn Duw, ac yn iselhad ar y natur resymol.

Cybydd yn cael ei gosbi.

CYBYDD wedi iddo golli can' punt a addawodd ddeg punt i unrhyw un a ddeuai a hwynt iddo. Dyn gonest tlawd, yr hwn a'u cafodd, a ddaeth a hwynt i'r hen wr boneddig, gan erchi y deg punt. Ond y cybydd i'w ddyrys u ef a haerodd fod cant a deg punt yn y gôd pan y collwyd ef. Y dyn druan a gynghorwyd, pa fodd bynag, i fyned i gyfraith yngylch yr arian, a phan ddaeth yr achos ymlaen i'w brofi, gan fod yn ymddangos na thorwyd y sel, ac na rwygwyd y gôd, dywedodd y barnwr wrth ddadleuwr y carcharor. "Yr oedd yn y gôd a gollasoch chwi gant a deg punt." "Oedd, fy arglydd," meddai efe. "Yna," meddai y barnwr, "yn ol yr ardystiad a roddwyd yn y llys, nid all hwn fod ya eiddo i chwi, o herwydd nid oedd yma ond can' punt, gan hyny rhaid i'r gofynydd eu cadw hyd nes yr ymddengys y gwir berchenog.

Pregeth hynod.

DR. Beecher a gytunodd unwaith i newid Sabbath a gweinidog o'r wlad, a throdd y Sabbath allan yn dra ystomus, oer ac anghysurus. Yr oedd yn y gauaf, a'r eira wedi ymdyru ar hyd yr holl ffyrdd fel ag yr oedd yn dra anhawdd fyned ar hyd-ddynt. Er hyny y gweinidog a yrai ei geffyl trwy y lluwchfeydd nea y cyrhaeddodd yr eglwya. Rhoddodd yr anifel yn yr ystabl ac aeth i mewn. Nid oedd yr un dyn yn yr addoldy eto, ac ar ol edrych oddiamgylch, yr hen wr boneddig pryd hyny yn ieuanc, a eisteddodd yn yr areithle; yn fuan agorwyd y drws a daeth un dyn i mewn: edrychodd oddiamgylch a chymeroedd eisteddle. Yr awr a dilaeth i'r gwasanaeth ddechreua; ond ni ddaeth dim ychwaneg o wrandawyr. Pa un ai pregethu i'r fath gynnulleidfa ai peidio oedd y mater yn awr. Ac yr oed dyn un na bu Lyman Beecher yn hir yn ei benderfynu. Efe a deimlai fod ganddo ddyledawydd i'w chyflawni, ac nad oedd ganddo un hawl i wrthod ei gwneuthur o herwydd y medrai un dyn fedi lleshad o honi; ac felly efe a aeth trwy yr holl wasanaeth, gweddio, canu, a phregethu a'r fendith, gydag un gwrnadawr: a phan yr oedd y cwbl drosodd efe a frysiodd i lawr o'r areithle i siarad a'i gynnulleidfa; ond yr oedd wedi myned ymaith.

Cyfeiriai at amgylchiad mor anghyffredin yn achlysurol, ond ym mhen ugain mlynedd wedi hyn y fe'i dygwyd i sylw y Doctor yn dra hynod.

Fel yr oedd y Doctor yn ymdeithio yn rhywle yn Ohio, disgynodd o'i gerbyd mewn pentref hardd, a daeth gwr boneddig ato, gan ei alw yn ol ei enw. "Nid ydwyt yn eich cofio chwi," meddai y Doctor. "Mae yn debyg nad ydych," meddai y dyeithr; "ond ni a dreuliaus ddwy awr mewn ty ein hunain unwaith ar ystori!" "Nid ydwyt yn cofio, Syr," meddai yr hen wr; "attolwg pa bryd yr oedd hi." "A ydych chwi yn cofio pregethu ugain mlynedd yn ol, yn rhywle, i un dyn yn unig." "Yr wyf, yn wir, ac ai chwychwi yw y gwr! yr wyf wedi ewyllsio eich gweled byth wedi hyn y." "Myfi yw y dyn, Syr. A'r oedfa hono a schubodd fy enaid, ac a wnaeth weiniog o honof, a dacw fy eglwya. A dychweledigion yr oedfa hono sydd dros holl Ohio." Gwnaeth hyn effaith neillduol ar feddwl y Doctor. Efe a ddeallodd mai cyfreithiwr oedd y dyn y pryd hyn y, yr hwn oedd yn y dref ar neges, ac wedi blino yn y gwesty a aeth trwy yr ystori i wrandaw y bregeth hono.

Dywedai y Doctor yr hanes yn aml, ac ychwanegai "Yr wyf yn meddwl fod y gynnulleidfa hono mor foddlonol a'r un gynnulleidfa a gefais erioed.

J. B. J.

Difrifwch.

DARLENAIS am ryw frenin na welid mo hono ua amser yn chwerthia, nac yn gwenu; ond yn mhob lle, ac ymhlieth pob math o gyfeillion, yr oedd yn ymddangos yn syn a difrifol iawn. Y frenines yn dra gofidus o'r achos, a aeth at ei frawd, ac a ddymunodd arno ofyn i'r brenin pa ham yr oedd mor brudd? atebodd y brenin i'w frawd y cae efe wybod dranoeth.

Yna aeth y brenin at ei weision ac a orchymynodd iddynt gloddio twll dwfn yn y ddaear, a gwneyd tan glo mawr ynddo—rhoddi hen fwrdd braenlyd arno—crogi uwch ei ben a llinyn main, ddau'gleddyf llym, a'u blaenau i lawr, a rhoddi yn ymyl y twll, fwrdd hiliedig o bob math o fwyd danteithiol, a digonedd o win melus. Ar hyn, archodd roddi ei frawd ar y bwrdd braenlyd, a phedwar o ddynion i sefyll o'i amgylch a chleddyfau noethion yn eu dwylaw, y cyntaf y tu ol, yr ail y tu blaen, y trydydd y tu deheu, a'r pedwerydd y tu aswy iddo; danfonodd hefyd am bob offeryn cerdd a allasai ei deyrnas roddi, er mwyn difyru ei frawd. Yna galwodd y brenin arno i fwyta, yfed, chwerthin, a bod yn llawen, oblegid fod pethau hyfryd dros ben o'i flaen: ond efe a ddywedodd, "O fy Arglywydd frenin, pa fod y gallaf fi fod yn llawen tra yr ydwyt yn y fath berygl o bob tu?—Wrth edrych i lawr, mi welaf dàn glo mawr, ac os symudaf, bydd i'r bwrdd braenlyd hwn dori, a fy nisgyr i'r tan, yr hwn a'm llysgr yn lludw! Os edrychaf i fynu, mi welaf gleddyfau yn crogi wrth linynau egwan, ac, os cyffyrddir a hwyt, syrbiant a lladdant fi mewn mynyd! Wrth edrych yn ol neu ymlaen, ar y deheu neu ar yr aswy, mi welaf ddynion yn sefyll a chleddyfau noethion yn eu dwylaw i gymeryd fy mywyd ymaith! A pha fod y gallaf fwyta, yfed a bod yn llawen, a minnau yn nghanol cynnifer o beryglon?" Yna yr atebodd y brenin, "Gwel! fel y mae yn awr gyda thi, felly y mae bob amser gyda mi; canys os edrychaf i lawr, yr wyf yn gweled uffern a'i phoenau diddiwedd, i ba le y bwrir fios byddaf farw yn fy mhechodau! Os edrychaf i fynu, yr wyf yn gweled y Barnwr mawr ac ofnadwy, i'r hwn y rhaid i mi roddi cyfrif o'm holl feddyliau, geiriau, a gweithredoedd, pa un bynag ai da ai drwg! Os edrychaf yn ol, yr wyf yn gweled yr holl bechodau a wnaethym er pan ydwyt yn y byd, a'r amser a dreuliais yn ddiles! Os edrychaf ymlaen, yr wyf yn gweled

angeu bob dydd yn nesau i'm trosglwyddo i'r byd arall! Os edrychaf ar y tu deheu, yr wyf yn gweled fy ngbydwybod yn fy nghyhuoddo am bob peth a wnaethum arfai, ac a adewais heb ei wneyd! Os edrychaf ar yr aswy, yr wyf yn gweled y creaduriaid yn llefain dial arnaf! Am hyny, na ryfedda o hyn allan am nad allaf lawenhau, ond yn hytrach wylo yn barhaus!"

Pe bae dynion yn ystyried sefyllfa eu heneidiau, byddai llai o chwerthin a chellwair yn y byd, a llawer mwy o wylo.

Ysgol Sabbathol Ffynnon Groew.

MR. GOL.

SYR, wrth ddarllen eich cyhoeddiad clodwiw, yr ydwyf yn cael newyddion am lwyddiant yr Ysgol Sabbathol yma a thraw; a diammhau genyf nad annymunol genych chwithau a phawb o ddarllenwyr y "Geiniogwerth," glywed am sefyddiad Ysgol Sabbathol, ynghyd a'i llwyddiant, mewn lle na bu erioed o'r blaen; os byddwch mor garedig a rhoddi lle iddynt yn eich tudalenau.

Y lle uchod sydd ardal lled boblogaidd ar lân y mor, plwyf Llanasa, Swydd Flint, heb un lle cyfleus i addoli o fewn dwy filldir neu r agror.

Yr oedd y lle uchod wedi ei esgeuluso yn hollol gan bob enwad crefyddol, yn y rhan yma o waith yr Arglwydd, hyd fis Gorphenaf diweddaf, pryd y bu i'r peth ddisgyn yn ddwys ar rai brod yr perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd yn Mostyn.

Penderfynwyd yn ddioed i anfon rhai brod yr ymweled â'r ardal, ac i baratoi erbyn y Sabbath. Felly yr aethant, a chyttunasant am ddwy ystafell chwe' llath wrth bedair llath bob un, a'u huchder yn chwe' troedfedd ac ychydig fodfeddi, (y mae y lle yn bur anghyfleus i bregethu ynddo): gwnaed yn hysbys yn yr ardal fod ysgol i gael ei chynnal am ddau o'r gloch y Sabbath canlynol; a mawr oedd y syndod pan welwyd y nifer o 83 yn bresennol, y tro cyntaf, rhwng plant a phobl mewn oed. Yr olygfa hon a lanwodd y brod yr a'r chwiorydd â llawenydd wrth weled y fath sirioldeb oedd yn llanw wynebpryd pawb, ynghyd a'r awydd oedd ynddynt am y sefyddiad yn eu plith. O'r pryd y cychwynwyd yr achos hyd yn awr y mae yr ysgol wedi cynnyddu yn agos i 160 o nifer. Ond i ddychwelyd at effeithiau daionus y sefyddiad hwn: mi enwaf ychydig o lawer, a byddaf mor fyr ac y medraf. Yr oedd allan o'r 83 oedd yn bresennol y Sabbath cyntaf, 67 heb fedru adnabod y llythyrenau; ond erbyn hyn y mae oddeutu 40 wedi eu symud i'r dosbarth cyntaf a'r ail; ac y mae llawer o blant eraill bron ac adnabod y llythyrenau yn berffaith. Y mae yma dadau a mamau wedi cyrraedd oedran o wyth a deugain ac uchded, ar y cyntaf heb fedru y wyddor, y rhai hyn trwy lafur a diwydrwydd ydynt yn sillebu yn dda yn y dosbarth cyntaf, a hyny mewn pedwar mis o amser. Y mae y fath awydd ynddynt am ddysgu, yn codi y cyffelyb awydd yn yr athrawon a'r athrawesau i'w dysgu hyd onid ydyw y naili a'r llall wedi eu llenwi â sel a ffyddlondeb at y gwaith da hwn. Yn y modd yma y maent wedi ymbriodi â'u gilydd, fel mai priodol y gallwn ddyweyd, "Nid ydynt mwy ddau ond un." Effaith arall o eiddo yr Ysgol Sabbathol ydyw codi awydd yn mhawb o'i deiliaid i ddarllen gair yr Arglwydd, ynghyd ag ymdrech am ddeall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Y mae yma amryw Fibliau a Thestamentau wedi eu prynu ganddynt, ynghyd ag amryw o lyfrâu da eraill, y rhai ni bu yn eu meddiant erioed o'r blaen.

Effaith arall o eiddo yr Ysgol Sabbathol, ydoedd codi awydd mawr yn yr ardal am ychwaneg o foddion a y Sabbath. Caniatawyd eu dymuniad

yn hyn, ac yn awr y mae yma yagol, cyfarfod gweddio, neu bregethu, dair gwaith bob Sabbath yn cael ei gynnal. Bu amryw o weinidogion a phregethwyd yma yn pregethu, ac arwyddion amlwg fod yr Arglwydd yn arddel ei weinidogaeth yn ein plith; a diammhaen genyma fod ganddo feini lawer yn yr hen gwarel yma ac y bydd yr Ysbryd Glan yn ei ddylanwadau sanctaidd a grasol, yn eu caboli (*polishing*) ac yn eu gwneyd yn werth ganddo ei harddel yn nydd mawr eu ddyfodiad ef.

Effaith arall ydyw, ennill y rhai oedd o'r blaen yn tori y Sabbathau ac yn sathru gorchymynion Duw tan draed, i fod yu gyson yn mhob moddion ar y Sabbathau: y plant hefyd oedd o'r blaen yn chwareu hyd y ffyrdd a'r twmpathau, ydynt yn awr yn blant syml a phrydferth yr olwg arnynt, ac nid oes yr un rhan o'r moddion trwy y Sabbath nad yw eu presennoldeb hwy yno; ac nid hyny yn unig, ond y maent yn dysgu rhanau o air yr Arglwydd ac yn ei drysori yn eu cof: a'n dynuniad ninnau yn barhau ydyw am iddo argraffu ei air ar ei calonau.

Y mae ygwaandawyr o dilau cant a hanner i dri chant o nifer, ac y mae yr ystafelloedd y soniwyd am danynt yn awrynnhygyfng i bregethu ynddynt; oblegid nid oes un lle i gael awyr i mewn ond trwy y drws yn unig; ac er nad oes yma ond llafurwyr tlodion, gweithwyr yn ennill ond cyflogau gweddol; eto y maent wedi dangos eisoes fod ganddynt galonau i weithio, fel y maent wedi penderfynu cael casgliad bob yn ail Sabbath, at adeiladu capel, ac y mae y gwaith da hwn wedi ei gychwyn a'i ddwyn ymlaen bob pythefnos yn rheolaidd hyd yma, fel y mae yn amlwg ibawb eu bod yn dechreu teimlo dros achos Mab Duw, a'r teimlad hwnnw yn tori allan yn weithredu. Fel hyn y maent yn "bwrrw eu hadlingau i'r drysorfa," fel y llwyddodd Duw hwynt.

Anwyl gyfeillion crefyddol ac aelodau yr Ysgol Sabbathol; onid oes yn Nghymru eto lawer o ardal oedd o'r fath yma yn amddifad o Ysgol Sabbathol a moddion gras, a ninnau yn eistedd yn dawel a difater yn eu hymyl: onid yw y fath newydd a hwn yn barod i greu ynoch ryw sel danbaid dros achos Iesu Grist, a thosturi dros eich cyd-greaduriaid, ag a'ch gwnelo yn fwy gweithgar ac ymdrechgar dros pob rhan o'i waith. A gaiff cannoedd o blant Cymru dyfu i fynu yn wyr ac yn wragedd anlythyrenog, heb fedru cymaint a darllen enw y Cyfryngwr bendigedig? A gaiffein gelynion ein hwlio a'n difrio a'n hiselu, a dywedyd ein bod yn suddo mewu anwybodaeth a barbareidd-dra? Na, mentraf ateb na chânt; oblegid hyderaf y bydd holl ddeiliad yr Ysgol Sabbathol, yn dyfod allan fel un gŵr, ac yn gwneyd penderfyniad yn ddioedi, i sefydlu ysgolion mewn lleoedd nad ydynt eto wedi eu sefydlu.

Y peth olaf a gyflwynaf i'ch sylw ydyw, y cynllun ar ba un y dygir yr ysgol ymlaen, sef yr un Frytanaidd, yr hwn nid oes ei gyffelyb; wedi ei gael eto mewn bywiogrwydd a chyflimdri a ddysgu. Yn awr cymhellaf y rhai nad ydynt wedi ymgymeryd a'rdull hwn o ddysgu plant, i ymafydynddo yn ddioed. Paham y rhaid annog cymaint arnom fel cenedl at y dull hwn o ddysgu, pryd y mae wedi profi ei hun tu hwnt i bob dadl yn un anffael-edig, ond ei ddilyn yn gywir, ac nid yn farwaidd a hannerog.

S. J.

Dic Wirion.

ODDIAMGYLCH i ddrws tŷ tafarn gwledig yn yr Iwerddon, gellid yn fynych weled bachgen penffol, yr hwn oedd bron wedi tyfu i fynu i'w gyflawn faintiol i mewn anwybodaeth a phechod. Nid oedd ei wybodaeth yn cyrhaedd

ddim pellach na'r triciau cyfrwys, y rhai yn rhy hawdd a ddysgir gan y fath ddyoddefwyr tlodion, drwy ddylanwadau esiampl y diafol a'r drygionus, y rhai a fynychant y tafarndai cyffredin. Ychydig o gerddi digrif a thriciau ysmala, oedd yr unig bethau a lanwent ei feddwl.

Yr wyf yn awr wedi anghofio enw y bachgen tlawd; ond er mwyn eg-lurder yu yr hanesyn, galwaf ef yn Dic Wirion.

Daeth morwr un diwrnod at y ty, ac a arosodd i ganu wrth y drws math o hymn oedd ei gân a byrdwn iddi yn y geiriau canlynol:—

“*Yr wyf fi yn bechadur tlawd heb ddim yn y byd,
Ond Iesu Grist yw f' oll i gyd.*”

Clywodd Dic y gân; ond ni ddysgodd ddim o honi, oddieithr y byrdwn, yr hwn a ganai drosodd a throsodd drachefn wrtho ei hun yn ddibaid: o'r diwedd, teimlai ddymuniaid cryf i ddyegu 'r oll o'r gan. Ond pa le y ceid hyd iddi. Cafodd gan ryw un chwilio y llyfr hymnau, ac wedi hynny y Bibl; ond nis gellid ei chael yn un o'r ddau. Yna meddyliai yr âi trwy yr holl eglwysi a'r capeli; efallai y cai ei chlywed yn un o honynyt. Fe aeth, a chymerwyd ei sylw yn y fath fodd gan yr hyn a glywodd, fel yr aeth drachefn; nes o'r diwedd am y gwyd iddo (er ei alar ar y pryd) ei fod mewn gwirionedd

“*Yn bechadur tlawd heb ddim yn y byd.*”

Yr oedd ei dristwch yn fawr; ond clywodd gymaint am Iesu Grist, a'r lawn bendigedig, nes o'r diwedd galluogwyd ef i'chwanegu:

“*Ond Iesu Grist yw f' oll i gyd.*”

O byn allan yr oedd Dic yn ddyn arall. Rhoddes i fynu ei gerddi digrif a'i gwnni drwg, ac a aeth i le o addoliad gan ymhyfrydu mewn pethau sanctaidd. Ei hen gyfeillion a chwarddeut am ei ben, gan ddywedyd ei fod yn myned yn falch, a'i fod eisieu gwell cwmboi; ond Dic a atebai eu holl ofer siarad yn geiriau ei anwyl syrdown, y rhai a ddagagant deimlad ei galon ac arwyddion ei weithredoedd.

“*Yr wyf fi yn bechadur tlawd heb ddim yn y byd.
Ond Iesu Grist yw f' oll i gyd.*”

Cyn pen hir gwelid fod duwioldeb Dic yn gadarn a sefydlog; a pharodd ei ddiwydrwydd yn moddion gras i rai pobl dduwiol ei annog i gofio angeu Crist yn y swper sanctaidd. Yn ganlynol, gefynodd Dic am ganiatâd i fwynhau y faint mewn cysylltiad âg eglwys gristionogol yn y lle. Yr oedd y gweinidog yn holol foddawn, gan ei fod yn cwbl gredu ei fod yn ddysgybl i'r Iesu.” A phan alwodd rhai o'r brodyr gydag ef i ymofyn am ei brofiad crefyddol—“ profiad ” ebe Dic “nid oes gan Dic brofiad i'w ddyweyd—y cwbl a wyr ef,”

“*Yr wyf fi yn bechadur tlawd heb ddim yn y byd,
Ond Iesu Grist yw f' oll i gyd.*”

O'r diwedd, gosodwyd Dic druan ar ei wely angeu; ac fel yr oedd yn tynu tua'r bedd, galwodd ei weinidog i'w weled: yr oedd yn bur wan, ac nis gallai y gweinidog gael dim o hono ond ei anwyl linellau. Gofynwyd iddo pa peth oedd ei obaith am y nefoedd; pa beth oedd ganddo i gyfarfod â Duw; pa fodd yr oedd yn meddwl cael cymeradwyaeth yn y dydd olaf? I'r oll o'r pethau hyn atebodd yn siriol,

“*Yr wyf fi yn bechadur tlawd heb ddim yn y byd,
Ond Iesu Grist yw f' oll i gyd.*”

Anwyl ddarllenyydd a gaiff y bachgen penffol hwn dy gondemnio ddydd y farn. Llawer sydd er eu holl ymfrost o wybodaeth a deall, yn gwybod llai o honint eu bunain, ac am undeb ffydd a Mab Duw, na'r creadur tlawd hwn. A wyt ti o nifer y rhai hyny, neu a ell i di ddyweyd yn os-tyngedig a diolchgar,

"Yr wifyn bechadur tlawd heb ddim yn y byd,
Ond Iesu Grist yw f'oll i gyd."

Os gelli, yr wyt yn ddedwydd: yn yr ychydig linellau hyn y mae cadwed-edigaeth enaid am dragwyddoldeb.

Bible class Magazine.

Y Parch. Baptist Noel.

SOMIASOM yn y rhifyn diweddaf fod y gweinidog enwog hwn wedi gadael yr Eglwys Sefydledig. Yn y rhifyn hwn, rhoddasom amryw ddarnau allan o'i lyfr ar "Undeb yr Eglwys a'r Wladwriaeth." Cyhoeddwyd y llyfr hwn tua diwedd Rhagfyr, a gwerthwyd yr holl argraffiad cyntaf y dydd y cyhoeddwyd ef. Deallwn ei fod yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Mr. Owen Jones, Manchester, a gobeithiwn y caiff dderbyniad helaeth gan y Cymry.

Y Pab.

Yn Gaeta, o fewn tiriogaeth Naples, y mae y Pab yn aros o hyd. Y mae wedi cyhoeddi gwrtystiadau yn erbyn gweithrediadau y Rhufeiniad; ond pan roddwyd y paprynn i fynu ar y muriau yn Rhufain, tynwyd ef i lawr a sathrywyd ef dan draed gan y bobl. Dysgwylia y Pab i Awstria a Ffrainc ei roddi yn ol trwy drais ar ei orsedd; ond gwnai hyn ef yn fwya anmhobogaidd nag erioed yn Rhufain.

Y mae yn deilwng o sylw mai y pab hwn a ysgogodd yr holl gynhwrf sydd yn awr ar y cyfandir. Er mwyn ennill clod iddo ei hun, dechreuodd ganiatâu ychwaneg o ryddid i'w ddeiliaid, yr hyn a gododd awydd am freintiau cyffelyb mewn gwledydd eraill. Ond yn awr y mae y pab, fel y bachgen drwg wedi rhoddi rhod y felin i droi, yn dychrynu ac yn galaru wrth weled na fedr mewn modd yn y byd ei hattal.

Ffraeth-ddywediadau Mary, Iarlles Warwick, 1650.

Y CRISTION o fewn ychydig, neu y profieswr arwynebol, yw yr annedwyddaf o bawb: y mae ganddo ddigon o grefydd i beri i'r byd ei gasâu; ond rhy fach i beri i Dduw ei garu.

O Arglwydd, yr hyn a roddwyf i ti, ni ryglydda dy fodd, oni roddaf fy hun i ti; felly yr hyn a roddych dithau i minnau, ni'm boddha, oni roddi i mi dy hunan.

O Dduw, yr hwn a roddi ras i'r gostyngedig, dyro ras i'm gwneuthur i yn ostyngedig.

Po mwyaf dirmygedig y gwnaeth Crist ei hun o'n hachoa ni, mwyaf gwerthfawr y dylai efe fod yn ein golwg ni.

Y darian oreu rhag enllibiau ydyw bucheddu yn y fath fodd, fel na byddo i neb eu credu.

Y neb a ddialo gam, sy'n gwneyd gwaith dienyddwr; ond yr hwn a'i maddeuo, sy'n gwneyd gwaith tywysog.

Cofnodiadau.

Yn adroddiad y Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, am y flwyddyn 1846, canfyddir yr hyn a ganlyn:—R. E. P. (Ty mawr Auxiliary, £.50) Yr ydyn yn deall mai yr hwn y cyfeirir ato ydyw Robert Evans, Ysw., Methlam, Lleyn, sir Gaernarfon. Gobeithiwn y bydd i lawer o'n cyd-wladwy: ychwanegu at gyllidau y Gymdeithas hon, yn ol ei esiampl, fel y galluoger hithau, mewn canlyniad, i helaethu ei therfynau.

Yn Gyffylliog, yn agos i Ddinbych, dysgodd merch ieuanc lyfr y Salmau allan yn dda mewn pythefnos a deuddydd o amser.

Ffrainc.

Louis Napoleon, nai Bonaparte, sydd wedi ei ethol yn llywydd y wlad gyfnewidiol hon. Yr oedd dewisiad y Ffrancod o hono yn fwy unfrydol o lawer na'u dewisiad o'i ewythr. Mae anghyd fod wedi ymddangos yn barod rhngddo ef a rhai o'i weinidogion. Mae un o'r galluocaf o honynt wedi gadael y weinyddiaeth. Fe ddywedir, pa mor amddifad bynag y mae o athrylith ei ewythr, ei fod yn hyn wedi dangos llawer o'r penderfyniad ewyllys oedd yn ei hynodi yntau. Mae dysgwyliad cyffredinol, y bydd cyfnewidiad eto yn y weinyddiaeth, ac y disodir y senedd sydd yn eistedd yn bresennol o hyn i'r gwanwyn. Mae y gweinidogion presennol yn dangos eu hunain yn analluog i hwyllo y llong trwy y fath y storm, ac mae y dynion galluocaf a fedd y wlad, sef rhai o hen weinidogion Louis Philippe, Mole a Thiers, er iddynt ymdrechu eu goreu i wneyd Louis Napoleon yn llywydd, wedi ymgadw hyd yma oddiwrth gyfrifoldeb swydd. Gwnaed casgliad yn holl eglwysi Paris i'r pab, y Sabbath cyntaf yn y flwyddyn.

Itali.

Mae amgylchiadau y wlad hon yn ymddangos yn dywyll ac amheusus. Dim cynt yr ymddangosodd ar furiau y ddinas wrthdystiad y pab yn erbyn yr hyn sydd wedi ei wneyd yn Rhufain, er's pan mae ef wedi ffoi, nag y rhwygwyd ef i lawr gan y werin. Dyma anghraifft o barch ei blant anwyl i'r Tad Sanctaidd.

Germani.

Er mwyn deall ansawdd y wlad hon, y mae yn anghenrheidiol cofio bod ynddi lawer o deyrnasoedd, o ba rai y mwyaf ydynt Awstria a Prwsia. Yr oedd, ac y mae y teyrnasoedd eraill dan ddylanwad y rhai'n, ac mewn rhyw fath o undeb o ymddibyniad ac o ymgynghreiriad â hwyt, a'r cwbl yn cael eu galw y cyngreiriad Germanaidd. Ond nid oedd yr undeb yn ddigon agos, nac yn undeb oll i deimlad cenedlaethol y Germaniaid. Nid oedd hanfodiad *politicaidd* i Germani fel y cyfryw, hyny yw, nid ydoedd yn un gallu mawr, ac yn cael ei gyfrif felly gan alluoedd Ewrop. Ni chlywid ond am Awstria a Prwsia, ac ni chydnabyddid ond y rhai hyn gan y *politician*. Yn awr prif ddyben yr holl gynhyriadau a gymerodd le yn y wlad hon o ben bwy gilydd y flwyddyn ddiweddaf oedd i gyrhaedd yr undeb hwn. Y teimlad cenedlaethol hwn oedd prif ysgogydd y cwbl. Ac yn al fel yr ymollyngai yr hen awdurdodau a'r ffrwd, neu yr ymdrechent ei

gwrthsefyll, yr oedd eu peryglon yn fwy neu yn llai. Trwy wrthsefyll yr oeddynt mewn perygl i golli y cwbl; ac wrth fyned gyda'r lli Germaniaidd, teimlent eu bod mewn perygl i golli eu hawdurdod personol yn awdurdod yr undeb—a hyn oedd eu cyfyng-gynghor. Mae anghenion gwladol, teimlad gwladol, a gweddillion o sefydliadau gwladol o blaid yr undeb. Yn ei erbyn, y mae uchelgais personol y llywodraethwyr, a byddinoedd lliosog.

Mae y bobl wedi llwyddo i gael un senedd i gynnrychioli y cwbl, yn Frankfort, ac un pen ar y cwbl, yr Ymherawdwr John. Ond gan nad oes yr undeb na milwyr na chyllidau yn annibynol ar y teyrnasoedd sydd yn ei wneyd i fynu, y mae ei lwyddiant neu ei aifwyddiant yn ymddibynu pa fodd y penderfynir y ddadl gan y breninoedd a'u deiliaid gartref.

Lloegr.

YN absennoldeb dadleuon y senedd, yr unig beth o bwys sydd wedi ei drafod yn ddiweddar, ydyw y cynnildeb yn nghyllidau y deyrnas. Mae Mr. Cobden wedi cyhoeddi llythyr ar y mater sydd wedi tynu llawer o sylw, ac wedi achosi llawer o ysgrifenu. Mae teimlad eryf, a hwnw yn myned ar gynnydd yn y wlad, yn erbyn gwastraff y llywodraeth. Mae costiau y llywodraeth wedi cynnyddu deng miliwn yn y deng mlynedd diweddaf. Amcan a phwynt llythyr Cobden, ydyw galwary wlad i orfodi y gweinidogion i gadw eu costiau yn ddeng miliwn llai na'r ydynt yn bresennol.

Mae dwy gymdeithas nerthol wedi eu sefydlu, un yn Lerpwl a'r llall yn Edinburgh, i gyhoeddi traethodau, ac i ddefnyddio pob moddion galluadwy, i gyffroi teimlad y wlad yn erbyn gwastraff y llywodraeth, ac i fynu diwygiad cyllidol, a lleihad yn y trethi sydd yn bwyta i fynu ei nerth a'i brasder.

Heddwch.

MAE Mr. Cobden wedi ymrwymo i ddwyn mesur i mewn i'r senedd neaf i roi terfyn ar bob anghyd fod rhwng y wlad hon a gwledydd eraill heb fyned i ryfel. Fe ddywed pob cristion, llwyddiant iddo.

Yr Iwerddon.

MAE yr "Edinburgh Review," yr awdurdod lleenyddol uchaf yn y deyrnas, yn y rhifyn diweddas, yn degrifio agwedd a gofeithion y wlad hon yn ddiawn. Fe ddywed, pa fesurau bynag a ddefnyddir i'w gwell, a pha gynufer bynag, y bydd y cwbl yn anetfeithiol, os na chymerir rhyw ffordd i symud tua hanner miliwn—hanner poblogaeth Cymru i gyd—o honi i ryw wlad arall bob blwyddyn, am bedair neu bum mlynedd. Ac os na wneir hyn, y mae yn rhybuddio pawb, nid yn yr Iwerddon yn unig, ond yn Lloegr hefyd, i ymbarotoi erbyn y gwaethaf, ac yn eu hannog i werthu eu meddiannau, tra y ceir rhywbeth am danynt, a chwilio am ryw wlad sydd heb fod dan orfod i gynnal yn agos i dair miliwn o dloision—cymaint a thair gwaith poblogaeth Cymru. "Ni allwn fod yn sicr," eb efe, "os na chwmerir mesurau buan i ragfaenu hollol ddinystriad yr Iwerddon a thledi. a thrwy hyny attal dyfodiad ychwaneg o wenwyn i Loegr, nad yw dinystri pob peth sydd yn gwneyd Lloegr yn werth byw ynddi, ond ewestiwn o amser, hyny yw, mae ei thynged wedi ei selio.

Y GEINIOGWERTH.

Dyledswyddau rhieni.

"Hyfforddия blentyn yn mhen ei ffodd."—SOL.

GAN fod Duw wedi eich anrhegu â'r fath dlysau gwerthfawr, sef plant, fe ddylech eu gwerthfawrogi fel ei roddion; ac y mae Duw wedi eu rhoddi dan eich gofal, gan ddysgwyl i chwi gyflawni eich dyledswydd tuag atynt. Mae mwy ar ddwylaw tad a mam i'w wneuthur i'w plant nag a ddychymygodd llawer. Mae ganddynt hwy bob manteision i'w dysgu a'u hyfforddi; oblegid y maent yn eu cael gyntaf, a chyn i ddrygau y byd eu llychwino; ac y mae eu meddyliau y pryd hwnw yn ystwyth; ac os bydd rhywbeth annymunol i'w weled ar eu meddyliau, gellir, heb anhawsder mawr, y pryd hwnw, eu gwellhau. Mae y meddwl ieuanc yn debyg iawn i'r corff ieuanc; ac os bydd rhywbeth annymunol ar hwnw, megys troed cam, &c., mae gobaith am wellhad tra byddo y bychan felly yn ei fabandod. Felly gyda y meddwl: os bydd yna dueddiad at ddyweyd anwired, tueddiad at ladratta, neu at dyngu a rhegi, hawdd y gellir gwellhau y meddwl oddiwrthynt, ond achub yr adeg i wneuthur hyny. Dad, gelli foldio meddwl dy blentyn fel y mynot; gelli ei wneuthur yn enwog mewn daioni, neu ynte yn *Durpin* mewn drygioni. Fel ag y dywed y Salmydd; "Fel y mae saethau yn llaw y cadarn; felly y mae plant ieuencstyd:" gan hyny, y mae llawer iawn yn ymddibynu ar law y cadarn, tra y byddo yn tynu yn y bŵa; gall yr u ei saeth i'r parth y myno; ond wedi iddo ei gollwng unwaith, nis gall wneuthur dim o honi. Felly y mae gyda 'r tad a'i blant; tra y byddo dy blentyn ar dy aelwyd di, yr ydwyd yn tynu yn y bŵa, gofala at ba beth y gollyngi y saeth: os unwaith yr a dy blentyn oddiwrthyt, nis gelli wneuthur fawr o hono mwyach, mwy nag o'r saeth wedi ei gollwng; am hyny, mae o bwys i ti annelu yn gywir, ac achub yr adeg i wneuthur hyny. Mae llawer tad wedi bod yn tynu gwalt ei ben wrth weled ei fab yn cael ei grogi, os byddai yn meddwl mai esiampl ddrwg a roes efe iddo: ond wedi myned yn rhy ddiweddar, y saeth wedi ei gollwng! Duw a wnelo bob tad yn Nghymru yn Benjaminaid, yn gallu annelu i drwch y blewyn.

Ond, mae y meddwl yn myned yn anhaws i'w drin fel ag y mae yn heneiddio, gan hyny, "rhaid taro tra byddo yr haiarn yn boeth." Mae dy esiamplau di yn cael gwell effaith ar feddwl dy blentyn tra fyddo yn ieuanc, fel ag y mae y cwyr yn derbyn delw y sêl; ond nid cystal wedi i'r cwyr ddechreu caledu: nid cystal chwaith yr effeithia yr esiamplau wedi i'r meddwl ddechreu caledu. Gofala am roddi esiampl dda; gofala fod delw y sêl yn gywir—y ddelw y dynunet ei gweled yn argraffedig ar galon dy fachgen.

O'r fath ofal a ddylid ei gymeryd rhag dywedyd un gair drwg, rhag ofn i'r bychan ei ddal! O'r fath ofal a ddylid ei gymeryd rhag cyflawni yr un weithred ddrwg, rhag ofn i'r bychan gymeryd esiampl oddiwrthi: oblegid dyna enaid anfarwol yn dyfod i'r hyd,

yr hwn a all wneuthur daioni annhraethol, neu ynte, ddrygioni i'r un graddau ; a hyny yn ymddibynu, i raddau mawr iawn, ar natur yresiamplau a roddir iddo. Dad a mam, cofiwch eich bod, wrth roddi esiamplau i'ch plant, yn tafu hadau i'w calonau a fyddant yn dwyn ffrwyth, effallai, pan y byddoch chwi wedi myned yn wledd i bryfaid y llwch—yn ardal llygredigaeth, a bro isel y dystawrwydd !

Duw a bwys o yr adnod hono at galon pob tad yn Nghymru :—“ Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd ; a phan heneiddio, nid ymedy â hi.” Gosod di ef ar ganol llwybrau barn ; dywed wrtho ar ba law i droi yn mhob amgylchiad ; dwed wrtho am bob croesffordd sydd yn arwain i ddystryw ; cyfeiria ei feddwl ef at ryw adnod i fod fel myneg-bost i'w attal rhag myned o'r ffördd dros y cloddiau.

A'r fath ddylanwad mae y fam yn ei gael ar ei phlentyn ! Os darllenwn hanes y gwyr mawr, braidd i gyd, cawn weled bod rhyw-beth neillduol yn eu mamau. Mam Robert Hall a'i dygai ef i'r fonwent, pan yn faban, i ddysgu yr egwyddor iddo ar geryg y beddau. Mam Robert Burns a adroddai ganigion iddo pan yn ieu-anc ; ac y mae yn ddiammheuol fod hyny wedi bod yn lles i'w ddoniau awenyddol. Mam “ Ettrick Shepherd ” a adroddai ac a ddysgai *Scottish Songs* i'w James bach ; a bernir fod hyny wedi creu awydd ynddo i gyfanseddi. Os darllenwn ni hanes y lladron a'r llofruddion, cawn weled mai tadau meddwon a diofal am danynt oedd y cwbl braidd. Ac os sylwn ni ar y bastardiaid, cawn weled mai creduriaid annuwiol a drygionus yw y cwbl braidd ; a hyny, mae yn debyg, oblegid eu hamddfadrwydd o ofal, a chynghorion eu rhieni.

Gan fod gan y fam gymaint o ddylanwad ar ei phlant, bydded iddi amcanu gwneuthur lles iddynt. Bydded iddi chwalu pob peth ag a fyddo yn dueddol o arwain i unrhyw bechoda : pan y gwelo ryw adwy ag a fyddo yn debyg o arwain i odineb, bydded iddi ei llenwi â drain ; chwaled pob fynedfa sydd yn arwain i'r pechod hwn, oblegid y mae man arweiniadau i'r pechod gwarthus hwn, fel i bob pechod arall, y rhai sydd eisieu eu dyddymu ; y rhai hyn yw yr achos ; lladder yr achos, wedi hyny fe baid yr effaith —dyhysbydder y ffynnonau, wedi hyny, fe baid y ffrydiau. Ceir addysgiadau rhagorol ar hyn yn llythyr “ yr hen wr mynyddig,” Rhif xxiv.

Defnyddied y rhieni bob mantais i ddywedyd am adgasrwydd meddwdod. Na fydded iddynt gadw dafn o'r diodi feddwawl mewn un cwpbwrrdd o fewn y ty, os amgen, mae y plant yn sicr o gael hyd iddo, ac o ran ysfa ei brofi. Fel ag y bu ysgrifenydd y llinellau hyn : gwyddai am y gell lle y cedwid y ddiod, ac, wedi gweled rhyw-un o'i flaen, efe a aeth i wneuthur *punch* ; ac oblegid ei bod yn lle dywyll yn yr ystafell, dygwyddodd dafiu *saltpetre* iddo yn lle siwgr gwyn ; ac efe a'i hyfodd; archwaethai ef yn chwerw, a dechreuai dagu ; a meddyliodd yn sicr ei fod wedi llynco gwenwyn ; tybiai fod ei fol yn dechreu chwyddo, teimlai ei hun yn myned

yn sal, syrthiodd ar ei liniau, ac erfyniodd ar ei Dad nefol dderbyn ei ysbryd ef ! Ond troes y saltpetre yn felusach na mel a dyferiad y diliau mel iddo, oblegid gwnaeth ammod na yfai ddafn byth o un math o ddiodydd meddwawl ; ac felly y bu. Bu yn awyddu i ryw amgylchiad tebyg gyfarfod â phlant a welai yn ymyraeth a'r ddiod byth wedi hyny.

Os bydd eisieu cymeryd ychydig gwrw, neu ryw fath arall o'r diodydd meddwawl fel meddyginaeth, nac yfer ef yn ngwydd y plant. Mae yn lled hawdd i'r rhieni gadw adgasrwydd yn eu meddyliau tuag at y ddiod feldigedig, os bydd iddynt ddefnyddio pob mantais tuag at hyny tra y byddont yn ieuanc, cyb iddynt ddyfed i hoffi y ddiod ; o herwydd y mae yn ddrwg i'r archwaeth ar y dechreu : am hyny, bydded i chwi amcanu cadw hyny, sef ei ddrygedd, yn glawdd llanw rhyngddynt a lifogydd meddwdod : ond os unwaith yr aiff adwy yn hwnnw, ac y lydd iddynt ddyfed i hoffi y diodydd meddwawl, un o fil os na bydd i lifogydd gorwyltton meddwdod eu hysgubo, nes y diweddont eu gyrrfa ya nyfnderoedd y pwll erchyll diwaelod.

Mae dy blentyn fel rhyw afonig fechan, yn tarddu allan, ac yn dyfod i'r golwg, sydd i redeg drwy y byd sydd yn llawn o ffrydiau drygionus o bob natur ; ac os na bydd i ti gymeryd llawer o drafferth i roi llwybr da iddi, bydd i ryw ffrwd ddrygionus ruthro i mewn iddi ; a ffrydiau drygionus eraill wedi hyny ; nes ei galluogi i ruthro ymlaen, er gwaethaf deddf ac efengyl Duw, nes iddi ruthro e'r diwedd yn rhaiadr i ganol mör o drueni tragedywyddol. Amcana ei gyru i redeg trwy ganol meusydd bywyd crefyddol ; wedi hyny, dan fendith Duw, bydd iddi ddiweddu ei gyrrfa mewn mör o hedd !

Dos at yr aderyn, tydi ddiogyn, ac edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth. Rhydd yr aderyn bach esiampl i lawer tad. Gwel y fath drafferth y mae efe yn ei gymeryd gyda ei rai bach. Mae efe yn eu dysgu yr un fath yn union ag ef ei hun. Eu dysgu i ehedeg, &c. ; oblegid y mae efe yn gwybod y bydd yr adarwr yn gyru ei saeth ar ei ol ; ac y daw eraill a magl i geisio ei ddal. Wel, nyth yw dy dŷ dithau : a dyma dy gywion bach ynddo ; dysga hwy pa fodd i rodio. Oblegid y mae y diafol i ollwng ei saethau atynt, ac y mae ganddo faglau hefyd. Mae eisieu i ti eu dysgu i fod yn hoew ar eu hedyn ; dysg hwy, fel yr aderyn, i ehedeg i fynu uwchlaw pethau daearol ; i ehedeg uwchlaw y byd, y cnawd, a'r diafol.

Caergybi.

JOHN DAVIES.

Diwygiad ar y mor.

MAE yn hysbys i'n darllenwyr fod y milwyr a'r morwyr yn ddynion annuviola chalon-galed iawn ; ond eto, nid yw eu hannuvioldeb a'u calon-galedwch y fath, nad effeithia yr efengyl i'w troi a'u gwneyd fel plant bychain, a'u haddasu i fyned i mewn i deyrnas nefoedd. Cawn anghraigft o hyn yn mordaith yr enwog George Whitfield ar ei fynediad y waith gyntaf i'r America, yn y flwyddyn

1738, pan oddeutu tair-ar-hugain oed. Y llestr yn mha un yr hwyliodd oedd lawn o filwyr, y rhai nad ofnent Dduw, ac na pharchent ddyn: hwy, ynghyd a'r cadbeniaid, y morwyr, a'r meddyg oedd yn eu plith, a roddasant ar ddeall i Whitfield eu bod yn ei ystyried ef yn ddyn gwallgof a diegwyddor, ac ymddygent ato fel y cyfryw. Y sabbath cyntaf a dreuliodd efe yn eu plith, nid oedd dim i'w glywed ond y llwon a'r cableddau a'r rhegfeidd mwyaf arswyodus; na dim i'w weled ond y cardiau yn cael eu chwareu, a chumpau annuwiol eraill yn cael eu dwyn ymlaen, a hyny ar ddydd yr Arglwydd; yr hyn a barodd ofid nid bychan i'w enaid cyfiawn, fel Lot gynt yn Sodom. Er hyny, ni ddigalonodd ac ni fwfrhæodd Whitfield ieuanc, ond ymddygod yn eu plith yn foneddigaiad ac yn hardd, fel y lili yn mysg y drain, gan ymosod a'i holl egni ar y gor-chwyl pwysig o'u diwygio a'u hargyhoeddi o'u bai, yn yr hwn y dangosodd wroldeb y llew, cyfrwysdra y sarff, a diniweidrwydd y golomen.

Dechreuodd yn y prif gaban, ymhlieth y swyddwyr (*officers*), trwy ymddyddanion crefyddol ac argyhoeddiadol; yr hyn, yn eu golwg hwy, oedd ffolineb a gwagedd; ac oblegid hyny ni chafodd fawri effaith arnynt: ond ni ddigalonodd er hyny. Gwedi methu yn y caban gyda y swyddwyr, aeth allan i fwrdd y llestr at y milwyr, ond ni chafodd ganddynt hwythau fawr dderbyniad ar y cyntaf; er hyny ymlaen yr aeth gyda'r ddyledswydd o ddarllen, gweddio, ac esbonio y Bibl iddynt ddwy waith y dydd, nes o'r diwedd iddo dynu eu sylw at bethau mawrion crefydd, fel ag y daeth llawer o honyn ato yn ostyngedig i ymofyn am eglurâd pellach ar yr hyn a draddodai. Erbyn hyn, yr oedd ei ymdrechiadau parhaus, ei lafur diflino, a'i ymddygiad boneddigaiad a charuaidd wedi ennill sylw cadben y llong a chadbeniaid y fyddin, er nad oedd ynt hyd yma wedi ufuiddhau i ddyfod i wrandaw arno; ond nid oedd efo yn gosod gwerth ar y sylw a delid iddo gan ddynion, oddieithr mor bellod ag y byddai hyny yn fanteisiol i ledanu gair Duw; ac felly defnyddiai pob cyfleusdra i'r dyben hyny. Ar ryw ddiwrnod, pan oedd mewn ystafell un o gadbeniaid y fyddin, gwelodd yno bapyr newydd, a dealloedd fod llawer o ddarllen arno, a bod darllen gor-mod ar y fath bapyr, yn "gwarie arian am yr hyn nid oedd fara;" am hyny, aeth a'r papyr newydd ymaith, a rhoddodd lyfr o'r enw "hunan-dwyllwr" yn ei le. Boreu dranoeth, gwelodd y cadben y llyfr, a darllenodd ef, a chafodd fias ar ei ddarllen, ac yna gofynodd pwys a'i dygodd yno? Atebodd Mr. Whitfield, mai efe; a cheisiodd gandde ei ddarllen yn fanwl. Dywedodd yntau ei fod wedi ei ddarllen, a chwedi cael pleser mawr wrth hyny: ac o'r dydd hwnnw allan gwellwyd cyfnewidiad mawr yn ei fuchedd. Erbyn hyn, yr oedd cyfeillach Mr. Whitfield yn werthfawr yn ngolwg gwyr y prif gaban, a dymunasant arno i ddyfod i ddarllen a gweddio iddynt hwythau, yr hyn a wnaeth gyda'r parodrwydd mwyaf. Effeithiodd hyndymaint, nes y gorchymynodd cadben Mackey i'r tabyrdd-wr (*drummer*) alw y fyddin ynghyd ddwywaith yn y dydd i wrallraw ar Mr. Whitfield yn pregethu. Ei ddull yn cynnal yr oedfa

oedd fel hyn : Mr. Whitfield yn y canol rhwng dau swyddog, y rhai oeddynt, fel Aaron a Hur, yn dal ei freichiau i'r llan; y fyddin yn sefyll o'i flaen, a phob un megys yn ymlynu wrth ei draed, ac yn barod i dderbyn ei eiriau, ac yntau yn eu dysgu fel un ag awdurdod ganddo.

Y fath fu y llwyddiant ar ei ymdrechion, fel, cyn iddynt groesi yr Atlantic, i dir America, yr oedd y cablwyr wedi dyfod yn wedd-iwyr, a'r erlidwyr yn ganlynwyr ffyddlawn yr Oen ; a'r campau mell-digedig ag oedd yn eu plith wedi cael eu halldudio i dragwyddol ddiddymdra, a'r cardiau wedi eu tafu i waelod y mor, a Christ croeshoeliedig wedi myned yn berl gwerthfawr yn eu golwg ; Ie, wedi myned mor werthfawr, nes y gwerthasent y perlau teg i gyd i gael prynu y Perl gwerthfawr yma. Dyma lestr wedi ei gwneuthur yn Bethel ar ddnau y mor ! Gwelwn yma werth un dyn gwir dduwiol ymhliith llawer, ac fel y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does. Onid oedd hyn yn ddiwygiad rhyfedd ar y mor ?

T. J.

Iaith yr Iuddewon ar ol y gaethglud.

Cyn dychweliad llwythau Juda a Benjamin i'w gylad, o'u caethiwed yn Babilon, yr oedd eu hiaith wedi llygru, neu yn hytrach wedi newid, trwy eu harosiad hirfaith yn mysg dyeithriaid. Galwent hi er hyny yn Hebraeg, a gelwir hi felly yn y Testament Newydd ; ni fynent newid ei henw, er nas gallent lai na gwybod ei bod wedi newid yn fawr. Buasai yn fwy priodol galw yr iaith y siaradent wedi eu dychweliad yn Galdaeg neu Syriaeg, yn hytrach nag Hebraeg. Ar ol buddugoliaethau Alexander Fawr, a'r ymraniad a wnaed o'i ymherodraeth ar ol ei farwolaeth rhwng ei gadlywyddion, dechreuwyd siarad yr iaith Roeg yn mysg uwch-raddau yr holl wledydd ēang a orchfygwyd gan Alexander. Yr erlidigaethau a gymerodd le yn fuan wedi hyny dan Antiochus Epiphanes, a barodd i lawer o'r Iuddewon ymfudo i Asia Leiaf, Assyria, Arabia, yr Aipht, ac iddynt gyrhaedd mewn amser i Achaia, Macedonia, ac Itali. Canlyniad hyn oedd i lawer o honynnt golli yr iaith a ddygodd eu tadau o Babilon, fel y mae plant llawer o Gymru yn colli y Gymraeg yn nhrefydd Lloegr. O'r diwedd fe wnaed cyfieithiad o'r Hen Destament i'r Groeg—hon oedd yr iaith a arferid fwyaf y pryd hwnw o un iaith yn y byd, ac a barhaodd felly am lawer o oesoedd—a hwn ydyw y cyfieithiad a elwir y Deg-a-thriugain, mae yn debygol o herwydd ei gymeradwyaeth gan y Sanhedrin. Ar orchymyn Ptolemy Philadelphus, brenin yr Aipht, y gwnaed ef, er mwyn ei gael i lyfr-gell Alexandria. Pum llyfr Moses a gyfieithwyd gyntaf ; ac yn fuan wedi hyny cyfieithwyd y llyfrau eraill. Hwn yw y cyfieithiad cyntaf a wnaed o'r Ysgrythyrau. Yr oedd crefydd a gwladgarwch yn gymhelliadau o'r cryfaf i'r holl Iuddewon oedd yn byw mewn dinasoedd Groegaidd, i fyny copiau o'r cyfieithiad hwn. Yr oedd yr Hen Destament iddynt hwy y n fwy peth mewn

un ystyr nag ydyw i ni. Cynnwysai, nid yn unig yr egwyddorion crefyddol a'u seremoniau, ond hefyd eu cyfreithiau gwladol; eu cyfansoddiad a'u hanes gwladol, bywydau y patriarchiaid, hanes y teulu o ba un yr hanent, bywydau a gwrolwaith eu breninoedd, eu gwroniaid, eu prophwydi, a'u diwygwyr. Cynnwysai hefyd gasgliad o ysgrifeniadau mewn rhyddiaith a barddoniaeth gan ysgrifeniadur enwecaf eu cenedl. Nis gallai yr Iuddewon, pa mor bell bynag eu gwasgariad, ac yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o honynt wedi anghofio iaith eu tadau, lai na theinslo yn awyddus iawn i feddu y cyfeithiad hwn. Yn mhol man, gan hyny, lle y siaradent yr iaith Roeg, y cyfeithiad hwn a ddefnyddid yn nhai yr Iuddewon, yn eu hysgolion a'u synagogau. Fe ddaeth felly yn safon iaith ar faterion crefyddol, ac o ganlyniad a barodd unffurfiaeth mewn geiriau a phriod-ddull yn mysg yr Iuddewon Greegaidd, yn mha wlad bynag yr oeddynt yn byw. Fod gwahaniaeth yn amser yr apostolion rhwng yr Iuddewon a siaradent yr iaith Roeg, a'r Hebreaid, neu y rhai a siaradent iaith Palestine, yr hon a alwent hwy yn Hebraeg, fel y dywedwyd uchod, sydd amlwg oddiwrth Actau yr Apostolion. Ond nid af at hyn yn bresennol.

C.

Y bachgen carpiog—y marsiandwr cyfoethog.

“Yn gwneuthur daioni, na ddiogwn; canys yn ei lawn bryd y medwn, oni ddifygiwn.”

Achos o bwys a alwodd am danaf un tro i'r ddinas fawr (Llundain America). Treuliais y boreu yn edrych ar yr adeiladau mawrion a phrydferth, llys y ddinas, y toll-dŷ mawr, eglwys y Drindod, a'r clochdŷ blaenfain, ynghyd a llawer o bethau eraill yn y ddinas ag oedd yn ddyddorol i un dyeithr; ond pan yn bur flinedig ar ol fy nhaith foreuol, chwiliais am dŷ fy nghyfaill fel lle i orphwys. Ond pan yn eistedd wrth y bwrdd ciniawa, estynodd y gwas i mi nof oedd newydd gael ei adael wrth y drws gan berson anadnabyddus iddynt; yr hwn sydd fel y canlyn:—

“ANWYL SYR,—Wedi canfod eich enw fel un o'r areithwyr yn nghyfarfod yr Ysgol Sabbathol, fe'r roddai hyfrydwch mawr i mi eich gweled yn No. —, Pearl street, y prydawn heddyw, am dri ar y gloch. Na siomwch fi.

“Eich cyfarf, GEORGE S.—.”

Nid oedais gydsynied a'r gwahoddiad erbyn yr awr apwyntiedig. Ymwithiais drwy y lluoedd oedd yn brysur ar hyd yr hêolydd; ac o'r diwedd cvrhaeddais y rhif oedd yn y llythyr.

Gofynais i'r ysgrifenydd am yr enw; ac er fy syndod arweiniwyd fi at feddiannydd masnachdŷ mawr i nwyfau sychion—un o'r sefydliadau mwyaf yn y ddinas.

“Syr,” ebai y marsiandwr, “yr wyf yn credu nad ydwyf yn cam-synied: ai chwi yw Mr. M—, y myfyriwr tlawd oedd gyda Mr. W—, unwaith fy athraw yn Ysgol Sabbathol y W—?”

"Mi fêm i yn fyfyrwr tlawd, ac yn aethraw yn yr Ysgol Sabbothol a enwasoch. Ond nid chwi ydyw George S_____, y bachgen gwalt-gwyn, a ystyrid fel fy ysgolâig!"

"Yr un," atebai y marsiadwr, gan wasgu fy llaw gyda y llawenydd mwyaf; a'r dagrau yn treiglo i lawr ei ruddiau; "yr un, ond wedi tyfu yn ddyn. Ond maddeuwch y note byr, a'r cyfarfod disymwth hwn: ond, syr, mi feddyliais na chaem byth byth gyfarfod eilwaith; ac wedi deall eich bod yn y ddinas, yr oeddwn yn awyddus i roi cynnyg o lety i chwi am yspaid eich arosiad, os ydyw yn dderbyniol, ac yn unol â'ch ymrwymiadau eraill; os gwelwch yn dda orchymyn eich croen-gist (*trunk*) i'm tŷ i: mae fy nhŷ i yn dŷ i chwi, tra yr arhoswch yma. Nis gallaf gymeryd fy ngwrthod."

Mewn gwirionedd, nis gallaswn ei wrthod. Gyda llawenydd y cydsyniais â'i gynnyg cymwynasgar; ac yn ei dŷ cefais gartref gwirioneddol. Yn awr, priodol fyddai rhoddi i chwi hanes, pa fodd y daethom i gydnabyddiaeth gyntaf.

Pan oeddwn yn paratoi at y weinidogaeth, yr oedd yn arferiad genyf i chwilio am blant tlodion i'r Ysgol Sabbothol. Pan yn un o'm teithiau, daethum o hyd i fachgen bach yn yr heol, yn dloidaidd ei wisg, ei draed yn noethion yn yr eira, dim am ei ben, ac yn y sefyllfa mwyaf truenus. Gelwais attaf, ac a'i holais fel y canlyn:—

"Pa beth ydyw dy enw, 'ngwas bach i?"

"Fy enw yw George S_____."

"Yn mha le yr wyt yn byw?"

"Yn y coed wrth yr hen felin."

"Pa beth yw enw dy dad?"

"D oes genyf yr un tad;" ac fe dorodd allan i wylo; "fy nhad a ddygydd adref yn farw oddeutu blwyddyn yn ol. Cafwyd ef wedi rhewi i farwolaeth ar y ffordd at y tŷ."

"Dy fam, a ydyw hi yn fyw?"

"Ydyw; ond mae yn dlawd, ac yn myned allan i weithio."

"A oes genyt ti frod yr a chwiorydd?"

"Oes; un brawd ac un chwaer."

"A ydynt hwy gartref?"

"Ydynt, syr; y maent yn fychain, ac nis gallant fyned allan."

"Wel, fy machgen bach i, mae arnat ti eisieu pâr o esgidiau a dillad."

"Oes, syr; ond y mae arnaf eisieu rhywbeth i fy mam gyntaf."

Wedi dyweyd yr ystori yn y dull blaenorol; nid ymofynais ychwaneg, ond yn ddioedi dechreuaus weithio. Yr oedd George yn fy nghert gyda mi, a digon o ymborth at anghenrheidiau presennol ei fam.

Ar ol cyrhaedd y tŷ, canfyddais wraig unig a dau blentyn anwyl, heb ddim i fwyta. Neidiodd George allan o'r cert, a rhedodd i'r tŷ gan waeddi, "O mam! naam! ni wylwch ychwaneg: mae gan y gwr boneiddig ddigon i'w fwyta i ni am fis cyfan."

Daethum i ddeall, trwy holi, fod y tad yn feddwyn; ac mewn meddwdod y bu farw, fel y bu gorffou ar y weddw druan ymrwyf;

ymlaen ei hunan. Yr ydoedd George y pryd hyu oddeutu dag oed; ac efe yn unig oedd yn ddigon o faint i fod o un gwasanaeth i'w fam; a bachgen da oedd i'w fam druan.

Gadewais y ty; a'i diwrnod canlynol, anfonais wraig dda i'w dill-adu, ac i gael gan George ddyfod i'r Ysgol Sabbothol y Sabbath canlynol. Yr oedd George yn yr Ysgol, gyda'i esgidiau newyddion, ei het, a'i ddillad; ac yn edrych yn siriol a hapus.

Bu am flwyddyn yn fy nosbarth: yna gadewais y lle, ac ni welais ef byth nes y cyfarfyddais ef yn y modd rhag-grybwylledig, yn farsiandwr mawr mewn dinas fawr. Duw a'i llwyddodd ef, a rhodd-odd iddo gyfeillion o dylanwad; ac o fod yn negesetwr bach yn yr ystordy, fe'i codwyd i fod yn feddiannwr. Yr oedd y pryd hyn yn bedair-ar-hugain oed; yr oedd ganddo wraig hefyd, ac un bachgen bychan blwydd oed.

Yn awr, dewch yn ol gyda mi i New York; a meddyliwch fyngweled yn eistedd wrth echr y tan, tra y mae ef yn adrodd i mi ddaioni Duw iddo, er pan welais ef yn fachgen bach yn yr Ysgol Sabbothol yn W——.

Yn fuan ar ol i mi adael y lle, bu mer ffodus a chyfarfod a gwyr o New York ag oedd yn caru yr Ysgol Sabbothol. Tra yr oedd ar ymweliad gyda'i gyfeillion yn y wlad, fe welodd George; ac wedi cael ei foddio ynddo, cynnygiodd ei gymeryd adref gydag ef. Y fam a gydsyniodd, a George a adawodd ei gartref, gyda dagrau, i le yn ystordy y gwr boneddig.

Trwy ymarweddiaid da, ennillodd serch pawb a'i hadwaenai. Pan oedd yn ddeunaw oed, dyrchafwyd ef i fod yn ysgrifenydd, ac o fod yn ysgrifenydd i fod yn gyd-gyfranogwr a'i feistr. Pan oedd yn un-ar-hugain oed, bu farw ei feistr; a chan nad oedd ganddo na gwraig na pherthynasau agos, gadawodd y cwbl a feddai i George; ac ar unwaith daeth i feddiant o filoedd o bunnau. A dyma lle y cefais fy hun, yn eistedd gyda fy hen ysgolâig, mewn ti hardd, a theulu dedwydd.

Y mae yn arolygwr ysgol fawr i fechgyn tlodian, wedi eu cael ar hyd ystrydoedd a heolydd y ddinas; yn aelod o'r eglwys, ac yn hoff gan yr holl frodor; adnabyddir ef hefyd gan y tlodian a'r cleifion. Bob boreu Sabbath, y mae ganddo ysgol yn mysg y morwyr tlodian yn y dock, mewn ystafell a gymerodd i'r perwyl hwnw.

Fel yr oeddwn yn eistedd yno, yn hyfryd lawenychu yn naiioni Duw, yn yr amlygiadau hyn, nis gallwn lai na gofyn i George, yn mha le yr oedd ei fam?

“O, syr! aeth adref i'r nefoedd o fy mreichiau, yn yr ystafell hon, ychydig fisoeedd yn ol: ac ychydig cyn iddi farw, rhoeddodd i mi orchymyn caeth i chwilio am danoch; ac os byddai i mi oldyfod o hyd i chwi, i hysbysu i chwi i'w hanadl olaf fyned at Dduw am fendith ar eich pen.”

“Eich chwaer, pa beth sydd wedi dyfod o honi hi, a'ch brawd bach?”

“O, syr, mae fy mrawd wedi tyfu i fynu yn wr ieuanc, ac mae yn ysgrifenydd a phrif geidwad fy llyfrau yn yr ystordy; ac mae

ganddo yntau hefyd, ddosbarth lliosog yn yr Ysgol Sabbathol. A fy anwyl chwaer, mae hi ymhell o ffordd, yn gydymaith i genadwr ymroddgar yn y gorllewin. Ychydig fisoedd cyn marwolaeth fy mam y priododd."

Yn awr, rhaid i mi adael hanes y teulu dyddorol hwn; ac am-canaf mewn ychydig eiriau, sylwi ar y gwersi mae yn eu dysgu.

1. Gwelwch fel y mae Duw bob amser yn bendithio y plant bach hynny sydd yn caru eu rhieni. Nid oedd George bach yn gofalu am esgidiau am ei draed, a chap cynhes am ei ben, hyd oni chai ei fam yn gyntaf ymborth. A thrwy y bachgen bach hwnaw y daeth Duw mewn trugaredd at y teulu. Daeth George yn gristion yn ieuanc, ac a fu yn offerynol i argyhoeddi ei fam a'i chwaer.

Cafodd y fam y faint o farw mewn gobaith gwynfydedig o ogeniant, a syrthio i'r bedd o freichiau ei bachgen gwrol. Y chwaer a aeth allan yn gydymaith i genadwr, i gynnorthwyo lledaniad y newyddion o iachawdwriaeth i'r trueiniiad sydd yn meirw o eisieu gwybodaeth.

2. Y fath gefnogaeth sydd yn y ffeithiau hyn! Y mae yn ein dysgu i lafurio gyda'r tlodion a phlant adfyd, clefydau, ac eisieu, fel y byddo iddynt ddysgleirio fel sŵr o'r maintioli mwyaf yn nghorон y Cyfryngwr.

Anwyl athrawon, cofiwch y tlodion. Peidiwch a myned heibio iddynt. Gofelwch am danynt, ac fe'ch gwobrwyir gan Dduw ar y ganfed.

3. Nid yw llesoldeb addysg yr Ysgol Sabbathol yn cael ei gyflyngu at bethau amser yn unig; maent yn cyrhaedd i dragwyddoldeb, ac yn treiglo tân o ogoniad hyd at orseddfainc y Duw mawr.

Oh! gadewch i ni fod yn ffyddlawn, diwyd, ymegniol, gweddigar, ac ymroddgar gyda ein gwaith am ychydig: yn fuan cawn fyned adref at ein gwobr a'n coron.

Oyfieithiad.

Ffoedigaeth Caumont ieuanc.

Yn oedd yr heddwch a wnaed rhwng llŷs Ffrainc a'r *Huguenots*, y sicrwydd difrifol a roddwyd i'r olaf, ac yn enwedig priodas chwaer brenin Ffrainc & brenin ieuanc Navarre—yr hwn, ynghyd a'r llyngesydd Coligni, oedd yn flaenor y blaid Brotestanaidd—wedi ysbrydoli y blaid Brotestanaidd ag ymddiried mawr, fel ag yr oedd nifer mawr, yn enwedig o'r rhai enwocaf i'w cael yn Paris, yn nghymydogaeth y llŷs. Ond fe dorodd yr ystorm allan, yr hon oedd yn ymgasglu er ys talm, yn fuan ar ol y gwleddoedd priodasol, ac a'u goddiweddodd hwy yn nghanol eu diofalwch. Y llyngesydd Coligni oedd y cyntaf i syrthio yn aberth i gynddaredd y bradwyr. Wedi ei ddal ef a'i lofruddio gyda barbareidd-dra mawr, bwriwyd ei gorff allan i'r heolydd. Yn oedd prynwr ceffylau ag oedd yn byw yn y gymydogaeth yn dyst o'r dechreuad. Wrth edrych ar y fath

greulondeb anifeilaidd, fe benderfynodd fod yr holl blaid efengyl-
aidd mewn perygl, ac yn y fan efe a aeth ymaith i rybuddio M. de
la Force. Gan nas gallasai gael cwch i'w gludo ef dros y Seine,
efe a nofiodd dros yr afon, ac felly yr aeth a'r newydd galarus. Yn
y fan, fe alwodd M. de la Force ei gyfeillion ynghyd; hwythau yn
tybied fod y llýs yn anwybodus o'r toriad allan, a benderfynasant
fyned ar unwaith at y brenin. Yr oedd yr holl gychod ar y Seine
wedi eu sicrhau i gludo y llofruddion i'r rhan hono e'r ddinas lle
yr oedd mwyaf o'r Huguenotiaid yn byw; ac felly pan y daethant at
yr afon, nid oedd modd iddynt fyned drosodd at y Louvre. Tafiodd
yr amgylchiad hwn hwy i frawd dirfawr; a chan ddychwelyd yn ol,
ymgyngchorasant pa beth oedd oreu i'w wneuthur. Gwelsant liaws
o gychod yn llawn o filwyr yn croesi yr afon. Cymerodd De la
Force a'i frawd eu meirch gan fwriadu dianc; ond pan y gweleodd
nad oedd ei feibion yn canlyn fel y dysgwyliai, efe a ddychwelodd
i'w dŷ, ac a erchymynodd ar fod i'r drysau gael eu cau. Amgylch-
wyd y tŷ hwn yn y fan gan gyflafanwyr arfog, pa rai, a bygythion
dychrynllyd, a orchymynent i'r pyrth gael eu hagor. Gweleodd De
la Force mai ofer ydoedd gwrthseffyll; a gorchymynodd fod iddynt
gael eu dadbolltio, ac a enciliodd i'w ystafell i ddysgwyl yn amyn-
eddgar am yr hyn a oddefai Duw i syrthio arno.

Ar darawriad amrant, llanwyd y tŷ a milwyr a arweinid gan gad-
ben o'r enw Martin. Wedi eu tynu hwy i fynu mewn trefn, hef-
odd un o honyn "Gweddiwch chwi, os ewyllysiwr, o herwydd nad
oes genych ond ychydig fynydau i fyw." Fe feddianodd De la
Force ei hun yn dda, ac mewn llais digyffro, dywedodd, "Gwnewch
a fynoch; yr wyf fi yn hen ddyn, ac heb lawer o amser i fyw; ond
y plant yma, pa rai ni niweidiasant neb, tosturiwch wrthynt hwy—
arbedwch hwy. Nis gall eu marwolaeth hwy eich llesau dim; ac
mia'r roddaf iawn, yr hwn a fydd o werth i chwi." Gwnaeth y geir-
iau hyn beth argraff. Aeth y milwyr trwy y tŷ i yspelio: ac
wedi iddynt gasglu cymaint o aur ac arian, a phethau gwerthfawr
eraill oedd yn eu ffordd, dychwelasant i'r ystafell, a dywedasant,
fod yn rhaid i bawb farw; mai y gorchymyn ydoedd nad arbedid
neb.

Cyfarchodd De la Force hwy drachefn gyda difrifwch, a chyn-
nygiodd iddynt ddwy fil o goronaufel iawn. Ar hyn, gorchymyn-
odd y cadben hwy oll i fyned gydag ef. Cyn myned o'r tŷ, gwnaeth
iddyt rwymo cadachau am eu hetiau a'u capiau, a throi pais-lawes
y fraich dde i fynu; oblegid y rhai hyn oedd ynt yr arwyddion wrth
ba rai yr adnabyddid y llofruddwyr. Wedi i'r cadben eu cymeryd
hwy i'w dŷ ei hun, efe a wnaeth iddynt addaw na chynnygient
ddianc hyd oni thelid yr iawn. Yna gadawodd hwynt wrhynt eu
hunain, ac aeth ymaith at y gwaith o ddyfetha.

Anfonodd De la Force yn y fan un o'i weision i fynegi ei sefyllfa
i'w chwaer-yn-nghyfraith; ac i ofyn iddi am y swm o arian a add-
awsai i dalu am eu bywydau. Anfonodd hithau yn ol fel atebiad,
ei bod hi yn gobeithio y gallai godi y swm dranoeth; a chwanegai,
Os deuai ei ymguddfa yn wybyddus i'r brenin, ei bod yn ofni fod

ei fywyd ef mewn perygl. Yr oedd y gwas ei hun yn erfyn arno i anturio dianc—a chynnygiedd hyd yn nod y ddau filwr a adawsai y cadben fel gwylwyr, ei gludo ef a'i feibion i le arall, a gwneuthur a allent i'w waredu ef. I'r holl gynnigion hyn, atebai M. De la Force, "Yr wyf wedi rhoddi fy ngair, ac nis gallaf ei dori—yr wyf wedi penderfynu goddef pa beth bynag a ordeiniodd Duw i mi a'm plant." Gwasgodd y gwas arno, wrth weled pethau yn ymddangos mor ddiobaith, i adael iddynt o'r hyn lleiaf i achub y plant. Yr oedd efe, pa fodd bynag, yn dâl yn gadarn at ei addewid, gan yehwanegu, "fod pa beth bynag a fwriadodd Duw yn sicr o gymeryd lle." Yn yr hwyr, pryd y dylasai yr iawn a ddysgwylid gael ei dalu, daeth Count Cocona i'r tŷ, gyda deg-ar-hugain neu ddeugain o filwyr Swiss a Ffrengig, ac a ddywedodd wrth De la Force fod brawd y brenin, wedi iddo glywed ei fod ef yn garcharor yn y tŷ, yn ewyllsio cael siarad âg ef. Ar hyn, cymerodd y fyddin yr arwyddien a wisgent oddiarnynt; oddiwrth yr hyn gwelsant yn amlwg eu bod yn bwriadu eu lladd hwy. Galarai De la Force oblegid anffyddlondeb y rhai hyny a addawsant iddo ryddid, a'i anghen am y swm ammodedig. Ymdrechай y mab ieuangaf, yr hwn oedd yn dair-ar-ddeg oed, galonogi ei dad. Yr oedd efe yn llwyr argyhoeddedig y byddai iddo yn y pen draw ddianc, er ei fod yn gweled mai eu bwriad presennol ydoedd eu dyfetha hwy. Wedi iddynt gael eu harwain gan eu llofruddwyr i gwr eithaf yr hêol, yn agos i fur y ddinas, yn ddisymwth, dyrchafwyd y llef "*strike dead, strike dead*" (tarewch yn farw, tarewch yn farw).

Y mab hynaf a dderbyniodd yr archoll gyntaf, a syrthiodd i lawr, gan lefain, "O, fy Nuw, yr wyf wedi fy lladd." Y mab ieuangaf, fel pe buasai Duw wedi rhoddi iddo bresennoldeb meddwl, a syrthiodd i lawr fel ei frawd, er na dderbyniasai yr un archoll. Dderbyniodd y tad a'r mab hynaf amrai ddyrnodiau tra ar lawr: ond yr oedd y mab ieuengaf eto heb ei niweidio. Ac er ei fod wedi ei wisgo yn yr un fath ddillad a'r lleill, ni sylwodd neb ei fod heb ei anafu, o herwydd ei fod ef wedi ei orchuddio â gwaed ei dad a'i frawd.

Iw orphen yn y nesaf.

Mawredd meddylddrychau y Bibl.

Pa beth sydd yn cyfansoddi y mawreddog (*sublime*)? a pha anghreifftiau sydd genym o hono yn yr Ysgrythyrau? Gelwir unrhyw beth yn fawreddog ag sydd megys yn chwyddo yr enaid, ac yn perni i'w syniadau am allu, doethineb, &c. ymestyn yn annherfynol. Dywed Coleridge, nad oes ond ychydig iawn, os dim, anghreifftiau o'r wir fawreddog mewn un iaith ond yr Hebraeg. Oyfrifir yr anghraift ganlynol fel yr hynotaf, "Bydded goleuni, a goleuni a fu." Y neb sydd yn teimlo grym yr ymadrodd yma sydd yn teimlo pa beth yw mawreddog. Mae llyfr Job yn llawn o esiamplau o hyn. Mae *Salm* civ. yn nodedig. Mae rheswm da dros farn Col-

eridge, o herwydd yn mha le ond mewn llyfr yn desgrifio yr Anfeidrol a'i weithredoedd y byddai yn bosibl i ni gael y fath ymadroddion a hyn, "Yr hwn sydd yn gwisgo goleuni fel dilledyn : ac yn taenu y nefoedd fel llen. Yr hwn sydd yn gosod tylathau ei ystafelloedd yn y dyfroedd ; yn gwneuthur y cymylau yn gerbyd iddo, ac yn rhodio ar adenydd y gwynt." Oddiwrth hyn fe wêl y darllenyydd pa beth yw ein meddwl ; a gwaith adeiladol iddo ydyw chwilio am esiamplau cyffelyb.

Dirwest a'i adegau.

'Ni all na ddel rhwystrau.'

Er ein cywilydd, rhaid i ni briodoli i'n cysgadrwydd a'n difrawder ein hunain yr achos o afluwyddiant y Gymdeithas Ddirwestol. Ond mor wir a hyny, "Ni all na ddel rhwystrau." Y mae eu hategau i bob peth ; felly gyda'r achos dirwestol. Gwir ei fod yn ymddangos yn ddifywyd er ys misoedd a blyneddau bellach ; fel y goeden yn y gauaf, yn ymddangos fel yn marweiddio : yn nechreu yr hwn dymmor, ceir ei gweled fel yn gwywo yn brysur—ei harddwychder deiliog yn ymadaw, a'r olwg arni yn llawer mwy annymunol, na'r tymmor o'r blaen. Ond er hyn oll, yn awr yw yr adeg y ceir gweled yr hen goedwr deallus yn dechreu llifio ac awchlymu ei fwyall—ymddyosg a chymynu o ddifrif. Gŵyr ef yn dda ddigon mai yn awr y mae hi yn fwyaf *solid*. Felly y gymdeithas ddirwestol : nid yw yn ymddangos mor fyw yn awr, a'r tymmor a aeth heibio. Mae oerwynt gauaf wedi gwywo, a gyru ar ddifancoll ei harddwychder allanol : ac am ei gogoniant cyntaf hwnnw, rhaid dywedyd, Ymadawedig. Pa le mae y gwyliau mawrion a lliosog—yr areithiau tanlyd a brwd frydig—y gorymdeithiau yspleyydd—y banerau heirddwychion fu unwaith yn cwhwfan yn yr awel—y caniadau perseiniol, a'r buddugoliaethau gogoneddus ? Hyn a fu, a hyn a ddarfu. Ond er hyn oll, yn awr yw yr adeg oreu a fu ar y gymdeithas ddirwestol erioed. Yn awr y mae hi yn fwyaf di-dwyll a *solid*. Mae y gwag-ogoniant wedi hen wywo, a *syrthio* ymaith. Y creaduriaid oriawg a bwhwm manllyd hyny, wedi hen flino ar fod yn aelodau mewn enw, am nad oedd ynt amgen na rhyw ddeiliach yr haf.

Ac erbyn hyn, y mae yr aelodau arosedig wedi dyoddef gauaf : ac, fel y coed, maent wedi ymgadarnhau a gwreiddio yn well. Maent yn safadwy fel y dderwen ; tra y mae y bwhwm maniaid yn ansafadwy fel dwfr. O ! y dderwen gadarn ! ti ydwyt yn tyfu, ymledu, ac ymgadarnhau yn oes oesoedd : tra y mae y dwfr druan yn gwylt-redeg i lawr y mynydd : ac yn y dyffryn nid erys efe ; mae yn ei iaith yn gwaeddi, "Môr, môr i mi." Ac ar ol iddo gyrraedd ei nod yno, fe anesmwytha, ac a ymddyrrchafa tu a'r wlad o ba le y daeth, &c. Nid gwiw ymddiried i sefydlogrwydd y dwfr.—Ond am y dderwen, gellir ymddiried iddi hi. Bydd hi yn ei lle yn wastadol—yn barod a'i hadenydd cysgodfawr i amddiffyn dyn neu

anifail rhag y gwres neu yr ystorm—le, hi fydd yn gastell cadarn i'r aderyn bach ; gall yntau yn dawel ymddiried iddi—cymeryd hŷn a chyntun arni—nythu yn ei changau, ac ymddiried ei chywion idd ei nerth. Hi fydd yn grŷd esmwyth—a'r awel dêr yn siglo, ac yn hyfwyn sio yn bêr dreiddiawl, yn fil tlysach na'r delyn oreu, yn y cangau tewfrig, nes y mae y bychain ieuainc, fel yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn ymollwng yn esmwyth i freichiau cwsg, ac yn mwynhau y cyntun melusaf a all natur ei dderbyn. A hithau, y fam dyner galon, a'i meddwl pryderus yn ymlonyddu yn ei nawdd-le dymunol, a'i phalas nefolaidd. Cygynted y cenfydd hi y wawr, O ! fel y seinia ac yr adseinia hi ei hanthemau clodforas di-hafal—y canmola hi y dderwen odidog o eigion ei chalon didwyll ; ac y gogonedda ei Chréwr fry.

O ! dydi ddirwestwr sefydlog, egwyddorol, dirodres, a chadarn. O ! yr ymddiried a ellir ac a osodir i ti. Ti ydwyt loches i fil. Ti ydwyt dad i lawer. Heblaw cysgodi a noddi yn ogoneddus dy deulu dy hun, parod wyt i amddiffyn plant y meddwyn rhag traïs a chieidd-dra tad anystyriol, a chysuro y fam anhapus a thorcalonus : a hefyd, ti a daer geisi yn swyn-gariadus ar y tad afian a gwrthun ddiwygio ; ac o mŷn, ti a'i cofeidi yn dŷn-wresog yn yr un gymdeithas a thi dy hun. O ! fel y'th folianuir gan y plant druain, a chan y fam ddigysur : le, fe'th ganmolir gan y tad meddw yntau, er cymaint ei anystyriaeth a'i galon-galedwch : a mwy na'r oll, fe'th wobrwyir gan yr "Hwn sydd yn pwys o y calonau," ac a 'wyr "beth yw meddwl yr Ysbryd."

Ond, O ddirwestwr, "na sâf ar yr holl wastadedd : dianc f'r mynydd rhag dy ddyfetha." Yr oedd y cawodydd difaol hyny mor sicr o gyrhaedd trigolion y gwastadedd a thrigolion Sodoma a Gomorra. Felly, bydd digofaint tragediol y Duw Hollalluog, mor sicr o gyrhaedd trigolion gwastadedd dirwest a thrigolion y Sodoma feddwl. Am hyny,

Na sâf, ddirwestwr glow,
Ar un gwastadedd gwyrdd ;
A byth na thro yn ol,
Er temtasiynau fyrrd :
Ond yn y blaen, dos, dos o hyd,
Nes cyrhaedd draw i'r Soarglyd.

Nid oes un man yn bod,
I gadw enaid byth ;
Ond Iesu'r dwyfol Wr,
Sydd yn dragwyddol nyth :
Bydd Ef i'w deulu 'n noddfa gref,
Pan elo 'n dàn y byd a'r nef.

Llangernyw.

TANNER GLAN CONW.

At Ieuencytyd.

I EUENOTYD gwyltton ac annuwiol, y rhai sydd yn terfynu ar ddeistiaeth, didduisiaeth, ac atheistiaeth; nid yw y nadrodd yma yn byw yn awyr Cymru, fwy nag yw nadrodd naturiol yn draddodiadol ar dir yr Iwerddon: ond clywais fod rhai o'r Cymru wedi myned mor galed a hyny yn Lloegr—yr anystyriaeth mwyaf wedi eu meddiannu—yn medru gwadu a dibrisio dwyfol ddadguddiad, yn barnu crefydd, duwioldeb, ac achos efengyl Duw yn wagedd ac yn fydrwydd—yn gwawdio son am enaid, tragicwyddoldeb, a'r farn a fydd; y mae rhai felly o'r Cymru yn Lloegr. Fechgyn gwyltton atheistiaidd, ammheuwyr Duwa'i air, a dirmygwyr pob peth crefyddol, a ydych chwi yn sicr nad oes un Duw? os dywedwch eich bod, o ba le y cawsoch eich sicrwydd. Nid oes dim gweledig yn ffafrio y fath farn; ond yn hytrach mae pob peth gweledig yn dyweyd fod Duw. A anfonodd Duw ryw un atat i ddyweyd nad yw yn bod. A ddaeth ryw genad o'r byd anweledig i ddyweyd iti nad oes byd anweledig. A ddaeth rhyw ysbyrd atat i ddyweyd nad oes ysbyrd. Y mae fod iawn drefn ar y greadigaeth, a chyfnewidioldeb y greadigaeth yn profi i ni fod Duw. Ni allasai y greadigaeth fod erioed, oblegid y mae yn cyfnewid; ac ni allasai fod o ddamwain, oblegid y mae mewn trefn: pe buasai y greadigaeth erioed, ni buasai yn cyfnewid; a phe buasai yn bod o ddamwain, ni buasai trefn arni; ac os nad oedd erioed nac o ddamwain, yna rhaid fod creawdwr iddi; ac os oes creawdwr iddi, y mae yn rhaid mai Duw ydyw: ac os oes Duw, peth ofnadwy yw dy fod yn elyn iddo; a phwy elyn mwy na'r hwn sydd yn gwadu ei fod. Trwm fydd dy glywed, ar el treulio oes o wadu Duw, yn gwaeddi yn angeu, Och! y mae Ef yn bod: ac yn addef yn rhy ddiweddar fod barn a byd tragicwyddol, a Duw mawr yn bod, ar ol gwawdio y son am dano; ac yn gwaeddi yn chwerw; "rhaid myned i'r byd a wedais, ac ymddangos yn y farn a wawdaias, o flaen Duw, Barnwr pawb."

O! wadwyr dwyfol ddadguddiad, pa fodd y sefwch yn eich cyfeiliorni yn wyneb y profion eglur o hono. Onid yw hynafiaeth y Bibl, dull ei iaith, ei effeithiau ar y byd, rhagoriaeth y gwledydd lle y mae, ac annhorefn y gwledydd sydd hebddo, cyflawniad y proffwydeliaethau, cyson gyd-gordiad pob rhan o hono, ei awdurdod ar y gydwybod, a'i allu i droi yr enaid yn ddigonol brofion fod y llyfr o ddwyfol wreiddyn, a'r ysgriferyrau yn air Duw. Am hyny gadewch eich egwyddorien ac edifarhewch, cyn ei myned yn rhy ddiweddar. Y mae Cyfryngwr i'w gael heddyw, a Gwaredrwr i'r fath anghenfil a thi. Tyred i lawr i'r llwch, ymestwng ger bron Duw, cais ef, ymbil ag ef, ac efe a'th dderbyn.

JOHN ELIAS.

Dymunoldeb Person Crist.

"GOBEITHIAW nad oes neb o fy ngwrandoawyr yn meddwl am Grist fel gwreiddyn o dir sych. "Y mae efe yn wyn a gwridog—yn rhagori

ar ddeng mil—ac oll yn hawddgar,” neu yn llawn dymunoldeb. Nid yw holl ogoniant y byd ond dyddim wrth ogoniant Mab Duw. “Dymuniant yr holl genedloedd” yw, ac fe dâl i tithau bechadur ei ddymuno. Felly gwaith yr Ysbryd yw dwyn ei brydferthwch a’i hawddgarwch i oleu y meddwl, nes y byddo yr enaid yn gweled pob math o ogoniant yn Nghrist, a phob peth arall yn myned yn ddim. Cyflawnwyd y mater hwn ar yr hen dduwiolion. Pa fodd yr oedd Abel yn cofleidio yr addewid? Gweled gogoniant ei gwrthddrych yr oedd. Paham yr oedd Abraham yn gadaw ei wlad? “Duw y gogoniant a ymddangosodd iddo.” Pa fodd y daeth Moses i ddewis dirmyg Crist o flaen trysorau yr Aipht? Gogoniant Crist a lanwodd ei feddwl goruwch pob tegan llawr. Pa fodd y darfu i Paul, apostol mawr y cenedloedd, gyfrif pob gwybodaeth mor isel yn ngwyneb gwybodaeth o Grist wedi ei groesheilio? Yr Ysbryd a gogoneddodd Grist yn ei feddwl. O na fyddai cyflawniad o hyn arnom ninnau oll.”

Y diweddar Barch. Ebenezer Morris, Torgwyn.

Vavasor Powel.

YN y gymydogaeth lle yr oedd yn byw, clywodd fod yno wr tlawd yn dilyn ei alwedigaeth ar y Sabbath, fel y dyddiau eraill o’r wythnos. Aeth Mr. Powel ato, a gofynodd iddo, paham nad oedd yn cadw y Sabbath? Atebodd y gwr, mai cymaint ag a allai ef wneyd oedd ennill cynnaliaeth i’w deulu a gweithio ar y Sabbath fel dyddiau eraill. Gofynodd Mr Powel pa faint oedd yn ei ennill yn y dydd? Dywedodd yntau, _____. Yna ebe Mr. Powel, “A ddewch chwi i’r addoliad os talaf hyn y dydd i chwi?” “Deuaf yn ddiau” ebe’r gwr. Yna efe addawodd ddyfod i’r addoliad, a pheidio a gweithio dim ar y Sabbath, ar anamod i Mr Powel dalu iddo hyn y dydd. Felly cyttuno wnaethant. Dros ryw amser cadwodd y gwr y Sabbath, a daeth i wrandaw Mr. Powel, a byddai yn cael ei dâl yn ol yr addewid. Ond yn mhien ychydig enyd, dygwyddodd i Mr. Powel trwy ffirwst neu ryw beth, beidio a’i dalu dros ddau Sabbath neu dri. Yna galwodd Mr. Powel arno, a dywedodd “Mae arnaf fi ddyled i chwi;” atebedd y gwr, “Nac oes dim.” “Pa fodd felly,” ebe Mr Powel; “ni thelais i ddim i chwi er ys hyn a hyn o amser.” Atebodd yntau, “Mi a allaf hyderu ar Dduw yn awr; mi a welaf y gall ef fendithio gwaith chwe’ diwrnod i gynnal y teulu, yn gystal a phan yr oeddwn i yn gweithio ar y Sabbath.” Felly daeth ef i gadw y gorchymyn o gydwybod, ac i brofi nad oedd dim colled o uffuddhau i air Duw.

Ymddangosiad rhyfedd o ddaioni Duw yn ei ragluniad at deulu tlawd mewon cyfyngder.

Yr hanes canlynol a adroddwyd gan Dr. T. Stenett, wedi iddo ei chael gan ei dad, Dr. J. Stenett, yr hwn oedd gydnabyddus &’r teulu

a'u hamgylchiadau ; canys aelod o'i eglwys ef yn y Feni oedd y gwr da : enw yr hwn oedd Caleb.

Gyfeillion caredig, y budd a brofais lawer gwaith wrth ddarllen yr hanes hwn, a barodd i mi ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan obeithio y bydd i bob un a'i darlleno brofi yr un buddioldeb ; oblegid y mae plant Duw yn meddu, i ryw raddau, yr un profiadau dan yr un amgylchiadau yn y byd yma. Os gwelwch feiau, gobethio y gwnewch eu gwella wrth ddarllen, a maddeu i minnau. D. G.

Priododd y Dr. Joseph Stenett ferch foneddig yn Nghymru, o ganlyniad bu yn byw yno rai blyneddau, a ganwyd llawer o'i blant yno. Pregethodd gyda derbyniad mawr i'r gynnulleidfa Fedyddiedig yn y Feni. Yr oedd gwr tlawd yn aelod yno, o'r enw Caleb ; ei waith oedd llosgi coed-lo. Preswyliai rhwng y Feni a Henffordd. Yr oedd ganddo wraig a bagad o blant bychain. Cerddai saith neu wyt hildir bob Sabbath i glywed y Dr. yn pregethu, ac anaml y byddai y tywydd yn ei rwystro. Dyn duwiol iawn oedd Caleb, ac yr oedd ei wybodaeth a'i ddeall mewn pethau crefyddol yn rhyfedd, ac ystyried anfanteision ei sefyllfa a'i amgylchiadau. Yr oedd y Dr. yn bleidgar iawn iddo, ac yn caru ei gyfeillach yn fawr. Fel y nodwyd yn barod, anaml y byddai y tywydd yn rhwystro Caleb i ddyfod i'r meddion : ond bu rhew mawr iawn un gauaf, yr hwn a barhaodd amryw wthnossau, a chauwyd y ffyrdd i fynu, fel nad oedd yn bosibl iddo fyned ar hyd-ddynt, heb fod mewn perygl ; ac nis gallai weithio i ennill dim at ei gynnaliaeth ei hun a'i deulu. Yr oedd y Dr. a llawer eraill yn y gynnulleidfa yn ofalus iawn rhag iddynt drengu o eisieu. Ond mor gynted ac y dattododd y cwlwm eira, gwelwyd Caleb yn fuan yn y cwrdd. Gwelodd y Dr. ef o'r areithfa, ac fel y darfu y cwrdd, aeth ato, a dywedodd wrtho, "O Caleb, cystal sydd genyf dy weled ! Pa fodd y gwnaethost trwy yspaid y tywydd rhew ?" Atebodd yntau yn galonog, gan ddyweyd, "Fuom ni ddim byw gwell erioed ; nid yn unig yr oedd genym bethau anghenrheidiol, ond buom fyw ar ddanteithion dros yr holl amser ; ac y mae peth eto heb ddarfod, yr hyn a'n diwalla dros ychydig amser i ddyfod." Dangosodd y Dr. ei syndod, ac a ddymunodd gael clywed yr hanes yn fwy neillduol. Dywedodd Caleb wrtho, "Yr oeddym un noswaith, yn fuan wedi i'r rhew ddechreu, wedi bwyta pob tamaid o fwyd oedd genym yn y ty ; dim wedi ei adael erbyn y boreu, nac un golwg, yn ol rheswm dynol, am ddim. Er hyny, teimlwn fy meddwl yn bur dawel yn ymddibynu ar Dduw rhagluniaeth, yr hwn nad oes arno eisiau modd, nac offerynau i wneyd holl eisieu ei bobl i fynu i gyd. Aethum i weddio gyda 'm teulu, ac felly i orphwys, a chysgasom hyd y boreu." Cyn iddo gyfodi, clywai guro wrth y drws ; aeth i edrych pwy oedd yno ; gwelai ddyn yn sefyll, a cheffyl a phwn arno ; gofynodd y dyn ai Caleb oedd ei enw ? atebodd yn gadarnhaol ; dymunodd y dyn arno ddyfod i'w gynnorthwyo i dynu y pwn oddiar y cefyl. Gofynodd Caleb pa beth oedd ? dywedodd yntau mai ymborth oedd. Ar ei waith yn gofyn pwy a'i danfonodd ? Dywedodd y dyn ei fod yn ybied mai Duw a'i danfonodd ; ac ni allasai gael un ateb arall. A

phan aeth i chwilio y cynnwysiad, cafodd ei daro gan syndod wrth weled y cyflawnder a'r amrywiaeth. Yr oedd yno fara, peilliaid, blawd ceirch, ymenyn, caws, cig hallt ac ír, a thafod eidion, &c., yr hyn fu yn ddigon iddynt dros y tywydd rhew, a pheth yn rhagor wedi yr amser hyny. Effeithiodd yr hanes yn fawr ar y Dr.; ac yn mha gyfeillach bynag y byddai, dywedai rywbeth am Caleb i edrych a allai gael gwybod pwy oedd y rhoddwr haelionus, ond yn hollol ofer hyd oidletu dwy flynedd wedi hyny, pan yr aeth i ymweled a Dr. Talbot, meddyg enwog yn ninas Henffordd. Yr oedd Dr. Talbot yn ddyn o gymeriad moesol da, ac o ymddygiad caruaidd, ond yn ddi-flwydd; yr oedd ei wraig yn fenyw rasol, ac yn aelod yn eglwys y Bedyddwyr yn y Feni, ond o herwydd meithder y ffordd yn methu dyfod yn aml yno. Yr oedd Dr. Stenett yn myned i'w gweled ar droion; ac yr oedd Dr. Talbot, er nad yn grefyddol ei hun, eto yn croesawu Dr. Stenett yn garedigol iawn; ac yr oedd yn gyffredin yn aros noswaith neu ddwy yn ei dý ef pan yr elai yno. Pan yr oeddynt yn cyfeillachu yn felus un prydawn, tybiodd Dr. Stenett fod yn ddyledus arno ddwyn rhyw beth i'r bwrdd ag oedd yn ad-eiladol; a dechreuodd ddyweyd am effaith gweddi; gan goffhau achos Caleb. Pan yr oedd yn adrodd yr hanes, gwelai Dr. Talbot yn gwenu, ac yn dywedyd, "Caleb! anghofia i byth mo hono tra bwyl byw." "Beth, a oeddych chwi yn ei adnabod ef?" ebe Dr. Stenett. "Nid oedd genyf fi fawr adnabyddiaeth o hono;" ebe Dr. Talbot; "ond wrth eich desgrifiad, mi dybygwn fod yn rhaid mai yr un dyn ydyw ag yr ydych chwi yn ei feddwl." Wrth glywed hyny, yr oedd Dr. Stenett yn awyddus am wybod pa hanes oedd gan Dr. Talbot i'w roddi am dano. Ar hynny, adroddodd Dr. Talbot yr amgylchiad canlynol: dywedodd ei fod yr haf o flaen y gauaf caled a nodwyd yn marchogaeth ar geffyl er mwyn cael lles yr awyr, fel yr oedd ei arfer, pan y cai amser cyfaddas; ac yn gyffredin yn marchogaeth rhwng y bryniau, o herwydd ei bod yn fwy gwladaidd a dynunol: yr oedd ychydig o dai hwsmonaeth yma a thrall, ac ychydig o fythod bychain. Fel yr oedd yn marchogaeth ymlaen, canfu lawer o bobl wedi ymgrynhoi ynghyd mewn ysgubor; trodd ei geffyl i weled yr achos o'u cynnulliad, ac er ei fawr syndod gwelodd ddyn yn pregethu i lawer iawn o bobl; ac arhosodd yno nes oedd y gwasanaeth drosodd. Gwelodd fod y gwrandoawyr yn astud iawn i ddal ar yr hyn a ddywedai y pregethwr: un gwr tlawd yno a dynodd ei sylw yn neillduol; yr oedd ganddo Fibr bychan yn ei law, a throai at bob ysgrythyr ag oedd y pregethwr yn ei goffhau. Hyn a barodd iddo ryfeddu fod gŵr o'i olwg isel ef mor gyfarwydd ag i droi at y lle. Hefyd, yr oedd dalenau ei Fibr wedi eu troi yn aml. Pan ddarfu y gwasanaeth, trodd ei geffyl a marchogodd yn bwyllys fel y gallai weled y bobl; a'r gwr tlawd a dynodd ei sylw o'r blaen a gerddodd wrth ei ochr: syrthiodd i ymddyddan âg ef, a gofynodd iddo lawer o gwestiynau ynghylch y cwrdd a'r gweinidog, ac a gafodd y gwr tlawd yn fwy gwybodus nag y gallasai ef feddwl ei fod; gofynodd hefyd yn ei gylch ef ei hun, ei deulu, ei alwedigaeth, a'i enw, i'r hyn yr atebodd mai Caleb ydoedd. Wedi

i'r Dr. fodloni ei gywreinrwydd marchogodd yn y blaen, ac ni ddarfu feddwl am hyny mwy hyd y gauaf canlynol, pan y daeth y rhew ymlaen. Ac fel yr oedd un neswaith yn y gwely, nis gallasai ddyweyd yn sicr pa un ai yn effro ai yn cysgu yr oedd, tybiodd y clywai lais yn dyweyd, "Danfonwch ymborth i Caleb :" aeth mewn peth syndod ; ond penderfynodd mai breuddwyd oedd, ac ymrodd i gysgu eilwaith ; cyn fawr amser, tybiodd y clywai yr un llais a'r un geiriau, ond yn uwch ac yn gryfach ; yna dihunodd ei wraig, yr hon oedd yn cysgu yn drwm, a dywedodd wrthi beth a glywedd ; ond hi a'i perswadieedd ef mai breuddwyd oedd, ac a gysgodd eilwaith ; ond yr oedd y peth wedi effeithio gymaint ar feddwl y Dr. fel nas gallasai gysgu mewn un modd ; ond yn troi yn y gwely yr oedd dros ryw amser, nes iddo glywed yr un llais mor awdurdodol yn dyweyd, " Codwch a danfonwch fwyd i Caleb ;" fel nas gallasai wrthwynebu yn hwy. Ar hyn, cododd, galwodd ar ei was, a dywedodd wrtho am ddyfod a'r ceffyl at y drws ; aeth yntau i'r gig-cell ac a lanwodd bar o gewyll mor llawn ag y medrai o'r pethau ag oedd yn llesol i deulu mewn eisieu ; ac wedi helpu y gwas i'w roddi ar y ceffyl, dywedodd wrtho, " Ewch a'r ymborth yma i Caleb." " Caleb," ebe y gwas ; " pwy yw Caleb, syr ?" " Niwn i fawr am dano," ebe y Dr. " ond Caleb yw ei enw, glöwr yw, ac y mae yn gbyw i'r lan rhwng y bryniau ; gadewch i'r ceffyl fyned, a dilynwch ef, byddwch yn sicr o gael gafael ynnddo." Mae yn sicr fod y meistr, y ceffyl, a'r gwas dan gyfarwyddyd Duw : gallwn gasglu hyny oddiwrth ei ateb i Caleb, ei fod yn credu mai Duw a'i daufonodd. Gwiriwyd yr hanes uchod gan yr enw isod. Y tro anghyffredin nodadwy hwn o ddaioni Duw yn ei ragluniaeth tuag at yr anghenus a glywais y Dr. yn ei adrodd er ys llawero fflyneddau yn ol ; ac fel yr oedd tad y Dr. yn wr o eirwiredd diammheuol, nis gellir ammhau gwirionedd yr hanes. Gobeithio y bydd nid yn unig yn ddifyrus, ond yn fendithiel i lawer.

Cyf. J. S.

Abram y Ceunant.

Yn oedd yn dra dyddorol genyf weled rhai o ddywediadau fy hen gymydog Abram Jones, Ceunant, yn y " Geiniogwerth " am Medi diweddaf. Buom innau yn cyd-ymddyddan llawer a g ef, a dymai chwi ychydig eto o'i ddywediadau, a gwnewch a hwyt fel y gwelwch yn dda ; ond os bydd y rhai hyn yn dderbynol genych, y mae ychwaneg o'r un brethyn i'w gael.

Yr oedd Abram yn un anllythyrenog, a byr ei ddawn, ond cywir ei olygiadau am y pethau mwyaf anghenrheidiol er iachawdwriaeth. Dywedai mai y peth cyntaf a effeithiodd ar ei feddwl oedd gweled pregethwyr yn dyfod i lawr o bulpud y Bala, ac yn rhoi ei bwys arno, ac yn dywedyd, " O ein Duw tirion." Dywedai Abram nad oedd efe ond rhyw hegyn gwirion y pryd hyny, ond ei fod yn cael mwy o faint na phob bachgen, o herwydd ei fod yn Plas-yn-dre, ac yn cael glanhau esgidiau y pregethwyr.

Byddai yn son llawer am yr hen batriarch ffyddlawn hwnw A—m, ond dywedai, "Ni byddaf yn dewis ei enwi am ei fod yr un enw a fi." Dygwyddodd fod blaenor y gymdeithas neillduol oedd yn y gymdogaeth yn gofyn i ryw hen wr arall, "Er mwyn pwy yr oedd yn meddwl cael maddeu ei bechodau?" Ond nid oedd yn cael atebiad; a dywedai Abram wrth fyned o'r cyfarfod, "Pa fodd yr oedd hwn a hwn heb wybod mai er mwyn y Gwr fu ar y groes yr oedd yn meddwl cael maddeu ei bechod," a chan daro y ddasear â'i ffon, dywedai, "Yn blaen i chwi, does gan i yr un grefydd; nid oes gan i yr un grefydd beth bynag, os nad ydyw y Gwr fu ar y groes genyf."

Dywedai dro arall, "Yn blaen" (dyna oedd y gair a arferai) "nid oedd gan dduwielion y Bibl ddim ond a ddangoswyd iddynt, neu a dderbyniwyd ganddynt. Dywedodd un gwr duwiol, 'Ac efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd:' dywedai un arall, mai yn debyg mai un o'r apostoliolien oedd, 'Efe a osododd ynom ni air y cymmod.'

"Dywed ysgrifys yr arall, 'pwy a wnaeth rhagor rhyngot ti ac arall a pha beth sydd genyt ar na's derbyniaist,' welwch chwi, o le arall y maent yn cael y cwbl."

"Mae ambell un mewn cwmpeini fel pe bae yn dywedyd, 'Pwy ond y fi,' gwared fi rhag y fath beth."

ELIEZER.

Dechreuad Methodistiaeth yn y Bala.

(Parhad o tu dal. 31.)

1741. YN yr haf y flwyddyn hon, yr oedd ieuencyd Tre Bennaen, yn mlwyd Llanfair, wedi cyttuno, a chyflogi telynwr, a byddent yn cyfarfod nos Sadyrnau yn ysgubor Tŷ Nant, yn y gymdogaeth hono, i ganu a dawnsio; a byddai eu llawenydd yn parhau hyd dranoeth, gan amlaf. Un o'r nos Sadyrnau hyn, aeth Siencyn Morgan, yr ysgolfeistr, i'r Tŷ Nant hwnw i gynghori, ac aeth Edward William ab Edward gydag ef. Yr oedd y ddau wr hyn yn y tŷ, a'r ieuencyd yn yr ysgubor yn dechreu ar eu llawenydd a'u dawns; ond pan ddeclareuodd Siencyn gynghori, aeth ambell un o honyn i glustfeinio, ac wrth glustfeinio, tynwyd hwy yn nes. Ac wedi iddynt felly fyned ymlaen a gwrandaw, ennillodd y gair y dydd, a daliwyd hwy gando i wrandaw yn astud; eraill a ddeuent ar eu hol, a dygwyddai iddynt fel i'r rhai cyntaf: a'r rhai a aroseint yn yr ysgubor, nid oedd ynt yn cael hwyl iawn ar eu dawns. Clywais un o honyn i dywedyd, eu bod yn ceisio a'u holl egni ymroi i'r dawns, ond yn methu, oblegid, rywfodd, fod y pleser ynddo wedi dianc oddiwrthynt; felly hwy o un i un a aethant bawb i'r tŷ i wrandaw, a chyda hwynt aeth y telynwr hefyd. A phan ddaethant, rhoddes Duw y fath allu i lefaru, a'r fath effaith argyhoeddiadol gyda'r hyn a leferid, fel ag y dwysbigwyd ymron bawb ag oedd yn y tŷ. Yr oedd llefain mawr trwy yr holl dŷ, yn enwedig gan yr ieuencyd, megys llefain cieidwad y carchar yn Philippi. Dychrynn

trwm a ddaliodd bawb o honyn am gyflwr eu heneidiau. Wedi iddynt ymadael, yr oeddynt yn llefain ac yn wylofain ar hyd y caeau, wrth fyned oddi yno tuag at eu cartrefi. Y telynwr hefyd a gafodd y fath ddychryn ag y buasai wrth fyned adref yn tori y delyn yn chwilfriw, oni buasai i ryw-rai ei rwystro. Mia adwaenwn bump o bobl, ag yr wyf fi yn holol gredu a wir achubwyd y nos hon ; pa faint yn ychwaneg nis gwn.

Soniwyd o'r blaen fod y Bala ennyd o amser ar ol y dydd Mawrth hwnw o erlid mawr ar Mr. Harris a Jenkyn Morgan, heb neb yn dyfod i bregethu ; ond er hyny, bod y rhai a gawsant fias ar y gair dan y pregethau cyntaf hyny yn ymgynnnull at eu gilydd yn nhŷ Edward William ab Edward, Ymneillduwr o ran ei broffes. Y rhai a ymgylfarfyddent yno oedd y rhai hyn :—John Moses, y gôf, Evan Moses, ei frawd, yr hwn eedd yn wr difrif, deffrous, a diwyd iawn mewn crefydd, ac a barhaodd felly tra bod byw, John Edmund, crydd o'r dref, Ellis Francis, teiliwr o'r dref, Owen Owens, siopwr o'r dref, Thomas Rowlands, o Benmaen, yn mhlwyf Llanfawr, a John ei frawd ef, ynghyd a llawer eraill ; yr ydoedd hefyd ferch i hen wr dawiol o Ymneillduwr, a elwid Margaret Morris, yr hon ydoedd ag argoelion dymunol arni, gyda hwynt. Torodd y rhai hyn yn fuan, wedi clywed Mr. Harris a Siencyn, oddiwrth eu hen gyfeillion, a'u hen arferion hefyd, a buont dra diwyd a difrif yn arfer y moddion oedd ganddynt gyda'u gilydd ar y Sabbathau ac amserau eraill, tuag at ddyfod i adnabyddus fediant o wir grefydd. Eu harfer oedd darllen y Bibl, a llyfrau iach eraill, gweddio, a chanu mawl i Dduw. Yn unben ychydig, torodd Evan Moses allan i gynghori yn eu plith, a bu yn dra defnyddiol hyd ddydd ei farwolaeth.

Byddai ar brydiau, yr amser yma, ac ar ol hyn, rai gweinidogion Ymneillduol yn dyfod i Weirglodd Gilfach, a Nant y Deiliau, yn mhlwyf Llanuwchllyn ; a phan y byddai pregethwr yn y manau hyny, a'i pobl y dref i'w wrandaw ; a dyma fel y bu arnynt hyd y flwyddyn 1744.

1744. Yn y grauaf, y flwyddyn hon, daeth un William Richard Lloyd, gŵr o sir Aberteifi, i'r Bala, i bregethu. Ac am fod gwrth-wynebrwydd pobl y dref gymaint, byddai raid fod y bregeth cyn dydd, onide ni cheid dim llonyddwch. Yn y flwyddyn hon, daeth Lewis Evan, o Lanllugan, yn sir Drefaldwyn, hefyd i bregethu. Yr oedd yntau hefyd yn gorvod pregethu cyn dydd, o herwydd yr erlid mawr ; a mynch y cynnaliwyd y cyfarfodydd yn y Cyttir, sef y Bryniau goleu.

1745. Yn y flwyddyn hon y dechreuodd yngylch wyth o bobl y dref ymgorffori yn gymdeithas, i gydgyfarfod a'u gilydd yn wythnosol i hyfforddi ac adeiladu y nail y llall mewn gwybodaeth fwy manwl o Grist ac o honyn eu hunain, ac i gyfranu at achos yr efengyl, a chadw dysgyblaeth yn ol gair Duw yn mherthynas i'w bucheddau ; a mawr oedd gofal yr ychydig bobl hyn am eu gilydd. Byddent yn rhoddi llinyn trwy y ffenestr allan, a'r pen arall ynglyn â hwynt yn y gwely y nos, fel ag y byddai iddynt ddeffro eu gilydd i gydgyfarfod yn y blygain yn ddiarwybod i'r erlidwyr.

Ynghylch y pryd hwn y dechreuodd Evan Moses (gwel "Dry-sorfa," cyf. ii., tu dal. 277), un o'r aelodau uchod, lefaru yn gy-hoeddus ar y Sabbathau, a pharhaodd o hyny hyd ddydd ei farwol-aeth : yr oedd efe yn wr hynod o ran rhodio yn agos at Dduw, a didramgwydd i ddynion, er pan ei galwyd hyd ddydd ei farwol-aeth, sef dros yspaid ugain mlynedd.

Llawer o chwerwder a chenfigen a ddangcsodd erlidwyr y dref a'i chymydogaeth i'r ychydig bobl hyn; eto cynnyddasant, er maint y llid, fel ag yr oedd eu rhifedi yn y flwyddyn 1752, o gylch 40, neu fwy.

1752. Ynghylch y flwyddyn hon y torodd ymrafael allan rhwng Mr. Howell Harris, o Drefeca, yn sir Frycheiniog, (un o ddynion hynod i bregethu mewn ffordd daranllyd), ac eraill o gynghorwyr Cymru gydag ef, a'r Parchedig Daniel Rowlands, (pregethwyr bywiol ac efengylaidd), ac eraill o offeiriad a chynghorwyr ag oedd ynt yn cario ymlaen y diwygiad yn Nghymru gydag yntau. Yr achos o'r ymrafael neu yr ymraniad ydoedd rhai pethau mewn athrawiaeth ; ac hefyd gwaiith Mr. Howell Harris yn derbyn o bob sir y gwyr oddiwrth eu gwragedd, a'r gwragedd oddiwrth eu gwyr, ac i fyw yn y sefydliad ag oedd ganddo yn Nhrebecca, i'r dyben o dreulio eu hoes yn grefyddol, mewn dull cyffelyb i'r Morafiaid. Bu yr ymraniad hwn yn achos o dristwch mawr a gofid i'r cyfeillion, drwy holl ardaloedd Cymru, oblegid y parch ag oedd ganddynt i Mr. Harris o herwydd ei fawr lwyddiant a'i enwogrwydd. Ond nid llawer o'r offeiriad a'r cynghorwyr a gafodd ifodo'r un feddwl ag ef, canys hwy a gadwasant at eu trefn eu hunain i gario yr achos ymlaen mewn tangnafedd a llwyddiant mawr. Ac er i rai o blaid Mr. Harris, wedi yr ymraniad, ddyfod yn aml i'r Bala i bregethu, eto ni chawsant fawr dderbyniad. Ond i ddychwelyd at ein hanes ni yn y Bala: teilwng yw coffa am garedigrwydd proffeswyr y Deheudir, yn enwedig rhai o sir Ferganwg, yn yr amser hwn, pa rai a anfonent, ar eu traful eu hunain, ddau o genadon ffyddlawn, sef John Belcher, a David Williams, bob yn ail chwarter, i bregethu yr efengyl i'r ardaloedd hyn, yn wyneb llawer o iselder ac anhawsdersau. Nid oeddym ni ond ychydig nifer a thlawd ; ac o'r braidd y gallem, trwy fawr ymdrech, roddi cymaint a thamaid iddynt wedi eu dyfod ; yr hyn fyddai yn cael ei wneyd trwy fod un yn dyfod ag ychydig o ymenyn, a'r llall gaws, a'r llall ychydig o gig, &c., i'r ty y byddent yn lletya.

Catecism o waith yr enwog a'r duwiol Archesgob Leighton.

Gofyniad. Pa beth yn naturiol ydyw prif ddymuniad dyn ?

Ateb. Bod yn ddedwydd.

2. Pa un ydyw y llwybr sydd yn arwain i wir ddedwydd we Gwir dduwioldeb : 1 Tim. iv. 8.

3. Pa beth yw gwir dduwioldeb ?

Adnabyddiaeth fywiol a gwirioneddol o'r unig wir Dduw, a'r hwn a anfonodd efa, Iesu Grist. Joan xxvii. 3.

4. O ba le y mae y wybodaeth hon i'w dysgu ?

Y mae holl weithredoedd Duw yn dangos ei fodolzeth a'i ogonaint ; ond y wybodaeth egluraf o hono Ef ac o'i Fab Iesu Grist, a ddyagir i ni yn ei air, cynnwysedig yn ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament a'r Newydd : 1 *Ioan* v.

5. Beth y mae yr ysgrythyrau hyn yn ein dysgu am Dduw ?

Ei fed yn un anfeidrol, yn Ysbryd Tragywyddol—yn ddoeth a sanctaidd—yn gyfawn a thrugarog—yn Grëawdwr a Llywodraethwr Hollalluog ar y byd, 1 *Tim.* i. 17.

6. Pa bethau ymhellach y maent yn ein dysgu am dano ?

Ei fod yn dri yn un ac yn un yn dri, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan : 1 *Ioan* v. 7.

7. Pa beth a wna y wybodaeth fywiol hon am Dduw effeithio yn weithredol ynom ni ?

I gredu ynddo, a'i garu ef uwchlaw pob peth, hyd yn nod uwch law ein hunain : ei barchu a'i addoli, galw arno a'i foliannu, ei egoneddu a'n holl enaid, a chysegru ein hunain mewn uffudd-dod i'w holl orchymynion ef fel ein Crëawdwr, ac fel un a ddadguddiodd ei hun i ni i'r dyben hwn.

8. Beth yw y crynodeb a roddodd ein Hiachawdwr i ni o'i gyfraith sanctaidd ?

Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl, a'th gymaydog fel ti dy hun : *Luc* x. 27.

9. Pa beth ydyw y moddion mwyaf effeithiol er cael cynnydd ar ein ffydd a'n gallu i uffuddhau, a phob grasau a bendithion ar law Duw ?

Gweddi : *Rhuf.* x. 12, a *Phil.* iv. 6.

10. Yn mha sefyllfa y crewyd dyn ?

Yn ol delw Duw, mewn sancteiddrwydd a chyflawnder : *Eph.* iv. 24.

11. A barhaodd efe yn y sefyllfa hon ?

Na ddo. Ond wrth döri y gorchymyn a roddeis y Crëawdwr iddo, sef bwyta o'r pren yr hwn y gwaharddwyd iddo, efe a wnaeth ei hun a'i holl had yn agored i bechod a marwolaeth : *Rhuf.* v. 12.

12. A adawodd Duw ddyn yn y trueni dwn, heb unrhyw foddion na gobaith ei adferu ?

Na dde. "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffaol o hono fywyd tragedywyddol :" *Ioan* iii. 16.

13. Pa beth, felly, ydyw athrawiaeth fawr yr efengyl ?

Y dyfodiad hwnnw o Fab Duw i'r cnawd, a'i ymroddiad i farwol-aeth y groes i dynu ymaith bechodau y byd, ei adgyfodiad, ynghyd a'i esgyniad i ogeniant : 1 *Tim.* iii. 16.

14. Pa bethau yn benaf y mae yr efengyl hono yn dysgu ac yn perswadio ei holl ddeiliaid i'w gwneuthur ?

Y mae yn ein dysgu i ymwadu âg annuwieldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon : *Tit.* ii. 12.

15. Pa fodd y mae ein Harglwydd Iesu Grist wedi hysbysu i ni

beth yw dyledswydd fawr ac anghenrheidiol ei holl ganlynwyr ?

Bod iddynt ymwdadu â hwy eu hunain, a chodi y groes, a'i ganlyn ef : *Mat. xvi. 24.*

16. Adroddwch rai o'r prif bethau, yn mha rai yr ydym i ganlyn Crist.

1. I ymroddi ein hunain yn gwbl i ewyllys Duw yn mhob peth, hyd yn nod yn y cyfyngderau a'r poenau mwyaf arteithiol, ac nid ar un cyfrif wneyd ein hewyllys ein hunain nac amcanu at ein parch a'n lleshad ein hunain, ond yn mhob peth i wneyd ei ewyllys ef : *Mat. xxvi. 39—42.*

2. Bod yn ddifai, yn ddihalog, a sanctaidd yn eñn holl ymddyddanion : 1 *Pedr* ii. 22. 23.

3. Bod yn addfwyn a gostyngedig ; heb enllibio na gwarthruddo, na gwawdio na dirmygu neb : ac os gwna ryw rai hyny â ni, i ddyoddef hyny yn amyneddgar ; ie, ymlawenhau yn hyny : *Eaz. liii.7.*

4. Caru ein brodyr cristionogol â chariad diragrith ; yn elusengar a hynaws tuag at bob dyn, hyd yn nod ein gelynion, gan faddeu iddynt, gweddio drostynt, a rhoddi iddynt dda am ddrwg ; cysuro y tralledig, cynnorthwyo y tlawd, ac hyd y mae ynom wneyd daioni i bawb : *Mat. v. 44.*

17. A ydyw yn anghenrheidiol i bob cristion fyw yn ol y rheolaun hyn ?

Ydyw yn holol mor anghenrheidiol a bod y rhai hyny nad ydynt felly i ryw raddau, yn fyr o gredu yn wirioneddol yn Iesu Grist, ac nid oes ganddynt un rhan ynddo : *Math. v. 19 ; x. 37, 38.*

18. Pa seliau gweledig a gysylltodd ein Iachawdwr wrth yr efengyl, er cadarnhau ein ffydd, a chyfranu ei grasusau i ni ?

Dwy sacrament y Testament Newydd, sef bedydd, a Swper yr Arglwydd : *Math. xxviii. 19 ; 1 Cor. xi. 23, 24.*

19. Beth y mae bedydd yn ei arwyddocau, ac yn ei selio ?
Ein glanhad oddiwrth bechod, a'n genedigaeth newydd i Iesu Grist : *Titus iii. 5.*

20. Beth y mae Swper yr Arglwydd yn ei arwyddocau, ac yn ei selio ?

Ein meithriniaeth ysbrydol, a'n cynnydd ynddo, a'n gweddnewid fwyfwy i'w ddelw, trwy adgofio ei farwolaeth ef, ac ymborthi ar ei gorff a'i waed trwy yr arwyddion o fara a gwin : *Ioan vii. 5.*

21. Beth sydd eisieu er ein gwneyd yn gymunwyr addas a theilwng o Swper yr Arglwydd ?

Ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, edifeirwch tuag at Dduw, a chariad tuag at bob dyn : *Zech. xii. 10.*

22. Beth ydyw ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist ?

Y gras hwnnw trwy ba un yr yd m yn credu yr oll o'i athrawiaeth ef, ac ymddiried ynddo fel Prynw a Gwareddwr y byd, a chyflwyno ein hunain yn holol iddu, i'a dysgu, an hachub, a'n llywodraethu gando, fel ein Prophwyd, ein Hoffeiriad, a'n Brenin.

23. Beth ydyw edifeirwch ?

Galar duwiol am bechod, a dychweliad gwirioneddol a diffuant oddiwrth bechod at Dduw : *Ps. li.*

24. Beth fydd rhan ddiweddaf y rhai hyny sydd yn gwir alaru am bechod, ac yn uffuddhau i'r efengyl?

Bywyd gwynfydedig yr angelion ger bron Duw yn oesoedd: *Dat. vii. 17.*

25. Beth fydd rhan ddiweddaf y rhai hyny a barhant yn anghrediniol ac anedifeiriol?

Poenau tragywyddol y cythreuliaid: *Math. xxv. 30—46.*

Y Gymdeithas Heddwch.

Y MAE y Gymdeithas hon yn gweithredu yn egniol, ac wedi dynawadu llawer yn barod, nid yn unig yn Mrydain, ond hefyd ar y Cyfandir. Ei hamcan yw ennill y teyrnasoedd i gydysynio, pan gyfodo ymrafaelion rhyngddynt, i adael yr achosar farn gwyr diduedd. Felly y maeut wedi gwneuthur eisoes mewn lliaws o amgylchiadau, ond nid ydynt eto wedi cymeryd yr egwyddor hon fel rheol gyffredinol. Pe ceid hwyt i gyttuno ar hyn, gellid hebgor yr arian a dreulir yn awr i gadw y milwyr a'r llongau rhyfel. Ond y drwg ydyw fod y fyddin a'r llynges yn nawddleoedd cyfieus i blant ieuangaf y pendefigion. Dyma yr achos fod dyled y deyrnas hon yn ychwanegu bob blwyddyn. Y mae y Whigiaid yn gwario deng miliwn o bunnau yn y flwyddyn yn fwy nag oedd y Toriaid. Ac nid oes gobaith am ddiwygiad, nes y cymero y wlad y mabter mewn llaw. Y mae Mr. Cobden yn bwriadu dwyn yr aches hwn dan sylw y senedd yn fuan; ond rhaid iddo gael ei gefnogi gan bawb sydd yn caru heddwch. Os bydd rhyw fan heb anfon deiseb o blaid y cynygiad, hyderwn y gwneir hyny yn ddioed.

Ysgrifenyddion y Gymdeithas hon yw ein cydwladwr doniol, y Parch. Henry Richard; a'r Americanwr dysgedig, Elihu Burritt.

Gair at y Goragedd.

Os dymunech gael eich parchu gan bawb o'ch cymydogion, cedwch eich tai yn lân.

Os dymunech i'ch teuluoedd fwynhau iechyd a hir ddyddiau, cedwch eich tai yn lân.

Os dymunech brofi fod y Saeson yn dwyn camdystiolaeth yn eich erbyn, cedwch eich tai yn lân.

Os dymunech i'ch plant gael lle da, a llwyddo yn y byd wedi iddynt dyfu i fynu, cedwch eich tai yn lân.

Os dymunech wneyd eich gwyr yn hapus gartref, a'u rhwystro i fyned i'r dafarn i chwilio am gysur, cedwch eich tai yn lân.

Os dymunech ddangos fod addysg grefyddol wedi eich codi chwi yn uwch na'r Hottentotiaid anwaraidd, cedwch eich tai, a phob man o amgylch eich tai, yn berffaith lân.

Englynion i'r "Geiniogwerth."

Diau 'r hoffwn y drafferth—o lunio
 Englynion tlws, prydferth ;
 Pe medr gawn—a nawn a'm nerth
 Gynnygiwn i'r "Geiniogwerth."

Llyfr yw sy'n llafaru held—yn ddwysegall
 Mewn addysgion rhyfedd ;
 A'n hoffus wlad fad ni fedd,
 Fisolyn o fwy sylwedd.

Yn hon cawn er ein cynnydd,—nid maswedd
 Ond moesau a chrefydd ;
 Dillynion rhad, llon iawn rydd
 Oll ini er llawenydd.

Dynion call a deallus—a lanwant
 Ei dalenan campus ;
 Gan fath wyr mydrwyr medrus,
 Seigiau geir nid soeg ac us.

Mae fel gardd lefn a threfnus—liwiedig
 O flodau persawrys ;
 Amrywiaeth hoff, myrrh, a thus,
 F'ai iechyd i'r afiachus.

Am geiniog mai ugeiniau—o'n cenedl,
 Yn cynnull ei ffrythau,
 Trwy aml fod rhwng ei blodau,
 Ei mel hwynt sy'n amlhau.

A-b-r-d-r.

GWALYMN.

Rhy ddiweddar.

BONEDDIGES ieuanc, yr hon oedd anwylyd ei chymdeithion, ac a ddygasid i synu yn holl ddulliau ynsfyd y byd, nes ydoedd yn berffaith egwyddorol ag ysbyrd y byd, a gymerwyd yn glaf yn ddisymwth. Cyfododd galar mawr yn fuan. Galwyd din i lla'i na thrifedd ynglyd i'r dyben o'i hachub, pe bai modd, o law angen. Wedi ymgynghori, dywedasant, mai eu barn hwy oedd, nas gallai fyw ond ychydig oriau! Y dystawrwydd rhyfeddol a ganlynnoddyd hyn, a dorid yn unig gan lesain a dagrau mam dirion ya mron a thori ei chalon. Ar ol ychydig, gan grynhau ei holl nerth, gofynai y ferch ieuanc am iddynt anfon am ei chwmpeini. Daethant yn fuan, ac mewn pryder mawr daethant i'r lle hwn o alar a sobrwydd. Wrth weled ei chwmpeini mewn ffolineb wrth ei gwely, cyfarchsi hwynt yn debyg i hyn :—"Yr wyl fi yn myn'd i farw! Mor oinadwy y darfu i ni esgeuluso Duw a chrefydd, a cham dreulio ein hamser gwerthfawr! Gyda 'm hanadliaid olaf, yr wyl yn deis yf arnoch i edifarhau cyn yr elo yn rhy ddiweddar!" Wedi hyny troai at ei thad a'i mam ac a'u cyfarchai hwy, "Chwi fuoch yr achos annedwydd o'm bod i; chwi a'm maethodd mewn balchder; a chwi a'm harweiniodd yn ltwybrau pechod. Ni ddarf i chwi erioed fy rhybuddio am fy mherygl; ond yn awr, yn awr! y mae yn rhy ddiweddar!" Gwedi dywedyd hyn, hi a dawodd ac heb allu

ychwanegu, cauodd ei llygaid yn yr angen. Rhybudd achr i bobl ieuainc i beidio a chellwair a mater eu henaid yn moreu eu hoes.

D Y F R I G.

Ymddyddan rhwng Jones o Edeyrn, ac un o bererinion Lloyn mewn perthynas i gredu.

GOFYNAI Jones i'r hen bererin, "A wyt ti yn credu dywad?" "Na yr wyf yn misio yn glir." Gofynai yntau drachefn, "A wyt ti yn treio?" "Ydwyf gymyn galla nghanol i." Yna dywedai Jones, "mae treio a methu a chredu yn debyg i ddyn yn ei wely yn ceisio ac yn methu a chysgu, ond pan ddaw hyny ato ef, y mae yn cyngu heb yn wybod iddo ei hun. Hyny yn ddiammhau oedd meddwl Mr. Jones, mai ein dyledswydd yw gwneyd ymdrech i gredu; ond mai rhodd Duw yw ffydd.

Jones, "Os dali di yn yr ymdrech yr wyf yn siwr y daw credu atat ti."

J. W.

Beth y mae Rhyfel yn gostio?

Y MAE ein traul filwrol wedi ychwanegu fwy na phedair gwaith mwy er y flwyddyn 1792, ac y mae wedi cynyddu hyd yn nod er y flwyddyn 1836, y swm anferth o yn agos i £7,000,000.

Bydded i ni edrych, gan hyny pa faint oedd genym i dalu y flwyddyn ddiweddaf o achos rhyfel.

Llog y ddyled rhyfel	- - - - -	£27,827,116
Cost y fyddin, y llynges y gyfliegraeth, gwein-		
yddwyr i'r fyddin, milisia, a hedd-geidwaid arfog	- - - - -	21,000,000

P.48,827,116

Yr ydym wedi ein beichio a saith-miliwn-ar-hugain o'r swm uchod, fel llog y ddyled wladol, a hyny yn ddiobaith o gael ymwared oddiwrthynt.

Ond nid oes un anghen ein pynorio a'r swm arall, pe byddai yn mhobl y deyrnas benderfyniad i'w ysgwyd ymaith. Bydded iddynt fyfyrion ar y ffiath yn dda, sef, fod yr hell drethi canlynol yn cael eu llyfrau yn lân gan yr un swm hwn:—

Treth y cyllid (<i>income</i>) ar eiddo,	- - - - -	P.5,544,000
Y dreth fawr yn cynnwys treth adgas y goleuni	8,309,000	
Treth y tea,	- - - - -	5,112,005
Siwgr,	- - - - -	4,050,418
Sebon	- - - - -	965,836
Papyr,	- - - - -	798,814
Coffi,	- - - - -	756,888
Ymenyn,	- - - - -	136,543
Canwyllau a gwer,	- - - - -	9,888
Caws	- - - - -	88,289

P.20,851,681

Gellid dilêu pob un o'r trethi uchod ysfori oni hai y sefydliadau milwrol.

Y mae y swm mor fawr nes y mae yn dyrys u y dychymyg, ac ni ellir ffurio un farn gywir am bwysigrwydd y peth ond drwy ei gymharu a rhywbeth arall. Fel ychydig o gynnorthwy i hyny, cymerer y ffiath gan-

lynol, y gellid talu deg swllt yn yr wythnos i saith can mil o weithwyr, drwy y flwyddyn, gyda 'r swn hwn, a gadael swn mawr yn ngweddiol wedi hynny, ac y mae hyn yn fwy na'r swn a delir i lafurwyr ar y tir drwy Loegr a Chymru, drwy y wlad oll.

Ymfudiad.

MAE y teimlad hwn yn cryfbau yn gyflym iawn yn Lloegr o blaid ymfudiad. Mae ysgrifennwyr galluog yn cadw y doethineb a'r modd goreu i ymfudo yn barhaus o flaen meddwl y wlad. Mae y teimlad yn ennill tir, yn enwedig ymhlih crefyddwyr.

Y Pab.

YMDDEN EYS fod y Pab druan yn colli ei afael yn serchiadau ei hen ddeiliaid yn fwy o hyd. Mae lleenydiaeth y wlad yn dangos gwirthwynebiad penderfynol yn ei erbyn. Mae y newyddiaduron yn Florence yn galw yn uchel am i'r Bibl gael ei roddi i'r bobl yn yr iaith Italaeg, ac i'w hoffeiriad gael gwragedd, gan gondemnio yr arfer wrthwynebol yn ddi-drugaredd. Dydewdir eu bod yn gwneyd yn Rhufain yn burion hebddo. Mae rhyw son fod rhai o'r galluoedd mawr am ymuno i'w osod ar ei orsedd, a bod ein llywodraeth ni yn un o honyn : gresyn na haent yn dysgu bellach i edrych ar ol eu busnes eu hunain.

Ffrainc.

MAE y wlad hon wedi myned trwy amgylchiadau yr wythnosau diweddaf, a barodd lawer o bryder ac ofn am y canlyniadau. Cododd y perygl o'r gwirthwynebiad cryf oedd rhwng Louis Napoleon a'i weinyddiaeth ar un llaw a'r senedd ar y llaw arall. Mae plaid grefiawn yn y senedd dros eithafion werinlywodraeth, neu yn hytrach afywodraeth gyda'i holl ganlyniadau crenlawn a thruenus. Nid ydnt yn gweled gobaith i ddyrchafu a chyfoethogi 'eu hunain ond trwy yspeilio a thlodi y wlad. Mae y *President* i'w ganmawr am osod ei hunan yn erbyn y blaid gythreulig hon : nid ydym yn defnyddio gair rhy gryf i'w dynodi. Gan fod y ddau wedi eu hethol trwy bleidlais cyffredinol, ystyrient eu hawdurdod yn ogyfwch, nad oes gan y naill awdurdod i gyfyngu ar y llall, ac eto yr oeddent wedi penderfynu mynu yr oruchafiaeth ar eu gilydd. Dangosodd y weinyddiaeth benderfyniad a gwrolder anarferol, a hi a lwyddodol. Ennillwyd penderfyniad mwyafrif aelodau y senedd dros ddyddymu ei hun, ac felly fe geir etholiad cyffredinol cyn bo hir, ac mewn canlyniad, senedd a gydweithia, fe ddichon, yn well i'r gweinidogion.

Mae tlodi fel y gellid dysgwyl yn fawr iawn yn Ffrainc : fel anghraifft, zwlosom fod gwniadreg yr hon oedd yn ennill bywiolaeth da cyn y chwyl-droad, blwyddon yn ol, wedi methu cael gwaith fel arferol ar ol hynny, ac iddi yn ddiweddar dafli ei hun i lawr i'r heol, o ffenestr uchel, am nad oedd ganddi foddi i dalu ei dyledion.

Yr Iwerddon.

MAE y wlad hon yn myned yn ddyfnach i drueni a thlodi o hyd. Mae y trigolion sydd a rhywbeth ganddynt i'w gadw yn prysuro o'r wlad, a dydewdir fod y drydedd ran o honi ar werth ; ond lle mae bywyd, meddiannau,

a phob peth mor ansier, pa ryfedd nad oes neb yn barod i brynu. Mae deddf y tlodian fel maen melin o gwmpas gyddfae meddianwyr tir. Mae yn wir ei bod wedi cadw miloedd rhag trengu o eisieu, misoedd y gauaf; ond mae hi yn dyfetha amaethyddiaeth y wlad, y mae y tiroedd yn cael eu gadael i fyned allan o driniaeth. Pa wlad a allai ddyoddef deddf tlodian i gynnal cannoedd o filoedd o ddynion iach nerthol a'u teuluoedd. Gellid meddwl y byddai yn eddigon i gadw Pabyddiaeth rhag cael lle troed yn Nghymru hyd ddiwedd y byd, i gyfeirio at yr Iwerddon, ac edrych ar ei heffeithiau yno. Mae cofio fo'r Pabyddiaeth a thlodi a thrueni annysgrifiadwy yr Iwerddon yn sefyll i'w gilydd yn y berthynas o achos ac effaith, yn llesfaru yn fwy nerthol na mil o lyfrau yn erbyn twyll mam puteiniaid yr holl ddaear.

Y Senedd.

YMEYFARFU y senedd y dydd cyntaf o Chwefror. Nid oedd dim neillduol yn araeth y Frenines, heblaw yr annogaeth i leihau beichiau y wlad. Y mae yn hysbys i'n darllenwyr mai gweinidogion y Frenines sydd yn cyfansoddi yr araeth; o ganlyniad gellir casglu eu bod hwy wedi teimlo eddiwrth ymdrechion Cobden a'i bleidwyr. Pan welsant fod yn rhaid gostwng y trethi, cawsant allan yn ebrwydd fod yn hawdd gwneuthur hynny heb ddim perygl.

Ymosodwyd ar y gweinidogion yn ffyrnid gan Arglwydd Stanley yn Nhŷ yr Arglwyddi, a chan Mr. Disraeli yn Nhŷ y Cyffredin. Honai y ddau eu bod wedi ymyryd mwy nag a ddylasent yn helyntion y Cyfandir, a thrwy hynny wedi tramwyddo Spaen, Naples, ac Awstria. Arglwydd Palmerston, yr ysgrifenydd Tramor, a amddiffynai ei hun yn effeithiol yn Nhŷ y Cyffredin, trwy ddadleu fod heddwch a chydweithrediad wedi para rhwng Lloegr a Ffrainc; ac nad oedd wedi gwneyd dim heb wahoddiad gyda golwg ar achosion teyrnasoedd eraill. Ond yn Nhŷ yr Arglwyddi nid oedd gan y gweinidogion ond dau o fwyasrif; a buasent wedi eu gorchi, fygu oni buasai i Duc Wellington gymeryd eu plaid. Dadl arall a ddygid ymlaen gan Mr. Disraeli oedd eu bod wedi gwrandaw gormod ar Cobden. Ond mynai Arglwydd John Russel mai hwy eu hunain oedd wedi meddwl am leihau y costau, heb fod yn ddyledus i neb arall. Yn y ddadl hon hysbysodd Mr. Disraeli ei fod yn erbyn gwaddoli y Pabyddion; a'i fod yn llawenhau wrth feddwl nad oedd hynny mewn bwriad.

Chwef. 8, achwynai Syr Robert Inglis fod yr Esgobion Pabaidd yn cael yr un parch yn y Trefedigaethau ag Esgobion Eglwys Loegr. Nid oedd gan Arglwydd John Russel ddim i'w ddyweddyd ond fod hyn yn cael ei arfer o'r blaen yn yr Iwerddon, lle y mae y llywodraeth yn arfer cysarch yr Archesgob Pabaidd fel 'Eich Graslonrwydd,' &c.

Nid oes dim arall o bwys wedi ei drafod pan ydym yn myned i'r wasg.

Arglwydd Stanley yw blaenor yr uchel Doriaid yn Nhŷ yr Arglwyddi; a Mr. Disraeli yw eu blaenor yn Nhŷ y Cyffredin, wedi marwolaeth Arglwydd Bentinck. Iuddew o genedl, yw Mr. Disraeli, er ei fod yn gristion profesedig o ran ei gred. Y mae yn ddyn medrus fel awdur ac fel areithiwr. Yn y canol rhwng y Teriaid a'r Whigiaid y mae Syr Robert Peel, Syr James Graham, a'u plaid hwythau; ond yn gogwyddo yn hytrach at y Whigiaid.

Y GEINIOGWERTH.

Cyfaill y Bobl:

GAN Y PARCH. JAMES HAMILTON.

YN y ganrif olaf, fe ennillodd un o ymherawdwyr Rwsia lawer o glod trwy yr ymdrechiadau a'r aberthau a wnaeth er mwyn ei ymherodraeth. Yn gymhelledig gan ei chyflwr barbaraidd, a llawn awydd & ddwyn i mewn fedruswydd celfyddyaidd gwledydd cywreiniach, fe fwriadodd fod ei hunan yn ddysgawdwr i'w bobl. Yn lle danfon ychydig o ddynion dysgedig i wahanol wledydd i gasglu yr hyn a allent, penderfynodd fod yn negeseuwr iddo ei hun; a chan adael ei balas breninol yn Moscow, cychwynodd i ymdeithio yn Holland a Brydain. Yroedd yn neilduol o awyddus i ddwyn adref wybodaeth o'r gelfyddyd a adeiladu llongau, canys barnodd yn ddoeth nad allai heb longau a llongwyr droi i bwrrpas da adgyfnertoedd ei wlad. Ond daeth yn fuan i ddeall na ddysgai neb y ffordd i adeiladu llong wrth e drych yn unig. Eto beth bynag oedd yn eisieu i'w gymhwys i wneuthur hyuy, yr oedd Pedr wedi penderfynu i'w mynu.

A chydag egni ardderchog fe newidiodd ei ddillad breninol am wiag saer, ac fe'i gwelwyd yn treulio wythnos ar ol wythnos yn yr adeilfan yn Saardam yn hwyllo'r fwyall, rhwbio a'r pŷg-brush, a gyru'r bolltau nes i furiau'r argaudŷ adseiniio; a buan yr oedd yn gymhwys i ddychwelyd adref i ddysgu ei bobl i wneyd llongau iddynt eu hunain. Nid yw yn rhyfedd i wlad ddiolchgar adeiladu i'w gôf y golofn ardderchocaf yn y byd, a galw pr:f-ddinas yr ymherodraeth ar ei enw ef.

Llawer mawreddusach na'r weithred hon o eiddo'r ymherawdwr ydyw rhai ffeithiau a goffêir yn hanes dyngarwch. Mwy mawreddus, fel esiampl, ydoedd gweithred gŵr boneddig Seisoneg, yr hwn er cael gwybodaeth bersonol o erchyldod y *Slave trade*, ac er ei gymhwys i dystiolaethu yn erbyn y fasnach uffernol ar ol hyny, a gymerodd ei dramwyfa mewn caeth-long i Affrica—yn ymfoddloni i ddyoddef am fisoeedd dan y dwymyn boeth, yn nghanol budreddi ffiaidd, a dyoddef hefyd bron bob awr i weled triniaeth ar ei gyd-ddynion a barai i'w waed ferwi mewn digofaint.

Mwy urddasol fyth ydoedd ymddygiad y cenadwyr angelaid hyny, y rhai pan fethasant mewn un ffordd arall bregethu yr efengyl i gaethweision duon Barbadoes, a werthasant eu hunain i gaethwasanaeth, ac yna dywedasant i'w cyd-gaethweisen y newydd a ollingai yr ysbryd yn rhydd.

Ardderchocaf o'r cwbl oedd hunan-offrymiad dau Forafiad, y rhai a lanwyd o dosturi wrth weled trigolion rhyw ysbatty ofnadwy—math o garchar ydoedd i ddynion a'r gwahanglwyr arnynt; a chymaint oedd ofn pobl y wlad rhag iddynt gael yr haint oddiwrth-ynt, fel na oddefid i neb a'ï i mewn, ddyfod allan byth wed'yn. Er hyn oll, fe wasgodd cyflwr y trueiniaid afaich yma gymaint ar

EBRILL, 1849.]

feddwyl y ddau wr tosturiol hyn, nes iddynt benderfynu yn ngwyneb pob perygl, eu cysuro yn eu caethiwed, a cheisio a chub eu heneid-iau. Bwriasant y draul, a dywedasant, "Ffarwel ryddid, Ffarwel gyfeillion, Ffarwel haul siriol a gwyntoedd iachus," a chroessasant y trothwy di-droi yn ol—pob un o honynyt yn aberth byw.

Fe barodd cyflwr y byd i dosturi ennynt yn mynwes Mab Duw. Gadawodd ei gartref yn y nef, a daeth yma. Brenin y Brenin oedd a ddadwisedd ei ogoniant—daeth i olwg euogrwydd a thrueni. Gadawodd y gymdeithas a'i haddolant fry, a disgynodd ymhllith créaduriaid llawn o gasineb ato, ac heb fedru ei amgyffred. Ar ei neges drugarog disgynodd ar y blaned haint glwyfus hon, ac am fwy na deng mlynedd ar hugain daeth yn un o'i thrigolion, ac mewna cyffyrddiad a'i pheched a'i thristwch. A thra y syllai ei lygaid ar ryw gyflawniad gogoneddus, nis gwrt hodd fod am lawer o flyneddau yr alltud, y carcharor, ac o'r diwedd, yr aberth.

A thybiaf y dylai ystyriacth o gyflwr y Gwareddwr fod yn beth i chwi feddwyl am dano. Fe gafodd ei ddewis. Gallasai ddewis yn drigfan breswylfod hardd neu balas breninol, ond dewisodd yn gartref, tra yr oedd ganddo le a allai alw felly, fwthyn saer. Bwriadod ei ran ddaearol wrth ochr eiddo 'r gweithiwr, ac heblaw y gostyngiad bwriadol, cafodd dybenion eraill eu hateb.

Rhoes anrhyydedd newydd ar lafur. Y mae rhyw bobl wirion yn teimlo cywilydd i weithio, y maent yn gwrido os delir hwynt yn gyflawni rhyw weithred o ddiwydrwydd. Y maent yn meddwyl bod gwneyd dim yn anrhyydeddus, a thybiant bob anallu i gyflawni unrhyw beth yn arwydd o foneddigeidd-dra. Anghofiant mai peth hawdd ydyw iddynt fod o ddim defnydd, ac nad oes eisieu medruswydd i ddiffrytho 'r tir. Ond fe wyddai yr Arglwydd Iesu fod yn oreu ar y byd pan bydd pawb yn weithwyr, a chydymffurfioedd ei huuan a'r rheol dda Balestinaidd hdno, ac fe fynai i bob dinesydd ddilyn rhyw alwedigaeth. Yn lle dewis crefft neu alwedigaeth uchel, rhoes ei hun i ddilyn un gyffredin a gostyngedig, fel y dysgai ni mor hawdd ydyw gwneuthur daioni anghyffredin mewn sefyllfa bur anamlwg. Nid ydyw gwaith garw a chaled yn un rheswm am ymddygiad sarug neu feddwyl isel a difoes. Ni thramwyodd erioed ar hyd daear bresennoldeb mor bur, a deniaeth mor ddwyfol, ag a symudodd yn mherson "mab y saer"—mor fwyn yn ei urddas-rwydd—mor dra pharchus yn ei larieidd-dra—mor ddengar yn ei gariad—mor fedrus i daenu hapus-wydd—mor dirion i iachau briwiau tufewnol—mor raslawn i achub blaen dymuniadau! Nis gall unrhyw reolau ymddygiaeth, boneddigeidd-dra cyfeillach, roi drachefn yr un hyfrydedd urddasol—yn nghanol ei ddyddiol galodwaith, fe ymchwyyddai ei enaid gan ei fwriad rhyfeddol, a thra y lluniai i werinos Galilea eu harfau amaethyddol, yr oedd ei ysbyrd ya cymdeithasu a'r drydedd nef! Nid galwedigaethau bychain a chyffredin, ond meddyliau a dychymygion bach sy'n gwneuthur dynion bach; ac y mae mawredd y wedd, a deniaeth y moesau a ddeilliant o'r gweith-dy Nazaréaidd yn wers i bob un a ymeifl yn y morthwyl, y rhaw, neu 'r wenol wëu. A hefyd, y sancteiddrwydd

a ymddangosai mewn tref o gymeriad drwg—hwyrach yn orfod-edig o fya'd i gwmni cablwyr a chrwydriaid, eto y cwbl o'r cwmni anghydrywiol yma a'i dangosent ef yn amlycach fyth fel un “sanct-aidd, dihslog, difrycheulyd, a didoledig oddiwrth bechaduriaid.” Ac es teimlweh awydd i gwyno am i chwi fod wedi eich cau i fynu yn nghwmni dynion isel-feddwl a gwylt—o fod yn orfodol i wrando geiriau ofer a serthaidd, neu o edrych ar fuchedd ddrwg ac anmhur, cofiwch mai yn yr un sefyllfa a chwi yr ymladdodd y Gwaredwyr & llygredd y byd, ac y gorchfygodd; ac os ydych yn teimlo eich hunain yn debyg o golli'r dydd yn yr un fath ymladdfa, llefwch am gymhorth oddiwrth yr hwn a gofia yn mysg ei gofiadau daearol eraill am Galilea. Ac er ei fed ya awr wedi gorphen am byth & gweith-dy'r saer, nid anghofiodd y cymydogion sarug, a'r dref ysageler—a'i esiampl unigol ef a ddifododd y ddiareb—“Addichon dim da ddyfod o Nazareth !”

John Brown, o Haddington.

MR. BROWN, o Haddington, gerllaw Edinburgh, pan yn fachgen tlawd, a fyddai yn cael gwaith yn fynych i yru ceffylau a maethwr yn Lothian Ddwyreiniol. Wedi myned un diwrnod i Edinburgh, gyda llawer eraill, âg yd i'r farchnad, tra yr oedd y ceffylau yn gorphwys, a'i gyfeillion yn cysgu yn eu hymyl, aeth Mr. Brown i *Parliament Close*, lle y clywodd fod y llyfrau rhataf i'w cael, i chwilio am Testament Groeg. Wrth weled bachgen carpiog yn dyfod i ymofyn am Testament Groeg, gofynodd y llyfr-werthwr iddo, pa beth ydoedd yn myned i wneyd âg ef. “Wel, ei ddarllen, os gwele eich anrhyydedd yn dda.” “A fedri di ei ddarllen ?” “Mi a wnaf fy ngoreu i hyny,” ebai y bachgen. Ar ol i un o'r siopwyr gael grafael mewn un, rhoddasant ef iddo. Dywedodd y meistr wrtho, “Os gelli ddarllen hwn yna, ti a'i cei ef am ddim.” Cymerodd y bachgen afael ynddo, ac ar ol iddo ddarllen un tudalen, efe a'i cyfeithodd yn ddiboen. Gan hyny ni chymerai y llyfr-werthwr arian ganddo, er i'r bachgen dynu hanner coron o'i logell, a'i gynnyng iddo yn daer, gan y gwyddai mai dyna oedd gwerth y llyfr.

Yn mhen oddeutu ugain mlynedd ar ol hyny, daeth mewn gwisgoedd da at yr un llyfr-werthwr, gan ddywedyd wrtho, “Syr, yr ydwyf yn credu fy mod i yn eich dyled chwi.” “Ni wn mo hyny,” ebai y llyfr-werthwr; “ond deuwch i mewn, ac yna fe ddywed un o'm dynion ieuainc i chwi.” “Ond,” ebe.yntau, “i chwi eich hunan yr ydwyf si mewn dyled.” Gan edrych yn ei wyneb, dywedodd yntau, “Syr, nid wyf yn gwybod fod arnoch ddim i mi.” “Oes, ya sicr,” ebe.yntau, “a ydych yn cofio oddeutu ugain mlynedd yn ol, i fachgen tlawd ddyfod atoech i geisio Testament Groeg, ac ni thalodd i chwi am dano ?” “Ydwyf, ya berffaith,” ebe y llyfr-werthwr; ac nid cynt yr aeth y bachgen ymaith, nag yr oeddwn yn ddig wrthyf fy hun eisieu gofyn ei enw, a'r man lle y

oedd yn byw." "Myfi," ebe'r gweiniog, "oedd hwnw! Fy enw ydyw Brown, ac yr ydwyf yn byw yn Haddington." Ar hyn, gan edrych drachefn yn ei wyneb, a rhoddi ei law iddo, dywedodd, "Mr. Brown, y mae yn dda genyf eich gweled: clywais am danoch lawer gwaith. Y mae genym yn ein siop, fel y mae yn holl lyfrgelloedd yr athrofääu yn y deyrnas, eich "Bibl Hunanddëonglydd," eich "Hanes Eglwysig," &c., y rhai a ddygasant lawer o arian i mewn i mi, ac sydd â mwy o alw am danynt na dim llyfrau yn fy siop. A welwch chwi fod yn dda giniawa gyda mi?" Gwnaed hyny, a bu y ddau yn gyfeillion parhaus byth wedi hyny.

GREEN.

VI. *Llythyr Hen Wr Mynyddig.*

ANWYL GYDGENEDL,

Gwyddys yn dda fod misoedd oerion y gauaf yn effeithio yn drwm ar hen boblach, gan eu gwneuthur yn fwy methiant a marwaidd nag o'r blaen. Felly bum innau yn ddystaw am y misoedd diweddael, fel y mae darllenwyr y "Geiniogwerth" wedi gweled; ond yn bresennol y mae'n wyneb blwyddyn, a theimlaf finnau fy ysbrydoedd yn adfywio, a'r ysbrydiaeth am fod yn awdur heb ddarffod ynof eto, ond yn hytrach yn cryfhau po fwyaf a ysgrifenaef: ac felly os gwel Llywydd pobeth hyny yn oreu, amcanaf ysgrifenu dernyn mor fynych ag y gallir yn y misoedd dyfodol.

Byddaf yn cael fy hun yn dueddol iawn i wneyd sylwadau ar ddynolryw a'u gwahanol ystumiau; ac yn enwedig eu hymustumiau gyda chrefydd. Adwaen un dyn sydd wedi ei ddarostwng yn isel iawn gan wendid ar y gïau; neu fel y dywed y cyffredin, gan iselder ysbryd. Ac fel y bydd mewn gwlad yn gyffredin rai pobl lled ddiwybod, ac yn wir rai lled anystyriol weithiau; dywed rhai o'r fath hyny am dano yntau, nad oes arno galedi yn y byd, ond ei fod yn rhy ddiog i weithio. Ond mae dywedyd felly yn rhy galed. Ac yn ddiâu pe cosbid hwy am ddywedyd fel yna, a mis o ddyoddef ei deimladau ef, byddai yn bur edifar ganddynt erioed ddywedyd, ac addawent yn rhwydd na ddywedent felly byth yn ychwaneg; eanys mae efe yn wirioneddol gystuddiol, a hynod mor deimladwy ydyw o hyny. Yn wir, mae ei gystudd mewn rhan fawr yn gynawysedig yn y teimladrwydd hwn.

Un o'r pethau cyntaf a wna wedi deffro yn y boreu fydd gwrando euriad a rhediad ei waed yn ei arddyrnau. Ac wedi gwrandaw un arddwrn am yspaid, newidia a gwrendy y llall am yspaid, a phan yn gollwng hwnw, ond odid na cheir ef yn gwneuthur hyny gydag ochenaid hirlaes a throm. A phan y gallo o radd i radd ddyfod o'r gwely, a chyn gorphen gwisgo am dano, a at y drych i weled pa fodd y bydd yn edrych y diwrnod hwnw; ac er mwyn gweled pa mor wyn, neu pa mor felyn fydd ei dafod erbyn hyny. Hefyd bydd eisieu gweled pa fodd y bydd odditan ei lygaid yn ymddangos. Yna wedi hir ymdrech ac ocheneidio i geisio gwisgo am

dano, daw o'i ystafell, gan deimlo ei hun yn wan iawn yn barhaus. Nid ymolcha ond odid, gan ei fod yn teimlo ei hun yn rhy wan i hyny. Yna eir at y boreufwyd; ond bydd blas drwg iawn ar ei enau ef—nis gall fwyta dim. Mae yn bwyta hefyd, ond yr un pryd mae 'n credu ei fod yn wael iawn, ac y bydd marw cyn hir efallai. Wedi dybenu gyda 'r boreufwyd a'r addoliad teuluaidd, bydd ei amgylch-iadau yn dyweddyd fod eisieu gwneuthur rhywbeth, neu fyned ar ryw neges i rywle end odid; ond bydd raid iddo ef dreulio llawer o amser i ystyried pa un a all ef wneuthur hyny neu beidio. Un fynyd meddylia y gall, y mynyd nesaf bydd yn benderfynol nas gall. Ond yn mhen ychydig, meddylia drachefn, hwyrach y gallai, ond rhoddi cais; ond yn y fan wedi hyny bydd yn ofni nas gall. A hwyrach mai fel yna y bydd am oriau, yn methu penderfynu, oddigerth i rywun mwynaidd a fyddo yn gwybod ei brofedigaeth ac hefyd fyddo yn medru darbwyllo y fath ddyn, ei helpu allan o'r cyfwng. Ond os meddylia y gall, a rhoddi y cais, ond odid na chyflawnia, a bydd dda iawn gando erbyn hyny ei fod wedi gwneyd; bydd yn teimlo ei hun yn llawer gwell. Llawer o bethau eraill yn mherthynas i'w bryder a'i deimladrwydd ynghylch ei iechyd, a allesid eu hadrold, megys pa fodd y bydd i rywun ddyweddyd ei fod yn edrych yn wael, effeithio arno, a'r cyffelyb bethau: ond mae hyn yn ddigon i'm hamcan ar hyn o bryd. Onid yw yn ddigon eglur am y fath ddyn, fod ei waith ef yn meddwl a phryderu ynghylch ei iechyd yn barhaus, yn achos o barhâd a chryfhâd ei afiechyd? A thybygwn na byddai ddim gwell iddo, od oes modd, nag anghofio ei afiechyd i radd fawr pa fodd bynag; ac ymroddi i wneyd rhywbeth a'i holl egni, a rhoddi ei holl fryd hefyd ar ei orchwyl. Rhaid i'r gerchwyl fod yn rhywbeth ysgafn efallai, ond dilyned efe ef yn ddyfal gan roddi ei feddwl arno, bydd ei iechyd yn llawer gwell yn ddiffaefl.

Ond at hyn yr oeddid yn cyrchu, sef bod y dyn a'r gïau gweiniaid, yn wir lun a delw llawer iawn o grefyddwyr y blyneddau hyn. Y rhai sydd ar hyd gydol eu hamser yn ymwrundai a hwy eu hunain, gan chwilio i weithrediadau eu calonau eu hunain. Ac weithiau yn ofni 'r peth hyn, bryd arall yn ofni y peth arall. A meddylient eu bod yn ddigrefydd ac anystyriol iawn, os na byddant yn cwyne am rywbeth. Un amser byddant yn methu a'u cael eu hunain fel hyn, a bryd arall yn eu cael eu hunain rhyw fel arall, ag na byddant yn eu dymuno. Maent a'u llygaid arnynt ac iddynt eu hunain yn wastadol, ac yn meddwl a phryderu, (os ydynt o ddifrif hefyd,) am eu hiechyd ysbrydol yn ddidor. Maent hwythan hefyd fel y dyn, yn tybio nas gallant weithio ond ychydig iawn gyda chrefydd. Mae hyn yn ddiammheu yn tueddu yn fawr, i wneyd y drwg yn waeth gyda hwythau. Mae rhyw wendid yn perthyn i'w crefydd, a bwrw y goreu, gan eu bod i'w cael yn yr agwedd yma mor ddidor. Ac mae eu bod hwythau mor ddibaid yn yr agwedd, yn ychwanegu y gwendid, ac yn ei barhau. Mae 'n hawdd deall, fod i'r enaid ryw aros mewn ymchwil uwchben gweithrediadau ei alluoedd ei hun, yn tueddu yn rymus er diffodd y gweithrediadau hyny. Mae

llawer fel hyn, drwy bryderu ynghylch eu crefydd, yn nychu eu crefydd.

Yn awr, oni byddai well i'r rhai hyn hefyd anghofio eu hunain mewn rhan ac ymroddi i wneuthur rhyw ddaioni, a gosod eu bryd ar hyny? Mae 'n ddiau y byddai. Bydded iddynt ymddiried eu bywyd tragwyddol yn serchog a hyderus, i drugaredd ac addewid Duw yn Nghrist Iesu; ac ymroddi o lwyrsfryd calon, i wneuthur cymaint fyth ag a allant dros Grist ar y ddaear.

Yr un fath a chymydog arall i mi—ran hyny mae degau o honynyt yn gyffelyb; ac felly tra yn darlunio yr un yr oeddid a llygaid arno byddis yn darlunio llawer. Ni bydd ef yn meddwl cymaint y naill ddiwrnod na'r llall, pa un ai iach, ai heb fod felly a fydd. Gyda y bydd yn cofio yn awr ac eilwaith, mai trugaredd werthfawr iawn yw iechyd, a'i fod yntau yn ei mwynhau i raddau da iawn, a bendithiau Dduw am hyny, canys y mae yn ddyn crefyddol. Ond nid yw efe yn pryeru yn ddiddiwedd ynghylch ei iechyd, yr un fath a'r dyn arall, na thebyg. Ond cyfyd o'i wely, a hyny yn bur foreu yn gyffredin, a gweithiau ystem cyn ei foreufwyd ond odid, a hyny heb feddwl cymaint am iechyd nac afiechyd. Yna at y boreubryd, a bwyty hwnw yn siriol a diolchgar, a chydag awch hefyd; er, hwyrach na bydd ond potes digon teneu, neu rual digon llwyd. A'r bara, ni bydd yr un tipyn gwynach na thraed yr hen fwrrd derw cant oed y bydd yn bwyta oddiaro. Yna, a allan a gweithiau yn ddifyr a dyfal am oriau; a bydd caniad y corn ya galw at y pryd nesaf yn hyfrydlais iddo. Ac er na bydd defnydd y pryd hwnw ond digon cyffredin fel o'r blaen, eto bwyty yn iachus, ac a allan i'w orchwyl hyd yr hwyr. Fel hyn mae'n gweithio ddiwrnod ar ol diwrnod, ac yn wlyb at ei groen drwy y dydd lawer diwrnod, yn nghorff y flwyddyn; oad eto yn parhau yn hynod o iach. Mae wedi treulio llawer o flyneddau fel hyn, ac felly yn ddefnyddiol iawn iddo ei hun ac eraill hefyd. Ac nis clywir mohono ef byth yn rhyw gadw twrw ynghylch ei iechyd, ac ni bydd un amser yn bryderus; canys mae ef trwy arfer byw yn y dull y mae 'n byw, yn iach, ac yn teimlo ei fod felly, ac am hyny mae ei fryd am weithio yn barhaus.

Yn awr, oni byddai yn ddymunol iawn i'r crefyddwyr a soniwyd amcanu bod yn debyg i'r dyn olaf hwn, yn lle y cyntaf? Dilys y byddai. Gan hyny yn gyntaf oll, bydded iddynt feddwl ymaborthi yn iachus ar yr ymborth mae'r efengyl yn ddangos iddynt. Mae ar fwrrd yr efengyl fara wedi dyfod o'r nef; ie, mae arno wledd o basgedigion, gwledd o loew-win; o basgedigion breision, a gloew-win puredig. Ymofynent hwythau am wneuthur pryd iachus a heliath, bwyta ac ymaddigoni, o'r wledd ddanteithiel hon. Neu, a dywedyd heb un ddam meg, bydded iddynt ymarfer ffydd ar Aberth mawr Calfaria fryn, nes teimlo trwy eu holl enaid ei bod yn dragwyddol heddwch rhngddynt a Duw, neu rhwng Duw & hwynt. A bryd bynag y teimlant yn newyneg drachefn, neu y teimlant eisiau prawf fod Duw mewn hedd a hwynt; gwnant yr un peth ag o'r bren, ymborthi ar y wledd, ymarfer ffydd ar yr un aberth. A

bydd croesaw iddynt fyned trwy yr un cylchweithrediad, ganwaith a milwaith os mynant, ie bydd croesaw iddynt wrth yr un bwrdd, saith ddengmil a thriugain o weithiau a mwy. A'r effaith o ymborthi fel hyn, fel y gŵyr pâwb ag sydd wedi meddwl ond ychydig am gyfaddasrwydd trefn gras, ar gyfer ansawdd y galon ddynol, a fydd, bod i'r dyn garu yn fawr y Crist bendigedig a fu farw yn aberth yn ei deddfie, a charu yn fawr hefyd yn Nghrist, y Duwhwnw o'i radlawn drugaredd a ymheddychodd âg ef. Ac yn ngwres a grym y cariad hwn, bydd yn siwr o deimlo arno awydd mawr, am wneuthur a allo dros Dduw a thros Grist, mewn ffordd o fynegu ei ddiolchgarwch am yr ymwared a nhraethol a gafodd.

Yn awr, os cymer y gwirthddrychau dan sylw gynghor gan hén Wr fel myfi, dyma fo : bydded iddynt yn ddiodei ymofyn am brawf o'r ymborthi, a'r effaith berthynel iddo, sef caru, a soniwyd uchod. Ac hefyd eddar y cariad hwnnw, bydded iddynt ymroddi i weithio dros Grist ; ac ymroddi o galon, a gweithio a'u holl egni, ymhyfrydn mewn gweithie, a gweithio trwy bob tywydd, a dal ati hi i weithio ; le gweithio a gweithio, a chwedi hynny gweithio ; a pheidio meddwl rhoddi i fynu weithio, ond yr un ffordd a rhoddi i fynu yr ysbryd. Trwy wneuthur fel hyn, teimlant yn iachus iawn mewn ystyr ysbrydol yn fuan yn ddiammhau ; a chyn hir hwy a anghofiant y gwrandaw *pulse*, a'r edrych tafod, a'r clwciau didor, mewn ystyr grefyddol ; canys byddant yn rhy brysur gyda rhyw waith yn barhaus : hefyd teimlant ynddynt eu hunain eu bod yn iach, oblegid byddant am weithio. Hefyd, bydd eu gwaith oddiallan yn profi eu bod yn iach. Eu gwaith yn dilladu y noeth a phorthi y newynog, yn dysgu yr anwybodus a rhybuddio yr afreolus, a'u hymidrech a'u costau mewn amryw ffyrdd i gynnal gair y bywyd ; a'u llafur yn mhob modd am gael eneidiau at Waredwr—a brofa i bawb, i'r byd, i'r eglwys, i angelion, ac iddynt hwythau eu hunain, eu bod yn wirioneddol iachus.

Bydd raid iddynt goelio erbyn hyn eu bod yn iach ; neu mewn geiriau eraill, eu bod yn wir grefyddol ; canys dyma ganddynt ymwybodolrwydd oddifewn, a phrawf oddiallan hefyd, eu bod felly. Maent yn teimlo cariad at Grist, a dacw y ffrwyth oddiallan yn dangos yr unrhyw. Ac fel y sylwir yn fynych am senedd Brydain y blyneddau hyn, ei bod mor lygredig, fel nad oes le i ddysgwyl iddi hi, o honi ei hun, gynnrychu nemawr o fesurau o ddiwygiad mawr ; oddigerth cael ei gorfodi i hyny gan nerth oddiallan, sef llais a chyffro y cyffredin. Felly os bydd yr enaid a chymaint o naws anghrediniaeth ynddo, ac wedi ymarfer cymaint a'r cwyno, yr ymwrandoaw a'r pryderu, fel na fyn ef ildio i brawf yr ymwybodolrwydd oddifewn ; er hyny os bydd y dyn yn weithgar fel y soniwyd, pwysa y prawf oddiallan arno, oddiwrth weithredoedd da, llafur cariad, a ffrwythau cyflawnder, fel y gosodir math o orfod hyfryd ar yr enaid i goledd hyder a gebaith cryf am fywyd tragicwiddol. Bydd raid coelio ei fod yn iach. Wel, gan mai fel hyn mae pethau yn bod, anwyl gyfeillion—gweithiwn.

Hen Wr Mynyddig.

Glanweithdra.

DYEWYDDODD i ni'yn ddiweddar gyfarfod â'r hanesyn canlynol :—

Pan oedd Lewis Dew yn Frenin Ffrainc, dewisodd gael ei fab Philip i eistedd *gydag* ef ar yr orsedd, a choronwyd ef gyda rhwysg mawr yn Rheins. Yn fuan wedi hyn, fel yr oedd y brenin ieuanc yn marchogaeth trwy St. Gervais, dyma hwch dew yn rhedeg rhwng traed y ceffyl. Sylthiodd y ceffyl, a derbyniodd Philip y fath niwed oddiwrth y tro fel y bu farw bore dranoeth, y trydydd dydd o Hydref, 1131. Ei dad a gythrudwyd i'r fath raddau fel y cyhoeddodd ddeddf yn gorchymyn yn gaeth na fyddai i un mochyn byth mwy gael caniatâd i redeg oddiamgylch yn yr hêol-ydd mewn un ddinas na thref trwy y deyrnas.

Parodd hyn gynhwrf rhyfeddol yn mysg y mynachod oedd yn perthyn i St. Anthony. Gwrthdystiasant yn egniol, a dywedasant wrth y brenin fod eu moch hwy yn gysegredig i St. Anthony; ac y byddai y sant yn sier o ddigio yn aruthr os amddfifadid y moch o'u rhyddid. Cadwyd cynnadledd gan y brenin a'i gynghorwyr ar yr achos; a chymerwyd iawnderau y sant a'r moch i ystyriaeth ddifrifol. Y diwedd fu, iddynt benderfynu fod y moch i gael mwynhau perffaith ryddid fel o'r blaen, ar yr ammod fod iddynt gario clychau wrth eu gyddfau.

Wrth ddarllen yr hanes hwn yr oedd dau neu dri o ofyniadau yn ymgynnyg i'n meddyliau.

1. Ai ofn digio St. Anthony yw yr achos fod y moch yn mwynhau cymaint o ryddid yn Nghymru, er fod y bobl yn dyoddef llawer o anghyfleusdra ac afiechyd trwy hyn? Neu ynte, ai gweddillion yw hyn o'r hen grefydd Dderwyddol?

2. Ai cariad at ryddid crefyddol sydd yn peri fod boneddigion Cymru mor ofalus i beidio ymyryd â'r moch?

3. Os rhaid i'r creaduriaid bndron hyn gael rhodio fel y mynont ar hyd yr hêolydd, ac o flaen ein drysau, onid gwell fyddai rhwymo cloch wrth wddf pob un, fel y gwnaed gan ddysgyblion St. Anthony yn Ffrainc?

Tarddiad yr enw Cristionogion.

“A bod galw y dysgyblion yn Gristionogion yn gyntaf yn Antiochia:” *Actau xi. 26.* Mae llawer o ddadleuon wedi bod mewn perthynas i ddeilliad yr enw hwn. Gellir olrhain y gwahanol farnau i'r pedwar canlynol :—

1. Fod y dysgyblion wedi ei dderbyn trwy gyfarwyddyd neu appwyntiad dwyfol. Mae llawer o ysgrifenwyr wedi dadieu dros hyn. Ond nid oes un awgrymiad na chyfeiriad yn yr hanes, nad ychwaith yn epistolau yr apostolion, mai felly y derbynwyd ef. Ac o'r braidd y gallwn weled yr anghenrheidrwydd am ddylanwad dwyfol. A phe buasai yr enw o Dduw, oni buasai y dysgyblion yn ymfrostio yn y fath gyfenwad, ac yn galw eu gilydd arno fel yr

anhydedd mwyaf a allasant gael. Eto nid yw y cyfenwad i'w gael ond dwywaith yn y Testament Newydd, heblaw yn yr adnod yn nechmeu yr ysgrifen hon. Nid yw Paul yn ei ddefnyddio unwaith er ei fod yn Antioch pan roddwyd ef gyntaf. Mae rhai wedi meddwl fod y gair Groeg a gyfieithir "a bod galw," yn gosod allan, galw trwy ddylanwad dwyfol. Ystyr gyntaf y gair dan sylw, sef $\chiρηματίζω$, ydyw cyflawni gorchwyl. Yn nesaf, arwydda gyflawni gorchwyl neu ennill enw trwy hyny, ac oddiwrth hyn y daeth i arwyddo, enwi neu alw. Yn ei gymhwysiad at freninoedd neu personau mewn awdurdod, prif orchwyl pa rai ydyw gwrandio cwynion, derbyn deisebau, ac ysgafnhâu beichiau, arwydda roddi ateb cyhoeddus. Pan ddefnyddir ef yn eigaifyddiad â Duw, arwydda amlygiadau awdurdodedig neu oraclaidd o'i ewyllys; ond pan gyfarfyddir Ag ef yn yr ystyr hwn, defnyddir geiriau eraill i benderfynu ei arwyddocâd, megys yn *Luc* ii. 26, mae y geiriau "gan yr Ysbryd Glan" yn dilyn y gair dan sylw, a gyfieithir yno "hysbysu," er mwyn dangos pwy oedd yr hysbyswr. Mae esiampl debyg yn *Actau* x. 22, "gan angel sanctaidd," i ddangos pwy oedd y rhybuddiwr. A phan na ddefnyddir geiriau eraill ar ol y gair $\chiρηματίζω$, mae y cyd-destynau yn penderfynu yr ystyr, megys yn *Heb.* viii. 5; yr xi; a'r xii. 25. Ac hefyd yn *Math.* ii. 12, lle mae y geiriau "trwy freuddwyd" yn arwyddo dylanwad dwyfol. Ond nid oes un awgrymiad yn yr amgylchiadau nac yn y geiriad, mai trwy appwyntiad dwyfol y galwyd y dysgyblion yn Gristionogion.

2. Barn arall ydyw, fod y dysgyblion wedi rhoddi yr enw arnynt eu hunain. Ond mae y dybiaeth hon yn grees i'w harfer gyffredin. Arferent alw eu hunain yn gredinwyr, saint, brodyr, a dysgyblion.

3. Bernir gan rai mai yr Iuddewon a roes yr enw hwn arnynt. Ond nid yw yn debyg y buasai yr Iuddewon yn eu cyfenwi felly. Ni addefent hwy fod Iesu yn Grist neu yn Fessiah, yr hyn a arwydda yr un peth; ac o ganlyniad, nid tebygol y buasent yn galw ei ganlynwyr yn Gristionogion, neu ganlynwyr y Messiah. Buasai hyn ym addefriad o ddwyfol anfoniad Iesu o Nazareth, yr hyn oedd y pwyt mewn dadl rhngddynt a'r Cristionogion. Heblaw hyn, hoff enwau yr Inddewon arnynt oedd y rhai mwyaf dirmygus—Nazareaid neu Galileaid.

4. Y dyb olaf ydyw, fod yr enw wedi ei roddi iddynt gan drigolion Antioch. Ni allasai y paganiad hyn ddéall ystyr yr enwau a roddai y dysgyblion ar eu gilydd—credinwyr, saint, a brodyr; ac oddiwrth yr hanes yn gyffredinol mae yn amlwg nad oedd y cenedl-oedd mor elyniaethus, ac felly nad oedd ynt yn debyg o ddefnyddio yr enwad oedd gan yr Iuddewon i ddangos y radd fwyaf o ddirmyg. Yr oedd yn naturiol i drigolion Antioch roddi rhwyw enw arnynt. A pha enw mor naturiol ag enw sylfaenwr eu crefydd—yr enw oedd mor fynych yn eu hymddyddanion a'u pregethau. Arferai y paganiad alw sectau athronyddol a gwladol, ar ol enw eu sylfaenwyr; ac felly, nid annhebygol y galwent y dysgyblion ar ol enw yr hwn y profiesent y fath ymlyniad wrtho. Nid yw yn ymddangos yn aici, os yn debygol, fod yr enw wedi ei roddi o wawd, fel y tybia

rhai awdwyr enwog. Nid yw yn debygol ychwaith, mai o wawd y defnyddiwyd yr enw Cristion o flaen Paul gan Agrippa, ond mewn ystyry gyffredinol am enw plaid. Ond pa un ari o wawd a'i paidio y rhoddwyd yr enw arnynt, ymddengys fod y Cristionogion yn fuan yn ymorfoleddu ynddo, gan ei alw yn anrhydeddus ac yn ogoneddus.

"Maddeuwyd ei haml bechodau hi."

Mae Duw yn medru maddeu i un aml ei bechodau.—Mae pawb o honom felly. A wyddost ti faint a bechaist heddyw? Na wyddost. Pe buasai raid i ti ddywedyd pa faint a bechaist heddyw, mewn trefn i gael maddeuant, ni fuasai gobaith am faddeuant byth. Ond pa faint a bechaist ar hyd dy holl fywyd? O! mae'r awm yn ddirfawr iawn! Aml ein pechodau ydym ni. Mae pob un a argyhoeddir yn gweled hyny. Dyna oedd iaith Saul o Tarsis wedi iddo agor ei lygaid, "O ba rai," sef o'r pechaduriaid, "y penaf ydwyf fi." Wel, mae'n debyg ei fod ef, medd rhywun, yn bechadur anfath iawn? Oedd, yr oedd yn bechadur mawr mae'n wir, ond nid mwy na thithau, ac nid cymaint ychwaith. Yr oedd efe yn ddyn moesol o'i ieuenciad. Wedi ei ddwyn i fyny a'i ddysgu yn dda, ac yn hoffwr dysgeidiaeth—yn efrydwr o'i febyd. Yn un ymroddgar gyda chrefydd hefyd, er yn ieuanc, ac yn un o'r enwad goreu oedd yn mysg yr Iudewon ar y pryd: "yn ol y ddeddf yn Phariséad." Yr oedd yn gwasanaethu Duw a chydwybod bur o'i rieni. Ni byddai efe byth yn gwneyd dim croes i'w gydwybod. Mae'n anhawdd cyfarfod a'r un dyn ieuanc o'i fath ef, na'i debyg ychwaith. Mae'n wir ddarfod iddo erlid yr eglwys; ond gwnaeth hyny a chydwybod bur. Yr oedd yn meddwl ar y pryd mai dyna dylasai wneyd, ac nad oedd dim rheitiach i'w wneyd. Pwy o honom ni sydd wedi byw fel hyn? Nid oes un. Rhaid i bawb o honom ildio i Saul o Tarsus—yr oedd yn llawer llai pechadur na'r un o honom. Ond pan yr agorwyd ei lygaid ef, dyna oedd ei farn am dano ei hun, "O ba rai y penaf ydwyf fi." Mae pob un a argyhoeddir yn siwr o'i weled ei hun yr un fath—y penaf o bechaduriaid. Yn wir, meddai rhywun, fe fyddai yn dda iawn genyf wybod pa un a ydwyf yn argyhoeddedig, neu beidio? Wel, fy nghyfaill, pwy yw y pechadur mawr, ie, y pechadur mwyaf yn yr ardal hon? Ateb. Yn wir, nis gwn heb ystyried tipyn. Mae yma amryw o rai drwg iawn. Wel, mae hyna yn ddigon. Gwelwn nad wyt wedi dy argyhoeddi. Pe felly, buasit yn dyfod o hyd i'r pechadur mwyaf yn dy grys di dy hunan, a than dy groen dy hunan hefyd.

Ond, mae Duw yn međru maddeu i un aml ei bechodau. Oni buasai fod hyn yn bod nis gallasai neb o honom ni obeithio am faddeuant. Mae trugaredd fawr yn Nuw. Mae ei drugaredd fel ef ei hunan—yn anfesurol; heb na hyd na lled, nac iechder na dyfnder i gael arni byth. O! mae hyn yn hyfryd i feddwl am dano. Os cei di dy achub, fy nghyfaill, cei dy achub gan drugaredd

mor fawr ag nas gellir dyfod i ben i dragwyddoldeb a gwybod ei maint. Bydd y bechgyn yn awyddus iawn, fel y gwyddis, am ddyfod gymaint a'u tad. Tybis y bachgen na byddai arno eisieu dim pe byddai gymaint a'i dad. A chyn hir fe ddaw y bachgen felly. Ac yr oedd yn gweled maintioli ei dad yn barhaus, cyn iddo ef ei hunan gyrhaedd hyny. Os bydd i ti fod yn gadwedig, bydd it gael dy gadw gan drugaredd, nas gelli ddyfod i ben i dragwyddoldeb & *gwybod* ei maint. Cei chwilio i'w hansawdd a'i maint am byth; a bydd hyny yn hyfrydwch neillduel hetyd, ond byth, byth ni chei wybod ei maint. Yr hell ganlyniad i'r chwilio fydd, dyfod i weled yn fwy amlwg ei bod yn fwy nag y byddis wedi meddwl o'r blaen ei bod; ac hefyd, ddyfod i weled yn fwyfwy amlwg nas gellir dyfod i ben a'i hamgyffred yn llawn i dragwyddoldeb. Trwy fod yn Nuw drugaredd fawr, mae yn medru maddeu i un aml ei bechoda. Hefyd, mae iawn mawr wedie i wneyd. Iawn ag y mae 'n bechod mawr ceisio ei fesur. Iawn nad yw efe i'w gymharu & dim ond & Duwdod. Arglwydd fu farw ar y grees. Priod waed Duw a dywalltwyd yno. Mae yn iawn mor fawr fel y gall Duw faddeu drwyddo i'r amlaf ei bechoda, a phawb ya cael ei ofyn i'r manylwyrdd mwyaf.

Hefyd, mae genym liaws o dystiolaethau amlwg yn y Bibl ar hyn; ond yn enwedig y mae ein Harglwydd yn ei ddangos yn rymus a phwysaig iawn, yn un o'i ddammegion, (*Math. xviii. 23*). Darluniai frenin yn mynu cyfrif gan ei weision; a dygwyd ato un ag oedd yn ei ddyled ef o ddeng mil o dalentau. Ac ar waith y gwas yn ymostwng ac yn crefu, mae y brenin yn maddeu iddo y deng mil talentau. Ac mewn cwr arall i'r ddammeg, dywedir, "Yr holl ddyled hono." Mae y brenin yn y ddammeg hon, yn arddangos Duw; a'r gweision, nyni bechaduriaid, ag y mae 'n rhaid i ni wrth faddeuant gan Dduw. Yn awr, yr oedd dyled y gwas yma yn fawr anferthol—"deng mil o dalentau." Ac os cymerwn hwynt yn dalentau aur, fel y mae yn fwyaf naturiol gwneyd, yna mae y swm yn daifawr iawn. Mae un dalent aur yn 5,475 o bunnau; gan hyny, mae deng mil o honynyt yn swm mawr iawn. Mae yn 54,750,000 o bunnau. Tua chymaint ag ydyw cyllid Brydain am flwyddyn gyfan. Ond, fe allai, y caem ni well meddylddrych am ei maint pe meddyliam am dani mewn pwysau. Yr oedd yn dri chant a phedwar ugain ag un o dunelli, a naw cant a throsodd, gyda hyny. Yr oedd yn hyn, a rhoddi pedair punt i wneyd owns, ac un owns-ar-bymtheg i wneyd pwys. Gwelwch y gallasech lwytho llawer o wageni & dyled y dyn hwn. Gallesid llwytho cant a saith ar hugain, a rhoddi tair tunell ar bob un. O! chwi fussoch yn synu gweled dyled hwa yn myned heibio ar wageni. Gweled un ar ei un yn myned, nes i chwi gyfrif cant a saith ar hugain o honynyt, a thaïr tunell o *sovereigns* ar bob un. Rhyfedd fuasai y twrw a'r siarad. Buasai'r son am hyn yn treiglo o genedlaeth i genedlaeth. Wel, paham yr oedd Iesu Crist yn defnyddio'r fath swm mawr yn y ddammeg, medd rhywun? Wel, paham hefyd? Oedd ganddo fe ryw amcan, medd rhywun? A glywaist

ti iddo ddyweyd rhywbeth heb amcan? Na ddo erioed, fy nghyf-aill. A dyna oedd ei amcan yn hyn, mae 'n ddiammheu, dangos fod gyda Duw faddeuant i un aml ei bechodaau. Bendigedig fyddo Duw am hyny; a bendigedig fyddo Iesu Grist am ddangos hyny mor amlwg.

Hefyd, dywed yr ysgrythyr, "Gadawed y drygionus ei ffodd a'r gwâr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth." Neu, fel y mae 'r Dr. Owen yn cyfieithu, "Efe a faddeu lawer gwaith." Nid yn unig mae 'n medru maddeu i'r aml ei bechodaau, ond y mae hefyd yn medru maddeu lawer gwaith. Diolch am hyny. Er nesu at Dduw a chael maddeuant, eto yr ydym ni wedi hyny yn pechu. Nesu ato drachefn, a derbyn maddeuant, a gwneyd addunedau dau cryfach nag o'r blaen: ond wedi hyny—pechu. Ond ymae Efe yn medru "maddeu lawer gwaith."

Maddeuwyd i bechaduriaid mawrion iawn, a hyny yn nghychwyn yr oruchwyliaeth efengylaidd. Mair Magdalen, y lleidr ar y groes, y pechaduriaid mawrion yn Jerusalem ac yn Corinth. A rhoddwyd hanes am danynt yn y Testament Newydd. Yr un fath ag y byddis gyda 'r *patient medicines* yma. Y cyfferiau ag y bydd hysbysiad am danynt yn y papyrau. Bydd yn canlyn yr hysbysiad, yn gyffredin, hanes am rywrai ag oedd ynt yn sal iawn, ond wedi eu gwellhau ganddynt. Ni ddywedir hyn i'r dyben i'ch cymhell chwi i roddi cred yn y papyrau hyny; na, gwnewch fel y mynoch & hwynyt, yn unig peidiwch a lladd eich hunain gyda hwynyt. Yr un fath am y drefn o gadw trwy Iesu Grist. Mae 'n canlyn yr hysbysiad am hono, hanes am bechaduriaid mawrion iawn a gawsant eu cadw ynddi. Mae Duw am i ni ddéall ei fod yn medru maddeu i'r amlaf ei feiau.

Mae Duw wedi cartrefu yn y Cyfryngwr yn fwriadol i faddeu, "Sef bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun." Dywedir fod Duw yn symud o'i fangre, pan yn myned i gosbi. Ond y mae wedi gwneyd ei gartref, yn y fan lle mae 'n maddeu. Mae yn meddwl am faddeu llawer iawn. Wel, yn

1. Diolchwn fod maddeuant i'r pechadur mawr; a diolchwn fod hyn wedi ei amlygú mor eglur. O dan argyhoeddiad, mae pob dyn yn ei weled ei hun yn bechadur mawr, a'r penaf; ac felly oni bu-asai fod hyn wedi ei amlygú yn bur amlwg, nis gallasai y pechadur argyhoeddedig nesu at Dduw am faddeuant.

2. Ceisiwn faddeuant. Maddeuant mawr, neu gosbedigaeth fawr, a raid fod dy ran di a minnau. Yr wyt yn bechadur mawr. Mae dy ddyled yn fawr; ac heb ddim i dalu. Wel, gan hyny, maddeuant neu garchar a raid fod. Maddeuant trwy waed, neu gosbedigaeth trwy dàn. O! bechadur, mae dy gyflwr wedi myned y fath, cofia, fel y mae 'n rhaid cael gwaed neu dàn ato. Maddeuant gan hyny fyddo ein llef. Cais faddeuant. Nid aeth neb erioed i uffern a fu o ddifrif yn gweddio am faddeuant. Yr wyt yn sicr o lwyddo ond ei geisio. Ond o'r ochr arall, ni chei di mo hono heb ei geisio.

Awsafiaeth.

Y MAE rhai o'n darllenwyr yn Bangor wedi anfon atom i ofyn eglur-hd ar y dull y bwriedir sy'nud y bont newydd i'w lle ar afon Menai. Mewn cydsyniad a'u cais, cawn ddangos yr egwyddorion hyn y mewn Awsafiaeth (*hydrostatics*), y rhai y gellir eu cymhwys o at yr amgylchiad hwnw, ac amgylchiadau cyffelyb.

Un egwyddor ydyw, fod pob peth nofiadwy yn cymeryd yr un faint o le yn y dwfr a'i bwysau ei hunan o'r dwfr. Beth bynag fyddo y corff a roddir i nofio, edrycher pa faint o ddwfr sydd yn ofynol i'w gydbwys, ac yna gellir casglu fod yn rhaid iddo gael lle cymaint a hyn y ddwfr; neu mewn geiriau eraill cymaint a hyn y o'r corff nofiadwy fydd yn y dwfr. Y mae hyn yn tarddu oddiwrth natur pob gwlybwr, yn yr hwn y mae yr holl ronynau yn effeithio ar eu gilydd, fel y pwysau mewn clorian; ac o ganlyniad, y mae pob peth a roddir i orphwys ar wlybwr yn suddo i lawr nes symud ei bwysau ei hun o'r gwlybwr, ac yna yn ymlonyddu.

Meddylier fod pren yn nofio ar ddwfr, a bod y dwfr yn yr agwedd yma yn rhewi drwyddo. Os cymerir y pren allan o'r rhew, bydd yno wagle ar ei ol. Yn awr, byddai cymaint o ddwfr ag a lanwai y gwagle hwn yn pwysa yn union yr un faint a holl gorff y pren.

Y mae yn eglur mai po drymaf fyddo y dwfr, lleiaf i gyd sydd yn anghenrheidiol i gydbwys a'r corff nofiadwy. Fel hyn y mae llonau yn cymeryd llai o ddwfr yn y môr nag mewn dwfr croyw, am fod dwfr y môr yn drymach. Pe llwythid llong a chymaint a allai gario ar y môr, byddai yn rhwym o suddo wrth fyned i fewn i'r Thames, neu i ryw afon arall.

Oddiwrth yr egwyddor hon y mae yn canlyn y gellir llwytho llong neu ryw lestr arall i'r graddau a fynom, tra na fyddo pwysau y llestr a'r llwyth yn fwy na phwysau cymaint o ddwfr ag a fyddo yr un faint a'r rhan hono o'r llestr a ellir ei suddo dan y dwfr yn ddiberygl. Meddyliem mai trwy gymhorth rhyw lestri mawrion fel hyn yn benaf y bwriedir symud pont Menai i'w lle.

Y mae gallu arall yn cael ei arfer, yr hwn y gellir ei alw mewn modd arbenig *y gallu awsafol*. Meddyliwch fod genych lestr mawr cauedig yn llawn o ddwfr; a meddyliwch hefyd fod pibell hirfain yn cario dwfr i'r llestr. Y mae holl bwysau y dwfr yn y bibell hon, beth bynag fyddo yr uchder, ac yn gyfatebol i'r uchder, yn effeithio ar bob gronyn o ddwfr yn y llestr. Dyma allu nad oes dim terfyn iddo, tra y dalio y defnyddiau wrth eu gilydd. Yn y ffordd hon y mae dwfr yn fynych, mewn agen fechan, os bydd yn rhedeg o le uchel yn dryllio creigiau, ac yn chwalu mynyddoedd. Os rhoddir cauad y llestr crybwylledig i symud i fynu ac i lawr, heb ollwng y dwfr allan, as os arferir *piston* i wasgu y dwfr yn y bibell sydd yn dwyn cysylltiad ag ef, gellir hebgor yr uchder, a bydd genym beiriant cyfieus at unrhyw ddyben a fyddo yn gofyn nerth peiriannyddol.

Gelwir y gallu hwn weithiau "y begin awsafol." A gellir gwneyd prawf o hono, *trwy genad gwraig y ty*, gyda'r begin gyff-

redin ; oblegid y mae dwfr ac awyr yn yr ystyr yma yn gyffalyb. Os dygwydd fod genych fegin gref a chyfan yn eich bwthyn, pentyrwch arni y nifer a fynoch o lyfrau, ac yna chwythwch yn egniol trwy ei thrwyn, a chewch wybod yn fuan y medrwh, pe byddai genych beiriant digon nerthol, symud mynydd trwy anadlu.

Y mae hyn oll yn tarddu oddiwrth yr un briodoledd mewn dwfr ac awyr, sef y duedd sydd yn mhob gronyn i effeithio ar y cwbl. Pe llenwid chwysigen & dwfr, a phe gosodech ben eich bys i bwys o ar ryw ran o honi, fe effeithia y pwysau hyny ar yr holl ddwfr, ac fe dyr y chwysigen yn y lle gwnaaf, pa un a fydd y lle hwnnw yn uniongyrchol o dan eich bys ai peidio. Neu, meddylwch fod genych botel yn troi ac yn ymledu yn y gwaelod yr un llun a'r llythren L, os llenwir hi a dwfr, ac os pwysir ar y ddyfr yn yr ochr, y mae yn amlwg y bydd y pwysau hyny yn effeithio yn gyfartal ar yr holl ddyfr yn y gwaelod. Pe gwneid y llythren L yn ddigon mawr, a phe cysylltid y gwaelod & rhyw beiriant a fyddo yn codi i fynu fel megin, byddai y pwysau yn y llythren L yn cael ei drosglwyddo o anghenrheirwydd i'r holl ddyfr yn y fegin.

Dyma egwyddor y peiriant hwnnw a elwir yr *Hydrostatic Press*. Defnyddir ef i argraffu llyfrau, ac hefyd yn y llaw-weithfaoedd i wasgu nwyddau i mor lleied o le ag y byddo dichonadwy.

Y Dyn Dedwydd.

Y DYN dedwydd a anwyd yn ninas Ailenedigaeth, yn mhlwyf Edifeirwch i Fwyd ; ac a ddysgwyd yn ysgol Ufudd-dod ; ac mae 'n awr yn byw yn ngwastadedd Dyfal-barhâd.

Mae 'n gweithio 'r gelfyddyd o ddiwydrwydd, er fod ganddo etifeddiaeth helaeth yn nhalaeth Boddlondeb Cristionogol ; a llawer gwaith mae 'n gwneuthur tasgau o hunan-ymwadiad.

Mae 'n gwisgo gwisg lled fras o ostyngeiddrwydd ; ond mae ganddo well gwisg (*suit*) i'w rhoddi am dano pan y bydd yn myned i'r lllys, ac a elwir Mantell Cyflawnader Crist.

Mae 'n fynych yn cerdded dyffryn Hunan-ymddarostyngiad, ac weithiau mae 'n dringo 'r mynydd o Syniad Ysbrydol.

Mae 'n ymborthi bob boreu ar weddi ysbrydol ; ac yn swpera bob nos ar yr un. Mae ganddo fwyd i'w fwyta, yr hwn ni wyr y byd am dano, a'i ddiod yw didwyll laeth y gair.

Fel hyn, mae 'n ddedwydd wrth fyw, ac yn ddedwydd pan yn marw.

Dedwydd yw yr hwn sydd yn meddu ymostyngiad efengylaidd yn ei ewyllys, trefn dda yn ei serchiadau, heddwch holol yn ei gydwybod, gras sancteiddiol yn ei enaid, duwinyddiaeth wirioneddol yn ei ddwyfron, gostyngeiddrwydd cywir yn ei galon, iau y Gwareddwr ar ei wddf, y byd drwg dan ei draed, a choron gogoniant ar ei ben. Dedwydd yw bywyd y fath ddyn.

Mewn trefn i gyrhaedd y rhai hyn, gweidiwch yn daer, credwch yn ddiyagog, dysgwylwch yn amyneddgar, gweithiwr yn ddiball,

bucheddwch yn sanctaidd, byddwch feirw yn ddyddiol, gwyliwrh eich calonau, eedwch eich meddyliau, prynwch eich hamser, cerwch Grist—ac yna gogoniant tragwyddol.

Dinorwic.

Cyf. THETA NIOLAN.

“Ffrwyth yn amlhau.”

[DERBYNLASOM yr hanes canlynol o “dröedigaeth Hugh Owen” eddiwrth un o’r brodyr sydd yn llafurio ar faes y Genadaeth Gartrefol, perthynol i’r Deheu; ac y mae yn llawenydd genym ei gyhoeddi yn y “Geiniogwerth,” er annogaeth i’n cyfeillion i barhau yn eu cyfraniadau at achos ag y mae arwyddion fod yr Arglwydd yn ei lwyddo, ac yn eu gweddiau tros eu hanwyl frodryr, y Cenadon cartrefol, sydd wedi eu halltudio o gymdeithas eu brodyr yn Nghymru, i dreulio ac ymdreulio yn mysg trigolion paganaidd Goror Clawdd Offa.]

GWEITHDDEYRCH yr hanesyn canlynol oedd un o’r enw Hugh Owen, yr hwn a anwyd yn sir Faesyfed. Heb ymhelaethu, digon yw dyweyd iddo dreulio ei fywyd o’r bron yn hynod o annuwiol, a’i fod yn ban-campwr yn mysg ei gyfoedion mewn pob rhwysg drygionus, ac yn gadfridog yn y fyddin lygredig sydd yn cynnal i fynu deyrnas y tywyllwch yn y wlad. Beth bynag am hynny, yr oedd gan Dduw ei fwriadau grasol tuag at yr adyn hwn. Yr oedd wedi meddwl i’w godi yntau, fel Saul o Tarsus gynt, yn golofn i’w druganedd “er mawr gogoniant ei ras,” yn oes oesoedd!

Y peth cyntaf a effeithiodd ar feddwl Hugh Owen oedd rhyw dybiaeth ei fod yn myned i farw, ac yr oedd y meddwl o fyned i wyneb ei Farnwr yn anmharod, ac yn elyn iddo, yn fwy nag a allai ei ddal. Yr oedd angeu fel yn frenin y dychryniadau mewn gwirionedd iddo. Bu anystyriaeth pobl y gymydogaeth wrth gladdu eu cyfeillion yn fodion i gryfhau yr argraff ar ei feddwl. Y pethau hyn a grëai y fath ddychryn o’i fewn fel nas gallai aros heb gan-wyll yn y tywyllwch, na chau ei lygaid i gysgu am fisoeedd gan o’m, rhag y byddai iddo gael ei symud i fyd yr ysbrydoedd cyn eu hagor. Yn y cyfwng hwn, yr oedd yn dda ganddo gael rhywun i ymddyddan âg ef, ond mor ddyeithr oedd trigolion yr ardalan mwyaf i’r fath beth a cholledigaeth cyflwr, fel nad oedd neb yn dêall natur ei glwyf, na pha feddyginaeth i’w chymhwys o ato; ac felly tróent allan bawb yn gysurwyr galurus iddo. Tybiai fod yn anghen-rheidiol ymuno â rhyw enwad crefyddol, ac ni wnai ddim mo’r tro ond cael aelodaeth. Ofnai farw heb ei gymun; canys os hyny a fyddai, credai y byddai yn sicr o fyned i uffern. Ond ni thalai cael ei gymun yn rhywle; yr oedd raid iddo gael prawf fod yr enwad, yr ymunai âg ef yn gynnwysedig o ddylion profiadol o bla eu calon. Ei iaith ydoedd, “Mae yn ddrwg iawn oddi fewn, e’r rhai sydd wedi profi yr un peth yw y rhai sydd yn gallu dirnaf pa-

fodd y mae arnaf." Yn ei gyfyngder, beth bynag, aeth at Berson y plwyf yn gyntaf, a dywedodd wrtho am ofid ei feddwl a'i deimladau yn ngwyneb ei gydwbybod euog. Yr ateb a gafodd gan y person ydoedd, "Nad oeddynt hwy, pobl y llan, fel y Methodistiaid, am galon lân : mai buchedd lân oedd arnynt hwy eisieu, ac yna y byddai pob peth yn dda." "Dëallais," meddai Hugh Owen, "na wna i hyny mo'r tro i mi ; yr oedd yn ddychrynllyd o ddrwg oddifewn, ac nid oedd neb a allai farnu pa fodd yr oedd arnaf, ond y bobl hyny a wyddent eu hunain am gydwbybod euog." Gofynwyd iddo, paham nad a'i at y blaid y perthynai ei berthynasau iddi ; ond atebai, "nad oeddynt hwy yn byw yn heddychol a'u gilydd, ac am hyny, nad oedd yn dysgwyl cael ymgeledd yn eu plith—gan ei bod yn ddrwg iawn oddifewn, ac yr oedd raid cael rhywbeth a dawelai yno." Buasai y Methodistiaid yn wrthdrychau neillduol ei gasinéb er's llawer dydd. Yr oeddynt yn rhy fanwl, a'u dysgyblaeth yn rhy lêm—dyna ydoedd ei eiriau, "*I hate to think of joining the people of the little M-s,*" (Mae 'n gâs genyf feddwl ymuno â phobl y M-s bach). Ond ei argyhoeddiad dwys a'i dygai i garu y rhai hyny a fuasai o'r blaen yn eu casâu. Yn ngwyneb parhâd a thrymder ei ofid a'i drallod, nis gallai lai na meddwl am wneyd prawf o bobl y "*little M-s.*" Ond yr oedd raid cael gwybod pa fath un oedd y pregethwr. Wel, i'r dyben e'i brofi, aeth rhyw foreu at ffenestr y tŷ y trigai ynddo, er cael cyffie i'w wrando yn cadw dyledswydd deuluaidd ; a bu hyn yn foddion i wywo ei ragfarn ychydig. Brydnawn y dydd hwnnw, pan oedd y cenadwr yn myned ar hyd yr hêol, canfyddai Hugh Owen yn ymwneyd i'w gyfarfod ; ond gan ei fod yn gwybod i raddau pa fath ddihyryn annuwiol ydoedd H. O. ofnai mai dyfod ato i'w daro yr oedd ; ond ei gwestiwn ef ydoedd, "Ai chwi yw y pregethwr sydd yn perthyn i'r M-s bach ? Ar ol cael cadarnhâd o hyn, gofynai, a gai efe ymddyddan ychydig âg ef ? Yna gwahoddodd y cenadwr ef i'w dŷ. Y boreu dranoeth fe ddaeth. Ac ar ei waith yn ymadael, gofynai, a ganiatâid iddo ddyfod y boreu canlynol erbyn y ddyledswydd deuluaidd. Nid oes eisieu dyweyd iddo gael caniatâd ewillysgar ; ond ni wyddid ddim eto pa beth a ddeuai o hyn, er y tybid mai yr Arglywdd, fe allai, oedd yn gweithio ac yn mynegi ei allu a'i ras yn nhroedig—aeth y drwg-gampwr hwn. Y boreu dranoeth, cyn amser y ddyledswydd, wele Hugh Owen wedi dod, a'i olwg yn dangos yn eglur fod rhyw drallod mawr oddifewn. Darllenwyd y l5ed bennod o *Luc*, a gwnawd rhai sylwadau oddiwrthi. Oddiwrth ei holl agwedd, dêallwyd fod rhywbeth dwys yn gwasgu ar ei feddwl. Mor fuan âg y gallai godi oddiar ei liniau, gofynai, "A gaf fi dd'od yma y boreu yfory eto ?" Hysbyswyd iddo fod cyfarfod yn y capel y noswaith hono ; ac felly ymadawodd ar hyny o bryd. Y noswaith hono fe ddaeth i'r capel, ac yn y cyfarfod, fe ddêalloedd fod yno rai yn perthyn i'r Methodistiaid, a fuasent yn gyfeillion mawr iddo yn ngwasanaeth pechod ; a chan hyny, y boreu dranoeth, galwodd wrth ddrws un o honynt, a dymunodd gael ymddyddan âg ef ychydig o'r neilldu. Wedi cael hyn, y peth cyntaf a ofynai H. Owen

oedd, a oedd ei gyfaill yn meddwl fod modd iddo gael ei achub—“Ai tybed,” meddai eilwaith ac eilwaith yn bryderus, “fod modd i’m bath i gael trugaredd ar ol byw mor annuwiol ac aflu?” Adroddodd yntau iddo hanes Manassech, a sylwedd fod yr Arglwydd yn galw ar ol pechaduriaid, gan adrodd yr adnod hono, “Deuwch yr awr hon ac ymresymwn, medd yr Arglwydd, pe byddai eich pechoda fel ysgarlad, ant cynwyned a’r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan.” Ar ol ryw gymaint o ymddydiannau fel hyn, gofynai H. O. o’r diwedd, a ganiatâd iddo ddyfod i’r eglwys. Ei gyfaill a ddywedodd y ceisiai ganiatâd drosto. “Wel,” meddai, “os gwnewch chwi hyn, mi a arosaf nes y deloch yn ol.” Yn ol y cais, dygodd y cyfaill achos H. O. ymlaen ac a adroddodd y tywydd yr oedd ef ynddo. Pa ateb i’w roddi nis gwyddem yn iawn, canys yr oeddym tuag ato fel y dysgyblion gynt at Saul. Ei fywyd blaenorol a barai fraw arnom rhag ei ollwng yn agos. Ond beth bynag, caniatâd a gafodd, ac i’r cyfarfod eglwysig cyntaf fe ddaeth. Yr oedd ei weled yn dyfod atom, yn perni ni ofni yn ein calon, rhag y byddai ei ddyfodiad yn dwyn gofid i ni ar ol hyn. Galwyd arno i ddweyd ychydig o’i hanes a’i dywydd; a rhyw gyfarfod go ryfedd a gafwyd. Yr oedd arwyddion amlwg fod a wnelai yr Arglwydd âg ef, ac nid oes raid hysbysu, ei fod wedi agor y ffordd i fynwes pawb o’r brodyr, cyn hanner gorphen yr hanes. Adrodd teimladau y brodyr, a fuasent yn cyd-bechu âg ef, ar y pryd, nis gellir: yr oedd eu dagrau yn gwlychu’r llawr. Nis gallwn lai na sylwi ar un peth yn y tro hwn. Yr oedd brawd yn perthyn i’r eglwys a fuasai yn ymladd llawer âg H. O. Er esiampl, un nos Sabbath, er ym blyneddau yn ol, codai ymrafael rhyngddynt, ac felly, yn ol yr arfer, allan & hwy yn nyfnder y tywyllwch i gae cyfagos, i guro eu gilydd. Neidai H. O. dros y perthi a’r clwydi gan mor fawr ei awydd at y gwaith; a’i wrthwynebydd a ganlynai mor gyflwm ag a allai ar ei ol. Yna, wedi cyrhaedd y cae, ymaith &’r dillad hyd y croen, a’i wrthwynebydd hefyd a ymddyosgai mor fuan âg a allai ar ei ol; ond pan ar hanner tynu ei grŵs, a hwnnw tros ei ben ar y pryd, dyma H. O. yn dechreu ei ddyrnodio, nid cymaint oddi-ar ddichell, ond ei awydd i ymladd: ac felly y buont yn curu eu gilydd. Ond diwrnod y cyfarfod eglwysig, wele ’r ddau hen ymladdwr yn cofleidio eu gilydd mewn tangnafedd! Pa beth na wna’r grŵs Duw ond dyfod unwaith at y gwaith o drin calonau plant dynion? “Fe ddichon Duw o’r *meini hyn* godi plant i Abraham!” Yn y cyfarfod eglwysig y noswaith y daeth H. O. i mewn, galwyd ar y brawd a fuasai gynt yn ymladd âg ef, ond oedd yn awr gyda chrefydd er’s amser, i ddyweyd gair wrtho. A dyma ’r ymddyddan:—

“Wel, Huwelyn bach, mae yn dda genyf dy weled di. Yr ydym wedi bod yn pechu llawer gyda ein gilydd.”

“Do, do, Jack bach,” meddai Huwelyn.

“Gobeithio y cawn addoli gyda ein gilydd eto,” ebe Jack.

“Amen byth!” ebe Huwelyn.

“Buom yn cyd-gablu, gobeithio y cawn gyd-weddio eto,” chwanegai Jack.

"Amen," meddai Huwelyn drachefn, ac fel hyn ymlaen.

Gwedi rhoddi annogaethau a chyngorion priodol i'w sefyllfa, a chrybwyl am y profedigaethau newydd fyddai yn debyg o'i gyfarfod ar ol ei ymuniad a chrefydd, cafodd dderbyniad croesawgar i fynwes yr eglwys.

Cyn pen yr wythnos ar ol hyn, wele H. O. ryw ddiwrnod yn dyfod, a'i feddwl yn bur derfysglyd, i dŷ y cenadwr. "Dywedd-och wrthyf," meddai, "am wyllo, gan y byddwn yn debyg o gael profedigaethau oddiwrth elynion crefydd; fe ddaeth un ataf heddyw ar yr hêol, a tharawedd fi, i'r dyben i'm cyffroi i'w daro yn ol; ond cofais esiampl fy Meistr Mawr, 'Yr hwn pan ddifenwyd, nis difenwodd drachefn.'

Un diwrnod, cwrddai âg un o'i hen gyfeillion ar gyfer drws tŷ tafarn. "Hugh Owen," meddai hwnnw wrtho, "tyred i mewn i gael hanner peint o borter." Ond Hugh a geridai heibio gan ddywedwyd, na wnae. Yr hen gyfaill, er hynny, a chwanegai ei daerineb, "Awnei di ddim yfed o'm llaw i?" meddai. Ond nid oedd dim yn tycio. Yr oedd Hugh yn parhau yn gadarn yn ei feddwl o beidio yfed. A chan na lwyddai fel hyn, dyma'r hudwr yn ymaiflyd ynddo i'r dyben o'i llusgo i mewn. "Jack," ebe Hugh wrtho erbyn hyn, "Yr wyt ti yn gryfach na myfi—ti elli fy llusgo i mewn; ond am yfed o'r diodydd meddwol, ni yfaf ddyferyn byth mwy." Fel hyn y trôai oddiwrth y llwybrau gau ar hyd pa rai y buasai yn ymdreiglo yn eu haflendid lawer gwaith o'r blaen. Y fath oedd ei ffieiddiad o'i hen ffyrdd, fel, pan welai ddyn meddw ar yr ystryd yn rhywle, ni feirai edrych arno, ond trôai o'r neilldu i wylo wrth gofio yr agwedd a fuasai arno ei hunan.

Cododd awydd mawr ynddo i wneyd rhywbeth tros achos y Gwareddwr yn y byd. "O!" meddai, "na buaswn wedi dod at grefydd pan oeddwn ugain mlwydd oed, y fath weithiwr a allaswn fod dros Iesu Grist. Gallaswn roddi y nerth a'r ymdrech a reddais i gynnal teyrnas Satan o blaid Iesu Grist a'i achos."

Pan ddaeth at grefydd, ni fedrai ddarllen llythyren, a cholhaesi un llygad yn ngwasanaeth pechod; ac heblaw hynny, yr oedd yn tuyu ar driugain mlwydd oed. Ond er yr holl anfanteision hyn, fe ymraddodd o ddifrif i ddysgu darllen. Ei arfer ydeedd dyfod bob dydd erbyn amser y ddyledswydd deuluaidd i dŷ y cenadwr, a'i lyfr ganddo, i gael gwers: ac fel hyn, cyn pen y deufis, cyrhaedd-asai i allu darllen rhan fawr o'r bennod gyntaf yn *Ioan*, ynghyd a'r drydedd bennod i gyd! Ond beth bynag, ni chafodd Hugh Owen amser maith i wneuthur yr hyn a ddymunai dros ei Iach-gwdwr yn y byd. Efallai y gwnae yr hanesyn hwn o oruchwyliaeth rasol Duw tuag ato, ryw gyfran drosto ar ol ei ymadawiad, ac y caiff efe "wedi marw lefaru eto," wrth ieuencptyd a meddwen Cymru, am rinwedd gwaed y groes yn golchi yr afian yn lân, a thrugaredd faddeuol yr Iesu yn "cipio y pentewyn o'r tân." Cymerodd aifechyd ef yn fuan, a bu raid arno i gadw ei wely. Yma, pan na allai eistedd ei hunan i ddarllen gan wendid, gwnai i'w frodyr ei ddal i fynu, ac yn y modd hyn y darllenai air Duw. Curid ef weithiau,

pan ar ei wely cystudd, yn dost gan y gelyn. Ei fywyd annuwiol a maint ei bechodau, a barai idde ammheu na wnei yr Arglwydd ddim maddeu iddo. Ofnai ei fod yn ormod pechadur i gael trugaredd, &c. Ond golwg ar fawredd aberth y groes a yrai yr ammheuon hyn i ffordd wedi hyny, a chai godiad i'w feddwl. Gwedi iddo fethu a dyfod allan, bu raid iddo gael moddion yn ei dŷ; a byddai y brodyr yn eu cylch yn mynei ato i gadw dyledswydd bob dydd. Y nos Sabbath olaf y bu fyw, aeth amryw o'r cyfeillion i edrych am dano, ond nid oedd yn adnabod nac yn gwneyd sylw o neb oddieithr ei frodyr crefyddol yn unig. Ar ol gweddio gydag ef y noswaith hono, gofynnodd iddynt aros oll, heb fyned allan, nes iddo gael ychydig o hamdden i orphwys. Gwnaed felly. Ac ar ol gor-phwys ychydig, galwai am ganwyll, a cheisiai godi ar ei eistedd yn ei wely, i'r dyben o gael gweled eu gwynebau a'u hadnabod. Gwedi eu galw hwy yn un ac un ato, a cheisio crëfau arnynt, trwy fawr drafferth yn gosod y ganwyll yn fanteisiol iddo eu gweled, o herwydd gwendid ei lygaid, dywedai, "Gyda chwi yr wyf yn gobeithio cael bod byth. Buasai yn ofnadwy arnaf yn y byd hwn pe na buasai yr un gobaith am well cwmni na phobl annuwiol, &c." Afonyddid ef yn aml gan ofnau ei fod yn ormod pechadur, a dywedai, "Ni wyddoch chwi ddim pa fath bechadur ysgelet wyf fi." Ond meddai, dro arall, "Yr wyf wedi cael mwy o bleser yn barod gyda chrefydd nag a gefais yn ngwasanaeth pechad erioed." Gwelai gymaint o golledigaeth ei gyflwr yn fynych, nes y byddai ar lewygu yn yr olwg arno, ac oblegid ei fod yn cael ei gadw i raddau helaeth ar y tir yma, ei gyfeillion crefyddol a weddient lawer ar fod iddo gael y fath olwg ar drefn gras yn ei mawredd a'i go-goniant, nes gallu gorwedd o hono ei enaid colledig arni.

Awst 17eg, 1848, ydodedd y dydd olaf o'i fywyd. Boreu y dydd hwn, aeth un o'r cyfeillion crefyddol ato i'r dyben i ddarllen a gweddio gydag ef. Canfyddai yn yr olwg arno ei fod eisoes yn yr afon, yn ymdrechu yn deg âg angeu. Pan gafodd ychydig hamdden rhwng y llewygfeydd, gwelai ei gyfaill yn sefyll yn ei ymyl, ac estynai ei law ato, gan ofyn yn floesg, "A wnewch chwi gadw dyledswydd gyda mi am y boreu olaf?" Gyda hvn, wele ef yn ngafael llewyg drachefn, a'r chwys oer yn byrllymu i'w wyneb gan yr ymdrech galed. Yn fuan, er hyny, clywid ei lais bloesg yn ceisio tori geiriau, "*O Lord! have mercy upon my soul—have mercy upon my soul!*" (O Arglwydd trugarha wrth fy enaid—trugarha wrth fy enaid.) Daliodd am gryn amser at yr un geiriau; ond o'r diwedd, fe dorodd allan i fendithio yr Arglwydd, "*Blessed be thy name for ever—there is hope for such as I am—for such as I am!*" (Bendigedig fyddo ei enw byth—y mae gobaith i'm bath i—i'm bath i.) Yna rhoddai ei law ar ei fynwes, a dywedai, "*I know there is, because I feel it here,*" (Gwn fed, canys yr wyf yn ei deimlo yma). Wedi hyn safodd afael ar y pennill hwn—

" Guide me, O thou great Jehovah
Pilgrim through this barren land,
I am weak, but thou art mighty,
Hold me with thy powerful hand."

(Arglywydd, arwain trwy'r anialwch, &c.) Teimlai ei hun yn wan rhwng tðnau oerion a chryfien afon angeu; ac yr oedd yn dda ganddo feddwl am un Hollalluog ag oedd yn abl i ei ddal i'r llan—

*"Bread of heaven," meddai,
Feed me now and evermore."*

Dyma ei eiriau olaf. Ymadawodd â'i bwys ar y breichiau trwywyddol, i'w gludo ef adref i ganol y lliaws fry, sydd "â'u gynau wedi eu golchi yn ngwaed yr Oen," a'u càn am Galfari!

Fel hyn y codwyd Hugh Owen yn golofn i ras Duw, i fynegu nad oes neb yn rhy bell i drugaredd ei gyrhaedd, na neb yn rhy ffiaidd i Iesu ei ymgseleddu. Cafodd y cenadwr a'r eglwys dàl digonol am bob llafur gydag ef, wrth ei weled yn marw mewn gobaith. Cyfaddefai pawb â'i hadwaenai, mai yr Arglywydd a wnaeth hyn, a mawr yw yn ein golwg ni.

Y Nefoedd.

Fy nefoedd ar y ddaear ydyw cymundeb â Duw, yna ni all dim arall fod yn nefoedd i mi yn y nefoedd. Nis gallwn byth wybod am un gradd o ddedwyddwch yn y bywyd hwn, hyd oni byddom wedi ein llwyr argyhoeddi fod barn i fod ar ol hyn, a'n bod ni ar y ffordd iddi. Na ato Duw, i mi byth feddwl fy hun gartref, hyd oni byddwyf yn y nefoedd. Nid ydyw 'r nefoedd yn lle neu yn sefyllfa segurdod. Diau fod gan yr holl angelion yn eu graddau, eu gor-chwylion priodol wedi eu penodi iddynt, a'u bod yn wastad yn ddiwyd a gweithgar. Yr hyn a ystyrir yn fawredd a dedwyddwch gan lawer ar y ddaear, ydyw bod heb ddim i'w wneyd; ond nid felly yn y nefoedd. Yr hyn a ganlyn yn anghenreidiol, oddiwrth sancteiddrwydd yr efengyl ydyw dedwyddwch, pan fyddo rhwystrau allanol wedi eu symud: ond y nefoedd ei hun a gollai ei natur, pe byddai 'r dymher dufewnol yn ddiffygol. Parhad o'r un fath o fywyd ag a sefydlir genym yn y byd hwn, fydd ein sefyllfa ddyfodol; ni wna angeu yr un cyfniewidiad ynddi, ond yn unig, symud ymaith bol, camsyniad mewn perthynas iddi. Y mae diolchgarwch, sanct-eiddrwydd, a dedwyddwch, yn eiriau agos o'r un cymhwysiad, ac o anghenreheidrwydd yn dal perthynas â'r un gwrthddrych. Mae tŷ Dduw yn ddwy ran, y naill yn ysbatty â'r llall yn balas. Yn y cyntaf, y mae aelodau Crist ar y ddaear yn cael eu cystudio yn drwm dan lawer math o glefydau, a'u cyfyngu i ddefnyddio 'r cyfferiau hyny a ordeiniwyd ganddo ef ei hun. Pa fath un claf fyddai hwnw a wnai dristâu wrth glywed fod yr awr yn dod iddo fyned allan o'r ysbatty wedi ei lwyr iachâu, a chael ei dderbyn i'r palas i Wydd y brenin. Sylfaen ein dedwyddwch ni yn y byd nesaf all fod yr unig ddedwyddwch i ni yn y byd hwn. Os na allwn wasanaethu Duw a'n Hiachawdwr gyda hyfrydwch, a gwneyd nefoedd o byny yma i raddau, ni chawn nefoedd wedi myned oddiyma.

Ni wyddom y filfed ran o werth ein bendithion tymmorol ac ysbrydol hyd oni byddom yn y nesaf. Pechod, yn cael ei gofio, wedi ei faddeu, ydyw testun y mawlyn y nefoedd; pechod yn cael ei gofio, ac heb ei faddeu, sydd yn ennyntan yn uffern. Rhaid imi fyned i'r nefoedd cyn y gallaf fod mor ddiolchgar ag y dylwn; ofer i mi feddwl hyny yma. Sefyllfa o lwyd waredigaeth oddiwrth bechod yn hytrach na rhag dyoddef o'i herwydd ydyw 'r nefoedd. Rhaid ini farw cyn y byddom yn berffaith gydffurfag ewyllys Duw, ac y mae hyny yn werth mawr er ei fwyn. Perffeithrwydd yr holl fodau ysbrydol, hanfod dedwyddwch, llawenydd angelion, nefoedd ar y ddaear, ydyw hyfrydwch yn ewyllys Duw. Y mae nefoedd pa le bynag y mae Duw; yn fy nghalon, os wyf yn dymuno hyny; "digonolrwydd llawenydd sydd ger eifron." Ni wnaid eng mil o flyneddau yn y byd yma gyflawni fy nedwyddwch, gan na allwn gyrrhaedd perffeithrwydd mewn un ystyr; hyn sydd yn gwneyd angeu yn ddymunol, gan nad yw yn bosibl ei feddiannu heb fyned trwyddo. Nid myned o fywyd, ond i fywyd, yr ydym yn angeu. Gobaith y Cristion sydd yn melysu llwyddiant, yn cynnal dan adfyd, yn attal yr enaid i roddi ei serch ar y byd hwn, a dysgwyl gorhwyfa ynddo. Oni buasai i Grist ddwyn y nefoedd i wared atom ni, ni chadasid me honom ni byth fddi ato ef. Tywyllwch, poen, a thristwch, sydd yn teyrnasu yn y byd hwn, nid gwiw i ni ddysgwyl cael Duw yn rhan gyflawn yma: gŵyr y Cristion y caiff ei adnabod yn well a'i fwynhau yn gyflawn ar ol hyn. O fy enaid! dàl afael sicr, a bydd yn dra diolchgar am y fath obaith gwynfydedig. Ym-trechwn i fyned i mewn i'r orphwysfa hono. Yr ydym yn hoffi yr orphwysfa yn well na 'r llafur sydd i'w chyrhaedd; ond nid oes genym ddrychfeddwl teilwng am dani, os nad ydym yn ei hystyried yn werth gwneyd pob aberth, a myned i bob llafur er ei mwyn. Ofier i ni feddwl y gallwn gael hyfrydwch wrth fod gyda Christ yn y nefoedd, os nad ydym yn awyddus am ei gyfeillach ar y ddaear. Y sefyllfa uchaf y gall saint gyrhaedd ar y ddaear ydyw gallu tremio ychydig ar y nefoedd, ac archwaethu ychydig o honi, ymlaen ffirwyth ac ernes yr ysbryd: yr ochr draw i'r bedd, y mae y cynhauaf, ac nid yw i'w ddysgwyl yma. Pan fyddwyf yn gallu dyweyd yn wirioneddol "Bydded dy ewyllys megys y mae yn y nefoedd," yr wyf yn mawr hiraethu am fod yn y nefoedd fel y gallwyf ei gyflawn wneyd. Yr achos nad ydym yn cadw ein golwg yn ddiysgog ar oleu 'r gair, yr hwn sydd yn arwain i'r nefoedd, ydyw, am nad ydym yn meddwl am y nefoedd, megys y wlad yr ydym yn ihwym iddi, a'n bod yn aml yn rhoddi mwy o bwys ar bethau 'r ddaear nag ar bethau 'r nefoedd. Yr wyf yn dymuno gwybod rhywbeth, a bod yn rhywbeth, hyny yw—marw. Yr wyf yn gweled gogoniant a phrydferthwch sancteiddrwydd, megys y gweleodd Moses dir yr addewid o ben Pisgah; ond megys yntau, rhaid i ni farw heb ei feddiannu. Oni bai i mi weled rhywbeth y tu draw i'r bedd yn werth marw er ei fwyn, nid oes dim yr ochr hyn yn werth byw er ei fwyn. Pa fodd y croesawir angeu gan y rhai hyny, sydd yn gwir alaru am bechod, yn teimlo baich o hono, ac yn archwaethu y chwerwdod sydd ynddo

gan hiraethu cael cyflawn waredigaeth oddiwrtho—yn y nefoedd yn unig y ceir hyny.

Pascal.

Fföedigaeth Caumont ieuanc.

PARTHAD O'R RHIFYN DIWEDDAF.

WBBI i'r lleiddiaid orphen eu gwaith a myned ymaith, daeth y bobl o'r tai cymydogaethol; o ran cywreinrwydd, i edrych y cyrif. Ac ymhlieth eraill, hen wr oedranus. Pan welodd Caumont ieuanc, yn tybied ei fod wedi trengu, a lefodd, "Dyma un yr hwn nid yw ond pleatyn—pa ddrwg a ddichon ei fod ef wedi wneuthur." Pan glywodd Caumont ieuanc hyn, efe a ymawroloedd, a chan ddyrechafu ei hun ychydig i fynu, dywedai mewn llais dystaw, "Nid wyf wedi marw—er mwyn Duw achubwch fi." Y gŵr tosturiel, gan roddi ei law ar ei ben, a'i pwysodd ef i lawr drachefn, a dywedodd wrtho am fod yn llonydd, am fod y milwyr sto gerllaw. Rhyw bryd wedi hyny, efe a ddaeth ac a daflodd hen fantell dros y llanc, ac a'i cymerodd ef i ffordd. Rhai o'i gymydogion a ofynent iddo, pwy yr ydoedd yn ei gario, atebai, "Fy nai yw efe—mae wedi meddwi, ac fe gaiff dderbyn ei webr." Fel hyn daeth ag ef yn ddiogel i'w dŷ, a rhoddodd ddillad ei nai am dawo. Yr holl noson hono cadwedd ef yn ei dŷ, ac yn foreu dranoeth, gofynai i ba le y cai ei gymeryd ef. Atebodd Caumont ieuanc, yr a'i efe i'r Louvre, fod iddo chwaer ymhlieth llawforwynion y frenines. Ei achleswr, yr hwn nid ydoedd ond is-weinidog yn y castell, a ddywedai os a'i efe yne y byddai raid iddo fynaed heibio lliaws o'r gwylwyr, pa mai a fyddent yn sicr o'i adnabod ef, ac felly y dygid dinystr arnynt ill dau. O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynodd Caumont fyned i'r arfdŷ, lle yr oedd modryb iddo yn byw. Atebai y llall fod y ffordd yn bell, ond y gallent fyned gyda'r mûr heb i ond ychydig eu cyfarfod a sylwai arnynt, gan chwanegu ei fod yn dlawd a'u bod mewn pergl mawr, a gobeithiai yr addawai y llanc iddo ddeg ar hagain o goronau am ei drafferth. Ar ol penderfynu hyn, cychwynnasant ymaith. Yr oedd y llanc wedi ei wisgo mewn hen ddillad budron, a chap coch am ei ben, ar yr hwn yr oedd croes o blwm. Pan gyrhaeddasant y lle, gwnaeth y llanc i'w gydymaith sefyll o hirbell tra y safai yntau wrth borth yr arfdŷ. Ni feiddiasai guro wrth y porth, ond tra yr oedd rhai yn myned i mewn, aeth yntau i mewn heb ei weled gan neb. Yn dra ofnus, aeth ymlaen trwy y cyntedd nesaf allan, a thrwy anhawsdra cyrhaeddodd ystafelloedd ei fodryb heb gyfarwyddyd neb. O'r diwedd cyfarfu a page a fuasai ya ngwasanaeth ei dad, yr hwn, heb ei adnabod, a'i dug ef at ei fodryb. Pan welodd hi ei nai yn ei ffuant-wisg, hi a'i cofleidiodd ef yn serchoglwân, a chan wylo, hi a fendithodd yr Arglwydd am ei ddaioni, a gwnaeth iddo adrodd trwy be wyrth y diangasai, o herwydd credasai ei fod ef wedi ei ladd fel y lleill. Efe a erfyniodd arni, fodd bynag, yn gyntaf, datu y deg

coron ar hugain i'w amddiffynwr, a dychwalyd iddo yr hen ddilid a gawsai i ddianc, yr hyn a wnaed yn y fan.

Pan wiswyd Caumont ieuanc mewn dillad *page* parthynel i'r cadlywydd Biron, er diogelwch gosodwyd ef yn *cabinet* cyfrinachol y cadlywydd. Yma yr arosodd am ddau ddiwrnod, hyd eni chlywedd y cadlywydd fod y brenin wedi clywed fod un o'r *Huguenots* yn guddiedig yn yr arf-dŷ, ac fod gorchymwyn allan i chwilio am dano. Rhag y canfyddid ef, cymerasant ef allan o'r *cabinet* a dygwyd ef i ystafelloedd y morwynion, lle y gosodwyd ef rhwng dau wely, a gorchuddiwyd ef a lliciniau ac a dillad. Yma y cadwyd ef am rai oriau, dan hanner nos, pryd y cymerwyd ef yn ol i'r *cabinet*.

Nid oedd esmawythder i *Lady Von Brisenburg*, modryb y llanc ieuanc, hyd oni chaffai hi ei nai i le diogel. Felly hi a gymerodd M. Von Bohn, swyddog malwraidd, i'r gyfrinach. Daeth y boneddwr hwn yn gynnar yn y boreu, ac a gymerodd y llanc, yr hwn oedd eto a gwisg *page* am dano, i dŷ Count Guillon, cyfall iddo, wrth yr hwn y dywedodd "Chwi yw fy nghyfaill, yr wyf yn gofeithio y gwaewch a mi y ffafro gadw y dyn ieuanc hwn mewn lle o ddiogelwch hyd onid elo i'r derfysg heibio. Yr wyf am ei gymeryd ef i'm gwasanaeth fel *page*, ond nid yw yn gyfieus yn bresennol." Gwyddai Count Guillon nad hyn ydoedd y gwirionedd, ond ni chymerodd mwy o sylw o heno, eithr gadawodd i'r llanc aros gydag ef. Ar ol wyth niwrnod, daeth yn amlwg oddiwrth y son oedd ar led, fod y *secret* wedi ei gael allan. Can gynted ag y gwybu M. Bohn hynny, heb golli amser, efe a alwodd am ddau farch, un iddo ei hun, a'r llall i'r llanc a ymddiriedwyd i'w ofal ef. Wrth farchogaeth drwy y ddinas, cyfarfuasant âg orymdaith fawr, yr hyn a wnaeth farch Caumont ieuanc mor afreolus fel yr ofnasant yr adnabyddid hwy. Yr oedd y llanc ei hun, wrth gofio golygfeydd dychrynllyd dydd y llofruddiaeth, yn ofni y byddei i bob un a'i cyfarfyddai ei adnabod ef. Fe drefnodd Duw, fodd bynag, iddynt fynedfa ddiogel drwy y ddinas. Wrth y pyrth, cawsant foneddwyr yn eistedd ar farch, o'renw De Fraisse. Rhoddo id M. Bohn y llanc i'w ofal, ef gan ddyweyd wrtho y gwyddai efe, sef De Fraisse, i ba le i'w gymeryd ef. Y trydydd dydd ar ol eu hymadawiad, disgynasant mewn gwest-tŷ (*inn*), lle yr oedd boneddwr a gosgorddlu mawr yn aros. Siaradai y boneddwr hwn gydag ymfododdha'd ac hyfrydwch mawr am y cast, fel ei galwai, a wnaed a'r *Huguenots*. A chanmolai yn fawr benderfyniad y brenin i ddyfetha gelynion yr eglwys a'r orsedd.

Boreu dranoeth, cychwynasant ymaith oll yn yr un ffordd. Rhoddodd y boneddwr dyeithr fantell am dano y gwyddai Caumont ieuanc ei bod yn perthyn i'w frawd llofruddiedig. Siaradai y boneddwr yn uchel, a dadganai ei gynddarodd am na ddaliesid M. de Caumont, a dywedai ei fed wedi dianc trwy ddrws efn. "Ond ei frawd," meddai efe, "M. De la Force, a'i holl eiddo a gymerwyd o'r ffordd."

Pro orphen yn y nosaf.

Gardd Gethsemane.

I GETHSEMANE Iesu aeth,
Ef a'i ddyasyblion oll,
Y nos y daliwyd ef yn gaeth—
Hi gofir yn ddigoll.

Ac yno bu ein Prynwr cu
Mewn ing a thywydd mwy,
Nas deall lloedd nefoedd fry
Er maint eu medr hwy.

Edrychwch arno'r un difai
Diniwed—goreu un;
O'i gariad rhad dros euog rai,
Myn'd dan eu bai ei hun.

Mae'n cerdded rhagddo'nol a'mla'n
Yn sefyll, syrthio i lawr,
Gweddio, peidio, methu'n lân,
Mae dan wasgfeuon mawr.
'R oedd tân yn berwi'i enaid pur
Digofaint poeth ei Dad,
Nes chwysu gwaed yn ddafnaugwir
Ar noswaith oeraf gaed.

Ei galon doddai gan y gwres,
O'i fewn fel llyn o ddwfr,

Ystrad.

Pechodau fel mynyddau pres,
Yn gwaagu ar y G
Fe dorai 'wylo yn uchel iawn,
Nes clywid ef o draw;
Y dagrau'n treiglo ruddiau gawn
Heb fod un dyn gerllaw.
Fe waedda'i maes mewn geiriau trist
“Mor gyfyng arnaf yw,”
Pwy ond ein hanwyl Iesu Crist,
Fu yno a'i fron yn friw?
'R wy'n teimlo chwant i roddi llef
Yn ddiolchgarwch gwir,
I'r angel cynnorthwyodd Ef
O dan ei boen a'i gur.
Y bugail aeth o dan y llid,
Fe ddaw y pridd yn rhydd,
Fe'u caegl ger ei fron ynghyd,
Pan ddaw i ben y dydd.
Mi't welaf wedi dringo'n awr
Uwch poenau er ein mwyn:
Yn eistedd ar yr orsedd fawr:
O tyn fi 'th fynwes fwyn.

T. LEVI.

Ysgrepan y Dirwestor.

PUR RESPECTABLE!—“Mam,” ebe bachgenyn, “paham y mae fy nhad yn yfed *rum*? ” “Nis gwn, fy mhlentyn: paham yr wyt yn gofyn? ” Obliged imi glywed y *squire* yn dyweyd ei fod yn ddyn trwaiaudus a *respectable* unwaith.” “A wyt ti yn meddwl awgrymu nad yw dy dad yn *respectable*? ” ebe y fam. Yr oedd y bachgen yu ddystaw.

GO DDA.—“Pa beth a wnaif os peidias werthu *rum*? ” ebe un wrth ddar-lithydd dirwestol. “Ewch i'r tloty,” ebe'r llall, a chymerwch eich cynnal yno, a gadewch i'r rhai a wnaethoch chwi yn dlawd ddyfod allan.”

CHWILIO AM Y TLOTY.—“Tom,” ebe meddwyn wrth ei gyfaill, “yn mha le y mae y tloty? ” hoffwn yn fawr ei weled. “Fy anwyl gyfaill, dilynwch eich gyrfa bresennol ychydig yn hwy, ac ni fydd raid i chwi ofyn yr holiad,” ydoedd yr atebiad cyrhaeddgat.

YR YFED CYMEDROL.—*Railway* y diafol ydyw, gyda llethrfa raddol i lawr i gronfa dystryw.

CRISTIONOGAETH versus DYNGARWCH.—Ymweodd person a waredwyd oddiwrth feddwdod a chyfaill cristionogol, a llwyddwyd gydag ef i gymeryd gwydraid o win—dim ond un a geisid ganddo. Yr oedd ei ymrwymiad o anghenrheiderwydd wedi ei dori, ei awydd am ddiodydd cynhyrfiol wedi ei adnewyddu; ymollyngodd yntau i'w foddloni; ac er tristwch i'w gyfeillion aeth yn feddwyn drachefn. Fel hyn, “Na fyneger yn Gath! ” arddangoswyd cristionogaeth i'r byd fel gwrthwynebydd dyngarwch.”—*Y Parch. Joshua Priestly.*

PA BETH YW COSTREL WIROD?—Tawddlestr y diafol, yn mha un y tawdd holl sur coethedig y natur ddynol.

CYFRIFIAD EREHYLL.—Cyfrifir fod nifer presennol distyldai yr Unol Daleithiau yn 10,000; rhifedi y galwyni o wirop a ddisyllir yn fyneddol yw 41,502,709; yr hyn, pe 'u gwerthid am ugain *cent* y galwyn, a gynuyrchai 80,000,000,000,000 o ymrysonau, 500,000 o ymladdau, 100,000 o ladradau, 800 o hunanladdiadau, ac ynghylich 100 o lofruddiaethau.

CEDDORIAETH DDIRWESTOL.—Dywedai hen feddwn nachlywodd erioed mo 'r wrwg yn canu, cyn iddo lawnodi yr ardystiad; ond yn awr nad yw braidd yn myned adref na fydd yn canu fel *canary*.

DYCHRYNLLYD.—Dywedai y Dr. Tyng, mewn darlith ddirwestol a draddododd yn ddiweddar, “Y mae yn costio i'r wlad hon (America) gan' miliwn o ddolars yn fyneddol i ddifyfetha y rhai goreu a phrydferthaf o'n meibion.” Ai nid ellir priodoli peth cyffelyb i Frydsain?

ADDURN I LLEUENCTYD.—Cymedroldeb ydyw un o'r grasau dyagleiriaf sydd yu prydferthu dyn ieuanc; ac y mae y cymedroldeb hwnnw yn gynnwysedig mewn llwyr ymattaliad oddiwrth bob peth sydd yn meddwi.—*Y Llywydd Briggs*.

“Y mae *freights* yn anghyffredin o isel,” ebe un hen greadur oedd wedi cael cymaint o ddiod i'r bwrrd nes ei daflu ef i'r gwter.

Dolgellau.

GLAN WNION.

Llais o Oror Clawdd Offa.

ANWYL frod yr a chwierydd, y rhai ydych athrawon ac athraweson yn yr Ysgolion Sabbathol. Mae eich nodweddiaid fel y cyfryw yn profi ar unwaith eich bod yn caru gwneuthur daioni gartref ac oddicartref; a bydded i Dduw, yr hwn yr ydych yn ei wasanaethu, eich gwobrwo yn helaeth yn mhob peth.

Mae 'n gofus genych i chwi wrandaw ar ein llais am galenig o ddimai at adeiladu capel Priest Weston, yn swydd Amwythig, yr hwn sydd yn anrhyydedd i'r Genadaeth Gartrefol yn y wlad hono: ac y mae yr achos yn gysurus ac addawol am lwyddiant parhaus ynddo. Blwyddyn i Nadolig diweddaf, anfonasomein cais drachefn atoch, am galenig i adeiladu capel yn Coedway, yr hwn ni adeilailwyd eto; o herwydd na chydunodd yr ysgolion i roddi calenig. Fe wnaeth rhai yn dda iawn; ond ychydig o nifer oeddent. Gwel y “Drysorfa” am mis Mawrth, am hanes o'r derbyniedau a'r rheswm o oedi adeiladu hyd amser dyfodol.

Meddwl yr ydym mai yr achosion canlynol oedd y rhesymau dros brinder y calenig y tro diweddaf; sef, bod amser y calenig yn dymhor oer a gwlyb, o ganlyniad, nid oedd yr yagolion yn lliosog, a bod genych gasgliadau wedi eu hoedi, ac anghen ar y pryd am eu gwneyd er gwastatân y cyfrifon erbyn dechreuaed blwyddyn newydd. Ond yn benaf, am na wyddech am hyny yn yr adeg; oherwydd mai yn y “Drysorfa” yr ymddangosodd ein cais, ac ychydig oedd ac yw ei derbynwyr mewn cymhariaeth i dderbynwyr y “Geiniogwerth” fawr a da, yr hon sydd yn ein llaw bob mis. Gan hyny yr ydym yn cael y faint o ddyfod atoch yn mhob yagol, trwy gyfrwng y llyfrlyn dedwydd hwn. Ein cais gostyngedig, eto taer, yw i chwi yn eich ysgolion ar Sabbath y Paag, sef Ebrill 8fed, wneyd casgliad bychan o ddimai neu geiniog, ie y peth a welwch yn dda, dan yr hen enw dyddorawl hwnnw, Offrwm y Pasg: gan y bydd erbyn hyny, y dydd yn hir, tywydd

yn ffafriol, a'r ysgrilion yn lloisog, a'r plant wedi cael rhyw ddilledyn newydd, a dimau neu geiniog yn llogell pob un; a rhwng pob daioni fel hyn, a hefyd meddwl mawr am Iesu Grist ein Pasg ni, yr hwn a'i rhoddodd ei hun drosom ni, " yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd," bydd eu hysbrydoedd yn siriol a'u meddyliau yn haelionus, fel ag y bydd yn hawdd i chwi gael offrwm gwirfoddol ar Sul y Pasg; neu yr un canlynol, os methwch fod yn barod erbyn y Sul hwnw.

Wedi dyfod i'r lle hwn (Birmingham,) derbyniais lythyr oddiwrth gyfeisteddiad lleol y Goror, yn hysbysu iddynt gyfarfod ar yr 22ain o'r mis hwn, Chwefror, yn y lle a eiwr Borthdir, yn mhlwyf y Berriew. A gwedi iddynt gael boddlonrwydd am yr anghen a'r awydd mawr oedd yn yr ardal am gapel, penderfynasant adeiladu pabell fechan a chyflieus i gadw yr Ysgol Sabbathol a phregethu: ei maint fydd saith llath wrth wyth, a'r muriau i fod deg a hanner troedfedd o uchder, ei lle sydd yn ymyl neuadd boneddwr cyfrifol, *justice of the peace*, yr hwn, dywedir, fyddai yn gwrandaw weithiau y tu allan i'r ty lle pregethir ynddo yn bresennol. Ac efe o hono ei hun a gynhyrfodd bobl yr ardal i feddwl am gapel, ac a roddodd y tir am un swllt yn y flwyddyn, yr hyn beth ni cheir am unrhyw bris mewn llawer gwiad, ac a barotodd lyfr i dderbyn y rhoddion, gan ysgrifenu ei enw ei hun yn flaenaf, gyda rhoedd o ugain swllt; ac addewid am gynnorthwy chwanegol. Mae yno dair neu bedair o ferched ieuaine, a gwragedd cyfrisol o aelodau, y rhai a gymerasant y llyfr o amgylch; ac yn yspaid ychydig ddyddiau, erbyn dyfodiad y committee yno, yr oedd gandystnt mewn llaw ac addewid, wyth punt ar hugain; ac ni orphwysa y rhyw ddengar a selog hon cyn gwneyd chwaneg.

Yr Ysgol Sabbathol a ddechreuwyd yn y flwyddyn 1838. Pregethwyd yno yn achlysurol yn y flwyddyn 1843. Ac wedi i'r flwyddyn hon pregethwyd yno unwaith bob Sabbath; ond yn bresennol, nid oes lonyddwch i ni, os na chant ddwy bregeth bob Sabbath. Mae y gwrandawyr yn lloisogi yn barhaus, fel mae y lle presennol yn rhy fychan i gynnwys hanner y gwrandawyr. Chwanegwyd aniryw at grefydd yn y flwyddyn ddiweddar. Maent yn ddeuddeg o nifer yn bresennol.

Anwyl gyfeillion, mae'r ddau beth hyn yn hysbys i chwi: sef, bod ein Cymnfa Chwarterol wedi gwneyd deddf, nad oes un capel i gael ei adeiladu dan ddima dyled; a hefyd eu bod wedi caniatau y faint i'r Goror i apelio at eu hysgrilion lloisog, am gynnorthwy; fel y gall lleoedd gweiniaid perthynol i'r genadaeth gael pabellau bychain i addoli—yr hyn a wneir gesym y tro hwn dan yr enw offrwm gwirfoddol y Pasg. Hyderwn y gnewch annog eich pregethwyd ffyddlon i hysbysu hyn o beth iddynt y Sabbath hwnw; ac i chwithau ei osod ger eu bron, a derbyn eu hoffrymau bychain, gan fynegu iddynt haelioni y boneddwr yn rhoddi tir ac arian; a bod gwrandawyr y lle yn awyddus am ei gael, ac yn cynorthwy o yn ol eu gallu. Dywedir bod un wraig weddw yn rhoddi pum punt. Bydd yn siomedigaeth a digalondid anesgoradwy iddynt hwy, y honeddwr, a'r cyfeisteddiad, os na wrandewch eu cais a rhoddi cynorthwy bychan iddynt yn y modd a nodwyd; ond credu yr ydym y gnewch gyda pharo'rwydd ac hyfrydwch meddwl.

Wrth ddiweddu, mae genyf innau ddymuniad, yr hwn, gobeithiwf, na ommeddwyf fi, sef, bod i'r brodyr a dderbyniant yr offrymaw-hyn, i'w hanfon i ofal fy hoffus gyfaill y Parch. O. Thomas; fel hyn:—"To the Rev. Owen Thomas, Newtown, Montgomeryshire;" o herwydd yr a pob llythyr ato ef yno mor hwylus ag ataf fi i'r Trallwm; ac nid tegwch i mi fod yn dderbynydd ac yn ymglesydd am arian: rhag i roi o honoch feddwl fy mod yn ceisio se-

yn derbyn yr arian fy hun. Hefyd, dymunir hyd ag y gellir i amryw symian gael eu hanfon ynghyd trwy un law, er mwyn arbed traflerth a thraul i chwi am *Post-office Orders*; a gwneud eu danfon mor fuan sg y gellir; o herwydd mae y cyfeillion yn amcanu dechreu adeiladu yu ddioedi. "Yn gwneuthur daioni na ddiogwn, canys yu ei iawn bryd y medwn, ouid diffygiwn."

Ydwyt, dros y cyfeisteddiad, eich gostyngedig gyfaill D. MORGAN, TRALLWM. Ond yr adeg hon yn talu ymwelliad â'r achos perthynol i'r genadaeth yn Birmingham a Bileston.

Hanesion.

DARGAFYDDIAD MEDDYGOL.—Y mae wedi ei gael allan yn ddiweddar mae yr achos o'r scyrfi, neu 'r clefri poeth, fel yr ymddengys mewn llongau a charcharau, ydyw diffyg *potash* yn y gwaed. Fod cymaint arall o *botash* mewn cig ir ag sydd mewn cig hallt. Nad ees ond pum gronyn mewn *ounce* o *rice*; ond fod 1,875 o ronynau yn yr un faint o gloron (*potatoes*) ac mae hyn yn esbonio pa fodd y mae yr afiechyd wedi cynnyddu er pan fethodd y cloron. Y feddyginaeth ydyw chwanegn ychydig o ronynau o ryw halen o *potash* yn ddyddiol at yr ymborth a ddefnyddir, ac mae y rhai a flinir ganddo yn gwella yn fuan.

ESGYMUFO YN SCOTLAND. Mae amryw anghreifftiau wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn y wlad hon, o esgymundod gan esgobion eglwys Loegr. Fel y gŵyr y rhan fwyaf o'n darllenwyr, nid eglwys Loegr, neu yr eglwys esgobyyddol, ydyw yr eglwys sefydledig, ond mae yno nifer o eglwysi felly ac esgobion ganddynt, maent yn fwy Pabyddol nag eglwys Loegr. Un o'r esgymunedig ydyw y Duc Argyll, un o'r dynion mwyaf urddasol yn y wlad, os nad y mwyaf oll. Mae y duc wedi ysgrifenu traethawd ar Henaduriaeth, yn ddiweddar, yn yr hwn y dengys ysbryd gwrthwynebus a dirmygus tuesg at eagobyydiaeth, fel y mae wedi bod yn y wlad hono yn eawdig. Ac o herwydd y trosedd hwn y mae Esgob Glasgow wedi gwarafun iddo gymuno mwy yn ei esgobaeth ef, fel y byddai y duo yn gwneyd yn achlysurol, er ei fod yn aelod o'r eglwys henaduriaethol.

IECHYD TREFYDD LLOEGR. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar dan arolygiaeth y llywodraeth, mewn perthynas i ieched Prydain, gwelir ieched cymharol y trefydd canlynol. Am un o bob 28 a fu farw yn Liverpool, y dref sydd wedi ennill y cymeriad o fod yr afiachaf yn y deyrnas, y mae un o bob 29 yn Manchester, un o bob 32 yn Bristol, yr un fath Sheffield, un o 36 yn Leeds, un o 36 yn Birmingham, un o 37 yn Llundain. Mae y cyfrif uchod yn cynnwys y canolrif (*average*) am dair blynedd.

YR EGLWYS DDIWYGIEDIG YN FFRAINC. Yr eglwys a sylfaenwyd gan y diwygwyr ydyw hon, ac nid oes un eglwys wedi dyoddef mwy trwy erledigaeth. Pan ail sefydlwyd addoliad cyhoeddus yn Ffrainc, yn 1802, gan yr Ymherawdwr Napoleon, ar ol y dadymchweliad a fu yn y chwiltroad cyntaf, gorfodwyd pob crefydd trwy ddeddf, i dderbyn cynnaliaeth y llywodraeth, ac felly yr unwyd yr eglwys ddiwygiedig â'r llywodraeth. Yn bresennol y mae mwyafrif eu gweinidogion a'u heglwys yn Sosiniaid; ond er hynny yn yr ugain mlynedd diweddaf, y mae diwygiad mawr wedi cymeryd lle ynndi, mae gweinidogion duwiol wedi cynnyddu, ac mae cymdeithasau wedi eu sefydlu i ledanu y Bibl a thraethodau, ac i anfon cenadon. Ychydig fisoeedd yn ol, ymadawodd y gweinidog enwocaf yn yr

eglwys, M. Monod, ynghyd ag ychydig eraill, am fod y mwyafif yn gwrt hodd arddel yn gyhoeddus Dduwdod y Gwareddwr, fel un o erthyglau eu flydd.

AWSTRIA.—Mae pob ymddangosiad fod y wlad hon yn penderfynu gosod y pab yn ben yn Rhufain eto. Mae y llywodraeth wedi yagrifenu at wa hanol lywodraethau Ewrop yn yr achos, mae Ffrainc yn debyg o gyd weithredu. Dywedir fod llywodraeth Awstria yn bresennol yn nwylaw y Jesuitiaid.

YR INDIA DDWYTREINIOL.—Mae brwydr boeth ac ammheusus wedi cymeryd lle yn ddiweddar rhwng milwyr Prydain a'r Sikhs. Dywedir fod tair mil o'r Sikhs wedi eu lladd, a phedair mil wedi eu clwyfo; ond mae Prydain hefyd wedi cael colled fawr. Mae oddeutu cant o gadbeniaid wedi eu lladd, a'u clwyfo; a dwy fil a phum cant o filwyr cyffredin. Priodolir y golled i anfedruswydd y cadlywydd Arglwydd Gough. Mae cadlywydd arall, Syr Charles Napier, i fyned allan yn ddioed.

Y Senedd.

Mae amryw gwestiynau o bwys wedi bod dan sylw yr wythnosau diweddas, er nad oes dim o bwys wedi ei benderfynu. Mae dadl wedi bod eto, ar hollos ryddfreiniad yr Iuddewon, sef eu cymhwysader i eistedd yn y senedd os dewisir hwy i hyny. Y prif weinidog, Arglwydd John Russell, a ddygodd eu hachos dan sylw y tro hwn, fel y flwyddyn ddiweddas. Mae ef yn dadleu yn gryf dros hyny. Mae pob hawlfraint arall yn perthyn i'r Iuddeuw, a phaham y naeir hon iddo?

Mae dadleuaeth hefyd wedi bod yn y senedd ar ddeddf priodas. Mae ddeddf yn gwaithardd priodas â chwaer gwraig, ac hefyd â nith. Mae rhai dros ddyddymu y ddeddf hon. Dywedir nad yw y ddeddf yn attal y fath briodasau: fod deugain mil o'r fath briodasau wedi cymeryd lle, yr ugain neu y deng mlynedd ar hugain diweddas. Mae gwahaniaeth mawr hefyd yn eglwysi Ewrop ac America, mewn perthynas i'w cyfreithlondeb: defnyddir hyn yn rheswm dros newid y gyfraith. Dadleu yn gryf gan blaidd arall dros y gyfraith fel y mae. Mae y Bibl, hanesiaeth eglwysig, ac effeithiau teuluaid a chymdeithasol, yn cael eu defnyddio gan y naill yn gystal a'r llall.

Mae Cobden wedi dyfod â'i gynnygiad ymlaen ar gyllidau y deyrnas, gan ddadleu, mewn araeth gymedrol a grymus, dros ddarostwng trethi y wlad o leiaf ddeng miliwn o bunnau yn flyneddol. Deng mlynedd yn ol yr oeddynt cymaint a hyny yn llai, ac amcan araeth Cobden oedd dangos nad oes un achos iddynt fod yn uwch yn bresennol. Mae esgus wedi ei gael y naill flwyddyn ar ol y llall, i chwanegu at nifer y milwyr a'r morwyr, ond pan symudwyd ymaith yr esgus, yr oedd y milwyr yn aros. Rhanwyd y ty ar y cynnygiad—tros y cynnygiad yr oedd 78, yn ei erbyn 275. Ac o'r 275 y mae 147 mewn cysylltiad â'r fyddin a'r llynges.

Mae Mr. Disraeli wedi dyfod a chynnygiad ymlaen i wastatau beichiau amaethwyr y wlad. Ei farn ef ydyw eu bod yn cael eu trethu yn annheg, fod deng miliwn o drethi arnynt hwy a ddylent gael eu rhoi ar y wlad yn gyffredinol, sef trethi tlodion, trethi ffyrdd, trethi sirol, &c. A'i gynnygiad ef ydyw, i chwech o'r deng miliwn gael eu rhoi ar gyllidau cyffredinol y deyrnas. Nid oes ond ychydig o drafod wedi bod ar hyn eto.

Y GEINIOWERTH.

At y Cymry.

MEWN cyhoeddiad cyfnodol, beth bynag fydd o ei faint, nid oes modd myned ymlaen yn gysurus heb ddeallwriaeth eglur rhwng y golygwyr a'r darllenwyr mewn perthynas i'w amcan a'i ddyben. Meddyliasom ein bod wefi dangos yn ddigon goleu pa beth a'n cymhellodd i ymaflyd yn y gorchwyo gyhoeddi y "Geiniogwerth :" ond yr ydym yn cael achos yn fynych i gredu nad ydym eto wedi llwyddo i wneyd ein hunain yn ddealladwy i lawer o'n darllenwyr. Nis gwyddom pa esboniad arall i'w roddi ar liaws o gynghorion a gawsom er pan ydym wedi dechreu ar y gwaith hwn. Barna rhai y dylem roddi mwy o draethodau ar y gwyddorion, megys Seryddiaeth, Fferylliaeth, Craigyddiaeth, &c. Eraill a odysgwyliant i ni lanw pob rhifyn a haneson. Pe gwrandawem ar un dosbarth, ni byddai dim mor fuddiol a Hynafiaethau : ond o'r ochr arall, pan roisom bigion ryw amser yn ol o ddoethineb yr hen Gymry, allan o'r "Trioedd," yr oedd amryw yn ein cynggori yn ddifrifol i beidio cyhoeddi pethau mor ffot a phlentynai'd. Myn rhai i ni ddyfod allan yn fwyfegniol yn erbyn yr undeb rhwug yr Eglwys a'r Wladwriaeth : ond tybia eraill ein bod wedi dangos llawn gormod o'n tuedd ar y pwnc hwn yn barod. Mewn gair nid oes dim diwedd i'r materion y dysgwylir i ni ymdrin a hwynt gan ryw ddosbarth neu gilydd ; ond digon o ateb yw dywedyd, mai nid dyma ddyben y "Geiniogwerth."

Y mae rhai drachefn yn dymuno cael ychydig far bob un o'r pethau hyn, ac ar bob pwnc arall y gellir meddwl am dano, er nad yw pob rhifyn ond pris ceiniog. Mynant i ni wneyd ein cylchgrawn bychan yn fath o *Cyclopædia*. Nid ydynt yn ystyried y byddai raid bod wrth y gorchwyl am bedwar ugain mlynedd o leiaf, cyn y gellid ei gyflawni mewn cyhoeddiad misol o faint y "Geiniogwerth." Nid oes dim a ddewisem ei weled yn fwy na *Cyclopædia Cymreig*. Ond nis gallai fod yn deilwng o dderbyniad heb fod yn werth swlit yu y mis ; ac hyd yn nod yn yr agweid hono, ni fedrid ei orphen mewn llai nag wyth neu naw mlynedd.

Yn awr, fel na byddo neb yn cael somiant rhagllaw, dealler mai un o ddybenion y "Geiniogwerth" yw *codi ysbyryd darllen yn y Cymry*. Yr ydym wedi rhoddi traethodau achlysurol ar athroniaeth, a gwahanol gangenau o wybodaeth, a bwriedir rhoddi mwy o hyn mewn rhifynau dyfodol. Nid anghofir hefyd y rhai hynny sydd yn hoffi hynafiaeth, hanesiaeth, a beirniadaeth ysgrythyrol. Ond nid ydym am dwyllo ein darllenwyr trwy gymeryd arnom ddiwallu holl anghenion eu meddyliau. Yr hyn sydd genym mewn golwg yw eu geffro a'u cynhyrfu i ddechreu darllen, a chwilio, a meddwl. Ychyaig o'r Cymry oedd yn darllen dim rai blyneddau yn ol, oddieitbr yr adnodaau a ddygwyddent fod dan sylw yn yr Ysgol Sab-

bothol ; ac ychydig sydd eto mewn cymhariaeth : ac nid peth bach yn ein tyb ni fyddai ennill dau i gael blas ar ddarllen am bob un oedd felly o'r blaen. Ond wrth amcanu at hyn, ymdrechir i ddwyn y rhai sydol wedi dechreu darllen i deimlo fod ganddynt dir lawer eto heb ei feddiannu ; a rhoddir gwensi uwch mewn gwybodaeth fuddiol o flaen y cyfryw, yn ol fel y ceir lle i farnu eu bod yn dyfod yn alluog i wneyd iawn ddefnydd o honyn.

Ond yr hyn sydd genym o hyd mewn golwg fel ein *prif* ddyben yw *codi y Cymry yn uwch mewn crefydd a moesoldeb*. Byddai yn dda genym eu gweled yn well athronwyr, yn well amaethwyr, ac yn well celfyddydwyr ; ond yr hyn sydd fwyaf dwys ar ein meddwl yw awydd am eu gweled yn well dynion. Yr ydym ymhell ar ol eto gyda golwg ar amryw o ddyledswyddau crefydd : ac yn enwedig, y mae rhai beiau duon yn perthyn i ni fel cenedl, y rhai sydd yn warth, nid yn unig i grefydd, ond i ddynoliaeth. Oni ddylai hyn fod yn "dristyd mawr, a gofid dibai i'n calon ?" Onid oes achos i ni ddyfod allan yn fwy egniol nag erioed yn erbyn arferion an-niwaир ein gylch ? A oes dim modd troi peiriant yr Ysgol Sabbothol i weithredu yn fwy grymus yn erbyn y pechodaau hyn. Y mae yn ymddangos i ni y dylent adrodd holwyddoreg Mr. Griffith Jones, neu Mr. Charles, ar y seithfed gorchymyn unwaith bob haner blwyddyn, ac yn amlach na hyny. Y mae llawer i'w wneuthur tuag at ennill y penau teuluoedd i ymddwyn yn ffyddlawn yn y mater hwn. Pe teimlent fel y dylent, ni oddefent neb yn eu gwasanaeth am un diwrnod wedi eu cael yn euog o gyfeillach anwedd-aidd. Ac a oes dim modd argyhoeddi pobl ieuainc eu hunain o ffolineb a ffieidd-dra yr heu arferion sydd yn iselu cymaint ar gymeriad y Cymry ? Pe ceid rhyw nifer yn mhob ardal yn meddu digon o wroldeb moesol i dori trwy hen draddodiadau, ac i sefyll fel dynion yn erbyn holl wawd ynfydion y byd, buan y teimlid y gwarth sydd yn perthyn i weithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch. Dyma i chwi gyfle, ddynion ieuainc, i fod yn ddiwygwyr eich oes. Gwerthfawrogwch eich braint. Ymorfoeddwch yn mhob dirmyg a defir arnoch oherwydd eich ymlyniad wrth rinwedd a moesoldeb. Bernwch a gweithredwch drosoch eich hunain, yn lle cymeryd eich llywodraethu gan ofn dynion a nwydau anifeilaidd. Ymgodwch o'r llaid, ymryddhewch o'ch cadwynau, a dangoswch eich bod uwchlwm sylwi ar ysgrechiadau yr adar aflan sydd yn casau y goleuni, am fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

Beiau eraill y mae galwad uchel arnom i'w gwirthwynebu yn y dyddiau hyn, yw anwiredd ac anonestrwydd. Onid yw y Cymry yn dra diffygol mewn uniondeb a chyflawnder ymarferol ? Onid ydynt yn rhy ddifeddwol am gadw yn ddigon pell oddiwrth fod "yn nyled neb o ddi...," ac am dalu eu dyledion ar ol myned iddynt ? Onid yw man o ddihellion yn rhy gyffredin yn ein mysg ? Paham na all y Cymry brynu a gwerthu fel pobl eraill, heb dreulio chwarter awr, neu ychwaneg, i daeru a dywedyd celwydd ? Onid yw eu holl syniadau yn anghraethol rhy isel mewn perthynas i bwysfawrogrwydd geirwiredd ? Wrth ddarllen yr hanesion am uniondeb a chywirdeb

anmhlygadwy yr hen baganiaid yn Groeg a Rhufain, y mae yn rhaid i ni gyfaddef fod arnom gywilydd wrth feddwl am y Cymry.

Y mae llawer o feio wedi bod ar y "llyfrau gleision :" ac nid heb achos ; oblegid yr oedd eu desgrifiadau yn unochrog a rhagfarnllyd. Ond y mae lle i ofni eu bod wedi effeithio i beri gwrthdarawriad gormodol, ac wedi ein gwneyd yn rhy ddisylw o'r drygau sydd yn diraddio ein cenedl. Gellid meddwl fod rhai yn ofni son am y drygau hyn, rhag iddynt gael eu cyfrif yn bleidwyr i'r dirprwywyr. Ond y mae yn amlwg mai ein dyledswydd ni yw myned ymlaen, mor ymdrechgar a phe buasai y "llyfrau gleision" heb erioed ymddangos. Neu, os gweddai fod rhyw wahaniaeth, ni a ddylem fod yn fwy diwyd i lanhau ein gwlad oddiwrth ei harferion llygredig, gan fod ein gelynion yn cymeryd y cyfryw bethau yn achlysuron i warthrudo ein crefydd.

Oddiar yr ystyriaethau hyn, a'u cyffelyb, yr ydym wedi meddwl am anfon at y rhai sydd yn fwyaf tebyg o gael gwrandawiad gan y Cymry, i ofyn iddynt ysgrifenu cyfres o draethodau byrion yn erbyn llygredigaethau yr oes, i ymddangos yn fisol yn y "Geiniogwerth." Caiff pob un ddewis ei destun, ond gofalu am fod tuedd yr ysgrif i wrthwynebu anfoesoldeb y Cymry mewn rhyw ddull. Nid rhaid iddynt ychwaith ysgrifenu ar wahanol bynciau. Pa niwed os bydd pump neu chwech o draethodau byrion ar yr un pwnc gan wahanol awdwyr mewn rhifynau olynol ? Onid buddiol fyddai cael "llin ar lin, a gorchymyn ar orchymyn ?" Yr ydym yn bwriadu anfon at gryn nifer o ysgrifenwyr, gan obeithio y cawn ddwy ysgrif yn mhob rhifyn : a chredwn y rhoddir cydsyniad parodlawn i'n cais gan bawb sydd yn ewyllswyr da i'r Cymry, ac yn dymuno eu gweled yn genedl o ddynion moesol a rhinweddol.

Y Professor Heyne, o Gottingen.

Yr ydoedd y Professor Heyne yn un o'r ieithyddwyr goreu. Cyrraeddodd raddau helaeth o enwogrwydd yn ei wlad ei hun, a thrwy Ewrop. Treuliodd tua deuddeg ar hugain o flyneddau, nid yn unig o'r golwg, ond o'r bron mewn ymdrech dibaid gyda y tlodi mwyaf. Ganwyd ef yn nghanol yr anghen a'r trueni dyfnaf ; ei dad yn wehydd tlawd, a theulu mawr ganddo, pa rai yr oedd ei ymdrech-iadau mwyaf yn annigonol i gael digon o fara iddynt. Yn hanes ei fywyd, dywedai, "Cwmni boreuaf fy mabandod ydoedd eisieu. Yr wyf yn cofio yn dda yr argraffiadau poenus a wneid ar fymeddwl wrth edrych ar gyfyngder fy mam pan y byddai heb ddim bwyd i'w roddi i'r plant. Gwelais hi lawer gwaith ar brydnawniau Sadyrnau a'i dwylaw yn mhleth ac yn wylo ar ol ymdrech aifwyddiannus i werthu y nwyfau a fyddai fy nhad wedi eu gweithio ddydd a nos."

Anfonodd ei rieni ef i ysgol ydoedd yn nghwr tref fechan Chemnitz, yn Saxony, lle yr oedd ynt yn byw. Yn fuan dangosodd

awydd anghyffredin i ymchwilio am wybodaeth, cynnyddodd mor gyflyn yn nghangenau isaf gwybodaeth a ddysgid yn yr ysgol, fel yr ydoedd cyn bod yn ddeg oed yn gallu talu rhan o ofynion yr ysgol, wrth ddysgu geneth fechan amaethwr cyfoethog i daurlen ac ysgrifenu. Ar ol dysgu pob peth cyrhaeddadwy yn yr ysgol yma yn y drefn gyffredin, teimlodd awydd cryf i ddysgu Lladin. Yr oedd mab yr ysgolfeistr, yr hwn a fuasai yn myfyrio yn Leipsic, yn foddlawn i'w ddysgu am bedair ceiniog yn yr wythnos, ond yr anhawsder i gael y fath swm a ymddangosai iddo yn anmhosibl. Rhyw ddiwrnod unfonwyd ef at ei daid, yr hwn oedd yn bobyydd mewn amgylchiadau cysurus, i ymofyn torth: wrth fyned myfyriai yn ddwys ar y pwnc mawr oedd ar ei feddwl, aeth i'r shop mewn dagrau.

Wedi i'r pobyydd hynaws ddeall yr achos o'i ddagorau, ymrwymodd i dalu y gofynion drosto: gyda hyny, dywed Heyne, ei fod wedi ei orlenwi a llawenydd. Fel yr ydoedd yn rhedeg drwy yr heolydd yn garpiau ac yn croeanoeth, taflai y dorth i fyny, llithrodd y dorth o'i law a threiglodd i'r ffos. Y ddauwain yma ynghyd a cherydd llym ei rieni a'i dygo i'w bwyll. Dilynodd ei wersi am ddwy flynedd, yna cydnabyddodd ei athraw ei fod wedi dysgu y cwbl a wyddai ef. Ei dad, erbyn hyn, ydoedd yn bryderus am iddo ymafydd mewn rhyw alwedigaeth, yntau a deimlai ei ddymuniad yn anorchfygol i ddilyn ei ddysgeidiaeth. Yr oedd ganddo daid arall yn y gymydogaeth yn offeiriad. Y gwr yma, wedi clywed y fath ganmoliaeth iddo oddiwrth ei feistr, a gydsyniodd i fybed i'r draul o'i roddi yn y brif ysgol yn Chemnitz, ei dref enedigol. Cyfranai ei noddwr newydd yn y modd cynnilaf, er ei fod mewn sefyllfa dda. Gorfyddai Heyne fenthyca y llyfrau anghenrheidiol iddo oddiar ei gyfeillion, ac ysgrifenu o honi nt at ei wasanaeth. Yn mken amser cafodd y sefyllfa o fod yn ddysgawdwr i fab un o'r dinasyddion, gwnaeth hyn ei amgylchiadau yn fwy cysurus am dymmor byr. Ond yr oedd yr amser yn nesu iddo fyned i'r brif athrofa os ydoedd am fyned ymlaen yn y llwybr a ddewisodd. Penderfynodd fyned i Leipsic. Cyrhaeddodd y ddinas heb ganddo ddim ond dwy *florin* (oddeutu pedwar swllt) yn ei logell, a dim yn rhagor i ymddibynu arno oddieithr yr ychydig gynnorthwy a allasai ddysgwyl oddiwrth ei daid. Byddai y rhai hyny mor annyben yn dyfod, a chyda y fath rwgcnachrwydd; yntau yn amddifad o lyfrau, ac hyd yn nod eisieu bara, oni buasai tosturi y forwyn lle yr ydoedd yn lletya. Yr hyn a gadwedd wroldeb yn ei feddwl yn y fath amgylchiadau, ac arfer ei eiriau ei hun, oedd "Nid uchelgais na rhyfyg, na gob ith am gael ei restru ymhlieth dysgedigion. Y teimlad o iselder ei amgylchiadau, a'r arswyd rhag iddo gael ei ddiraddio" ydoedd y sywbyliad parhaus i'w yru ymlaen. Penderfynodd ymdrechu pe buasai yn cael ei dafli i'r llwch. Fel yr ydoedd ei anhawsderau yn cynnyddu yr ydoedd ei awydd am wybodaeth yn cynnyddu. Ni chaniatai iddo ei hun ond dwy noswaith yn yr wythnos i gysgu, er hyny, ni ysgrifennai ei daid nemawr lythyr ato heb ei gyhuddo o'i ddiofalwch, a chwfarwyddai ei lythyrau ato yn fynych:—At Mr. Heyne, Diogyn

yn Leipsic. Yn y cyfamser, pan ydoedd ei gyfyngder yn cynnyddu yn fwy annyoddefol, cynnygiwyd iddo gan un o'r *professors* y sefylifa o fod yn athraw mewn teulu yn Magdeburg : er mor ddymunol ydoedd y cynnygiad, buasai yn ei symud o gyfleusdra da i fyned ymlaen gyda ei efrydiaeth ; felly gwrthododd hi, ac ymroddodd yn hytrach i aros yn nghanol cyfyngder yn Leipsic. Yn mheu ychydig wythnosau gwobrwyid ef am yr aberth a wnaeth, cafodd le cyffelyb i'r un a wrthododd, yn y dref lle yr oedd y brif athrofa, trwy *gammoliaeth yr un professor*. Rhyddhaodd hyn ef am dymmor oddiwrth ei eisieu arianol. Dilynodd ei efrydiaeth mor ddifal nes dygodd ef i afael afiechyd peryglus, fel y gorfu arno roddi y cwbl i fyny. Erbyn iddo wellhau cafodd ei hun mor dlawd ag erioed, wedi treulio y cwbl oedd ganddo. Yn y cyfyngder yma, ei waith yn Lladin a dynodd sylw un o weinidogion Saxony. Tueddwyd ef yn ol *cyfarwyddyd* ei gyfeillion i osod ei hun i fyny yn y llys yn Dresden, lle yr ydoedd yn hyderu y gwnai ei hun yn hapus ; ond nid oedd hyn eto ond somedigaeth newydd iddo. Benthycodd arian i dalu traul y siwrneu, a'r cwbl a gafodd gan y gwr caredig ydoedd ychydig o addewidion gwag a ddybenodd mewn dim. Gorfu iddo yn y canlyniad werthu ei lyfrau, a chymeryd lle ysgrifenydd mewn llyfrgell gŵr boneddig, am y swm bychan o gan' coron y flwyddyn, oddeutu 17*p.* Prin yr ydoedd yn ddigon i'w gadw rhag trengu yn y wlad hono. Pa fodd bynag, trwy ei ddiwydrwydd, medrodd gael amser heblaw cyflawni ei swydd i barotoi ychydig bethau i'r wasg : derbyniodd am hyny ugain coron. Am argraffiad rhagorol y bardd Tibullus, derbyniodd gan' coron. Trwy hyn galodd dalu y ddyled yr aeth iddi yn ei gyfyngder yn Leipsic. Trefnodd i aros yn y modd yma am ychydig flyneddau ; parhâai i fyfyrion yn galed. Ystyriai ei hun yn cael ei wobrwyd yn dda am yr holl galedi yn y cyfleusdra i ddilyn ei hoff ymchwiliad mewn dinas lle yr ydoedd y fath gronfa o lyfrau hynafiaethol a Dresden. Wedi iddo ddal y sefyllfa am ddwy flynedd, dyblwyd ei gyflog ; ond cyn iddo dderbyn llawer o rym oddiwrth hyn dechreuedd y saith mlynedd rhyfel. Gorfu arno ddianc i Wittenberg, bu yno yn crwydro oddiamgylch heb yr un lle. Yn y diwedd derbynwyd ef i deulu yn Wittenberg. Cynnyddodd y rhyfel yn fuan, a gyrwyd ef o'r noddfa yma, a dychwelodd i Dresden, cyrhaeddodd yno yn ddigon buan i weled yr ychydig bethau oedd ganddo yn cael eu dinystrio.

Ffurfiodd gyfeillach a boneddiges, un o'r teulu y bu gyda hwy yn Wittenberg, penderfynasant ymuno mewn priodas. Y dygwyddiad yn Dresden a adawodd y cwpwl ieuanc heb yr un swllt : trwy ym-drechiadau rhai o'i gyfeillion, cafwyd diangfa iddo ef a'i wraig yn sefydliad un M. de Leoben. Treulai y rhan fwyaf o'i amser i edrych ar ol meddiannau y gwr boneddig yma.

O'r diwedd, yn amser yr heddwch cyffredin, yn y flwyddyn 1763, dychwelodd i Dresden, ac yma y diweddodd ei dynged galed. Rhyw gymaint cyn iddo gyrhaedd y ddinas hono, daeth y swydd o Athraw Araethyddiaeth yn athrofa Gottingen yn wag trwy farwolaeth John Matthias Gesner. Cynnygiwyd y gader yn gyntaf i David Ruhnken,

un o'r ysgolêigion penaf, gwrthododd yntau adael athrofa Leyden. Pa fodd bynag, er dedwyddwch i Heyne, yr ydoedd Ruhnken yn un o'r ychydig ag oedd yn adnabyddus o'i rinweddau mawrion, er mor guddiedig ydoedd i lawer. Dangosodd ei hun yn gyfaill calon iddo, mynegodd am dano wrth un o'r gweinidogion, fel y person mwyaf cymhwys i leawi y swydd. Y fath ganmoliaeth ydoedd y nodded mwyaf anrhodeddus ac effeithiol a allasai gael. Penodwyd ef i'r swydd yn ddioedi, a chynnaliodd hi am yn agos i ddeng mlynedd a deugain. Yn yr yspaid yma gosododd ei hun bron ar y blaen yn mhlith dysgedigion ieithyddol ei oes. Yr ydoedd yn cael ei garu a'i barchu fel tad, nid yn unig gan ei ysgolêigion lliosog, ond gan bob dosbarth o'i gyd-ddinas ysyddion. Teimlasant fod eu dinas a'u hathrofa wedi cael colled trwy ei farwolaeth, yn y flwyddyn 1812, o'r hwn ydoedd ei phrif enwogrwydd am hanner canrif.

J. T.

Dechreuad Methodistiaeth yn y Bala.

MR. GOLYGYDD,

Difyrwyd fi yn fawr, wrth ddarllen hanes "Dechreuad Methodistiaeth yn y Bala," yn y "Geiniogwerth" a'r "Traethodydd." Efallai na fyddch anfoddlon i roddi lle i ychydig yn rhagor o berthynas i hyn, a dderbyniwyd genyf o enau yr hen bererin hono, sydd mewn cof gwerthfawr gan lawer o bobl y Bala, sef yr hen Beten Rhobert, ac a ysgrifennyd ar y pryd.

"Howel Harris, wrth ddyfod yma i bregethu, a sefydlodd *seiat* y Methodistiaid gyntaf yn nhŷ un Hwmphrey Sion Owen, a'r pryd hyny yr oedd saith yn proffesi. Y *Dissenters* (Annibynwyr) oedd y crefyddwyr cyntaf yn y Bala, ac un Mr. Goronwy oedd yn weinidog arnynt. Cadwent eu moddion yn y *Store-house*, y tu cefn i'r Plas-yn-dre. Daeth Mr. Rowlands o Langeitho yma un tro i bregethu, ac ar ddiwedd yr oedfa cyhoeddodd *seiat*, ac a aeth i holi eu hegwyddorion, ac a gafodd rai o honynyt yn Arminiaid. Ar hyn, efe a ddywedodd, 'Pwy sydd o du yr Arglwydd. Ni fyn Mab Duw neb yn *partners* gydag ef yn nghadwedi aeth pechaduriaid &c.' Ar hyn codwyd dwylaw, pryd yr arwyddodd y rhan liosocaf eu bod o'r un egwyddorion a Mr. Rowlands. Symudasant oddiyno ar ol hyn i gadw y *seiat* i dŷ un Rhobert Sion Cadwaladr, yr hwn oedd y blaenor cyntaf i eglwys y Methodistiaid yn y Bala. Aeth wedi hynny i fyw i Adwy'r Clawdd, yr hwn a fu yn bregethwr enwog ymhlith y Methodistiaid. Tra yr oeddent yn ymgynnnull yn y tŷ hwn, tynwyd y tô a'r ffenestr lawer gwaith gan yr erlidwyr. Ar ol hyn, adeiladwyd Hen Gapel y Bala. Tuag amser adeiladu yr Hen Gapel, fe gymerodd diwygiad mawr le yn mysg y plant.

Ymwelodd Mr. Davies o Gaerfyrddin a'r Bala, yn fuan ar ol Harris a Rowlands. Un tro, pan oedd Mr. Davies yn dyfod allan o'r Hen Gapel, wedi'r oedfa, yn mraich yr hen John Evans, eyfarfuasant a h y Groes a Chadben Davies o Benybont, (erlidiwr mawr) yr hwn

oedd & chwip fawr ganddo yn ei law, a chŵn hela o'i gwmpas. Wedi iddo weled Mr. Davies, a John Evans gyda 'u gilydd, efe a aeth atynt, ac a roddodd dres am goesau Mr. Davies. Ar y cyntaf, ni wnaeth Mr. D. un sylw: ond dyma un eilwaith; ar hyn dywedodd, "Witness o honoch, John Evans, you shall answer for it, Sir," ac felly, codwyd y treial i'r Amwythig, ac enhillodd Mr. Davies y treial; a chan nad oedd gan Cadben Davies ddigon i dalu y costau, fe'i daliwyd ef, a dodwyd ef yn ngharchar Dolgellau, ac yno y bu efe farw!

Oddeutu yr un pryd, parodd Mr. Ll. o Fachddeiliog i'w was gyheeddi ar y groes, y byddai oedfa yn cael ei chynnal y Sabboth hwnw yn ysgubor y Fachddeiliog, ac y byddai y cymun wedi'n; felly ymgasglodd llawer yno; ac wedi rhyw fath o bregeth mewn ffordd o waradwydd, aethant i'r parlawr i gymuno, ac yno y cym-unasant, y cŵn yn blith draphlith â'r bobl.

Byddai Cadben Davies a Mr. Ll. Fachddeiliog, yn myned weithiau ar eu ceffylau i mewn i'r capel i erlid y bobl.

Y Sassiwn gyntaf a gynnaliwyd yn y Bala oedd yn muarth Plas-yn-dre, pryd yr oedd yn pregethu, am 10 o'r gloch, y Parch. Peter Williams, a'r Parch. Daniel Rowlands. Am 2 o'r gloch: y Parch. W. Williams, Pant-y-celyn, a'r Parch. Mr. Pritchard, Deheu. Am 6 o'r gloch: y Parch. Mr. Davies, Cynfil." COFIADUR.

Caroriaeth hynod.

BARCHEDIG OLYGWYR,

Er nad ydych, rhaid i mi gyfaddef, mor barchus genyfag y buasai dda, oblegid i chwi nacau cyhoeddi yr unig ysgrif a ddanfonais atoch cyn hon, heb roddi un rheswm dros eich ymddygiad; er fy mod (fel y mae llawer o awdwyr am eu gwaith eu hunain, yn gweled ynddo ragoriaethau) o'r farn i chwi gyhoeddi ysgrifion nad oedd ynt yn cynnwys nemawr rhagor o deilyngdod. Cofiwch chwi, anwyl syrs, ein bod ninnau y derbynwyr, yn "golygu" bob mis, dros yr hyn a gawn genych am ein ceiniog.

Yn awr, dyna ddigon o ragymadrodd. Bellach prysurwyf ymlaen, canys yr wyf yn "golygu" fod genyf stori gwerth ei hadrodd, er, efallai, y cyhuddir fi o gario "clecs." Gwyddoch fod plant a phobl ieuainc yn dra hoff o haneson, yn enwedig ystorïau difyr am eu cyfoedion a'u cydnabod.

Fel y mae dyn segur, serch hyny! Fel yr oeddwn yn dychwelyd oddiwrth fy ngwaith, arbrydnawn y mis diweddfaf, heibio i amaethdy yn y gymdogoeth, difyrwyd fi yn fawr wrth wrandaw ar fab a merch yn siarad â'u gilydd, er ceisio ffurfio cyfeillach â'u gilydd, gyda golwg ar eu dedwyddwch dyfodol. Yr enw mwyaf cyffredin wrth ba un yr adwaenir y mab, ydyw "Wil Anstyriol," ac enw y ferch ydyw "Sian Ddefosionol." Wrth i mi ddyfod at y glwyd sydd yn arwain i fuarth y Tŷ draw, pwy a welwn yn dyfod ymlaen, gan sengu mor ysgafn a'r milgi meingoes, ond Wil. Nid oedd yn

fy ngweled i, oblegid fod ei lygaid ar y feinwen oedd yn canu wrth y ffynnon, fel yr oedd yn rhwbio y llestri llaeth wedi bod yn godro. Tafai Wil gareg fechan i'r dwfr, nes i Jane edrych oddeutu a gweled pwy oedd yno. "O! i'r creadur!" ebe hi, mewn tân isel, "beth pe buasit yn fy nharo i."

Wil. "Mae eisieu i rywbeddus effeithio arnoch. Ni wnewch un sylw o ddim a ddywedwyf fi wrthych eisoes."

Sian. "Ar bwy mae y bai? Mi ddywedais pwy ddiwrnod, wrth ddyfod o'r dref, fy mod yn foddlon i siarad a chwi trwy gydsyniad fy rhieni."

Wil. "Garw mor grefyddol yr ydych wedi myned, 'nawr yn ddiweddar! Dim caru tipyn heb ddyweyd wrth eich tad a'ch mam!"

Sian. "Crefydd yn wir! Mae digon o eisieu rhywbeddus. A ddarllenasoch chwi lythyr yr 'Hen Wr Mynyddig' yn y 'Geiniogwerth' er's tro yn ol?"

Wil. "Twt, y mae hwnw yn rhy ddrwg."

Sian. "Drwg neu beidio, yr wyf fi yn penderfynu ysgubo pob gwarth cyffelyb oddiar fy nghymmeriad fy hunan, bid a fyno: 'does genyf ddim rhagor i'w wneyd.'"

Wil. "O! dywedwch Sian, os caf fi ryw sail i obeithio am eich cyfeillach rhagllaw?"

Sian. "Ddymunwn ni ddim somi nhad a mam er y byd; ac efallai na fyddai eich rhieni chwithau ddim yn foddlon i'r 'fatch' ychwaith."

Wil. Pw! Bydd yn ddigon cynnar i ofyn iddynt hwy, pan fydd pobpeth wedi ei *settlo*."

Sian. "Na yn sicr, mi glywais fy nhad yn dyweyd lawer gwaith nad oes ganddo ef ddim gwell golwg ar ladron merched, nag ar ladron defaid, er nad yw cyfraith y wlad yn eu cosbi fel y cyfryw. Ond a ydych wedi anghofio eich adnod o'r pwnc uos Sabbath? 'Dy orchymyn di sydd dra èang.' Fel yna yr oedd hono, onidê?"

Wil. "'Does dim doubt na bo'r gyfraith yna yn cyrhaedd ymhellach na chyfraith y tir; ond pwy ladrata a fyddai, serch hyny, pe cawn i ryw ferch yn foddlawn, ar ol i mi ofyn i'w rhieni, boddlawn neu beidio?'"

Sian. "Mi ddywedaf i chwi, Wil. Pe baech chwi yn ymofyn un o'r gwartheg ynsa, chwi ofynech i fy rhieni a ymadawent a hi er ei llawn werth, neu ryw greadur arall yr un fath? Ac yr wyf yn siwr fod gan fy nhad a mam fwy o olwg arnaf fi nag ar eu holl anifeiliaid ynghyd."

Wil. "A ydych yn meddwl myned i'r cwrdd gweddi nos Wener i Lethr Bryn? Os ydych, pa ffordd yr ewch?"

Sian. "Yr wyf yn gobeithio, os âf, gael rhyw ffordd i fyned yno mewn pryd; ac yna nid oes wahaniaeth i chwi pa ffordd: oblegid nid oes dim caru i fod wrth fyned a dod o'r cwrdd. Mae gormod o hyny wedi bod eisoes."

Wil. "Wel, wel, yr ydych yn grefyddol dros eich pen a'ch clustiau heno."

Sian. "Wel, na yn wir; edrychwch chwi ar Gwen o'r Ty hen,

a John o Benlan, gyda'u gilydd bob amser bron ; yn enwedig y nos, wrth ddyfod o'r oedfaon, a hynod mor llwyd y mae eu crefydd wedi myned.

Wil. Buasai yn llawer glanach eu bod wedi priodi er's llawer dydd ; ond y mae fy *system* i yn *right*, chwi welwch Sian, erbyn hyn ; canys fe wyr pawb y buasai wedi myned yn briodas oni buasai tad a mam Gwen. Rhyfedd i ragrith dynion ! Pwy allasai feddwl wrth glywed ei thad yn areithio ar sancteiddrrwydd yn yr eglwys, ei fod yn gosod cysur, a chrefydd, ie a diweirdeb ei ferch hefyd, mewn perygl, trwy ei rhwystro i briodi, o eisieu cael rhagor o'r byd gyda'r jatch.

Sian. "Nid oes dim cwestiwn na bod rhieni crefyddol, bydol eu calonau, wedi achosi llawer o warth, afiendid, a gwrthgiliad llawer o ieuengtyd yn Nghymru, cyn hyn, yn eu gwaith yn rhoddi mwy o fri ar *foddion*, nac ar dduwioldeb.

"Euogrwydd gwaed eneidiau, o'nadwy iawn a fydd!"

Wil. "Ust ! Dacw ——. B'le mae eich tad yn myned ?

Sian. "Pa le y mae ? O ! mae yn myned i'r Ffynnon wen, i geisio gwneyd i fynu rhwng y gwr o'r Ffynnon, a Morgan, Gwarallt, oblegid y ci hwnw."

Wil. "Beth am dano ?"

Sian. "O ! yr oedd bai ar Morgan, medd pawb. Yr oedd ar Morgan eisieu ci, ac yr oedd yn hoffi y ci 'Boss,' o'r Ffynnon, a beth a wnaeth ond cario bara i 'Boss,' ar bob achlysur, nes o'r diweddfod yr aeth yn anmhosibl cael 'Boss' adref o Gwarallt. A phan ddeallodd Morgan ei fod wedi ennill serch y ci, fe wnaeth liw o geisio ei brynu. Ond gan na chai y ci ar werth, aeth adref, gan chwerthin am ben Dafydd o'r Ffynnon, druan. Y mae hyny wedi dechreu digen o gynhen yma, na wyr neb pa le y derfydd hi."

Wil. "Dyna gerlyn—yn sicr fe ddylai gael ei ddiaelodi. Chwi glywssoch fod llawer ffordd i ladd ci heb ei grogi. Ac y mae rhagor nac un ffordd i ladrata cwn hefyd. Os goddefant ladron yn y seiat, goddefant bawb yno.

Sian. "Wel, Wil. Os na ddylai lladron cwn neu ddefaid fod yno, yn sicr ni ddylai lladron merched fod yno, pe b'ai'r gwir yn cael ei le. Mae lladron yn cael eu rhestru gyda llofruddion yn y Bibl, yr hwn a ddywed na chaiff y naill na'r llall etifeddu teyrnas Dduw. Gwir fod plant y byd hwn yn lladrata merched mor aml ag y maent yn lladrata defaid ; ond gorchymynir i saint beidio 'cydymffurfio a'r byd hwn,' a dyma ddigon o waith i sant tra yn y byd, sef peidio cydymffurffo a'r byd."

Wil. "Yn ol eich *system* chwi, ynte, y mae llwythi o euogrwydd wrth ddrws professwyr, mewn cysylltiad a'r *cyfathrachu* yma ?"

Sian. "Diau fod. Canys y mae y rhan fwyaf o lawer o grefydd-wyr mor baganaidd eu meddyliau, a chybyddlyd eu tueddiadau, fel nad ydynt yn gofalu mor llawer, serch i'r mab neu y ferch 'ail-groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, a'i osod yn watwor,' sef gwneuthur *sport* o hono, megys Herod a'i filwyr gynt—os bydd i'r plant gael cyfran lled helaeth o'r byd wrth briodi!"

Wil. "Y mae hi bron a dyfod yn *free trade* yn mhob ystyr yn bresennol. Nid oes cymaint o bwys yn cael ei roddi ar briodi, neu 'ieuo yn anghymharus,' ag a fu, ymhllith neb enwadau crefyddol."

Sian. "Pe b'ai rhyddid i briodi yn anghrefyddol yn ein plith ni, mi allwn i feddwl fod mor dda genyf am Geidwad fy enaid, fel na allwn i yn fy myw anwylo un bachgen, ac y byddwn yn siwr ei fod yn dirmyg, mathru, a gwrtiad Iesu Grist; canys byddai yn casau a ffrynd goreu a feddaf yn y nef ac ar y ddaear."

Wil. "Does dim cwestiwn na fuasai Methodistiaeth yn llawer uwch a lliosocach yn Nghymru, oni b'ai ei bod 'mor gul' yn y fan yna. Mae y bobl ieuainc yn gweled os na chânt gyda ni, y cant mewn man arall."

Sian. "Ie, a ydynt yn cael gan Dduw yw'r pwnc. Neu ynte, ai cymeryd eu cenad y maent? Ofnwyf fod ugeiniau wedi myned 'dros y berth,' heb cael cenad hyd yn nod gan eu cydwybodau llygredig eu hunain. Ac y mae yn ddigon tebyg, fod y cyfryw, yn eu hamgylchiadau teuluaid helbulus, a'u cydwybodau dolurus, ar hyd eu hoes, mewn canlyniad, 'yn derbyn ynddynt eu hunain (am eu godineb ysbrydol) y cyfryw dâl am eu cyfeiliorni, ag ydoedd raid.' Peidiwch a chellwair ar y ffordd lydan yna, da machgen i; onidê yn wir, yr ydych yn siwr o golli eich crefydd yn llwyr. Yr ydych ar y *brink* ya bresennol. Na, na, cawn well athrawiaeth na hona gan ymddygiad yr anifeiliaid direswm. *yw anian dduwiol yn ffolach na phob anian?* Os

'Pob edyn a edwyn ei gymhar,'

trueui na fyddai colomen Duw yn adnabod ei chymhar yn well. Pa eisieu i'r colomenod i fyned i ymosyn cymhariaid i blith y brain? Ac ni wn i pa synwyr ydyw i biogen fraith afafar i fyned i edrych am golomen yn gymhar bywyd."

Wil. "Gwahanol rywiogaethau ydynt rai fel yna, ferch; am ddynion yr ydym ni yn siarad. Pa niwed pe gallwn ffurfio cyfeillach a chyfarthach a rhyw ferch fach brydferth, esmythyd, a pharchus o foddion gras, er na byddai yn proffesu?"

Sian. "Pobl yn preswylio eu *hunain* y dylai y saint fod. Nid ydynt o'r un rhywogaeth a'r di-dduw. Sut y mae yr adnod hôno? O ie,—'Eithr chwi ydych rywogaeth etholedig, breninol offeiriad-aeth, cenedl sanctaidd, pobl briodol i Dduw.'

Wil. "Wnewch chwi un law a mi, yr wyf yn deall, heb gyd-syniad yr hen bobl?"

Sian. "Wel, na yn siwr, nid wyf fi yn gweled dim yn afresymol i chwi a minnau ddangos cymaint a byny o barch iddynt cyn myned ymhellach. Yr wyf yn rhwym i fyned i'r tŷ bellach, onidê daw fy nhad yn ei ol eto, a minnau yn y fan yma. Noswaith dda i chwi heno."

Wil. "Noswaith dda i chwithau. Nid ydyw hi ddim i ddarfod fel hyn, serch hyny."

AERONIAN.

VII. *Llythyr Hen Wr Mynyddig.*

MAE gwahanol effeithiau rwy'n deall, i'm llythyr diweddaf, yn ol beth fyddo ansawdd y dyn fydd yn ei ddarllen. Felly y dywed ambell un yn lled Rabbinaidd yr olwg arno,—Beth, ai nid yw yr Hen Wr Mynyddig yn iach yn y ffydd? Beth yw y gweithio yma y mae yn son cymaint yn ei gylch? Rhywun arall a ofyna yn lled syn, ond yn hollol ddiddichell a diymchwydd, Pa beth a weithia rhyw ddynau cyffredin fel myfi?

Wrth y fath gyntaf, dymunwn ddywedyd mor fwynaid ag y mae yn ddichonadwy, fod edrych ar ol fydd pobl eraill, rywfodd neu gilydd, wedi myned i gael edrych arno yn beth lled isel. Y rhai hypnotaf am hyny, o neb fu ar y ddaear, oedd y pabau, a gwahanol swyddogion yr Eglwys Babaidd; ac yn enwedig swyddogion y Chwil-lys. Gwarchod y ffydd oedd dyben sefydliad y llys hwnw. Ac fel mae'n dra hysbys, cymysglyd ac afiach hynod oedd ffydd y gwyr hyny eu hunain; a gwaeth na hyny, os oedd le, oedd eu hymarferiadau. Mae'n anhyfryd adgofio, ragor adrodd, mor anghyfawn, mor greulawn, ac mor anniwair oeddynt. A rhyfedd iawn oedd yr arteithiau, a llymdost iawn oedd y loesion, a ddyoddefodd miloedd o ddynolryw oddiwrthynt. Ac rywfodd yr ydys yn edrych gydag eiddigedd a dirmyg ar bob un a'i gosodo ei hun yn yr un gorchwyl. Dywedir mai ffieidd-dra yr Aiphtiaid gynt oedd pob bugail defaid; a'r achos o hyny oedd, bod bugeiliaid wedi eu gorthrymu. Dengys hanes yr amseroedd hyny, fod y Philistiaid wedi bod a'r llaw uchaf yn yr Aipht am lawer o flyneddau; a theulu neu linach o hoaynt hwy oedd yn teyrnasu, gan orthrymu yr Aiphtiaid brodorol yn dost iawn. A bugeiliaid neu drinwyr anifeiliaid oedd y Philistiaid. Ond wedi deng mlynedd ar hugain o ryfel gwaedlyd, o'r diwedd, gorchfygodd yr Aiphtiaid, a bu raid i'r Philistiaid gilio i wlad Canaan; yr hyn a ddygwyddodd ryw gymaint o amser cyn mynediad Joseph i'r Aipht—a byth wedi hyny ffieidd-dra yr Aiphtiaid oedd pob bugail defaid. Ac mor ffiaidd fel y gwnaent ei lun ar wadnau eu sandalau, fel y gallent ei sathru bob cam a gerddent. Lled dehyg y saif pethau rhwng Cristiogion, a'r rhai a gymerant arnynt edrych ar ol eu ffydd. Mae y gofalwyr am y ffydd yn ngwahanol oesau cred wedi gorthrymu mor dost, fel, erbyn heddyw, bron na ellid dywedyd, mai ffieidd-dra Cristiogion yw pob un a gymer arno edrych ar ol ffydd a chred ei frodry.

Hefyd, y rhai a'u hynodent eu hunain am eu gofal am iachusrwydd ffydd, mae eu bod felly yn gosod temtasiwn gref o flaen eraill i ymofyn pa fath ydynt hwythau o ran eu gweithredoedd. Maent hwy yn eu hymddygiad yn honi fod ganddynt ffydd iach a chywir iawn: nid yw ond digon naturiol, gan hyny, fwrw golwg pa ryw ffrwythau da y mae y ffydd hono yn eu dwyn. Ac mae yr ysgrythyr, dylid cofio, yn gorchymyn bod yn "berffaith a chyfan, heb ddifygio mewn dim," mewn ymarferiad. Hefyd yn "bur a didramgwydd hyd ddydd Crist." Dywed yr esbonwyr fod y gair

a gyfieithir pur, yn ariwyddo "heb gŵyr," hyny yw, mîl pur heb gŵyr melyn yn gymysg âg ef. Ond pwy o honom sydd yn berffaith a chyfan ein cymeriad moesol? Pwy o honom sydd heb lawer o'r cŵyr melyn ynddo? Ac os bydd un yn teimlo fod arno anghen hynawseidd a chyd-ddygiad, a phasio heibio yn hyrwydd golliadau mewn ymarferiad, oni ddylai hyny ei ddysgu yntau i ymarfer yr un rhinweddau tuag at ei gyd-ddynion gyda golwg ar eu syniadau a'u cred? O'r hyn lleiaf, byddai well iddo beidio a'u temtio i'w ddynoethi, drwy feirniadu ar eu ffydd. Ond gadawaf ar hyn ar y pen hwn, gyda fy mod yn credu y bydd raid llwyr roddi heibio cyn hir feirniadu ar ffydd rhai eraill; o'r hyn lleiaf, ym-awdurdodi arni. Mae y pab ei hunan wedi colli ei gader yn ddi-weddar. Mae y meddwl dynol yn deffroi y blyneddau hyn; a phan unwaith wedi ei ddeffro yn iawn, tyr bob llyffetheiriau a gwdyn a chadwynau; a gwae'r neb a geisio ei rwymo mwy. Nis cymer gan neb ymyraeth â'i benderfyniadau ar faterion crefyddol ond ei Farnwr yn unig. Goreu i bawb y mynyd cyntaf, gan hyny, i roddi heibio edrych ar ol ffydd rhai eraill.

Dymunwn hefyd i'r fath hyn ystyried, mai bywyd ysbrydol, deilliad oddiwrth Dduw, yw crefydd yn enaid dyn. Ac fel mae ysgogi yn hanfodol i'r bywyd naturiol mewn dyn, felly hefyd mae ysgogi yn hanfodol i fywyd ysbrydol yn yr enaid. Hedyn siwr o dyfu yw crefydd yn yr enaid, a chynnrychu ffrwythau cyfiawnder. Peth nas gall fod yn hir yn guddiedig yw gras yn y galon, rhaid iddo gael tori allan mewn gwneuthur daioni. Os nad yw Cristion-egaeth yn grefydd ag sydd yn dwyn dynion i wneuthur daioni, ni buasai waeth i'r byd heb ei chael, ac nis gall Iesu Grist fod yr Iachawdwr oedd ar ddynion ei anghen. Cofier hefyd, yn ol y darluniad yn y buunmed ar hugain o'r efengyl gan Matthew, mai yn herwydd nas gwnaethant yr hyn oedd dda, y gwrthoda ac y dedfryda y Barnwr, y rhai ar y llaw aswy yn y dydd mawr a ddaw.

Ond am yr ail fath a grybwylwyd yn y dechreua, sef yr hwn a ofyna yn niniweidrwydd ei galon, ac hefyd gyda bwriad i geisio gwneuthur rhywbeth, Beth a all un o'm math i ei wneuthur dros Grist ar y ddaear? Gofynaf finnau iddo yntau, a oes neb rhai tlodian, mewn anghen ychwanegol o ymborth a dillac yn ei ardal, ag y gallai efe liniaru gradd ar eu sefyllfa? Ac a oes yno neb ag eisieu ei ddysgu i ddarllen y Beibl, neu i ddeall y cyfryw yn well, ag y gallai efe wneuthur rhywbeth erddo? Ai ni allai wneuthur mwy tuag at gynnal gair y bywyd yn y pregethiad o hono yn ei ardal? Mae'n debygiawn y byddaidda i'r cynnaliad arno fod yn fwy anrhydeddus, ac hefyd i'r pregethiad o hono fod yn fwy medrus a nerthol; ac ond odid na hyddai gwneuthur y cyntaf yn llawer at gyrhaedd yr ail. Hefyd gofynaf, beth a all ef wneuthur tuag at gael y byd at Grist? Rwy'n coelio ond i'r dyn roddi un mynyd i lunio ei ateb i bob un o'r gofyniadau hyn, y bydd wedi gweled fod ganddo ddigonedd o waith i'w wneuthur, a hwyrach fwy nag a feddyliodd o'r blaen, o gyfleusdra a modd hefyd.

Arweinir sylw yr ymofynydd uchod at amgylchiadau cartrefol yn

gyntaf, am y barna yr ysgrifenydd, y dylai pob dyn ofalu am waith Duw yn ei gartref ac yn mysg ei genedl ei hun o flaen pob man arall. Clywais lawer gwaith hefyd, yr arfera y Methodistiaid ymofyn o barth pob un o'u pregethwyr, a fydd efe yn ymddwyn yn y modd hyn. Gwir na ddylid bod yn segur gyda chenadon a chenadaethau, ond yn anad dim, rhaid myned â'r achos ymlaen gartref. Mae cario ymlaen waith Duw gartref yn hllith ein cenedl ein hunain, yr un fath a barn a chariad Duw, yn beth y rhaid ei wneuthur; a gwneuthur daioni i genedloedd eraill, yn gyffelyb i ddegymu y mintys a'r ryw a phob llysieuyn, yn beth na ddylid ei aadel heibio. Ond efallai y dywedai rhywun, nad yw peth fel hyn ond mympwy hen wr. Ond dywedaf finnau y bydd y dyn a ddy-wedo fel yna yn hen rywbryd, oddigerth iddo farw yn ieuanc. Ac hwyrach erbyn y daw yntau yn hen y bydd yntau yn barnu yr un fath. Ac mi warantaf fi, y bydd yn anhawdd iawn ganddo addef ei fod yn ffolach, ac yn barnu pethau yn fwy anghywir, wedi cyrhaedd hen ddyddiau, nag yr oedd pan yn ieuangach.

Ond hwyrach gan fod ambell un mewn cryn brofedigaeth ar hyd ei fywyd, o eisiau ychwaneg o waith yn y winllan, y byddai o'r goreu cyn myned ymhellach, roddi i lawr gyfarwyddyd neu gyng-hor, yr hwn ond ei wneuthur, a geidw y dyn yn ddiffael ynglyn â digon o waith tra byddo byw ar y ddaear; ac am ddim a allaf fi ddeall, ynglyn â digon am dragwyddoldeb. A'r cynghor yw hyn, edryched ef ar fod ei galon yn llawn o gariad at Grist yn wastadol. Os felly, dengys y cariad, neu yn hytrach dysga ef i weled pethau ag y bydd eisieu eu gwneyd, na wel eraill heb gymaint o gariad mohonynt. Fel y wraig yn nhŷ Simon y Pharisead, dysgodd cariad iddi hi weled fod anghen golehi traed yr Athraw, yr hyn beth o ddiffyg cariad nid oedd Simon wedi sylwi arno. Eilwaith, dwg y cariad hwn y dyn i'r fath gymdeithas ac i'r fath leoedd, ag a'i gesyd yn ngafael digon o waith yn barhaus. Arweiniodd cariad Ioan, y dysgybl anwyl, at groes ein Harglywydd ar Galfaria, ac o fod yno cafodd orchwyl anrhyydeddus iawn i'w gyflawni dros ei Arglywydd, sef bod yn lle mab i ofalu am y freintiedig Fair. Ac yn ddiua, dan ddylanwad parhaus yr un cariad ag a'i dygodd at y groes, gofallodd am dani yn ffyddalen a pharchus hyd ei diwedd; hyd oni welodd ei Mab yn dda ei chymeryd hi ato ei hun i'r drydedd nef. Anrhyydeddodd Ioan Mair fel ei fam, ac felly estynwyd ei ddyddiau ar y ddaear. Bu fyw yn ddiweddarach na'r un arall o'r apostolion; ac yn y diwedd cafodd farw o farwolaeth naturiol, (os oes marwolaeth naturiol yn bod hefyd), cafodd farw â'i ben ar obenydd, fel y dywedir; yr hyn beth, am a wyddis, nas cafodd yr un arall o'r apostolion. Y pummed gorchymyn yn talu ei wobr addawedig i ufudd-dod oedd hyn. Gan hynny, na chlywer byth yn chwaneg neb yn cwyno am na byddai efe yn cael gwneyd mwy gyda'r achos crefyddol. Ac os cwynir felly, rhaid mynegu i'r cwynfanwr mai arno ef ei hunan mae y bai. Mae ef yn ddiffygol mewn cariad; pe yn llawn o gariad buasai yu llawn o waith. Hefyd, os bydd cariad grymus at Grist yn y galon, pâr hynny i'r

holl ymarweddiaid fod yn sanctaidd; a rhydd sancteiddrwydd y bywyd rym ac effeithiolrwydd i'r ell a wneir gyda gwaith Duw. Ac nid oes effaith dda i ddim a wna neb heb hyn. Megys am drefn fawr y prynedigaeth trwy Iesu Grist, ni buasai iddi hi unrhyw effaith ar ddynion, oni buasai fod Duw wedi rhoddi ei Ysbryd yn gysylltiedig â'r drefn, i weithredu dylanwad drwyddi yn barhaus. Yn gyffelyb am yr hyn a wna dyn gydag achos crefydd; oni bydd pararogledd enw da a buchedd dduwiol yn rhoddi pwys a dylanwad i'w weithrediadau, ni bydd na nerth nac effaith i ddim a wna. Gwelwn fod cysonedd prydferth yn ngwaith Duw yn hyn, fel yn mhob peth arall; cariad sydd yn gosod y dyn mewn gwaith, ac yn gystal a hyny, mae cariad yn ei gymhwysio i gyflawni y gwaith yn effeithiol.

Mae'n eglur ddigon fod gweithgarwch gyda chrefydd ar gynnydd cyflwm yn Nghymru y blyneddau hyn; ac yn hyn yr ydwyf fi yn llawen. Cryn dueddol i daeru ynghylch y gwahanol gyfundraethau duwinyddol y buom ar hyd y ganrif o'r blaen. Ac wedi cael pwff o daeru lled ysgethrin; ac yn enwedig, os ceid tipyn o haulwen o orfoledd ar ol hyny, tybid fod pethau yn myned ymlaen yn dda odiaeth. Yr oedd yn hen bryd dyweddyd wrthym fel cenedl, fel y dywedodd un meistr wrth ei weithwyr un tro, pa rai oedd ynt yn dwr ar lofft y swyddfa yn taeru yn frwd ryfeddol fel hyn ac fel arall ynghylch ffydd; ond yn y cyfamser daeth y meistr i fewn i lawr y swyddfa, ac wedi gwrando beth oedd yn myned ymlaen ar y llofft, a phan y cafodd fwlc yn y swn fel ag i allu peri ei glywed, gwaedai, Gweithredoedd sydd eisieu yn bresennol. Ar hyn aeth pob un i'w le, ac at ei waith, i geisio cael y gweithredoedd ymlaen; canys am y rhai hyny yr oedd y meistr yn talu. Yr oedd yn dra anghenrheidiol dyweddyd yn gyffelyb wrth grefyddwyr Cymru; ac yn ddiau dywedwyd felly wrthynt, a hyny yn groew iawn yn y weinidogaeth. A chlybüwyd hefyd, canys mae cyfnewidiad amlwg yn cymeryd lle yn raddol yn y blyneddau hyn. Mae y gwahaniaeth eisioes yn fawr, ragor y peth yr oedd er ys cynnifer o flyneddau yn ol. Tybiwyf mai nid gormod fyddai dyweddyd, fod haelioni crefyddwyr Cymru yn bresennol, yn gymaint arall a'r peth oedd ugain mlynedd yn ol. O'r hyn lleiaf, felly mae mewn rhai parthau. Ac 'rwyf fi yn cynieryd hyn yn un o'r arwyddion goreu, fod dynion yn dwyseiddio ac yn dyfod yn fwy o ddifrif gyda chrefydd, ac yn gryfach eu cariad. Sieryd dynolryw gryn lawer am rywbeth, ag na byddant hwyrach yn gymaint o ddifrif yn ei gylch yn y diwedd. Ond os ceir hwyt i roddi eu harian, yn enwedig dipyn o doraiith o honynnt at ryw achos, mae hyny y prawf goreu a ellir gael, eu bod o ddifrif ac yn frwd gyda'r achos hwnw. Ac fel y dywedwyd am haelioni, yn gyffelyb y gellir dyweddyd am gymedroldeb, a lliaws o rinweddau eraill.

Ac yn hyn meddaf eto, rwy'n mawr lawenhau: er fy mod yn llwyr argyhoeddedig, fod pwys mawr mewn meddu barn gywir am bethau crefydd. Hefyd mae'n ddiau fod gwerth mawr mewn teimladau ystwythaidd, nefolaidd, a gorfoleddus gyda chrefydd.

Nis mynwn am unrhyw bris ddywedyd yr un gair yn ddiystyr am y naill na'r llall. Ond pan mae uffud-dod gweithredoedd da yn gysylltiedig a hwynt, y maent yn werthfawr iawn. "Ffydd hefyd, oni bydd ganddi weithredoedd, marw ydyw a hi yn unig." Gorfoledd hefyd, oni bydd gando fuchedd sanctaidd, llawn cystal bod heb glywed ei lais.

Ond mae y llythyr hwn, fel bron bob un o'm llythyrau, wedi myned yn hwy nag y dymunaswn; gan hyny rhaid terfynu. Gobeithiaf, ie yn wir, yr wyf yn llwyr credu, fod canrif y gweithredoedd da, a'r ffrwythau cyflawnder, wedi dechreu ar Gymru. Credaf hefyd y collir pen draw y ganrif honno mewn Milrif o dymor cyffelyb, a llawer gwell. Caiff ein gwlad o hyn allan, meddafi, weled cenedlaeth wrth genedlaeth o grefyddwyr hynod am eu ffyddlondeb a'u gweithredoedd dros Grist; a dilys y bydd eu ffydd gymaint a hyny yn iachach, a'u gorfoedd gymaint a hyny yn fwy sylweddol.

Cwm.

HEN WR MYNYDDIG.

Anghysonderau benywaid.

1. Merch ieuanc yn treulio llawer o arian ac amser i ddysgu cywreinwaith afreidiol, ac ar yr un pryd heb fedru gwnio crysau, na gwau hosanau, na pharotoi ymborth i'r teulu, na chyflawni y gorchwylion mwyaf cyffredin.

2. Merch ieuanc yn gwario yr oll a fedd i ddilladu y corff, ac yn gweled chwe cheiniog bob mis yn ormod i'w rodzi am ddefnyddiau i addurno y meddwl.

3. Merch ieuanc yn ymabincio pan yn myned oddicartref; ac eto yn arfer bod yn fudr ei hun, a gadael pob peth o'i hamgylch yn fudr, gartref.

4. Merch ieuanc yn dywedyd fod arni ormod o gywilydd i neb ddyfod i ymweled a hi mewn ffordd **anrhodeddus** liw dydd, neu cyn i'r teulu fyned i gysgu; ac eto yr un ferch ieuanc yn ddigon digywilydd i osod ei hun ar werth yn y ffair, ac i gymeryd ei llusgo i'r dafarn ganol dydd goleu.

O ferched Cymru, ystyriwch a diwygiwch!

Pennod yr Athronydd.

MAE gwirioneddau yn cael eu hadnabod genym mewn dwy ffordd; mae rhai yn cael eu hadnabod yn uniongyrchol a thrwy eu goleuni eu hunain, ac eraill yn cael eu hadnabod trwy gyfrwng gwirioneddau eraill. Mae y cyntaf yn wrthdrychau canfyddiad, neu ymwybyddiaeth, mae yr olaf yn wrthdrychau prawf neu gasgliad. Fel anghreifftiau o wirioneddau adnabyddus i ni trwy ymwybyddiaeth uniongyrchol, ni a allwn nodi ein teimladau corfforol a meddyliol. Mi a wn yn uniongyrchol fy mod yn teimlo

yn hyfryd y Sabbath diweddaf wrth wrandaw pregeth, a fy mod yn teimlo yn gynhes yn bresennol wrth y tân. Anghreifftiau o wirioneddau adnabyddus i ni trwy brawf neu gasgliad, ydyw dygwyddiadau a gymerasant le, pan nad oeddym ni yn bresennol, ffeithiau hanesyddiaeth, a gosodiadau celfyddyd rhif a mesur. Mae ffeithiau hanesyddiaeth yn adnabyddus trwy dystiolaeth, neu trwy effeithiau arosol o'r dygwyddiadau hyny. Mae gosodiadau celfyddyd rhif a mesur yn adnabyddus i ni trwy yr egwyddorion cyntefig sydd yn cael derbyniad i'n meddyliau trwy eu goleuni eu hunain. Mae pob peth a ddichonddyfod o fewn cylch ein gwybodaeth yn perthyn i un o'r ddaau ddosbarth yma, sef, yn gyntaf, y pethau nad oes dim eglurach na hwy eu hunain i'w hargamol; ac yn ail, yr hyn a ellir gasglu neu ymresymu oddiwrthynt.

Y mae yn ymchwiliad o bwys pa rai ydyw y gwirioneddau cyntefig sydd mor eglur nad oes prawf o honynyt i'w gael; neu mewn geiriau eraill, pa beth yw dodrefniad cynwynawl meddwl dyn. I'r ymchwiliad hwn y perthyn y cwestiynau mewn perthynas i hanfodiad defnydd (*matter*); mewn perthynas i hanfodiad ysbyrd, a'r gwahaniaeth rhwng corff ac ysbyrd; mewn perthynas i hanfodiad amser a lle, fel pethau y tuallan i'r meddwl, ac ar wahan oddiwrth y pethau a ddywedir sydd yn y meddwl. Y farn gyfrifredin am y gwrthoddrychau hyn yn bresennol ydyw nas gellir eu profi trwy ddiunamlycach na thrwy eu hunain. I'r ymchwiliad yma hefyd y perthyn cwestiynau tebyg i'r rhai canlynol,—pa mor bell y mae ein galluoedd meddyliol yn eu cyflawn rym yn gynnwynol, a pha mor bell y maent yn effeithiau teimladau mwy elfenol— a ydyw hanfodiad Duw yn adnabyddus i ni trwy gyfansoddiad ein meddyliau, yn annibynol ar addysg, ai ynte trwy addysg ac ymresymiad yn unig—a ydyw y teimlad o ddyledswydd yn wreiddiol yn ein natur, ai ynte a ellir ei esbonio a'i olrhain yn ol i rywbedd dyfnach. Mae y dosbarth o wirioneddau sydd yn ymddibynu ar brawf yn syrthio o fewn cylch rhesymeg. Mae y dosbarth arall o wirioneddau yn syrthio o fewn cylch atroniaeth y meddwl, neu yn fwy priodol o fewn cylch *Metaphysics*.

Fföedigaeth Caumont ieuanc.

PARHAD O'R RHIFYN DIWEDDAF.

Mwy nag unwaith y dywedodd yn nghlywedigaeth Caumont ieuanc, "Pe y buasai M. De. Caumont yn syrthio i'w ddwylaw ef y gwnaethai iddo yntau megys y gwnaeth i'r lleill. Yn ffodus, gorfu i'r cydymaith annifyr hwn aros yn ol, oblegid ymaflodd llycheden ynddo ac felly cawsant waredigeth oddiwrth ei gwmni peryglus ef. Yn mhen deuddydd wedi hyn syrthiasant i brofedigaeth drachefn. Wedi rhoi i fyny mewn gwest-tŷ, cawsant yno dri neu bedwar o wyr yn siarad, fel yn wir y gwnai pobl yn mhob man, am y lladdfa fawr yn Paris. Dygwyddodd i De Fraisse, arweinydd Caumont, dafiu gair i mewn mai bradwriaeth erchyll a dichell ddi-

faith ydoedd. Can gynted ag y gorphenodd siarad, dealloedd wrth eu hedrychiad drwg-dybus a'u hatebiad gwyliadwrus, ei fod ef wedi gesod ei hun yn agored iddynt; ac efe a giliodd ymaith gan benderfynu cychwyn i ffordd yn fore dranoeth. Nid oedd hyn, fodd bynag, o nemawr ddyben, o herwydd wedi iddo fyned o'r dref, efe a welai y dynion hyn o'i flaen ar feirch cryfion, ac yn gwbl arfog; ac o'r braidd y pasiodd hwy cyn iddo ddeall eu bod yn penderfynu cadw eu golwg arno. Yn ffodus, drwy ragluniaeth y Jehofa, gweleent garnant o'u blaen wrth ochr y ffordd, yn yr hwn y gallent ymguddio dros ychydig. Can gynted ag y cawsant eu hunain allan o olwg eu herlynwyr, cychwynasant ymaith ar garlam; a chyn y gallesid eu goddiweddyd, troisant i fyned i bentref cyfagos, lle yr arosasant dros ychydig i gymeryd peth lluniaeth. Yn mhen ychydig daeth y lleill yne hefyd. Ond newidiodd De Fraisse ei siarad a'i ymddanghosiad, fel na thybiasant mwyach mai *Huguenot* ffödigaq ydoedd.

Yn mhen oddeutu wyth niwrno i ar ol eu hymadawiad o Paris, cyrhaeddasant *Castel du Mirandes*, lle y cawsant fod M. De Caumont wedi gwneyd ei loches yno hefod. Deroyniodd yr hen foneddwyr ei nai megas un oddiwrth y meirw: yr oedd ei lawenyyd yn annysgrifiadwy pan y clywodd y modd y diangodd. Gwnai iddo adrodd yn fynych hanes ei waredigiaeth ryfedd, yr hon ni wrandawai Caumont byth heb diolch i Dduw am ei drugaredd. Yr oedd ei gariad ato yn mwyhau ar gyfrif y peryglon y buasai ynddynt; a chymerai lawer o boen i'w hyfforddi ef yn y gwirionedd, ac i'w gadarnhau yn ofn yr Arglwydd. Yn mhen 14 neu 15 mis, cafodd Caumont ieuanc ei hun wedi ei adael ymhliath dyeithriaid heb dad, heb fam, heb ewythr; oblegid cymerwyd M. De Caumont i'w orphwysfa. Arhosodd Caumont ieuanc am beth amser yn y *Castel du Mirandes*, hyd oni osododd Brenin Navare ei hun yn flaenor y Protestaniaid. Efe a aeth i wasaneth y Tywysog dewr a da hwn, ac a'i cynnorthwyodd ef i ennill y fuddygoliaeth a'i dyrchafodd ef i orsedd Ffrainc.

Llanwyd hell yspaid bywyd Caumont ag urddau ac â pheryglon. Gorphenodd ei yrfa ddaearol mewn oedran teg: cyrhaeddodd ei 93 blwydd cyn marw; a mynch yr adroddai, â dagrau o lawenydd, ei wareduigaeth ryfeddol a rhagluniaethol rhag cyfarfod â'r bedd yr more ei oes.

Nodiadau Ysgrythyrol.

"EITHINN dilyn yr wyf fel y gallwyd ymaflyd yn y peth hwn yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu." *Phil.* iii. 12. Mae yr apostol yn y geiriau o'r blaen yn dyweyd ei fod yn foddlon i gael ei gyd-ffurfio a marwolaeth Crist: hyny yw, i ddyoddef a marw fel y gwnaeth ef. "Os mewn un modd," eb efe, "y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw, nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisioes—nid fel pe bawn yn meddu sicrwydd diysgog o gyrhaeddyd y gamp uchel at ba un yr wyf yn amcanu; neu fod eisioes wedi fy mher-

fleithio, eithr dilyn yr wyf, os trwy ddiwydrwydd dibaid, y dichen i mi gymeryd gafael yn y diwedd. Ond i sicrhau hyn,—fel y gallwyf lwyldo i gymeryd gafael, y mae Crist Iesu wedi cymeryd gafael ynof fi."

Mae yr ymadiodd, *yn y peth hwn*, yn y cyfieithiad Cymraeg, yn tywyllu y synwyr, ac nid yw yn gyfieithiad cywir o'r ymadrodd cyferbyniol yn y Groeg. Mae y cyfieithiad Seisoneg yn well,—“If I may apprehend, *that for which* also I am apprehended.” Yr un ymadrodd £ ϕ 'ω, sydd yn *Rhuf.* v. 12, ac a gyfieithir, *yn gymaint*, ag sydd yn yr adnod dan sylw ar gyfer y geiriau, *yn y peth hwn*. Buasai yr un cyfieithiad yn well yma. “Eithr dilyu yr wyf fel y gallwyf ymaflyd; *yn gymaint* ag i Grist Iesu ymaflyd ynof fi,” neu “o herwydd i hyn yr ymaflyd ynof gan Grist Iesu.” Gwasanaetha yr ymadrodd Groeg i ddynodi dyben. Yn *Mat.* xxvi. 50, defnyddir ef felly, “Y cyfaill, i ba beth y daethost yma;” hyny yw, i ba ddyben y daethost yma? Yr un ystyr sydd iddo yn y geiriau dan sylw, ac felly eu hymtystyr ydyw “i'r dyben hwn yr ymaflyd ynof gan Grist Iesu.”

Benjamin Franklin.

Pwy na chlywodd am Ffranklin yr argraffydd? gŵr uchel mewn llywod-ddysg a chelfyddyd. Ganwyd ef yn 1706. Dyn o radd isel yn Boston oedd ei dad. Gweithiodd ei ffordd o amgylchiadau isel i'r lleoedd uchaf o anrhydedd. Ychydig o fanteision a gafodd yn ei ieuenctid; yr oedd gan ei dad 17 o blant, o herwydd hyny ni fedrai hebgor Benjamin ond am ychydig i fyned i'r ysgol. Cafodd fyned i ddysgu argraffu at ei frawd; ac wedi dysgu ei grefft, aeth tua New-York; methodd a chael gwaith yma, a chan fod ei arian wedi darfod, anturiodd ar ei draed i Philadelphia. Cafodd waith yno, ond aeth oddiyno yn fuan i Lundain, lle y gweithiodd wrth ei grefft am tua deunaw mis, a dychwelodd i Philadelphia.

Aeth i gyfeillach dyn arall, a dechreuwyd masnachu rhynghddynt, argraffodd a chynnorthwyodd yn ngolygyddiaeth newyddiadur. Parhääi i gynnyddu mewn dysg, nes yr ychwanegodd at ei wybodaeth gyffredinol—cydnabyddiaeth a'i ieithoedd Ffrancaidd, Eidalaidd, Ispaenaidd, a Lladinaidd. Cyflawnodd yn llwyddiannus y swyddau o argraffydd gwladrwaethol, ysgrifenydd y Cynnnulliad Cyffredinol, a Phost swyddog Philadelphia. Yr holl anturiaethau pwysig perthynol i'r ddinas neu y Dalaith, yn y dyddiau hyny, a ddechreuid neu a gefnogid yn egniol ganddo ef; a chymaint oedd ei barch fel na feddylid cychwyn dim o bwys heb ei gynghor a'i gyfarwyddyd.

Yn 1744, etholwyd ef yn aelod o'r Cynnnulliad Taleithiol, lle y bu am ddeng mlynedd mewn bri mawr. Ar yr un pryd llafuriai yn ddibaid ar feusydd athroniaeth anian: efe oedd y cyntaf i gyfranu y gynneddf echedfaenawl (*magnetic*) i ddur (sylfaen y Telegraph Trydanawl),—toddodd fwnau, lladdodd anifeiliaid, a thaniodd bylor

drwy drydaniaeth (*electricity*) ; a dyfeisiodd gyntaf y modd i dynu mellt o'r cymylau & blaenion gwial dur, a thrwyddyt hwy, yn ddiniwed, i'r ddaear. Bu am un mlynedd ar ddeg yn Lloegr yn dadleu dros y Taleithiau ; dychwelodd yn 1775, etholwyd ef yn ddioed i'r Gynghorfa Gyfandirawl, a rhestrodd ei enw yn ౠfn ymhlið arwyddwyr y dadganiad o Annibyniaeth.

Wedi llanw llawer o sefyllfaoedd uchel yn y wladwriaeth drachefn, aeth i ffordd yr holl ddaear, Ebrill 17, 1790, yn 84 mlwydd oed.

Mae ei fywgraffiad wedi ei gyhoeddi droion, ac i'w gael am bris rhesymol ; a chyngahorem y nifer o'n darllenwyr a fedrant ddeall Saesoneg, ei feddu a'i ddarllen, gan y cynnwysa lawer o bethau dyddorawl—yn dangos ymdrech llwyddiannus bachgen tlawd i'r sefyllfaoedd uchaf, a llawer o addysgiadau buddiol o arferiad cyffredin, a darganfyddiadau yn amrywiol elfenau anian.

Yr ydym yn ychwanegu yr hyn a ganlyn o'i ddoeth ddywed-iadau :—

"Cofia fod amser yn arian."—Yr hwn a fedr ennill deg swllt mewn diwrnod, ac a dry i stelcian a segura am hanner diwrnod, er na waria ddim ond chwe' cheiniog, nid dyna yr unig draul : y mae wedi treulio neu dafiu o'i law bum swllt heblaw hynny.

Cofia fod coel yn arian.—Os gad dyn ei arian yn fy llaw ar ol iddynt ddyfod yn ddyledus iddo, y mae yn rhoddi y llôg i mi dros yr amser hwnaw. Ac y mae hyn yn rhedeg i swm mawr, lle y byddo ymddiried mewn dyn.

Cofia fod arian yn gwneyd arian.—Tro bum' swllt, a daw yn chwech ; tro drachefn, a daw yn saith a thair ; ac felly yn y blaen, hŷd onid a yn gan' punt.

Cofia fod grōt y dydd yn chwe' phunt y flwyddyn.—Am y swm bychan yna, yr hyn a dreulir yn aml mewn oferedd, gall dyn parchus, heb feichiafon, gael defnyddio can' punt am flwyddyn gyfan. A thry hyny fael cyfrifol yn nwylaw y llygad agored.

Cofia yr hen air 'Fod talwr da yn arglywydd ar bwrs ei gymydog.'—Gall yr hwn sydd yn talu i bawb yn ei amser, gael defnydd arian ei gymydog pryd y myno. Ac y mae hyn yn fanteisiol iawn weithiau. Gyda diwydrwydd a chynnilddeb, nid oes dim a ddwg dyn ymlaen yn fwy na bod yn gywir a gonest yn mhob peth a wneilo. Am hyny na chadw arian benthyg fynyd yn hwy na'r ammod, rhag i'r somedigaeth gau pwrs dy gyfaill am byth.

Cofia gymeryd gofal rhag y pethau lleiaf i ddwyn oddiarnat dy maw da.—Bydd sŵn dy forthwyl bump o'r gloch yn y boreu, neu naw o'r gloch y nos, yn ddigon i beri i'th ofynydd aros chwe' mis yn rhagor ; ond os gwel di gyda segurwyr, ar ol y cŵn hela, neu yn y dafarn, enfyn am ei arian dranoeth, ac ond odid cyn y byddot barod i'w talu.

Gochel feddwl mai tydi biau bob peth sydd genyt, ac o fyw yn ol hyny.—Y mae llawer yn syrthio i'r caengymeriad hwn. I th gadw rhagddo cadw gyfrif manwl o'th arian, ac o'th draul. Wrth fod yn ofalus yn hyn, cei weled yn fuan fod treuliadau bychain yn rhedeg

i swm mawr yn fuan ; a chei allan hefyd pa beth a ell i hebgor yn hawdd heb un anghyfleusdra.

Yn fyr, ond i ti ddewis, y mae y ffordd i gyfoeth mor hawdd a'r ffordd i'r farchnad. Rhwng dau glawdd, *diwydrwydd a chynnilddeb*, y mae yn rhedeg ; hyny ydyw, peidio gwastraffu nag *amser nag arian*, ond gwneuthur y defnydd goreu o'r ddau. Heb ddiwydrwydd a chynnilddeb ni ddaw daioni o neb ; trwy y rhai hyn, daw y bachgen tlotaf yn ddyn o bwys a dylanwad.—*Cyfaill o'r hen wlad.*

Bu farw.

Bu farw : O y syndawd prudd
 A draidd ororau 'r cread mawr,
 Yr haul mewn caddug a ymgûdd,
 A holta 'n ddarnau creigiau 'r llawr.
 Angelion gwynion gwlaid y gwawl
 A syllant dros amgerau 'r nef ;
 Dystewi wnaeth eu cathlau mawl
 Gael edrych ar ei angeu Ef.
 Fe'i claddwyd : O y grechwen fawr,
 Gan angeu brenin braw y sydd,
 Ac uffern sy 'n atebu 'r gawr
 Gan dybied gael o honi 'r dydd ;
 A Sion hithau 'n fawr ei haeth
 O'i phruddaidd fron enciliodd hedd
 Wrth wel'd ei phrynnwr obry 'n gaeth,
 Dan ddwylaw angeu yn y bedd.
 Cyfododd : O yr adlais pêr
 A ddisgyn ar fy nghlust yn awr,
 Milfiloedd o gerubiaid têr
 A chwythant yn yr *organ* fawr,
 A myrddiwn o delynau mad
 Chwareir gan angelion gwawl,
 Nes llenwi cyrau 'r nefol wlad
 A seiniau prid eu melus fawl.
 Cyfododd : do, a chydag ef
 Cyfododd gobaith Sion lân
 Yr awron ei chwynfanus lef,
 A drodd yn orfoleddus gân.
 Mae angeu 'n rhwym mewn cadwyn fawr,
 A chiwed uffern dan ei draed ;
 Cyhoeddir heddwch trwy y llawr,
 Tragwydol heddwch yn ei waed.
 Osana : cewch iddo ynghyd,
 Mae bywyd yn ei angeu ef,
 Ei waed dywalitodd dros y byd,
 Agorodd ffordd i deyrnas nef.
 Wel, rhodder iddo 'r parch a'r bri,
 Coronau fyrrd fo ar ei ben ;
 A doded pawb i'n Harglwydd ni
 Y mawl a'r gallu, byth, Amen.

Y Saint.

GWIR faint,
Sydd eto 'nol i bawb o'r saint;
'Ddoes iaith i'w chael a draetha ei maint
Cael byw 'n dragwyddol gyda 'r Oen;
A gwledda byth mewn nefol hedd,
'Nol gado 'r bedd heb friw na phoen..

Gwir yw
Fy mod i yma 'nawr yn byw,
Mewn ardal bell oddiwrth fy Nuw,
Yn ofid blin i'm hensaid caeth;
Ond mae fy ngobaith dof ryw ddydd
Yn nerth fy ffydd i ben fy nhaith.

Dirif,
Yw 'r dorf ddaw 'n iach i Salem fry
Trwy rinwedd Aberg Calfari,
Rhyw olwg rysedd iawn fydd hon;
Holl lafur enaid Iesu gwiw,
Yn hardd eu lliw ac oll yn llon.

Bydd 'nawr
Ryw olwg rysedd iawn o fawr
I weled Sion deg ei gwawr;
Hen deulu codwm Eden bell,
Yn gadael gwlad y poen a'r cur
A myned i'r Baradwys well.

Ni bydd,
Y deigr yn lleiaf ar eu grudd,
Fe'i sychir ymaith oll ryw ddydd;
Cânt wisgoedd gwynion hardd eu lliw,
A byw yn ngwlad y palmwydd draw,
Heb ofn, na braw, byth gyda 'u Duw.

Y dydd,
Daw 'r carcharorion oll yn rhydd,
Am hwn rhyw ganu rhyfedd fydd;
Yn ddysglaer lu goresgyn wnaent,
A chanant anthem faith y nef,
Byth, Iddo Ef, a llawenhant.

C-fn-e-d-c-m-r.

J. L.

Hanes bywod y Parch. John Evans, Llwynffortun. Gan THOMAS JOHN WILLIAMS, Myddfai. Yr ail argraffiad. Bala : Cyhoeddiedig gan Evan Davies.

BARNER fel y gwneler am y llyfr hwn, mae 'n ddiammhau y gwerthir ac y prynir o hono lawer iawn; ac y darllenir ac yr ailadroddir llawer arno. Cafwyd prawf o hyn mewn un ardal yn ddiweddar, yn ymddygiad gwrraig

yr hon oedd bob amser yn lled erwin yn erbyn i ormod o lyfrau ddyfod i'w tŷ hwy, a hyny mae'n debyg am fod yn rhaid i ryw gymaint o'r arian syned allan i gyrchu y llyfrau i fewn. Mae'n debyg nad oedd ganddi nemawr amgyffred am y gwerth o ddiwyllio a choethi y meddwl. Mewn gwirionedd, mae lle i ofni fod llawer o'r rhyw dyner a phrydferth, yn gweled llawer mwy o werth mewn darnau printiedig o galico, i addurno y corff, nag a welant yn y llyfrau goreu er addurno y meddwl. Ond pa fodd bynag yr oedd cymydoges i'r wraig hon wedi cael "Hanes John Evans," ac yn ei ddarllen; gan adrodd darnau iddi hithau. A thrwy hyny gyda ei pharch i Mr. Evans, enny'n odd ynddi fawr awydd cael darllen y llyfr. Ac yr oedd addewid iddi ei gael yn fenthyg mor fuan ag y gallai y wraig arall orphen ei ddarllen. Ond yn y cyfamser daeth rhywun heibio â'r llyfr ar werth ganddo, ac er mor benderfynol yr arferai y wraig fod yn erbyn prynu llyfrau, eto methodd a phedio prynu "Hanes John Evans, New Inn." Fel hyn neu debyg y bydd mewn cannoedd a miloedd o amgylchiadau, yn enwedig fel y delo y llyfr yn fwyfwy hysbys; nis gellir peidio a'i brynu.

Mae amryw o'r haneson yn ddiwrth eu darllen yn creu teimladau cryfion iawn; weithiau o lawenydd, weithiau o dosturi, weithiau o gydymdeimlad, weithiau o ddigrifwch; ac yn fynych hefyd o fodhad neillduol. Nis gallwn roddi yma ond y ddwy ganlynol.

Tudal. 93. "Yr oeddid yn methu yn lan a'i gael i wiago mewn man unwaith; ond yn y cyfamser dyma gysfaill o deiliwr yn gogrynu ei hun i'r ystafell yn gumen iawn, ac yn benderfynol y gallai efe, boed a fyddai, yr hwn a draffodai gymaint o bersonau a gwisgiadau, y gallai efe gwblhau y gorchwyl mewn byr amser. Dechreuwyd gyda 'r hosan, sef ei thynu oddiam y troed—yr oedd y ddwy ar yr un troed, hwy fyddent yn rhy hoff o fod gyda eu gilydd yn fynych iawn; ond yn adeg y tuu, efallai i'r dilladwr anghofio bod teimladau yn nhroed Mr. Evans; ond beth bynag tynodd ei droed ato, ac fe 'i gosododd hi ar ddosbarth gefnol y teiliwr, ac fe roes wth fywiog iddo tua'r drws, ac fe chwarddodd y teiliwr ac yntau yn anwyl; fe wellhaodd gwedy'n yn hollo."

Tudal. 67. "Fe benderfynodd pregethwr yn perthyn i'r Bedyddwyr fyned ryw dro i wrando arno yn bedyddio baban. Wel, cyn dechreu yr oedfa, fe wastraffwyd fel arferol gryn lawer o gyfarchiadau cynhes a chrefyddol. Gofynnodd Mr. Evans i'r gwr dyeithr, bid sicr, 'A welwch chwi fod yn dda i bregethu, *my dear sir?*' 'Na, mae yn well genyf beidio, diolch yn fawr i chwi Mr. Evans bach.' 'Fe fyddai yn dda gan y gynnulleidfa eich gwrando, *my dear sir?*' 'Na, yr wyf wedi dyfod i'ch gwrando chwi, Mr. Evans.' 'Why? a ddechreuwyd chwi y cefnafod yntau?' 'O mi wnaaf un peth ag a allwyf i'ch cynorthwyo chwi, syr.' 'Diolch yn barchus i chwi, *my dear sir.* Wel, ni aawn tua'r capel ynta, y mae y bobl druain gwedi ymgynnull.' Felly dechreuwyd a gorphenwyd. Gwedi hyny awd at yr ordinhad o fedydd; yn y weddi ar y diwedd, erfyniodd Mr. Evans fel hyn:—'Yr wyt yn Dduw parod i faddeu: os ydym ni yny cyflawniad o'r ordinhad werthfawr hon yn dodi rhy fach o ddwfr, maddeu, maddeu, maddeu i ni; ac os ydyw ein brodyr parchus o Ewù arall yn dodi gormod, maddeu, maddeu iddynt hwythau hefyd.' Fe ddywedir fod y gwr parchedig oedd yn gwrando yn dyweyd 'Amen,' 'Amen,' yn ddiarbed, &i ddagau yn llifo dros ei ruddiau.'

CYMRU.

Effaith goleuni ar Iechyd.

Y MAE sirioldeb yn fendith fawr, ac yn gynnyrchydd llawer o rai eraill. Pa fath bynag a fyddo sefyllfa dyn, rhydd gysur iddo. Sirioldeb sydd enw arall ar iechyd; ac anhawdd yw i neb afiach fod yn siriol. Y mae achosion o sirioldeb cystal ag o ddigaloudid. Nid ydym mör fywiog ar ddyddiau gwlawog a niwliog, ag ydym ar ddyddiau heulawg; a goleuni yw un o brif achosion sirioldeb, yr hwn oni bydd yn y tŷ, annhebyg yw y bydd yn y galon.

Nid ystyriwyd y canlyniadau o ddiffyg goleuni yn ddigon da, er eu bod dan sylw yn fynych. A gresyn yw meddwl fod llawer o'r rhai a allant ollwng digon o oleuni i mewn, yn anfoddlawn i gymeryd y drafferth o wneuthur hyny. Gall bod digon o rewm am fod tai mewn ystryroedd culion mewn trefydd yn dywyllion, ond nid oes yr un am fod tai y wlad yn dywyllion hefyd; er hyny y mae llawer o dai mewn lleoedd digon cyflêus, a'u ffenestri yn rhy fychain i ollwng i mewn y ddegfed ran o'r goleuni anghenrheidiol. Ac er fod y gyfraith yn gosod treth ar fwy na saith o ffenestri, nid yw hyn yn un rheswm na byddai eu ffenestri yn ddigon o faint.

Y mae tywyllwch yn gwaethyg y iechyd, ac yn gwneuthur yr ysbyrdoedd yn isel. Y mae goleuni yn angheurheidiol i iechyd a thwf dynion gystal a llysiau. Bydd yr adar yn canu gvda bywiogrwydd neillduol, yr anifeiliaid yn chwareu, a'r gwybed, y rhai na welir ond anfynych ar dywydd cymylog, yn ymddangos wrth y miloedd ar dywyniad cynhae yr haul. Bydd babanod yn troi ato, ac yn dyfod atynt eu hunsin, pan yn groesision, yn ei belydrau. Nid oes ond rhyw liw gwyn purafiach ar lysisau wedi tyfu yn y tywyllwch neu wrth oleu canwyll, ac nid oes ynddynt ond ychydig neu ddim o'r chwys-dyllau arferol, trwy yr hyn eu hanaliuogir i anadlu, ac yr effeithir ar eu blas. Rhagora, ffrwythau Americanaidd lawer ar ffrwythau y wlad hon. Nid ellir dwyn ymlaen rai creftau heb oleuni; lliwir yn well ar ddiwrnod clir nag ar ddiwrnod cymylog. Nid ydyw y bobl sydd yn gweithio mewn lle tywyll ond gweiniaid ac afluニアidd. Ac un achos o ddigalondid a selni ymfudwyr ydyw eisieu goleuni.

Wrth gofio yr effeithiau pwysfawr hyn gallwn amgyfred yn well paham y dylai tai gael eu gwneyd fel ag i ollwng digon o oleuni i mewn; ond fel y mae y gwaethaf, y gwrthwyneb sydd yn ffynu yn fwyaf cyffredin ymhilith gweithwyr y wlad hon. Adroddir hanesyn yn adroddiad cyntaf Dirprwy-aeth Iechyd Trefydd (*The first Report of the Health of Towns' Commission*), am foneddiges ag oedd yn byw mewn heol gul yn Paris, mewn ystafell fechan ar yr hon ni thywynaï yr haul un amser. Yr oedd wedi bod yn afiach am flyneddau; eithr o'r diwedd gorchymynodd ei meddyg iddi symud i le gwell, a hi a wellhaodd yn ebrwydd. Daliwyd sylw hefyd yn Petersburgh, fod y milwyr oedd yn cyfanneddu yn y rhan dywyll o luest a oedd yno yn afiach dair gwaith am un i'r llei. Dywed Mr. Ward, meddyg, Llundain, fod plant wedi eu magu mewn lle tywyll yn fwy analluog i weithio, a bod eu meddyliau yn cael eu syfrdanu hefyd. Sylwa mai po fwyaf o gornelau tywyllion a fydd mewn tŷ, mwyaf o faw a fydd ynddo, a chynghora rai newydd briodi i fyw mewn ystafell y caffont fwyaf o oleuni yr haul, os nad allant gael mwy nag un ystafell; am nad ydyw selni mör drwm mewn ystafell oleu ag un dywyll. Os nad ellir cael goleu yr haul, y mae goleu henthyciol yn well na bod heb ddim. Achoswyd rhan fawr o glefyd yn Liverpool unwaith trwy fod rhai yn byw mewn selerau tywyllion, heb ddim goleu ond a ddeuai heibio y drws. Dylai pawb sydd yn

cadw gweithwyr i ofalu am iddynt fod mewn lle ag y byddo digono oleuni. Gall preswylwyr pob tŷ wellhau rhwaint arno, bydded fel ag y byddo. Pa mor fynych y clywyd y meistriaid yn dywedyd nad edrychay y preswylwyr ar ol y tai os gwellhant hwynt. Ni ddylai hyn fod mewn gwlaid Gristionogol. Y mae yn bur debygol y byddai yn ychydig o lês i'r wladwríaeth, pe dyddy mid treth y goleu, eto y mae tai y gweithwyr yn gyffredin yn rhydd oddiwrthi. Ond pa mor fynych y gwelir ffenestri wedi eu hoelio i fyny, eu topio â hen fratiaw, neu bapyr, y rhai sydd yn gwneyd yr ychydig oleu sydd yn dyfod i mewn yn llai fith. Cyngahorem bawb sydd yn byw yn y fath dai, i dynu ymaith y carpiau a'r papyr, a rhoddi gwydr yn ei le; trwy hyn y deuai niwy o oleuni i mewn, a byddai yn llawn bryd cludo y baw i ffordd, wedi unwaith i'r goleuni ei ddangos. Dywedir os bydd gan ddyn het weddus, ac esgidiau glân, ei fod yn edrych yn foneddigaidd; felly fe edrych ystafell gyffredin yn bur wych os bydd y ffenestri yn lân.

Austin am Duw.

BOD anghysansoddol, anghorfforol ac anweledig ydyw Duw; yn yr hwn nid oes dim yn uwch neu yn is, yn fwy neu yn llai; ond yn y cwbl yn berffaith a chyd-gymesurol, yn fawr heb feintolaeth, yn dda heb raddau, yn drwyadi heb amser. Bywyd heb farwolaeth, nerth heb wendid, gwirionedd heb dwyll, hollbresennol heb gyfwng, yn llenwi pob peth: heb eangiad, yn myned heibio i bob peth heb ysgogiad, yn aros yn mhob lle heb attaliaeth, yn cyfranu i'w holl greaduriaid, heb leihau neu diodi ei lawnder mawr ei hun, yn llywodraethu pob peth heb lafar; heb ddechreuaed, eto yn rhoddi bodolaeth i bob peth; yn gwneyd pob peth yn newidiadwy; eto ei hun yn anghyfnewidiol, yn anfeidrol mewn mawredd, annherfynol mewn gallu, annirnadwy mewn daioni, rhyfeddol yn ei gynggor, helaethlawn mewn trugaredd.

Pedwar mis ymhlieth Mewn-gloddwyr Aur California.

MAE llawer o son y dyddiau hyn am aur California; ac fe roddwn yma ychydig o hanes un a fu yn cloddio am yr aur hwnw: mae efe ei hun yn dyweyd yr hanes, ac fe wyr pawb nad oes dim well na chael dyn profiadol i siarad. Enw y dyn yw J. Tyrwhiths Brooks, M.D. Fe aeth i Oregon i chwilio am waith, ac wedi methu yn ei amcan, fe ymadawodd oddiyno, ac aeth i California, cyn bod dim swn am yr aur. Ond pan glywodd efe am dano, tybiodd fod rhagluniaeth yn trefnu idlo *fortune* ddedwyd: ond er hyn yr oedd y pellder rhyngddo a'r llanerch lle yr oedd yr aur oddeutu 120 o filltiroedd. Mawr oedd y cynhwrf a'r swn oedd trwy yr holl dref pan glywsant y newydd dedwyd am yr aur. Penderfynodd y Doctor a rhai cyfeillion gydag ef, hwyliau tua'r llanerch mor fuan ag y gallent; ond yr oedd y cyfrwywyr (*saddlers*) mor brysur yn hwyliau tua gwlad yr aur eu hunain, fel yr oedd y Doctor yn methu cael cyfrwyau iddo ei hun a'i gyfeillion. O'r diwedd llwyddodd i gael rhai trwy lawer o drafferth a chost. Ac wedi iddynt gychwyn, ymunodd llawer eraill â hwy. Dydd Sabbath, Mehefin 4ydd, oddeutu machlud haul, daethant i olwg yr aur. Yr oedd oddeutu deugain o babellau ar fin yr afon, y rhai a gyfanneddid gan niwyaf gan Americaniad a'u teuluoedd. Er ei bod yn Sabbath, yr oedd

pawb gyda eu gwaith, rhai yn golchi gronynau aur, eraill yn eu gogrynu, &c. Mae yn anhawdd dychymygu pa fath feddylddrychau a letyeut yn meddwl y Doctor y pryd hyn. Garw yw dywedyd, er ei bod yn Sabbath, ac er ei fod wedi trafeilio o godiad hyd fachludiad haul, ac er fod yn bryd iddo ddyweyd ei bader a myned i'w wely, eto, tarawodd ati i weithio yn ddioedi gyda chalondid neiliduol.

Boreu dranoeth, dechreuant arni o ddifrif; ond yr oedd dau o'r cefylau wedi dianc, a gorfadwyd dyn ieuanc o'r enw Jose i chwilio am danynt. Ar ol ciniaw ddydd Llun yr oedd y Doctor Brooks wedi blino cymaint, fel nad allai weithio dim ychwaneg. Dywedai, "Penderfynasom i orphwys hyd dranoeth; gwir nad all y corff dynol ddal ati i weithio yn dibaid; ac yn wir yr wyf yn credu fod anghenrheirdwyd naturiol am y Sabbath yn orphwysfa oddiwrth waith corfforol." Cyfartaledd eu casgliad oedd oddeutu 16 owns bob un yn y dydd, ac owns yn werth 14 o *ddollars*, 3*p.*). Ni cheid rhaw at gloddio heb 30 o *ddollars*, a chlorian i bwys o yr aur am 15, a phob peth arall yn debyg o ran pris, hyd yn nod cynghor y meddyg. Ei dâl am ei gynghor ydoedd wns o aur; ac fel yr oedd y cyffieriau yn lleihau yr oedd eu prisiau yn codi.

Dydd Llun, Gorphenaf 24, penderfynodd v cwmni symud tua'r gogledd. Yr oedd y daith hono yn un pur ddrud. Cynnygiodd un eu harwain am 65 o *ddollars*, a chael ei fwyd ganddynt hefyd. Cawsant daith pur ffortunus; yr oedd talpiau o aur, mwy nag a gawsant o'r blaen, i'w cael rhwng y creigiau yn rhyddion.

Un bore, aeth tri o honynt allan i hela, ac arhosodd y lleill gyda'u gwaith o gloddio, a chawsant fwy o aur me'n ychydig oriau nag a gawsant mewn unrhyw dau ddiwrnod o'r blaen. Ond yn yr hwyd daeth Indiaid atynt, gan feddwl lladrata eu cyfoeth, ond hwy a'i lladdasant ef yn ebrwydd. Ar ol clywed y swn daeth tyrsa o Indiaid atynt, a bu brwyd rhwngdwynt, yr hwn a ddiwedodd yn nghorchfygiad yr Indiaid. Ond fe gollwyd un o'r tri a aethent allan i hela: aeth rhai o'r cwmni i chwilio am dano, a lladdwyd un ohonynt gan yr Indiaid; ond dychwelodd y colledig yn el mewn diwrnod neu ddau. Yr oedd afiechyd trwm hefyd yn eu plith, a'r ymborth yn brin iawn, ac yr oeddynt mewn dirfawr berygl am eu bywyd; felly yn bur brofedigaethus, tybient bod ganddynt ddigon o aur, a phenderfynasant ddychwelyd i San Francisco. Ar eu ffordd, dacth tyrsa o Indiaid arnynt, y rhai a laddasant un o honynt, ac a ddygasant y rhan fwyaf o'r aur. Rhanwyd y gweddill rhwng y cwmni, a chafodd pob un o honynt 4 pwys a 2 wns. Aeth rhai o honynt ar ol y lladron, ac yr oedd y lleill yn rhy glaf i symud: felly bu llawer o honynt feirw, a chollwyd y lleill. Cariad pob un o honynt ei aur yn ei ddillad, a chysgai âg ef dan ei ben. Cafwyd cyrrf dau neu dri yn yr afon, wedi eu lladd gan y lleill er mwyn yr aur.

Ond daeth rhyw nifer o honynt yn fyw i San Francisco, a dechrenasant ymholi pa ffordd oedd yr oreu i gael gafael yn y lladron oedd wedi eu hyse peilio; ond er eu mawr siomedigaeth, nid oedd yr un swddog gwladol i'w gael, o herwydd aethent i chwilio am yr aur; felly yr oedd pawb wedi myned.

Diweddwyr hanes byr hwn gyda rhan o lythyr y Doctor at ei frawd yn Lloegr, Hydref 11, 1848.

"Meddyliais dri mis yn ol fod fy *fortune* wedi ei gwnneyd i fyny, ac y gallaswn ddychwelyd adref yn perchen cyfoeth mawr. Dim byd yn debyg. Yr oeddwn agos yn y fan pan ddaeth y newydd am yr aur. Gweithiaisiai yn galed, a dyoddefais lawer o flinderau, a diolch i sefyllfa

a flywodraethus y wlad hon, mi a amddifadwyd o'r rhan fwyaf o'm cyfoeth, a rhaid i mi ymroi i weithio megys o newydd pan ddelo hi yn sych eto. Nid oes genyf ddim ond gwerth 1,400 o ddollars o aur erbyn hyn; a chan fod prisau pob peth mor uchel yma, ni cheidw hyny fi fawr dros ddua fis. Mae llawer o rai eraill yr un fath. Fel y mae rhifedi y cloeddwr a'r mwnwyr yn amlhau, y mae lladrad a thrais yn cynnyddu. Pan djaethom at gloddfydd Mormon ar y cyntaf, yr oedd pob peth yn dawel; gweithiai pob dyn iddo ei lun, heb aphonyddu ei gymydog. Yn awr mae yr olygfa wedi newid yn fawr. Pan oeddwn yno ddiweddaf yr oedd pethau yn ddigon drwg: ond yn awr, ar ol yr adroddiadau yr ydym yn clywed, ni all un dyn a wbyddir ei fod yn berchen llawer o aur, ddywedyd, pan fyddo yn gorwedd y nos, y caiff byth gyfodi oddiar ei obenydd."

Oddiwrth yr hanesion hyn gall trigolion ein gwlaid ni gael gwers dda. Gallant weled y mawr ynsfydrwydd o ymfudo tuag yno er mwyn yr aur. Yr oedd Doctor Brooks o fewn ychydig filltiroedd i'r fan lle yr oedd digon o aur i brynu ymherdraeth: lledodd ei ddwylaw, a llosgodd ei fysedd. Ddarllenyydd, bydd fodlawn i'th sefyllfa, ac ym'öa i weithio; wrth hyny cei gysur ac arian ar unwaith.

Duw yn bendithio cynghor.

CAWN anghraift neillduol o hyn, yn hanes yr Arglwyddes Huntingdon. Dywedir i'r arioi pherthynasau fyned o gywreinrwydd i wrandaw Whitfieldia'i gyfeillion yn efengylu "anchwiliadwy olud Crist," ond er mai cywreinrwydd a'u dygodd i wrandaw—i gael clywed y pregethwr newydd, ag oedd yn aphonydd y wlad—yr oedd gan Duw fwriad arall mewn golwg, sef, yniweled â hwy yn ei ras a'u hachub i fywyd tragediwyddol. Y gyntaf o honynnt a duedwyd i dderbyn Crist, oedd y foneddiges Margaret Hastings, ac nid hir y bu y cyfnewidiad a weithredwyd arni, heb ddyfod yn amlwg; canys petb i'w weled yw gras Duw. Mor fuan ag y goleuwyd hi am ei chyflwr colledig a damniol wrth natur, daeth sefyllfa druenus ei theulu a'i chyd-greaduriaid i wasgu ar ei meddwl, ac ymosododd yn ddioed ar y gorchwyl o gynghori ei theulu a'i pherthynasau "i ffroi rhag y llid a fydd;" a bu ei chynghorion yn fenditholi lawer, yn enwedig i'r arglwyddes grybwylledig. Yr hyn a effeithiodd fwyaf ar ei meddwl, ydodedd yr ymadrodd hwnnw a ddywedodd y foneddiges Margaret, sef, "er pan adnabyddais yr Arglwydd Iesu, ac y credais ynddo am fywyd ac iachawdwriaeth, yr wyf mor ddedwydd ag angel." Teimlodd yr arglwyddes ei bod hi yn hollol ddyeithr i'r fath deimlaiddedwydd, dygodd hyn hi i drallod dwys am ei sefyllfa dragwyddol; ceisiodd ddyfod yn gymeradwy gyda Duw trwy ei gweithredoedd ei hun, ond po fwyaf yr ymdrechmai, mwyaf yn y byd y teimlai yr anmhosibl rwyddy sydd i bechadur ddyfod yn gymeradwy gyda Duw trwy ei haeddiant ei hun. Yn y cyfamser, cafodd gystudd trwm, yr hwn a'i dygodd yn agos i'r bedd, ac yn ei chystudd yr oedd ei hargyhoeddiadau yn parhau, yr oedd mewn dygn drallod am sefyllfa ei henaid anfarwol, teimlai mai "bratiau budron oedd ei holl gyflawnderau," a'i bod yn haeddu bod dan lid Duw am byth; ond pan ar lewygu mewn ofn ac anobaith, daeth geiriau ei chyfeilles i'w chof, a theimlodd dueedd gref i ymorphwys ar haeddiant augeu'r groes am ei bywyd. Yn y fân llewyrchodd Haul Cyflawnder ar ei henaid, a phrofodd dangnefedd yn ei mynwes wrth bwys o ar ei aberth ef. Yma gweilwn nad oedd ganddi, yn ei phalas gorwych, ddim i bwys o arno am ei bywyd, ond

yr un sylfaen a'r tlawd yn ei fwthyn, sef yr aberth mawr fu ar y groes. Yma y gwelir mai gwraig a fu yn offeryn i ddychwelyd un o'r ser dysgleiriaf yn eglwys Crist, yn y ddeunawfed ganrif ar bymtheg. Onid yw hyn yn annogaeth iddynt fod yn ffyddlon i gynghori eu teuluoedd a'u cyfeillion eto. Diau y bydd esiampl y foneddiges uchod a'i chyffelyb, yn condemnio llawer ag sydd yn byw yn ddigon tawel gyda pherthynasau aauwiol, heb eu cynghori bob dydd tra y gelwir hi heddyw.

Vestry *Flyneddol y Trefnyddion Calfinaidd yn Remsen.* 1849.

CYNNALIWYD eu cyfarfod blyneddol gan Drefnyddion Calfinaidd dosparth Ogledol swydd Oneida, eleni fel arferol, yn Nghapel Ceryg Remsen, Chwef. 18eg. Dechreuwyd trwy ddarllen yr ysgrythr a gweddi gan yr hen dad ffyddlon Lewis Lewis. Yna dewiswyd, Mr. James Owen hyn. yn llywydd; Mr. John S. Williams, Is-lywydd; Mr. John Edmunds, a Mr. G.O. Jones, arolygwyr yr etholiadau; Mr. O. J. Owen, ysgrifenydd.

Wedi hyny dewiswyd John Edwards, Floyd, Jenkin Jones, Enlli, a Hugh Michael, Remsen, yn ymddiriedolwyr o'r dosparth ieuargaf, y rhai ydynt i barhau yn eu swydd am y tair blynedd dilynol; i gydweithredu âg Owen O. Owens, Griffith E. Griffiths ac Evan Parry, o'r dosparth hynaf, hyd Chwef. 1850, ac â Griffith R. Williams, James Owen, ieu., a Thomas U. Jones, o'r dosparth canol, hyd 1851.

Dewiswyd trwy bleidlais John S. Williams, Hugh Hughes a Robert G. Jones, i adolygu adeiladau y cyfundeb.

Dewiswyd yn yr un modd Isaac Pierce, Nant, Evan Parry, Hebron, Robert G. Jones, Pen-y-graig, Jenkin Jones, Enlli, a John W. Prichard, Pen-y-caerau, i adolygu y claddfeydd.

Penderfynwyd yn unfrydol, fod Mr. James Owen, hynaf, i barhau yn drysorydd.

Penderfynwyd fod i'r ysgrifenydd anfon hanes o weithrediadau y cyfarfod i'r "Cyfaill o'r Hen Wlad;" a'n bod yn cydnabod yn ddiolchgar y cyhoeddiad hwnnw am ei ffyddlondeb yn gwasanaethu ein cenedl, a'n bod gyda thaerineb yn cymhell y Cymry yn America yn gyffredinol i'w dderbyn a'i bleidio.

Penderfynwyd, fod y cyfarfod yn ymehirio, hyd yr ail ddydd Mawrth yn Chwefror, 1850, pryd y'i cynnelir yn yr un lle.

Hanesion.

PRAWF A CHOLLFARNIAD RUSH.—Mae y prawf hwn, a gymerodd le yn Norwich, ger bron y Barwn Rolfe, wedi peri mwy o gynhyrfiad drwy y deyrnas nag a wnaeth unrhyw brawf arall er's blyneddau meithion. Gan y rhoddywyd ger bron ein darllenwyr o'r blaen, hanes byr o'r llofruddiaethau dychrynllyd a gyflawnwyd yn Staufield Hall, gan yr adyn ysgeler hwn, ni ail adroddwn hwynt. Parhaodd y prawf am wytynos, amddiffynodd Rush ei hunan yn y fath fodd ag i wneyd ei hun yn fwy adgas gan bawb oedd yn wyddfodol. Sylwedd y barnwr yn neiliduol ar dystiolaeth Emily Sandford, boneddiges ieuanc oedd yn cydfyw â Rush, heb briodi, yr hon a dwyllodd trwy addaw ei phriodi. Dywedai y barnwr wrth gyhoeddi y

ddedfryd, "pe buasech wedi cyflawni eich addewid i'r eneth anhapus hono, efallai y gallasai y gyfraith, yr hon sydd yn selio gwefasau y wraig mewn unrhyw erlyniad yn erbyn ei gŵr, adael i'ch trosedd chwirthau dianc yn ddigobos."

TEITHIO SABBOTHOL AR Y RHEILFFYRDD.—Mae mesur wedi ei ddarllen o flaen Tŷ y Cyffredin a'i basio y tro cyntaf, i agor y rheilffyrdd ar y Sabbath i *bassengers*. Un neu ddau o gerbydau, medd y cynnygiwr, Mr. Lock, y dymunai weled yn rhedeg. Onid yw un neu ddau yn drosedd o'r Sabbath yn gystal a chant?

BAPTIST NOEL.—Mae y gŵr enwog hwn wedi bod yn pregethu amryw weithiau yn eglwys Dr. Hamilton, yr hwn, fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, sydd yn Bresbyterian.

YMADAWIAD ARALL A'R EGLWYS.—Mae y Parch. J. Dodson dan ddyllanwad ymresymiadau ac esiampl Mr. Noel, wedi dyfod allan o Babilon, gan wneyd aberth o fywiolaeth a ddygai iddo 650*p.* yn flynyddol, ynghyd â ffafri llawer o uchelwyr oedd yn cyeillion iddo o'r blaen.

CARCHARU AM BREGETHU.—Mae y Parch. J. Shone yn awr yn gor-wedd yn y carchar, wedi ei roddi yno gan Esgob Exeter, am bregethu yn ei esgobaeth, ar ol ymneillduo o'r Eglwys Sefydledig. Mae y weithred ysgeler hon yn creu teimlad cryf trwy y deyrnas. Canlyniad naturiol cynnydd Puseyaeth yn yr Eglwys ydyw hyn. Mae mesur o flaen Tŷ y Cyffredin i ddi-feddianu yr esgobion o'r gallu hwn, trwy ddyddymu y ddeddf erlidigaethus. Gan fod yr hen ysbyrd i frathu yn ail ddeftro yn ein gwlad, y mae yn llawn bryd tori yr hen giiddaint creulawn fu yn malu cynnifer o'r Puritaniaid.

Y Senedd.

ER pan ysgrifenasom o'r blaen y mae dadl wedi bod mewn perthynas i ddyddymiad y Dreth Eglwys. Eglwyswr zelog a ddygodd y cynnygiad ymlaen, a chefnogwyd ef gan eraill mor zelog ag yntau dros yr Eglwys Sefydledig, y rhai a hónent fod arnynt gywilydd fod Ymneillduwyr yn cael eu gorfodi trwy rym cleddyf i gynnal eu heglwys hwy. Proffesai pawb eu bod dros eu dyddymu, ond yr anhawsder oedd, i ddyfeisio rhyw ffordd arall i'w gwneyd i fynu. Dygwyd cynnygiad ger bron i'w rhyddhan o'r dyryswh mawr hwn, a hyny trwy i bawb sydd yn myned i'r egliwys dalu eu cyfran at gostau yr eglwys, fel y gwna y rhai sydd yn myned i'r capelydd dalu eu cyfran at gostau y capelydd. Ond yr oedd dau wrthdadl yn erbyn y cynnygiad hwn, Yn gyntaf, yr oedd yn rhy sylawn, a chymeryd Syr Robert Peel yn farnwr, yr hwn a ddywedai ar ol hyny mai gwyrthi bron ydyw i ddimm da ddyfod o Dŷ y Cyffredin; ac yn ail, a sylwed y darllen-ydd ar y fwyd fawr sydd gan flaeioriaid a deddfwyr yr eglwys yn eu dysgyblion,—pe rhyddhaent yr Ymneillduwyr oddiwrth y dreth eglwys, a'i gadael yn unig ar y rhai sydd yn mwynhau manteision yr eglwys, fod arnynt ofn mai i'r capelydd yr a'i bron baeb er mwyn cael dianc rhag y dreth. Nid rhyfedd eu bod yn gweled anghen am fraich cyfraith i gynnal eu heglwys, gan fod ei deliaid, yn ol barn gweinidogion y llywodraeth, yn baod i'w bradychu am lai nag y bradychodd Judas ein Harglwydd.

Y GEINIOGWERTH.

"Ffair y gwagedd."

Y MAE teyrnas pechod yr un yn mhob oes o'i byd ; ond y mae ei ffurfau gweledig yn newid, ac y mae yn ddyledswydd ar wylied-yddion Sion sylwi ar ei holl ysgogiadau, a'u gwirthwynebu yn eu tarddiad cyntaf. Nid yn yr un ffurf y mae heddyw ag ydoe id yn y ganrif ddiweddaf, ond yn mhob ffurf y mae yn wrthryfel yn erbyn awdurdod Duw, ac yn ddinystr i ddedwyddwch a heidwch dyn. Bu teyrnas pechod mewn rhwysg mawr yn Nghymru ; ei chyfarfodydd a'i hordinhadau yn llosog, megys gwylmabsantau, nosweithiau llawen, cwrw elusen, a chwarcyddiaethau ar y Sabboth. Cofus yw genyf glywed yr hen Ismael Jones, yn dywedyd, ei fod ef yn un o'r *salmwyr* ; ac wedi darfod y gwasanaeth fod y gweinidog a hwythau yn mynei i'r dafarn, ac oddi yno, yn offeiriad a phobl, at dalcen y llan i chwareu y bêl. Yr oedd hwn yn amser ag yr oedd teyrnas pechod yn ei gwedd hagraf, yn cael ei noddi gan weinidogion crefydd, ac eto fe'i cyfrifir gan rai a adweinir genyf yn amser da ar grefydd yr eglwys.

Ond erbyn heddyw y mae y gwylmabsantau wedi eu hanghofio, y mae campau ar ddydd Duw wedi darfod, ac eto y mae teyrnas pechod mewn bod, ac y mae ganddi ei ffurf, a'i chynnnulliadau, a'i chyfarfod-fanau llygredig ; ac fe ddylai pob un sydd a gradd o ofal am ei enw da ddywedyd, "na ddeled fy enaid i'w cyfrinach hwynt." Y mae llawer lle yn deilwng o gael ei alw yn eisteddfa y gwatwarwyr heb law tai y diodydd meddwol, ac y mae y cyrchu sydd i'r cyfryw leoedd yn brawf fod y meddwl yn wag o rinwedd, a bod y chwaeth yn dra llygredig ac isel. Y mae *shop* y crydd a'r gôf yn gyrchfan lliaws mawr mewn rhai ardaloedd; yno y mae "ymddyddanion drwg yn llygru moesau da,"—yno y mae'r pethau mwyaf dirrifol yn destunau cellwair a gwawd—yno y mae pob chwedlau aflan yn cael eu hadrodd, nes gosod troell natur llygredig yn flam ; ac oddi yno y bydd llanciau y gymydogaeth yn gwasgaru, a'u calon wedi gwresogi fel ffwrn, yn barod i gyflawni pechodau fydd yn warth arnynt am eu hoes, ie, yn gywilydd na ddiléir. Gall llawer gŵr ieuanc gobeithiol briodoli cychwyniad ei ddinystr i'r cynnulliadau a nodwyd. Pa fath gyfrif ofnadwy fydd gan berchenogion y cyfryw leoedd i'w roi ? Pa fath gyfarfod dychrynllyd fydd rhyngddynt a'r rhai a halogwyd o dan eu cronglwyd ! Priodol y gellir dywedyd am lawer lle y mae yr ieuanc a'r anwyliadwrus yn cyrchu iddo, Mor ofnadwy yw'r lle hwn, nid oes yma onid tŷ i ddiabol, a dyma borth usfern."

Cyrchfan lliaws mawr yw y *feiriau*. Y mae feiriau yn anghenrheidiol er cario masnach ymlaen ; ond fel y maent yn gyrchfan ys-gym y genedl, y maent yn dra llygredig, ac yn ddrych o agwedd foesol miloedd o ieuactid, ac fe ddylai rhieni a phenau teuluoedd
MEH EF IN, 1849.]

arfer eu hawdurdod ar y rhai sydd tan eu gofal, er eu hattal i ffeiriau, os na bydd ganddynt neges ag y bydd yn anmhosibl ei gwneyd amser arall, ac nid gothrymder yw attal un i le ag y bydd mewn perygl o gael niwed, ond gweithred o gariad a chymwynas : eto y mae llawer o ríeni yn euog o fagu yn eu plant awydd am fyned i ffeiriau ; addawant anrhieg iddynt o'r ffair, addawant y caint fyned i'r ffair os gwnant hyn neu arall, a thrwy hyn y maent yn magu cred yn eu plant mai y ffair yw y lle hoffusaf yn y byd ; ac erbyn y byddant yn abl i gerdded y mae awydd am fyned i'r ffair yn anwrthwynebol ; byddai eu rhwystro yn ddinystrar heddwch y teulu ; ac y mae goddef iddynt fyned yn tueddu at eu llygru, a'u harwain i ddystryw ; canys yno y mae eu meddwl mewn perygl o gael ei halogi & chaniadau masw ac afian ; yno, efallai, y clywant lwon a rheg-feydd am y waith gyntaf ; ac y mae y pethau hyn yn aros yn y cof, yn cael eu troi yn y myfyrdodau, ac yn gwreiddio yn nheimladau y galon, ac yn ffurfio eu delw ar yr enaid—ac ymddyddanion parchus y rhieni am y ffair a fu yn achlysur i hyn oll. Y mae rhai ardaloedd yn arllwys eu cynnwys, yn wyr a gwragedd, yn feibion ac yn ferched, i'r ffeiriau. Y mae yn rhaid i'r gwr, a'r wraig, a dau neu dri o'r plant fyned, os bydd ganddynt fochyn i'w werthu. Cás beth gan ysgrifenydd hyn o linellau, yw gweled gwraig yn gwerthu moch a gwartheg, a gweled gwyr uwch ben y fasgedaid fenyn ; ac y mae yn gorfol barnu pan diwyllir y meddwl, y bydd pob un o'r rhywiau yn adnabod eu lle yn well.

Y mae yr awydd sydd mewn merched a gwragedd am fyned i ffeiriau yn brawf fod eu meddwl heb ei amaethu yn dda, a bod rhywbeth anwaraidd yn para yn agwedd eu meddwl : y mae fod cymaint o ferched yn myned i edrych ar ddienyddio un yn brawf eu bod yn farbaraidd. Y mae gwraig lawer iawn yn brydferthach gartref, ac yn yr addoliad, nag yn y ffair ; eto y mae yn rhaid i lawer fyned pe b'ai y neges mor fechan a *rhes o binau*; y mae clefyd y ffair yn eu calonau ac y mae hyn yn cael argraff ddrwg ar y plant—y maent hwythau yn cael y clefyd. Y mae yr olwg ar y lliaws yn y ffeiriau yn ddigon i gyffroi ysbryd un ynddo. Meibion a merched wedi ymddriwsio yn eu gwisgoedd goreu, yn gwibio yn ol ac ymlaen, yn llygadrythu ar bob peth, yn llusgo eu gilydd, yn dywedyd pob oferedd ; bryd arall yn sefyll yn llu o amgylch rhyw hen faledwr, i wrandaw arno yn canu gwagedd, a hwythau yn chwerthin fel ynfydion ; gellid casglu wrth edrych arnynt fod rhyw wallgodf y wedi arllwys ei gynnwys, neu fod rhyw lwyth o Indiaid gwyaion Cymreig wedi tirio yn y fre ! Trwy fy mod wedi cyfanneddu y rhan fwys o'm hoes yn y wlad, bydd yn ddrwg genyf glywed pobl y dref yn dywedyd "ffyliaid o'r wlad yw y rhai'n." Y mae rhai meibion fel meirch porthiannus, yn anifeilaidd eu hymddygiadau ; y mae'r rhesymol wedi ei golli, yr anisel sydd yn y golwg. Gellid gofyn yn iaith y bardd

" Al dyn ydwyt eneidiawl ? "

Ai creadur rhesymol yw hwn ? y mae fel creadur diddeddf i bawb. Gellid darllen yn ei wedd mai mab i Belial yw; y mae yn dangos ei

hun yn ynfyd yngŵydd y dyrfa. Taerai J— mai *monkey* heb gynffon oedd un bachgen a welai trwy y ffenestr.

Y mae llawer iawn o'r rhyw fenywaidd hefyd yn anghofio y gwylder sydd yn gwedu iddynt. Y mae llawer merch sydd yn wyladd gartref, yn gwisgo ymddygiad puten yn y ffair. Y mae yn rhodio y farchnad wedi ymdrwsio, &c., gan gymhell rhywun i gynnyg arni; ond os gall drwy hyn ennill sylw *fwl*, y mae pob llanc call yn ei ffieiddio. Gwelir ar brydiau ddwy neu dair, neu ragor, yn ymaflyd yn mrechbau eu gilydd; ac ni throant o ffordd neb, ac yn yr agwedd hon y gwibiant am oriau. Gwelir hwy weithiau âg wyneb digywilydd yn ymaflyd mewn meibion: ar ol hir gyfarfod a chynllwyn, y maent yn cymeryd gafael ac yn denu: ac y mae y gair ar led fod ambell i ferch eto yn dra hoff o gael ei chymhell i'r dafarn, ac yr yf y gwydrad, gan wasgu ei mant, a dywedyd, "y mae yn bur *nice, my dear.*" Gwyn fyd na b'ai "ysbryd Twm o'r Nant" yn cyfansoddi cerdd i'r fath. Y mae yn olwg trwm gweled genethod prydferth yn darostwng eu hunain i'r fath raddau, yn gosod eu hunain yn agored i'r fath demtasiynau, ac yn rhoi eu hunain yn wrthdrychau gwawd i lanciau diegwyddor, a phlant y trefydd. Tybiwyf y cywilyddia llawer llances, pe deallai beth y mae hen wr o'm cydnabod yn ei ddyweddyd am y merched sydd yn cerdded y ffeiriau. Gobeithiaf y bydd y sylwadau hyn yn foddion i beri i lawer gwraig a merch warchod gartref, rhag y daw ysbîwyr eto i roi hanes i'r Seison am ferched Cymru yn y ffeiriau. Nid oes nemawr o bethau wedi gofio mwy ar ysgrifenydd y llinellau hyn yn y deuddeng mlynedd diweddaf nag agwedd ieuencyd yn y ffeiriau. Y mae yn anmhosibl casglu yn yr olwg arnynt eu bod wedi gweled Bibl erioed, na chlywed pregeth yn eu hoes; y maent yn dangos fod addysg foesol yn isel iawn yn y teuluoedd, a bed llywodraeth yn holol ar goll. Y mae eu hymddygiadau yn warth i'r rhai a'u magodd, ac yn ffurfio yn meddwl y synwyrol a'r rhinweddol ddirmyg tuag atynt hwythau. Y mae llawer yn barod i ofyn wrth edrych ar eu hymddygiadau, Pwy genedloedd y ffliaid? Pwy fagodd y gwallgoiaid? Yn nhai pwy y mae yr ynfydion yn byw? Beth y mae dysgawdwyr y genedl, yn bregethwyr, ac yn athrawon, yn ei gylch? Yn mha le mae ol bysedd olynwyr yr apostolion, sydd yn aileni pawb wrth eu bedyddio.

Rhieni a phenau teuluoedd! y mae ar cich llaw chwi wellau agwedd foesol y wlad yn y peth a nodwyd. Gofaled rhieni ddysgu eu plant yn dda, nid yn unig mewn athrawiaethau ond mewn moesau;—magwch ynddynt gariad at yr hyn sydd hardd, a rhinweddol, a gochelwch rhag magu ynddynt awydd at yr hyn a all fod yn ddinystr iddynt. Yn lle addaw tegan o'r ffair, addewch, pan y cewch gyfleusdra, y prynwch lyfr da iddynt; ac yn hytrach nag addaw y caint fyned i'r ffair, addewch y caint fyned i gymanfa, ac y caint fyned i'r ysgol nes y byddant yr ysgolêigion goreu yn y gymydogaeth. Byddai hyn yn debyg iawn o newid archwaeth ac ymddygiadau yr oes sydd yn codi. Y mae'r miloedd segurwyr sydd yn y ffeiriau, yn seibion ac yn ferched, yn perthyn i deuluoedd; ac

fe ddylai pob gŵr lywodraethu ei dŷ ei hun yn dda ; ac y mae y pechodaau a gyflawnir gan y teulu, os oedd yn ngallu y pen eu hat-tal, yn cael eu cyfrif iddo ef : 1 Sam. iii. 11—14. Benau teuluoedd, yr ydych mewn lle pwysig—fe fydd eich cyfrif yn fawr. Deffrowch i gyflawni eich dyledswyddau at y rhai sydd dan eich gofal. Y mae yn anhawdd dysgwyl diwygiad cyffredinol mewn moesau hyd oni ddeffroi'r penau teuluoedd i lanhâu eu tai. Dygwch eich teuluoedd tan gyfammod i beidio myned i ffeiriau heb neges anmhosibl ei chyflawni amser arall ; ac os ânt ar ryw neges, fod yn rhaid iddynt ddyfod adref ar awr benodol. Y mae anrhyydedd eich teuluoedd, eich gwlaid, a'ch cre'ydd, yn gofyn hyn ;—y mae gair Duw yn eich rhwymo i wneuthur hyn, ac fe ofyna Duw waed eich plant a'ch gwasanaeth-ddynion oddiar eich llaw, os esgeuluswch hyn. Y mae afreolaeth y ffeiriau yn beth ag y gall rhoeni a phenau teuluoedd ei wellâu. Ymgewch at eich gwaith, rhag i Dduw gymeryd y gorchwyl o farstu eich tai. Ieuencyd hawddgar, od oes genych ronyn o gariad at eich gwlaid a'ch cenedl, ymgewch o bob cyn-nulliadau llygredig. Y mae ein nodwedd yn hynod o ddu a gwarthus yn “Adroddiadau y Dirprwywyr,” (yr oeddwn yn bwriadu dyfynu rhanau o honyn, ond yr wyf wedi myned yn rhy faith), a'r hyn sydd yn ein lladd yw fod ynddynt ormod o wirionedd. Od oes ynoch ronyn o barch i Grist a'i grefydd, ymroddwch i wellâu eich moesau. Fe fydd anrhyydedd Crist yn gofyn iddo wadu pob perthlynas a miloedd o'r Cymru ar g'oedd ei ymherodraeth yn nydd y farn. Od oes genych ronyn o ofal am eich enw da, peidiwch a myned i ffeiriau heb neges nas gellir ei hoedi hyd dranoeth ; os nad ydych am demtio y diafol i'ch temtio, aroswch gartref. Y mae y duwiol Matthew Henry yn dywedyd, fod rhoianwyr segur yn gofyn i Satan am ryw waith drosto,—y segur yw ysglyfaeth y llew rhuadwy.

Y mae rhai trwy gyrchu yn fynych i ffeiriau heb neges wedi myned yn feddwon, eraill yn lladron, ac eraill wedi eu baeddu mewn gwarth er eu bod yn ymlwybro ar hyd y ddaear ; y mae rhai o flaen fy meddwl wrth ysgrifenu y pethau hyn : gochelwch, bobl ieuanc, gerdded eu llwybrau. Ferched ieuainc, od oes genych ofal am eich parch a'ch diweirdeb, peidiwch a myned i rodiana yu y ffeiriau. Fe gollodd llawer merch ieuanc, ar ol Dinah, y peth nesaf i'w bywyd trwy rodiana,—fe gollodd goron nad oedd yn ngallu edifeirwch na mai deuant ei gosod yn ol ar ei phen. Ystyriwch y gellwch mewn un awr anwyliadwrus dynu arnoch eich hunain warth na ddiléir. Ystyriwch, bobl ieuanc, y bydd diwrnod gwammal y ffair yn ddiwrnod i roddi cyfrif am dano—y mae agweddu ansanctaidd, a'r geiriau segur yn cael eu hysgrifenu yn llyfr barnau dirgeloedd dynion! Pa fath olwg fydd genych arnynt pan yn gorfod ail fyned trostynt? Ystyriwch y gellwch farw ddiwrnod y ffair ; fe fydd miloedd feirw y diwrnod hwnw, a pha sicrwydd sydd genych chwithsu na byddwch yn gorfod myned o ganol gwyltineb a gwammaldod y ffair, i fyd ag y mae difrifoldeb tragicwyddol yn teyrnasu yn mhob mynwes. Ystyriwch yn awr yn bwyllus, a garech chwi fyned o ganol gwagedd y ffair i bresennoldeb Duw i roddi cyfrif o'ch gweithredoedd.

O ieuencyd Cymru! peidiwch a rhedeg ar eich cythlwng i drueni, peidiwch a myned i gynnulliadau fydd yn sicr o'ch llygru. Dywedwch, er mwyn ein henw da, ni a lanhawn ein llwybrau; er mwyn ein dedwyddwch amserol a thragywyddol, ni ymgadwn rhag llwybrau yr yspail ydd; er mwyn anrhhydedd ein cenedl, ni a wellawn ein ffyrdd. Y mae ysgrifenydd hyn o linellau yn dywedyd o'i galon, Amen.

Llanfair.

R. JONES.

Heddwch.

FY ANWYL FRAWD L——,

Meddylwyf na byddai cyfres o lythyrau annibynol ar achosion teuluaid yn annerbynol genyt, a hyny mor aml ag y canista amser i ysgrifiaw.

Pwnc y dyddiau presennol ydyw *sefydliad heddwch yn y byd* heb gymhorth gwyr arfog. Byddaf yn gorfod synu wrth ystyried can leied o ysbryd Cristionogaidd sydd yn y byd, hyd yn nod yn y gwledydd lle y professir hyny ynddynt. Os bydd rhyw gweryl bach rhwng dwy wlad, er bod enw Cristionogol arnynt, anfonir y tānddrylliau, y peli cymysgedig, y fidog, a'r cleddyf, i benderfynu y ddadl,—dyma yw llygad am lygad, a dant am ddant; ond fe ddywed Crist, “cerwch eich gelynion.” Y modd i garu gelynion yn y pwnc yma, ydyw penderfynu y ddadl trwy farn. Bum yn ddiweddgar mewn cyfarfod, yn yr hwn yr arddangoswyd gwrthuni, cig-ydd-dra, a barbarbeidd-dra rhyfel, yn ei lun priodol ei hun; ac ni allaf ymattal ar hyn heb fynegi i tit hau yr hyn wyl yn ei gofio o'r feithiau a'r cyfrifon a ddygid ymlaen gan un o athrylithyddion yr oes. Desgrifiai gadw byddin mewn amser o heddwch yn y geiriau cynnwysfawr a ganlyn:—“Tangnafedd arfog—tegwch tymhestlog, haul-dywyniad tywyll, ewyllys da maleisddrwg, ysgerbwld hyw. Mae rhyfel pan ei cymherir âg egwyddorion Cristionogaeth, dyn-garwch, a synwyr cyffredin, yn anghydfurfiaid o'r mwyaf a'r cyfriw, ac y mae y moddion y dygwyd rhyfeloedd ymlaen er ys dau cant o flyneddau, yn anghydfurfiaid o'r un natur, ac yn groes i'r un egwyddorion. Ymhliith cenedloedd barbaridd telir eu costau lladdol yn eu hamser; er ys rhai caenoedd o flyneddau yn ol, yr ydoedd cenedloedd Ewrop bron yn ddibaid yn rhwfela â'u gilydd; er hynny, telid y costau o flwyddyn i flwyacyn, a gadawyd y ddyfais o wystlo diwydrwvdd milivnau cyn eu geni, a chadw byddinoedd sefydlog i oesoedd gwareiddiach. Nid ydyw y naill na'r llall yn Myrdala uwchlâu dau cant o flwyddau o oedran, ac y mae amheuaeth a oeddynt mewn bod yn foreuach ymhliith cenedloedd eraill. Gadawodd ein cyndadau yn gynnysgaeth i'r oes bresennol swm anferth i'w dalu: yr yloedd y swm yn y flwyddyn 1815 (ac y mae yn aros heb ei dalu eto) uwchlâu dwy fil o filiynau o bunnoeda. Nis gall llog blyneddol, a thraul casglu a thalu y cyfryw fod islaw

can' miliwn o bunnoedd! yr hyn sydd ddwywaith yn fwy nag ardreh flyneddol Brydain Fawr a'r Iwerddon, yr hyn yn y flwyddyn 1840 a gyfrifwyd yn 47,000,000*p.* (saith a deugain o filiynau); byddai y swm anferth a nodwyd yn ddigon i lyncu ennilliant wth gant a deugain o filiynau o bunnoedd yn ol 12*p.* 10*s.* y cant. Mae llongwriaeth y byd gwaraid yn cael ei gyfrif yn naw miliwn o dunelli (*burthen*): canolwerth llong newydd pan yn barotöedig i'r mör, ydyw 11*p.* y dunell; felly pe byddai holl longau y byd gwaraid yn newydd a pharotöedig i'r mör yn bresennol, ni byddai hyny ond naw deg a naw o filiynau o bunnoedd, sef un filiwn llai nag a delir gan drigolion bröydd Cristionogol yn llog blyneddol ar y dyledion rhyfel y rhedwyd iddynt cyn eu geni. Mae awdwyr mwyaf credadwy Ewrop yn cyttuno nad yw traul blyneddol parotoadau i ryfel yn Ewrop a'r America yn ddim islaw dau can' miliwn o bunnoedd. Llyncai hyn yn llwyr ennilliant un fil a chwe' chant o filiynau yn ol 12*p.* 10*s.* Mae hyna yn swm uwchlaw yr hyn sydd allan mewn masnach a chelfyddyd yn yr holl fyd. Mae cenedloedd Ewrop yn talu bob dydd, er porotoi i ryfel, pum cant a thriugain o filoedd o bunnoedd; maent yn talu am bregethu yr efengyl 1,640*p.* (un fil chwe' chant a deugain), neu un bunt i barotoi rhyfel am un ddimasi a delir am bregethu yr efengyl!

Onid yw yn ddychrynllyd meddwl fod cenedloedd Ewrop a'r America yn gorfol talu bob blwyddyn am ryfleoedd mynedol a dyfodol dri chan' miliwn o bunnoedd: byddai hyn yn ddigon i gynnal miliwn o wenidogion yr efengyl, a 300*p.* yn y flwyddyn o gyflog i bob un, a phob cynnulleidfa yn fil o nifer,—hyfforddied deg can' miliwn o drigolion, sef dau can' miliwn uwchlaw poblogaeth y byd.

Mae Prydain yn dwyn ei rhan, a rhan go fawr o'r swm a'r baich anferth hwn. Mae y tangnefedd arfog wedi costio iddi o'r flwyddyn 1815 hyd y flwyddyn 1845, bum cant a thri o filiynau pedwar cant a naw o filoedd o bunnoedd, yr hyn sydd am ddeg ar hugain o flyneddau yn wariant blyneddol o un filiwn ar bymtheg dau gant a dsu a phedair a deugain o filoedd o bunnoedd; o'r flwyddyn 1845 mae wedi cynnyddu yn raddol, fel yr oedd yr hyn a werid i gynnal y fyddin y flwyddyn ddiweddaf yn ddeunaw miliwn a hanner o bunnoedd! Dywedir fod yn Mhrydain 700,000 o lafurwyr amaethyddol, canolgyfrif cyflog p*t* rai ydyw 10*s.* yr wythnos, yr hyn mewn blwyddyn a fyddai yn 18,200,000*p.* (deunaw miliwn a dau cant o filoedd), sef 300,000*p.* (tri chan mil), llai nag a dalwyd y flwyddyn ddiweddaf i gadw i fynu dangnefedd arfog y wlad hon,—cymhwysen 18,500,000 (deunaw miliwn a phum can' mil) at amser, bydd yn 2,000 (dwy fil) bob awr, ac am bob tarawiad o'r *pulse* y mae hanner penadur yn myned at y tangnefedd arfog a nodwyd. Pe byddai y swm dirfawr yn geiniogau, a thunell o'r ceiniogau yn cael eu rhoddi mewn certwyn un cefyl, a phymtheg troedfedd o dir i'r gertwyn a'r cefyl sefyll arno, ffurfiai linell o gertwyni uwchlaw dau can' milltir o hyd! pe byddai yn aur, byddai llinell y certwyni yn dri chwarter milltir o hyd!

Tybiaf dy fod wedi blino arnaf bellach, ond addawaf fod yn fyr-
ach y tro nesaf. Gyda choffa serchus atat,
Ydwyf, dy anwyl frawd,

DROFLAS.

William Hutton.

GANWYD W. Hutton yn y flwyddyn 1723, yn nhref Derby, y fan lle yr oedd ei dad yn gwasanaethu fel cribwr gwlan, wedi ei lwytho & theulu mawr, fel nad oedd ei ymdrechion goreu, o'r braidd, yn ddigon at gael lluniaeth iddynt. "Fy mam druan," meddai ei fab yn yr hanes difyrus a adawodd o'i fywyd, "a fu fwy nag unwaith, gydag un plentyn ar ei glin, ac ychydig eraill o'i hamgylch, heb ddim bwyd iddi hi nag iddynt hwythau ddiwrnod cyfan; a phan ddeuai lluniaeth, gadawai iddynt hwy gyda dagrau gymeryd ei rhan hi." Yr oedd Hutton bob amser yn coleddu yr adgefion tyneraf am ei fam. Ar ol hir ddyoddef yr ymdrech hwn, bu farw pan oedd efe yn ddeg oed; a gadawyd ef, ei frodyr, a'i chwiorydd, dan ofal eu tad, yr hwn yn awr a aethai bron yn ddrylliau gan adfyd parhaus; ac wedi ei ryddhau megys oddiwrth ei brif ymlyniad, a wnaeth ei amgylchiadau yn waeth nag o'r blaen, trwy fyned i'r dafarn, ac yn fynych gadawai ei blant i drugareddau damweiniol. "Un tro," meddai Hutton, "myfi a fum heb fwyd o foreubryd un diwrnod hyd ganol y dydd canlynol, a'r amser hyny yn ciniawa ar beilliaid a dwfr yn unig, wedi eu berwi yn rhyw fath o budding." Ymddengys fod ei dad yn ddyn o ddeall cryf, ond yn meddu ar nwydau gwyltction, ac heb nemawr lywodraeth arnynt. Ond er mor ofer ydoedd ei hun, yr oedd yn ddysgyblwr awdurdodol ar ei blant, ac arferai eu ceryddu gyda llymder mawr.

Yn nghanol yr holl adfyd hwn, yr oedd eu haddysgiad yn agored i gael ei esgeuluso. Mewn gwirionedd, pe buasent yn cael eu rhoi mewn ysgol, ni allai yr addysg a dderbynient ddim llai na bod o ychydig fuddioldeb yn wyneb y fath esgeulusdra holol gartref. Anfynych y gwna yr ysgolfeistr lawer o les oni bydd ganddo gyn-northwywr yn y teulu. Dywed William wrthym ei fod wedi ei anfon pan yn bump oed at un o'r enw Mr. Thomas Meat, "yr hwn yn fynych," meddai, "a gymerai achlysur i guro fy mhen yu erbyn y wâl, gan ei ddal gerfydd fy ngwallt, ond ni fedrai guro unrhyw wybodaeth iddo, oblegid yr oeddwn yn casau pob llyfrau, ond y rhai oedd & darluniau (*pictures*) ynddynt." Modd bynag, parhaodd i aros yno am oddeutu dwy flynedd, pan gymerwyd ef ymaith; ac er nad oedd ond plentyn saith oed, anfonwyd ef i weithio i'r felin sidan. Er mor lleied ac ieuenged oedd llawer o'i gydweithwyr, efe oedd yr ieuangaf a'r lleiaf o honynnt oll, fel yr oedd yn rhy fyr i gyrhaedd y peiriant; oherwydd hyny gosodwyd pâr o *battens* uchel o dan ei draed gan yr arolygwr, y rhai a lusgodd am oddeutu blwyddyn. Ymae efe yn rhoddi hanes gofidus am ei ddyoddefiadau yn y sefyllfa hon. "Yr oeddwn yn awr," meddai (a chofied y darlennydd

nad oedd ond plentyn eto), "yn gorfod codi am bump bob boreu am saith mlynedd, ac ymostwng i'r wiafen yn ol tueddiadau fy meistr, a bod yno yn nghwmni parhaus y rhai mwyaf anfoesol ac anwybodus o'r hil ddynol, heb eu dysgu gan neb, na dymuno cael eu dysgu." O'r diwedd, dywed i'w feistr un tro, deri archoll ar ei gefn wrth ei guro, ac wrth weinyddu cerydd drachefn, iddo daro yr archoll a blaen y wiafen, yr hyn a'i dygodd i'r fath gyflwr, nes yr ofnwyd y buasai pydriad yn cymeryd lle.

Ar ddiwedd y caethiwed blin hwn, cyrhaeddodd ei bedair ar ddeg oed, pan y rhwymwyd ef yn brentis drachefn am saith mlynedd gyda brawd i'w dad, gwehydd hosanau yn Nottingham. Y gŵr hwn, er ei fod yn wr bucheddol, ac yn cael ei gadw i raddau helaeth dan ddylanwad gwraig, yr hou drwy rith argymhell y ddyledawyd o fyw yn gymhedrol oedd yn ei hanner lewygu ef a'i brentisiaid, oedd yn meddu ar grym lawer o dueddiadau gorthrymus ei deulu, yr hyn oedd yn fynych yn tori allan yn y storm. Yr oedd ei nai erbyn hyn yn ddwy ar bymtheg oed, ac yn dechreu deall ei fod yn nesu at fod yn ddyn, ac wedi bod oddeutu tair blynedd yn ei dŷ. Pan ddarfu iddo ryw ddydd fethu cyflawni dernyn o waith a osodwyd iddo, fe'i ceryddwyd i ddechreu gan ei ewythr am ei ddiofalwch, ac wedi hyn y curwyd ef gyda chreulondeb didrugaredd gan y dyn diglawn. Yr oedd yr anmharch hwn yn ormod i'w anghofio. Efe a wylodd am gyfleusdra, ac a ddiangodd ymaith, gan gymeryd gydag ef ei ddillad yn sypyn, a dau swlit, o swm mwy, yr hwn a ganfys yn nest ei feistr, heb feddu un geiniog arall yn y byd.

Y mae yr hanes a rydd efe o'r dygwyddiad truenus hwn yn eithaf difyrus a hyfryd. Cysgodd yn y caeau y noson gyntaf: parhaodd i grwydro yr oll o'r dydd canlynol heo wwbod yn iawn yn mha gyfeiriad, ac o'r braidd mewn anotaith. "Gan gyrhaedd yd yr un prydawn (fel y mae yr hanes yn myned ymlaen), amgylchais Lichfield, dynesais at ysgubor, yr oeddwn yn bwriadu lletya yno, ond pan ganfyddais y drws wedi ei gsu, agorais fy sypynau ar y maes, ymwiagais, cuddiais fy sypynau yn y gwrych, ac a zethum i gael golwg ar y ddinas, er bod fy nhraed yn bur friwedig. Tua naw o'r gloch dychwelais yn ol, newidiais fy nillad, a gwneuthum fy sypyn i fynu yn drefnus, a pharotoais i orphwys, ond Och ! yr oedd yn rhaid chwilio am wely. Oddeutu ergyd careg o'r fan yr oedd ysgubor arall, yn yr hon, efallai y buaswn yn cael llety. Meddyliais mai dianghenrhaid fuasai cymeryd fy sypynau gyda mi tra y buaswn yn chwilio y lle, gan nad oeddwn yn bwriadu bod yno yn hir; ond gan nad oedd ymwared i'w gael yn yr ysgubor hono hefyd, dychwelais yn mhen deng mynyd, ond er fy mawr syndod yr oedd y sypynau wedi myned ! Ymaflodd dychryn ynof; crochfloeddais ar y dihyryn, ond buasai crystal tevi, canys anaml y dychwel lladron ar alwad. Collwyd peth amser drwy redeg, ffyrnigo, a gofidio yn y meusydd a'r ffyrdd. Yr oeddwn wedi fy suddo yn ormodol mewn traillodion i gael esgwythder mewn dagrau, yr oedd ynt yn gwrthod rhedeg. Yr oeddwn yn darlunio y sypynau wrth bawb a'm cyfarfodai, ac yn adrodd yr hanes wrthynt, ac yr oedd pawb yn to-

turio, ond nid oedd neb yn rhoi ymwared i mi. Gwelais fy ngwrandawyr wedi dihoeni gan y cyfnos; ac erbyn unarddeg o'r gloch, canfyddais fy hun yn yr heol wag, wedi fy ngadael i adrodd fy hanes galarus wrth y ddystaw nos.

"Nid hawdd yw gosod dyn mewn sefyllfa mwy truenus. Nid oeddwn yn meddu dim, yr oeddwn yn ddyeithir i'r byd, a'r byd felly i minnau; heb ddim gwaith, na thebygolrwydd am ddim, dim ymborth i'w fwyt, na man i orphwys; yr ychydig eiddo oedd genyf ar y ddaear wedi eu cymeryd ymaith; ie, yr oedd hyd yn nod gobaith, yr hwn yw cyfaill parhaus yr helbulus wedi fy ngadael. Yr oeddwn mewn sefyllfa mwy truenus na'r hwn nad oes ganddo ddim i'w golli. Dichon llygad dreiglo dros y llinellau hyn, pan fydd y galon a'i hysgrifenodd yn ddigon llonydd. A ddichon y llygad hwnnw symud heb golli deigrynn? Ceisiais esmwythder ar fainc y cigydd oedd yn yr heol."

Y dydd canlynol parhaodd i grwydro, gan dori ei newyn, yn benaf gyda y maip oedd yn y meusydd ar ochr y ffordd, nes iddo o'r diwedd gyrhaeddyd Birmingham. Ond ni raid i ni ddilyn yr hanes ymhellach, gan iddo ddybenn fel y gallesid dysgwyl. Yn y cyfryw amgylchiad truenus, penderfynodd o'r diwedd dafiu ei hun dan amddiffyniad ei dad, a darfu yr ymrafael mewn llai nag wythnos ar ol iddo ddianic, trwy iddo ddychwelyd i dŷ ei ewythr, a gwnaed cyfammod gan bob ochr, eu bod yn penderfynu maddeu ac anghofio y cyfan.

Mae yn debyg mai yn awr yr amlygodd yr athrylith a'r chwaeth yr oedd yn eu meddu at wybodaeth, y rhai a ganfyddwn ar ol hyn mor eglur yn ei nodweddiaid. Yr oedd ei dueddiadau boreuaf yn bleidiol i gerddoriaeth. Am ryw yspaid, treuliai ei holl oriau hamddenol gyda'r difyrwch hwn. Wedi iddo brynu yr hyn a eilw efe cloch-delyn, am hanner coron, dywed iddo lafurio yn ymdrechgar i ddysgu ei swnio, am tua chwe' mis. Yna cafodd fenthyg dulsimer, a chyn iddo ddysgu ei chwareu, aeth ymlaen gyda'r gorchwyl o wneuthur un gyffelyb iddo ei hun, ond wrth wneuthur y cyfryw, dywed, "nid oedd genyf goed i'w gweithio, nac ychwaith ddim arfau i weithio a hwyt, nac arian i brynu dim. Dywedir fod anghen yn peri dyfais;—drylliais hen gist, un o weddillion fy rheulu, yn ddarnau, yr hon ydoedd gynt yn eiddo Thomas Parker, yr hwn oedd yr iarll cyntaf a fu yn Macclesfield. Ac mewn perthynas i arfau, yr oeddwn yn barnu fod yr *hammer-key a'r players* oedd yn perthyn i'r *frame* hosanau yn ddigonol i wneyd yn lle morthwyl a gefail. Yr oll a fedrwn gael o arfau miniog oedd cyllell llogell, a *fork* gydag un goes, yr hon oedd yn cyflawni gwasanaeth ddwbwl, sef yn lle gwimbyll a mynawyd." Yn y modd hwn y cyflawnodd o'r diwedd ei ddulsimer, yr hwn a werthodd, ar ol dysgu ei chwareu, i gyfall o uwch radd, am un swlit ar bymtheg, a phrynnodd gôt am yr arian, ac a wnaeth un rhagorach.

Yr oedd tymor ei brentisiaeth yn darfod yn y gwyliau, 1744; ond efe a barhaodd i wasanaethu ar ol hyny gyda'i ewythr fel teithiwr. Efe a ddywed mai yn y flwyddyn 1746 y dechreuodd

gael blas ar lyfrau ; y rhai a brynodd efe gyntaf oedd tair cyfrol o'r "Gentleman's Magazine." Bu ei chwant at lyfrau yn achos o ymroad newydd o eiddo ei gywreinrwydd. Gan fod y rhai a brynodd efe mewn ystad lled garpiog, teimloedd yn awyddus i'w gwneuthur o ymddangosiad mwy trefnus ; ac yn ganlynol, wrth sylwi ar lyfr-rwymydd o'i gadnabod gyda'i waith, daeth yn fuan yn lled hwylus gyda'r gorchwyl hwnnw. Efe a brynodd gan y dyn hwn amryw arfau wedi eu rhoi heibio, ac ymhliith eraill, dywed Hutton, "Efe a gynnygiodd i mi wasg, yr hon ydoedd wedi an-mharu yn fawr, am ddau swllt, a chyda'r hon nid oedd neb yn abl i weithio, ac yr ydoedd wedi ei dodi o'r neilldu fel tanwydd. Myfi a ystyriaus natur ei gyfansoddiad, prynais ef, a thelais y ddau swllt am dano, yna gofynais iddo y gynnwynas o gael y morthwyl a'r nodwydd, y rhai a ddygodd gyda rhyw fath o wên orchestol, a rhyw fath o watwar-wên. Tynais ymaith y *garter-pin*, yr hwn ydoedd wedi ei orlwytho, ac a droais ysgwâr newydd, yr hyn a fu yn welliant trwyadl ar y wasg. Dywedodd yntau mewn digder, 'pe gwybuaasn i hyna, ni chawsit ti ef.' Hwn am ddwy flynedd a deugain a fu fy ngwasg-rwymydd goreu.' Yn fuan ar ol hyn dechreuodd gyfansoddi pennillion, yr hyn hefyd ydoedd yn hoff ddifyrwrh ganddo hyd diwedd ei oes.

Wedi iddo o'r diwedd gan fod nad oedd un golwg am ddim ond caledwaith a thlodi yn yr alwedigaeth yr ydoedd wedi ei ddwyn i fynu yn ddi, gadawodd ei ewythr, ac a letyodd gyda'i chwaer, yr hon oedd yn byw yn yr un dref, dynes ganmoladwy; serch a gofal diflino pa un am ei gysur a'i lwyddiant oedd yn llawer iddo tuag at wneuthur i fynu am sarhâd ac enciliad ei berthynasau eraill. Ei brif ymgais yn awr oedd sefydlu mewn galwedigaeth fel llyfrwerthydd, ac efe a benderfynodd o'r diwedd osod ei hun allan dan yr enw uchod yn nhref Southwell, oddeutu pedair ar ddeg o filtri oedol o Nottingham. Yn ganlynol, efe a agorodd *shop* yn y lle hwn, a gwerth un bunt o sethach ydoedd ei holl ystôr. "Myfi," medd efe, "oeddwn *joiner* i mi fy hun, rhoddais y *shelves* a'r dodrefn i fynu, ac mewn un dydd daethum yn llyfrwerthydd enwocaf yn y lle." Wrth dreulio y dyddian eraill o'r wythnos i rwymo llyfrau yn Nottingham, nis gallai fod yn Southwell ond ar y Sadyrnau, gan fod hyn yn ddigonol i gyflawni eisieu darlenyddawl y lle. Yn ystod haf pur wlawog, "cychwynais," medd efe, "bump o'r gloch bob boreu Sadwrn, gan gario baich oedd yn pwys o dri i ddeg pwys ar hugain, ac agor y *shop* am ddeg, a dyoddef ynddi trwy'r dydd heb ddim ond bara a chaws a hanner peint o gwrw ; byddwn yn derbyn o swllt i chwe' swllt, ac yn cau y *shop* am bedwar, a chan deithio am bum awr yn ychwaneg, cyrhaeddwn Nottingham erbyn naw, lle y cawn saig o fwyd, sef llaeth neu botes, wrth y tân, wedi ei ddarparu gan fy chwaer ofalus. Yr oedd yr yngais gostyngedig hwn, modd bynag, yn ddechreuad ei lwyddiant. Y flwyddyn ganlynol, cynnygiwyd oddeutu dau can' pwys o hen lyfrau idilo, ond iddo roddi papyr o dan ei law, am saith swllt ar hugain, gan weinidog Annibynol, yr hwn a'i hadwaenai ; ac ar hyn penderfynodd adael ei

sefydliad yn Southwell, a throsglwyddo ei hun i Birmingham. Gwnaeth hyny, ac a lwyddodd gymaint, trwy beidio gadael i'w gostau fyned yn ychwaneg na phum swlit yn yr wythnos, fel y canfyddodd ei fod erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf wedi arbed ugain punt.

Yr oedd hyn yn ei alluogi i helaethu ei fasnach, yr hon a wnaeth yn fuan yn un pur werthfawr. Yr oedd Birmingham i Hutton yr hyn oedd Philadelphia i Franklin. Y tro cyntaf y bu yn Birmingham ydoedd pan yr aeth yno wedi iddo ddianc o dŷ ei ewythr, yn deithiwr blinedig a digartref, heb un geiniog yn ei logell, ac heb un testun gobaith yn y byd. Er hyny, yn y lle hwn y bwriadwyd iddo gasglu helaethder o gyfoeth, ac i fod ymhlið ei dinasyddion parchedicaf.

(I'w orphen yn y nesaf).

VIII. *Llythyr Hen Wr Mynyddig.*

Y CYMRY MWYNION,

Mae'n debyg nad oes unrhyw destun mwy hyfryd i ddyn aros yn ei fyfyrddodau arno, na daioni y Duw bendigedig; fel yr amlygir ef mewn natur, ac yn enwedig fel yr amlygir ef dan y cymriadau o gariad, trugaredd, a gras, yn nhrefn fawr yr iachawdwriaeth. Hefyd mae'r olwg ar raslonrwydd y Goruchaf yn effeithio yn iachusol hynod ar ddyn. "Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn," ebe Paul, "gan ein dysgu ni i wadu annuvioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyflawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon." Yr olwg ar ras oedd wedi eu troi;—wedi eu hailoni. Dywed y Salmydd hefyd, "Canys dy drugaredd sydd o flaen fy llygaid: ac mi a rodiais yn dy wirionedd." Yr oedd yr olwg barhaus ar drugaredd, yn gyfnethiad parhaus iddo yntau i barhau ar lwybr sancteiddrwydd.

Hwyrach y syna ambell un pe dywedwn, y gellir trugarhau wrth un, ac i'r trugarhau hwnw fod yn radd o greulondeb âg ef. Ond yr wyf fi sydd dipyn yn hen, wedi dal sylw y dichon hyn y fod, a'i fod yn bod rai prydiau. Meddylier am ddyn mewn cyfngnder yn myned at ddyn arall i grefu am ymwared, a'r arall hwnnw yn cydsynio—yn trugarhau ac yn rhoddi iddo yr hyn a geisiai; ond yr un pryd yn gwneuthur hynny gyda'r fath ymhoniad o uwchafiaeth ar y derbynnydd; ac hefyd yn ei gynghorion a'i rybuddion gyda'r drugaredd, mae yn gosod y derbynnydd yn un mor dra isel, fel erbyn bod ar y ffordd yn myned adref, ac ymwrando â'i deimladau, y buasai well ganwaith ganddo fod heb y drugaredd na'i chael, a gorfod cymeryd gyda hi gymaint o'r llysnafedd chwerw, gwenwynllyd, a marwolaethus o ddirmyg. Dyma drugarhau ag sydd greulondeb. Mae 'n wir ei fod yn hen air, "Ni ddigia ci wrth ei daraw âg asgwrn;" ond ci y rhaid i hwnnw fod, yn hollol

ddyeithr i osod dim gwerth arno ei hun ; ac felly yn gwbl ddyeithrol i deimlo dirmyg. Ond anhawdd iawn, trwy trugaredd, y cyfryddir a dyn wedi ei lwyd ddibrisio ei hun, a'r un mor anhawdd a hyny, yw cyfarfod a'r dyn a all ddygymmod a derbyn trugaredd yn y dull a soniwyd uchod.

Ond, y mae hefyd drugarhau tirion yn bod. Ac mae'r cyffredin o weinyddwyr trugaredd i'w cyd�readuriaid yn medru hyny. Mae yr holl rai hyny a wnat drugaredd er mwyn gwaredu y derbynydd o drueni, yn hytrach nag er mwyn enw iddynt eu hunain, pa fod bynag, yn medru gweithredu—actie—tiriondeb trugaredd. Gofala y cyfryw bob amser rhag i'w derbynydd deimlo dim sarhâd. Gwel y derbynydd ond odid, y byddis yn gofalu felly ; a bydd yn caru, mawrhau, ac yn teimlo ei rwymau i'r cyfranwr, yn llawn cymaint yn herwydd y teimlad hwn, ag yn herwydd y rhodd ; er hwyrrach y bydd hono iddo ef o werth mawr iawn. Ond tu hwnt uwchlaw pob cymhariaeth i bawb, y mae y Duw mawr yn medru hyn ; sef trugarhau mewn modd esmwyth a thirion. Nid yn unig mae'n achub pechadur, ond mae'n gwneuthur hyny heb i'r pechadur deimlo ei fod yn cael ei ddibrisio yn y radd leiaf. Ond yn hytrach i'r gwirthwyneb, mae'r holl drefn yn gosod rhyw werth rhyfeddol ar ddyn, ac nis gall y dyn lai na theimlo hyny, a bod yn barod i ofyn yn ngeiriau Dafydd yn fynych, "Pwy ydwyf fi, O Arglwydd Dduw ? a pheth yw fy nhŷ, pan ddygit fi hyd yma ?" Sonir am "diriondeb trugaredd ein Duw." Dywed ein Harglwydd hefyd, am gyrchwr y ddafad a gollasid, "Ac wedi iddo ei chael, efe a'i dyd hi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen." Dyma gyrchu adref, a chyrchu adref yn dirion. Nid fel y bydd llawer bugail, fel y sylwai Ishmael Jones, ryw dro, "Yn rhoddi tenyn am ei gwddf a'i gyru o'i flaen, ac weithiai pwtiad iddi a'i lin, bryd arall wab a'i pastwn, ac yn fynych cic, gan ddyweddyd, 'Dos adref di yr hen yspredsan.' Nage, nid felly, ond 'Efe a'i dyd hi ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen.'"

Mae'n ddiammhau fod yr ystyriaeth o dirioneb trugaredd yn un o'r ystyriaethau mwyaf nerthol er toddi y galon—tynu y galon gareg o'r cnawd, ac ennill y dyn i garu Duw : ac felly mae tyner-wch a mwyneidd-dra y dull o achub, yn un o'r prif bethau er peri achub. Ennill y rhai oedd o'r blaen yn elynion i'w garu, mae y Duw mawr wrth achub—dyna swm achubiaeth ; a'r amlwgiaid o drugaredd a'i thiriondeb yw y prif peth at ddwyn hyny i ben. Ond mae y tiriondeb hwn i'w weled yn y gofal a ymddengys yn yr holl drefn, rhag tafu ar y dyn ddini sarhâd. Ymddengys y gofal hwn yn anfoniad yr hwn a anfonwyd i fod yn Achubwr—Iesu Grist Mab y Duw byw—un mor fawr. Diammhau pe buasai yn anfon rhyw-un arall fuasai lai, er i hwnw fod yn un uchel, y penaf o'r angelion meddyliwn (pe gallasai y fath fod yn waredwr i ni hefyd) ; eto buasem ni dynolryw yn teimlo yn y fan, fod anfon y fath un i'n byd i gymeryd arno fod yn waredwr i ni, yn ddirmyg mawr arnom. A buasem barod i ofyn, "Beth, nid yw hwn ond creadur fel ninnau os ydyw raddau yn uwch : a beth all yr un creadur wneuthur erom

yn fwy, na chymaint ag a allai llon'd byd o honon wneuthur erom ein hunain?" Ond mae dyfodiad y cyfryw un a Mab Duw i'n byd yn waredwr yn peri syniad a theimlad tra gwahanol. Mae ei ddyfodiad ef yma, wedi gosod mawredd a phwysigrwydd arbenig ar ein byd bychan. Ei fod EF wedi dyfod yma, ac ymuno â natur y trigolion, a hyw yn y byd am ddeg ar hugain a rhagor o flyneddau, fel y cyffredin o'r trigolion;—mae hyn ynddo ei hun yn daigon i godi ein clebyn byd a'i bryfaid trigolion i hynodrwydd ac enwogrwydd tragedywyddol yn ngolwg holl fyddedd llywodraeth Duw i gyd. Fel hyn, ni ddirmygwyd mohonom yn ei auloniad Ef i fod ein Gwareddwr. Mae'n ddigon gwir, rhaid addef, nas gallasai neb llai fod yn waredwr i'n bathau; ond nid yw hyny yn lleihau dim ar y cysur a ddeillia i ni, o fod oin Ceidwad yn wr mor urddasol.

Yngedwir yu holiol rhag y sarhâd hefyd, yn nghymhwysiad yr iachawdwriaeth. Mae'n wir yr argyhoeddîr y pechadur, ac y dygir et i'w ffleiddio ei hun; ond gwneir hyny yn unig o herwydd nas derbynia efe y feddyginiâeth heb hyny. A'r fynyd y pliqa efe i dderbyn y Meddyg a'r feddyginiâeth, mae loesiou dwysbigiad yn y fan yn lleddfu. Ac hyd yn nod dan argyhoeddiad, nis gall y pechadur, er chwilio, g:ufod neb yn ei ddirmygu, ond efe ei hunan a'r diafol. Hefyd, nis gweinyddir maddeuant nes cael y pechadur trwy edifeirwch yn addfed i'w dderbyn. Nid oes bron unpeth a deimla dyn yn gymaint o ddiystyrwch arno a son am faddeu iddo, oni bydd yn cydnabod ei fai. Felly mae rhwng dyn a dyn. Sonier wrth y goreu ei amynedd am faddeu iddo, a gwneleir hyny ddwywaith neu dair, oni bydd ef yn teimlo ei fod ar fai, mae agos yn siwr o ffyrnigo. Yn gyfelyb y mae rhwng ei Farnwr a dyn. Pe buasai Duw yn estyn maddeuant i ddyn, ac yntau heb fod yn eiifeiriol, buasai y dyn yn y fan yn teimlo hyny yn sarhâd; ac felly ni buasai y fendith fawr yn tycio i ddim, ond i'w grugio a'i ffyrnigo, a'i wneuthur yn waeth gwrthryfelwr nag o'r blaen. Ond pan yn edifeiriol, maddeuant yw'r cyntaf peth mae'n geisio; a phan ei derbynir, mae'n felysach ac yn rhoddi mwy ac eangach cysur, nag a roddodd y mel i Jonathan gynt. O! mae yr edifeiriol yn teimlo fel pe byddai mynyddau y byd yn treiglo oddiar ei gefn yn y derbyniant o faddeuant. Hefyd, nis cyfrifir cyflawnder Crist i'r pechadur, ond yn wyneb iddo ef apelio trwy gredu at Grist a'm ymwared. Mae credu yn apeliad: fel pe dywedai y pechadur yn y llôs, "Attat ti Iesu mawr 'r wyf fi yn dyfod, mae hi wedi darfod arnaf yn whob ian arall; yr wyf yn rhoddi fy achos yn dy law, ac yn dymuno cael llechu dan dy aden. Ac o derfydd am danaf, darfydded; ond o cedwi di fi yn fyw, byw a fyddaf." Dyma wir teimlad y dyn pan yn gweithredu ffydd ar Grist. "Wel," fel pe dywedasai y Duw n:awr, "gan mai at Iesu yr wyt yn apelio, at Iesu y cei di fyned, yn ei law ef y caiff dy achos fod, ac yn yr Iesu y cei dithau dy hunan fod; a'i gyflawnder ef yn cael ei gyfrif i ti —ei osod o'th blaid—felly y cei di fod yn ddiogel. A rhaid nas gelli deiulo hyn byth yn iselhâd arnat; oblegid tydi dy hunan a apeliodd at yr Iesu." Fel hyn mae hynawsedd, mwyneidd-dra, a

thiriondeb trugaredd ein Duw, yn ymddangos trwy yr oll o oruch-wyliaeth fawr yr achub.

Mae yr un tiriondeb mawr i'w weled yn yr ailenedigaeth, ac yn nygiad ymlaen y sancteiddhâd; ond ni bydd i mi egluro hyny yn bresennol, rhag i'm llythyr hwn fel y diweddaf fyned yn rhy hir. Mae'n ddigon hawdd i bob dyn ganfod, ond meddwl ychydig, y modd y mae Duw yn cario ymlaen ailenedigaeth a sancteiddhâd, heb dafiu y radd leiaf o ddirmyg ar ddyn mewn un man, ac felly ymarfer tuag ato yn y cyfan diriondeb trugaredd. Mae'n ddiam-mheu y bydd pob un a achubir mor bell oddiwrth ei weled ei hun yn cael dim sarhâd yn yr ymdriniâeth, fel mai y gwrthwyneb fydd ei deimlad angerddol i dragywyddoldeb. Bydd yn eglur o flaen llygaid meddwl pob un am byth, mai trwy werth a rhinwedd priod waed Duw wedi ei dywallt, y cafodd ef ei ryddhau a'i lanhau. A bydd hyny yn peri iddo synu a rhyfeddu, ddarfod gesod y fath bris ar un fel efe, fel ag i dywallt y fath werthfawr waed er ymwared iddo. Bydd y gogoniant y codir y credadyn iddo hefyd, fel cyd-eifedd â Christ, yn cydweithio er dŵyseiddio ynddo yr un teimlad yn oes oesoedd.

Ymddengys tiriondeb trugaredd hefyd, yn y cydymdeimlad trwyndl a ddangosir yn y drefn, a mawr ofal dyn (pan wedi ei ddeffroi o leiaf) am ei fywyd. Nis ceisir ganddo gredu yn Nghrist, heb roddi iddo bob sicrwydd y bydd yn ddiogel drwy hyny. Cyfrifir hyny yn hynawsedd a natur dda bob amser yn ngyrwr y cerbyd, fod yn ofalus ar fod i'r ymdeithwyr allu teimlo yn ddiogel am eu hesgyrn a'u hoedlau. Felly hefyd, tiriondeb yn nhrugaredd Duw oedd rhoddi y fath liaws o brofion, a'r rhai hyny mor gryfion—cadarnach na chreigiau—mai cadwedig fydd y neb a gredo. Gall y credadyn fod yn dawel ddiogel ddigon y bydd yn dragywyddol ddedwydd. Maent yn gyfryw brofion ond eu hystyried, a alltudiant ymaith ar unwaith bob ammheuon fel peiswyn i eigion nos diddymdra tragedywyddol. Meddylier am synyd, pwy yw y Person y gwahoddir y pechadur i gredu ynddo. Y Duw a ymddangosodd yn y cnawd. Hwnnw wedi ei eneinio a'i osod yn Waredwr; a hyny gan y llywodraeth ag y mae achos y pechadur yn ei llaw. A'i osod trwy lw. Tyngu wedi hyny wrth Abraham, mai cadwedig a fyddai yr hwn a gredai: o'r hyn lleiaf, mae y llw yn cynnwys hyny, a thyna'r peth penaf yn ei gynnwysiad. Y Duw ddyn hwn hefyd yn nghyflawnder yr amser yn marw yn ngŵydd llygaid dynion ar y ddaear i wneyd iawn; a rhag i ddim ammheueth byth gyfodi na chymerodd hyny le, bu farw trwy ddwylaw dynion eu hunain—adgyfodi i ddangos fod yr iawn yn dderbyniol—eistedd ar ddeheulaw Duw, fel y gallai yr ymddiriedwr fod yn dawel, gan fod ei Waredwr yn ymddangos yn y llŷs ag y mae ei achos i gael ei benderfynu ynddo. Mae pob awdurdod hefyd yn llaw y Gwaredwyr, fel y gallai y credadyn fod yn dawel, nas deuai gwrthwynebrwydd o un man a allai rwystro ei gadwedigaeth. Fel hyn rhoddwyd y profion goreu, a gwnaed yr oll a ellsid ei wneuthur, er lladd pob pryder, a chreu pob hyder a thawelwch yn

meddwl pob un, mai cadweddig a fydd pwy bynag a gred o i'r Gwaredwr. Ac yn hyn eto mae tiriondeb trugaredd ein Duw yn ymddangos yn ddysglaer hynod. Dysgwn ryfeddu Duw a'i garu, ac addoli ac ufuddhau iddo, yn yr olwg ar y tiriondeb hwn. Hefyd dysgwn ninnau drin ein gilydd mewn dull cyffelyb, sef mewn trugaredd, a thiriondeb trugaredd.

Cwm.

HEN WR MINYDDIG.

"Taith y Pererin," a'r "Ymofynydd Pryderus."

Y MAE yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, meddwl am unrhyw lyfrau crefyddol, ag sydd wedi derbyn cymaint o gefnogaeth, ac wedi bod mor fendithiol, a'r llyfrau uchod: y mae y galwad parhaus am danynt, wrth y miloedd, mewn gwahanol ieithoedd, ynghyd â'r hanesion cysurus sydd yn fynych i'w gweled, yn brawf o hyny. Y mae y ddau, bellach, wedi bod ar y maes ddyddiau lawer, ac un o honyn rai oesoedd, ac felly wedi eu pwys o ynghlorianau rheswm a barn; ond y mae y bri a roddir arnynt heddyw, yn ddigon er dangos y ceir hwynt eto yn mhen llawer o ddyddiau. Pwy fuasai yn meddwl pan oedd cyfeillion Bunyan yn dyweyd wrtho cyn argraffu ei lyfr,

"John, print it;" others said, "Not so;"

"It might do good;" others said, "No,"

y buasai y fath effeithiau yn dilyn ei gyfansoddiad. Yr hanesion a ganlyn, am y naill lyfr a'r llall, a ymddangosodd yn y *Tract Society Report*.

"Pwy a all ddyweyd pa faint o ddaioni sydd wedi ei wneyd yn barod mewn gwledydd paganaidd, gan y pererin hwn. Gallwn lenwi llawer o dudalenau a feithiau, ag sydd yn dangos y fath fendithion ag sydd wedi deilliaw trwyddo. Erychwn ar China. Cenadwr a ddywed, 'Yn ein hysgolion Chinéaid, dysgir y plant yn Seisoneg; a'r llyfr sydd yn eu difyr ufwyaf, a'r hwn sydd yn eu hudo oddiwrth eu chwarcyddiaethau, yw 'Taith y Pererin.' Hindoo a ddywed, 'Trwy y llyfr hwn mewn rhan y dechreuais deimlo mai y grefydd Gristionogol yw yr unig wir grefydd, ac mai Crist yw yr unig Waredwr.' Cenadwr yn y dwyraint a ysgrifennai, 'Teimlais yn galonog o herwydd y derbyniad croesawgar y mae y 'Pererin' wedi ei gael yn barod. Y mae amryw o Fahometaniaid parhusr wedi ei ddarllen, ac wedi erfyn am ychwaneg o gopïau i'w cyfeillion. Anfonodd un o'r trigolion lythyr caredig ataf, gan ddiolch a'i holl galon. Dywedai iddo ddarllen y llyfr am dair noson yn olynol: na welodd erioed lyfr mor dlws, ac y mae yn gweddio ar i Ysbryd Duw oleuo calonsau y Malays, fel y gallont ei ddeall.' Cenadwr yn Ceylon, a geisiai gymhorth ysgolfeistr brodorawl, i gyfeithu 'Taith y Pererin' i'r iaith Singalese. Yr oedd yr athraw, i'r hwn a fu yn offeiriad paganaidd, yn ddyn dysgedig. Wrth weistedd ac ysgrifenu yr hanes, yr oedd yn fynych yn cael ei gyn-

hyrfu gando, fel yr eedd braidd yn methu a myned ymlaen. Llônai yn fawr pan y mae Cristion yn gadael Dinas Dystryw. Pan y gwelodd Cristion wedi myned i'r Gors anobaith, dechreuodd deimlo yn ddwys drosto; ond pan ddaeth y Pererin at fynydd Sinai edrychmai yn hynod o drist, a dywedai wrth y cenadwr, "A phwy a all fod yn gadwedig?" Y cenadwr a'i atebodd, 'Gadewch i ni fyned ymhellach.' Yna y daeth i'r fan ag y mae Cristion yn cael gwared o'i faich pan y syrthiodd wrth y groes. Yr oedd yr ysgolfeistr tlawd wedi ei orlenwi & hyfrydwch, fel y chwarddodd, curodd ei ddwylaw, a llefodd allan mewn llawenydd, 'O mor llwyddiannus! O mor llwyddiannus!' Wedi i'r 'Pererin' gael ei argraffu, a'i rwymo mewn papyr marmor, ag ymylau goreuredig, yr oedd plant Ceylon i'w gweled yn eu cario i'w cartrefi, fel y rhodd fywaf y gallasent ei gael.

"Os edrychwn i ranau eraill o'r byd, cawn yn wastad weled yr un croesaw yn cael ei roddi i lyfr y pererin. Un o Gristiaonigion South Africa, a ysgrifennai fod 'Y dychweledigion yn cael budd mawr drwyddo.' Un arall a ddywedai, 'Os ca y fath lyfrau a hwn eu haigraffu, pwy yn hwy a all beidio edifarhau?'

"Yn Madagascar hefyd, wedi i frenines greulawn yr ynys hon yru y cenadon oddiwrth eu gorsafoedd, anfonasant y llyfr hwn i'r Cristionogion brôdorol, er eu cysuro a'u haddysgu, pa rai oedd-ynt naill ai wedi eu cau yn y carchar, neu eu cuddio yn ogofeyd y ddaear, neu yn dianc am eu bywydau trwy goedwigoedd tywyll y wlad. Ac hyd yn nod pan oedd rhai o honynt yn cael eu harwain i farw fel merthyron, yr oedd-ynt yn gadarn yn dywedyd, 'Yn awr yr ydym ninnau yn yr un sefyllfa a Christion a Ffyddlon yn ffair gwagedd.' Ac eraill a ddywedent, 'Pan oedd Cristion ya myned trwy ddyffryn cysgod aneu, gallasai ddywedyd, Er fod y dyffryn yn dywyll, er hynny ffordd ydyw i'r ddinas nefol.'

Yr hanes hynod canlynol allan o lawer, sydd yn dangos y lleshad mawr y mae'r "Ymofnydd Pryderus" wedi bod yn offerynol o'i ddwyn.

"Ganwyd Thomas Murray yn agos i Belfast, Iwerddon a bu yn gweithio fel llafurwr o'i ieuencstyd. Pan yn ddwy, a deugain oed, daeth i fyw i'r tŷ yn mha un y gwelais i ef, ac y mae yn byw yno er's deugain mlwydd, heb fod braidd yr un diwrnod oddiyno yn y cyfamser. Yr oedd ei drigfa tua hanner milldir oddiwrth un arall, ac nid oedd ef, na neb o'i deulu, yn gwneyd ond ychydig gyfrinach a neb, ond yn amser y cynauaf pan oedd y ffermwyr yn cynnorthwyo eu gilydd. Yr oedd ei ffarm ef yn cynnwys deugain cyfer; ac yr oedd yn ystyried ei hun, ac yn cael ei ystyried gan eraill, yn ffarmwr lled fawr, er fod ei hanner yn fynydc-dir; er hynny galloedd gael cynnaliaeth iddo ei hun a'i deulu, hyd nes yr oedd ei wallt wedi gwynu. Pymtheg a thriugain o flyneddau a aethant heibio arno, ac wedi gadael eu heffaith ar ei wynebpryd, trwy ei wneuthur yn rhychau: ac er ei fod mor agos i derfyn ei ddyddiau, yr oedd 'heb Dduw yn y byd.' Ymddengys nad oedd dim meddyliau am dragwyddoldeb wedi cynhyrfu dim ar ei galon ef.

Yr oedd fel un wedi ei "adael yn unig:" ond Duw, yr "hwn sydd gyfoethog o drugaredd," a'i hoffodd ef. Pan yn bymtheg a thrugain oed, cafodd ei gaethiwo gan gystudd i'w dŷ; yr oedd hyny iddo ef, yr hwn oedd wedi bod yn ddiwyd ar hyd ei oes, ac yn mwynhau awyr y mynyddoedd, yn gyfnewidiai mawr, ac yr oedd yn flin iawn, heb fod ganddo ddim i'w wneyd i ddifyru ei hun.

Clywodd y rhai oedd yn byw yn y ffarm nesaf, am hyny. Yr oedd geneth yn byw yno, yr hon oedd yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cafodd yr eneth hon, am ei diwydrwydd yn yr ysgol, un o gyhoeddiadau Cymdeithas y Traethodau yn rhodd, gan y gweinidog. Pan y clywodd yr eneth fod yr hen Murray yn glaf a digalon, am na wyddai pa fodd i dreulio ei amser, meddyliodd mai un achos o hyny oedd, nad oedd ganddo lyfrau i'w darllen: a phenderfynodd fyned at yr hen wr i gynnyg iddo fenthyg ei llyfr i'w ddarllen. Cymerodd Murray y llyfr, gan lawenhau am ryw-beth i'w gysuro yn ei ddyddiau blin, ac addawodd ei ddarllen ef. Fe wnaeth hyny. Ac fel yr oedd yn darllen, daeth yn ymwybodol o deimladau rhyfedd. Nid ei oedran, na'i wendid, a'u hachosodd: daeth i grynu yn fawr, ac i wylo yn dŵrys: yr oedd ei gydwytod yn cynhyrfu gan argyhoeddiad; ac fel Felix, yn dychrynu wrth ddarllen am "gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd." Yr oedd hwn yn ddiwrnod bythgoifiadwy iddo ef. Ymrysonodd ysbryd Duw ag ef yn effeithiol; ei esgeulusdra, ac oes faith o bechodaau, a ddaethant yn awr adref at y gydwytod: yr oedd melldithion y gyfraith yn goleuo ar ei feddwl euog, ac usfern yu anocheladwy. Fe wylodd, darlenodd, a gweddiodd: gweddiodd ac wylodd eilwaith. Yr oedd yn edrych ar ei glefyd gyda dychryn—"gall fod i farwolaeth," meddai; ac yr oedd yn teimlo ei hunan yn anmarod, a gweddi ei galon oedd, "Paid a mi fel y cryfhawyd cyn fy myned ac na byddwyf mwy." Yr oedd erbyn hyn yn awyddus am hyfforddiad, a darlenodd y llyfr hwnnw ag oedd wedi ei oleuo drachefn a thrachefn. Gwir fod y llyfr yn tuedu at addysgu yn fwy nag i argyhoeddi; er hyny, gan ei fod wedi gwneyd yr olaf, felly hefyd yr oedd yn gwneyd y cyntaf: llewyrchodd goleuni ar feddwl yr hen wr, fel yr oedd y Bibl erbyn hyn yn dra gwerth-fawr yn ei olwg, yr hwn fu hyd yn hyn yn cael pob diystyrwch ganddo. Ar ol i'r eneth glywed fod Murray wedi gwellâu, aeth i ymefyn am ei llyfr. Gan ei fod wedi cael cymaint o fudd oddiwrtho, teimloedd yn anewyllysgar i ymadael âg ef. Yr eneth heb ddeall Murray yu iawn, a diaeth at y gweinidog, a dywedodd wrtho yr hanes: gwelodd yntau pa fodd yr oedd pethau yn bod, ac a'i cysurodd trwy addaw iddi lyfr arall; ac efe a aeth ei hunan i dŷ yr hen wr, a gwelodd fod pethau yn bod fel yr oedd yn dysgwyl. Yr oedd Thomas Murray wedi dyfod yn ddyn newydd, a dyna lle yr oedd, yn troi dalenau y llyfr gwerthfawr yr oedd yr eneth wedi ei fenthyca iddo. Cymerodd Mr. B. (sef y gweinidog) y llyfr yn ei law, a gwelodd fod yr "Ymofynydd Pryderus" wedi gweithio ei ffordd i'w ddwylaw, a bod ei wirioneddau wedi disgyn i'w galon. O'r dydd hwnnw allan cynnyddodd mewn gwybodaeth

ysbrydol gyda y fath gyflymdra, fel yr oedd yn wir ryfedd. Pau y gwelais i ef yr oedd yn siarad fel un yn gweled y "tir pell a'r brenin yn ei degwch." Yr oedd ein hymddyddanion yn adfywiad i fy enaid; a gadewais ef gan barchu ei dduwioldeb yn gystal a'i benllwydni.

Ychydig wythnosau yn ol, cefais hysbysiad gan y gweinidog am ei farwolaeth. Nid oedd ei selni olaf ond byr, a'i ymadaawiad yn ddiswmwth. Y dydd cyn ei farwolaeth, ymwelodd a'i gymydogion, a rhoddodd draethodyn i bob un, a chyngor cyfaddas. Dywedai y gweinidog iddo alw am dano yn y prydawn, ac yn ei Wydd, efe a erfyniodd am i'w deulu (va rai oedd yn Ariaid) ffio'u noddfeidd celwydd, at yr Arglwydd Iesu Grist; ac erbyn y boreu yr oedd ei anadl wedi darfod. Fel hyn y bu marwolaeth Thomas Murray druan! "A bydd goleuni yn yr hwyr." "Marw a wnwlyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau!"

At Olygwyd y "Geiniogwerth."

[Canfyddir nad oedd y llythyr a ganlyn wedi ei fwriadu i ymddangos yn argraffedig. Er hyny, pe buasem yn ei gyhoeddi ar unwaith heb ddim seremoni, diau y cawsom faddeuant rhwydd gan ein holl ddarllenwyr, ac y buasai yr awdur ei hun yn ymdawelu ar ol ychydig iawn o ystyriaeth. Ond rhag gwneyd dim tebyg i drosedd ar reolau moesgarwch, anfonasom yn ddioed at ein cyfaill parchedig i erfyn ei ganiatad; a thrwy fod yn hynod o daer, a dangos iddo yr anghenrheidrwydd am liosogrwydd o dystiolaethau oddiwrth wahanol bersonau yn erbyn pechodau yr oes, llwyddasom i ennill ei gydsyniad i'r llythyr ymddangos yn y "Geiniogwerth."]

Amlwch, Ebrill 27ain, 1849.

GΥFELLION HOFF,—Derbyniais lythyr oddiwrthych yn ddiweddar, ac nis gwn eich bod yn dysgwyl atebiad; ond o herwydd y cyfrif sydd genyf o'r hyn a dardd oddiwrth eich dwylaw, nis gallaf lai nag anfon rhyw fath o atebiad.

Gofynech am ysgrif i'r "Geiniogwerth," i amddiffyn *diweirdeb* yn mysg ein cenedl, ac er gwrthsefyll yr hyn sydd wedi ei llygru yn fawr, a'i gwarthu yn drwm, yn ngolwg Duw, ac yn nghyfrif cenedloedd gwareiddiedig y byd. Yr wyf yn edrych ar eich amcan yn hyn yn gyffelyb i'r hyn a ddywed y Dr. Franklin,—"*I have always set a greater value on the character of a DOER OF GOOD, than any other kind of reputation.*" Felly gellwch chwithau brisio egwyddorion o'r fath yn uwch na "Cheiniogwerth." Nid ydyw bellach yn debygol y gall fy enw gyrhaedd enwogrwydd mawr yn mysg awduron; ac yr ydwyf finnau yn rhy falch i ymddangos ymhlið eu gwehilion, ac felly yn tybied yn radd o ddoethineb imi "gadw fy ngherdd yn fy nghôd."

O ran a gesglais i oddiwrth gyhoeddiadau y Dirprwywyr, nis gallaf ond barnu, os darfu iddynt hwy liwio *glas* wrth ddesgrifio'r

Cymry, ddarfod iddynt trwy hyny ddysgu eraill i *lifo du*; ond nid rhyfedd hyny, canys mae *improvement* i'w ddysgwyl yn barhaus ar gelfyddydau y byd anmherffaith hwn. Da genyf weled na chymerwch esgus oddiwrth eithafiaeth mewn eraill i adael heibio wneuthur dim a alloch er lles eich cenedl, ac anrhyydedd yr Arglwydd. Trwy fod y "Gainiogwerth" yn cael taeniad mor heblaeth, dysgwyliwn y gallech trwyddi dynu gradd o sylw'r ieuainc at y diwygiad yr hiraethwn oll am weled ei lwydd, sef dwyn y Cymry i werthfawrogi y rhinweddau yr ydym er's oesoedd wedi eu dibrisio yn ormodol; megys diweirdeb, geirwirdeb, cywirdeb, &c. Eto, nid yw *oes* (pa faint bynag yw hyd hōno) ddim yn rhy faith i ddysgwyl effeithiau dymunol oddiwrth eich cyfarwyddiadau—pan y mae arferion llygredig wedi gwreiddio yn ein mysg er's cannoedd o flyneddau. Ni chymerwyd y sylw a arferid gynt gan lywodraethwyr ein cenedl ar buteindra, byth gwed i *Restoration*.

Tybygaf y bydd raid cael *oes newydd* o benau teuluoedd a rhieni cyn y gellir dysgwyl gwellâd perffaith ar ein gwlad, a'r rhai hyny gwedi eu maethu o foreu eu bywyd mewn rhagtarn sanctaidd at yr arferion y cwynwch o'u herwydd. Pe felly, gellid gobeithio ymwared buan; ac os gellwch a *cheiniogwerth* daenu y rhinwedd hwn o ddiweirdeb dros wyneb Cymru, bydd y fargen rataf a mwyaf manteisiol, a gafodd y Dywysogaeth er dydd ei sylfaeniad hyd yn awr.

Rhaid y bydd y rhinwedd, pan yr ymddangoso, yn enwog-rwydd i benau teuluoedd, fel y mae y gwarth yn bresennol wrth eu drysau: ac yr wyf yn meddwl nad oes ond anorchfygol ras a all gael gan rieni a meistriaid llygredig, beri i'w deiliaid feddwl eu bod yn casâu yr hyn sydd yn achlysuro i'r ieuainc gael eu llygru yn dost. Er y gall meistriaid gwyliadwrus gael eu siomi a'u briwo trwy ddrwg arfer ein cenedl; eto, ni byddai *help* neb yn gymaint mantais at wellâd a'r eiddo penau teuluoedd.

Nid hawdd i chwi gredu ystyr y siarad budr a arferir ar aelwydd llawer o'n *farm-dai* ar nosweithiau ffeiriau a'r cyffelyb, a hyny hyd yn nod gan rieni, yn ngwydd eu plant a'u gweinidogion, yr hyn sydd yn fagwraeth i'r hyn sydd yn rhwystr i'n cenedl ragori ar genedloedd y ddaear. "Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau," medd y Bibl: ond yn mysg ein cenedl ni y mae *dylif* o ymadroddion bryntion yn cael eu tywallt ar ein ieuencyd o oes i oes, megys *caru yn y gwely*, &c., y rhai sydd yn frychau ar wyneb y papyryn yr ysgrifenir hwy arno. Mewn gair, mae y dull y llywodraethir llawer o deuluoedd yn *license* i'r ieuainc i gymeryd eu ffordd eu hunain.

Pe gallech ddwyn rhieni i gydwleled a chwi ar y pwnc mewn llaw, dyna'r frwydr wedi ei hennill, o leiaf i radd pur bell! ac wedi hyny, ni byddai nemawr gwaeth pa liw a fyddai ar lyfrau ein hanes; canys mae diweirdeb y fath *bapyr gwyn* na fedr neb byth ysgrifenu *du* arno. Gweithiod eich "Ceiniogwerth" ei ffordd, nes y byddo iddi ddileu y dreth a godir i fagu bastardiaid, ac yna gall yr oes sydd yn codi fforddio talu punt am dani, yn lle ceiniog.

Diweddaf gyda dyweddyd, os daw i fy meddwl rywbeth ag y barnwyf ef o ryw ddefnydd i'w ddodi mewn "Ceiniogwerth," chwi a'i cewch. Ydwyt, yr eiddoch yn ddiffuant,

W. ROBERTS.

Pennod yr Athronydd.

Y MAE pob dyn wedi ei amgylchu a'r hyn y mae yn dàl cymdeithas trwy synwyrau ei gurff. Os gofynir pa beth ydyw trefn a chyfansoddiad y byd sydd yn gorwedd o fy milaen, ac yn cyfarch fy synwyrau yn mhob cyfeiriad, y mae ymdrechiadau i ateb y cyfryw ofyniad yn rhoi bod i athroniaeth anianyddol, yr hon a ddosberthir i wahanol wyddorion a chelfyddydau, yn ol y tiriogaeth o anian fyddo yn wrthddrych iddi. Os y ser, seryddiaeth; os yr awyr, awyriaeth; os creigiau, creigyddiaeth, ac felly am holl ddosbarthiadau anian.

Mae pob dyn mewn cysylltiad â dynion eraill trwy berthynasau anghenrheidiol a gwirfoddol. Os gofynir pa beth ydyw ystyr y rhwymau hyn sydd yn fy nghysylltu â fy nghyd-ddynion, mae rhai o honynyt y cyfryw nas gellir eu tori: nis gallaf trwy unrhyw weithred o'm heiddo beidio a bod yn fab neu yn frawd; ond y mae yn bosibl i mi weithredu fel pe na byddwn yn yr un o'r perthynasau hyn. Mae y perthynasau yn parhau, er i mi weithredu yn anheilwng o honynyt. Pa fodd y mae i mi fyw fel ag i gyflawni dyledswyddau y perthynasau yr wyl ynddynt? Pa beth sydd yn gwneyd fy ymddygiadau a fy sefyllfa yn anghyson â'u gilydd? Mae yr ymchwiliad hwn yn rhoi bod i athroniaeth foesol, ac iddi y perthyn dau ofyniad mawr, sef mewn pa beth y mae rhinwedd yn gynnwysedig, neu pa beth sydd yn cyfansoddi cymeriad da a chymeradwy. Ac yn nesaf, trwy ba allu neu gynneddf yn yr enaid y dywedwn fod hwn yn gymeriad da a'r llall yn ddrwg; neu, mewn geiriau ernill, pa fodd y mae y meddwl yn cymeradwy o ynail, ac yn anghymeradwy o llall. I'r gofyniad cyntaf y mae rhai yn ateb, mai cymwynasgarwch ydyw hanfod rhinwedd. Dywed eraill mai gweithredu yn gyson a'r gwahanol berthynasau yr ydym yn sefyll ynddynt; barn eraill ydyw, mai diogelu ein dedwyddwch gwirioneddol a pharhaol ein hunain, ydyw yr ateb priodol. Mae yr atebion i'r ail ofyniad mor amrywiol: weithiau dywedir, hunan-gariad—yr hyn sydd yn dangos i ni pa beth sydd oreu er ein lles: weithiau rheswm—yr hon sydd yn dangos i ni y gwahaniaeth rhwng cymeriad da a chymeriad drwg, fel y gwna rhwng gwirionedd a thwyll: yr ateb pryd arall ydyw, fod cyneddf neillduol i hyn—yr hon a elwir y synwyr foesol (*the moral sense*), ac mai ei gwrthddrychau ydyw drwg a da moesol, fel y mae lliwiau yn wrthddrychau y llygad. Barn plaid arall ydyw, mai cydymdeimlad (*sympathy*) ydyw y gynneddf dan sylw.

Fe all dyn ofyn, pa berthynas sydd rhyngddo ef a'r byd sydd yn ei amgylchu? a ydyw yn ddarostyngedig i'r un deddfau a'r byd

allanol, a i ynta a ydyw dan deddfau gwahanol? a ydyw y gallu sydd ganddo ef yr un o ran ei natur a'r gallu sydd yn y greadigaeth, neu a oes rhyw neillduolrwydd yn y gallu sydd yn ei feddiant? Os oes, pat beth ydyw? Pa beth ydyw y gwahaniaeth sydd rhwng y gallu a weithredir gan y greadigaeth ar y dyn, a'r gallu a ddefnyddia y dyn i weithredu ar y greadigaeth. Ar ba ammodau y mae dyn yn meddu y gallu hwn, a than ba ammodau y mae yn gweithredu? Y mae y fath ofynion a rhai'n yn rhoi bod i fath arall o athroniaeth nad oes yn Gymraeg enw i'w dynodi. Ond fe wel y darlenydd ei ystyr pe gwnaem air, a'i galw yn athroniaeth uwchanianol (*metaphysical philosophy*).

Y mae athroniaeth foesol ac uwchanianyddol yn gwahaniaethu oddiwrth athroniaeth anianyddol yn hyn; y mae eu cyfeiriad yn neillduol at ddyn; ond y maent yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, o gymaint a bod athroniaeth foesol yn cymeryd yn ganiataol nad ydyw dyn yn rhan o anian, a bod ei alluoedd yn dra gwahanol i'w galluoedd hi. Ond y mae uwchanianaeth yn ceisio profi hyn. Chwilio am sylfaen ein bywyd ymarferol a chyfrifol, ydyw amcan y naill, a chwilio am sylfaen a graddau a therfyn ein galluoedd, yw amcan y llall.

Whitfield yn dechreu pregethu.

Y MAE COFFADWRIAETH Y CYFIAWN YN FENDIGEDIG, AC ENWAU Y RHAI A "DROANT LAWER I GYFIAWNADER, A FYDDANT FEL Y SER BYTH AC YN DRAGYWWYDD;" AC UN O'R CYFRYW RAI OEDD MR. WHITFIELD. PAN ODDEUTU UNAR HUGAİN OED, ANFONOÐD Y DR. BENSON, ESGOB CAERLOYW, ATÔ, GAN DDYWEDYD, MAI NID EI ARFER GYFFREDIN EF OEDD ORDEINIO NEB CYN EI FOD YN DAIR AR HUGAİN OED, OND YR ORDEINIAI EF PRYD BYNAQ YR YM OFYNAI AM HYNY. YN NGWYNEB Y CUNNYGIAD YMA, DANGOSOÐD MR. WHITFIELD YNDDYGIAD AG OEDD YN DEILWNG O'I EFELYCHU; NI RUTHRODD YN ANYSTYRIOL AC YN FYRBWYLL I RODDI ATEB I'R ESGOB, OND YM OFYNODD YN GYNTAF A'R ARGWYDD Mewn gweddïau taerion, gan holi llawer arno ei hunan, os oedd y cymhwysderau ynddo ef ag sydd yn anghenrheidiol er bod yn weinidog cymhwys y Testament Newydd: darllenodd y pedair erthygl ar bymtheg ar hugaín, gan eu hastudio yn fanwler mwyn cael gweled, ac er boddlonrwydd iddo ei hun, os oeddynt yn unol â gair Duw; ac yna, wedi cael hyny ynghyd, a chael lle i feddwl fod yr Argwydd yn foddlawn iddo, rhododd atebiad i'r esgob, gan ddywedyd, ei fod yn dewis cael ei ordeinio mor fuan ag y byddai modd. Treuliodd y dydd Sadwrn cyn ei ordeinio, gan mwyaf mewn gweddi ddirlgel drosto ei hun a thros y rhai a neillduid i waith y weinidogaeth yr un pryd ag ef. Boreu dranoeth, sef y Sabbath, Mehefin 20fed, 1736, cychwynodd gyda thoriad y wawr i ddarllen Epistolau Paul at Timotheus, gan weddïo am i'r Argwydd fendithio y gwaith oedd yn myned ymlaen y dydd hwnnw yn Nghaerloyw, sef ei neillduad ef a'i frodyr i waith y weinidogaeth; a diau iddo gael ei wrandaw yn ei erfyniadau, oblegid gwnaeth

yr Arglwydd waith mawr trwyddo yn ei ddydd : cafodd ei urddo gan yr Esgob Benson, a diammhau na fu dim o law yr hen esgob hwnw ar neb mwy bendigedig erioed : gellir dyweyd am dano, ei fod wedi "ei wisgo â nerth o'r uchelder," ac wedi ei arfogi yn nhîr Dafydd, lle mae tariannau fil yn crogi, i gyd yn estylch y cedyn ; aeth allan fel un "âg awdurdod ganddo," yn nerth ac ofn yr Arglwydd, a dechreuodd ei yrfa weinidogaethol yn Eglwys Caerloyw, yr eglwys lle cafodd ei fedyddio, a lle y cyfranogodd o Swper yr Arglwydd gyntaf erioed. Y Sabbath cyntaf ar ol ei ordeinio, pregethodd yn yr eglwys uchod am y tro cyntaf, lle yr oedd cynnulleidfa liosog wedi ymgynnll i wrandaw, gan mwyaf o gywreinrwydd, oblegid ei fod yn ieuanc iawn, ac am eu bod yn ei adnabod er y blaen. Yr oedd rhai o honynyt yn barod i wawdio a dirmygu, eraill yn cael eu meddiannu gan syndod. Parodd liosogrwydd y dyrfa iddo frawychu ychydig yn y dechreu, ond teimlodd wrth fyned ymlaen fod yr Arglwydd yn "perffeithio nerth mewn gwendid;" gwelodd y tan yn dechreu cynneu, a'r saethau yn gwau, a'r dagrau yn treiglo dros y gruddiau, a'r dorf liosog yn ymddangos mor sobr a phe buasent o flaen y farn. Dealodd erbyn hyn fod yno galonau yn cael eu harcholli, a gwaith yn cael ei wneuthur na dderfydd canu am dano tra fo Duw mewn bod. Mawr y siarad a'r sibrwd a fu trwy yr holl ardal yr wythnos ganlynol am y bregeth hono ; gwnaeth rhai o honynyt achwyniad wrth yr esgob, gan ddywedyd, mai pregethwr ofnadwy oedd Whitfield, ei fod wedi gyru pymtheg, o leiaf, yn wylt o'u cofau wrth bregethu iddynt y Sabbath cyn hyny. Ar hyn atebai yr hen esgob parchus fel yma, "Yr wyf yn gofeithio na bydd iddynt anghofio eu gwyltineb cyn y Sabbath nesaf." Dyma esgob yn dymuno i'r offeiriad wneyd lles i eneidiau wrth bregethu, ac nid yn ei garcharu am bregethu (fel Mr. Shore, gan Esgob Exeter, yn ein dyddiau ni). Gwelwn wrth hyn mor amlwg y dangosodd yr Arglwydd ei foddlonrwydd yn anfoniad ei was hwn, ac fel y medr yr Arglwydd wneyd gwaith mawr trwy offerynau gwael. Y mae Whitfield wedi marw, ond y mae Duw Whitfield yn fyw eto. Syrthiodd y seren, ond y mae yr haul yn llewyrchu ; aeth yr afon yn ddiysbydd, ond y mae y môr yn llawn ; bu y gwas farw, ond y mae y meistr yn fyw, ac y mae wedi addaw bod gyda ni "bob amser hyd ddiwedd y byd :" am hyny, "attolygwch i Arglwydd y cynauaf" anfon gweithwyr i'r cynauaf, yn lle yr enwogion sydd wedi eu galw oddiar y maes.

T. J.

Cyffelybriwydd Einioes.

EPELYCHIAD.

Cyffelyb ydyw einioes i syrthiad seren glaer,
 Neu ehediadau cyflym yr eryr yn yr aer :
 Neu fel dillynaidd liwiau yr iraidd wanwyn chweg,
 Neu loyw ddarnau gwlithos ar hafddydd fore teg ;

Neu fel y gwynt cythryblus gynnyrfa wyneb dwr,
 Neu fel burlymau gweiniaid, yw egwan einioes gwr:
 Nid ydyw ef amgenach a'i wawl benthyciawla
 Ofynir eto'n fuan, ei dalu heno wna.
 Cyffroad gwynt a dderfydd, y bothell ymaeth a;
 A'r gwanwyn a'i hardd liwiau a lyncir gan yr ha;
 Yr huan sy'n y gwlithos, y ser diffoddant hwy;
 A hedfan 'r eryr heibio—a dyn ni chofir mwy.

Caergybi.

DANIEL DDU O FON.

Gyrfa Dedwyddwch.

I ba beth y gwneir cymhariaeth
 O ddyn a'i ymdaith yn y byd?
 Tebyg yw i Jehu frenin
 Yn gyru'n erwin iawn o hyd:
 Ei rediad sydd ar ol dedwyddwch
 Gan ddyweyd fod draw ryw fyd
 sydd well;
 Draw—ryw gymaint o'r fan yma,
 Draw—nid ystyr pa mor bell.
 Gyda mân deganau'r plentyn,
 Dywed, 'draw mi fydda'n llane';
 Fellygyr nes cyrhaedd yno,
 Eto ni bydd lai ei wauc;
 Yna dywed wrtho 'i hunan,
 'Draw mi wela' y mae gwyn fyd;
 Draw—yn nyffryn glan briodas
 Draw—yn ninas ennill byd!'

Gyru wna yn hwyr a boreu
 Nes cyrhaedd i'r fan hono'n flin,
 Ond wedi'n draw mae dedwyddwch,
 Draw mae 'n gweled niwed hin;
 Draw 'r ol gorphen magu 'r eppil,
 A myn'd trwy 'r trafferthion
 mawr,
 Yna'n wir fe geit dedwyddwch—
 Colli'r boen, rhoi'r baich i lawr.
 Ond er cyrhaedd i'r fan hono
 Draw yn rhywle mae gwyn fyd;
 Nis gall ddyweyd y fan yn gymhwys
 Ond mai draw, a draw o hyd:
 Gan hyny gyru sydd raid iddo
 Er ei luddled—ni chaiff hedd
 A chyn cael gafael ar ddedwyddwch
 Mae 'n colli' wynt a chael y bedd.

Y Dirwestor Gwirthgildedig.

Ti, yr hwn a gychwynaist unwaith, a throaist yn ol! Goddef im' ymresymu ychydig â thi: a gofyn iti gwestiwn neu ddan. Pa beth a barodd iti ymuno â'r Gymdeithas Ddirwestol pan y gwnaethost? Ai i foddio dy chwant y gwnaethost? Ai y diafol a'th gymhellodd? Tybygaf glywed yr ateb yn groew o lys dy gydwybod nychedig, yn ymdori mewn llef athrist, gan ddywedyd, Nage. Ond yn awr, eto, pa beth a barodd iti droi yn ol oddiwrth ddirwest? A gefaist ti waeth golwg ar y gymdeithas? Neu well golwg ar feddwdod a diota? Ateb yn gadarnhaol os gelli,—neu taw â'th esgusion gorwag byth. Oni wnaethost yr unrhyw weithred a gwraig Lot? Onid oes arnat ofn derbyn ei melldith yn ysbyrydol? "Y neb sydd yn tynu yn ol, nid yw fy euaid yn ymfodloni ynddo." "Yr hwn a wybu feddwl ei Arglwydd ac nis gwnaeth, a gurir â llawer ffonod." Ti yw y dyn sydd yn dwyn rhwystrau. Yr wyt yn gwybod yn weïl na 'r gelynion pa fod i rwystro. Pa le y ceir iaith a all osod allan dy wagder? Yr wyt yn frawd i Judas; yr wyt yn waeth na Meros, pa rai gafodd eu "melldithio am na ddaethant allan yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn"—er eu bod yn byw tua deuddeng milltir o fan y rhyfel. Ond am danat ti, darfu i ti, fel "meibion Ephraim, yn arfog ac yn saethu â bwa, droi dy

gefn yn nydd y frwydr." O! wael ddyn. Ti aethost yn fradwr cymdeithas, naddoist dy gvdwybod er mwyn porthi dy chwant yn absenoldeb ei goleuni. Rhaid dy fod yn cau dy lygaid rhag edrych ar fyftrwad tragywyddol er mwyn gallu mwynhau eisurcn trachwant yn ddiofn. Er dy fod yn ceisio pellbau y dydd drwg, eto, fe ddaw fel lleidr. "Pan ddywedant tangnedefod a diogelwch, yna y mae dinystri disymwth yn dysod ar eu gwarthaf; megys gwewyr esgor ar un a fo beichiog, ac ni ddiangant hwy ddim." Fel y dywedodd y Parch. J. Jones, "Creadur i'w gael yn rhywle ydyw dyn."

Anwyl gyfaill: na feddwl ein bod yn ceisio gosod dirwest i fynu, fel yn ddigon o grefydd. Pell ydynn oddiwrth hyny. Ond rhaid fod dirwest yn rhywbeth; ac nid yn rhywbeth chwaith—ond yn rhinwedd anmhrisiaidwy, yn enwedig yn Myrdain feddw. Ond, a goddef iti ddyweyd mai rhinwedd bach yw dirwest; felly onid wyt yn fwy diesgus fyfth. Os bach yw y gwaith, bach o egni sydd eisieu ato. Ac er cystal gwyn neb sydd genyt tithau, nis gelli wadu daioni dirwest. Ac os yw yn dda, pa beth sydd rhyngot â hi? Ac a wyt ti yn gwagfreuddwydio y bydd i Dduw achub dy enaid rhag usfern, tra a thi yn 'chwanegu pechod at bechod; a hyny yn ngholeu rheswm, cydwybod, a gair Duw. "Am i mi yn fy anwybod ei wneuthur," meddai Paul, "mi a gefais drugaredd." Onid wyt ti yn ngholeu cydwybod argyhoeddedig, yn dal i fynu yn weithredol wrthryfes yn erbyn y Duw yr hwn yr wyt yn dysgwyl iddo drugarbau wrth dy enaid, Pa foddyd y dysgwyl gael ychwaneg, tra yr wyt yn drrmygu yr hyn a gynyngir iti? Ti gefaist un dalent, ac yn lle defnyddio hono, ti a'i cuddiaist yn y ddaear. Naccaist a bod yn "ffyddlon ar ychydig," eto, yr wyt yn dysgwyl cael dy "osod ar lawer." Pa sail sydd genyt? O was drwg a diog." Pa sawl gwas da a ffyddlon fu yn ffyddlon ar ychydig," (dirwest) gafodd ei osod ar lawer," ac erbyn hyn sydd wedi myned i mewn i lawenydd ei Arglywydd. Os wyt am i Dduw dy gadw, rhaid iti foddloni iddo dy gadw yn ei drefn ei hun. Paid a meddwl y newidia Duw tragywyddoldeb o'r hyn yw, er dy fwyn di, pan y byddi tua gwely marw, a thithau wedi ei watwar ar hyd dy oea. Pe buasai am arbed pechod yn rhywle, diau y gwnaethai hyny yn ei fab ei hun—ei anwyl fab, ei unig fab—ei unig-anedig fab; ond clywn ef yn dyweddyd, "Daffro gleddyf yn erbyn fy Mugail, yn erbyn y gŵr sydd gyfaill i mi." Pan aeth y cyfaill i le y gelyn, yr oedd yn rhaid ei daro. Nid pan aeth y cyfaill yn elyn. O na, yr oedd y Tad digyfnewid, mor anwyl o'i Fab, pan yn ei daro ar Galfaria, a phan yn ei "dra-ddyrrachafu," ac yn "rhoddi iddo enw goruwch pob enw." Nid ydym am ddyweddyd na achubir mo honot hyd nes y deui yn ddirwestwr yn ol; ond gallwn ddyweddyd hyn: pan y bu y ymweliadau o eiddo yr Arglywydd yn ein gwlaid, yn yr ardal oedd hyny oedd yn fwyaf dirwestol, yr oedd ynt gan mwyaf o lawer iawn; a dywedir i ni mai felly y maent yn bresennol yn y manau hyny y mae arwyddion neillduol o waith yr Ysbryd Glan yn achub. A chan mai fel hyn y mae wedi ac yn bod gyda lleoedd neillduol, paham nad eill fod gyda phersonau neillduol. Y mae cystal gobaith yma ag yn un man, os nad gwell. Gan hyny,

Hen ddirwestwr gwrthgiliadig
Tro dy wyneb eto 'n ol;
Clyw! mae dirwest fwyd yn ga'w,
 Gwrando, gwrando, na fydd ffol.
Gad yr hen feddyliau culion,
 Gad y rhagfarn, gad y chwant
Ti gei well a iachach cwnni
 Gyda dirwest fil a chant.

Yn lle yr hen feddyliau celyd,
 Ti gei gariad—hyfryd iawn ;
 Yn lle rhagfarn cas a digter,
 Cei lawenydd fore' a nawn :
 Yn lle porthi chwant anniwall,
 Cred, cei lawer mwy o flas,
 Nac ar gwrrw, *rum*, na brandi,
 Ar ddyfroedd iachawdwriath gras.
 Ha, fy nghyfaill, gwell dy ennill,
 Paid ag oedi; wele 'r awr;
 Ti arosaist lawer gormod,
 Yn yr hen ddiffaethwch mawr :
 Tyred a phrieda ddirwest,
 Ti gei lawer yn y fan ;
 Ac er dim prioda 'r Iesu,
 Cei nef y nefoedd it' yn rhan.

TREBOR GLAN COLLEN.

Goror Clawdd Offa.

DERBYNIAIS y llythyr canlynol, a phunt ynddo, mewn atebiad i'r cais a wnaed yn y "Geiniogwerth" am fis Ebrill, yn achos Goror Clawdd Offa. Gan i'r fenyw haelfrydig a'i hysgrifenodd ddewis cuddio ei henw, ac nad oedd genyf gymaint ag amcan pwy ydoedd, nis gallaswn ei chydynabod yn bersonol ar dderbyniad yr arian, ac felly yr wyf yn dymuno arnoch, os byddwch yn cyd-olygu, gyhoeddi ei llythyr, fel y deallo, pan y dygwyddo eto daslu golwg dros y "Geiniogwerth," fod ei rhodd wedi dysod i law yn ddiogel, a'n bod yn teimlo yn dra diolchgar iddi am ei charedigrwydd. Gellir dysgwyl hefyd na bydd i'w hesiampl, wedi y cyhoedder hi, fod yn hollol aneffeithiol ar eraill. Dylwn, efallai hysbysu ymhellach fod ei llythyr wedi ei ddiogelu trwy gofrestrriad yn swyddfa y llythyrau, yr hyn gyda toll y llythyr a gosiodd iddi wyth geiniog yn ychwaneg : agos cymaint ysywaeth, a'r oll a gyfrenir gan lawer, yn fynnedol, at yr achos cenadol. Gan ddymuno llwydd y "Geiniogwerth" i amlhau thai tebyg iddi, ac yn enwedig, ar i holl ferched Cymru, a elont i wasanaeth i Lundain, gofio, nad ydyw yn annhosibl iddynt yno goleddu teimladau cynhes tuag at gael Goror Clawdd Offa, a phob part arall o'r byd yn eiddo Crist, fy gor-phwysaf yr eiddoch—

Drefnewydd.

O. THOMAS.

Clust o ymgorandawiad i'r "Llais."

Llundain, Ebrill 11eg, 1849.

BARCHEDIG SYR.

Boreu ddoe, dygwyddodd i mi ar ddamwain daslu golwg dros y "Geiniogwerth;" a'r peth a dynodd fy sylw bren yn gyntaf oedd, y "Llais;" ac erbyn i mi edrych arno, mi a welwn mai apeliad oedd at yr Ysgolion Sabbothol, am gymhorth tuag at adeiladu capel Coedway. Wrth ddarllen yr hanes, yr oeddwn yn teimlo yn ddwys o herwydd eich bod wedi methu myned a'r gwaith ymlaen am na wrandawai yr Ysgolion Sabbothol ar yr anerchiad y tro o'r blaen; ac hefyd yr oeddwn yn cael fy lloni yn fawr wrth weled fod yno dair nen bedair o ferched ieuainc, a gwragedd cyfrifol, o aelodau, wedi cymeryd y gwaith mewn llaw. Yn wir, fe fyddai yn an-

rhydedd i'r frenines gael gwneyd y fath waith a hwn. Ac fel un o'r rhwyf senywaidd yr ydwyf yn teimlo hyfrydwch mawr mewn cael taro fy ysgwydd tan y baich, gyda 'm hanwyl chwiorydd yn yr Arglwydd, er na welais wyneb yr un o honynnt erioed, ac nas caf weled wyneb yr un o honynnt byth yn y cnawd; ond eto yr wyl wedi teimlo llawer o hyfrydwch, er ys amryw flyneddau bellach, mewn llasurio tipyn bach ar yr un maes ag y maent hwythau arno, aef y maes cenadol. Ac i'r dyben o'u calonogi yn eu gwaith yr ydwyf yn anfon y penadur hwn. Pe buasai mwy yn fy ngallu, mwy a gawsech: ond nid yw y Penillywodraethwr mawr wedi gweled yn dda fy rhoi i i droi ond mewn cylch bychan iawn. Yr ydwyf yn gwybod bob dydd beth ydyw bwyta fy nhamaid bara trwy chwys fy wyneb. Ond coeliwch fi, barchedig syr, mi deimlais eiddigedd lon'd fy nghalon lawer gwaith wrth edrych ar rwysg beneddigion yma yn gwario' eu heiddo a'u hamser ar oferedd, ac achos Iesu Grist yn methu myned ymlaen o eisieu cymhorth arianol.

Pe cawn i fy ewyllys ar Satan, ni chai o ddim teyrnasu mor helaeth yn Ngoror Clawdd Offa, nag yn yr un man arall chwaith. O! na byddai i ardderchog lu yr Ysgolion Sabbathol, trwy Ogledd Cymru, a threfydd Lloegr hefyd, ddyfod allan fel un gwr yn llu banerog yn erbyn y gelyn. Yn sicr hefyd fe ddychryna'i pe gwelai o nhw felly, er cadarned ydyw. Yr ydwyf fi yn cwbl gredu fod llawer o'r bai hwn yn gorffwys wrth ddrws arolygwyr yr ysgolion. Nid oes hanner digon o sel na chariad ychwaith, y mae arnas ofn, mewn llawer o honynnt dros Iesu Grist. Y mae eu hymddygiad yn dangos peth felly. Y mae yn *bity* fod *plan* mor esmwyth yn syrthio i'r llawr. Yn wir, y mae y Seison ymhell o'n blaenau ni yn hyn. Yr ydwyf o'r farn pe ba'i y Parch. D. Morgan, neu ryw frawd neu frodry eraill yn y weinidogaeth, sydd â'u calon yn llosgi o gariad at y genadaeth yn myned trwy Ogledd Cymru, i dalu ymweliad personol i bob ysgol, ac i adrodd iddynt y pethau a welodd eich llygaid ac a glywedd eich clustiau trwy holl Oror Clawdd Offa, ac i bledio wrthynt mor hawdd yw dwyn y cynllun i weithrediad—ni choeliwn yn fy myw, na chaech chwi foddi i godi mwya nag un capel. Ac yr ydwyf yn methu gweled dim afresymoldeb mewn peth fel hyn.

Yr ydwyf yn meddwl na byddai ddim yn beth allan o'i le, cynnull yr ysgolion ynghyd ar ddydd gwaith yn gystal ag ar y Sabbath, i ddangos iddynt eu gwaith a'u rhoi ar ben y ffordd i weithio. Dyma lle mae y diffyg yn siwr i chwi. Nid yw y plant o'u hieuentyd erioed wedi caeleu haddysgu mewn ffyrdd bach esmwyth fel hyn. A beth a wyddoch chwi pa faint o les, trwy fendith yr Arglwydd, a allai ymweliad o'r fath i'r wlad yn gyffredinol. Gallai yr ymweliad fod yn foddion i greu ysbryd cenadol mewn llawer mynwes na wyr ddim hyd yma, ac y byddai yn ymdafu o fynwes i fynwes, ac na wyddoch chwi yn mha le yn y byd y byddai yn diweddu, na pha beth allai y canlyniadau fod. Ond wff i fy ffoledd yn myned i ddysgu rhai a wyr yn llawer gwell na mi. Maddeuwch i mi, anwyl syr, anmherfleithrwydd fy ysgrifien, a fy hyfdra arnoch. Rhyw eiddigedd dros yr achos sydd wedi peri i mi siarad fel hyn. Tersynaf gan ddymuno eich llwydd, a llwydd y genadaeth.—Yr eiddoch, *Un o aelodau yr Ysgol Sabbathol ymhlið y Trefnyddion Calfinaidd.*

Detholion:

CENEDL Y CYMRY.—Y mae y Cymry, fel cenedl, yn sefyll ar dir lled uchel gyda golwg ar eu gwareiddyn a'u tarddiad; wedi disgyn oddi-

wrth Noah yn y llinell etifeddol. Mab hynaf Noah oedd Japheth, a mab hynaf Japheth oedd Gomer, a mab hynaf Gomer oedd Ascenas; dyma gyff cenedl y Cymry: y maent hefyd yn dal enw eu tad, ac iaith eu tad, Gomeraeag.

ARGRAFFU Y BIBL.—Dywadir mai yn y flwyddyn 1488, yr argraffwyd y Bibl Hebraeg gyntaf erioed: dim ond can' mlynedd o flaen ein Bibl Cymraeg ni.—*Gwel Parch. J. Hughes ar Job xix. 23.*

CRISTION YN MARW.—“Gwn nad wyf dwyllwr; yr wyf yn sier fod heddwch rhyngof â Duw. Gwir fy mod weithiau yn osni'r glyn; ond er hyny, deued y cawr angeu pan y delo, mi gaf fyned o'm gofid y pryd hyny; oblegid mae fy enaid wedi bachu yn ngodoreu gwisg fy arch-offeiriad.—*Diweddar Mr. Morris, Aberteifi.*

DAU PEDD Y CRISTION.—Mae gan lawer gŵr mawr ddwy arch am dano yn y bedd; ond y mae llawer Cristion nas medd ond un arch: ac os nad oes ganddo ddwy arch, y mae ganddo ddau fedd, un i gladdu ei gorff, a'r llall i gladdu ei bechod.—*Diweddar Barch. David Rees, Capel Garmon.*

Hanesion.

Y FIBL GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR.—Cynnaliwyd cyfarfod blynneddol y Gymdeithas hon yn neuadd Exeter, Llundain, ar ddydd Mercher yr ail o fie Mai. Anaml y gwelwyd yr ystafell a'r esgynlawr yn fwy llawn. Yn absennoldeb y llywydd oedranus, Arglywyd Bexley, cym-erwyd y gader gan Ardalydd Cholmondeley, un o'r is-lywyddion. Darllenwyd adroddiad tra boddlonol gan un o'r ysgrifenyddion, y Parch. A. Brandram. Hysbyswyd fod y dosbarthiadau am y flwyddyn wedi cyrraedd 1,107,518 o gyfrolau o'r gair sanctaidd, a bod y cyfanswm o'r dechreuaed yn 21,973,355, mewn mwy na saith ugain o wahanol ieithoedd. Derbyniadau 'r flwyddyn ydynt P.95,933 6s. 1c. sef P.43,358 11s. 10c. am Fiblau a Thestamentau, a'r gweddill sef P.52,574 14s. 3c. at y dybenion cyffredinol. O'r swm hwn cafwyd mwy na saith mil o bunnau yn an-rhegion neilnduol at y gwaith mawr sydd wedi ei gychwyn ar y Cyfandir. Yr oedd treuliadau 'r flwyddyn yn P.88,831 1s. 2c. a'r ymrwymiadau ar ei diwedd yn P.67,694 0s. 11c. Wrth ystyried hoil amgylchiadau'r wlad, a'r ymdrechion anarferol sydd wedi bod mewn cysylltiad a jubili dwy gymdeithas arall, ystyrir fod y Fibl Gymdeithas, ar y cyfan, mewn sefyllifa foddlonol a llwyddiannus. Un o brif hynodion yr adroddiad oedd y crybwyliau am agoriad drysau newyddion i weithrediadau 'r gymdeithas mewn canlyniad i'r chwiliroadau diweddar. Dangoswyd boddlonrwydd a llawenydd mawr, wrth glywed am y mesurau sydd yn cael eu defnyddio yn bresennol i ledanu 'r Bibl yn Itali, a gwledydd Pabyddol eraill.

Cyfarchwyd y cyfarfod gan y boneddigion canlynol:—Esgob Norwich, J. Plumptre, A.S., Syr T. D. Acland, A.S., y Parchedigion H. Stowell, Manchester; R. Keenedy, Stepney, E. Bickersteth, G. Clayton, J. Foster, T. Boaz, o Calcutta; J. Miller, o Birmingham; Archdiacon Dealtry, Dr. Kesson o Ceylon, a Dr. Steinkopff. Da oedd bod yno.

Esgos LLUNDAIN.—Gwaharddodd i un o weinidogion ei esgobaeth i bregethu pregeth flyneddol y Gymdeithas Genadol Wesleyaidd, er i hyny gael ei gyhoeddi yn ei holl gapelydd, ac ar holl barwydydd Llundain.—Y mae wedi gwahardd hefyd cadw Ysgol Garpiog mewn *vestry* un o'r Eglwysydd, gan roi fel rheswm nad ydynt ond nyth-leoedd Ymneillduaeth.

ESGOB EXETER.—Yr oedd y caplan, sydd gan ei arglywyddieth i brofi ymgeiswyr i'r weinidogaeth, yn dyweyd yn ddiweddar mewn pregeth, i'r lleidr ar y groes gael ei achub o herwydd iddo gael ei fedyddio, ac iddo gael ei fedyddio trwy bistylliad y dwfr a ddaeth o ochr ein Gwaredr!

EGLWYS Y WLADWRIAETH.—Mae y gymdeithas sydd â'i hamcan i ddyddymu y cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth, yn gweithredu yn egniol iawn. Cynaliwyd ei chyfarfod blyneddol yn ddiweddar, pryd yr oedd rhai offeiriad yn areithio o blaid hyu. Meddyliem fod un diffyg yn y cyfarfod, a hyny ydyw, na buasai cynnygiad o ddiolchgarwch i'r ddau esgob a enwyd uchod, o herwydd nis gallw feddwl fod yr holl gymdeithas yn un yn gwneyd cymaint i ddangos ysbryd erlidgar, Pabaidd, a dinystriol Eglwys Loegr a hwy.

Y PARCH. BAPTIST NOËL.—Y mae y gweinidog apostolaidd hwn wedi anfon llythyr at Esgob Llundai, i ddyweyd ei fod ef fel Ymneillduwr oddiwrth athrawiaeth, dysgyblaeth, a sefydliad Eglwys Loegr, wedi cymeryd y liwon anghenrheidiol, ac yn gofyn a oes rhywbeth eto iddo wneuthur er mwyn dangos ei ymneillduaeth. Ac nad ydyw yn fodlon i ymostwng i gymeryd mantais y ddeddf sydd yn awr o flaen y senedd i esmwythau ymadawiad gweinidogion o'r Eglwys. Y byddai yn well ganddo fyned i garchar na hyny, a gymaint a bod y ddeddf hono yn gofyn i bob un a ymneillduo, nid yn unig i ddyweyd nad ydynt mwy yn weinidogion Eglwys Loegr, ond nad ydynt mwy yn weinidogion i Grist. Dywed, iddo dystio pan ordeiniwyd ef, iddo gael ei gymhell i'r gwaith gan Ysbryd Duw, a'i fod yn credu hyny eto, ac nas y gall nac eglwys, nac esgob, na senedd, ei ddiswyddo fel gweinidog i Grist.

Y CYFANDIR.—Er dechreuad y chwyldroadau presennol, mae yn debyg na fu eto y fath gymysgedd, a dyryswn, a phenbleth, ag sydd yr wythnosau hyn.

GERMANY.—Mae yn debygol iawn yn bresennol y bydd brwydr gartrefol rhwng trigolion a llywodraethwyr y wlad hon. Yr amean mewn golwg gan y bobl ydyw, undeb Germanaidd rhwng holl lywodraethau y wlad hono, yn cynnwys pymtheg ar hugain o wahanol lywodraethau. Ystyriai y llywodraethwyr nas gall hyn gymeryd lle heb iddynt hwy golli llawer o'u hawdurdod. Mewn cyrau o'r wlad y mae y trigolion eisoed wedi codi mewn arfau.

AUSTRIA.—Mae peryglon yn amgylchu y wlad hon. Mae gelynion iddynt mewn arfau o bob tu, a hwythau wedi gorsod ffoi at fwystfil ynglyfaethgar, sef Rwsia, am ymwared.

RHUFAIN.—Ni wyddis pa beth fydd tynged y ddinas hon cyn i'n darllenwyr weled yr hysbysiad hwn. Yn bresennol y mae y Ffrancod yn gorwedd dan ei muriau, wedi gwneyd un ymosodiad arni, a chael eu gorchfygu: ni theimlasom erioed fwy o awydd i ddiolch. Ymddengys erbyn hyn mai dyben y Ffrancod yn y wlad ydyw ailosod y Pab yn Rhufain.

FRAINC.—Mae y wlad hon yn bur derfyaglyd, a hyny o herwydd yr ymosodiad a wnaethant ar Rufain. Mae holl bleidwyr gwerin-lywodraeth yn ffyrnig o'r herwydd.

Y Senedd.

Mae deddf rhyddfreiniad yr Iudewon wedi pasio Tŷ y Cyffredin. Mae Tŷ yr Arglwyddi hefyd wedi dyddymu y *Navigation Laws*, y deddfau sydd yn llywodraethu rhai o arferion morwrol ein gwest. Gyda hyn nid oes dim o bwys. Mae llawer o siarad fel arferol wedi bod am yr Iwerddon.

Y GEINIOGWERTH.

Y Parch. W. Williams, Pant-y-celyn, a'i "Bantheologia."

AT OLYGYDD Y "GEINIOGWERTH."

Y MAE yn hysbys mai y gwaith mwyaf, heblaw ei "Hymnau," a gyhoeddodd yr hen Williams, ydoedd ei "Bantheologia," neu Hanes holl Grefyddau y Byd, &c." Ymddengys i'r llyfr hwn fod rai blynedcoau yn dyod o'r wasg; a byddai yr awdur yn rhoddi hysbysiad ar ddalenau gweigion a ddygwyddai fod yn niwed ei "Aeliwia," "Môr o Wydr," a'i "Ffarwel Weledig," o sefyllfa y gwaith. Y mae dau o'r hybysiadau hyny yn awr ger fy mron, ac y maent yn arddull ragorol o ddawn y "Peraidd Ganiedydd." Meddyliais y gallant ffurio gohebiaeth dra dyddorawl i'r "Geiniogwerth;" neu os yn rhy faith gellwch eu hanfon i'r "Drysorfa." Yr wyf yn eu gweled yn weddus-ch i gyhoeddiadau sydd yn cael eu taenu gan mwyaf ymhlieth y Methodistiaid Calfinaidd nag yr un arall.

O: tybiwch chwithau felly, dyna hwy at eich gwasanaeth.

Machynlleth, Ebrill 20fed, 1849.

W. ROWLANDS.

"HYSBYSIAD."

BYDDED hyspys i'r Cyffredin Bobl, fod y "Pantheologia" wedi teithio ymlaen tros lawer o fnyddau, creigydd, ac afonydd, môr a thir, ac wedi dyfod o'r diweid i dref a llawer iawn o newyddion, na chlywodd y Cymro uniaith erioed o'u bath. Y mae gantho lawn hanes o dair crefydd y byd, y baganaidd, y Fahometanaidd, a'r Iuddewig, yn eu holl ddaliadau, athrawiaethau, sereiniôbau, traddodiadau, dvsgyblaethau, a'u herferion pa bynag. Ac wrth adrodd y rhai'n fe ry i chwi lawn hanes am afonydd, bryniau, mynyddau, llynnoedd, moroedd, ac aberoedd pennaf y byd. Fe ddywed i chwi pa sut fwyd, diod, gwisgoedd, teiau, ac addurnau corff sydd gan drigolion *Asia*, *Africa*, *Europ*, ac *America*. Cewch hanes lawn ganddo o farsiandaeth, *traffic*, a marchnadyddiaeth holl drigolion y byd, cystal yn y naill ran a'r llall. Fe ry i chwi weled yr holl greaduriaid, echediaid, ymlusgiaid, a phedwar-carnolion y ddœar. Cannoedd o ba rai na chlywsoch erioed am danynt, ac amrywiol iawn o'r rhai a ddarllenasoch am danynt yn yr ysgrythur—y llew, yr elephant, y tiger, y iwrch, y carw, yr arth, y llewpart a'r cyfryw; ynghyd â pha fwyd y maent yn byw arno, at ba ddefnydd y mae eu crwyn, eu ffwr, eu rhawn; a chig rhai o honynyt. Pa ddull yr ydys yn eu dal, pa fodd y dofir hwynt, a pha ddefnydd y maent ar ol eu dofi.—Feddywed i chwi am amrywys god mawrion, fel y crocodil, y morfil, a'r cyfryw, a pha fodd y maent yn dal hwn neu'r llall, ac at ba wasanaeth.—Gwna, fe ddywed y "Pantheologia" wrthych yn ddiddig iawn am hen dywysog-

GORPHENAF, 1849.]

ion penaf y byd, amryw ryfeloedd creulawn a ddygwyddodd rhwng brenin a brenin yn y dyddiau gynt, nes newid terfynau gwledydd, nes newid arferion a chyfreithiau teyrnasoedd. Yn fyr, cewch ganddo, wrth roi i chwi yr hanesion hyn agoriad ar gannoedd o ysgrythyrau nad allasech eu gwybod heb y cyfryw hanesion.

Ymae y rhan olaf o hono yn rhoi i chwi hanes o'r grefydd *Babaid*, ei holl wng arferion, ei seremoniau, a'i gau-athrawiaethau, ynghyd â'i herledigaethau echrydus ar y *Protestaniaid* o'r dechreu hwd yn awr. Ac pan ddelo'r "*Pantheologia*" yn v bedwaredd siwrnai, sef yn y rhanau nesaf â newyddion i dre, fe ddywed i chwi holl athrawiaethau, dysgyblaethau, seremoniau, a thraddodiadau Eglwys Groeg, yr hon ni's cysylltodd erioed â Eglwys Rhufain. Canys y "*Pantheologia*" sydd heddyw yn teithio yn ddiwyd trwy holl wledydd y dwyrain, mynydd Athos, gwlaid Armenia, yr Aipht, Abisinia, yaghyd â'r holl amrywiol wledydd eraill y mae'r Twrc mawr yn breniniaethu arnynt, tan awdurdod pa un y mae heddyw ran fawr o Eglwys Groeg.—Fe ry hefyd dro trwy Rwsia, yr hon sydd ei hunan megys hanner byd.—Er na's ettyb fyth o'r draul i'r pererin truañ, fe fynn hanes lawn o'r holl grefydd Brotestanaidd; ie, yn fwy llawn nag un o'r lleill, fe fynn deithio i Ffrainc, i edrych a oes dim Protestaniaeth yno, i Geneva, Switzerland, Holand, Transilfania, a holl wledydd ehang Germany, i Prwsia, Bohemia, Poland, Norway, Denmark, Sweden, Hungary, Britain fawr a'r Iwerddon; a'r holl wledydd bu hi, neu y mae yn awr yn ddiweddar, wedi ei phlannu megis America.—Ynghyd â'r holl erledigaethau fu arni gan Eglwys Rufain o'r dechreu hyd yn awr. Holl hanes y merthvron, eu dewrder, eu heondra, eu ffydd, a'u gonestrwydd yn dyoddef tros grefydd Crist. Fe wyla'r darllenyydd pan gwelo efe'r "*Pantheologia*" wedi dyfod a'i holl hanesion i dre: y mae'n ddigon i ddefyru'r tad, y mab, a'r wyrion hyd genedlaeth a chenedlaeth tra parhao yspryd i'w ddarllen. Y mae'r ymdeithydd hwn, yr wyf yn addef, yn hir yn dyfod a'i daith i ben. Ond na feddyliwch mai segurdod neu newid ei grefydd ar hyd y ffordd sydd yn ei gadw ef yn ol—Yr un yw *Pan.* er pan aeth *Pan.* o dre. Fe allai meddyliai *Methodist* mai *Ymneilltuwr* yw'r "*Pantheologia*." am ei fod yn hir yn dilyn ei araeth, yn llusgo ei eiriau, yn newid ei lais heb un yspryd bywiog.

Nag e ffryns; canys nid yw'r llwyth hwnnw yn derbyn fawr iawn arno; ac nid ynt gymaint am wybodaeth, nac yn gwybod cy-maint a gwybodaeth a dybia rhai—. Fe allai meddyliai'r *Ymneilltuwr* mai *Methodist* poeth yw ef, a'i fod yn treulio'r amser heibio wrth wrando ar ei dad yn canu hymnau; nage, canys trwy orchest nid bychan y mae'r genedl hono yn ei dderbyn, ac yn unig o ran ei berthynas, i'r "Halleluja" a'r "Môr o Wydr," y gwnant ychydig gyfrif o hono; ond y rhan fwyaf o honynt ar ol ei dderbyn, nis gwnant gwmaint ag edrych arno, ond ei starfo mewn rhyw dwll tywyll neu gilydd. Nid yw *Pan.* chwaith yn leicio galw ei hun o'r Eglwys Sefydledig, am ei bod hi yr awr hon wedi ei llygru, ac yntau yn chiwenych bod yn boblog, ac nis caiff yn gyffredin ar hyd

Gymru fawr o gwmpeini yn y temlau hyny heblaw yr offeiriad a'r clochydd, y rhai s'dd yn rhwym i fod yno yn bresennol. Ac nid yw'r cymanfaoedd i tewon hyny chwaith ddim cymaint am wybod hanes y byd a'r Eglwys. Nid Pabist yw Pan. hefnd, y mae efe yn gosod allan v gref, dd honno yn y fath liw cywir a gonest, fel y mae arno ofn Jesuit yn ei galou. Ac y mae Eglwys Rufain yn llwyr wrthwyneb iddo wrth ddal, Fod anwybodaeth yn fam duwioldeb; ond gŵr gwirion yw "Pantheologia" a g ni fyn ei alw ar un sect pa bynag, yn derbyn yr hyn sydd dda oddiwrth bawb, ac yn ceisio ymmsgwyd oddiwrth eu drwg hwynt. Yr achos y mae cyd heb ddyfod i ben ei siwrneu yw yn 1. Trafalio llawer heb gael fawr iawn o newyddion sylweddol i'w hadrodd. 2. Amser hir yn myned i holi allan wirioneddau, gorfod nithio hanesion a newyddion a chael ond ychydig wenith ymhllith yr ūs. 3. Am fod dieithriad ym oer iawn iddo ar ei daith ac mor annerbyniol o hono i'w tai, fel y mae ef lawer pryd yn meddwl troi 'n ol cyn hir gyrraedd pen ei siwrneu. Yn 4. Y pwnian mae rhai arno ar ei daith, y diystyr y mae eraill; y gŵg sur sarrug wnaир arno mewn un man, a'r grechwen oer wnaир arno mewn man arall, sydd bron ei ddigaloni.

Ond mi a'i clywais ef yn canu ddydd arall fel hyn ynghanol y ewbl.

Chwardded *Ymneilltuwr* tybus
 Stamped *Methodist* a'i droed,
 D'wedded Eglwys *Loegr* dywyll
 Ti yw'r ynsfyd penn a erioed;
 Doed y *Cwaccer* a'i rinweddau,
 'Dryched hwnnw 'n sarrug iawn,
 Mi fynega fy newyddion
 O foreu-ddydd i brydnawn.

Yn *Mon* ac *Arfon*, *Fflint* a *Mlynw*,
 A *Meirionydd* mi ga rai,
 Ym *Mhembro*, *Myrddyn*, a *Morganwg*
 Ag a'm derbyn i yw tai;
 Yn *Nhinbych* a *Threfaldwyn* glailyd,
 A *Maesyfed* sais nig sain,
Aberteifi a *Brecheiniog*,
 Mi gaf letty yn y rhai'n."

[Beth a wneir yn son am *bwffio* hysbysiadau yr oes hon—y mae Worsdell's *Pills* a *Choffee Cassell* yn myn'd yn hollol enciliedig yn ymyl yr "Hen Bant-y-celyn." Y nesaf a ddengys sut yr oedd yr hen wr yn dysgu Pan. fasnachu yn ddoeth; a diau y buasai yn ida i lawer anturiæthwr mewn llyfrau pe buasai yn cymeryd yr un wers a Phan.—buasai eu codau yn llawnach a'u meddwl yn esmwythach.]

"HYSBYSIAD.

BOED hysbys i'r bobl ag sydd am wybod ychydig ragor nag a wyddant eisioes (can's am y rhai sydd yn gwybod y ewbl yma,

maent yn gymhwys i fyned i fyd arall i edrych a oes yno rywbeth na's gwyddant), fy mod ar fedr argraphu rhân yn rhagor o'r "Pantheologia." Heblaw fod yn anhawdd rhoi heibio waith mor fuddiol at ddysgu gwybodaeth, yn ei ganol; a bed yn druenus gadael y Cymro fyth yn ei hen dyb o feddwl, nad oes yn un man o'r byd, liw wyneb, dull ymddygiad, trefn gwisgiad, natur bwydydd, a diod-ydd, dull adeilad, marsiandaeth, llywodraeth, cyfraith, na chrefydd chwaith, ond sydd *Ynghymru*; heo law hyn meddaf, mae amryw bobl ddeallus ag sydd an Nabod gwledydd y byd, gwaith Duw trwy y byd, eulunaddoliaeth y byd, a hanes crefydd Crist yn y byd, yr amrywiol gyfeiliorwnadau, y sectau, yr erledigaethau, y diwygiadau, y merthyrdod gafodd y grefydd hon, o ddyddiau cynta ei phlaniad hyd yn awr, yn fy nghymhell yn daer i fyn'dag ef yn y blaen, ac nid oes braidd ddyn ystyriol, pwysig, ag sydd yn caru darllen, ac am ymhelaethu ei ddeall mewn haneson, nad yw am gefnogi'r gwaith; ond am ddynion pen-ysgafnion, diddarllen, ag sydd yn cymmeryd y cwbl ar yr wyneb, nid wyf yn disgwyl lai nad edrychant arno fel rhyw beth tros ben, ond barnent fel y mwnont os caf fi fywyd tros ychydig amser, fe'r 'r "Pantheologia" gam ymlaen, ac fe car rhai, os dibrisia eraill ef. Ond yr wyf yn weddwl bed yn gallach wrth argraphu yr hyn sydd yn ol o hono; sef peicio printio rhagor nag y dybiwyf allaf werthu ar fyr dro, a danfon allan werth swllt ar unwaith; a mynnu enwau os gallaf eu cael, yr holl, neu y rhan fwy sydd am danynt, a 6 cheiniog ymlaen llaw, yn subscriptswn, a'r llall wrth gael y llyfr, a danfonent eu henwau i mi ar frys. *Ffarwel.*"

Dilynwyd y gwreiddiol braidd yn hollo o ran yr orgraff a'r argraff—bob llythyren a nod.

Hen Arferion.

Yr ydwyf trwy fy oes wedi bod yn dra hoff o fydrâ, megys y dywedodd un, mai wrth y pwys y mae traethu, ac nid wrth y llath; ond y mae arnaf ofn yn awr wrth ddechreu fy ysgrif garbwl fyned yn fâith ac yn ddisylwedd.

Eto y mae chwant arnaf roddi gwybod i'm cenedl yr olwg a welais i ar fy nghymydegion a'r amgylchoedd er's triugain mlynedd, oblegid yr oeddwn ar y pryd yn 13eg oed, hefyd y diwygiad a gymerodd le.

Yr oedd y pryd hwnw y dyrfa yn myned i eglwys y plwyf, fel ei gelwir, megys yn awr i'r capeli; ac ar ol y gosber, yn y gwanwyn a'r haf, y llanciau yn eu crysau yn chwareu y bel yn y fynwent ar y ty oedd i addoli ynddo. Ac ar ol darfod, i'r dafarn a fyddai bob amser gerllaw, a elwid Ty'n llan, ac yfed hyd feddwod; a rhwygo crwyn eu gilydd, ysgafwydd, cyn dybenu. Yr oedd meddwdod yn beth cyffredin yn mysg hen ac ieuainc. Ond ar ddydd Gwener o flaen y Pasg, sef Gwener y Croglith, fe fyddai yr hen bobl yn dra

sobr a difrifol, yn ymbarotoi at y cymun, gan gymeryd ychydig rual o beiliad ffeind i'w roddi yn isaf, cyn gymeryd y bara a'r gwin, ac yna wŷ, fel y byddai yr arwyddion mewn lle glân. O! amseroedd yr anwybodaeth hon! Sadwrn y Pasg a fyddai yn lled dawel, ond yr ieuencyd yn prysur gludo eu hesgidiau newyddion o dŷ y crydd, a'r dillad newydd oddiwrth y teiliwr, fel yr oedd y crydd, y panwr, y gwŷdd, a'r teiliwr, wedi bod am wythaosau ar eu llawn *stretch* yn parotoi at y Pasg. Ac ar foreu Sul y Pasg, wele y dorf fawr o ieuencyd yn myned tua'r llan, gan edrych arnynt eu hunain ac ar eu gilydd, gan bwy y byddai y dillad goreu, ac oll yn dyrfa i'r cymun ac i'r gosber, yn dyrfa ddirif bron. Ac ar ol dyfod allan, yn y pentref lle yr oeddwn i yn byw, dàl y merched a myned â hwy i'r dafarn: y merched a fyddai y prydawn hwn yn talu am yr holl gwrw a yfid; ond dranoeth yr oedd y meibion i dalu yn ol. Boreu dranoeth, sef dydd Llun, i'r llan yn dorf, ac oddiyno i'r pentref, o gylch milltir o'r Eglwys, lle y hyddai gwylmabsant; nis gwn pwy sant oedd, ond yr oedd ei ddysgyblion yn dra anfoesol. Cyfarfyddai yno dorf nas gallaf ei chymharu mewn rhifedi ond i gymanfa y Methodistiaid Calfinaidd yn awr; hyny o dai oed yno yn llawn ffidlau a thelynau, a'r ieuencyd yn ynfedu o'u blaen. Yn lled gynnar yn y prydawn yr ymladdfeydd mwyaf dychrynllyd yn tori allan yn gyffredin rhwng rhai y byddai ymrafael gynt rhwng idynt; a gwelais rai dranoeth wedi tori eu hesgyrn, ac eraill dan glwyfau na allent symud. Ond fe gododd achos crefyddol gan y Methodistiaid o fewn tua dwy filtir i'r fan uchod, lle y byddai pregethu lled gyson y Sabbathau. Rhybuddid y gynnulleidfa amryw Sabbathau o flaen y Pasg o anfoesoldeb ac annhrefn y gwylmabsant. Er ei fod ar yr olwg gyffredinol y pryd hwnw megys pe buasid yn bwriadu bwrw y Wyddha i'r môr, er hyny dyma fi wedi cael byw i'w weled wedi ei ddyddymu mor llwyr a phe na buasai erioed yn bod. "O'r Arglwydd y bu hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni!"

Tremadog.

J. JONES.

IX. *Llythyr Hen Wr Mynyddig.*

ANWYL GYDGENEDL,

MAE rhyw awydd rhyfedd mewn dyn am fod yn enwog. Mae'n awyddus hynod am enw ac anrhyydedd tâ a byddo byw, ac yn awyddus hefyd am fod coffa am dano wedi iddo farw. Dyma fydd yn peri i'r hogiau a'r llanciau dori eu henwau ar ddrws y foty, a drysau y beudai, a manau eraill. Clywais hefyd am ryw hen wr sydd heb fod ymhell o'n cwm ni, ei fod yn ei fywyd wedi parotoi ei gareg fedd; a cherfio arni bobeth fydd yn eisieu, ond yr oedran, a'r dydd o'r mis, a'r flwyddyn, yn mha rai y bydd marw. Nid yw hyny eto wedi cymeryd lle; ond pan y byddo marw ni bydd o waith ar y gareg ond tori arni y rhifnodau prioiol, a'i gosod yn ei lle. O'r un gwreiddyn yn ddiâu y tardda hyn gyda'r hen wr.

Mae dyn yn greadur anfarwol o ran ei enaid—ei brif ran ; ac mae ei deimlad yn ateb i hynny, mae'n chwennych anfarwoldeb. Ac mae'n debyg mai yr awydd am anfarwoldeb yw gwreiddyn yr awydd am enwogrwydd ; neu yn hytrach y run ydynt, ond yn unig, pan y byddo yn y ffurf o awydd am enwogrwydd, mae nid yn unig yn awydd am gael bod byth ; ond hefyd, fod yn ehelaeth, yn bell iawn oddiwrth derfynau dyddymdra. Hefyd fod yn barchus, fel na bydde i neb chwennychu ei ddyddymdra, ond yn hytrach y byddai collet iddynt ar ei ol ; ac felly fod ei fodoliaeth a'i barhâd yn cael eu sicrhau ac yn gwreiddio yn rheinladau y cyffredin.

Mae'n debyg nad yw yr awydd hwn ynddo ei hun yn bechadurus, ond yn beth naturiol. Fel yr awydd am feddianau. Nid yw hwnnw chwaith yn bechadurus ynddo ei hun, ond naturiol. Ac nid yw y graddau cryfaf o hono yn bechadurus. Tuedd ydyw a roddodd y Creawdwr yn y meddwl, i'r dyben iddi weithio allan y meddwl ato ef ei hunan, lle gallai y dyn feddianu pob cyfoeth yn yr un man. Pan mae'r dyn yn edrych ar aur ac arian, a phethau y ddaear fel y cyfoeth penaf ; ac yn sychedu am danynt fel y cyfryw yn lle Duw ; dyna'r pryd mae'r awydd yn myned yn anwreidd ei gybydd-dod ef. Ie, yn eilun-addoliaeth. Yn gyffelyb am yr awydd am enwogrwydd. Tuedd yw hon hefyd a roddodd yr un Duw yn yr enaid, i'r dyben i arwain yr enaid ato ef ei hunan, lle gall gael gorhgwys byth mewn digonol gymeradwyaeth. Pan mae y dyn yn penodi ar, ac yn dewis cymeradwyaeth dynion, heb ofalu am gymeradwyaeth Duw ; dyna'r pryd mae'r awydd yn syrthio yn falchder.

Mae lle i ofni fod cryn lawer, ag nad yw eu cais uchaf ond cymeradwyaeth dynion. Mae yr holl amrywiaeth barn, yn mysg ymgeiswyr am enwogrwydd, pa beth sydd yn rhoddi hawl i ddyn i hynny, yn profi mai at ddynion yr appellir ; canys amrywiol yw dynion yn eu barn ar bob peth bron. Mewna gwirionedd yr un rhai yw yr ymgeiswyr a'r barnwyr yma. Mae'r ymgeiswyr yn barnau eu gilydd tra yn cydymgeisio ; a'r barnwyr yn barnu, gan ddysgwyl iddynt eu hunain enwogrwydd oddiwrth eu gwaith yn barnu. Hynod mor amrywiol y syniadau ar hyn. Wedi bod am ychydig a'm llygaid yn nghauad, yn bwrw goiwg feddyliol ar y gwahanol bethau a olygir fod gan y naill a'r llall yn gosod enwogrwydd ar ddyn ; mae y pethau hynny yn ymddangos mor amrywiol, ac mor nifeiriol, fel mae'n rhy ddigalon genyf gymaint a cheisio eu henwi yn y nodi byraf. Ac yn wir, mae rhai dynion yn dangos archwaeth mor isel yn eu barn, beth sydd yn gosod mawredd ar ddyn, fel y byddai arnaf fi gywilyd adrodd eu barn. Pa fodd bynag, ychydig mewn cymharriet sydd yn golygu duwioldeb y prif beth —ac yr un peth sydd fwy na phob peth arall ynghyd, yn gwneuthur i fynu enwogrwydd ar ddyn. A rhaid mai y rhai syed felly, a'r rhai hynny yn unig, sydd yn appellio i'r iawn lys. Mae rhai gan mor angerddol eu hawydd am enwogrwydd — yr awydd yn codi i'w penau neu rywbeth — mae'n yn camgymeryd cyhoeddusrwydd a hynodrwydd, am enwogrwydd. Fel hyn y camsyniodd y dyn a

roddodd deml Diana yr Ephesiaid gynt ar dŵn. Hefyd, y dyn a geisiodd daslu Napoleon i lawr o ben rhyw golchdy. Dywedai, y gwyddai y byddai son am Buonaparte yn mhob man, gan hyny fod yn rhaid y byddai son am y dyn a'i lladdodd yn mhob man. Synwa i ddim na bu rhai yn ssethu at benaduriaid Ffrainc a Lloegr, yn y blyneddau diweidaf, o dan yr un teimlad. Pwy a gymerai ei lw hefyd, nad oes rhai o honom nianau, yr awduron yma, yn ymboeni o dan yr ad yr un teimlad. Hwyrach y bydd rhai o honynt hefyd yn cuchio fy mod yn awgrwm fel hyn; ond beth wneir i hen ddynau tafon ac ysgrifell lib. Mae eisieu i bawb ddeall, pa fodd bynag, nad yw pob cyhoeddusrwydd yn enwogrwydd.

Daeth Judas Iscariot a Phontius Pilat yn gyhoeddus hynod, trwy fod eu henwau yn gysylltiedig â phrawf a marwolaeth ein Harglywydd, ond ni feddyliai neb yn ei bwyl fed hynt yn anrhymeddedd arnynt.

Ond hefyd gyda fod y cyhoeddusrwydd a gyrhaeddir trwy wneuthur y mawr ddrwg yn waeth na bod hebddo; mae cyhoeddusrwydd i ddyn, er iddo fod mewn ffordd ddiniwed, eto os bydd yn fwy nag a fydd ei ragoriaeth a'i deilyngiod yn ei ennill yn naturiol iddo, yn llawn gwell bod hebddo. Dyn heb ddim anghyffredin ynddo ond eiadael, ac iddo yntau aros yn mysg y cyffredin, dianga rhag dirmyg o'r hyn lleiaf; a dichon iddo fod yn barchus yn ei le. Ond os codir ef, neu os ymwithia i ryw sefyllfa gyhoeddus, ac yntau heb alluoedd i'w llanw, mae agos yn siwr o gael ei ddirmygu. Bydd yn ymddangos i ddynion fel y gwelwyd weithiau hen glochydd pur deneu yn gwisgo hen ddillad hen berson pur dew. Bydd dynolryw yn rhy barod i ddyweiyd ar ei ol, rywbeth tebyg i gynawysiad llinell Dewi Wyn;

“Twrch yw ef mewna torch o aur.”

Ond nid ydys heb deimlo yn achos yr “Hen Wr Mynyddig” ei hunan fel awdur, yn wynob yr ystyriaeth hon; a rhag tori pen yr hen greadur oddiar ei gorff gan ei lythyr ei hun, gadewir ar hyn ar y mater. Ond yna nad unpeth darbwyller ni oll i appelio i'r iawn llys am ein cymeradwyaeth, sef at Dduw. Nid oes eisieu mygu na lleddfu yr awydd am fod yn enwog yn mynwes neb; ond yn hytrach ei feithrin a'i gryfhau. A hyny yn enwedig yn y bechgyu a'r llauciau; mae eisieu i ddylnt hwy, a hyny mewn pryd, feddwl am fod yn rhywbeth, a phenderfynu odditrif y mynant fod yn enwog. Ond gofaled pob un am wneuthur yr appeliad i'r iawn fan. Oddigerth gwneuthur hyn, gall yr holl bryder a'r ymdrech fyned yn ofer. Ac o'r ochr arall, ond gwneuthur felly, mae y dyn yn siwr o lwyddo i gyrrhaeddenwogrwydd a gogoneddusrwydd ag fydd yn syndod iddo ei hun; ac hefyd y cyfryw ag y bydd yn werth gan y Duw-ddyn ymddangos yn y diweid, i'w arddangos ynddo ger bron y bydoedd cvnnulledig, gan ymogoneddu ynddo ef, gyda miliynau ereill. Er dim, gan hyny, na chamgymerer y fan i appelio.

Ac attolwg pa werth fyddai mewn canmoliaeth Mond byd o ddynion ? Ni fyddai ond o ychydig iawn o werth ynddo ei hun, ond yn unig fel y byddai yn fantais i'r dyn gyrrhaedd rhyw bethau eraill mwy sylweddol. A phwy a ddichon ennill canmoliaeth yr holl fyd ? Mae'n beth digon ammheus fy nghyfaill a lwyddi di byth i ennill cymeradwyaeth holl genedl y Cymry. Canys pe llwyddit gyda'r lliaws, a cyffredinolrwydd ; beth er hynny ? Canys mae rhyw nifer felly yn bod o'r dynol deulu ymhlieth pob canedl, ac mai eu rheol hwy ydyw myned bob amser yn groes i'r cyffredin. Dyna eu ffordd hwy druan i geisio dyfod yn enwog. Mae aml un o'r fath yma, gwyddom, yn mysg y Cymry. Yn awr, os byth y gwelir y diwrnod y bydd cyffredinolrwydd o'r genedl yn dy fawrhau a'th anrhydeddu di, bydd y dosbarth hwn yn siwr o fod mor brysur yn dy fychanu a'th dynu i lawr. Ond, bwrier i ti gael canmoliaeth cenedl y Cymry bob un ; beth fyddai hynny ? Canys nid yw y Cymry ond rhan fechan o drigolion y ddaear. Ac nid yw yr ymgeisydd am enwogrwydd, dylid cofio, un mymryn mwy diwall, er cyrrhaedd gradd helaeth o'r unrhyw, tra fyddo lle iddo ef fyned yn fwy enwog. Ond hwyrach dy fod di am roddi cais am gammoliaeth holl drigolion y ddaear i gyd ; canys gwelir yr ymgeiswyr am enwogrwydd yn rhai hynod am eu calondid yn fynych. Wel, bwrier i ti lwyddo yn hyn hefyd, ond rhaid i minnau gael gofyn eto beth fyddai hynny drachefn ? Canys nid yw ein byd ni a'i holl drigolion, yn gyferbyniol i holl greadigaeth Duw, fel y dywedodd un, ond cyffelyb i un afal bychan yn y berllan fawr, lle mae miloedd o afalau. Ni wyddai y greadigaeth ddim arni ei hun o ran ei maintioli, pe collid i ddyddymdra ein byd ni a'i lwyth trigolion cyn y boreu yfory. Beth pe yr ystyria llawer un sydd yn ystrywanu ar hyd y byd yma, ond yn unig hyn?—Ond, hwyrach y dywedi dithau, Pwy a wyr, ond i mi gyrrhaedd enwogrwydd yn y byd hwn i ddechreua, nad ymadaena fy nghlod dros yr holl greadigaeth ? Yn sicr, meddaf finnau, mae ynot ti galon a glewid. Mae ynot ddefnyddiau bod yn enwog mae agos yn siwr, ond i'r ffirwd gael ei throi i redeg yr iawn ffordd. Ond mae'r un gofyniad yn dyfod eto ; beth fyddai hynny wedi y cwbl ? Canys nid yw yr holl greadigaeth yn werth ei chymharu a Duw. Mae ef yn anfeidrol fwy, ac uwchlaw yr oll yn un. Byddai yn anu harch ar Dduw geisio gwneuthur dim cymhariaeth rhyngddynt. Gan hynny, pe cyrrhaeddir fod yn enwog yn ngolwg yr holl greadigaeth, ac heb feddu cymeradwyaeth Duw, ni byddit fymryn nes i gael tori dy syched am enwogrwydd ; ond yn hytrach yn fwy sychedig nag erioed o'r blaen. Mae cyfansoddiad dy feddwl y fath, a sefyllfa y Duw mawr mewn bodolaeth yn gyfryw, fel na weli di byth dy ddiwallu a enwogrwydd, nes byddo iti gael dy hunan ger bron Duw yn mwynhau amlygiadau a than deimlad parhaus o'i holol a'i dragwyddol gymeradwyaeth ef o honot. Ond os byth y cyrrhaeddi yr ystad yma, ti weli ac a deimli na bydd fodd, ac na bydd arnat tithau eisieu, myned yn uwch—yn fwy enwog. Bydd dy enaid erbyn hyn wedi ei dywys i le diwall. A chan mai fel hyn y mae

pethau yn bod, appeliwn at Dduw ar unwaith am ein cymeradwy-aeth. Gadawn ddynion, rhai ar y dde a'r lleill ar yr aswy, a chyf-eiriwn yn uniongyrchol at ei orsedd ef. Ymgymmerwn hefyd yn ddioedi â'r ffordd yn mha un, a hono yn unig, y gwyddom fod yn ddichonadwy i ni gyrhaedd ei gymeradwy-aeth Ef.

Cwm.

HEN WR MINYDDIG.

William Hutton.

PARHAD O TUDAL. 151.

NID oedd ei lwyddiant dyfodol mewn bywyd ddim amgen na chanlyniadau gonestrwydd a diwydrwyd cyson a pharhaus. Wedi bod bedair neu bum mlynedd mewn *business*, yn mha awser y cyn-nilodd lawer o arian, efe a briododd foneddiges, gyda pha un y bu yn cydfyw dros ddeugain mlynedd; ac yn yr hon ystyria'i iddo ganfod dedwyddwch penaf ei fywyd. Er iddo ddyfod yn ddyn cyfoethog, darfu i'r anturiaethau difeddwl, pa rai yr ymgymroedd & hwynt, ei ddarostwng unwaith neu ddwy i amgylchiadau lled ofidus; ond efe a gafodd ymwared trwy ei ddiwydrwydd a'i sylw adnewyddol & r fasnach, y rhai oedd bob amser yn ei adferu. Hyd yn nod wrth ddilyn y dychymygion hyny oedd yn ei dywys oddiwrth ei waith priodol, yr oedd yn mynch arddangos amlwgiau cryfion o'i ym-drech a'i ddiwydrwydd. Pan oedd yn arolygu adeiladaeth tŷ iddo ei hun, dywed. "Yr oeddwn yn rhoddi y bobl ar waith am bedwar bob boreu yn eu gwyllo, ac yn cydweithio & hwynt trwy y dydd, ac yn aml cymerwn y rhan waelfa chaletaf o'r gwaith fy hun. Cymerodd hyn le ar ol iddo fod bum mlynedd ar hugain mewn *business*. Drachefn, wedi iddo ymgymeryd & fferm tua 'r un amser, gyda pha un y collodd lawer o arian, efe a ddywed ei fod yn ymweled a'i fferm deingwaith neu bedair yn yr wythnos, bob amser ar ei draed; er ei bod bedair neu bum milltir o i gartref, a thrwy gyrhaedd yd yno erbyn pump yn y boreu, dychwelai i Birmingham erbyn boreubryd. Yr oedd er's tro cyn hyn wedi dangos awydd fryd am orchwyl cyhoeddus; ac ar ol ei ddeuwis yn ddirprwywr dros y *Court of Requests*, hynododd ei hun yn fawr, trwy ei ymdrechion galluog a selog, yn nygiad ymlaen dyledswyddau y swydd hon.

Yn nghanol yr holl ofalon hyn, y ffurfiodd Mr. Hutton y medd-yddrych am fod yn awdur; ac efe a fynodd amser i chwanegu y cyfryw orchwylion meddyliol ag a fuasai yn deilwng o ddyn wedi mwynhau bywyd o lonyddwch dirwystr i fyfyrto. Dengys hyn pa beth sydd ddichonadwy mewn unrhyw amgylchiad, os bydd calon dyn gyda 'i waith. Yn y cyfryw sefyllfa nid yw galwadau dibaid masnach, na dyledswyddau gorchestol galwedigaeth, o'r braidd yn un math o rwystyr rhag dilyn yr anturiaethau hyfryd hyn. Poleiaf a fyddo y mynydau a ganiatâir i hyn gan achosion eraill, y maent gymaint a hyn y fwy gwerthfawr; a chan eu bod mor werthfawr, y maent yn ganlynol yn cael eu harferyd yn y modd mwyaf cynnil

a buddiel. Er mwyn hyn hefyd y cesglir ac yr arbedir yr holl fân ranau hyny o amser a chyfleusderau i fyfyrion, ag ydynt liosog yn y bywyd prysuraf, a'r rhai ydym mor dueddol i'w gwastraffu a'u colli, oni bydd rhyw destun yn barod i'w derbyn.

Yr oedd Mr. Hutton yn arfer anfon pennillion i'r cyhoeddiadau, er pan ddaeth gyntaf i aros yn Birmingham. Ond yn 1780 yr ymgymerodd am y waith gyntaf, gyda'r gorchwyl o gyfansoddi llyfr, yn cynnwys yr hyn a wyddai efe am hanes Birmingham. Dywed iddo dreulio naw mis gyda chyfansoddi y llyfr hwn. "Yr oeddwn yn ysgrifenu gyda dychryn, gan ofni nad oeddwn yn abl at y gwaith;" medd efe. Nid oedd yr arian a dderbyniodd y tro hwn, ond attaliad gwael am ei lafur; canys yr oll a ganiatâi y cyhoeddwr iddo ydoedd deugain punt, ynghyd â phymtheg a thriugain o gopiâu o'r gwaith. Ond fe'i gwobrwywyd yn helaeth mewn modd arall; yr oedd y mwynhad a gafodd gyda'r gorchwyl yn ddigyffelyb.

"Wedi fy moddio," medd efe, "fel tad gyda hwn, yr hwn oedd blaenffrwyth fy myfyrdodau, gallaf ddywey i mi drysori y cyfan o'r ysgrif yn fy nghof. Pe adroddasid llinell o'r canol, yr oeddwn yn abl i'w dilyn ymlaen hyd ddiwedd y pennod. Yn fynych, pan ddeffrōwn y nos, adroddwn ef yn ddystaw am ddwy awr neu dair ynghyd, yn gywir ac heb fethu un gair." Mewn perthynas i waith arall o'i eiddo, dywed wrthym yr un modd, "fod y pin ysgrifenu wedi gwobrwyd ei lafur ei hun, gan fod yr hyfrydwch o ysgrifenu yn annirnadwy."

Cyhoeddodd hanes Birmingham yn y flwyddyn 1782; ac yn fuan ar ol hyn dewiswyd Hutton i fod yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethol Edinburgh. Galwyd am allargraffiad o'r gwaith y flwyddyn ganlynol, ac y mae er hyny yn derby'n clod uchel ymhlið y llyfrau hanesyddol. Er fod ei awdur bron yn driugain oed pan ymddangosodd hwn, ei gyhoeddiad cyntaf, eto bu fyw i chwanebu ato amryw lyfrau eraill. Wedi iddo yn awr wneuthur ymddangosiad teg ger bron y byd fel dyn dysgedig, efe a gymerodd fantais (gyda'r ymdrech a'r eiddigedd a berthynai i'w nodwediad), o bob cyfleusdra i gadarnhau y cymeriad newydd hwn. Er anghraift, cafodd achos i fyned i'r brifddinas yn 1785, i roddi ei dystiolaeth mewn treial. Cyfansododd yr hanes mewn llyfr, yr hwn a gyhoeddodd yn fuan wedi dychwelyd adref, dan yr enw "*A Journey to London.*" Yr un modd, ychydig flyneddau ar ol hyny, wedi iddo fyned i radio gyda'i deulu i Blackpool yn Lancashire, efe a ysgrifennodd, ac a gyhoeddodd hanes y daith. Am ei lyfrau eraill, y rhai penaf ydynt y rhai canlynol, "Hanes y *Court of Requests.*" "Hanes *Hundred Court of Birmingham.*" "Hanes y rhyfel yn *Bosworth Field.*" "Hanes Derby, a'i ddarluniad o'r *Roman Wall.*" Tuag at barotoi ei hun, fel y gallai gyfansoddi y llyfr olaf hwn, trwy ymchwiliad personol o'r gweddillion nodedig o hynafiaeth i ba un y perthyna, efe a aeth i daith o fwy na chwe' chan' milltir ar ei draed, pan oedd yn ddeunaw a thriugain milwydd oed. Y mae ei ferch, yr hon oedd yn cyd-deithio gydag ef ar geffyl, wedi cyhoeddi hanes dyddorawl iawn o'r daith hon, yr hon a gymerodd bymtheng niwrnod ar hugain i'w theithio.

Efe a gyhoeddodd lyfr arall yn ei henaint, sef cyfrol o "Emynau." Efe a arferai blethu ei odlau wrth rodio o'r fferm i'r siop; er fod y rolf yn awr dan ofal ei fab, arferai efe fyned yno mor fynych ag o'r blaen. Oddeutu y flwyddyn 1785, efe a ysgrifenodd yr hyn a ganlyn:—"Cerdded a chynnorthwy fy mab ydoedd gorchwyl y corff, myfyrio ac ysgrifenu oedd gwaith y meddwl." Yn fuan ar ol hyn, gwaelodd iechyd ei wraig, a llawer o'i amser oedd yn myned i weinyddu ar, a gofalu am, ei anwyl briod. Dywed yr hen wr tirion, "Arferwn godi am bump yn y boreu, a gweinyddu ymgeledd i'm hanwyl briod. Cerddwn i Birmingham erbyn wyth at fy ngalwedigaeth, ac aroswn yno dan bedwar, yna dychwelwn adref. Gweinyddwn ar fy ngwraig hyd wyth o'r gloch, difyrwn fy hun gyda gorchwylion llênyddol tan ddeg, ac yna awn i orphwys." Dyoddefodd Mrs. Hutton lawer oddiwrth ddychryn a dderbyniodd trwy ymddygiad anifeilaidd y terfysgwyr; y rhai yn y flwyddyn 1791, a adewid i gyflawni pob math o ddinystri a drygioni am amrywiol ddyddiau yn nhref Birmingham, a hyny heb eu galw i gyfrif, a chan ba rai y llosgywd tŷ ei gŵr yn llwyr, ac y difethwyd werth miloedd o bunnau. Y mae Mr. Hutton wedi gadael i ni hanes hyawdl o'r dygwyddiadau goffus hyn, yr hwn sydd yn fwyaf difyrus o herwydd ei fed yn rhoddi cyfrif manwl am greulonduerau ac sydd trwy drugaredd mor ddyeithr i arferion a nodweddiad diwygiedig y bobl. Ni wellhâodd ei wraig oddiwrth yr ergyd a dderbyniodd ar yr achlysur hwn pan yrwyd hi a'i theulu o'u cartref, ac y bu raid iddynt ffoi am eu bywyd, ac erfyn am ddiogelwch gan ddyeithriaid, ac ar yr un pryd mewn ammheuaeth a oedd swllt yn ngweddill iddynt yn y byd, tuag at dalu am y llety yr erfynient am dano.

Bu farw y dyn rhyfeddol hwn yn y flwyddyn 1815, yn ddeuddeg mlwydd a phedwar ugain oed. Y mae hanes ei fywyd, yr hwn a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun yn yr yspaid byr o ddau fis, pan oedd bymtheg mlwydd a thriugain oed, wedi ei gyhoeddi gan ei ferch ar ol ei farwolaeth, ac y mae yn un o'r bywgraffiadau difyraf sydd ar gael. Mae gweithiau llênyddol Hutton, fel yr eiddo Franklin, yn teilyngu ein sylw, am eu bod wedi eu cyfansoddi yn nghanol rhwystrau bywyd o brysurdeb, ac hefyd am eu bod o'r bron yn ganlyniadau ei hunan-addysgiad a'i chwaeth, a ymgryraeddasant am fwyniant llênyddol. Y mae efe hefyd, yn rhoddi i ni esiampl, mor hawdd ydyw i ddyn, hyd yn nod wedi dyfod i dipyn o oed, wneuthur i fynu anfanteision esgeulusdra boreuol, i ryw raddau beth bynag. Yr oedd Hutton, fel y dywed ef ei hun, yn dair blwydd ar hugain, cyn iddo dderbyn un math o bleser mewn llyfr. Eto gwelsom ar ol hyny mor hoff ydoedd o ddarllen, a'r fath sefyllfa barchus a gyrrhaeddodd fel awdur; er nad ymaflodd yn ei bin ysgrifenu hyd y tymor hwnnw o fywyd, pryd y byddai ysgrifenwyr eraill yn ei roddi heibio. Fel hyn canfyddwn fod hyd yn nod yr amgylchiadau a gyfrifir yn gyffredin fel y rhai mwyaf gwrrthwynebol i gyrrhaedd yd enwogrwyd, yn drechadwy gyda sel a dyfalwch; ac mae enwogrwyd mewn unrhyw beth yn ganlyniad sier i benderfyniad diysgog am ragori: ac ar y dyn ei hun yn benaf, ac nid ar ei gynnysgaeth

allanol y mae yn dibynu pa un a ydyw yn gwneuthur pleserau gwybodaeth ac anianyddiaeth yn eiddo iddo ei hun, neu a fydd yn treulio ei fywyd mewn marweidd-dra meddyliol, a myned i'w fedd hed wybod pa beth ydyw mwynhau galluedd uchaf ac ardderchocaf ei natur.

J. J.

Vr hyn a raid i bawb ei ddysgwyl.

Yr amser pan gyrhaedd dyn ei lawn flodau a ddaw, a hen ddyddiau a ddaw, a'r gwely marw a ddaw, a'r olygfa ddiweddaf a gawu roddi ar ein cyfeillion a ddaw, a'r ing pan fydd yr anadl yn cilio a ddaw, a'r amser pan fyddwch yn ymestyn yn gorff difywyt o flaen llygaid eich perthynasau galarus a ddaw, a'r arch yn mha un yr amdoér chwi a ddaw, a'r awr pan fydd eich cyfeillion wedi ymgasglu ynghyd i'ch cludo i'r fynwent a ddaw, a'r mynydau pan y dodir chwi yn y bedd i gael eich ysu gan bryfed a ddaw, a'r bwrw i lawr y pridd i'r tŷ cul yn mha un y dodir chwi i orwedd a ddaw. Hyn oll a ddaw i bob creadur byw sy'n awr yn fy ngwrandoaw. Ac yn mhen ychydig flyneddau y gweinidog sydd yn awr yn llefaru a'r bobl sydd yn awr yn gwrandaw a gludir i dŷ ei hir gartref i wneuthur lle i genedlaeth arall. Yn awr hyn oll a wyddoch a raid ddyfod; mae eich synwyr cyffredinol a'ch hir brawf yn ddigon amlwg a goleu i'ch argyhoëddi o hyn. Gallai mai ychydig a ddarfu i chwi feddwl am hyn mewn dyddiau o ddifalwch difeddwel a diystyr a dreuliasoch hyd yn hyn. Yn awr yr wyf fi yn eich galw i'w ystyried a'i ddodi yn ddifrifol at eich calon, a pheidio myned i ofera yn ychwaneg, ac i oedi pan y mae materion mawr marwolaeth, y farn, a thragywyddoldeb fel hyn wedi eu gosod mor eglur o'ch blaen. Ac os na wrandewch ar y newyddion gyda pha rai yr wyf fi yn eich hysbysu, bydd y gwaed ar eich pen chwi, ac nid ar fy mhen i. Y dyben o'm dyfodiad i'ch plith yw i roddi i chwi ar ddeall am bethau mawr i ddyfod, i'ch cludo chwi tu draw i froydd golwg a syniad, i diriogaeth ffydd; ac i'ch sicrhau yn ei enw Ef, yr hwn ni ddywed gelwydd, mai can sicred a bod yr awr i ddodi y corff yn y pridd i ad'od, can sicred a hyny daw hefyd yr awr i'r enaid fyned at Dduw yr hwn a'i rhoes. Iē, dydd y cyfrif diweddaf a ddaw, ac ymddangosiad Mab Duw ar gymylau 'r nef ynghyd a'i angelion nerthol o'i amgylch a ddaw, ac agor llyfrau 'r nef a ddaw, a safiad pobl yr holl genedlaethau o flaen eisteddol 'r farn a ddaw, a'r foment pan fydd y ddedfryd hono yn cael ei rhoddi, eich mynediad i dragywyddol ddedwyddwch neu i dragywyddol adfyd a ddaw.—*Dr. Chalmers' Sermons in Posthumous Works.*

Llanlyfni.

Cyf. R. JONES.

Hanes y darn Pren.

“TEFLWCH ef i'r mor! i'r mor âg ef!”—“Na, na, crogwch ef yn y farchnadol, fel esiampl i bob heretic!”—“Na, teflwch ef oddiar y

graig i'r llynlyn islaw : fe gaiff y brain ddigon o amser i ddial ein mam sanctaidd!"—"Nage, i'r mor, meddaf!"—"Nage, i'r dienydd-le!" A'r dorf a grochlefasant, ac a redasant yma a thraw, gan wasgu am enyd o amgylch dyeithr-ddyn tlawd, gwrthddrych yr holl fellidithion hyn, yr hwn a anafwyd bron i farwolaeth gan droediadau y dynion, ac a rwygwyd gan ddwylaw glân y gwragedd. Yr ydoedd newydd ddyfod allan o gapel y Forwyn, yn mha le meddent y cyflawnodd gysegr-drais erchyll—ac yr ydoedd dau fynach yn ei arwain i ddaeardŷ y chwil-lys sancteiddiaf. Pa beth oedd ei drosedd? Dilynnwn y dyrfa, a chawn wybod yn fuan. Pa un ai o garedigrwydd neu o ddymuniad i gadw yr ysglyfaeth hyd ddyfodiad yr *auto-de-fe*. Fe wnaeth y ddsau arweinydd gymaint ag a allent i gadw yr hyn a roddwyd i'w gofal rhag diaedd y gwallgoiaid, ac o'r diwedd cawsant ef yn ddiogel i blas y frawdle arswyodus, yr hon ar y pryd a eisteddai. Yr oedd y hobl yn parhau i lefain, a bwgwth myned i mewn trwy drais, oni buasai i gyflawnnder buan gael ei weinyddu yn herwydd y traïs hwn ar y Madonna. Felly, i'w llonyddu, y prif chwil-lys ydd a ddadganodd trwy un o'i gyfeillion, o rodfa ardderchog (*grand balcony*) y llys, fod y frawdle sanctaidd yn myned i chwilio i'r achos yn y fan hono, ac y cyhoeddent y ddedfryd ar y cyhuddedig yn uniongyrchol—defod gyfartal i farn marwolaeth. Uchel gymer-adwytaeth a ddadganwyd i'r geiriau hyn drachefn a thrachefn. Ond tra mae y dorf yn ymroddi i lawenydd a gobaith Cristionogol, dilynnwn y dyeithr i'r bar yn y frawdle. Frin yr arweiniwyd ef i mewn gan ei cidau arweinydd, pryd y dechreuodd y llywydd ei holiad, ac yn ganlynol dechreuodd un o'r ddsau:—"Y mae y dyn hwn yn euog o gabledd." Yr oedd y ffyddloniaid wedi ymgysarfod yn nghapel ein boneddiges, y Sancteiddiaf Forwyn a Mam Duw, yn pligu o'i blaen, ac yn addoli mewn dystawrwydd. Yr oedd offeiriad yn gweddiwr wrth droed ei hallor, yr oedd y gweision ieuainc yn chwifio eu thuserau yn ei phresennoldeb, yr oedd yr *organ* yn chwareu y rhaglith i hymn, yr hon oedd i gael ei chanu mewn an-rhydedd iddi; yr ydoedd pawb yn ddefosionol a dystaw, pan ddaeth y dyeithr-ddyn hwn, yr heretic hwn, mab Satan—Satan ei hunan efallai—yr hwn fu yn sefyll y tu cefn i golofn, ymlaen gyda phwyll hyd at ein Mam Sanctaidd, ac a gododd y gorchudd dihalogedig oedd yn gorchuddio ei ffurf ddwyfol, a chan ei ollwng i lawr gydag ochenaid, gwaeddodd allan—"Y delw-addolwyr! y delw-addolwyr truain!" Ar hyn fe feddiannodd teimlad o ddigofaint yr holl farnwyr; nis gallai y llywydd feddiannu ei hun. "Pwy ydych chwi?" meddai wrth y condemniedig. "William Knox, cerfiwr Seis'nig," oed yr ateb. "O ba le yr ydych yn dyfod?" "O'r India." "Pa beth sydd genych i'w ateb i'r cyhuddiad sydd yn cael ei ddwyn i'ch erbyn?" "Dim. Y mae oll yn wir?" "Pwy ceddych yn ei feddwl wrth ddyweyd y delw-addolwyr?—eich Indiaid?" "Nage, chwi!" "Nyni?" "Ié, chwychwi." Digofaint dirfawr a redai trwy ymddangosiadau gwgus y chwil-lyswyr; y llywydd a ysgyrnygai ei ddannedd, a chan daraw y bwrdd a'i ddwrn, dywedai, "A wyddoch chwi mai mewn un awr y gallaf eich danfon fel bwndel o wellt i

oleuo dyfodiad yr *auto-da-fe?*" "Nis gallwch wneuthur dim mwy nag y mae Duw yn ei ewyllysio." "O ai ô! mi a ddywedaf i chwi fo i Duw yn ewyllsio i chwi gael eich llosgi yn fyw: a ydych chwi yn fy nghlywed i?" "Yr hyn yw dywediyd, yr ydych yn fyngħoll-farnu heb wrandawiad?" Na na, siaradwch ymlaen, chwi ellwch farnu wed'yn?" "Wel, gwrandewch a barned Duw rhynġom. Efallai y bydd y pentwr yr ydych yn bwgħtih ei gynneu i mi yn y byd hwn yn cael ei ennyñ i chwithau yn y nesaf. Yn awr gwrandewch fy nghyflawnhad, a chofiwch mai wrth gyhoeddi fy nhygħed i y byddwch yn cvoeddi eich dedfryd eich hunain. Cedwch eich bygythion i chwi eich hun; siaredwch er eich amddiffyniad." "Gwrandewch ynte: llawer o flyneddau yn ol, cychwynnais i'r India fel swyddog nawn catrawd Seisonig. Ar ol mor-deithio am fis, fe aeth yn llongddrylliaid arnom mewn ynys annhriġiannol. Fe aħub-wyd y dwylaw a'r lluniaeth; ond y llong wedi ei niweidio yn fawr, a aeth yn ddrylliau yn mhen ychydig ddyddiau. Wedi myned heb ddim i'w wneyd yn yr ynys hon, fe gymerais y dychymyg o arferyd fy nhalent mewn cerfio; tra yr oeddym yn dysgwyl i'r nefoedd anfon cymhorth i ni. Fe dorais goeden, torais ei changenau, holtais y boneyff yn ddau, pa rai a luniais y naill ar ol y llall—ac yn mhen ychydig, tua diwedd y mis yr oeddwn wedi eu naddu i ddull dwy fenyw, mor debyg y naill i'r llall fel yr oedd yn hawdd eu camgy-meryd. O'r braidd yr oeddwn wedi gorphen fy ngwaith, pan un diwrnod y bloeddiwyd 'Llong! llong!' Yr oeid llong marsiandwr yn y golwg—canfyddwyd ein harwyddion, a derbynwyd ni arei bwrdd y diwrnod canlynol gyda llawer o garedigrwydd gan y cadben yr hwn oedd o'r Ital. Yr oedd ein holl forwyr yn awyddus am ddangos eu diolchgarwch iddo gyda geiriau, rhoddion ac addewidion. Am danaf fi, yr oeddwn wedi colli y cwbl, ac nid oedd genyf ddim moddion i ddangos fy niolchgarwch ond trwy roddi iddo fy ngerfwaith. Derbynio id hwynt gyda llawenydd, a gwelais ef yn gwenu ac yn cyffwrdd à'i dalcen fel pe buasai wedi ei daro & meddylddrych dedwydd. Yr oedd yn llawen genyf ei fod wedi cael ei foddio, ac ni feddyliais ddim ychwaneg am yr achos." Pa beth sydd gan hyn oll i'w wneyd a'ch trosedd? meddai un o'r barnwyr. "Arhoswch fynyd," atebai y cyhuddedig. "Dwy flynedd wed'yn, ymwelais àg un o'r eilun-demlau enwocaf yn yr India, lle yr ydoedd tyrsa o bererinjon yn addoli brenines y deml, wedi ei hanrhudeudu à'r enwau Bendigedig, Sanctaidd, a Sancteiddiaf. Wrth fyned i mewn i gysegr yr eilun hon, synwyd fi gan debygrwydd y ddelw, i'r hon a gerfiais yn yr ynys anghyfanedd. Yn llawn o gywreiarwydd, dynesais ati, chwiliais hi yn fanwl, a gwelais heb ddimmamheuaeth mai hanner fy moncyff oedd yr Hindwaid tlodion yn ei addoli." "Gelwch y rhai hyn yn ddelw-addolwyr," meddai y llywydd. "Ie y mae hyny yn wir, ac yr ydwyf yn ymofidio yn chwerw y dydd y meddyliais gerfio y flurfa u hyn. Ystyriaus fy hun i ryw fesur yn gyfranog yn y weithred o addoliad paganaidd, a gweddiais ar Dduw am faddeuant." "Pa beth! chwi weddio ar Dduw! chwychwi, cablwr ei Fam Sanctaidd! Ond deuwch at y pwnc, o achos nid oes

gan yr hanes hwn am India ddim i'w wneyd a'ch trosedd chwi. Siare-iwch yn fuan, canys y mae yr amser yn fyr." * * * "Gorphenais fy ngwasanaeth milwraidd, a rhai blyneddau wed'yn dychwelais yn ol i Ewrop. Daethum i'r dref hon ddoe, a'r person cyntaf a gyfarfyddais ar y llong-borth ydoedd y cadben Italaidd yr hwn a'n derbyniasai ar fwrrdd ei long. Fel yr oeddwn yn dywedyd wrtho fy mod wedi cyfarfo i yn annysgwyliadwy a fy nghanolfawith yn yr eilun-deml Indiaidd, dywedai gyda gwén, yr hyn a ddygai i fy meddwl yr hyn oedd yn gysylltieig a'i ddrachfeddwl dedwydd, na chafodd welli ffورد mewn gwirionedd i fawrhau yr offeiriad eilun-addolgar, na thrwy werthu un o'r cerfiâu a roddaswn iddo, am dduwies a ddisgynasai o'r nefoedd. Myfi a'i beiais ef am yr hyn a wnaethai; ond efe a atebai gan chwerthin, a chwanegai wrth *farr-welio*, 'Nid hono ydyw yr olaf a ellwch weled!' Fel yr wyf yn hoff iawn o wybodaeth, a goruwch pob peth yn ymofyngar mewn unrhyw beth sydd yn dal cysylltiad a gwahanol ffurflau o addoliad crefyddol, aethum allan y boreu hwn i edrych un o'ch capelau. Pan aethum i mewn, gwelais fod llygaid y gynnulleidfa, yn gystal a thuserau yr addoliad, a'r gweddiau wedi eu cyfeirio at y crogleni gwynion a orchuddiai wrthdrych eu haddoliad. Myfi a ddynesais, a chodais y gorchudd, a gwelais." "Pa beth?" llefai ei farnwyr * * "Chwaer fy *Indian Madonna*, gwaith fy nwylaw fy hun, hanner arall y darn pren." "Celwyddwr! twyllwr! Ein Morwyn a ddaeth o'r nefoedd!" "Ie, fel hono yn yr eilun-deml." "Darlun ydyw o'n Sancteiddiaf Fam!" "Dim ond fel hono yn yr eilun-deml." "Y mae hi yn haeddu ein haddoliad." "Dim ond fel hono yn yr eilun-deml." "Nage, eilun oedd un, a'r llall sydd ddelw o Sanctaidd Fam Duw." "Daeth y ddwy o'r un pren, a chydíi gangenau y cynneuaís fy nh&acut;an yn fynych!" "Ond pe byddai eich chwedi yn wir, onid ydych yn deall fod ein gweddiau wedi sancteiddio gwaith eich dwylaw hereticaídd?" "Darfu y Brahminiaid hefyd weddio er puredigiaeth y llall." "Ond nid y darlun ei hun yr ydyni ni yn ei addoli, ond brenines y nefoedd yr hon y mae yn ei harddangos." "Yr offeiriad Indiaidd a ddywedoid hefyd wrthyf, fod hono yn gyffelybrwydd y dduwies a reolai y bwysawd." "Ond O! ynfyd, ni welwch bod eich offeiriad Indiaidd yn eilun-addolwyr, a'n bed ni, yr offeiriad Catholicaidd, yn addoli y gwir Dduw." "Nage! ond yr wyf yn gweled nad oes dia gwahaniaeth rhyngoch chwi a hwythau; canys unwaith eto, yr un pren, yr un dwylaw, yr un c&acut;n." * * * "Dystawrwydd, galwr! Yr wyt yn haeddu y fflamau fel anffyddiwr adgas." "Myfi yn anffyddiwr—yr wyf yn credu yn Nuw." "Cewch eich llosgi ynte, fel *deist*." "Yr wyf yn credu yn Iesu Grist yr hwn a anfonwyd o'r nefoedd." "Cewch eich llosgi fel *Sosin*!" "Yr wyf yn credu yn Iesu Grist, Mab Duw, ac Iach-awdwyr dynion." "Ie, ond nid ydych yn credu yn y Forwyn, am hyny cewch eich llosgi fel *Huguenot*, (llysenwar y Protestaniaid yn Ffrainc!) "Yr ydwyf yn credu fod Mair y Forwyn wedi beichiogi o'r Ysbryd Glan." "Wel, ond nid ydych" * * * "Nac ydwyf mewna gwirionedd, yn addoli darn o bren—yn Ewrop mwy nag Asia,

mewn capel mwy nag yn yr eilun-deml, mewn eglwys Rufeinig fwy nag mewn teml Indiaidd ; ac ni wna dim yn y byd byth i mi blygu fy nglin ger bron darn o bren a luniais fy hun.” * * * *

“Dystawrwydd heretic !”

Fel hyn gorfodwyd y dyeithr i fod yn ddystaw, a gwrandaw ar ei ddedfryd o farwolaeth. Awr ar ol hyn, arweiniwyd ef i olwg y dienyddle, yn ganlynedig gan hereticiaid eraill ; a'r dyrra yn llawenhau a ganlynent ar ol. Yroedd y dienyddwr yn barod yn parotoi i'w rwymo wrth yr ystanc ; a throai yntau at y bobl, ac a wnai arwydd a'i law y dymunai gael llefaru wrthynt. “Gwrandewch ! gwrandewch ef !” gwaedai llawer o lefau. “Rhoddwch safnglo arno,” meddai y dienyddwr wrth un o'i gynnorthwywyr. Ond yr ydoedd yn rhy ddiweddar ; yr oedd cyfreinrwydd y bobl wedi ei ddeffroi ; a phan yr oedd y dyn yn ceisio ei attal trwy orthrech, hwy a adnewyddasant eu llefau. “Na, na, gadewch i ni ei glywed ef !” Felly, wedi cael caniatâd am fynyd; esgynai y dyeithr i'r dienyddle a chyfarchai y bobl. “Y maent yn eich twyllo,” meddai, “Credwch fi, y maent yn eich twyllo ! Nid crefydd Crist y maent yn ei dysgu i chwi ; ond paganiaeth wedi ei Christoneiddio !” “Dystawrwydd ! dystawrwydd !” “Ie, ie ! yr un paganiaeth ydyw ag y mae y Bibl yn ei esgymuno yn mhob tudalen. Agorwch lyfr deddf eich Duw, a chewch chwi, y rhai ydych yn ym ostwng i brenau a mein, weled y geiriau hyn wedi eu hysgrifenu, y rhai a ddaeth o enau Duw : ‘Na wna i ti ddelw gerfiedig ; nac ymgryma iddynt, ac na wasalaetha hwynt mewn unrhyw fodd’ (*Exod. xx, 4, 5.*) A chwithau, O Babyddion paganaidd, yr ydych chwi yn gwneuthur fel yr eilun-addolwr y mae y prophwyd *Essay* yn ei argyhoeddi : ‘Efe a dyr iddo gedrwydd, ac a gymer y cypresswydden a'r dderwen ac a ymeginia yn mysg prenau y coed ; efe a blana onen, a'r gwlaw a'i maetha. Yna y bydd i ddyn gynneu tân : ranys efe a gymer o honi, ac a ymdwymna ; ie, efe a'i llysg, ac a boba fara ; gwna hefyd dduw, ac a'i haddola ef ; gwna ef yn ddelw gerfiedig ac a ymgryma iddo :’’ *Essay* iv. 4, a xiv. 15. a'r adnodau canlynol.

Yn ddigofus wrth glywed y geiriau hyn, cipiodd mynach ffaglen o ddwylaw y dienyddwr, ac a ddynesodd at yr ystanc. “Na, na,” gwaedai y gynnulleidfa o bob ochr, “gadewch i ni ei wrandaw hyd y diwedd” “Nage,” gwaedai lleisiau eraill, “Efe yw cablwr ein Mam Sanctaidd : gwthiwr ef i lawr ar ei liniau o flaen y Forwyn, Mam Duw, Brenines y nefoedd, ffynnonell pob rhad.” “Gwrandewch ar y Forwyn ei hunan, gan hyny, os na wrandewch arnaf fi,” meddai y dyeithr, “sieryd hi ei hunan !” Wedi eu synu a'r dywediad hwn, dychymygai y bobl, y rhai oedd yntau bob amser yn berod i gredu mewn unrhyw beth rhyfedd, fod y Forwyn Fair yn myned i ddisgvn o'r nefoedd i siarad a hwnt yn personol : yr oedd eu llygaid yn edrych i fynu i dystio ei dyfodiad, a'r dyn condamniog, yn eunill trwy y dystawrwydd a barhaai : “Hyn yw y peth a dilywedodd Mair y Forwyn, ac y mae y geiriau yn ysgrifenedig yn llyfr Duw : ‘A'm hysbryd a lawenychodd yn Nuw fy Iachawdwr.

Canys efe a edrychodd ar waeledd ei wasanaethyddes : *Luc i. 47, 48.*
 Fel hyn, y mae yr hon yr ydych yn ei haddoli yn dywedyd fod Duw ei Hiachawdwyr wedi edrych ar ei sefyllfa isel, ac nad ydyw hi ddim ond ei law-forwyn ; ac yr ydych chwi yn diorseddu Duw i roddi ei law-forwyn ar ei orsedd ; yr ydych yn cadw Iachawdwyr y byd mewn cadachau, a rhoddi gwraig i lywodraethu yn ei le. Rhoddwch i bawb ei le—Duw ei orsedd, Iesu ei ddeheulaw, a Mair y Forwyn ei lle yn mysg y rhai gwynfydedig o ddynolryw y rhai sydd yn plygu o flaen ei orsedd i'w addoli. Credwch yn Nuw yr hwn a'ch creodd, credwch yn Iesu Grist, yr hwn a all eich hachub ; ond gosodwch eich hunain wrth ochr Mair wedi ei chreu a'i hachub fel chwithau. Y mae Iesu Grist yn Fab Duw : ond nid yw Mair y Forwyn ond merch dyn : y mae Iesu Grist yn Dduw, ond nid yw Mair y Forwyn ond gwraig. Ac os oes genych wroldeb i dafliu ymaith iau eich offeiriad, a gosod, nid eu geiriau hwy uwchlaw yr efengyl, ond yr efengyl uwchlaw eu geiriau hwy, chwi a welwch fod yr efengyl, y Testament Newydd, a'r holl Fibr, yn condemuio eich eilun-addoliaeth—ei fod wedi ei sgrifenu yn mhob tudalen Addola Dduw yn unig, cred yn Iesu Grist, taer erfyn yr Yshryd Glan—ond nid oes yr un gair o addoliad, o ffydd, neu o weddli, yn cael ei geisio i Mair y Forwyn. Dyma beth y mae gair Crist yn ei ddyweyd. Os na wrandewch arno, ac os gwrandewch yn unig ar lais eich Eglwys Catholic, gellwch fod yn Gatholiciaidd, ond nid ydych yn Gristionigion.” * * *

Fe lwyddodd y mynach yr amser hwn pa fodd bynag, a thra yr oedd y dyrfa yn gwrandaw ar y geiriau hyn, ac wedi anghofio pob peth arall, efe a daniodd bedair cornel y pentwr. Cyfododd ffi am yn fuan, a'r bobl ansefydlog a gollasant yn ebrwydd bob argraff a gawsai yr ymadrodd hwn arnynt, yn eu pryder i weled pa fodd yr ymddygai y merthyr yn ei brawf olaf. Efe a roddodd ei ddywylaw yn mhleth, a chyfododd ei olwg gydag ymroddiad tua'r nef, ac yna syrthiodd ei ben ymlaen yn ddigynhwr far ei fynwes. Mewn ychydig fynydau, yr oedd ei gorff wedi myned yn lludw, a'i enaid wedi dianc i'r nefoedd, i ogoneddu Duw, ac i lawenychu yn ei gariad yn nghanol lliaws o ferthyrion ac apostolion, ac ochr yn ochr a Mair y forwyn.
 D.

Breuddwyd Shiôn y Melinydd.

Y MAE yn beryglus iawn meithrin dymuniadau anghymedrol am gyfoeth. Yr oedd Shiôn y Melinydd er ei holl awydd am gyfoeth yn lled isel ei amgylchiadau ; nid oedd gando ond ennill ei felin tuag at gynnaliaeth ei deulu, ond er nad oedd hyn ond ychydig, yr oedi yn sicr a chyson : tra yr oedd y felin ar waith yr oedd ynt yn sicr o'u bara beunyddiol, ac yr oedd cynnildeb Shiôn y fath ag y rhoddai heibio ar droion ychydig o'i ennill er lleied oedd, yr hyn a gyfrifai yn fynych gyda hyfrydwch mawr. Yr oedd edrych ar

yr arian yn rhoddi pleser neillduol i'w feddwl, ond ei ofid oedd eu bod can lleied, canys teimlai nad oedd ond braidd uwchlaw angen tra y dymunai fod yn feddiannol ar gyfoeth lawer.

Un diwrnod, fel yr oedd y meliaydd druan yn isel ei feddwl yn myfyrio ar galedi ei amgylchiadau, clywodd fod ei gymydog, Siencyn o'r Bryn, wedi cael gafael mewn crochan llawn o aur yn ei faes ar ol breuddwydio am cano dair noswaith olynol. (Os oedd yn anfoddilawn i'w sefyllfa o'r blaen yr oedd yn saith mwy anfoddilawn yn awr.

"Dyma fi," eb efe, "yn llafurio yn galed trwy chwys fy wyneb o'r boreu hyd yr hwyr er ebnill ychydig ffyrilingau, tra y mae Siencyn o'r Bryn yn myned i'w wely yn dawel ac yn breuddwydio ei hunan i filoedd o bunnau cyn y bore. O! na allwn ninnau freuddwyd fel hyn! Ni chai hyd yn nod fy ngwraig fy ngweled yn cloddio o amgylch y fan; ac O! y pleser o wanu fy mraich hyd at yr arddwn mewn twr o aur!"

Yr effaith a gafodd meithrin y meddyliau hyn ar Shiôn oedd, ei wneuthur yn fwy difater am ei felin; a'r canlyniad o hyny oedd, i'w gwsmeriaid ei adael. Yr oedd ei ddymuniad am y crochan a'r aur yn cryfhau bob dydd, a phob nos yr oedd yn dysgwyl am y breuddwyd er mwyn dadguddio iddo y fan yr oedd i'w gael. Ond er ei fod am hir amser yn alywyddiannus, tynged o'r diwedd a ymddangosai i sylwi ar ei drallod, gan roddi iddo y breuddwyd cyrnedig. Gwelai yn ei freuddwyd o dan un o geryg sylfaen y felin, grochan anferth yn llawn o aur a pherlau, ac ar ei wyneb yn oedd llechen fawr a gwastad. Codai y boreu a bendithiai ei dynged dedwydd, ac ymhŷfrydai wrth feddwl fod tymor ei adfyd bron ar derfynu. Ond rhag bod yn fyrbwyll, arhosodd hyd y nos ganlynol i gael dyblu y weledigaeth er mwyn sicrhau y peth. Yr ail noswaith breuddwydiai am yr un crochan, ac yn gywir yn yr un fan, dan yr un gareg a'r sylfaen a'r nos o'r blaen. Yr oedd y peth bellach tuhwnt i bob dadl, ac nid oedd dim mwy i'w wneyd tuag at fwynhau y trysor ond cloddio hyd at y fan. Yn foreu iawn, rhag i neb ei weled, dacw Shiôn yn cymeryd ei gaib ac yn dechreu cloddio dan sylfaen y felin; careg ar ol careg a symudwyd nes o'r diwedd y daeth, fel y tybiai, at y llechen fawr oedd ar wyneb y crochan; ond yr oedd mor fawr fel nas gallasai er ei holl ymdrech ei symud. "Dyma fan," gwaeddai Shiôn, "y mae lle i lawer iawn o aur o dan y gareg fawr hon: trwy gymhorth Betti gallaf ei symud." Yna rhedodd gyda brys at ei wraig, ac am y tro cyntaf adroddodd iddi yr holl hanes; hithau, gan syrthio ar ei wddf a'i gofleidio, a ddiolchodd fod ganddi wr mor ifortunus; ond nid attaliodd eu llawenydd iddynt frysio tua'r fan, lle y gwelsant, nid y crochan aur, yr hwn nid oedd mewn bodolaeth yn un man ond yn mreuddwyd Shiôn, ond y felin, eu hunig gynnalaeth wedi ei dadsylfaenu, ac yn syrthio yn aberth i'w trachwant.

Mon.

Cyf. E. J.

Meddyliau Dyn Dystaw.

NEILLOUAETH—Dylai pob dyn dreulio llawer o'i amser ar ei ben ei hun, nid yn unig i ddarllen a gweddio, ond hefyd i ddysgu meddwl. Dywedai un, nad oedd yn teimlo ei hun yn llai unig na phan yn unig. Os darllenir hanes y dynion a fuant yn fwyaf defnyddiol yn eu tymor, ceir yn gyffredin fod rhyw amgylchiadau wedi eu gwneyd pan yn ieuainc yn hoff o neillduaeth. Mae yn debyg mai ar y mater hwn y llefarwyd y geiriau hyny yn *Diar.* xviii. 1 : “Y neillduol a gais wrth ei ddeisyfiad ei hun, ac a ymra & phob peth.” Yn ol y Saesoneg, “*Through desire a man, having separated himself, seeketh and intermeddleth with all wisdom.*”

DARLLEN DIM OND Y BIBL.—Yr wyf wedi sylwi cryn lawer ar y byd fel hyn yn ddystaw, ac yr wyf yn cael yn gyffredin mai y rhai sydd yn siarad fwyaf yn erbyn darllen dim ond y Bibl, yw y rhai sydd yn darllen lleiaf ar y Bibl. Mae y bobl hyn yn gystal Pabyddion yn eu ffodd a neb yn Awstria neu Spaen. Rhaid eu bod yn credu mai mammaeth duwoldeb yw anwybodaeth. A rhaid hefyd eu bod yn ystyried eu hunain yn anffaeledig, onidê, byddai yn dda ganddynt gael cymhorth i ddeall y Bibl. Yr holl wahaniaeth yw, fod y Pabyddion yn cyfrif yr anffaeledigrwydd i'r Pab, neu Gynghor Cyffredinol ; a hwythau yn ei gyfrif iddynt hwy eu hunain.

DR. CHALMERS.—Dywedi un ysgrifenydd yn ddiweddar yn y “*British Quarterly*,” mai Dr. Chalmers oedd *dyn yr oes*. Nis gallaf lai na chredu ei fod yn lled gywir. Anfynych y gwelwyd mwy o alluoedd meddyliol a gweithiol wedi cydgyfarfod yn yr un person.

MYNYDDOED CYMRU.—Clywais un yn dywedyd fod Cymru fel hen anifel cul, a'i hesgyrn yn y golwg. Parodd hyn i mi gofio dywediad yr hen Thomas Fuller, mai y cig nesaf at yr esgyrn yw y mwyaf blasus, ac felly mai dyffrynoedd bychain rhwng y mynyddoedd yw y rhai mwyaf prydferth.

Y DYSGEDYDD.—Un arwydd da yn y dyddiau hyn yw gweled y pleidiau crefyddol, yn lle chwilio am feiau a cholliadau eu gilydd, yn troi i ddiwygio eu hunain. Y mae y “*Dysgedydd*” wedi cymeryd y blaen yn y gwaith hwn. Y mae ei wroldeb yn haeddu canmoliaeth. Y ffordd oreu i ddiarfogi y rhai a ymhfyrydant mewn tynu sylw at ein beiau, yw dangos nad ydym ni ein hunain yn chwennych eu cuddio. Mae y llythyrau a ymddangosasant yn ddiweddar yn y “*Dysgedydd*” yn brawf i mi fod yr Annibynwyr yn dyfod yn fwy o ddifrif.

Y CYMANFAOEDD.—Byddaf yn gwrandaw yn astud ar ol pob cym-anfa, os cyfarfyddaf & rhyw gyfaill a fedr roddi ychydig o hanes yr ymdriniaeth : a mawr fydd fy llawenyydd os clywaf fod yno ryw orchwyl buddiol yn cael ei gychwyn, neu annogaethau gwresog yn cael eu rhoddi o blaid rhyw waith da. Ni fyddaf yn gofalu cy-maint am wybod beth oedd yn cael ei *ddyweyd*, ond beth oedd yn cael ei *wneyd*. Y mae yn ymddangos i mi fod dau beth y byddai

yn ddymunol iawn pe ceid mwy o honynt yn nghyfarfodydd crefyddol y Cymry, sef mwy o weddö, a mwy o weithio.

HALEN Y DDAEAR.—Yn ymddyddanion rhai crefyddwyr, ar ol eich blino am hir amser & r ymadroddion mwyaf diflas, cewch delwyn o halen crefyddol yn eich ceg yn annysgwyliadwy, yr hyn sydd yn llawn mor annymunol a'r diflasod cyn hyny. Y mae pawb yn teimlo ac yn casâu anghysondeb. Pe la b'ai yr halen yn weledig, nid yw hyny o bwys mawr: ond nylai ei newt fod wedi treiddio trwy yr holl ymddyddanion a'r ymddygiadau.

FOSTER.—Nid wyf yn gwybod am un ysgrifenwr Seisoneg a gyrahaeddodd yn fwy agos at berfffeithrwydd, o ran yr arddull (*style*) o ysgrifenu, na John Foster. Y mae yn ymddangos i mi ei fod yn rhagori ymhell ar Robert Hall. Ond ni ddaeth neb erioed, ac ni ddaw neb byth, yn feistr mewn unrhyw waith, heb lawer o lafur. Ac os mynir gwybod pa fodd y daeth Foster mor gampus, cymharer yr argraffiad cyntaf o'i "Essays" a'r rhai diweddar. Byddai yn anhawdd i ddyn ieuanc gael gorchwyl mwy dyddorawl a buddiol.

GWNEYD A GWNEUD.—Y mae rhai yn ysgrifenu *gwneud*, ac yn dadleu dros hyny mai u sydd yn *gwneuthur*. Ond o *gwna* y mae *gwneyd* yn deillio; ac *yd* yw y terfyniad, megys yn *cymeryd, arferyd, &c.*

DIWYGIAD.—Beth yw yr achos fed yr hen air parchus hwn wedi ei dafliu heibio, ac *adfywiad*, neu ryw eiriau cyffelyb, wedi cymeryd ei le? Hen air da yw *diwygiad*; a phan glywom fod cynhwrf crefyddol mewn rhyw ardal, dylid gofyn yn uniou, nid a ydynt yn *adfywiw*, ond a ydynt yn *diwygio*?

YR YSGOLION BRYTANAIDD.—A ydyw yr ysgolion hyn yn gwneyd rhyw les? Yr wyf yn credu eu bod yn gwneyd lles dirfawr; ond nid cymaint ag a allent, na chymaint ag a ddyalent, mewn rhai manau. Gwelais ambell un yn myned i Lundain, neu i'r Coleg Normalaidd am ddu fis neu dri; ac yn dyfod adref wedi llyncu llyffant. Da chwi, fechdyn Cymru, gochelwch gwacyddiaeth, a humbugiaeth.

CYMREIGYDDION CAERLUDD.—Derbynais lythyr yn ddiweddar yn hysbysu fod y Cymreigyddion yn Llundain yn myned i gael eu hali-wneyd. Yr oedd yn hen bryd iddynt. Gobeithiaf eu bod bellach ar y ffordd o fod o ryw les. Gallent wasanaethu eu canedl, a hyderwn y gwnant, trwy gyhoeddi llyfrau iselbris ar wahanol gangenau o wybodaeth.

CROMWELL.—Dywed haneswyr i Oliver Cromwell, ar ol ysgrifenu ei enw wrth y papyr dychrynllyd oedd yn dedfrydu Siarl I. i farwolaeth, droi at ei gyfaill Harri Martin, a pharodduo ei wyneb yn chwarëus a'r ysgrifell. Hawdd genyf gredu fod hyn yn wir, heb ystyried Cromwell yn fwy dideimlad na dyn arall. Y mae yn cydsefyll a natur pethau. Fel hyn y mae mawredd a bychander, difrifoldeb a ffolineb, yn terfynu ar eu gilydd, ac yn fynych yn rhedeg i'w gilydd. Fel addysg oddiwrth yr hanes, byddai yn dda i ni gofio nad ydym un amser yn fwy agored i brofedigaeth nag yn ebrwydd ar ol yr oriau mwyaf difrifol.

Pennod yr Astronydd.

Mae dyn wedi ei amgylchynu â dirgeledigaethau; a'r dyn cryfaf ei ddeall ac eangaf ei wybodaeth, sydd yn teimlo hyny fwyaf. Ymhlieth y Groegiaid, y genedl o bob cenedl yn hanes y byd, a ymdrechodd fwyaf i ymwrthio i'r dirgeledigaethau sydd yn terfynu gwelediad dyn yn mhob cyfeiriad, yr oedd y teimlad hwn wedi ymgorffoli mewn defodau crefyddol. Ac at y defodau hyny y cyfeiria yr apostol Paul mer fynych pan yn defnyddio y gair "dirgelwch." Mae llawer o ymdrechiadau wedi bod i egluro y dirgeledigaethau hyny, ond y mae yr holl esboniadau o honyn yn gyson â hyn, eu bod yn tystiolaethu mai teimlad y Groegiaid oedd, fod rhywbeth uwchlwm pob esboniad, fod rhywbeth dirgeledig yn bod, nas gellir ei ddwyn i lawr o fewn mesur dychymyg dyn, nac o fewn ffurfiâu ei ddeall. Dywedir fod y dirgeledigaethau hyny yn dysgu fod rhyw unoliaeth goruchel, o ba un y deilliau pob peth, ac i ba un y dychwela; a bod rhyw allu dwyfol nas gellir ei arddangos drwy dy ddelwau; a bod rhyw elfen ddwyfol mewn dyn. Ond pa beth bynag oedd yn ormod i feddwl dyn ei angyffred—pa un bynag ai yn Nuw, ai ynddo ei hun, ai yn y greadigaeth—hyn yna oedd y dirgelwch a gysyllta pob un â'r defodau hyny. Ac fe ddichon mai yr anhawsdra oedd i wybod yn wba le yr oedd y dirgelwch—yn Nuw, ynddo ei hun, ai yn natur; ond yr oddynt yn teimlo hyn, ei fod yn rhywle, ac nas gallent wadu hyn heb wadu eu natur eu hunain.

Nodiadau Ysgrythyrol.

"Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd o groth y wawr: y mae gw lith dy enedigaeth i ti." *Salm cx. 3.* Fe sylwa y darllenyydd fod y gwahan-nod wedi ei osod yn yr adnod hon ar ol y gair "gwawr." Gwneir yr un modd yn y cyfeithiad Seisonig. Ymddengys i ni y byddai yr ystyr yn llawer amlycach pe gosodid ef ar ol y gair "sancteiddrwydd," a darllen yr adnod fel hyn, "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth, mewn harddwch sancteiddrwydd: o groth y wawr y mae gw lith dy enedigaeth i ti." Mae amrywiaeth mewn gwahanol gyfeithiadau o'r adnod hon. Cyfeithiad Calvin sydd fel hyn, "Dy bobl a ddeuant i ti â g offrymau ewyllysgar, ar amser cynnulliad dy lû, mewn pryderthwch sancteiddrwydd: gw lith dy ieuengtid a ddaw i ti o groth v wawr." Mae Coverdale a Tyndal yn cyfeithu fel hyn, "Yn nydd dy nerth, dy bobl a ddygant offrymau ewyllysgar mewn addoliad sanctaid." Gosodwn yma amryw eto. "Dy bobl a offrymant eu hunain yn ewyllysgar, yn y dydd y cynnulli dy luoedd ar dy fynydd sanctaidd."—*Green.* "I ti y bydd offrymau ewyllysgar, yn nydd dy nerth, mewn pryderthwch sancteiddrwydd. Mae gw lith dy enedigion yn helaethach na chroth y wawr."—*Horsley.* "Tra-ewyllysgar y bydd dy bobl, yn y dydd yr amlygi dy nerth ar y sanctaidd fynyddoedd hyn, dy enedigion fel gw lith o groth y wawr."—*Boothroyd.*

Y Golled Fawr.

Mae miloedd meibion Adda'n ymddwyn,
 Fel yn teimlo colled ddwys,
 Er nad oes ond rhai yn gwybod,
 Na meddwl am ei maint na'i phwys;
 Rhai sy'n gwybod beth a gollwyd,
 Ychydig iawn sydd wedi ei gael,
 Ond pawb am lenwi'r gwag i synu,
 A rhywbeth welir nad yw wael.

Maent fel twmpath morgrug bywiog
 Amser haf ar lethr y bryn,
 Rhai a'n brysur iawn ffordd aew,
 Lleill mor brysur ant ffordd hyn ;
 Rhai a'r baich sydd yn fan yna,
 Lleill yn ymladd yn fan draw,
 Pawb yn brysur iawn yn darpar
 Erbyn rywbryd eto ddaw.

Felly dynion a'u holl egni,
 Lusgant i'r du wagle mawr :
 A cha'dd rhai amrywiaeth pethau,
 Eto gwag yw'r fan yn awr :
 O na bai'n gyflens i waeddi
 Unwaith yn eu gwyneb oll,
 Rhoi hysbysiad cywir iddynt—
 Duw ! Eich Duw y sydd ar goll.

Mae'r meddwl fel rhyw draeth-le èang,
 Creigiau, ogofaau bob tu ;
 Ac yn llenwi'r holl gilfachau :
 Rywdro llanw mawr a fu,
 Heddyw gwag heb liw o lanw,
 Nadrodd chwantau yno 'n byw ;
 Lladd y rheini, llenwi'r gwagle
 Wna cael llanw,—sef cael Duw.

Yn ol hyd a lled y gol ed ;
 Barner gwerth y newydd hyn,—
 Mae modd i'w gael ef yn y Dyddiwr
 A'i collodd unwaith ar y bryn ;
 Duw sydd ddigon, pobpeth ydyw,—
 Mwy nag ellir gynnwys yw,
 O fod yn ormod y mae'n ddigon,
 Llawn o hono, ynddo'n byw.

Os yn eithaf tragwyddo'deb
 Byddi yn meddu mwynhan Duw ;
 Difnion ryfeddodau ei natur,
 Geidw 'th ddéall fyth yn fyw,
 Ei hedd fydd yn ddigonol gysgod,
 Ei 'wyllys da'n ddigono faint ;
 Ei garu a'i addoli'n gyson ;
 Fydd dedwyddwch llawn y saint.

“Yr Anghysonderau Benywaid” yn cael eu taslu yn ol at y rhwyo Wrywaidd—gan Ferch ieuanc.

1. Mab ieuanc yn treulio llawer o arian ac amser i ddylsgu pethau sydd yn waeth na bod hebddyt; ac eto, heb ddylsgu cyflawni gorchwylion y perthyna iddo wneuthur ond yn hynod o ddiwlun, megys lladd gwair ac yd, dal yr aradr, cau adwy, yagrifenu na darllen llythyr at neu oddiwrth unrhyw berthynas.

2. Mab ieuanc yn gwario yr oll a fedd, nid i ddilladu ei gorff: ond i fwynhau cyfeillach y bibell a'r *tybacco*, a'r ddiod feddwol; ac ni rodd a'r un dwy geiniog yn y mis, i gael llyfr buddiol er casglu gwybodaeth, na thuag at achos yr efengyl ychwaith.

3. Mab ieuanc yn lân a thrwsiadus oddi cartref, ond yn ei drigfa yn hynod o fudr—ei ddwylaw yn tori yn agenau, yn sychedu am ddwfr, y beudy a'r stabl yn gwbl fudr ac anhaclus, a sawyr annymunol o'u mewu.

4. Mab ieuanc yn dywedyd fod arno ormod o gywilydd, dyfod i ymweled â'r un ferch ieuanc liw dydd, a chyn amser cysgu: ac eto yr un mab ieuanc yn eithaf digywilydd yn y ffair a'r farchnad, ac yn rhy aml o lawer mewn cyfarfodydd crefyddol, yn llusgo rhai i'r tai a'r cornelau yn gyffelyb ag y llusgir asyn gan ei yriedydd yn groes i'w ewyllys, fel ag y dygwyddodd i mi gael fy llusgo un tro gan lolyn meddw, oddiar ba un y diengais ar fyrder, gan obeithio na chyfarfyddaf byth a'r un cyffelyb ddani-wain eto.

MIRIAM O BENLLYN.

Gair ar lân y Bedd.

Feddywed y Salmydd gyda golwg ar y bedd, “Dangos imi llwybr bywyd.” Llwybr hynod ydyw y llwybr i'r bywyd: mae'n rhaid myned trwy y bedd iddo. Ond er mor dywyll ydyw y llwybr, siwrnai sydd yn talu ei ffordd yn dda ydyw ei deithio, mae bywyd yn mhen draw y siwrnai. Os yw y llwybr yn groes i natur, dyna'r goreu, Duw sydd wedi trefnu'r llwybr. Ac y mae genyf air o gysur i'w ddywedyd yn y fan yma, mae Duw ei hunan wedi teithio'r llwybr, “Gwelwch y fan y gorweddodd yr Arglwydd.” Yr oedd angen yn llwybr i'r bedd bob amser, ond nid oedd yr un llwybr o'r bedd i'r bywyd cyn i Dduw ddyfod i'w agor. Ond y mae efe wedi myned trwy angen i'r bedd, a chael llwybr i ddyfod o'r bedd i synu'n fyw, “Nid yw efe yma, canys cyfododd.” Peidiwch ag ymladd gormod â'r bedd, llwybr i'r bywyd ydyw; ac nid yw y llwybr yn ansathredig ychwaith, mae eich brawd hynaf wedi ei deithio, sef “Y cyntaf-anedig oddiwrth y meirw.” Os byddai ty yn Israel â'r gwahanglwys wedi dysod iddo, yr oedd yn eu cyfraith ei dynu i lawr. Felly mae haint wedi dysod i'n ty ninnau; ac os rhaid iddo gael ei ddattod a'i falurio yn y bedd, peidiwn a grwgnaeth, dyma drefn Duw i'w gael yn dî unewydd heb yr un gwahanglwys. Pan y mae y corff yn myned i'r bedd mae ei wisg o fatwoldeb am dano, ond yn mhen draw 'r llwybr y mae'n dysod i synu'n fyw yn ei wisg o anfarwoldeb. “Adgyfodir dy frawd,” meddai 'r Iesu. “Myfi a wñ yr adgyfodir ef y dydd diweddaf,” meddai Martha. Na thristewch fel rhai heb obaith. Dyddenwch eich gilydd â'r ymadroddion ynghylch yr adgyfodiad oddiwrth y meirw.

G. J.

Anniweirdeb Cymru.

Y MAE y Cofrestrydd Cyffredinol newydd gyhoeddi ei Adroddiad Blyneddol o'r genedigaethau, marwolaethau, a phriodasau yn Lloegr a Chymru. Yn yr Adroddiad hwn rhoddir rhestr o'r genedigaethau anghyfreithlawn am 1845 a 1842. Y canolrif yw *sait* am bob *cant* yn y flwyddyn 1845. Hyny yw, wrth gymeryd holl siroedd Lloegr a Chymru at eu gilydd, o bob *cant* o enedigaethau yn y flwyddyn 1845, yr oedd *sait* yn cael eu rhoddi i lawr yn nghyfrifon y deyrnas fel rhai anghyfreithlawn. Ond y mai rhai lleoedd yn llawer uwch. Y gwaethaf yw Brampton a Longtown, lle yr oedd rhifedi y bastardiaid a anwyd yn 1842 yn 17.2, ac yn 1845 yn 17.4, am bob *cant* o enedigaethau. Y nesaf yw Wigan, lle yr oedd ynt yn 1832 yn 18.1, ac yn 1845 yn 16.5, am bob *cant*. Y cyfrifon am ddosbarthiadau Cymru a sir Fynwy ydynt fel y canlyn.

DOSBARTHIADAU.	Rhifediy bastard- iaid am bob <i>cant</i> o enedigaeth- au.	1845.	1842.
Presteigne, Knighton, Rhayader,	-	15.0	14.5
Drefnewydd, Trefaldwyn,	-	12.1	10.3
Tregaron, Llanbedr, Castellnewydd,	-	11.7	9.4
Llanfyllin, Machynlleth,	-	11.7	8.0
Hwlfiordd,	-	11.4	9.7
Narberth, Penbro,	-	10.9	8.9
Wrexham,	-	10.1	9.1
Caerfyrddin,	-	10.1	8.6
Llanfairmualt, Aberhondu, Crughywel, Gelli,	-	8.8	5.1
Môn,	-	8.6	7.8
Llanelli, Llandeilo fawr, Llanymddyfri,	-	8.4	7.6
Pwllheli, Caernarfon,	-	7.9	7.6
Dolgelle, Corwen, Bala, Ffestiniog,	-	7.8	7.6
Aberteifi, Aberaeron,	-	7.3	5.6
Mynwy, Chepstow,	-	6.7	6.3
Aberystwyth,	-	6.5	5.0
Llanrwst, Llanelwy, Rhuthyn,	-	6.0	7.0
Bangor, Conwy,	-	5.8	6.2
Caerdydd, Bridgend, Neath,	-	5.5	5.4
Newport,	-	5.4	3.7
Merthyr Tydfil,	-	5.1	4.7
Treffynnon,	-	4.8	4.4
Abergavenny, Pontypool,	-	4.2	4.3
Abertawy,	-	3.0	4.0

Y ddwy nos Sadwrn.

Yr oedd cymysgedd y dydd cyntaf newydd gael ei weithio i drefn. Y goleuni yn dechreu gwenu ar wyneb newydd y ddaear; y môr yn codi ac yn gostwng nodau cyntaf peroriaeth ei emyn; yr haul a'r lloer newydd gychwyn olwyniaw ar eu priodol gylchdeithiau; yr angelion newydd grogi eu lampau o ser wrth golofnau y nefoedd; a dyn o'r cyfansoddiad rhyfeddal, ac o'r ddelw harddaff, newydd gael ei osod yn arglywydd ar y cyfan. Yr holl fyddysawd yn ddedwydd yn ei fodolaeth. Yr adar â'u lleisiau mwynaf

ddechreuent byncio eu mawl yn llwyni Eden; mân wybed o fil o liwiau chwareuent eu hedyn yn yr haulwen berarogiaidd a ymlifai o'r gorllewin; holl gantoresau anian a suant eu hwyrol emyn, ac Adda a'i wraig a ymrodiant law yn llaw dan ymddyddan am eu breintiau, nes gweled yr haul yn machludo heb gwmwl, ac yna tan ganu eu gweddi cyd-droant i'w tawel gyagodfa, i orphwys ar wely o rosynau. Dyma nos Sadwrn cyntaf y ddaear.

O gylch pedair mil o flyneddau ar ol hyny, pan oedd Eden wedi myned yn anialdir, a phan oedd dyn wedi ireiddio bron bob cwys o'r tir a sangai a gwaed ei frawd, a pheched a galar wedi bod yn gymdeithion iddo drwy ei holl ymgrwydriadau;—dacw ran o'i hiliogaeth wedi cael meddiant o wlad'yr addewid, a dacw eu dinas freninol yn eistedd yn trydferth ar dri o frysiau.

Wele weledigaethau yr hen weledyddion wedi dyfod i ben. Y Duwdod wedi ymgawnadoli yn Bethlehem, wedi iachau cleifion, a rhoddi llygaid i ddeillion, a rhwymo rhai ysig eu calon, a chodi marwolion i fywyd. Ond dacw awr ddiweddfaf y ddinas wrth law. Ofer yr wylwyd drosti. Y mae gwaed y prophydyi yn ei godre, a bydd un gyflafan eto yn ddigon i lenwi cwpan ei hanwiredd. Ac wele hi mewn llawn cynhwrf. Daew orymdaith o filwyr ac offeiriad, a'r werin yn ymchwilio i'w dilyn, yn llifo allan fel y môr trwy ei phorth gorllewinol; ac yn eu mysg wele un o wedd wahanol iawn i bawb eraill, a thawelwch nefol yn gorphwys arno. Dacw y dorf ar ael Calfaria. O! y fath ddystawrwydd! Ac O! y fath gynddaredd! Y maent yn ysgwyd pen mewn gwawd o amgylich y gwr ag yr oedd ei galon y prydhyny yn ymdoddi ynddo yn eu hachos hwy. Ond "Gorphenwyd!" Wele ef yn gogwyddo ei ben, ac yn marw. Dacw y flurfaen yn gwisgo ei sachlen ddu, a Moriah, Acre, a Sion, yn ymgrynu dwyddynt. Dacw y beddau a naddasid yn y graig yn ymagor, a'r meirw oedd wedi huno am oesoedd yn deffroi ac yn codi. O! Jerusalem falch, yr wyt ti yn galed trwy y cyfan! Dyna y gwpan yn llawn, a'th euogrwydd wedi ei berfeithio. Dacw eryr Rhufain yn ysgwyd eiedyn i ymsaethu arnat. Dyma wythnos dy freintiau ar ben. Daeth nos Sadwrn dy oruchwyliaeth.

AMERICAN.

Adfywiad Dirwestol a Chrefyddol.

Ail anerchiad at Athrawon yr Ysgolion Sabbothol, gyda golwg a'r yr achos Dirwestol; a'r llwyddiant neilltuol sydd arno mewn parthau o'n gwlad y dyddieu hyn.

FY ANWYL GYD-ATHRAWON,

Gan imi gymeryd yr hyfdra i'ch anerch yn ostyngedig, gan eich cymhell i gyd-ymgynghreirio ynghyd a'r llaws ieuencyd sydd dan eich gofal, i ddyfod allan yn wrol ac egnol y flwyddyn hon, i bleidio byddin Dirwest, gan gwbl gredu y byddem trwy hyny yn sicr o enniol y fuddugoliaeth ar yr hen Philistiaid sydd yn gwaradwyddo byddinoedd y Dau byw; yr wyl yn ystyried fy hun yn ddyledus i'ch anrhegzu gyda brys ag ychydig newyddion da o lawen ydd mawr am y llwyddiant rhyfeddol sydd wedi, ac yn cymeryd lle, mewn rhai parthau o'r teyrnas y dyddiau hyn gyda'r achos. Yr wyl yn dêll fod rhyw ail gychwyn, a symudiad nerthol wedi cymeryd lle mewn amryw fanau o Loegr, Scotland a'r Iwerddon, yn enwedig mewn cysylltiad â'r Ysgolion Sabbothol, yn New-Castle-upon-Tyne, mae saith gant a phedwar ugain o ysgoléigion yr Ysgol Sabbothol, ac un can ta phedwar ugain o'r athrawon, wedi derbyn yr ardystiad dirwestol; ac yn Manchester, yn yr Ysgol Sabbothol perthynol i Gapel

Roby, y mae saith cant a deg ar hugain o'r ysgolion, a dau a deugain o'r athrawon yn ddirwestwyr, ac y mae yn perthyn i Ysgol Sabbothol y Parch. Mr. Mc. Kerrow, o'r un dref, dri chant a deg a deugain yn ddirwestwyr.

Ar ddydd Nadolig diweddaf, cynnaliwyd y gylchwyl gyntaf yn Nghaer-sfro, perthynol i'r "Gwregys Gobaith" (*Band of Hope*), sef yr undeb dirwestol perthynol i'r Ysgol Sabbothol. Yr oedd dros pum cant o'r ieuencyd yn bresennol. Y mae oddetu saith cant yn barod wedi ymuno â'r gymdeithas, ac y mae'r achos yn myned ar gynnydd parhäus ymhilth athrawon a deiliaid yr Ysgol Sabbothol yn y ddinas hon, Leeds. Ar y 3ydd o Ionawr, cynnaliwyd cylchwyl cymdeithas ddirwestol, perthynol i ieuencyd yr Ysgol Sabbothol yn Leeds (yr hon a elwir, "Band of Hope,") pryd yr ymgynnulodd tyrfa fawr o'r ieuencyd ynghyd, ac y traddodwyd areithiau ardderchog, ac y canwyd amryw ganiadau dirwestol yn hynod soniarus ac effeithiol. Y mae yn perthynu i'r sefydliad hwn (Kendal), yn bresennol bedair mil o aelodau. Cynnaliwyd y drydedd gylchwyl flyneddol ddirwestol yr ieuencyd yn y lle hwn yn ddiweddar yn ysgoldy yr Annibynwyr; yr oedd y gymdeithas hon yn cynnwys yn Ionawr, 1848, saith gant a hanner o aelodau; ond yn Ionawr, 1849, un mil dau cant a dau ar hugain; yn Tachwedd diweddaf, ymwelodd Dr. R. B. Grinrod, a Bath, a thraddododd amryw ddarllith-oedd effeithiol a dyddorawl ar ddirwest; ac efe a anerchodd oddetu dwy fil o ieuencyd yn y Guildhall, yn hynod ddisyрус ac effeithiol. Cafwyd oddetu pedwar cant o enwau o'r newydd. Y mae genym yn bresennol dair mil o enwau yn llyfr Cymdeithas yr Ieuencyd; y mae'r achos hefyd ar gynnydd cyffredinol ymhilth pob graddau ac oedran yn y ddinas hon.

Bellach prysuraf i adrodd i chwi ychydig hanes am y wawr a'r llewyrch grgoneddus sydd wedi cyfodi ar yr achos dirwestol mewn rhai ardaloedd Cymru er dechreu y flwyddyn hon, yn enwedig yn nghymydogaeth Betheda, Tre'r Garth, a Llanllechid. Yr oedd ffyddlondeb neillduol yn cael ei ddangos yn Betheda tuag at ddirwest, gan amryw o'r rhai oedd yn proffesi duwioldeb, ymhilth yr Annibynwyr, y Methodistiaid Calfinaidd, y Wesleyaid, a'r Bedyddwyr; ac yr oedd ynt yn cynnal cyfarfodydd bob Sabbath, bob yn ail capel, neu ar yr heol, pan y byddai y tywydd yn caniatâu, heblaw un Gylechwyl flyneddol. Cafwyd cyfarfod rhagorol felly y Gwyliau diweddaf, yr areithwyr ydoedd y Parch. Mr. Price, o Birmingham, (T.C.) a Dr. A. Jones, Bangor, (A). Wedi hyn rhoddwyd annogaethau neillduol mewn cyfarfod chwech-wytnosol yn Jerusalem, ar fod i fwy o ymdrech gael ei wneuthur trwy yr holl Ysgolion Sabbothol, ar gael pawb hyd y gelir yn ddirwestwyr, a dyfod â'r cyfrif i'r cyfarfod chwech-wytnosol canlynol. Dechreuwyd ar y gorchwyl yn egnol, doeth, ac effeithiol iawn, a derbyniwyd hysbysiadau cysurus a chalonog o amryw ysgolion, eu bod wedi llwyddo i gael amryw yn chwanegol i dderbyn yr ardystiad: ac yn ol yr hysbysiad yr wyf yn dêall fod yn perthyn i ysgol Jerusalem, yn bresennol, bedwar cant a deg o ddirwestwyr; ysgol Carnedd, bedwar cant a phymtheg; a bod yn perthyn i ysgol yr un enwad (T. Calfinaidd), yn Mangor, dri chant o ddirwestwyr, a lliaws mawr yn perthyn i ysgolion eraill yn y dosbarth. Y mae ymdrech cyffelyb yn cymeryd lle mewn ysgolion perthynol i enwadau eraill yn y cymydogaethau. Eu yn yr ardaloedd hyn hefyd ar dechreu y flwyddyn hon, gydweithredu rhwng y brodyr o wahanol enwadau tuag at gael dynion enwog atynt i areithio a phregethu yn fynych ar yr achos; ond er bod flyneddau yn ymboeni megys ar hyd y nos heb ddal fawr, cafwyd cyfarwydd y o'r diwedd i fwriadol.

y rhwyd megys o'r tu déheu i'r llong, ac erbyn hyn wele bysgod lawer iawn wedi dyfod i dir sych, a dyma y gwaith yn llwyddo, y gwersyl yn cychwyn, y banerau yn chwifio, a sain caniadau dirwest i'w clywed o'r naill gwyr i'r llall o'r gyntydogaeth. Nis gwyddant yn iawn i ba beth i briodoli y fath symudiad nerthol, a rhyfeddol sydd wedi cymeryd lle yn eu plith; ond gwaeddant am y cyntaf, "Nid i ni, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogonian." Nis gallant lai na chredu wrth weled y medd-won penaf wrth yr ugeiniau yn ymrestru dan faner dirwest, nad bys Duw sydd wedi cyffwrdd â'u calonau! a dywedyd hefyd gyda y Salmydd, "Yr Arglwydd a wnaeth i'r rhai hyn bethau rhyfeddol! O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni a'i ryfeddodau i ni feibion dynion."

Y mae y dirwestwyr newyddion hyn wedi ffurfio eu hunain yn fath o glybiau arianol dirwestol mewn amrywiol barthau o'r gymydozaeth, i gyfranu swm o arian bob mis, am flwyddyn, ac yn myned i gyfammod â'u gilydd, os bydd i un dori ei ardystiad dirwestol, fod ei arian i gael eu rhanu yn gyfartal rhwng aelodau y clwb, i'r dyben o gadarnhau eu hunain yn fwy yn erbyn yr hen hudoles. Yr wyf yn deall fod y clybiau hyn yn cael eu sefydlu mewn cymydoagaethau eraill, a thrwy hynny fod yr egwyddor ddirwestol yn ennill tir, a'r diwygiad yn ymledu beunydd.

Nid oes erbyn hyn braidd un cyfarfod crefyddol yn y capeli na chlywir y brodyr yn cydnabod yr Arglwydd mewn diolchgarwch am y daioni mawr y mae wedi ei ddangos tuag atom trwy y diwygiad hwn; ac yn awr y mae y pedwar enwad crefyddol wedi cyttuno ar fod i'r Sadwrn nesaf, (Mawrth 17) gael ei dreulio yn gyfarfodydd gweddlo, i ddiolch am y daioni y mae wedi ei wneuthur yn barod, ac i ddeisyf ar iddo wneuthur mwy eto; oblegid yr ydys yn ystyried y diwygiad sydd yn myned ymlaen yn bresennol yn foddion i barotoi y ffordd i ddiwygiad mwy, ac yn cofio fod y llwydd mawr fu ar ddirwest yn ein gwlad oddetu deuddeng mlynedd yn ol wedi bod yn foddion (fel Ioan Fedyddiwr) i barotoi ffordd yr Arglwydd, ac i fisoedd lawer yn ein teyrnas gael eu hachub; ac hefyd ei fod wedi rhagflaenu y diwygiad mawr sydd yn myned ymlaen yn amrywiol barthau o'n gwlad y dyddiau hyn. Bellach, rhaid i mi gyfeirio fy yspieenddrych am ychydig fynydau tuag Aberffraw, yn Môn. Gwelaf fod dirwest wedi dystewi yn y dref hon, fel mewn llawer o fanau eraill yn ein gwlad, a bod meddwdod yn cyfodi ei ben yn uchel, a Sion megys myrtwydd yn y pant; y tasfinau yn llawnion, a'r capeli yn gwaghau; twrf a therfysg yr ieuenc-tyd hyd un a dau o'r gloch y boreu, dan effeithian y gwlybroedd meddwol, yn enwedig ar nos Sadyrnau; ond tua diwedd y cynhausaf diweddaf, fe ddeffroes yr Arglwydd ei bobl i ddyfod i'r maes o'r newydd yn erbyn meddwdod, ac i bleidio dirwest, a dechreuwyd amgylchu y caerau yn ffydd-lawn bob wythnos, nes llwyddwyd yn fuan i gael lliaws o'r medd-won i gofleidio yr egwyddor; ac ar ryw nos Sabbath, ychydig fisoedd yn ol, daew y floedd allan, a'r caerau yn dechreu cwymo, nes i ugain neu ragor yr un noswaith gael eu chwanegu at yr eglwys, ac i lawer eraill gael eu cloffi a'u ciwyfo, ac erbyn hyn yr wyf yn deall fod tua dau cant wedi eu chwanegu rhwng yr Aberffraw, y Bryn du, a Gwalchmai, at eglwysi y Methodistiaid Calfinaidd yn unig, a bod amryw yn cael eu chwanegu mewn manau eraill trwy y sir, ac at enwadau eraill hefyd. Clywaf eto drwst cerddediad yn mrig y morwydd trwy Leyn, Eifionydd, a chyrau o Arfon, a sain cân a moliant yn yr eglwysi sydd wedi bod am flyneddau yn hynod lesg a dlepiedd; ond yn awr y mae yr Arglwydd yn chwanegu ugeiniau atynt, a diwygiadau nerthol yn ymledanu beunydd. Ond pallai amser i ni yn bresennol ddilyn byddinoedd y march gwyn tua Meirion, a rhoddi desgrifiad

iad manwl o'r ail ymweliad bendithiol ac effeithiol yn y Bala, lle y mae wyth neu ddeg yn dyfod i ymofyn am le yn nhŷ Dduw. Gwelwn wrth hyn, fy mrodyr, fod y "nos wedi cerdded ymhell, a'r dydd a nesaodd; am hyn y bwriwn oddiwrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni, a rhodiwn yn weddus megys wrth liw dydd, nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynhen a chenfigen."

ATHRAW.

Y Fam Fyddar.

YR hanesyn a ganlyn a berthyna i Countess Orkney, yr hon a fu farw yn y flwyddyn 1790, yn un mlwydd ar bymtheg a thriugain oed. Ei mawrhydi ydoedd fud a byddar. Yn y flwyddyn 1753, priododd wrth arwyddion brif Ardalydd Thom, yn agos i Cork, yr hwn ydoedd gefnader iddi. Yn fuan wedi geni y plentyn cyntaf, sylwodd y *nurse* ar y fam yn nesu yn ochelgar at y cryd, lle yr ydoedd y plentyn, ac yn amlygu rhyw fwriad dwys. Wedi iddi gael sicrwydd fod y plentyn yn cyagu, er dychryn i'r forwyn, yr hon a lanwasid à'r meddwl am ddicHELL a chyfrwysder mudanod, cymerodd gareg fawr a guddiasai dan ei *shawl*. Ymaflodd y forwyn yn y gareg i'r dyben i'w thaflu i lawr; ond cyn iddi lwyddo, taflodd y foneddiges y gareg, nid fel yr oedd y forwyn yn tybied at y plentyn, ond ar y llawt, yr hyn o anghenrhiedrwydd a wnaeth grym sŵn. Deffrodd y plentyn yn ebrwydd, ac wylodd. Edrychay i foneddiges gyda bywiogrwydd mawr ar effaith y prawf a wnaeth, a syrthiodd ar ei glin.an, wedi ei gorlenwi à llawenydd. Canfyddodd fod ei phlentyn yn feddiannol ar y synwyrâu yr oedd hi yn ddiffygiol o honyn.

Hanesion.

RHUFAIN.—Y mae ymosodiad y Ffrancod ar y ddinas hon wedi ail ddechreu y 5ed o Fehefiu, ac y mae amryw o'r prif adeiladau a'r egwysydd yn barol wedi eu anmharu yn fawr a vanddynt. Ymaent yn awr, er mawr gywilydd iddynt eu hunain, yn ceisio gwneud âg arfau yr hyn y methasant ei wneyd trwy ddicHELL. Bydd hanes yr ymosodiad hwn yn warth oeso. ar hanes llywodraeth bresennol Ffrainc.

FFRAINC.—Ymdrechodd M. M. Ledru Rollin a'i blaidd i gynhyrfa trigolion y wlad i wrthryfel yn erbyn y Llywodraeth bresennol. Nid ydyw yr ymosodiad ar Rufain o lawer yn fodolhaol i'r deiliaid. Cymerodd M. M. Ledru Rollin fantais ar hynny i ddwyn cyhuiddiad yn erbyn y gweisiongion, ac i ddwyn oddam ychydig y cynhwrs hwn, ond methodd yn ei amcan. Y mae'r deyrnas yn awr yn dawel, a'r gwr hwn hwn a'i blaidd, rhai o honyn wedi dianc, ac eraill yn nwylaw yr awdurdodau. Y mae can mil o filwyr yn awr yn Paris.

HUNGARY.—Mae ymheraû dwr Rwsia wedi dyfod à chwech ugain mil (120,000) o filwyr i gynnorthwyo ymherawdwyr Awstria i ddarostwng y bobi hyn, sydd hyd yma wedi llwyddo yn eu gwrthryfel. Anmhosibl yw gweled y diwedd :—ond yn ol pob tebyg, bydd yn anhawdd i drigolion Hungary wrthsetyll y llu mawr sydd ar ymosod arnynt.

Y GEINIOGWERTH.

Yr olwg ddiwedda ar ddyn yn boddi.

WRTH wrandaw pregeth er ys ychydig amser yn ol, un peth tra addysgiadol a gawsom, oedd darluniad o ryw deithiwr yn ngwyneb llongddrylliad. Yr ydym yn hyderu ein bod wedi cael lles trwy y bregeth hono. Yr ydym, pa foddy bynag, wedi meddwl llawer am y rhan yma o honi, a chesio ei droi yn gymhwysiadol atom ein hunain. Rhoddwyn rai o'n haddysgiadau ar lawr, gan na wyddom na bydd i eraill wneyd yr un peth. Yr oedd y teithiwr, y mae ya eglur, yu meddu rhyw gymaint o dila y byd hwn, oblegid yr oedd amryw bethau yn cael eu dwyn gydag ef yn y llong; ac fel y mae yn dygwydd yn aml, yr oedd ei fryd ef yn fawr ar ei drysorau. Pan yr oedd pawb wedi anghofio y cwbl ond eu bywydau, gwelid ef yn crynöi ei deganau ac yn eu gosod yn bwn ar ei gefn; a chan faint ei ofal am danynt, cymroedd raffau a rhwymodd hwynt yn sicr wrth ei gorff ei hun. Erbyn hyn mae y dynhestl mor gynddeiriog fel y mae y llong yn gorfod rhoddi ei hunan i fynu yn ysglyfaeth i'r tónau. Dacw y dynion hwythau, rhai yn y bâd, ac eraill yn ceisio nofio heb ddim, yn gwneyd ymgais benderfynol am y làn, yr hon o drugaredd nid oedd ymhell. Dacw y gwr a'r pwn yntau yn rhwyfo, ond ymhell iawn yn ol. Ymladdfa galed ydyw. Yr wyl yn gorfod ofni mai colli y dydd a wna. Gadewch i ni weled, pa beth y mae yn wneyd yn awr? Ai ceisio tynu y pwn yn rhydd y mae efe? Ah! dacw fe wedi soddi. Yr olwg ddiwedda a gafwyd arno wrth soddi, oedd yn dattod y rhaffau oedd ef wedi glymu am dano ei hun.

Ddarllenyyd! nid dyna yr unig un a welwyd pan yn boddi yn ceisio dattod y rhaffau oedd ef wedi glymu am dano ei hun. Nid oes genym fawr o amcan i allu dyweyd faint o rifedisydd bob blwyddyn yn Nghymru, yn cael eu dàl mewn ystyr ysbrydol, yn y rhaffau y maent wedi eu gwneyd iddynt eu hunain; a mawr yw y drafferth sydd ar lawer wrth geisio dyfo'n rhydd o'r rhaffau hyny. Arweinir ni yn y fan yma yn naturiol at eiriau v gŵr doeth, "Ei auwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol, ac efe a ddelir a rhaffau ei bechod ei hun." Byddai yn dda genynnw allu tynu sylw darllenwyr y "Geiniogwerth," yn enwedig y rhai hyny o honyn ag sydd yn ieuainc, i edrych ac ystyried y modd mae dynion yn cael eu dàl yn y cadwynau y maeut yn eu gwneyd iddynt eu hunain.

Gellir dyweyd gyda golwg ar lawer svdd mewn gofidiau a gor-thrymderau yn y byd hwn, mai wedi eu dàl y maent gan eu pechoda'u eu hunain. Medi y maent ffrywth y pethau a hauwyd ganddynt hwy eu hunain. Nid ydym yn dyweyd nac yn barnu ychwaith fod Duw yn talu i ddiyon yn ol eu gweithredoedd yn y byd hwn. Amlwg ydyw an lawer o flinderau sydd yn cyfarfod plant dynion yn y bywyd hwn, nad ydynt yn canlyn yn naturiol.

[Awst, 1849.]

fel ffrwythau eu hymddygiadau, ac nad ydynt chwaith yn geryddon neu gosbedigaethau penodol am eu pechadau. "Niŵyr dynion gariad neu gas oddiwrth yr hyn oll sydd o'u blaen." Eto, y mae yn rhaid barnu am y gofidiau y mae llawer yn eu dyoddef, eu bod megys yn naturiol ganlyn eu hymddygiadau; ie, mor naturiol ag y mae yr hyn a fedir yn canlyn yr hyn a heuir. Nid oes ganddynt le i feio neb ond hwy eu hunain; bwyta y maent ffrwyth eu ffyrdd eu hunain. Gellir dywevd am lawer sydd yn cael eu blino gan loesion ac a'fiechyd corfforol, fod yr achos o hyny yn gorwedd wrth eu drws eu hunain; hwyrach mai ffrwyth eu haifywodraeth a'u rhyfyg hwy ar ryw adeg esgeulus a gwylt ydyw y cwbl. Mae ambell un yn teimlo yn fawr oblegid fod ei gymeriad mor isel yn y gymydogaeth lle y mae yn byw, heb ystyried mai efe ei hunan sydd wedi iselhau ei gymeriad. Mae yn cwyno oblegid fod cymaint o frychau ar ei wisg o gymeriad, ac yn digio wrth bawb am eu gweled, ond erbyn ystyried, efe ei hunan sydd wedi trybaeddu ei gymeriad mewn rhyw bydewau llygredig. Yr un modd y gellir dyweyd am lawer sydd mewn tlodi: medi y maent ffrwyth eu gweithredoedd eu hunain. Digon tebyg y gall y cyfryw gofio amser pan y buont yn esgeulus, yn afradlawn, ac efallai, yn anghymedrol. Ni ddymunem lai na medru o honom gydyndeimlo yn wirioneddol a phawb sydd mewn gwasgffeydd a thlodi, neu ryw helbulon eraill, ond dylia cofio fod y dyfroedd llwydion hyn y mae llawer yn orfod yfe'i, we'i eu difwyno ganddynt hwy eu hunain. Rhy faith fyddai i ni ddangos llawer o ddulliau eraill y mae dynion yn cael eu dàl mewn rhwydau a maglau a wēuir ganddynt hwy eu hunain, gyda golwg arnynt yn y fuchedd hon. Nid anfynych y gwellir rhai dan dairdyniadau chwythig: un gau ei falchder, un arall gan ei genfigen, a'r llall gan ei gybydd-diod; a mawr yw y drafferth sydd gan lawer un i geisio dattod y rhaffau o ofidiau amserol a reddasant am dant eu hunain.

Gellir dyweyd hefyd fod yr annuwiol weui ci dàl gan ei bechod ei hun pan y gwellir ef wedi ei ddarostwng mewn modd anghyfrelinol dan draed ei nwydau a'i dueddadau pechadurus ei hun. Mae llygredigaeth yn cryfnu wrth gael magwraeth a phorthiant. Amlwg yw fod y llygredigaethau sydd yn nghalon dyn wrth natur yn gryfion, ond y mae mor amlwg a hyny eù bod yn dyfod yn llawer cryfach, a mwy aniaawddi eu gorchfgyu trwy gael eu porthi. Mawr yw y gofid y mae aml un wedi ei gael oblegid rhoddi porthiant i'w nwydeu drwg. Mae rhairhieni yn y byd yma mor anhapus a magu plant i fynu, a'r plant hyny ar ol iddynt gael eu magu yn peri y gofid mwyaf iddynt o ddim ar y ddaear. Mae achos i ofni fod llawer yn magu plant, mewn ystyr ysbryaol, trwy borthi eu blysiau a'u chwântau pechadurus aq a fyddant yn achosi gofid iddynt trwy eu hoes, os nid eu hannedwyddwch am dragwyddoldeb. Gochelwn roddi porthiant a magwraeth i bethau a fyddant yn ein goficio eto ar ol hyn. Na fydded i nj fod mor ffol ag agor y drws a chroesawu at ein byrddau ryw ymwlwyr nas gall fod ganddynt yr un neges end i ddystrywio y tŷ. Wedi unwaith i ni roddi caniatâd i'r drygau sydd yn ymosod a'mom, y maent yn myned yn fwy hyien ac

anhawdd eu troi yn ol. Y mae goddef unrhyw beth i fyned yn hen arferiad yn rhoddi math o gyfreithlonddeb i'r peth. Pe byddai i un o honom oddef i ddynion wnevd llwybr trwy ganol ein gardd, wedi iddynt gael goddefiad am rywfaint dros ugain mlynedd, yna hwy a'u mynent heb ofyn ein cenad—ofer fyddai ceisio eu rhwystro. Yr un modd y mae pethau gwaharddedig, wrth gael caniatâd i ddyfed trwy ardd y meddwl am hir amser, yn myned yn ôl, ac yn mynu eu ffodd heb ofyn ein cenad. Llawer o erddi meddyliau dynion yr oes yma sydd yn fathrfa i bob teithiwr a ddel heibio, ac yn chwareufa i'r angelion syrthiedig. Annhraethol yw trueni y rhai sydd yn nghadwynau llygredigaeth yn soddi i fôr digofaint Duw: ond un peth sydd yn gwneyd eu trueni mor fawr ydyw eu bod hwy wedi bod mor llafurus yn plethu y cadwynau hyn, ac yn eu clymu am danynt eu hunain.

Y lle nesaf y cawn olwg ar yr annuviol wedi ei ddâl gan ei feiau ei hun, ydyw, pan y byddo euogrwydd ei bechoda'u wedi dyfod i wasgu ar ei feddwl, a phob gallu perthynol iddo wedi ei ddal a'i rwymo gan deimlad o'r euogrwydd hwnw. Y pryd hyn bydd yn rhaid iddo feddiannu ei bechoda'u; ei bechoda'u a orweddant wrth ei ddrws, ac ni bydd yn alluadwy iddo eu gyru oddiyno. Un ystyriaeth a fyn le yn ei feddwl, er ei ddirfawr ofid, fydd lliosogrwydd ei feiau. Pan ddaw Duw i wlawio ei bechoda'u ar yr annuviol yn faglau i'w ddal, nis gall beidio rhyfeddu a dychrynu wrth weled eu bod mor lliosog. Hawdd a fyddai iddo wneyd defnydd o eiriau Dafydd yn bresennol, "Drygau anifeiriol a'm cylchynasant o amgylch; fy mhechoda'u a'm daliasant, fel na allwn edrych i fynu; amlach ydynt na gwallt fy mhen, am hyny y pallodd fy nghalon genyf." Nid oes ganddo fias ar fodion bras, ac nid yw yn gallu troi at Dduw mewn gweddïau gyda dim hyder; a pha ryfedd, tra byddo euogrwydd cwmaint o feiau yn gorffwys arno.

Dyna ystyriaeth arall fydd yn ysu ysbryd yr annuviol, fydd ysgelerder ei bechoda'u. Daw i weled, nid yn unig fod ei feiau yn lliosog, ond hefyd fod pob un o honynyt yn rhyfygus iawn. Dyma yr amser y daw i weled mor ffiadd yw pechu yn erbyn goleuni, a phechu hefyd yn erbyn daioni. Pa fath deimladau fydd yn yr annuviol wrth weled ei fod wedi pechu mor rhyfygus yn erbyn Duw mor dda, a gwrthod Gwareddwr mor hawddgar? Gofidir ef yn ddirfawr hefyd wrth feddwl am effeithiau ei fywyd ar eraill. Bydd yn rhaid iddo gyfarfod â'i deulu, â'i gyfeillion, ac â'i berthynasau eto, ond y mae achos i ofni nad ydoedd ei ymddygiad tuag atynt wedi bod y fath ag y gall edrych yn eu gwyneb y tro nesaf heb deimladau arswyddus oblegid ei esgeulusdra anesgusodol.

Edrychwn eto unwaith, a gwelwn yr annuviol wedi ei ddâl & rhaffau ei bechod ei hun, pan yn cael ei gosbi yn uffern byth. Ni bydd eisieu dim mwy i beri iddi fod yn annhraethol ofidus arne nag iddo gael ei adael i'w dueddiadau ei hun yn gosbedigaeth arne am ei fai. Ei ffordd ei hun a fydd yn ofid arno am byth. Y Barnwr Mawr a eglura ac a gyhoedda yn amlwg i bawb nad oes dim perthynas rhyngddo ag ef, bydd raid iddo yntau gyfaddef na bydd hyny

ddim ond amlyg y peth fel y mae mewn gwirionedd. Digon gwir, a digon cyflawn, medd ei gydwyr yw y cwbl; nid oes un berthynas wirioneddol rhyngof a Christ a'i achos. Ni bum erioed yn ufudhau mewn gwirionedd i'r efengyl: ni bum erioed yn derbyn ei phethau yn sylweddol. Fy ffordd fy hun oeddwn yn ei fynu, a fy ffordd fy hun wyf yn ei gael. Nid oes genyf ddim i'w wneyd ond myned yn fud yn ngwyneb ded fryd y Barnwr, nis gallaf roi y bai ar neb ond arnaf fy hunan. Cyflawn yw y cwbl—nid yw hyn ond medi yr hyn a hauwyd. Dacw yr annuwiol yn cael y llaw hono o eiddo y Barnwr a ddevisodd iddo ei hun; wele ef yn myned gyda'i bobl ei hun; dacw ef yn cael ei waith ei hunan; wele ef yn ei le ei hunan am byth. Cafodd y pren syrthio i'r man yr oedd yn gogwyddo trwy ei oes.

Mae achos i ofni mai wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar y daw llawer o ieuencyd Cymru i weled eu camsyniad. Maent yn sicr o ddyfod i weled a theimlo, ond pa gysur fydd hyny wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar? Gweled a theimlo mewn pryd a allasai fod yn foddion gwareogaeth, ac yn ddefnydd cysur sylweddol, ond y mae hyny yn troi yn chwerw wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar. Mae llawer o honynt yn dyfod i deimlo cyn ymadael yn llwyr a'r byd hwn, hyd yn nod rhai o'r rhai hyny a g oedd ynt yn hêrio pob cynghorion a rhybuddion. Maent mewn gofid yn bresennol, ond y mae yna lawer o archollion wedi eu gwneyd nas gellir byth eu gwellâu. Erbyn hyn, dyna y tynnwr goreu wedi ei gamdde nyddio; pob yndrech am eu gwareogaeth wedi ei wohrwyd a g anufudd-dod ac anniolchgarwch; dagrau a gweddïau dynion duwiol wedi eu dibrisio. Dacw gyfansoddiad y dyn ei hunan wedi ei ddystrywio,—dacw galonau tad a mam wedi eu tori—argyhoediadau wedi eu diffodd—Ysbryd Duw wedi ei dristâu—Iesu Grist yr hwn a gafodd amneidiau mor eglur ac mor fynych i'w rhoddi i fynu, ar ddyweyd, "Yr wyf yn gadael eich ty i chwi yn anghyfannedd." Rhoddir amneidiau gan lawer yn Nghymru y dyddiau hyn mor eglur ac y gall ymddygiad lefaru, am i Iesu Grist ymadael a hwyt: y maent yn byw yn wrthodwyr penderfynol o'r hwn sydd yn haedcu pob derbyniad. Nid rhaid i neb ddyweyd wrth Iesu Grist mewn geiriau amlwg am fyned ymaith, y mae efe yn deall yr amnaid lleiaf. Efallai nad oes llawer i'w cael yn bresennol yr un fath a'r Gadarniaid gynt, yn deis yf a'u tafod-leferydd ar Iesu Grist ymadael a'u cyffiniau hwyt; ond os nad ydynt felly, hwyrach fod llawer yn rhoi amnaid i'r Iesu fyned ymaith, ac yn dangos yn amlwg nad ydynt yn dewis ei gyfeillach. Pe bydaai i'r w ddyfod i'r hoff o hono ddyfod i dŷ un o honoch, efallai na ddywedech wrtho mewn geiriau eglur am ymadael a myned allan, ond chwi a roddech ryw amnaid iddo nad ydych yn dewis ei gyfeillach. Yr ydym yn gweled yn amlwg nad oes neb llai na Mah Duw wedi dyfod i'n tai, a chynnyg ei fed y gini aeth a'i drysorau i ni; ond dacw rai mor brysuf gyda eu galwedigaethau fel nad ydynt yn sylwid dim arno, eraill wedi ymro: i foddloni en blysiau a'u chwantau llygredig, fel nad ydynt yn cymeryd arnynt ei weled na'i glywed.

Braidd na feddyliem ei weled yntau o'r diwedd yn nesu yn araf tua'r drws, ac yn dyweyd wrth fyned allan, "I lawer gwaith y daethum i'r ty hwn, ond yr wyf yn cael amnaid bob tro nad oes fy eisieu i yma, a bod well ganddynt gael llonydd. Daew ef wedi myned y tu allan i'r drws, ac ar fyned i ffordd, a oes neb a garai alw arno yn ol cyn iddo fyned ymhell. Yr ydym yn lled hyderus nad ydyw wedi myned ymhell iawn eto; agor y drws a gaffom, a deued yntau yn ei gyfoeth diderfyn i mewn atom, a gwnaed ei drigfan gyda ni.

Penllyn.

T. EDWARDS.

Dylanwad Addysg Ysgrythyrol.

Yn nghyfarfod y Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor a gynnalwyd yn ddiweddar yn Malton, swydd York, y Parch. P. Kent, ymwelydd dros y Gymdeithas, a adroddai yr hanesyn canlynol, gan sicrhau ei wirionedd :—

"Wedi bod yn absennol dros rai blyneddau, dychwelai gweinidog un Sabbath i fan yr arferai gynt bregethu efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Pan elai gwasanaeth y dydd drosodd, gweddwa gurai wrth ddrws ystafell y *vestry* gan ddymuno ychydig ymddyddan âg ef. "A ydych yn fy nghofio i, syr?" meddai y weddw. "Nid y fynyd hon," ydoedd yr ateb. "A ydych yn cofio John Reynolds?" "Nac ydwyf yn awr." "Pa fodd felly?" yr oedd yn eich Ysgol Sabbathol." "Dichon hyn y fod," meddai yntau, "eithr nis gallaf fi gofio pob bachgen a fu yn yr ysgol." "Eithr, syr," meddai y weddw yn dra difrifol, "fy John i oead y John goreu yn yr holl fyd." "Dichon hyn y fod hefyd," ebai yntau; "ond eto nis gallaf fi ddyweddyd fy mod i yn ei gofio ef." "Eithr yr wyf yn sicr mai fy John i yw y John goreu yn yr holl fyd, a chwithau a ddywedwch hyn y hefyd pan y clywoch yr hyn a ddygwyddodd er y pryd y'n gadawsoch ychydig flyneddau yn ol." Ac yna y weddw druan a roddai i'r gweinidog yr hanes canlynol am ei John :—"Wedi i chwi, syr, ein gadael, bu farw fy mabriod, a ni a aethom yn dlawd hynod; yn wir, bu agos i ni newynu. Ac un diwrnod, fy John a ddywedai wrthyf, 'Fy mam anwyl, nis gallwn ymollwng i farw o newyn, ac nid oes gwaith i'w gael; gadewch i mi fyned i'r môr, a mi a ymdrechaf ennill rhyw gymaint o arian i chwi.' Yr oedd yn dra anhawdd genyf ymadael âg ef, ond yr oedd yr amserau yn galed, ac fel yr ymddangosai yntau mor hyderus yn ei gylch, rhoi'dais iddo y gusan ymadawol, ac efe a aeth i'r porthladd agosaf, tua saith milltir o bellter, i geisio lle mewn llong mae siandwr. Ymhobodd John mewn amryw fanau, eithr yn aflu yddiannus dros rai dyddiau; ac yr oedd efe yn myned i roddi y gorchwyl i fynu mewn anobaith, pan welai feistr llong yn myned heibio. 'A oes arnoch eisieu bachgen, syr?' meddai John. 'Pa beth?' dyna yr unig beth yr wyf yn edrych am dano,' meddai y cadben. 'Cymerwch fi ynte, syr,' 'Wele, pa le y mae eich *character*?' 'Syr, nid eiwyn neb fi yn y

lle hwn, eithr yn fy mhlwyf fy hun byddai yn hawdd i mi gael *caracter*, ond yr wyf yn ddyeithr yn y dref hon.' 'Nis gallaf eich cymeryd heb gael eich *caracter*.' 'Eithr myfi a fyddaf yn dra uffud—mi a wnaif bob peth a baroch i mi.' 'Mae hyna yn siarad teg, fy machgen ; ond yr wyf yn dywedyd i chwi, rhaid i mi gael *caracter*, neu nis gallaf eich cymeryd gyda mi.' Edrychai John arno yn syn a phruddaidd dros fynyd, ac yna adgofiodd am ei Bibl llogell, yr hwn a roddwyd iddo fel gwobr yn yr Ysgol Sabbathol. A chan agoryd y Bibl o flaen y cadben, lle yr oedd arysgrifen wedi ei roddi, gofynai, 'A wnaiff hyn yna y tro yn lle *caracter*, syr ?' Y llonglywydd a ddarllenai yr ysgrifen ganlynol, 'Cyflwynedig i John Reynolds, am ei ymddygiad da yn ysgol —, dyddiad.' 'Ie, ie, fy machgen, myfi a'ch cymeraf ar y gamoliaeth hon. Deuwch ymlaen gyda mi.' John yn ganlynol a fordwyodd mewn llong marsiandwr tua St. Petersburgh. Yn mhen ychydig ddyddiau cyfododd tymhestl arnynt, y gwynt a chwythodd, y tōns a ddyrchafasant dros y llong, a'r perygl ddaeth yn aruthrol fawr. John a gymerai ei Bibl llogell, ac a ddarllenai y *Salm* li. mewn llais uchel a difrifol. Ac ar ei liniau plygedig, y bachgen ieuanc o forwr, a weddïai ar y Duw hwnnw, yr hwn yn unig a all dawelu yr ystorm aflowydd. A phob yn un ac un, y naill ar ol y llall, y morwyr, yr islywydd, a'r cadben, a ymgryment o flaen y morwr ieuanc, pryd y darllenai efe y *Salm* rag-grybwylledig & llais uchel. A rhungodd bodd i Dduw wrandaw eu herfyniadau unol. Yr ystorm a baidiodd, a'r lliong a aeth ymlaen i'w mordaith mewn diogelwch. Y llywydd a arferai ddyweyd wrth John yn y rhan ddilynol o'r fordaith, 'Diwrnod da i mi, fy machgen, oedd y dodd y derbynias chwi i'm llong : eich gweddïau a gadwasant fy llong. Pan gyrhaeddom i St. Petersburgh chwi a gewch ddydd gŵyl.' Pan diriasant yn St. Petersburgh fe gafodd John ddydd gŵyl. Yr oedd raid i fachgen fel efe gael myned i balas yr ymherawdwr i weled yr holl wyr mawrion yn myned i'r llŷs. Yno y safai gan ryfeddu at yr olygfa newydd ; ac fel yr oedd cerbyd ar ol cerbyd yn myned heibio, disgyno id rhwzbeth o un o honynt wrth ei draed, braichled ydoedd, yr hon a golloedd rhyw bendefiges o'i llaw. Cyfodai John hi i fynu a gwaeddai yn uchel ar y cerbydwr i sefyll, eithr yn gwbl ofer ; yr oedd yr olygfa a'r trwst yn rhwystro gwneuthur un sylwo John, ac efe a ddychwelai gyda y freichled at y cadben, yr hwn a'i llonyfarchai ef ar ei ffawd dda, gan ychwanegu, 'y rhai yna ydynt berlau.' 'Eithr nid ydynt eiddof fi,' ebe John, ac efe a eglurai i'r cadben y modd yr ymdrechasai i'w hadferu i'r perchenog. Si feistr a ymdrechmai ei ddenu i gredu eu bod yn eiddo ef, gan ddywud, y cyrhaeddai eu gwerth yn Llundain i lawero arian. 'Gall myny fod, cadben, eithr nid eiddof fi ydynt,' ebe John, 'a thybiwch wech pe caem ystorm wrth ddychwelyd yn ol, pa fodd fyddai arnom, cadben ?' 'Ie, ie, John, ni feddylais i ddim am hynny ; pa fodd bynag gadewch i ni chwilio am y perchenog.' Daeth y perchenog i'r amlwg yn fuan, a'r freichled a adferwyd iddi yn ddiogel. Y bendefiges a anrhegai John a'r swm o bymtheg punt a'r hugain, y

rhai trwy gynghor y cadben, a raddai efe allan mewn crwyn a lledr ; ac ar ddiwedd y fordaith yr oedd gan John yn ei logell yn ddiogel ddim llai na phedwar ugain punt. Fel hyn, wedi ymglyfoethogi, ac yn llawn o lawenydd, aeth ymaith ar frys tua'i bentref genedigol. Safai yn ebrwydd ger bron yr annedd a adwaenai yn dda. Eithr, ysywaeth, ymddangosai pob peth o amgylch yn anrheithiedig, a John Reynolds gyflawn a dybiai yn sicr fod ei fam wedi marw. Yn fuan gwaredwyd ef o lawer o bryder trwy i gymydog iddo ei hysbysu nad oedd ei fam wedi marw, eithr ei bod yn fyw, ac yn aros yn Nhlottŷ yr Undeb (*workhouse*). ‘Ai hyn yna yw y cwbl?’ ebe John, ac efe a sychai ymaith ei ddagraw, ac a’i galon yn dychlamu o’i fewn, aeth ymaith i chwilio am dŷ yr Undeb. Yno efe a gurai y ador mewn modd anrhyydeddus, a’r meistr a ddaeth i’r drws dan redeg, am y tybiai maa! llywydd y Bwrdd ydoedd, neu ynter ryw wr mawr ar ryw neges o bwys neillduol. ‘Pa beth sydd arnoch eisieu?’ ebe y meistr, gyda llais garw siomedig. ‘Y mae arnaf eisieu fy mam, Mary Reynolds,’ atebai y bachgen. ‘Pa beth sydd arnoch eisieu gyda’ch mam?’ ‘Y mae arnaf ei heisieu i’w chynnwl, meddai John, ‘yr wyf yn fasnachwr, y mae genyf swm o arian, ac y mae arnaf eisieu fy mam.’ ‘Y mae yn rhaid i chwi gael cauiatâd gan Heddynad yn gyntaf.’ ‘Caniatâd yn wir! na soniwl wrthyf fi am ganiatâd na gorchymyn ; rhaid i mi—myfi a fynaf gael fy mam.’ Ac yn hyn eto fe lwyddodd John. Dygodd ymaith ei fam yn fuddygol, gan lawerthau yn y rhagolwg o fod yn alluog i wasanaethu i’w chysur.” Mrs. Reynolds a derfynodd ei hanesyn tarawiadol trwy ddywedyd fel hyn, “Hyn oll syr, ydoedd trwy y Bibl—dylanwad addysg foreuol oedd y cwbl.”—*Christian Record*.

E. HUGHES.

Ysgriflen Chwareudy. (*Play Bill.*)

YR hyn a ganlyn sydd ailun (*copy*) o ysgriflen a ysgrifenwyd gan y diweddgar Barch. Rowland Hill, yr hon a osodwyd i fynu ar y mur yn Richmond, ar ddydd Sadwrn, Mehefin 4ydd, 1774, yn ymyl ysgriflen y chwareudŷ (*play bill*) am y diwrnod hwnnw. Amcan hon ydoedd tynu sylw y gwammal a’r anystyriol oddiar wag ddifyr-wch y chwareudŷ, a sefydlu eu hystyriaethau ar yr amgylchiadau pwysig a ddygant ymlaen ac a ddilyniant “Ddydd mawr ac ofnadwy yr Arglywydd.”

TRWY orchymyn Brenin y Brenin oedd,¹ ac ar ddymuniad pawb a garant ei ymddangosiad ef.² Yn Chwareudy'r Bydys-awd,³ ar ddiwedd amser⁴ y chwareuuir y frawdle fawr, neu ddydd y farn.⁵ Yr arcangosiad, yr hwn sydd yn awr yn cael ei barotoi, nid yn unig a ragora ar bob peth a welwyd eto, ond a ragora ymhell tuhwnt i holl eithafion dirnadaeth ddynol.⁶

¹ *Dat.* xix. 16; 1 *Tim.* vi. 15.

² 2 *Tim.* iv. 8; *Titus* ii. 13.

³ *Dat.* xx. 11.

⁴ *Dat.* x. 6. 7.

⁵ *Heb.* ix. 27.

⁶ 1 *Cor.* ii. 9.

Bydd yno arddangosiad cywir o holl drigolion y byd, yn eu gwa hanol a'u priodol liwiau; a'u defodau a'u harferion a ditarlunir mor gywir ac mor fanwl, fel y bydd y meddwl mwyaf dirgel i'w ganfod yn amlwg.¹ "Canys Duw a ddwg pob gweithred i farn, a phob poth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg." *Preg.* xii. 14.

Bydd i'r chwareudŷ hwn gael ei drefnu yn ol *cynllun newydd!* a bydd yn gynnwysedig yn unig o lawr ac oriel (*pit and gallery*); ac yn wahanol i bob un arall, yr oriel a fwriedir i dderbyn personau o fri neu urddas nefol;² a'r llawr, i rai o radd isel neu ddaearol;³ D.S.... Y mae yr oriel yn helaeth iawn,⁴ a'r llawr heb un gwaelod iddo.⁵ Er mwyn attal anghyfleusderau, y mae drysau gwahanol i ollwng y cwmni i mewn; ac y maent mor annhebyg fel nas gall neb gamgymeryd, os na fynant fod yn ddeillion. Y drws ag sydd yn agor i'r oriel sydd yn un cul iawn, a'r grisiau i fynu ato braidd yn ddyrus; ac o herwydd hyny nid mynuch y gwelir llawer o bobl o'i amgylch,⁶ ond y drws a rydd olyngdod i'r llawr sydd yn llydan ac yn gyfleus iawn, yr hyn sydd yn achosi fod lliaws mawr yn pentyru ato, fel ag y mae yn fynych yn orlawn.⁷ D.S.—Y drws cul a arweinia i'r llaw ddeheu, a'r llydan i'r aswy.⁸ Ofer fydd i neb mewn gwiag oreurol a iaith fenthyciol bersonoli un o *fri nefol*, er mwyn cael myned i mewn i'r goruwchleoedd;⁹ canys y mae yno Un o graffder rhyfeddol, yr hwn a edrych ac a brawf pob dyn,¹⁰ a phawb nad allant acenu Shiboileth¹¹ yn iaith Canaan,¹² neu na dderbyn:asant gareg wen ac enw newydd,¹³ neu nad allant brofi hawl clir i gyfran e wlad yr addewid,¹⁴ rhaid iddynt gael eu troi i'r drws ar y llaw aswy.¹⁵

Y PRIF CHWAREUWYR

a ddesgrifir yn 1 *Thes.* iv. 16; 2 *Thes.* i. 7—9; *Mat.* xxiv. 30, 31, & xxv. 31, 32; *Dan.* vii. 9, 10; *Judas* 14—19; *Dat.* xx. 12—15, &c. Ond gan fod rhai dynion yn llawer mwy cyfarwydd & chynnwysiad ysgrifien y Chwareudŷ nag a gair Duw, dichon nad anmhriodol fyddai dyfynu adnod neu ddwy er mwyn y cyfryw:—"Ymddangosiad yr Arglwydd o'r nef fydd gyda'r angelion nerthol, a thân ffamllyd, gan roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglywydd Iesu Grist:" ond "i'w ogoneddu yn ei saint."¹⁶ "Afon danllŷd oedd yn rhedeg ac yn dyfod allan oddi ger ei fron ef; mil o filoedd a'i gwasanaethent, a iwydd myrddiwn a safent ger ei fron: y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau."¹⁷ "A phwy bynag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yu llyfr y bywyd, bwriwyd ef i'r llyn o lân."¹⁸

¹ *Mat.* xii. 36.² *Ioan* iii. 3, 5.³ *Iago* iii. 14, 15.⁴ *Luc* xiv. 22.⁵ *Dat.* ix. 1. 2.⁶ *Mat.* vii. 11.⁷ *Mat.* vii. 15.⁸ *Mat.* xxv. 31.⁹ *Mat.* vii. 21—23.¹⁰ *Salm* liv. 20. 21.¹¹ *Barn.* xii. 6.¹² *Essay* xix. 18.¹³ *Dat.* ii. 17.¹⁴ *2 Cor.* xii. 5.¹⁵ *Heb.* ii. 17.¹⁶ 2 *Thes.* i. 7, 10.¹⁷ *Dan.* vii. 10.¹⁸ *Dat.* xx. 13, 15.

Y WEITHBED GYNTAF

o'r oruchwyliaeth fawreddig a difrifol hon, a agorir gan archangel gydag udgorn Duw. "Canys yr udgorn a gân a'r meirw a gyfodir." 1 Cor. xv. 52.

YR AIL WEITHRED.

Gosgorddiad y saint mewn gwisgoedd gwynion, a thelynau aur, gyda banllefau o lawenydd, a chaniadau o fawl.¹

Y DRYDEDD WEITHRED

Fydd cydgrynnöad yr holl rai diailanedig.² Y gerddoriaeth gan mwyaf fydd yn gymysgedig o lefau,³ wylofain, gruddfanau, galarnadau, a gwae.⁴ I ddiweddu gydag arae gan Fab Duw. Y mae yn ysgrifenedig yn Math. xxv. 31 hyd ddiwedd y bennod :—'Mab y dyn pan ddel yn ei ogoniant, a'r holl angelion sanctaidd gydag ef, yna yr eistedd ar orsedd ei ogoniant.' &c. &c.

WEDI HYN Y LLEN A SYRTHIA.

— 'Nol hyn, pa fodd i ddyweyd !
Ioan v. 28, 29. Rhai godir fry, ac eraill defir i lawr !
Dat. v. 9, a *xiv.* 3, 4. Rhai hyn glodforant Dduw am gariad rhad,
Luc xvi. 22, 23. Gan orphwys yn ei gôl, mwynhant ei wedd ;
Luc xix. 14, 27. Tra rhai fathrasant tan eu traed ei ras :
Mat. xxv. 30. 2 *Thes.* i. 9. Erylidir byth oddiwrth ei wyddfod ef.
Luc xvi. 26. Gagendor mawr wahana'r ddwyblaid byth,
Math. xxv. 46. A thrwgwyddoldeb guddia yr olwg mwy !

"O herwydd hynny yn y modd yma y gwnaf i ti Israel : ac o herwydd niai hyn a wnaf it", bydd barod Israel i gyfarfod â th Dduw." *Amos* iv. 12.

Trwyddedau (*tickets*) i'r llawr, ar yr ammod esmwyth o ddilyn gorwagedd ac oferedd y byd presennol, a dymuniad am ddifyrwch cnawdol,⁵ i'w cael yn mhob cynnulleidfa sy'n caru melyschwant. "Os byw ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch." *Rhiw.* viii. 13. Trwyddedau i'r oriel am ddim llai pris na gwir ddychweliad,⁶ ym-wrthod â chymaint ag a feddo,⁷ hunan-ymwadu, cymeryd i fynu y groes,⁸ a chanlyn Crist yn yr adeniedigaeth.⁹ Heb fod i'w cael yn un man ond yn ngair Duw, a'r lle y mae y gair hwn yn cyfeirio. "Y neb sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed." "Na thwyller chwi, ni watwarir Duw : canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe." *Math.* xi. 16; *Gal.* vi. 7.

D. S.—Ni dderbynir dim srian wrth y drws,¹⁰ ac ni rydd unrhyw drwyddedau ganiatâd i'r oriel, ond y cyfryw a seliwyd gan yr Oen. "Am hyny byddwch chwithau barod : canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y dyn." *Mat.* xxiv. 44.—*Yr Eurgrawn.*

¹ *Dat.* xiv. 2, 3.

² *Mat.* xxiii. 50.

³ *Luc* xxiii. 30.

⁴ *Luc* xiii. 28.

⁵ *Iago* iv. 4.

⁶ *Mat.* xviii. 3.

⁷ *Luc* xiv. 33.

⁸ *Luc* ix. 23—26.

⁹ *Mat.* xix. 28, 29; *Act.* viii. 18—24. ¹⁰ 2 *Cor.* i. 22; *Dat.* vii. 3.

*Arwyddion ymgaledu dan weinidogaeth y Gair gan y Parch.
John Elias.*

PA le y bu, neu pa le y mae, pobl mwy eu breintiau na phobl yr ees hon yn Nghymru? Gall Duw, yn briodol, ofyn am ein gwlad ni, fel am dir Israel gynt, "Beth oedd i'w wneuthur ychwaneg i'm gwinllan nag a wnaethum ynddi? paham, a mi yn dysgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dug hi rawn gwyltton?" *Esay* v. 4. Beth oedd ychwaneg i'w wneuthur nag a wnaed i bobl y wlad hon, yn yr oes hon? Mae ein gwlad yn heddychol, ein rhyddid gwladol a chrefyddol yn fawr iawn, ein breintiau crefyddol yn gyflawn; y mae amledd o Fiblau gan bob gradd yn y wlad; holl feddwl Duw, sef yr hyd o'i feddwl a welodd ef yn dda ei ddadguddio i ddynion, genym ni yn ein hiaith ein hunain. Ysgolion Sabbothol yn mhob cymydogaeth, lle y mae y tlodion yn cael eu dysgu yn rhad i ddarllen gair Duw, eu cyfarwyddo yn egwyddorion y grefydd Gristionogol, a'u magu yn ngeiriau y ffydd; bechgyn a genethod tlodion yn cael eu dysgu i wybod yr ysgrifysyr lân, yr hon sydd abl i'w gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu: *2 Tim.* iii. 15. Y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt: *Mat.* xi. 5. Y mae y tlodion yn Nghymru yn cael pregethu yr efengyl iddynt nid yn unig yn eu hiaith, ond hefyd mewn dull eglur, agos at eu dull hwy yn meddwl am bethau: Ie, yn cael ei phregethu gan rai nad ydynt yn eu pregethu eu hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd: ac nad ydynt yn ceisio yr eiddo y bobl, ond hwy; eu ceisio hwy nid iddynt eu hunain, ond i Grist—rhai sydd foddlawn i vmdreulio dros eneidiau eu gwrandawyr, i edrych a gaent fod yn offerynau yn llaw Duw i achub rhai o honyn: *Rhuf.* xi. 14. Ie, y mae gan Dduw weinidogion yn Nghymru sydd yn mynegu i'r bobl holl gynghor Duw, ac y maent yn lân oddiwrth waed pawb oll: *Act.* xx. 26, 27. Y maent yn dangos eu perygl i'r annuwiol, anedifeiriol; ac nid oes peched nad ydynt yn dywedyd yn uchel yn ei erbyn; ond eto yn gosod Crist allan yn waredwr parod i bawb a ddel ato.

Ond er y breintiau mawrion oll, er tiriondeb Duw a llafur ac ymderch ei weision; y mae arwyddion amlwg fod miloedd yn ymgaledu yn ddirfawr yn ein gwlad. Enwaf rai o'r arwyddion sydd, fed y bobl yn ymgaledu dan y moddion y maent yn eu mwynhau.

Yn gyntaf, Ymddygiadau ysgafn, gwammal, ac anmharchus llawer o bobl ieuanc wrth fyned i foddion gras, o amgylch lleoedd addoliad, wrth ymadael, ac ar y ffordd wrth fyned i'w preswylfeydd. Y mae y lle yr addolir Duw yn lle ofnadwy. Pe deffroai dynion o'u cwsg pechadurus, a'u hanystyriath, hwy a waeddent allan fel Jacob gynt, "Mor ofnadwy yw y lle hwn! nid oes vma onid tŷ i Dduw: *Gen.* xxviii. 17. Duw sydd ofnadwy iawn yn nghynnnull-eidfa y saint, ac i'w arswydo yn ei holl amgylchoedd: *Sal.* lxxxix. 7. Dylem wylio ar ein traed wrth fyned i dŷ Dduw: *Preg.* v. 1. Ond gwahanol iawn i hynny ydyw agweddau llawer wrth fyned i leoedd addoliad yn ein dyddiau ni. Gellir meddwl, wrth

weled agwedd llawer yn myned tua'r lle addoliad, mai myned at ryw wng ddigrifwch y maent; ac wedi myned at y lle, ychydig o'r difrifwch, y gwylder, a'r sobrwydd a welir ag sydd yn gwedd i fod mewn cynnulleidfa a fyddai yn dysgwyl cyfarfod â Duw. Wrth fyned adref, y mae llawer, yn enwedig pobl ieuanc, yn wammal a chellwerus iawn; fel pe byddent mewn cynghrair a satan, yr hwn sydd yn dwyn ymaith y gair o'u calon hwynt, rhag iddynt greda a bod yn gadwedig: *Luc.* viii. 12. Onid yw yr ymddygiadau hvn yn profi bod y rhai sydd yn euog o honyn, wedi ymgaledu yn fawr; yn eithaf dibarch i Duw, a dibris o foddion gras?

Yn ail, Ymddygiadau dynion mewn cyfarfodydd eraill, ffeiriau a marchnadoedd, &c. Gellid meddwl, wrth weled agweddau llawer yn y cyfryw gyfarfodydd, nad oes Bibl yn y wlad, neu na fedr nemawr o'r dorf ei ddarllen, ac na chlywsant erioed bregethu yr efengyl; nad ydynt yn credu eu bod i feirw, na bod barn a byd arall yn bod. Rhai megys wedi eu llyncu i fynu yn holol gan drafferthion y byd, ac eraill gan goeg ddigrifwch, a gwag ddifyrwyd cig a gwaed; fel y gellir gofyn, gan ddwys ocheneidio, pa le mae ol darllen y Bibl? Pa le y mae effeithiau yr Ysgolion Sabbathol? Pale y mae ffrwyth y pregethau a wrandawyd? Caledrwydd mawr y bobl a barodd na buasai argraff y moddion hyn arnynt.

Yn drydydd, Y mae llawer yn ein gwlad, ie, o'r rhai a ddygywyd i fynu yn yr Ysgolion Sabbathol, sydd yndarllen y Bibl, ac yn gwrandaw pregethau, &c., eto yn byw yn y pechodau ffieiddiaf; megys cyfeddach a meddwod, cyderwedd ac anlladrwydd: *Ruf.* xiii. 13. Am y rhai y gellir dywedyd dan wylo, "Mai gelynion croes Crist ydynt?" *Phil.* iii. 18, 19. Y mae yn warth i'n cenedl, ac yn ofid calon i bob gwir Gristion, fod cymaint o'r fath bechaduriaid aflan a digywilydd yn ein gwlad, er lliosoced eu breintiau. Onid oes achos gruddfan a galar chwerw, wrth feddwl gymaint o ieuencyd ein gwlad sydd yn colli ei diweirdeb, cyn myned i sefyllfa anrhyydeddus priodas; ac nid oes ond ychydig o arwyddion edifeirwch am y pechod gwaeddfawr hwn ar lawer o honyn. Un arwydd neillduol na edifarhasant am eu hanniweirdeb eu hunain ydyw, eu bod mor ddiymdrech o blaid diweirdeb yn eu teuluoedd, ac i gadw eu teuluoedd rhag yr achlysuron y collasant hwy eu diweirdeb ynddynt. Y mae yn rhaid i'r fath bechaduriaid fod yn galed, o'r fath galetaf; eu calonau fel yr adamant, a'u talcenau fel y pres, i allu byw yn y fath bechodau, yn nghanol breintiau mor fawr, ac yn wyneb pob math o rybuddion penodol, caredig, a difrifol iawn yn erbyn y pechodau hyn.

Yn bedwerydd, Y mae agwedd farwaidd, gysglyd a chlaiar, llawer wrth wrandaw y gair, yn brawf o galedwch mawr. Nid ydyw y weinidogaeth yn gadael unrhyw argraff arnynt: er canu galarnad iddynt, nid ydynt yn cwynfan, ac er canu pibell nid ydynt yn llawenhau: *Mat.* xi. 17. Nid yw y weinidogaeth fwyaf daranlyd yn eu dychnu na'r athrawiaeth fwyaf efengylaidd yn peri iddynt lawenhau. Nid yw yr athrawiaeth fwyaf manwl, sydd yn chwilio dynion i'r gwaedol, ac yn dangos twyll a rhagrith, yn y modd mwyaf eglur a

goleu, yn peri iddynt hwy ofni, na 'r holl addewidion a bregethir i gynnal Cristionogion gweiniaid yn rhoddi un cysur iddynt. Nid ydyw desgrifio eu cluarineb, eu marweidd-dra, a'u caledwch, yn cael un effaith arnynt ychwaith. Y maent fel yr adamant; nid oes na than na gordd yn effeithio arnynt. Onid oes llawer fel hyn yn ein cynmulleidfaedd? Y mae eu cyflwr yn wir resynol, eu calonau yn brasâu, a'u clustiau yn trymhau dan weinidogaeth yr efengyl; ac felly yn aros heb eu dychwelyd a'u meddyginaethu: *Essay vi. 10.*

Y mae Bernard yn desgrifio dyn yn ymgaledu yn raddol dan bechod, fel y canlyn:—1. Fod peched ar y cyntaf yn annoddefadwy iddo. 2. Ymhen ychydig, yn drwm, ond nid yn annoddefadwy. 3. Ei deimlo yn ysgafn, er nad yn hyfryd. 4. Weithiau yn hyfryd. 5. Yn hyfryd beunydd. 6. Methu byw hebddo, ei arfer wedi myned fel ail natur.

“Ffrwyth yr Ysbryd yw dirwest.”

WRTH ddirwest y mae deall, yn ol fy meddwl i, ymarferiad cynedrol a'r pethau y mae yn gyfreithlawn eu harfer, ynghydag ymwrthodiad holol a'r pethau sydd yn anghyfreithlawn. Fe fu Paul, yn mysg pethau eraill, yn ymresymu am ddirwest, ger bron Ffelix, a'r ddirwest a ddylasai efe gymeryd ati ydoedd llwyrymwrthodiad, oblegid yr oedd yn byw mewn peth anghyfreithlawn iddo fyw ynddo. Mae llawer eto yn byw mewn pethau y dylent eu gadael yn holol, ond pobl annuwiol ydyw y cyfryw, nid yw yr Ysbryd yn preswylio ynddynt, ac oddieithr iddynt gael tro ar eu cyflwr, a'u gwaredu oddiwrth y pethau y maent yn eu gafael, fe'u demnir yn ddiau o'u herwydd. Ac ymhilheth pethau eraill, y mae llawer yn byw yn y peched o feddwdod ar hyd y blyneddau, ac os parhau a wnant yn eu harferiad, hwy gant wybod yn fuan beth fydd fod y nefoedd yn cael ei chau arnynt, uffern yn ymagor o'u blaen, a thragywyddoldeb i ddyoddef o dan lid Duw o'i herwydd.

A ydyw yn anghyfreithlawn ymarfer yn y gradd lleiaf a diodydd meddwl, sydd wedi bod yn bwnc mewn dadl gan lawer: mae rhai yn haeru ei fod, ac eraill yn haeru nad yw. Fe addefir gan bawb, gan boo dyn rhesymol, beth bynag, fod yfed i feddwdod yn beth svdd yn anghyfreithlawn. Ond yn awr, yn mha le y mae y terfyn? Neu pa bryd y mae yr yfed yr haerir ei fod yn gyfreithlawn yn myned yn anghyfreithlawn. Efallai y dywed rhywun mai pan fyddo y dyn yn dechreu meddwi y mae yn myned felly, ond pa bryd y mae hynny svdd eto yn ddyryswn. Y tir diogelaf ydyw peidio ag fed diodydd meddwl; a bod ar y tir hwnw ydyw bod yn ddigon pell oddiwrth derfynau meddwdod. Pawb y mae yn gasganddynt feddwdod, dangosant hynny trwy ymgadw ymhell oddiwrth derfynau meddwdod. Ond cofied pawb nad yw diota, a myned o'r naill dafarn i'r llall, i alw am yr hanner *pint*, ddim ymhell, beth bynag, oddi wrth derfynau meddwdod.

Yn gymaint a bod diodydd meddwol yn arwain i'r fath liaws o ddrygau, mae y dynion goreu, a fedd Cymru o leiaf, yn barnu yn gydwytod y dylid eu gwrthod yn holol, a bod eu harfer yn anghyfreithlawn. A phwy a all eu beio am eu hymddygiad. Fe ddywedir, gyda golwg ar ffrwyth yr Ysbryd "Yn erbyn y cyfryw nid oes deddf." Ac yn awr, a oes rhyw ddeddf yn erbyn ymwrthod a'r diodydd sydd yn gwneyd y fath ddinestr o ddynion! Nid yw deddf Duw yn ei erbyn, nid yw deddf natur yn ei erbyn. Mewn gair, mae yn anmhosibl cael gwell dirwest yn y gangen yma o honi na llwyrymwrthodiad.

Mae y ddirwest o lwyrymwrthodiad yn codi dyn uwchlaw ammheuaeth iddo ei hunan, ac hefyd uwchlaw ammheuaeth ei gymydigion am dano. Nis gall y dyn sydd yn glynus gyda yr arferiad o ddiota ddim bod uwchlaw ammheuaeth iddo ei hunan, os nad yw eiydwybod wedi ei serio yn yr arferiad. Onid yn debyg i hyn y gall ymresymu; mae hwn a hwn yn ddirwestwr, ac un amlwg mewn duwioldeb ydyw; mae hwn a hwn yn ddirwestwr, ac un duwiol iawn ydyw yntau. Ond myned i'r dafarn, gan lynu wrth fy haner *peint* yr ydwyf fi; a all fy mod i yn dduwiol? A ydyw peth fel hyn yn ateb i ddirwest y Bibl? A ydwyf wedi fy ngeni o'r Ysbryd? A ydwyf yn gwasanaethu fy nghenedl? A ydyw gegon-eddu yr Arglwydd ar fy meddwl? Ond paham y mae yn rhaid i'r dyn fod yn y fath betrusder?—gadawed ei arferiad. Os ydyw cael crefydd amlwg ar ei feddwl, y mae yn ddiammheul y gwna efe hyny.

Mae y ddirwest o lwyrymwrthodiad yn rhy debyg i ffrwyth tywalltiad yr Ysbryd ar ein gwlad i'w gwadu. Mae hi wedi bod yn ymgeledd i foesoldeb, adferu tangnafedd mewn llawer cymydog-aeth; mae hi wedi cyfodi llawer o byllau aflan meddwdod y medd-yliwyd mai ynddynt y buasent yn marw; mae wedi bod fel dwfr glân i olchi Sion mewn llawer man. A chan fod ei ffrwythau mor dda, onid yw yn amlwg mai o'r Duw da y mae hi wedi deilliaw. Efe ydyw ffynnon pob daioni. O hono Ef y mae pob daioni yn wastad yn tarddu.

Mi ddarllenais mewn hen hanes, atebiad un o'r merthyrion pan y gwnnygiwyd iddo ei ryddid ar yr ammod o wadu Crist. Yr atebiad oedd yn debyg i hyn:—"Pedwar ugain mlynedd a chwech yr ydwyf wedi ei wasanaethu, ac yn y blyneddau hyny wnaeth ef i'ldim yn fach a myfi, a pha fodd y gallaf gablu fy Mrenin yr hwn a'm gwar-edodd." Felly y mae rhai gyda dirwest er's yngylch pymtheg mlynedd, ac am yr amser y buont yn ei gwasanaethu wnaeth hi ddim yn fach a neb o honyn. Thafiodd hi neb i'r pyllau na'r cloddiau, ddatostyngodd hi ddim ar enw neb, thynodd hi ddim euogrwydd ar gydwytod neb, na chymylau rhwng neb âg wyneb ei Dad nefol. Y pethau y mae yr arferiad oddiota yn ei wneyd ydyw y pethau yna.

Ac am y plant sydd gyda dirwest, efallai y caiff rhai o honyn fyw i fyned yn ddeng mlwydd a thriugain neu bedwar ugain mlynedd, a phe byddai iddynt adolygu eu taith trwy anialwch y

byd yma wedi cyrhaedd yr oedran hwnw, nis gallent gofio am ddim yn wael wedi i ddirwest wneyd iddynt. Mae yn debyg y gallent gofio am lawer o brofedigaethau wedi eu cyfarfod o lawer o fanau: ond daioni fyddai y cwbl yn goffa am ddirwest. Nid rhaid ofni dirwest y gwna hi yn fach o neb o'i deiliaid byth. Gaa hyny, y mae yn briodol adnewyddu y penderfyniad i lynu gyda hi hyd y bedd, dywedyd yn mhob cyfie am ei daioni, ac ymdrechu o'i phlaid yn mhob modd nes ynlid meddwdod o'r byd.

Efallai y dywed rhywrai fod llawer o'r dirwestwyr yn annuwiol. Mae hyna yn beth y mae yn rhaid cyttuno âg ef, ond nid ydynt i gyd yn annuwiol; a chofier nad oes ddim cymaint ag un o'r meddwon yn dduwiol. Wel, ie, wnaeth dirwest neb yn dduwiol; mae yn rhaid cyttuno â hyna eto: ond wnaeth hi neb yn annuwiol. Peth arall sydd yn gwneyd dynion yn dduwiol. Ac os caiff y gwrth-ddadleuwyr y peth gwerthfawr hwnw a'u gwna hwynt yn dduwiol, peidiant a rhyfeddu os byddant hwythau yn ddirwestwyr, eblegied "Ffrwyth yr Ysbryd yw dirwest."

Meifod.

G. JONES.

X. *Llythyr Hen Wr Mynyddig.*

ANWYL GYMRY,

Mae delw dyn ar ei waith yn y cyffredin. Os yslaban didrefn ac afian fydd y dyn; felly i fesur fydd pob peth a ddaw odditan ei law. Ond os bydd y dyn yn un taclus a glanwaith; bydd yr hyn a wneir ganddo hefyd, yn daclus a glanwaith. Yr un modd mae delw y Duw mawr ar weithredoedd ei ddwylaw yntau. Mae argraff daioni ei natur, yn enwedig, ar ei holl waith. "Daionus yw yr Arglwydd i bawb; a'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd." Dyma yr argraffnod, yr enw awdur, a'r bais arfau, sydd i'w darllen ar holl weithredoedd y Brenin mawr; sef ei drugaredd a daioni ei natur. Mae hyn i'w weled yn amlwg iawn yn nghyfansoddiad y natur ddynol y fath ag ydyw. Mae dynolryw wedi eu gwneuthur i'r dim, i fod yn gyfleus a chysurus iddynt eu hunain a'u gilydd. Nid oes dim yn nghyfansoddiad y corff na'r meddwl ag y mae'n ddichonadwy ei wellâu. Ond yn enwedigol, mae y ddeddf hono a osodwyd yn ein natur, yn arddangos daioni; sef, ei bod yn ymlynu dynach, dynach, wrth wrthddrych ei serch, po fwyaf o helbul a thrafferth a gaffo gyda'r gwrthddrych hwnw. Mae gafaef ei serch yn ei wrthddrych, fel gafaef bachau; po fwyaf a dynir arni oddiwitho, neu arno ef oddiwrthi hi, mae'r afael gymaint a hyny yn dynach. Ac os trallog neu gystudd ar y gwrthddrych fydd fel yn hwgwth ei ddwyn y:naith; mae hithau gan hyny yn gafaef ynddo yn fwy penderfynol a di-ildio nag erioed.

Gellir gwelet y ddeidr hon ar waith mewn amrywiol amgylchiadau. Gwelir yn awr ac yn y man, wraig afaich a gwanlliyd iawn. Llawer o anhunedd a phryder a chostau a gafodd y gŵr gyda hi. Ond os bydd ef yn ddyn heb yr un cymal o'i le ynddo, yn gymaintai

fod wedi ei chael felly, mae'n siwr o fod yn ei charu gymaint a hyny yn fwy. Hynod mor serchog a thyner ydyw tuag ati ; a rhyfedd mor ofalus a phryderus ydyw yn ei chylych. Mae'n barod i aberthu pob peth er ei chysur ; ac nis mynai am ddim ar wyneb y ddacar, ei gweled yn huno yn yr angeu.

Yn gyffelyb, ie, yn fwy serchiadol a thyner y gwelir llawer gwraig tuag at ei gŵr afiachus a gwanaidd. Ond hwyrach, pe buaswn yn y fan yma yn peidio enwi y wraig, dim ond rhoddi i lawr y ddau air Lladin hyny, *vice versa*, y buaswn drwy hyny, er mor henaidd a mynyddig ydwyf, yn peri i ambell un feddwl fy mod yn ysgolai grawr. A pha niwed fuasai gwneuthur felly ? Ni fuasai ond gwneuthur yr hyn a wneir beunydd yn myd y llyfrau ; yr un fath a byd y dillad a'r dull o fyw. Ni fuasai ddim ond rhoddi y troed goreu ymlaen. Neu ynte ddangos, "pen punt a chynffon ddimau." Mewn geiriau eraill, ni buasai yn ddim ond ychydig o ragrith, a thwyl, a ffug-ymddangosiad. Ond at fy mater.

Gellir gweled y ddeddf am yr hon yr ydym yn son, ar waith rhwng rhieni a phlant yn fynych. Beunydd y gwelir gŵr a gwraig a thŵr o plant, efallai ddeg neu ddeuddeg. Ond yn eu plith bydd hwyrach, un gŵr bach pur afiach, a llawer o helbul a gafodd ei dad a'i fam gydag ef ; llawer noswaith o gelli cysgu, a llawer o gostau hefyd ; a mwy na'r cwbl oedd y pryer rhag iddo farw, a ddyoddefwyd am ddyddiau, lawer tre. Ond fel y gwyddys yn dda, bydd y gŵr bach sal yn anwyl a gwerthfawr hynod gan y tad a'r fam. Bydd yn hyfryd iawn ganddynt son am dano, ac adrodd rhyw droion doeth, neu ddywediadau call y bydd wedi eu gwneuthur, neu eu dywedyd wrthynt. Ac yn ol eu barn hwy, bydd yn un call iawn, callach ond odid na'r un o'r plant eraill ; ac ond odid fawr na bydd yn dduwiol hynod hefyd. Mewn gair, bron na byddai yn werth yr holl blant eraill yn eu golwg. Beth yw hyn, ond y ddeddf yn gweithio yn brydferth.

Hefyd, mae'n eglur ddigon fod y Cyfriengwr mawr o dan y ddeddf hon. Yr oedd efe yn ddyn gwirioneddol a pherffaith, ac yn carn ei ddysgyblion yn fawr bob amser. Ond fel yr ychwanegodd ei ddyoddefiadau yn eu hachos hwy a'u cyd-ddynion, mae'n dra amlwg hefyd i'w gariad tuag atynt gynnyddu. Yn y rhagolygiad ar ei ddyoddefiadau, ac fel yr oedd y tywydd mawr yn nesau, gwelir yntau yn nesu yn nes at y dysgyblion, ac yn dangos mwy o dynerwch a gofal am danynt nag o'r blaen. Hynod mor serchog yr oedd yn eu dyddanu yn wyneb ei ymadaawiad ef oddiwrthynt. Ni bu erioed arddangosiad dysgleirach o gariad, ac ni welwyd dan haul olygfa mwy toddedig ac effeithiol, na chyffelyb ychwaith, ag oedd ei weled ef yn eu dyddanu hwy y pryd hwnnw. Mae'n llefaru mor fedrus, ac yn gystal i'r amcan, a phe buasai heb ddim arall i feddwl am dano ; mae'n hawdd gweled ei fod o galon gyda'r gwaith. Dywedai, "Buddiol i chwi fy myned i ymaith—Mi a anfonaf i chwi Ddyddanwyd arall—Yr wyf yn myned i barotoi lle i chwi—~~Ro~~ bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi—Mi a ddeuaef drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun," a'r

cyffelyb. Nid oedd ddichonadwy llefaru yn fwy i'r perwyl. Ac efe, dylid cofio, nid hwy, oedd yn myned i arwain y goron drain, a than hoelion, i ddyoddef a marw; a hyny hefyd yn eu lle hwynt.

Cawn ef hefyd yn hynod yn ei serchogrwydd tuag atynt wedi ei adgyfodiad. Nid yn unig nis gallodd dyfroedd dyoddefiadau ac afon angeu ddiffodd mo'i gariad; end cryfhodd, ennynodd ei gariad, fwy-fwy, trwy yr holl rytherwy. Ebe efe wrth Mair, "Eithr dos at fy mrodyr a dywed wrthynt, yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i, a'ch Tad chwithau, a'm Duw i, a'ch Duw chwithau." Fel pe dywedasai, gwn fod fy mrodyr yn dra isel eu meddyliau a thrist eu calonau, yn herwydd fy mod wedi marw; gan hyny Mair, paid a cholli amser i addoli na ddim, canys gwell genyf o flaen pobpeth gael eu dyddanu hwy; gan hyny dos heb oedi, a dywed wrthynt, fy mod i ar ddyrchafu i'r nef. Deallant hwy wrth hyny fy mod yn fyw drachefn; a gwnant ryw gasgliadau o barth parhad fy achos ar y ddaear ag a fydd o gysur mawr iddynt hwy o'r hyn lleiaf. Dos gan hyny Mair ar frys a'r newydd hwn iddynt. A dyma y waith gyntaf erioed iddo eu galw yn benodol yn frodwr. Ac enw yw hwn nad oes fodd i'w ddywedyd heb feddwl am berthynas a chariad. Dysgyblion oedd yr enw cyffredin ganddo arnynt yn ei fywyd. Ond wedi bod yn y tywydd mawr yn eu hachos yn Gethsemane, a llysoedd yr archoffeiriad, a Philat, a phen Calfaria; ac wedi adgyfodi y trydydd dydd, dyma yr enw a roddodd arnynt yn gyntaf oll—Brodyr. Mae yn hawdd gweled ei fod yntau hefyd o dan dirion ddeddf y glynyn dynach.

Ceir amlygiad neillduol hefyd o'i garedigrwydd i Pedr wedi ei adgyfodiad. Dywedodd yr angel wrth y gwragedd, (ac nid yw mai yr angel a ddywedodd yn lleihau un mymryn ar ogoniad tyner-wch yr Iesu yn yr awgylchiad; canys nid oedd yr angel ond gwneyd yn ol cyfarwyddyd ei Feistr iddo), "Ewch ymaith, dywed-wch i'w ddysgvblion ef, ac i Pedr, ei fod ef yn myned o'ch blaen chwi i Galilea," &c. Paham i Pedr wrth ei enw? gallasai y gwragedd ofyn. Ond mae'n hawdd gweled beth oedd y rheswm. Yr oedd Pedr wedi syrthio yn gywilyddus iawn, ac yn barod i ofni, ac mae'n debyg iawn yn ofni, na chydubyddid mo hono ef yn ddysgybl byth mwy. Ac felly pe daethai y newydd am ei adgyfodiad at y frawdoliaeth fel y cyfryw, nis gallasai Pedr gyfranogi o'r llawenydd. Gan hyny yr oedd raid mynegi i Pedr dan ei enw, fel y caffai awgrymiad y cydnabyddid ef o fewn y cylch, a bod amcan i wneuthur rhyw ddefnydd o hono wedi y cwbl; ac hefyd y gallai gyfranogi o lawenydd yr adgyfodiad. Yr oedd yn hyn ofal rhag cadw Pedr yn ei bryder a'i ofid, yr un fynyd yn hwy nag y gallesid hebgor. Wele yma yn ymddangos gan hyny, ryfedd dysterwch a chariad. A theimloedd Pedr hyny hefyd. Canys yr efengylwr Marc yn unig sydd yn adrodd, ddarfod i'r angel orchymyn dywedyd i Pedr wrth ei enw; a than gyfarwyddyd Pedr yr ysgrifennodd Marc ei efengyl, yn ol fel y'n haddysgir. A beth a allasai berii Pedr gofio a chwennych adrodd hyn mwy na'r Efengylwyr eraill, ond ei fod wedi teimlo caredigrwydd yr ymddygiad. Dychymygai

fod Pedr yn siarsio Marc wrth ysgrifenu, pan y daethant at y cymal hwn ar yr hanes, ac yn dywedyd, Cofia di roddi hyna i lawr beth bynag Marc. O ! ni bu erioed well genyf glywed fy enw ; fe'm cododd hyny fi o ryw ddyfnder na wybûm erioed am ei fath na chynt na chwedi. Mi gofiaf tra nefoedd yn bod, garedigrwydd fy Arglwydd yn hyn."

Pa foddyd bynag, mae hyn o sylwadau yn ddigon i ddangos fod hon yn ddeddf blanedig yn ein natur ni, ac hefyd bod y dyn Crist Iesu o dan ddeddf gyffredin y natur ddynol yn hyn ; sef yn caru yn fwy withdrychau ei serch po fwyaf o boen a blinder a gaffai yn eu hachos. Ac i weled tiriondeb a daioni y ddeddf hon, nid rhaid ond tybio y gwrthwyneb am fynyd. Tybier fod yn ddeddf natur y gŵr gasau fwyfwy y wraig ariach, po fwyaf o boen a gawsai gyda hi. A'r un fath y wraig y gŵr ariach, a'r rhieni y mab bychan gwanaidd. Pe fel hyn, beth a ddaethai o greaduriad ariach a gwanaidd ? Och fi, nis gallaf lai na chodi fy ysgwydd ac arswydo rhag gymaint ag ymollwng mewn dychymyg i'r fath barth tywyll du a hwna. Bendigedig fyddo awdur ein natur, mae y ddeddf dan sylw wedi darpar nodded ac ymgeledd i filiynau o druenusion, cyn bod son a'm glybiau cleifion nac yspytai mewn un man ; ac yn ddiâu hi a barhâ i wueuthur felly pan byddo llawer o ddynol-gelfi o'r fath wedi syrthio yn adfeilion. Mae'n gwneuthur hyn hefyd heb arteithio y rhai fyddo yn noddi ac yn ymgeleddu. Y gŵr a'r wraig a'r rhieni a welir yn ymgeleddu eu cleifion am flyneddau ; byddant yn gwneuthur hyny gyda phob hyfrydwch yn ngrym y ddeddf hon. Oblegid os bydd eu llafur gyda eu truenusion ynddo ei hun yn faich ; beth er hynny, mae eu cariad hwy atynt yn gyfryw, fel nas teimlant mo hono felly mewn un modd. Ac os ychwanega y baich yn achos y claf, yna gwaith y ddeddf fydd ychwanegu nerth yr ysgwydd yn gyfatebol. A beth waeth pa mor drwm fydd y baich os bydd yr ysgwydd yn ddigon cref i'w gario heb ei deimlo. Mewn gwirionedd, gwelwyd llawer wedi colli y rhai a noddid ganddynt drwy angeu ; nid yn unig yn ddirwgach e herwydd eu bod wedi bod yn eu noddi, ond yn hyfryd iawn ganddynt, ac yn ddiolchgar iawn i Dduw, eu bod wedi cael gwneuthur felly iddynt. Hynod mor gywrain gyda da yw y ddeddf hon ; pan y mae fel hyn yn estyn ymgeledd a dyddanwch i un blaidd, heb ar yr un pryd, beri ond hyfrydwch a boddhad i'r blaidd byddo yn gweinyddu yr ymgeledd hwnnw. Mae yn ei mynediad ymlaen, yn dyhidlo dedwyddwch peraroglaidd ar bob llaw.

O na byddem yn arafu a sefyll, ac yn edrych ar waith Duw yn y naill beth a'r llall. Caem o hyny lawer o fodhâd a buddioldeb. Yn sicr, fe'n hennillid i garu y Bod mawr â'n holl galon. Gan hyny, peidiwn a bod fel rhyw dyrchod a'n trwynau yn y ddaear yn ddidor, ac yn dyfeisio yn barhaus pa le mae prif ; nagâ, ond cyfodwn ein llygad i fynu, a gwelwn Dduw. Ymddygwn fel y gwedda i ddynion wneuthur, ac nid fel tychod daear. Sonia y Dr. Young, yn rhywle yn ei " Feddyliau yn y Nos," fod y cyffredin o ddynolryw fel cynnifer e fwngloddwyr yn gweithio dan y ddaear, ac

ericed weled yr haul, sef Duw. Gymry anwyl, na fyddwn ni felly. Ond yn anad dim mynwn weled Duw. Oddyfnder ein cymmoedd, ac oddi rhwng ein mynyddau, mynwn weled yr haul mawr trwywyddol hwn, o'r hwn y tardda goleuni, gwres, a bywyd annherfynol. Ac yn enwedig, syllwn ar yr amlygiadau o'i ddaioni sydd i'w gweled yn ymhob man.

Cwm.

HEN WR MINYDDIE.

Y Pechod o Anghyflawnder.

Eb mai un o brif bechodaau yr oes ydyw yr un yr ydym yn myned i sylwi arno yn bresennol, hyfryd ydyw meddwl ein bod ni y Cymry yn byw mewn gwlaid lle y triga gwylwyr gofalus a manylgraff i roddi rhybuddion priodol a phrydlawn am ein perygl, ynghydag i arddangos y llwybr tebycaf er cael gwaredigeth oddiwrtho. Yn y goleu hwn yr ydys yn cymeryd yr annogaeth a gafwyd i barotoi yr ysgrif hon i'r "Geiniogwerth." Daeth yr annogaeth hefyd ag amgylchiad i gof yr ysgrifenydd, a ddygyddodd ddyfod o dan ei sylw ef ei hun oddeutu deunaw mlynedd yn ol wrth ddychwelyd gymanfa'r Bala y pryd hwnnw. Cyd-gerddais a hen wr pur grefyddol, am ychydig o ffordd, yr hwn wrth holi a gafodd hyd fy mod yn arfer ddweyd tipyn yn gyhoeddus weithiau; ac ar ol amylgu ei syndod am nad oedd genyf yr un odfa i'w chadw yn y gymydog-aeth hono, ebe efe wrthyf, "Cofiwch frawd i gadw mewn golwg yn wastad yr anghenrheirwydd i bregethu yn fynych yn erbyn prif bechodaau yr oes." Effeithiodd y cynghor yn ddwys ar fy meddwl y pryd hwnnw, ac nid aeth yn gwbl o fy meddwl hyd heddyw.

Mewn ymddyddan hefyd a gwâr parchus yn perthyn i gyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, oddeutu dwy flynedd yn ol, pan ar gyhoeddiad bychan yn un o siroedd Cymru, dywedai wrthyf, wrth gyfeirio at y pechod o anniweirdeb, ac yn enwedig at y dull beius oedd gan ieuenciad y sir hono yn eu rhag-gyfeillach, "Fod pensu teuluoedd pob enwad crefyddol, ac hyd yn nod rhai dibroffes yn y sefyllfa hono, yn bryderus ddysgwyl am i gorff y Methodistiaid Calfinaidd roddi cynnyg ar ryw lwybr o feddyginaeth rhag y bai gwaradwyddus hwnnw, am fod y rhan fwyaf o'r wlad yn eu mediant; ac ond iddynt hwy gychwyn, buan y ceid yrenwadau eraill i roddi pob cymhorth i'r anturiaeth." Oni ellir dysgwyl i'r ymegniad pwysig hwn o eiddo cyhoeddwyr y "Geiniogweth," fod y desideratum ar unwaith, sef yn feddion effeithlawn i godi yr holl Dywysogaeth, o Gaergybi i Gaerdydd, at eu dyledswydd o "ymlanhau oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, gan berfforthio sanct-eiddrwydd yn ofn Duw :" 2 Cor. vii 1.

Mewn perthynas i'r pechod a enwir yn nechreuar' erthygl hon, gallaf fyntumio gyda golwg arnaf fy hun, ei fod bob amser yn ymddangos i mi yr un mwyaf adgas o gwbl ; a phan ystyrir y gwahanol ystrywiau, yn gystal a'r amrywiol ffyrdd y mae rhai dynion yn eu cymeryd er cael gafael ar eiddo eu cymydogion y

maent yn gyfryw sydd yn peri fod y pechod hwn yn hynod ddir mygus yn fy ngolwg. Ac O! y fath gelwyddau dybryd hefyd a ddywedir gan amryw, er cyrhaedd yr unrhyw amcan twyllodrus ac anghyflawn. Ar ryw olygiad gellir meddwl fod lleidr pen-ffordd yn rhagoriar y dyn a geisiai drwy ryw hudoliaeth eich difeddiannu o'ch eiddo, ac heb fod ganddo olwg yn y byd, na bwriad gwirioneddol ychwaith, i dalu yn ol.

Nid yw ymddygiadau llaweroedd o'r cyfryw, fymryn gwell na'r faith a gymerodd le ar un o heolydd Llundai'n y dydd o'r blaen. Aeth bachgen o'r wlad at ddyn yn gwerthu enau mewn basged, ac wedi gofyn am werth grôt o honiynt, gan roi *sovereign* iddo i'w newid, er mwyn talu am danynt; rhoes y dyn y fasged i'r bachgen i'w dâl, tra yr elai ef fel y cymersi arno, i gyrchu newid iddo, ond ni ddychwelodd y dyhiryn yn ol ei addewid, a hyny a gafodd y bachgen truan am ei *sovereign*, oedd yn unig, y fasged wael a'r ychydig gnau oedd ynndi. Dyma esiampl o dwyll ac anghyflawnder dirfawr, ond ysywaeth nid ydyw ond anghraifft o'r hyn sydd yn cael ei wneyd yn fynych mewn tref a gwlad, er colledu dynion mewn symiau mwy yn gystal a rhai llai.

Pwy all beidio yn y fan yma, cyn myned dim ymhellach, na chyfeirio at ofnadwy ddydd y farn, a chyffesu y bydd, yn ddiau, yn ddiwrnod arswydlawn iawn, pryd y dadguddir y cyfryw weithredoedd i'r manylwyrdd mwyaf gan y Barnwr tragicwyddol ei hun!

Nid oes dim ammheuaeth nad ydyw cyfundrefn y coelio hefyd yn achosi llawer o anghyflawnder yn fynych, trwy fod dynion yn gofyn am ychwaneg o goel nag y mae eu hamgylchiadau yn caniatâu, a hwythau wrth fethu unioni a'r coeliwr, yn tafu hwnw i ofidiau a phrofedigaethau personol, teuluol, a masnachol. Gellir honi can wired a hyny, pe byddai i bawb dalu am bob math o nwyfau wrth eu cael, y gwaredd llaweroedd o deuluoedd o ddirfawr drallodion, ac fe fyddai y rhai a arferai goalio eu cymydogion, yn gystal a'r rhai fyddai yn arfer a chael eu coelio, yn gwybod trwy effeithiol brofiad am wirionedd a gwarth yr hen ddiareb Gymreig, sef "Coflaid fechan a'l gwasgu hi yn dŷn."

Mae geiriau'r Bibl wedy'n yn rhagori ar ddiarebion ein cenedl; tra y mae rhai o honiynt yn dangos y niwed o anghyflawnder a thwyll, y mae rhai eraill yn arganmawl uniondeb a gwirionedd yn hynod; ac ni wnawn yn well wrth ddybenu hyn o draethawd anmherffaith, na dyfynu rhai o honiynt, gan addef mai hyny ydyw y moddion tebycaf er ennill ein cydgenedl i weithredu yn gyflawn y naill tuag at y llall: "Na fydded genyt yn dy dŷ amryw fesur, mawr a bychan. Bydded genyt gareg uniawn a chyflawn. Bydded genyt ephah uniawn a chyflawn; fel yr estynir dy ddyddiau ar y ddaear, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti. Canys ffaidd gan yr Arglwydd dy Dduw bob un a wnelo hyn, sef pawb ar a wnel anghyflawnder :" *Deut. xxv. 14. 16.*

"O blant bychain, na thwylled neb chwi. Yr hwn sydd yn gwneuthur cyflawn sydd gyflawn, megys y mae yntau yn gyflawn :" I *Iacob* iii. 7. "Telwch i bawb eu dyledion: Na fyddwech yn nyled neb o ddim ond o garu bawb eich gilydd :" *Rhuf. xiii. 7. 8.*

(Byddai'r diweddar barchedig Richard Lloyd, Beaumaris, yn arfer dyweyd yn bur bert, pan y deuai at y frawddeg, "Ond o garu bawb eich gilydd," "'Nawr rhedwch i ddyled faint a fynoch.") "Dyma y pethau a wnewch chwi; Dywedwch y gwir bawb wrth ei gymydog; bernwch farn gwirionedd a thangnafeddyd yn eich pyrth; Ac na fwriedwch ddrwg neb i'w gilydd yn eich calonau; ac na hoffwch lŵ celwyddog; canys yr holl bethau hyn a gascais, medd yr Arglwydd:" *Zech.* viii. 16, 17. "Ac yr oedd ynt ill dau yn gyf-iawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymynion a deddfau yr Arglwydd, yn ddiargyhoedd:" *Luc.* i. 6.

Mae'r amrywiol ysgrythyrau hyn yn ddigon i beri i ni ddymuno am i'r oruchwyliaeth y sonir am dani yn 2 *Petr* iii. 13. wawrio bellach, "Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni yn ol ei addewid ef, yn eu dysgwyl, yn y rhai y mae cyflawnder yn cartrefu."

Liverpool.

JOSEPH WILLIAMS.

Llythyr oddiwrth y diweddar Barch. Richard Jones, Bala, at y Parch. Moses Jones, Dinas, sir Gaernarfon, pan yn Llundain.

Bala, Awst, 1835.

ANWYL FRAWD,

Gyda gwresog a diffuant ddiolchgarwch yr wyf yn anfon i chwi y gydnabyddiaeth wael hon o fy mod wedi derbyn eich llythyr o Lundain, wedi ei ddyddio Gorphenaf 28ain. Y mae yn dda iawn genyf ddeall na chawscoch eich sonni mewn dim yn y ffordd waethaf; ond bod eich holl somedigaethau wedi bod hyd yn hyn yn yr ochr oreu. Yr wyf yn deall fod yr Arglwydd yn parhau i fod yn dda wrthych, ac yn dirion o honoch. Un felly yw Efe, o ran hynny. Da ydywi bawb. Felly yr oedd Dafydd yn meddwl am dano pan y dywedai, "Canys ti, O Arglwydd, ydwyt dda a maddeugar; ac o fawr drugaredd i'r rhai oll a alwant arnat:" *Salm* lxxxvi. 5. Llawer gwaith y cawsom achos i ddywedyd, "Un rhyfedd iawn yw Duw." Ni wna efe ein gadael ni, os na bydd i ni ei adael ef yn gyntaf: ac nid yw efe byth yn anfon ei weision i un man, nac at un gorchwyl, i'r dyben o'u gadael yn y fan hono, nac i'r dyben o'u gadael i ymboeni wrthynt eu hunain gydag un rhan o'i wasanaeth, heb fod ei hunan gyda hwynt. A phell ydwyt fi oddiwrth feddwl ei fod wedi anfon y *brychan* (fel y gelwch eich hun) i Lundain gan fwriadu ei adael yno i ymboeni yn ei nerth a'i ddoethineb ei hun wrth geisio bod yn lles i bechaduriaid ac yn ogoniad iddo ei hun. Na, na; eithr yn hytrach efe a gyflawnia yr addewid fawr hono sydd i fod ar droed yn y byd hyd ei ddiwedd; "Wele, yr ydwyt fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Ac os na aroswch chwithau yn Llundain hyd ar ol diwedd y byd, nid rhaid i chwi fod hebddo ef gyda chwi. Mor werthfawr yw i ni feddwl "Na âd yr Arglwydd ei bobl!" Ond gwn mai y *gamp* ydyw "Cadw y galon yn dra dïesgeulus" gydag ef.

Dyma yw yr anffawd fawr gyda mi, beth bynag. Y balchder drwg a châs yma yw fy nstryw i bob amser; os caf ambell dro oedfa go dda, fel y dywedwn, pw! fe fydd arao ef eisieu cael clamp o damaid anferthol o hyny; ac o'r ochr arall, pan y bydd yn galed ac afrwydd; dyn! fe 'm gyr yn mhen y bobl eu bod yn gwrandaw yn gysglyd a marwaidd, neu ynte fe ddywed wrthyf, "Fie o honot ti, yr wyt ti yn bregethwr gwael, pe y buaswn i yn dy le ni threiwn mo honi byth yn ychwaneg rhag cywilydd; dyna y siarad sydd gan y bobl am danat ar hyd y ffordd, 'wel y mae o yn bregethwr sâl.'" Rhyw fyd fel hyn, anwyl frawd, yr wyf fi yndde yn lled aml, a pheth mawr yw cael byd da weithiau. Pan y delo yr Arglwydd i wenu, y mae efe yn trywanu fy ngelynion, ac yn eu gyru yn eu hol. Ymnerthwn ynddo, anwyi frawd, ac yn nghadernid ei allu ef.

Yr eiddoch heb dwyll,

RICHARD JONES.

Meddylian Dyn Dystaw.

Y PINACL BYCHAN.—Pan fyddo rhyw rinwedd wedi ennill lle uchel a pharchus mewn cymdeithas, y mae dyn hunanol yn dra sicr o chwilio am *binad uwoch*, pa mor fychan bynag y byddo, fel y gallo efe ymddangos yn fwy anrhyydeddus na neb arall. Os dirwest fydd yr hinwedd hwnnw, rhaid iddo ef fod yn fwy dirwestol na'r dirwestwyr. Os Calfiniaeth fydd yn gymeradwy yn y cylch lle y byddo efe yn troi, rhaid iddo ef fod yn fwy Calfinaidd na Chalfin ei hun. Os gwisgiad dirodres fydd yn ennill clod, bydd y taeliwr mewn trafferth flin wrth geisio gwneyd ei ddillad ef yn fwy syml na'r eiddo neb arall. Os Ymneillduaeth a gyfrifir yn rhinwedd, bydd ganddo ef ryw bwncyn bach i sefyll arno, fel y gallo fod yn fwy ymneillduol na'r Ymneillduwyr.

PA FODD I DDARLLEN.—Un peth yw gallu i gasglu defnyddiau yn y cof; peth arall yw gallu bywydol yn y meddwl i ddeol a thynu adgyfnerthiad o'r defnyddiau hyny, a'i wneyd yn rhan o'n hanfod ein hunain. Dyma nodwedd bywyd. Yn lle cario y ddefnyddiau fel baich, y mae yn eu gwneyd yn gryfhad iddo ei hun.

GWRIDDIOEDER.—Nid oes modd canmawl gormod ar y dynien sydd yn cyrhaedd dysgeidiaeth a gwybodaeth trwy eu llafur eu hunain, yn ngwyneb pob anfanteision oddi allan. Ond y maent yn agored i'r perygl o dybied fod pob peth a gyrraeddant yn fwy gwerthfawr nag ydyw mewn gwirionedd, a'i fod yn newydd i bawb arall am ei fod yn newydd iddynt hwy. Nid yw hyn yn arwyddo eu bod hwy yn fwy hunanol nag eraill; ond y mae yn tarddu yn naturiol eddiwrth y duedd sydd yn mhawb i fawrhau pob peth yn gyfatebol i'r ymdrech oedd yn anghenrheidiol er mwyn ei feddiannu. Y mae yr achos hwn yn rhoddi iddynt un fantais neillduol, fel y mae yn rhoddi grym iddynt draddodi yr hyn sydd ganddynt gyda'r un teimlad a phe buasai yn hollol wreiddiol. Y mae yn wreiddiol iddynt hwy; ac nid hyny yn unig, ond y mae arno agwedd newydd i'r rhai sydd

wedi ei weled o'r blaen. Megys y mae amrywiaeth diderfyn yn ngweithredoedd natur, felly y mae yr hen feddylddrych mwyaf cyffredin, pan darddo yn naturiol o fyfyrnod y dyn ei hun, yn sier o ymddangos mewn delw newydd. Y ffordd oreu yw darllen llawer, er mwyn gweled pa feddylddrychau sydd eisoes yn hen; a myfyrio llawer, er mwyn cael allan feddylddrychau newydd.

YR IETHOEIDD PABAIDD A PHROTESTANAIDD.—Y mae ieithoedd Itali, Spaen, Portugal, Ffrainc, a Belgium, yn deillio o'r Lladin; ac y mae ieithoedd yr Almaen, Holland, Denmark, Sweden, a Lloegr, yn gangen-ieithoedd o'r Teutonaeg. Y mae Mr. Macaulay, yn ei "Hanes Lloegr," yn sylwi fod Pabyddiaeth yn cadw ei thir yn y gwledydd lle y llefarir yr ieithoedd a ddeilliant o'r Lladin; ac nad yw Protestaniaeth wedi ffynu ond yn y gwledydd lle y llefarir cangen-ieithoedd y Teutonaeg. Gallasai gario y gwahaniad ymhellach; oblegid yn Lloegr, lle y mae mwy o eiriau Lladinaidd, mewn canlyniad i eddyfodiad y Normaniaid drosodd gyda Gwilym y Concwerwr, nag yn yr un o'r ieithoedd Teutonig eraill, y mae hefyd fwy o'r defodau Pabaid wedi eu cadw yn nghrefydd sefydledig y genedl.

YR ESGOB A'R DIACON.—Ystyr y gair "esgob," yw arolygwr, neu flaenor; ac ystyr y gair "diacon," yw gweinidog. Ond gyda'r Methodistiaid y mae yr enwau hyn wedi eu newid. Yr esgob yw y gweinidog, a'r diacon yw y blaenor.

YSGOLION IEITHYDDOL.—Da genyf weled y "Traethodydd" yn galw sylw at yr anghenrheirwydd am Ysgolion Ieithyddol. Gyda'r holl siarad am addysg, y mae lle i ofni fod dysgeidiaeth uchel a thrwyndl yn mynedyn brinach nag ydoedd hanner can'mlynedd yn ol. Ond y mae yn anhawdd gwneyd olwyn heb ganolbwyt; a dylai fod un brifysgol yn Nghymru fel canolbwyt i'r holl ysgolion eraill. Pe ymunai yr holl bleidiau crefyddol, gallent gael un athrofa dda yn fuan, a'i chynnal yn anrhyydeddus. Ond a wnat hwy hyn? Gwnant, os nad yw rhagfarn wedi eu dallu.

CREFYDD YMARFEROL.—Nid oes dim yn fwy afresymol na thybied fod athrawiaeth gras yn cau allan foesoldeb. Dyma yr amlwgiaid dysgleiriaf a welwyd erioed o wirionedd a chyflawnder ymarferol. Yr oedd yn well gan Dduw ddryllio ei unig-anedig Fab na dirymu rheolau tragywyddol moesoldeb. Nid yw holl gyfundrefn yr efengyl ond un dadguddiad cyson o uniondeb ymarferol y Duwdod.

DAROSTYNGIAD CRIST.—Y maent yn cael allan uchder yr haul wrth sylwi ar yr adlewyrchiad o hono yn nyfroedd y mōr: felly os ydym ninnau yn dewis cael syniad cywir am uchder cariad a chyflawnder Duw, y mae yn rhaid i ni edrych arno yn narostyngiad "y dyn Crist Iesu."

Grym Gweddi.

Attaliodd Duw yn groes i'w raith,
Dair blynedd maith a hanner;
Y gwlaw i gyd wrth weddi dyn
Rhag disgyn o'r uchelder.

Ac wrth Elias, d'wedodd Ion,
Dōs, ffo at afon Cerith,
Ymguddia yno ar ei glān,
Ti gai 'mhob man fy mendith.

Rhyfeddol wyrth e wnaeth yr Ion
 O'r cigfrain, weision addas ;
 Dwyn bara a chig, o ryw le draw
 A'i roi ar law Elias.
A Duw a dd'wedodd wrth y gŵr,
 Pan sychodd dwfr yr afon,
 Dos ar dy hynt, na chymmer fraw
 Ymdeithia draw i Sidon.
 Gorch'mynais I a hwnw 'n llw,
 I wreigan weddw yno
 Dy borthi di, fy ngair a saif,
 Hyd oni wlawiai eto.
 Elias aeth wrth gynghor Jah,
 Hyd yn Sereptah yn Sidon ;
 Pan wrth y porth, y wreigan wân,
 Oedd yn y fân yn union.
 Ac iddi hi gofynai'r gŵr,
 Am 'chydig ddwfr i'w yfed ;
 A maddeu i mi fy mod mor hy'
 'Rwy bron a threngu o syched.
 Dwg damaid bach o fara i mi,
 Rhag im' ddihoeni heno, [gur
 Rwy 'n teimlo mhen mewn dirfawr
 Ar ol llafurus deithio.

O druan wr, pa beth a wnaef ?
 Yn wir ni feddaf fars,
 Na blawd ychwaith, ond llonaid
 dwrn
 O fewn y celwrn, coelia.
 Ni feddaf olew yn ystêr
 Ddim amgen nag ychydig,
 Gwel mor fechan yw fy 'stor
 A'm calon yn doredig.
 Gyda'r briwydd hyn mi af,
 A pharatoaf hyny
 I mi a'm mab, ac wedi hyn
 Ni gawn yn sydyn drengu.
 Wel dos, a gwna fel d'wedaist ti :
 Ond dwg i mi yn gyntaf,
 Deisen fechan i'm cryfau,
 Cewch chwithau 'ch dau yn olaf.
 Clyw eto wraig, fy ngair a chred,
 Fel hyn, y d'wed Jehofah ;
 Y blawd a'r olew bery'r un,
 Er bwyta flwyddyn gyfa.
 Bala. W. E.

I Ysgol Frytanaidd Edeyrn.

BOED cynydd beunydd i'n Banon—goleg
 I gael ysgolêigion,
 I dw' hardd, odid daw hon
 A'i natur gyrhaedd Newton.
TY fwyn addysg feunyddiaawl—a dreiddir
 Oll drwyddi 'n rhyfeddawl,
 Plant cyn hir godir i'r gwawl
 Uchel fodd a chelfyddawl.
A Philip sy 'n hoff eiliaw—dasg iddynt
 A dysg ddigynhilaw,
 Pob rhinweddau diau daw,
 Llifeiriant o'u lafuriau.
Yn esgud hwy a ddysgant—y nwyfre
 Yn foreu olrheiniant ;
 Ofyddion i ni fyddant,
 Daear lawr ei darlun wnant.
Rhyfeddawl eu rhifyddiaeth—ac hefyd
 Ep cof sy mor odiaeth,
 A'r glob gron, trwy hono aeth,
 'N wibiedig eu gwybodaeth.
Dysgwylir hilir o bon—ddiwegi
 Ddiwygwyd i Seion,
 Gwir ofal eu gwyryfon,
 O ! aml rai, fydd moli ' Ion.

"Ti a borthir yn ddio?" — Psalm xxxvii. 3.

CYFLAWNWYD yr addewid hon mewn modd tra nodedig, o barth Alexander Dunn, yr hwn a elwir yn gyffredin Alastair Og. Yr oedd y gŵr hwn, sef gwrthddrych y byr hanes canlynol, yn hyw yn swydd Sutherland, mewn amser pryd yr oedd ymborth yn dra phrin yn y parth hwnnw o'r wlad. Gwëydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac yr oedd hefyd yn un o'r rhai a gredent mai "Yn amser newyn, y cant ddigon," drwy law haeionus yr Hwn sydd yn porthi cywion y gigfran, a'r hwn ni oddef i'r "cyflawn gael ei adu byth." Yr oedd mor gyfyng ar Alexander unwaith, fel nad oedd ganddo ddim yn ei dý ond dwfr; ei wraig gau hyny, a ddechreuodd rwnach; ond Alexander a ddyweilai, "Fy Nhad a ddensyn imi rywbeth; felly, fy anwylyd, gad ini ymddiried ynddo Ef; dwg imi lestraid o ddwfr a gad ini ofyn ei fendith. Fe borthodd bum mil âg ychydig dorthau; ac fe all gyfranu maeth i ninnau drwy offerynoldeb y dwfr hwn, os bydd hyny er ei ogoniant ef a'n lleshad ninnau; neu ynte, se 'n diwalla ni drwy ryw lwybr arall, a ymddengys i'w anfeidrol ddoethineb ef yn oreu." Yn awr, tra yr oedd Alexander yn gofyn bendith, clywyd rhyw drwst wrth ddor bwthyn tlawd y gweddiwr diffuant; a phan ddarfyddodd, aeth ei wraig at y drws. A pha beth oedd yno ond sachaid o rywbeth; a gwelid ychydig oddiwrth y tŷ, rhyw ddyn tebyg i was amaethwr, ar gefn cefyl llwyd mawr yn teithio i lawr y waen. Cymerwyd y sach i fewn i'r tŷ, ac fe'i hagorwyd hi; yr oedd oddi fewn iddi flawd ceirch, caws, cigfwyd, a physgod wedi eu sychu. Ac felly fe eisteddodd Alexander a'i wraig i lawr gyda chalonau diolchgar a llawen, yn ymyl pryd dibrin a llawn o fwyd; "Oni ddarfu imi ddwyeyd," ebai y gŵr, "y buasai fy Nhad yn meddwl am danaf; ni ddarfu iddo fy siomi hyd yma erioed. Gan hyny, gad i ni yn bresennol ddychwelyd diolchgarwch iddo am ei ddaioni."

Yn mhen rhai blyneddau ar ol y dygyrddiad hwn, yr oedd sacrament Swper yr Arglwydd yn cael ei weinyddu yn mhlwyf Dornock; a pheth cyffredin yn ngogleddbarth Ysgotland, oedd i bobl fyned ddeg ar hugain neu ddeugain o filltiroedd ar y cyfryw achlysuron i wrandaw pregethau; ac hefyd gallai y cymunwyr hyny ag oedd ganddynt docynau aelodaeth o'u plwyfau eu hunain, gyfranogi o'r cymun sanctaidd mewn plwyfau eraill. Ar yr achlysuron hyny yn mhlwyf Dornock, yr ardderchog a'r duwol Ddues, y pryd hyny Iarlles Sutherland, nain i'r presennol ardderchog Ddu, a groesawai amryw o'r gweinidogion eglwysig yn ei thŷ; a'r nifer hyny o gymunwyr a ddeuent o bell a gaent letŷ ganddi yn ei chastell ei hun. Ac ymhlieth y rhai a ddaethent ar yr achlysur y cyfeiriasom ato, yr oedd Alexander Dunn. Gwedi prydawnol ymborth, hwy a arferent ymgynnll yn y neuadd fawr, a mynegi gyda diolchgarwch, fawr ddaioni Duw tuag at bob un; a thra yr oeddent gyda y gwasanaeth hwnnw, yn mysg pethau eraill, crybwylodd Alexander yr amlygiad hyny o ddsioni Duw yr ydym newydd son am dano; pan y dadganodd y ddawiol Iarlles gyda llawenydd, "I Dduw y byddo y diolch, yr hwn a gyfarwyddodd y trugareddau hyny atoch chwi; ac yr ydwyt yn llawen iawn wrth glywed felly am danynt." Arweiniodd hyn i'r eglurhad canlynol, o eiddo yr ardderchog Iarlles:—

Pan ydoedd prinder mawr o ymborth, yn ddiweddar, yn cael ei deimlo mor gyffredin yn y parth yma o'r wlad. Yr oeddwn un diwrnod ar ddechreu ciniau, pan y gwelwn fy mwrdd wedi ei hulio yn helaeth a phobmath o ymborth sylweddol. Tarawyd fi y gallai fod llawer o blant yr Arglwydd y foment hono heb damaid i'w fwyt. Y meddwl yma a boenodd fy mynwes gymaint

fel y penderfynais chwilio allan, a diwallu y cynuifer hyny ag a allwn. Ond rhag ofn fod rhai mewn eisieu yn barod, gorchymynais i un o'm gweision leuwi sach, mewn rhan o flawd eirich, mewn rhan o gaws, o gig-fwyd, a phethau eraill; a gosod y sach ar gefn un o'r cefylau a thafu y ffrwyn yn rhudd ar ei wddf; a dilyn y cefyl, a'i adael i fyned lle y gwebo yr Hwn sydd yn gwybod am amgylchiadau ei holl bobl yn dda, ei gyfarwyddo. Hyn a wnaethym mewn ffydd, gan foddloni fy hun y cyfarwyddid ef i'r man yr oedd mwyaif o anghen am dano; oblegid dymunais i'r gwas ddilyn y cefyl i ba le bynag yr elai, a pha le bynag y safai, i roddi y sach a'i chynnwysiad i'r bobl, yn ymyl ty pa rai y safai felly. Ac hyd nes yr hysbysodd Alexander i ni am y tro; nis gwyddwn i ba le y cyfarwyddwyd ef, na phwy oedd wedi cael y sach; dim ond bod y gwas a ddychwelai yn yr hwyr wedi dywedyd wrthyf fod y cefyl wedi sefyll yn ymyl bwthyn tlawd oddeutu deng milltir ar hugain o Dornock.

Ddarllenyydd a wyt ti mewn cyfyngder? Nac ofna, os oes genyt Dduw yn Nghrist yn fendith it'; efe yn sicr a'th ddiwalla yn ei amser a'i ffordd ei hun. Nis gwnaeth i neb a obeithiodd ynddo ef gywilyddio. "Fe fum ieuanc, ac yr ydwyf yn hen; eto ni welais y cyflawn wedi ei adu, na'i had 'n cardota bara.—*Tract Magazine.*

E. HUGHES.

Diwedd arswy dus Deist.

Yr hanes byr a ganlyn, a draddodwyd gan y Parch. Alphonsus Gunn, mewn pregeth, oddeutu saith mlynedd a deugain yn ol, yn eglwys Lothbury. Ni fydd hyn yn anfuddiol yw ail adrodd, mewn amser pan y mae deistiaeth yn ymledu mor arswy dus ymhlieth y werin yn Lloegr; fel nad yw Cymru allan o berygl, rhag cael niwed oddiwrth yr haint echryslon.

"Galwyd fi," meddai Mr. Gunn, "yn ddiweddar at wely angeu dyn ieuanc yn Hoxton. Pan aethum i'r ystafell, cefais ef mewn dychrynfeydd meddwl o'r fath mwyaif arswy dus; gan dybied eu bod yn tarddu oddiwrth ddwys euogrwydd cydwybod, ag sydd yn gydymaith ddigon cyffredin i bechadur anediseiriol ar wely angeu. Dechreuais ei gyfarwyddo at Iesu, yr unig gyfaill i bechadur, ac at addewidion yr esengyl; yna gyda golwg aethus o anobaith, atebodd, 'O! syr, yr wyf fi wedi gwrt hodyn yr esengyl! Ychydig o flyneddau yn ol, i'm gwae, darllenais 'Paine's Age of Reason.' Yr oedd wrth fod fy archwaeth llygredig—llyncais ei egwyddorion. Ac wedi hynny, i ba le bynag yr awn, gwnawn yr hyn a allwn i ddirmegu yr ysgrythyrau; ac felly yr arweiniaisia erall i'r fagl ddinystriol, trwy wneuthur proselytiad i ddeistiaeth. Fel hyn y gwrt hodyn Dduw, ac yn awr y mae yntau yn fy ngwrthod innau, ac ni chymer drugaredd arnaf.' Cyunygais weddïo gydag ef, ond atebodd, 'O! na wnewch, gwaith ofer yw gweddio dros ofi;' yna gyd âg ochenaid arswy dus, fe dorodd allan 'mae "Paine's Age of Reason"' wedi dystrywie fy enaid—ac a fu farw yn uniongyrchol."

Bangor.

W. R.

Cysgu Anamserol.

DYGWYDDODD tro go hynod, yr hwn allasai fod o ganlyniadau pwysfawr, ynddiweddar, mewn eglwys blwyfol gerllaw Llan—, yn swydd D-n-ch. Teimloedd gŵr ar y gwasanaeth dueddiad cryfi gysgu, ac i'r duedd hono rhoddodd gyflawn ryddid, fel na fedrai byawdledd yr offeiriad nac amenau

tarannlyd a mynchol y clochydd wneuthur yr argraff leiaf arne ef tra parhâodd yr addoliad. Clywyd amryw daranau dychrynllyd, fel y meddylid, cyn terfyn y bregeth, eithr ni feddyliodd neb ar y pryd eu bed yn deiliaw o geg a ffroenau y dyn hwn, canys yr oedd mewn côr o'r neilldu wrtho ei hun, ac felly yn anweledig i'r gynnulleidfa. Ar ddiwedd y gwasanaeth prydawnol, wedi goliwng yr addolwyr ymaith, clöwyd a bar-iwyd drysau yr eglwys fel arferol, ac o gylch yr amsae pan oedd yr huan yn galw ei belydr yn ol efe, a ddeffrôdd o'i gwsg pechadurus, ac a drodd ei lygaid yn hanner agored at yr areithfa, ond O syndod! yr oedd yr offeiriad wedi myned; yna edrychodd o gylch yr eglwys, yr oedd hono yn wâg—pob peth mor ddystaw a'r bedd. Mor erchyll oedd ei sefylifa.

Gwelodd y drysau, yr oedd y lîrhai hyny wedi eu gwneuthur yn ddiogel, ac nis gallasai dros amser feddwl am ddiangfa ebrwydd. Y Sabbath canlynol a ddygai waredigaeth; ond pa fodd yr oedd natur i gael ei chynnal cyhyd, nid oedd bwyd yn yr eglwys. Ac uwchlaw y cwbl, pa fodd y gallai wynebu yr ysbrydion dychrynllyd, y drychiolaethau brawchus, a'r canwyllau cyrff dirif. Ie, pa fodd y gallesid meddwl am oddef eu gweled. Efe a welai eisoes yn ddychymygal fil o ysbrydion yn codi i lynu o'r ddaear, ac yn ymlusgo ar hyd yr eglwys, a phrin yn ei fryd ef y goddefai y canwyllau cyrff i belydr olaf yr haul ymneillduo, cyn cynyg o honynnt eu llewyrch swyddgar i'w garchardf dychrynllyd.

Eithr gwelodd fod yn rhaid iddo ymdrechu a galw ynghyd holl alluoedd ei feddwl i'w gynnorthwyo, brysiodd at y drysau, a chafoedd un o honynnt wedi cael ei ddiogelu trwy ei drosolio oddi fewn yn unig, tynodd y trosol haiarn yn ol, a foedd am ei einioes, gan lawenhau & llawenydd mwy nag eiddo morwr wedi cyrhaedd ei longborth o ganol y storm ddychrynllyd, neu gybydd wrth gael penadur yn ychwaneg wrth rifo ei arian nag a feddyliodd fod ganddo, neu eiddo mam wrth weled ei phlentyn anwyl, yr hwn a dybiodd oedd wedi marw.

Bernir y gofala efe o hyn ailan, rhag cysgu yn nhiriogaeth priodol yr ysbrydion swyddgar a'r canwyllau cyrff, yn neillduol yn un yn y tymor neu yr amser yr arferant gyflawni eu hystranciau arswydus.

Nytatserp.

Bocae.

Yr Udgorn Diweddaf.

BRENIN Hungaria ymddangosai unwaith yn bruddaidd; ei frawd a ofynodd iddo am yr achos o hyny. Y brenin a'i hatebodd, "O bum yn bechadur mawr yn erbyn Duw, ac nis gwn pa foddi ymddangos o'i flaen mewn barn. Chwarddodd yntau am ben ei eiriau, fel yn rhy ddifrifol a phwysig. Yr ydoedd yn arferiad yn y wlad hono, i'r udganwr chwythu ei udgorn wrth ddrws ty y gŵr oedd i gael ei ddienyddio. Ar hanner nos, y brenin a orchymynodd i'r un peth gael ei wneyd wrth ddrws ei frawd, yr hyn a'i dyehrynnodd yn ddirfawr; a daeth gyda brys at y brenin i ofyn am yr achos o'r weithred. Y brenin a'i hatebodd "O fy mrawd, nis digiaist fi un amser; ond os oedd dyfodiad fy udganwr at dy ddrws mor ddychrynadwy genyt; pa faint mwy ofnadwy i mi fyddai y cyfryw ymddygiad o eiddo Duw.

C-rn-dd-i.

J. R.

Hanesion.

Y BIBL GYMDEITHAS.—Oddiwrth yr Adroddiad Blyneddol ymddengys fod y Gymdeithas hon wedi dosbarthu o'r ystordy cartrefol ac ystordai tramor yn ystod y flwyddyn ddiweddaf wedi cyrhaedd un filiwn cant a saith o filoedd pum cant a deunaw (1,107,518) o gopiau e'r Ysgrythyrau; yr hyn, gyda'r nifer a ddosbarthwyd er sefyddiad y Gymdeitnas sydd yn gwneyd cyfanrif o un filiwn ar hugain (21,000,000) o gopiau. Eu derbyniant am y flwyddyn a fuant yn 95,938*p.* 6*s.* 1*c.*, a'r trauliadau yn 88,831*p.* 1*s.* 2*c.*, yr hyn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n llai o 16,211*p.* 17*s.* 1*c.*

CYNNALEDD DIRWESTOL I GYMRU.—Cynnelir y Gynnadledd uchod yn Abertawe ar y 26ain a'r 27ain o Medi, 1849, pryd y dysgwylir y bydd yn bresennol ugeiniau o weinidogion dirwestol o bob enwad crefyddol drwy Gymru, yn gystal ag eraill a anfonir fel cynnrychiolwyr dros y gwahanol gymdeithasau dirwestol yn y Dywysogaeth. Dymuna y pwyllog, yn y modd mwyaf parchus, alw sylw dirwestwyr Cymru at amcan y Gynnadledd, sef i ymgynghori ynghylch y llwybr mwyaf effeithiol er cychwyniad adnewyddol ar achos dirwest yn y Dywysogaeth. Derbynir yn ddiolchgar bob rhoddion er cynorthwyo i dalu trauliadau y Gynnadledd gan *V. Clutton, Ysw., Strand, Swansea, a W. Watkins, Ysw., Canton Tea Warehouse, Merthyr Tydfil.* Anfoner pob gohebiaeth at y Parch. *W. Edwards, Aberdare*, neu y Parch. *Elias Jacob, Swansea, Ysgrifennyddion.*

Y CHOLERA.—Mae y Parch. J. Franklin wedi ysgrifenu llythyr i'r "Times" yn hysbysu fod y pla hwn wedi lladd llawer yn y plwyfydd cyfagos i Norfolk, a bod ganddo ef ddau dan ei ofal, un o'r rhai hyn yn beryglus i'r eithaf, a chymhwysodd atynt y driniaeth ganlynol, yr hon a atebodd y dyben o'u gwellâu:—Deg dyfervn o chloroform mewn llonaid gwydryn gwin o *frandi*; mae hyn i'w roddi i'r claf bob deng mynyd hyd nes y cilia yr arwyddion ymaith. Mae y *spine* a'r corff i gael eu rhwbio yn dda gyda *spirits of turpentine* cynhes, a'r holl gorff i'w gadw yn gynhes. Cymhwysodd meddyg cyfagos y driniaeth uchod at lawer tra yr oedd y pla yn y gymydogaeth, ac ni bu un o'r rhai oedd dan ei ofal farw.

RHFUAFIN.—Y newyddion diweddaraf o'r ddinas hon, ydyw fod y Rhufeiniaid wedi ymostwng i'r Ffrancod. Ond ni ddywedir eto, pa beth y bwriad a y Ffrancod wneyd ar ol cael meddiant o'r ddinas. Mae pawb sydd yn caru rhyddid yn dymuno na ddianrheddo y Ffrancod eu gwerin-lywodraeth eu hunain, trwy adferu y pab, heb sierhau rhyddid gwladol a chrefyddol i'r Rhufeiniaid. Ac y bydd yr ymdrech sydd wedi cadw y byd gwareiddiedig mewn pryder, yn foddion i sierhau canlyniadau ffwrhythawn i wareiddiad a chrefydd.

Ewrop.—Ymddengys fod cyffroadau y Cyfandir fel yn llonyddu; a bod y frwydr Hungaraidd fel yn tynu at ei therfyn. Mae cydymdeimlad pawb sydd yn caru rhyddid gyda'r Hungariaid, ac eto nis gallwn lai nag ofni trostynt wrth feddwl eu bod yn amddiffyn eu hiawnderau yn erbyn y fath fwyafrif. Mae Ymherawdwr Rwsia yn galw ar ei filwyr i fyned yn erbyn y gwrthryfelwyr Hungaraidd. Ond yr ydym yn hyderu fod y cyffroadau diweddar wedi dysgu Ymherawdwr Rwsia nad trwy nerth eledyf y mae llywodraethu gwledydd Ewrop.

Y FRENINES A'R IWERDDON.—Mae y Frenhines yn bwriadu ymweled â'r wlad hon yn fuan. Dywedir fod pob rhwygfaredd breninol i gael ei adael o'r naill du, fel peth anghyfaddas i gyflwr truenus y wlad. Mae casgliad eto yn cael ei wneyd yn Lloegr ar ran y Gwyddelod. Mae ymdrechiadau yn cael eu gwneyd, dan gyfarwiddiadau Syr R. Peel, i gael gan ddinas Llundain i bwrcasu tir yn mharthau gorllewinol a deheuol y wlad, mewn trefn i ennill eraill i wneyd yr un modd. Os ydyw hyn yn ddichonadwy, diau y gwneir llawer o les trwyddo i'r Iwerddon, o herwydd un achos o'i thrueni, ydyw tlodi y meistradoedd tir.

CALIFORNIA.—Y mae y newyddion o'r wlad hon yn parhau mor obeithiol a chyffrous ag erioed. Mewn llythyr a ddyddiwyd San Francisco, Mawrth 6ed, dywedir—“Cefais gynny, o ddau can dollar yn y mis am fod yn *clerk*, os ymrwymwn am flwyddyn, ond gwell genyf edrych am un tymmor pa beth fedraf wneyd yn y cloddfeydd. Mae y gweitawyr yn y cloddfeydd yn cael o ugain i ddeg dollar ar ugain bob dydd. Mae saer coed da yn cael o bymtheg i ugain dollar y dydd. Nid oes dim yma mor gyffredin ag aur : mae pob creadur tlawd, er na bo ganddo fawr o ddillad ar ei gefn, yn *cario* aur o'i gwmpas. Oddiwrth fy sylwadau fy hun, gallaf ddyweyd nad oedd yr hanesion a glywais cyn cychwyn ddim wedi eu lliwio dros ben y gwirionedd ; y gwirionedd yw, ni ddywedwyd yr hanner. Yn San Francisco a'r holl gloddfeydd, mae pob un a geir yn euog o ladrata yn cael ei grogi heb na barnwr na rheithwyr.”

Mae llawer o lythyrau yn debyg o ran cynnwysiad i'r un uchod, wedi cyrhaedd y wlad hon yn ddiweddar. Ond ymddengys yn nghanol yr aur i gyd fod trueni y rhai sydd yno yn fawr arnynt ; mae amhell ysgrifennydd yn dyweyd, “O na bawn i oddiyma.”

ETHOLIAD BARWN RÖTHSCHILD—Ar ol i'r mesur a basiwyd ddwywaith yn Nhŷ y Cyffredin, o blaid eisteddiad Iuddewon yn y ty hwnnw, gael ei wrthod gan yr Arglwyddi, apeliodd Rothschild ei waith, er ei fod ar y pryd yn etholedig, at etholwyr Llundain, i roddi mantaïs iddynt i'w wrthod neu i gadarnhau eu dewisiad cyntaf. Y maent wedi cadarnhau y dewisiad hwnnw a hyny mewn modd effeithiol. Felly y mae Ty yr Arglwyddi, dan lywodraeth yr Esgobion yn dyweyd na chaiff Iuddewon eistedd yn y Senedd ; ac mae Ty y Cyffredin ac Etholwyr Llunden yn dyweyd y caint. Nid yw yn anhawdd gwybod pwy raid ymostwng.

Y Senedd.

Mae dadl o brys wedi bod ar agwedd y deyrnas. Dygwyd y mater ymlaengan Mr. D'Israeli, y blaenor yn Nhŷ y Cyffredin dros gaethfasnach. Ei amcan ydoedd profi fod masnach Prydain yn gwywo, ei gweithai, dd yn lleihau, a bod ei thresed gaethau wedi eu dinystrio, ac nad oes dim yn ein haros fel teyrnas ond dinistr masnachol, cymdeithasol, a moesol ; a hyny oll fel canlyniaidan masnach rydd â phob gwlad fel eu gilydd. Dylanwyd ef gan Syr Charles Wood, yr hwu a ddefayddiodd bentwr o *figures* i ddangos fod holi gasgliadan Mr. D'Israeli yn gfeiliornus. Gohiriwyd y ddadl, ac yna daeth Syr Robert Peel ymlaen gydag un o'i areithiau gall uocaf dros rydd fasnach. Adolygodd yn fanwl gweithrediad ymarferol y cyfnewidiadau sydd wedi eu gwneyd o blsid rhydfasnach ar ol y flwyddia 1842, a dangosodd mewn go-euni cryf y manteisien lliosog, yn fasnachol ac yn arianol, sydd wedi deili. Oddiwrth gyrraedd eangach ezyddorion rhydd. Mae yr araeth hon yn amddiffyniad meistrig a thrwyndl o'r cyfnewidiadau sydd wedi eu gwneyd.

Y GEINIOGWERTH.

Y Perygl o ddechreu cellwair a Phechod.

Y MAE holol lygriad y natur ddynol mor amlwg, fel nad oes achos ceisio ei brofi, ac nid oes neb yn ceisio gwadu hyn ond rhai eithaf tywyll am Dduw a'i ddeddf. Y mae yn anmhosibl i neb ammheu holol lygriad ei natur, os bydd ganddo radd o adnabyddiaeth o hono ei hun, ac o'r ddeddf. Ond er fod y natur yn holol lygredig, anfynych y mae neb yn syrthio i eithafion mewn pechodau gweithredol, ond trwy gellwair a'r achlysuron i bechod; gan hyny y mae'r Bibl yn ein dysgu i ochel pechod trwy ymgadw rhag yr achlysuron i bechod,—“Nac edrych ar y gwin,” &c.; “Na fydd yn mysg y rhai a feddwant ar win;” “Cadw dy ffordd ymhell oddiwrthi hi, ac na nes a at ddrws ei thŷ hi, rhag i ti roddi dy harddwch i eraill, a'th flyneddau i'r creulawn.” Nid oes odid un yn nechreu ei oes yn bwriadu myned i'r eithafion ac y mae yn gweled eraill ynddynt.

Y mae'r meddwyn a'i agwedd yn ffiadd yn ngolwg y llanc; y mae'r ferch ieuanc yn gresynu rhag cyflwr gwarthus rhai o'i chyd-nabod sydd wedi aberthu eu diweirdeb. Yr oedd y bachgen yn dychrynu wrth weled cymydog yn myned yn llaw'r swyddog i garchar. Pe buasai rhywun yn dyweddwr y rhai hyn, “Y mae yn ymddangos i mi y byddwch chwithau yn yr un sefyllfa; tydi, sydd yn ffieiddio y meddwyn, byddi dithau yn feddw; a thithau syid yn gresynu wrth gyflwr dy gymydogesau, byddi yn warth i'r hon a'th fagodd, a'th goron wedi syrthio oddiar dy ben; a thithau, a grynnodwr wrth weled dy gymydog yn llaw'r swyddog, byddi ryw ddydd fel yntau yn cael dy lusgo i garchar”—byddent yn barod i ateb mewn soriant llidiog, “Pa beth, myfi yn feddwyn, y mae'r enw yn ffiadd genyf, y mae fy natur yn cyffroi pan y gwelaf ei ysgogiadau, neu pan glywaf ei regfeydd a'i lwon—nid oes greadur ar y ddaear mor ffiadd yn fy ngolwg a dyn meddw. Pa beth, myfi yn buten; y mae'r gair yn fy mrawychu, ac y mae meddwyl am wisgo'r enw yn peri i mi wrido, byddai yn well genyf farw na byw gyda'r fath gymeriad gwarthus! Pa beth, myfi yn lleidr ac yn cael fy llusgo i garchar; y mae holl deimladau fy nghalon yn cynhyrfu wrth glywed y fath ymadrodd.” Dychmygwn ei fod yntau yn dywedyd yn arsaidd, ac yn sobr, “Na ddigwch wrthyf, canys nid wyl yn eich cyfrif yn waeth nag eraill, ond yr ydych yn dechreu cellwair a'r achlysuron.” Onid wyt ti yn dechreu caru blas y ddiod sydd yn meddwi, onid oes awydd am dani yn dechreu magu ynot, ac onid yw ymddyddanion y dafarn yn dechreu dy foddhau. Y mae maglau yn cael eu gwau am danat, a thithau heb ystyried—yr wyt wedi myned ymhell i dir y meddwyn dan ei ffieiddio. Onid wyt tithau yn dechreu ymhyfrydu mewn cymdeithion llygredig, onid yw y gwylder cyntefig yn darfod? Onid wyt ti yn dechreu edrych ar bethau y buost yn eu

ffieiddio, i'r raddau yn ddiniwed, yn arfer y wlad ac yn ddull pobl ieuainc gyffredin; onid yw cydeistedd trwy'r nos, neu gydorwedd, yn llai anghymeradwy gan dy feddwl nag y buont. Goddef wirionedd: yr wyt ar ben y ffordd i'r eithafion ac yr wyt yn eu ffieiddio. Bu adeg pan yr oedd yr isaf ei chymeriad heddyw yn sefyll yn y fan yr wyt ti yn awr. Yr oedd ei chymydigion yn ei pharchu, yr oedd ei chymeriad yn uchel, yr oedd ganddi ofal am ei henw da: yr oedd edrych ar ferch wedi colli ei choron yn ei gresynu, nis medrai ymddyddan am dala heb gywilyddio a gwrido; ond trwy ddechreu cellwair a'r achlysuron i bechod, hi syrthiodd i'r pydew, ac y mae pawb yn ei ffieiddio; ac y mae'n ymddangos i mi dy fod dithau ar y llithrigfa, canys yr wyt yn dechreu cellwair a'r achlysuron. Onid wyt tithau yn dechreu chwennych eiddo dy gymydog? enid lled ddiniwed yn dy olwg yw cymeryd rhywbeth bychan? onid yw dy galon yn goddef i ti gadw eiddo y gwyddost mai arall yw ei berchenog? yr wyt yn dechreu cellwair a gwrion a arweiniodd eraill i fod yn lladron ac yn llofruddion, nes dybenu eu gyrfa ddrygionus ar y crogbren. Nid oes ond ychydig flyneddau er pan yr oedd y cymydog a welaist yn llaw y swyddog yn sefyll ar y tir yr wyt ti arno heddyw; yr oedd wedi dechreu gwyro oddiar lwybrau gonestrwydd manwl, yr oedd egwyddor o anonestrwydd yn cael maeth ac yn dechreu gweithredu, ond nid oedd yno neb yn ei ddrwgdybio, ac nid oedd yn bwriadu tori tŷ na sefyll ar y ffordd; ond trwy gallwair a g'anonestrwydd fe gryfhodd y duedd, ymwerthodd i wneuthur drwg, a daeth, fel y gwelaist, o'r diwedd i'r ddalfa; ac y mae yn ymddangos i mi, fy nghyfaill ieuanc, dy fod dithau yn dechreu gwyro, ac mae'n anmhosibl gwybod yn mha le y dybena y gwyriad lleiaf. Addefodd un arddiwrnod ei ddienyddiad, mai y cam cyntaf tua'r fath ddiwedd ofnadwy oedd, lladrata *wyau* o ysgubor ei feistr. Addefodd un arall yn yr un amgylchiad sobr a gwarthus, mai dwyn pres o *bunced* ei fam oedd y weithred anonest gyntaf a gyflawnodd, ond iddo fyned rhagddo nes llofruddio ei gymydog er mwyn cael ei arian!

Y mae gan ein cymydigion ddiareb, "Yr hwn a ladrato *bin*, fe ladrata o'r diwedd beth mwy." Ac fe ddywedai ein hynafiaid ninnau, mai "Deuparth gwaith yw ei ddechreu." Ac er i chwi eich tri gyffroi yn aruthrol pan y rhoddais dybiaeth y gallech ddybenu yn yr un sefyllfa a'r rhai yr ydych yn gresynu wrth eu gweled; ond y mae'n ymddangos i mi eich bod wedi myned haner y ffordd, yr ydych wedi dechreu cellwair a phechod, yr ydych wedi dechreu gwyro, yr ydych wedi tori'r iâs: y mae'r cywilydd a'r boen yn llai. Efallai fod cyflawni gweithred ddrwg yn awr yn llai o flinder i'r gydwybod nag yr oedd weddwl am ei chyflawni cyn dechreu. Y mae chwant wedi dechreu eich tynu a'ch llithio; y mae chwant wedi ymddwyn ynoch, ac y mae yn dechreu esgor ar bechod gweithredol, ac y mae ar y ffordd at orphen, sef esgor ar farwolaeth, yn drueni anserol a thragywyddol.

Y mae cellwair a'r achlysuron i bechod wedi cwympo llawer yn archolledig, y mae hyn wedi lladd llawer o wyr grymus. Dyma'r

cam cyntaf o eiddo ein rhieni yn Eden tuag at dynu dinystrar holl ddynolryw. Dechreuodd Effa gellwair a'r demtasiwn; hudodd Adda i fwyta y ffrwyth gwaharddedig, a thrwy hyn syrthiodd dynoliaeth dan deyrnasiad pechod a marwolaeth. Pwy a allasai feddwl y buasai Dafydd, gwr wrth fodd calon Duw, yn treiglo i'r fath bydewau? Ond trwy gellwair a'r achlysuron i bechod, fe'i maglwyd, ac fe'i rhwydwyd, ac fe'i cwymppwyd. Yr oedd Dafydd yn annhraethol bell oddiwrth fwriadu cyflawni y fath bechodaun pan yr esgynodd i nen ei dŷ, ond fe edrychodd ar wraig ei gymydog nes ei chwennychu, a'r canlyniad oedd ei chymeryd, godinebu, llofruddio, a thynu blinder i'w dŷ holl ddyddiau ei einioes. O Dafydd, Dafydd, y mae darllen dy hanes yn peri i mi wylo, ac ofni, a gwyliau, a gweddio; ac os syrthiodd y cadarn, pa beth ydym ni i gellwair a'r achlysuron i bechod. Dysged pawb, oddiwrth hanes y gŵr wrth fodd calon Duw, y mawr berygl o ddechreu chwareu a phrofedigaeth. Y mae llawer yn edrych ar y peth y maent yn dechreu cellwair a g ef yn fychan a lled ddiniwed, ac yn barod i edywedyd, "Onid bychan yw?" Ond er mor fychan yw mewn ymddangosiad, dichon fod iddo ganlyniadau mawrion a phwysig. Gelliad edrych ar waith Lot yn cymeryd gwin gan ei ferched yn beth bach, ond fe fu iddo ganlyniadau pechadurus a gwarthus iawn. Nid oedd cellwair a Dalila, a chysgu ar ei gliniau, yn ymddangos ond peth bychan; ond trwy hyny y collodd Samson ei nerth, ei lygaid, a'i fywyd.

Y mae a'r pechod cyntaf fel peiriant nerthol, yn tynu cyfres ar ei ol, y mae a'r naill bechod yn parotbi y ffordd i bechod arall, ac yn gosod ar y dyn fath o orfod i'w gyflawni. Y mae yn gorfod cyflawni y naill er mwyn ceisio cuddio y llall; ac y mae a'r duedd at bechod yn cryfhau wrth ymarfer, ac y mae a'r ymarferiad yn dallu y meddwl, ac yn serio y gydwybod. Yr oedd y gydwybod yn tystio yn erbyn yr ysgogiad cyntaf. Ond gan na wrandawyd ar ei llais, hi dawodd—nid yw yn tystio mwyach; gan hyny, nid oes dim o fewn y dyn yn rhwystr iddo gyflawni pechod. Y mae yn agored o'i ran ei hun i redeg i bob drygioni, a'r ysgogiad cyntaf oedd dechreu cellwair a phechod. Y mae dechreu cellwair a phechod, yn debyg i ddechreu treiglo careg; mae'n rhaid fod nerth i roi y tro cyntaf, ac y mae a'r ysgogiadau cyntaf yn arafaidd, ac y mae yn rhaid fod dwylaw a throsolion odditani. Ond yn fuan y mae a'r gareg yn dechreu myned wrth ei phwys, ac yn casglu nerth wrth dreiglo; ac y mae yn myned yn fwy chwyrn bob tro nes cyrhaedd y gwaelod. Pan o ddeg i ugain oed, yr oedd y temtiwr a'i offerynau yn gorfod a'r fer dichell ac egni ercael y bachgen neu a'r eneth i ymarfer a phechod; ond wedi treiglo yn araf am dalm o amser, y maent o'r diwedd yn myned yn chwyrn, gan watwor pob peth sydd yn ceisio eu rhwystro. Y mae eu hagwedd yn dywedyd, treiglo fynwn er gwaethaf puwb nes treiglo i'r pydew diwaelod. A dyma y rhai a welwyd unwaith yn ofni ac yn petruso; ond ar ol cychwyn y maent yn treiglo gyda chyflymdra arswydus. Y mae cellwair a'r achlysur i bechod yn gyffelyb i fyned i gyrraedd tyniad y trobwll. Y mae llawer yn boddi yn anfwriadol

trwy fyned yn rhy agos i sugh y trobwll—maent yn cael eu tynu a'u troi ganddo nes colli eu bywyd ; yr oedd y dyn yn bwriadu chwareu ychydig yn ymyl y llŷn, nid oedd yn meddwl myned i'r pwll tro ; ond fe aeth i chwareu mewn lle peryglus, collodd hunan-feddiant, a chollodd ei fywyd. Myned i chwareu yn ymyl y trobwll yw dechreu cellwair & phechod, y mae yn sugno y truan yn raddol, gan ei droi a'i ddyrys, a'r diweddf yw suddo byth, byth, yn y llŷn sydd yn llosgi o dan a brwmstan. Nid oedd y creadur truenus yn bwriadu myned mor bell pan y cychwynodd—dim ond cydymffurfio gradd & dull yr oes, a boddhau ychydig ar ei dueddiadau llygredig : ond yr oedd yn y trobwll cyn ystyried, yr oedd wedi ei orchfygu cyn iddo wybod, yr oedd yn nghrafangau haiarnaid ymarferiad pechadurus cyn iddo feddwl fod perygl ; a phan y meddyliodd am ddychwelyd, cafodd wybod mai caethwas ydoedd, wedi ymwerthu i bechod. Yma iawodd & ilwybrau rhinwedd, aeth drosodd i dir mwyniant pechod, y mae yn awr yn garcharor gan chwantau enawadol. Dywedodd un wrthyf ei fod yn gaeth gan flys a'n y ddiod feddwol cyn iddo ystyried. Dywedodd un arall a adwaenwn, "Y mae pob ymdrech o'm heiddo i orchfygu fy chwant yn ofer, yr wyf wedi *ildio* y byddaf yn ddyn colledig byth !!" Y mae dynion o'r diweddf yn ymollwng gan ddywedyd, "Nid ees ubaith ; ond ar ol ein dychymygion ein hunain yr awn, a gwnawn bob un amcan ei ddrwg-galon ei hun."

O Ieuencyd ! gochelwch rhag dechreu cellwair & phechod ! gwn fod cannoedd o honoch yn ffieiddio yr eithafion ; y mae'r meddyw a'r glinebwr, y lleidr a'r celwyddwr, yn ffiadd yn eich golwg. Gwyl-iwch gychwyn y ffordd sydd yn arwain yn anocheladwy i'r eithafion hyn ; cedwch yn ddigon pell oddiwrth hob achlysur i bechod. Os mynwch beidio myned yn feddwon, na chyffyrddwch & r' peth sydd yn meddwi—hwn yw yr unig dir diogel. Os mynwch gadw eich diweirdeb, gochelwch rhag cellwair & r' achlysuron i afleiddid : edrychwchar eich diweirdeb fel y peth nesaf at eich bywyd, ffowch rhag yr achlysuron i anniweirdeb fel rhag llofrudd, ffieiddiwrch yr arferiad gwarthus o gydorwedd. Y mae yn warth i rai o siroedd Cymru fod y fath arferiad yn cael ei chadw, y mae yn gweddu i benau teuluoedd i ymriddi i lanhau eu tai oddiwrth y fath ffieidd-dra. Y mae'r budredd a godwyd i'r golwg yn Adroddiadau y Dirprwywyr yn galw arnom ddeffro i garthu y wlad.

O, fy narllenwyr ieuainc ! meddyliwch fod genych waith mawr i'w wneyd, ac nas gellwch hebgor adeg i gellwair & phechod—y mae genych dragwyddoldeb maith i barotdi ar ei gyfer. Defnyddiwrch eich amser gwerthfawr i ddarllen llyfrau buddiol, fel y cynnyddoch mewn gwybodaeth. Cedwch yn eich meddwl ystyriaeth wastadol o bresennoldeb Duw, bydd hyn yn debyg iawn o'ch cadw rhag cellwair & r' achlysuron i bechod ; gwediwrch yn daer am ffydd, yr hen sydd yn rhodd Duw, a thrwy ffydd yn ngwaed yr Oen, cewch fudd-ygoliaeth ar bob pechod, a chredwch fod pleser annhraethol well a rhagorach yn ngwaenraeth Crist nag sydd mewn cellwair a phechod.

Llanfair.

R. JONES.

Dywediadau Philip Henry.

1. Wedi iddo gyrhaedd deg ar hugain oed, ysgrifenodd yn ei ddyddlyfr, "Hyn oedd oedran Alexander pan y gorchfygodd y byd mawr, ond nid wyf fi wedi gorchfygu y byd bychan, *fy hun*."

2. Yn holl gyfniewidiadau ei fywyd, ei reol oedd i ddilyn rhaglunieth, ac nid ei gorfodi.

3. Pregethai ar yr achlysur o farwolaeth pawb—cyfoethog a thlawd, hen ac ieuanc; edrychai ar hyn yn adeg i wneuthur daioni, a dywed ei fod trwy hyn yn gosod i mewn aradr y gair ar ol i Ragluniaeth barotöi y tir.

4. Fel cymhelliaid iddo ei hun ac eraill i weithredoedd o drugaredd, dywedai, "Nid dyn ynfyd ydyw hwnw sydd yn rhoddi yr hyn nis gall gadw, pau y mae yn sicr o gael ei wobrwyd a'r hyn nis gall golli.

5. Wrth gyfeirio at ddadleuon yr amseroedd hynny, dywedai, "Nid gwahaniaeth barn sydd yn gwneyd niwed i ni, ond y dull y dygir y dadleuon ymlaen, sydd yn codi oddiar y gwahaniaeth hwnnw.

6. Yn 1658, bu farw Arglwyddes Puleston—"Yr oedd hi," eb efe, "y cyfaill goreu oedd genyf ar y ddaear: ond y mae fy nghyfaill yn y nefoedd yr un o hyd; ni ad efe fi ac ni wrthyd fi."

7. Y rhai a fynant gysur wrth gyfniewid eu sefyllfa, rhaid iddynt edrych ati, na ddygant ddim o euogrwydd eu sefyllfa unigol i'r stâd briodasol. Mae presennoldeb Crist mewn priodas yn troi y dwfr yn win; ac fe ddaw efe os gwahoddir ef trwy weddi.

8. Dywedai yn fynych, "Yr ydym yn wirioneddol yr hyn yr ydym yn berthynasol. Nid yw o gymaint o bwys pa beth ydym yn y cyhoedd, ag ydyw pa beth ydym yn y teulu.

9. Gweddai yn fynych ar Dduw i'w barotöi i gyfarfod yr amgylchiad nesaf, pa beth bynag fyddai hwnnw; a byddai yn anewyllysgar i neb fyned o'i dŷ yn y boreu cyn yr addoliad teulu-aidd, gan ddwyn ar gof i'w gyfeillion, "Nad yw ymborth a gweddi yn rhwystri i daith."

10. Deisyfiad yn ei weddi deuluaidd yn fynych fyddai "iddynt gael grës i fwyl fel y dylai gweinidog, a gwraig gweinidog, a phlant gweinidog, a gwasanaethyddion gweinidog fwyl; fel na feier ar y weinidogaeth mewn dim.

11. "Nis gallwn ddysgwyl rhy fach oddiwrth ddyn, na gormod oddiwrth Dduw."

12. Byddai yn bur ewyllysgar i roddi benthyg arian i'w gymyd-ogion tlodian mewn anghen; a dywedai weithiau fod mwy o gymwynasgarwch mewn llawer o amgylchiadau, mewn rhoddi benthyg nag mewn rhoddi, am ei fod yn rhoddi gorvod ar y neb a fenthyciai i fod yn gyflawn ac yn ddiwyd.

13. "Yr ydym yn fwy tueddol i wneuthur *amgylchiadau* addoliad cyhoeddus yn destunau ein hymddyddan, nag ydym i gymeryd y sylwedd."

14. Mae yr arch yn ymdeithydd sydd yn talu yn dda am ei chroesawu. A phan gafodd Crist fenthyg cwch Pedr i bregethu o

hono, buan y talodd yn ol iddo y gymwynas â dalfa fawr o bysgod.

15. Ei reol ydoedd i beidio sôn wrth neb am wendidau eraill nes ymddyddan yn gyntaf a'r troseddwr ei hun.

16. Cyfrifai ddarlleniad cyhoeddus yr ysgrythyrau, mewn cynnulleidfa grefyddol, yn ordinhad ddwyfol. Cymharai ddarlleniad y gair i waith un yn taflu rhwyd i'r dwfr; ond ei esbonio yn debyg i agor y rhwyd, yr hyn sydd yn ei wneyd yn debygach i dgal pysgod.

17. "Am bob ugain mlynedd o'n bywyd, yr ydym yn mwynhau mil o Sabbathau, am bob un o ba rai y mae yn rhaid rhoddi cyfrif."

18. Dywedai wrth ei blant gyda golwg ar ddewisiad cydymaith mewn priodas, "Boddiwch yr Arglwydd, a boddiwch eich hunain, ac yna ni anfoddiwch fi."

19. Pan y ceisiai rhai o'i gyfeillion ganddo ei arbed ei hun, dywedai, "Bydd yn ddigon buan i orphwys yn y bedd; i ba beth y gwnaed canwyllau oni i losgi."

20. Ychydig cyn ei afiechyd a'i farwolaeth, gofynodd un iddo pa fodd yr ydoedd. Atebodd, "Y mae yr ysglodion yn neidio i ffordd yn gyflym, fe syrth y pren yn fuan." Dywedai yn fynych, "Peth difrifol ydyw marw—y mae'n ddigon o waith ei hun."

21. "Mae dyledswydd yn eiddo i ni, mae canlyniadau yn eiddo Duw. Yr enaid ydyw y dyn, ac o ganlyniad y peth hwnnw ydyw y goreu i ni sydd yn oreu i'n heneidau. Mae y diabol yn ein twyllo ni o'n holl amser trwy ein twyllo o'r auser presennol. Mae pob gras yn cynnyddu yn ol fel y mae cariad at air Duw yn cynnyddu. Duw, yr hwn ydyw y cyntaf a'r goreu, a ddylai gael y cyntaf a'r goreu. Mae rhan yn Nghrist yn rhan dda. Mae pob peth yn dda sydd yn diweddu yn dragwyddol dda. Nid yw amser a phethau amser yn ddim mewn cymhariaeth i dragwyddoldeb a puethau dragwyddoldeb.

22. Ni oddefai i neb gael ei absenu yn ei glywedigaeth ef; ac adgofiai i'r hwn a lefarai yn ddrwg am neb yn ei gefn, y gyfraith yn *Lef. xix.* "Na felldithia y byddar."

23. Pan y ceisiai rhai poöl zelog ganddo brezethu yn erbyn arferiou coegfach mewn gwisgoedd, dyweiai mai nid ei waith ef oedd hyny; ond iddo ef gael dynion at Grist, y darfyddai y mddan-gosiadau felly o honyt eu hunain. Eto yr oedd yn wrthwynebol i bob gwagedd a ffoledd mewn gwisgoedd: ac ni oddefai hyny yn y rhai oedd o fewn cylch ei dylanwad: a'i reol ydoedd, "na ddiylem fod mewn pethau felly yn ddylluanod nae yn eppâod—yn hynod am fod yn y ffasiwn nae o'r ffasiwn."

24. Mewn atebiad i'r rhai a'i gwawdient am fod ei gapel wedi bod yn ysgubor, dywedai, "mai nid peth newydd oedd i lawr-dyrnu gael ei droi yn deml."

25. Yr hwn sydd ganddo gydwybod dywell, nad yw yn gweled dim, cydwybod farw nad yw yn teimlo dim, a chydwybod fud nad yw yn llefaru dim, sydd mewn cyflwr mor dr uenus ag y gall dyn fdd y tu yma i usfern.

26. Wrth bregethu ar weddi Crist dros ei ddysgyblion, “*Fel y byddont oll yn un,*” dangosai, er yr holl raniadau sydd yn yr eglwys, eto fod yr holl saint, mor bell ag y maent wedi eu sancteiddio, yn un—yn un mewn perthynas, un praid, un teulu, un adeilad, un corff, un bara; eu bod yn un mewn delw a thebygolrwydd; o un duedd ac archwaeth, un yn eu hamcan a’u gweddiau, yr un etifeddaeth sydd iddynt; a’u nod hefyd yn un mewn barn a meddwl, er eu bod yn gwahaniaethu mewn rhai pethau; eto y mae y pethau y maent yn cytuno yn eu cylch yn llawer lliosocach a mwy eu pwys na’r pethau y maent yn gwahaniaethu yn eu cylch; y maent o un feddwl am bechod, mai y drwg mwyaf ydyw; am Grist, ei fod ef oll yn oll; am ffafir Duw, ei fod yn well na’r bywyd; am air Duw, ei fod yn well na miloedd o arian ac aur.”

27. Wrth ymddyddan am foddlonwydd, dywedai, “Pan mae y meddwl a’r seyllfa yn cyfarfod, ysa y mae boddlonwydd. Yn awr, mewn trefn i hyn, y mae yn rhaid dwyn y seyllfa i fyny at y meddwl; ac y mae hyn nid yn unig yn afresymol, ond yn anmhosibl, o herwydd fel y mae y seyllfa yn codi, y mae y meddwl yn codi hefyd; neu y mae yn rhaid dyfod â’r meddwl i lawr at y seyllfa, ac y mae hyn yn bosibl ac yn rhesymol.” Dywedai hefyd, “Nad oes un seyllfa o honi ei hun a wna ddyn yn ddedwydd heb ras Duw. O herwydd yr oedd Haman yn anfoddllawn mewn llýs, yr oedd Ahab yn anfoddllawn ar orsedd, yr oedd Adda yn anfoddllawn yn mharadwys; ie, ac nis gallwn fyned yn uwch, yr oedd yr angelion a syrtiasant yn anfeddlawn yn y nefoedd.”

28. Yn ei ddyddlyfr, y mae y dywediad canlynol o eiddo dyn duwiol oedd yn arfer gwrandaw arno ef, ac fe ddywed iddo effeithio yn fawr arno:—“Ymae yn haws genyff fyned chwe’ milltir i wrandaw pregeth, nag ydyw genyf dreulio chwarter awr mewn myfyrdod a gweddi am fendith arni wedi dychwelyd adref.”

Y ddau Leidr.

AML yr ydym yn condemnio yn eraill yr hyn yr ydym yn ei arfer ein hunain.

Alexander fawr, yn ei babell—dyn âg edrychiad creulawn, wedi ei gadwyno a’i lyffetheirio, yn cael ei ddwyn ger ei fron.

Alexander. “Pa beth, ai tydi ydyw y lleidr Thraciaidd, am orchestraion pa un yr ydwyf wedi clywed cymaint?”

Lleidr. “Yr ydwyf yn Thraciad, ac yn filwr.”

A. “Milwr!—leidr, anrheithiwr, a llofrudd! pla y wlad! Gallaf anrhýdeddu dy wroldeb; ond y mae yn rhaid i mi ffieiddio a chosbi dy droseddau.”

Ll. “Pa beth a wnaethum fel y gellit gwynaw o’i herwydd.”

A. “Oni ddarfu i ti herio fy awdurcod, tori yr heddwch cyffredin, a threulio dy fywyd i niweidio personau a meddiannau dy gyd-ddeiliad?”

Ll. “Alexander! yr ydwyf yn garcharor i ti—y mae yn rhaid mi wrandaw yr hyn a ewyllysi ddywed yd, a dyoddef y gosb

ewyllysi roddi ; ond y mae fy enaid yn anorchfygdedig ; a phe bawn yn ateb i dy holl edliwiadau, atebwn fel dyn rhydd."

A. "Llefara yn rhydd. Pell oddiwrthyf a fyddo imi gymeryd mantais o fy ngallu i ddystewi y rhai gyda phwy yr ydwyf yn gweled yn dda ymddyddan."

Ll. "Rhaid imi yna ateb dy ofyniad gydag un arall. Pa foddy' treuliaist ti dy fywyd ?"

A. "Fel arwr. Gofyn i enwogrwydd (*fame*) a bi a ddywed wrthyt. Ymhlih y gwrol bûm y mwyaf gwrol ! ymhlih penaduriaid, y mwyaf godidog ! ymhlih concwerwyr, y galluocaf."

Ll. "Onid ydyw enwogrwydd yn llefaru am danaf finnau hefyd ? A fu erioed wroliach arweinydd ar ddewrach mintau—'fu erioed ; ond yr ydwyf yn casâu ymfrost. Tydi dy hun a wyddost na chefais fy ngorthrechu yn hawdd."

A. "Eto, pa beth ydwyt ond lleidr : lleidr anonest a gwrthun."

Ll. "A pha beth ydyw concwerwr ? Oni ddarfu i tithau hefyd fyned o amgylch y ddaear fel gwag ysbryd (*genius*) drygionus, yn deifio ffirwythyyd heirdd heddwch a diwydrwydd : anrheithio, difrodi, lladd heb gyfraith, heb gyflawnder, yn unig er boddio chwant annigonol am lywodraeth ? Yr hyn a wnaethum, i gymydogaeth unigol, gyda chant o ganlynwyr, a wnaethost ti i genedloedd eyfain gyda chan' mil. Os yspeiliais i personau, andwyaist ti frenineedd a thywysogion. Os llosgais ychydig bentrefi, difethaist ti deyrnasoedd a dinasoedd mwyaf llwyddiannus y ddaear. Beth, gan hyny, ydyw y gwahaniaeth, ond hyn—gan dy fod wedi dy eni yn frenin, a minnau yn ddyn cyffredin; daethost yn lleidr aiwy galluog na mi ?"

A. "Ond os cymerais fel brenin, rhoddais fel brenin. Os dymchwelais ymherodraethau, sylfaenais rai mwy. Megais gelfyddydau, masnach, ac athroniaeth."

Ll. "Minnau hefyd, a roddais yn rhydd i'r tlawd, yr hyn a gymerais oddiar y cyfoethog. Sefydiais drefn a dysgyblaeth ymhlih y rhai mwyaf anwar ; ac estynais fy llaw er amddiffyn y gorthrymedig. Gwn, mae'n wir, ychydig o'r athroniaeth y soniaist am dani ; ond credaf nas gall yr un o honom ein dau wneyd iawn i'r byd am y drygau a wnaethom iddo."

A. "Gadawa fi—cymerwch ymaith ei twymau, ac ymddyggwch ato yn dda. A'ydym ni mor debyg ?—Alexander i leidr ! Gadewch i'm ystyried."

W. E.

Nodiadau Ysgrythyrol.

"Pwy a gredodd i'n hymadrodd ? ac i bwy y dadguddiwyd braich yr Arglwydd ?" *Essay* liii. 1. Y mae rhai yn barnu mai ystyr y geiriau hyn yw, fod y pethau a ddywedir yn y bennod o'r blaen, ac yn y bennod hon, mor rhyfeddol fel ynaent bren yn anghredadwy ; gan na ddadguddiwyd braich yr Arglwydd mewn modd cyffelyb erioed cyn hyny. Pwy a ddichon gredu i'n hymadrodd ; ac i bwy y dad-

guddiwyd braich yr Arglwydd fel hyn? Yn y goleu hwn maent yn gyfystyr a'r bennod o'r blaen.

Adn. 8. "Pwy a draetha ei oes ef?" Y mae Jarchi yn barnu mai yr ystyr yw, Pwy a draetha gystuddiau ei oes ef? Kimchi a'u hesbonia fel hyn, Pwy a draethasai, y buasai ei oes ef mor hir? Ond y mae Rosenmüller yn darllen fel y canlyn:—Pwy o ddynion ei oes ef oedd yn ystyried, pan dorwyd ef ymaith o dir y rhai byw, ac mai am gamwedd fy mhobl y rhoddwyd pla arno ef.

Adn. 10. Saesneg, "*When thou shalt make his soul an offering for sin.*" Nis gall fed un ammheusaeth nad y cyfeithiad Cymraeg sydd yn gywir. Felly y deallir y geiriau gan Rosenmüller.

Ystori y Fflag Wen.

GELLID meddwl mai yr holl ystyriaeth gyda rhai yn newisiad eu crefydd ydyw, pwy yw y blaid gryfaf; a chyda hōno yr ymunant, pa fath bynag a fyddo. Yr ymofyniad mawr gydag eraill ydyw, pa le y mae mwyaf o elw i'w ddysgwyl; ac fel y ei, ant i ganlyn y dosbarth y bydd y fased a'r bwyd yn ei ganlyn. Ond yn anad un peth mae bod yn bobl llawer o honom ni, y rhai ydym blant y dyn hwnnw yn yr ardd gynt, a fu yn dringo i geisio bod gogyfuwch & Duw. A'r sawl ag y byddo hyn yn gorwchreoli pob ystyriaeth arall yn eu meddyliau, crefydd y cyrifolion — y gwyr mawr — crefydd y llywodraeth a ddewisant hwy, pa fath bynag fydd hono; a hyny er mwyn cael eu golygu yn wyr mawr, ac yn gyfrifolion eu hunain. Gwell gan y rhai hyn, os rhaid, fyned i uffern ymhliith y cyrifolion, na myned i'r nef, ymhliith rhyw boblach gyffredin. Un a lywodraethid gan y naill neu y llall o'r ystyriaethau hyn, os nad yr oll ynghyd i raddau, oedd y Dalyell ag y mae ei enw yn gysylltiedig a'r hanes a ganlyn. Llawer o'r cyfoethogion yn Ysgotland, fel yntau, yn amser Siarl II. a'i frawd Iago, pan yr erlidid yno yr Henaduriaethwyr, a gymerent blaid yr Esgobyyddion. Yr oedd yno eithriadau anrhayeddus, y mae'n wir, ond felly gwnai y cyffredinolrwydd o'r cyfoethogion. A hyny yn ddiau am mai felly y gallent ochel erlidigaeth, a diogelu eu meddiannau; ac hefyd am mai Esgobyyddiaeth ar y pryd oedd crefydd y llywodraeth a'r gwyr mawr — crefydd y cyrifolion. Mewn trefn i hudo y fath hyn tua dinestr, nid rhaid i'r diafol ond ymddangos dipyn yn gyfrifol, a chydgerdded a hwy ar y ffordd lydan, ac ymgrymu, gan roddi ei fawd ar ei gap yn fynych, a'u cyfenwi yn *syrs* yn ddigon aml, a dywedyd fod y gŵr cyfrifol, Meistr hwn a hwn, ymlaen, a bod y teulu cyfrifol fel ar fel ychydig o flaen hyny; dim ond hyn, hwy a'i canlynant yn ddiddig i'r wlad lle na bu yr hyn y maent hwy yn sychedig am dano, sef cyrifoldeb, erioed o fewn ei therfynau.

Gwisgwyd y Dalyell hwn, fel y gwisgid y cyffredin o gyfoethogion o'i fath yn Ysgotland ar y pryd, a llawn awdurdod yn y dos-

bARTH o'r wlad lle y preswylfa, er attal yr Henaduriaethwyr i gynnal eu cyfarfodydd crefyddol yn un man o fewn y tarfynau. Ei ddosbarth ef oedd swydd Dumfries ; a gallwn feddwl nad oedd yn ddiffygol o ewyllys i wneuthur yn ol yr awdurdod a roddwyd iddo hyd yr eithaf.

Ond dygwyddodd un tro fod y boneddwr hwn yn myned trwy le a elwir Morfa Gafin, ac yn ei ganlyn, wrth fel y dywedir, un gwas yn unig, sef ei was *lifrai*. Morfa Gafin sydd le anial yn mhlwyf Closeburn, a mynach y cychwyd yno ar amser y Cyfammod gan y pererinion ; a byddai anghyfanedd-dra ac unigrwydd y lle yn noddfa iddynt hwy. Ond fel yr oedd y boneddwr yn myned dros y morfa, gan gyfeirio ei ffordd tua ei breswylfa, yr hon oedd gerllaw Dyfroedd *AE*, daeth yn ngwrth i ddyn yn gorwedd ac yn cysgu yn drwm yn y llafrwyn gerllaw y llwybr troed ; a'r cefyl ar yr hwn y marchogai Dalyell a ffroenodd mer uchel fel y deffridd y dyn ; ac yn y fan efe a neidiodd ar ei draed, ond yn ebrwydd gwelai ei fod yn mhresennoldeb ei elyn. Canfyddodd Dalyell mai ffôadur ydoedd, ag oedd wedi dyfod i ymguddio yn y morfa. Ond pan y gorchymwynwyd iddo ei roidi ei hunan i fyny yn garcharor, nis mynai y dyn wneuthur, ond safai yn hunan-amddiffynwr. Dalyell gan hyny, gan fethu a goïdef cymaint a hyny o ddiystyrwch ar ei awdurdod, a neidiodd oddiar ei geffyl, a chan ymafiyd yn ei gleddyf, o anferth faintioli, elai ymlaen at y Cyfammodwr, a hyny heb ammheu dim, gellir meddwl, na buasai yn penderfynu y mater yn ebrwydd trwy nerth ei fraich ei hunan yn unig. Ac yn ymddygiad, a chan arfer iaith broliwr o filwr cyffylog, dywedai wrtho, y gwnelai efe ef ei garcharor, neu ynte y rhoddaei efe ef yn gorff marw ar y merfa. Ond nid oedd Dalyell wedi bwrw y draul yn ddigon manwl mae'n eglur ; canys yr oedd y Cyfammodwr yn ddyn cryf a gwrol, ac hefyd yn un a fedrai drin cleddyf llawn mor fedrus a'i wrthwynebwr tauog, a hyny gafodd Dalyell ei ddeall yn fuan er ei ddychryn. Mae y dyn a erfodir yn ddisymwth i sefyll i amddiffyna ei fywyd, yn cael ei lenwi yn y fan a gwroldeb a phenderfyniad ; y cyfryw y gallai efe ei hunan, mewn amser o lai o berygl, feddwl ei fod yn holol analluog i arddangos y fath. Ar y cyntaf, yr oedd yr ymdrech yn ymddangos yn lled gyfartal, a'r canlyniad yn ammhëus ; ond y Cyfammodwr, trwy nerth ei fraich a'i fedruswydd, a thrwy gael hap, a chwyrndridd y cleddyf o ddeheulaw Dalyell, a chan oblygu ymlaen, efe a gyfododd y gloewlafn oddiar lawr, ac yna gwrthsafoedd ei elyn a'i gleddyf ei hun. Yr oedd Dalyell erbyn hyn wedi syrthio i'r ddalfa ; ac yn eithaf ymwybodol o'i berygl, erfyniai drugaredd y dyn iddo, yr hwn yr oedd efe mor haerllug ac adgas wedi ei gyffroi i ddigofaint. Y Cyfammodwr buddygoliaethus, gan nad oedd ynddo ef un dynuniad am gymeryd ymaith fywyd ei erlidiwr, a ddywedodd y gwnelai efe ei arbed ar un ammod. "Mi a ymostyngaf i unrhwvw ammodau," ebe Dalyell, "ag y gweloch chwi yn dda eu rhoddi." "Mae'r ammod yn un hynod-hawdd," dywedai y Cyfammodwr, "ac nad yw mewn un modd yn gostus i'w gyflawni ;

nid ydyw ond yn unig hyn,—pan byddoch chwi yn erbyn rhywraig o'r Cyfammodwyr, neu yn myned i chwalu rhyw gyfarfod, os bydd i chwi weled fflag wen wedi ei rhoddi i fynu ar bastwn neu ffon, bod i chwi roddi heibio yr erlyniad, a pheidio aphonyddu y cyfarfod.” Ymddangosai hyn i Dalyell yn beth ysgafn a bychan iawn pan rhoddid ef yn y glorian, a'i fywyd ef yn y pen arall, ac felly cydsyniodd heb unwaith wrthdadleu.

Wedi i gydymbeidiad fel hyn gael ei lunio a'i gadarnhau, aeth y Cyfammodwr dyngarol a gwrolo gwmpas ymguddfeydd ei frod yr i fynegu y newydd. A rhedodd y newydd am y cytundeb a'r ammodau y cynunodd Dalyell arnynt, gyda chyflimdra ymhell ac agos ymhlið y cyfeillion, fel y galai unrhyw dosbarth o honynnt ag yr ymosodid arno gan y llywyd hwn, wybod am fodion diogelwch, ac arddanges y fflag wen yn y fan, a thrwy hyny ochel y perygl a fyddai gerllaw. Ond nis meddyliodd Dalyell am hyn ar y pryd; tybiodd efe mai y dyn hwnw, a hwnw yn unig, a wnaï ddefnydd o'r fflag wen; a golygai na byddai ddichonadwy, fod y Cyfammodwr hwnw yn ei gyfarfod yn fynych. Ond, pa fodd bynag, gwnaed defnydd cyffredinol o'r cytundeb gan y brod yr yn y sir hono; a bu hyny yn llawer o ymwared iddynt.

Nid hir y bûwyd heb wneuthur prawf o effeithiolrwydd y trefniad. Cynnaliwyd cyfarfod yn Mitchelslacks, yn Closeburn, yn yr hwn y dygwyd i oddiwrth yr arwydd i'r gwron—y Cyfammodwr, fod yn bresennol. Ac anfonwyd dosbarth o filwyr i chwalu y cynnulliad, a phwy a ddygwydodd fod yn llywyddu y milwyr, ond Dalyell ei hunan. A phan daeth y gwyr meirch i'r golwg, beth a welent ond napcyn gwyn wedi ei gylymu wrth ben pastwn bugail, yn hofian yn y gwynt. Yr oedd yr arwydd wedi ei roddi i fynu ar antur, oblegid nis gwyddai yr addolwyr pa un a oedd Dalyell gyda'r milwyr ai peidio; ond rhoddwyd hi i fyny er mwyn gwneuthur prawf pa fodd yr oedd pethau yn bod; a bu y canlyniad yn ddymunol. Canys y llywydd, pan welodd y fflag wen, a'r cynnulliad erbyn hyn hefyd yn chwalu, a attaliodd y milwyr rhag ymosod ar y bobl; ond gorchymynodd iddynt fynedi ymaith ffordd arall. Nid yw yn debyg i Dalyell fynegu yngylch yr arwydd i neb o'i blaidd ei hun, oddigerth rhyw ychydig gyfeillion personol ag y gallasai ymddiried ynddynt. Canys gallasai i'r peth pe yn hysbys fod er niwed iddo; oblegid na fuasai yr amgylchiadau o dan ba rai y gwnaeth y cytundeb, efalai, yn ei esgusodi yn ngolwg y blaidd yr oedd ef eyn gweithredu mewn cynghrair a hi. Nid yw debyg ychwaith, ddarfod i'r Cyfammodwr wneuthur y peth yn hysbys, ymhellach na therfyn y cylch o frod yr oedd yn byw o fewn y rhandir, dros ba un y cyrhaeddai awdurdod Dalyell. Gwneid pethau yr amser oedd hyny gyda llawer o ochelgarwch; canys byddai llawer yn dibynu yn fynych, er drwg neu ynte er da, ar ragdrefniad synwyrol, a digon o ochelgarwch.

Llaweroedd o weithiau y trôwyd yn ol y llywydd hwn, ac yr ataliwyd ef i gyflawni ei amcanion gan ymddangosiad y fflag wen. Canys er na byddai y dyn i'r hwn y gwnaed yr addewid yn bresennol

mewn llawer o'r cyfarfod ydodd ; eto byddai rhywrai a gyddai wedi eu haddysgu yn y dirgelwch yn bresennol yn mhob cyfarfod ; a rhoddai y rhai hyny i fyny yr arwydd, pan y meddylid fod hyny yn anghenrheidiol. Pa foddy bynag, cyfarfyddwyd Dalyell mor fynych gan y napcyn gwyn, fel y dywedodd ryw dro wrth rywrai o'i gyfeillion, yn nghyffro ei ysbryd, gan mor fynych ei somedig-aethau, fod y Cyfammodwr i'r hwn y gwnaethai efe yr ammod, yn gymhwys yr un fath a'r diafol ; mor gyflym ac mor amrywiol ei ysgogiadau, fel yr oedd yn ei gyfarfed ef yn mhob man, lle byddai addoliad gan y Cyfammodwyr. Nid oedd Dalyell eto yn deall, fod y dirgelwch wedi ei hysbysu i eraill hefyd, ag y gallasai fod o ddefnydd iddynt. Sierheir na ddarfu Dalyell erioed mewn un amgylchiad ogwyddo tori ei addewid, ond cadwodd hi yn y modd mwyaf cydwybodol bob amser. Er ei fod yn erliwr, eto ymddygydd yn anrhymeddus yn y peth hwn, a thrwy hyny efelychedd i raddau ymddygiad y dyn ag y buasai ei fywyd unwaith yn holol yn ei law, ond yr hwn er hyny, o hynawsedd a thiriondeb, a'i harbedasai. Nid oedd y Cyfammodwyr un amser yn chwennych tywallt gwaed, na chodi yn erbyn yr awdurdodau cyflawn yn y tir. Ond pobl oedd ynt a yrwyd i wneuthur pethau nas mynent ar brydiau ; a hyny gan eu llywodraethwyr twyllodrus ac anghyflawn. Ac os bu iddynt ar rai achlysuron dywallt gwaed mewn hunan-amddiffyniad, nid ydynt er hyny yn haeddu eu gwaradwydd fel llofruddion na gwrthryfelwyr. Nis tywalltasant hwy ond ychydig o waed wrth eu hamddiffyn eu hunain mewn cymhariaeth a'r hyn a dywalltodd yr Esgobyddion, wrth wneuthur yr ymosodiad arnynt hwy. A thybygem ni fod ganddynt hwy gyflawn hawl i'w hamddiffyn eu hunain; pryd nad oedd gan yr Esgobyddion y radd leiaf o hawl i wneuthur yr ymosodiad arnynt hwy.

Dysgwu oddiwrth ymddygiad y Cyfammodwr, i beidio a bod yn ddialgar, ond yn dirion a hynaws hyd yn nod tuag at ein gelynion penaf. Ac oddiwrth ymddygiad Dalyell, dysgwn fod yn ffyddlawn i'n hymrwymiadau hyd eithaf ein gallu, beth bynag fyddo yr anghyfleusdra i hyny. Hefyd, cymered Anghydfurfwyr Cymru yr addysg hono oddiwrth yr amgylchiad ; sef, ar fod iddynt godi fflag wen buchedd sanctaidd, fel yr amddiffyn goreu rhag ymosodiadau eu herlidwyr. Bu amser pan oedd yr Ymneilldŵyrr yn Nghymru yn cael eu herlid am eu crefyddolder ; dannodid iddynt a gwaradwyddid hwy oblegid ydeuent at eu gilydd i ddarllen yr ysgrythyrau, pregethu, gweddio, a'r cyffelyb ; yr hyn yn ddiau sydd yn ymarferiadau crefyddol. Ond erbyn hyn mae rhai sydd a chalon ganddynt i erlid, yn gweled ei bod yn ormod o'r dydd yn bresennol i erlid yn y ffordd hono. A'r llwybr a gymerir yn bresennol yw, chwilio am wallau a cholliadau crefyddwyr ; ac adrodd y rhai hyny yn fan amlaf y bobloedd. Ie, eu rhoddi ar dafod yr argraffwasg, gan wybod mai hi yw y fwyaf tafod-lib o bawb, ac y dywed wrth bawb ymhell ac yn agos, ac wrth laweroedd ar unwaith. Gan hyny, fel yr amddiffyniad goreu rhag erlidigaeth y dyddiau hyn, coder i fyny fflag wen buchedd dduwiol, ddiddrwg, a dihalog.

Cofiwch mai gair Cymraeg glân yw y gair "Fflag."

Pregeth gan y diweddar Mr. Wm. Charles, Psal. lxxxiv. 11.

"*Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant.*"

Tawy ddyoddefaint y daeth Crist i'w gogoniant; yr oedd y gogoniant hwnw yn wobr iddo am ei ddyoddefaint: ond trwy ras mae y Cristion yn dyfod i gogoniant—rhodd Duw yw hyny. Efallai fod y ddau air yma gras a gogoniant yn cynnwys y cwbl a rydd Duw i'w bobl, yma a thu draw i'r bedd. Mae traul dyn duwiol yn fawr o'r aileni hyd nes ei wneyd ar ddelw Duw; ond o du Dduw y mae'r holl draul: "Yr Arglwydd a rydd ras a gogoniant." Mae ya rhoddi edifeirwch i fywyd; rhodd Duw yw ffydd: ond ni sylwn ar y ddau beth hyn mewn cyferbyniad a'u gilydd—gras a gogoniant.

1. *Gras yn blaenori gogoniant.*

2. *Gras yn sicrhau gogoniant.*

3. *Gras yn cynnrychhu gogoniant, ac yn ernes o hono.*

1. *Gras yn blaenori gogoniant.* Wedi y cyflawnhêir un, fe'i sancteiddir yn gwbl oll. *Gras yn golygu y cyfnewidiad a wneir yn nghyflwr y dyn rhngddo a Duw.* Dyma'r un peth anghenrheidiol a wneir i ddogf pechadur, yr hwn sydd fel asen wylt wrth naturiaeth:—"Trwy ras, yr ydwyf yr hyn ydwyf," (medd Paul). Gras sydd fel terfyn i arafu y môr o lygredd sydd yn nghalon dyn—rhyw beth effeithiol iawn yw gras, ond ei gael. Fe fydd i'w adnabod wedi ei roi, yn oleuni yn y deall, yn dynerwch yn y gydwybed ac yn barodrwydd yn yr ewyllys. Mae gras i'w olygu, yn cymeryd meddiant o'r pechadur yn enw Brenin Sion. Hwn yw y peth mawr sydd yn symud o farwolaeth i fywyd—maddeu yr holl anwiredd yn gyntaf, ac yn ganlynol, iachau'r holl lesgedd; ac fe fydd hyn yn gogoniant ar ddyn—"Y rhai a gyflawnhaodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe, a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe. Codi delw Duw ar y dyn ydyw ei sancteiddio, rhyw fras luniad yw ar y dechreu; ac fel y llenwir y bras luniad hwn i fynu fe fydd y dyn yn ogoneddus. Gwaith graddol yw codi'r ddelw, newid o oniant i gogoniant. Gwaith graddol yw sancteiddio—yn raddol yr esgynodd yr Iesu i'r nef. Yr oedd pob diwrnod yn nghreadigaeth y byd yma, yn ei wneyd yn fwy gogoneddus; ond ar y chweched dydd yr oedd yn fwyaf felly—pan ddaeth delw Duw i'r golwg. Y mae pob peth yn gynnwysedig yn y gras yma, y ffydd hono sydd a'i chlod yn fwy nag Alexander am orchfygu y byd. Y gobaith hyfryd hwnw, erbyn rhyw dranoeth teg sydd yn aros y Cristion, fe fydd rhoddion Duw yn d'od i'w gyfarfod dan ryw enw newydd. Gogoniant fydd yn dy gyfarfod yn nrws y bedd. Mae yn rhaid ein gwneyd ni yn rhinweddol cyn ein gwneyd ni yn anrhydeddus. Bywyd duwiol sydd yn arwain i ddedwyddwch. Dilyn gras y mae gogoniant. Wedi i seren ddydd gras godi ar dy enaid, efallai y bydd raid i ti rodio yn alarus am flyneddau heb weled yr haul hwn—efallai y bydd yna lawer gâfael mewn gweddi; ond y mae gras yn sicrhau na fydd dim colled am yr einioes, ond fe all fod yn bur dymheistlog, ac efallai mae ar ystyllen rhyw hen addewid y cei ddiangfa.

2. *Mae gras yn sicrhau gogoniant.* Iaith yr ysgrifther yw addaw

y peth mwyaf i sicrhau peth llai—"Yr hwn a draddododd ei unig-anedig Fab drosom ni oil, pa wedd gydag ef hefyd na ddyry e'e i ni bob peth. Mae gogoniant yn ganlyniad naturiol i ras. Mae perthynas achos ac effaith rhyngddynt. Wedi i'r eginyn bach dori allan yn edifeirwch tuag at Dduw, fe dyr allan o'r diwedd nes bod yn gogoniant i Dduw. Perfeithrwydd gras fydd gogoniant. Dde-chreuodd Duw waith erioed heb ei orphen: fe orphwysodd ar y seithfed dwdd wedi gorphen gwaith y greadigaeth, ac fe ddywedodd Duw mewn cnawd "Gorpheuwyd," ar ol gorphen gwaith yr iach-awdwriaeth. Canlyniad gras yw gogoniant. Pen draw holl or-uchwyliaethau Duw ar Israel gynt oedd eu dwyn i Ganaan. Fe wnaeth Duw arwyddion a rhvfeddodau mawrion erddynt, ac mas Duw wedi gwneyd pethau mawrion i rai sydd yma. Ond! ha, Gristion,

"O fryniau Caersalem ceir gweled
Hell daith yr anialwch i gyd."

Duw roddo i ninnau i'n cymhwysyo i'r wlad.

Mae Duw wedi rhoi rhyw bortread, beth mae yn feddwl cael y rhai sydd yma heddyw. "Gemwaith aur fydd ei gwisg hi, mewn gwaith edeu a nodwydd y dygir hi at y brenin." Wyddoch chwi beth, pentewyn wedi ei achub o'r gynneu dan fydd y peth rhyfedd-af yn nhriwywyddoldeb. Fe fyddi yn rhyfeddol ryw ddiwrnod. Dan y driniaeth y byddom nes bod yn lan.

3. Mae gras yn ernes o gogoniant, pe bait yn medru ei ddarllen yn iawn. Ni wn i ddim pa seimlad allsai fod yn yr Israel gynt, pan yn derbyn y swp grawn. Dyma ryw dipyn yn ernes y cawn fyned at y brasder. Dyma gyflawniad o'r hen addewid er's pedwar can' mllynedd wedi gwawrio, cawn fyned eto i wlad ymdaith ein tadau. Gristion, beth yw'r tipyn bach heddwch cydwybod yna, beth yw'r tipyn bach cymdeithas â Duw? Ernes yw y defynnau hyn y cawn ni fyned i'r môr—rhyw ragymadrodd ydyw hyn yna o'r llyfr y hyddi yn fuan yn troi ei ddalenau i dragwywyddoldeb. Rhyw friwsion yw y pethau hyn ydym yn ei gael oddiar y bwrdd, lle mae Abraham, Isaac, a Jacob yn gwredda. Duw roddo ras i chwi. Mae yn dda genyf ddyweyd ei fod yn llawn gras, ac mae yn dda ganddo gyfranu gras i bawb sydd yn gofyn. Bendith ar hyn yn Nghrist. Amen.

Y ffordd i gael rhai i'r Ysgol Sabbothol.

FEL yr oedd arolygwr Ysgol Sabbothol unwaith yn annog yr holl blant i wneyd ymdrech mawr i gael un newydd i'r ysgol, dau o fechgyn, y rhai oedd ynt frod yr, wrth fyned adref o'r ysgol, a droisant at eu gilydd ac a ofynasant y naill i'r llall, pwy allent hwy gael? "O!" ebe un, "ond dyna fy nhad heb fod yn yr ysgol, rhaid i ni ofyn iddo ef yn gyntaf." "Wel," ebe y llall, "pan ofynwn i nhad, dywed yntau yn union, Naddo i." "Wel," ebe y llall, "awn ni i'r llofft i weddio cyn gofyn iddo, ac awn yno heddyw ar ol myned adref, a rhaid i titheu a finnau weddio yno dros fy nhad." Felly yr aethant, a syrthiasant ar eu gliniau, a dechreuanant weddio; a dyna oedd y weddi, "O Arglwydd, achub fy nhad, achub fy nhad!"

Dechreuasant wylo a llefain : yna aeth y llall i weddio, a'r un peth oedd ei weddi yntau ; ac yr oeddynt yn llefain mor uchel nes clywodd eu tad o'r gegin, a meddyliod mai ymladd â'u gilydd yr oeddynt : rhedodd i ben y grisiau i gael gwybod, a'r sŵn a glywai yno oedd, sŵn y ddau fychan yn cyd-waeddi, "Achub fy nhad!" Dechreuodd yntau wylo'n dost, ac i lawr âg ef dan wylo : yn mhen ychydig, aethant hwythau i lawr, a'r dagrau ar eu gruddiau, a gofynasant iddo, "Fy nhad, a ddeuwch i'r ysgol y Sabbath nesaf?" Atebodd yntau, "Dof, fy mhlant bach, a gwae fi fod wedi oedi cyhyd." Trwy weddi gorchfygasant eu tad cyndyn, a chawsant ef yn aelod o'r Ysgol Sabbathol. A gobeithio y bydd i holl blant Cymry, sydd âg awydd am weled cynnydd ar yr Ysgol Sabbathol, ddilyn yr esiampl : canys yr un yw Duw, ddoe, a heddyw, ac yn dragwydd ; am hyny awn ato am bob peth sydd arnou eisaiu.

Lidan.

T. R.

Atebiad i Weddi.

Yn oedd hen wraig weddw dduwiol yn yr America, ac yr oedd ganddi fab annuwiol. Hi a arferodd bob moddion ac oedd yn ei gallu i'w droi o'ldiwrth ei ffyrdd drygionus i ymofyn am Waredwr ; ond er yr ymdrech i gyd, fe dyfodd i fynu yn galed gan ddilyn arferiad ysgafn a gwammal yr oes. Yr oedd hi yn ei ddilyn ef yn barhaus yn ei gwediâu a'i herfyniadau, ac yn ei rybuddio ef beunydd am ei gyflwr ofnadwy fel pechadur o flaen Duw, a dywedai mor ddychrynllyd fyddai iddo farw yn y dull yr oedd efe yn byw : ond yr oedd y cwbl yn aneffeithiol.

Dyweddodd wrthi un diwrnod, "Mam, estynwch fy nillad goreu : yr wyf yn myned i noswaith lawen heno." Ymdrechodd ei fam druan ei rwystro ; ond er hyny, dywedai yn ffyrnyg, "Mam, rhoddiwch fy nillad i mi, mi mynaf fyned, nid yw o un lles i chwi geisio fy rhwystro." Estynwyd ei ddillad, a gwisgodd am dano, a phan oedd yn cychwyn, ei fam a'i hattaliodd ef, ac a erfyniodd yn daer arno beidio myned ; ond wrth ei weled ef yn myned er ei gwaethaf, hi a ddywedodd, "Fy mab, cofia pan byddi di yn dawnsio gyda dy gwmni drwg yn y dafarn, y byddaf finnau allan yn y ranialwch acw yn gweddio ar yr Arglwydd i'th argyhoeddi." Aeth y llencyn i'r dafarn, a dechreuwyd dawnsio ; ond yn lle y digrifwch arferol, syrthiodd rhwvw brudd-der annesgrifiadwy ar yr holl gwmni. Dywedai un, "Ni chawsom erioed gyfarfod mor bruddaidd a hwn !" un arall, "Buasai yn dda iawn genyf pe na ddaethum yma heno !" a dywedai'r trydydd, "Beth yw'r achos o hyn nis gwn !" ond dywedai'r llanc, a'r dagrau yn treiglo i lawr ei ruâdiau, "Myfi a wn yn dda beth yw'r achos o hono, fy mam dduwiol sydd yn awr yn yr anialwch acw, yn gweddio ar yr Arglwydd dros ei mab annuwiol." Cyfododd, a dywedodd, "Ni chewch fy ngweled i yn y fath le a hwn byth mwya." A'r noson hono dechreuodd yntau weddio am drugaredd i'w enaid, a dygodd ffrwythau o hyny allan a ddangosent ei fod yn greadur newydd yn Nghrist Iesu. Fel hyn y gwr-

andawyd gweddiau ei fam yn ei dröedigaeth, a rhy anhawdd ydyw desgrifio maint ei llawenyyd a'i gorfoledd.

Rhiени duwiol, cymerwch addysag oddiwrth yr hanesyn uchod: os oes genych chwi fab neu ferch yn dilyn llygredigaethau yr oes, ac yr ydych er eich holl ymdrech yn methu eu troi oddiwrth ddrygion i eu gweithredoedd; na ddigalonwch, ond daliwch i weddio, gan syllu & llygad ffydd ar ei addewidion mawr ef. "A bydd cyn galw o hen ynt i mi ateb. Tywalltaf fy Ysbryd ar dy hâd, am bendith ar dy hiliogaeth. A beth bynag a ofynoch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch."

Wil Anystyriol a Sian Ddefosiynol.

BARCH OLYGWYR,

NID oeddwn y tro o'r blaen yn meddwl eich anerch ar y testun yma eilwaith, oblegid barnwn, os argreffid hanes y caru hynod hwn yn y "Geiniogwerth," y buasai y ddeuddyn ieuainc yn fwy gwyliadwrus a gochelgar, rhag i neb eu clywed. Lled awgrymai Wil y tro hwnw, "nad oedd hi ddim i ddarford fel hyny." Cefais achlysur i feddwl nad dyweyd *jokes* yr oedd y gwalch hefyd. Na, na, y mae gando ef dipyn o olwg ar Sian; a chwi wyddoch fod pawb o hil Adda yn ffyddlawn i'r hyn y maent yn ei garu. Y mae pawb yn ffyddlawn i, a thros sancteiddrwydd, i'r graddau y maent yn caru sancteiddrwydd. Ac a dyweyd y gwir, merch fach nice yw Sian; ac oni bae fod Wil wedi cael y blaen arnom, diammheu fod llygaid amryw o honom ni yr "hen fechgyn ifeinc," ar Sian. Nid da hefyd "chwennych dim ar sydd eiddo'n cymydog."

Ar ganol dydd tesog, yn mis Mai diweddaf, fel yr oedd amrywiol o deuluoedd y gymydogaeth hon wedi myned i ben Mynydd y Mawn, ymgynnullwm ar hanner dydd o dan gysgod torlan i giniawa. Ac ar ol ciniaw, nid hir y buom heb gofio am yr hen gostwm arferol yma wrth "ladd y tyweirch," sef "cysgu hun ganol dydd." A chysgu'n drwm a wnaeth llawer hefyd. Ond gan fod Sian o'r Tŷ draw wedi dyfod & chiniaw i dylwyth y tŷ, nid oedd fawr o gysgu ar Wil, er ei fod wedi gweithio'n galed trwy'r bore. Cymerai Wil arao ei fod am ddysgu rhyw dôn oedd mewn llyfr canu yn ei law. Ond er fod canu ar ei wefus, caru oedd ya ei galon ef. Ac yn siwr i chwi yr oedd Sian yn llygad-loni arno hefyd. Nid hir y buont ill dau cyn ymlithro bron ar fy mhwys, gan benderfynu fy mod yn cysgu. Ond os oedd fy llygaid yn nghaead, yr oedd fy nwy glust mor agored ac y gallaswn eu dod. Gwrandewais arnynt yn ymgomio fel y canlyn:

Wil. "Wel, Sian, nid y'ch chwithau bell o gysgu, dýbygwn i wrthych; a fuoch chwi yn gwylled neithiwr?"

Sian. "Naddo, Wil; ac ni byddaf yn arfer colli cysgu yn y ffordd yr y'ch chwi yn feddwl; ond y mae arnaf bwyth i gysgu heddyw serch hyny. Yr oedd yn hwyr iawn arnom yn d'od o'r cwrdd neithiwr. Roedd yn hwyr arnynt yn dechreu; ac ar old'od adref wedy'n, aeth fy nhad i ddarllen pregeth y diweddar

Barch. H. Gwalchmai, ar "Ieuo yn anghymharus," nes oedd bron deuddeg o'r gloch cyn i ni gysgu."

Wil. "A ddaeth cwpl ynghyd yno rywbryd, d'wedwch?"

Sian. "Daeth y rheiniy ydynt yn arfer d'od yn bur gryno; fel y gwyddoch, yr un rhai sydd yn d'od fynychaf i bob oedfa ar ddydd gwaith. Ni wn i ddim beth yw yr *half and half* yma, sydd gan ddynion gyda chrefydd. 'Llwyf fryd calon,' yw'r ffordd oreu genyf fi."

Wil. "Yr y'ch chwi fersh yn rhy —— ; does dim yn dda bod yn rhy dŷn, rhag ofn i'r llinyn dori. Gwyddom am lawer a aethant i warth, wedi bod yn selog iawn unwaith."

Sian. "Ie ; ond wrth laesu yn eu sel yr aethant i warth. Peth i fod yn gynhes gyda hi ydyw crefydd, nid i fod gyda hi a blaen bysedd. Peth i'w chofleidio ydyw. 'Cofleidia di hi, hi a'th ddwg di i anhydedd os cofleidi hi ; ie, hi a rydd i ti goreu gogoniant.'"

Wil. "Maent yn abl a diflasu y bobl ifeinc yma i dd'od i'r society, a d'weyd y gwir—*clip, clip, for ever*, ynghylch cyfeillachau anghyfreithlon, ac anmhrydlon. Yr oedd Ifan, gwas y Ddolfeilion, a minnau, yn "gues" eich bod chwi, Sian, yn *prickio* eich tad yn nghylch hyny, nes yw yn waeth nag y byddai."

Sian. "Na, na ; mwy tebygol yw mai efe sydd yn fy hyfforddi i, na fy mod i yn ei ddysgu ef. Buasai yn dda genyf pe buasech acw neithiwr, yn eu clywed yn trin achos Dafydd Llwyndeiliog."

Wil. "Ie ; gwir da ; beth ddaeth o hono ; ei dori allan, mi warantaf."

Sian. "Ie, dyna a gafodd. Ni wn i ddim ai nid tiriondeb pechadurus y gellir galw ymddygiad yr eglwys tuag ato, wrth ei adael fel yna i ymhongan am wddf Iesu Grist megys âg un fraich, a'r fraich arall am wddf merch annuwiol am gyhyd o amser." O Wil! ni allasech yn eich byw beiddio wylo, pe buasech yno neithiwr wrth weled Dafydd, pan roddes yr eglwys ei ddewisiad iddo, yn tuyu y fraich oedd ganddo am wddf y Cyfryngwr mawr, ac yn rhoddi ei ddwy fraich i gofleidio Mari o'r Wern! Do, do, ar ol yr holl bregethu fu iddo, yr holl gynghori fu arno, yr holl weddio fu drosto ; ie, a'r holl lwon o ffyddlondeb a wnaed ganddo ya fisol wrth gusanu Iesu Grist, gwerthodd ef wed'yn am gymhar annuwiol wrth fyned tua'r farn!"

Wil. "Twt, does dim doubt na bo rhan mewn priodas. 'Roedd yn rhaid i hyny fod."

Sian. "Yr wyf fi yn wastadol yn meddwl nad yw Duw wedi rhanu dim o blant dynion yn ei gynghor dirgeledig, sef ei arfaeth sanctaidd, ag sydd yn milwrio neu yn tueddu yn groes i'w gynghor dadguddiedig, sef ei air sanctaidd."

Wil. "Na, pe bawn i yn fwy anystyriol nac wyf, yr wyf yn cydnabod mai ynfydwyd a chabledd fyddai meddwl fod y Goruchaf wedi arfaethu peri i ddynion gyflawni pethau ag y mae yn eu gwahardd yn ei air ! Ond mi dybygwn i, eich bod chwi, yn eich sel Fethodistaidd, yn gosod case Dafydd ac eraill allan mewn lliw duach nag ydyw. Un fraich am wddf merch ddigrefydd, a'r

Hall am wddf Iesu Grist! Yna yn tynu ymaith ei fraich a gofleidiai Grist, ac yn rhoi y ddwy fraich am wddf Mari o'r Wern! Yr y'ch yn peri i mi gofio yrwan am bregethwr bach, yn ceisio gosod diotta allan mewn lliw mor ddu ag y medrai, un nos Sabbath er's ychydig amser yn ol: pan orphenodd, ymaifiwyd ynddo gan ddaau o'r dynion hunan-ddoethaf, cymedrolaf, callaf, a duwiolaf, oedd yn y seat fawr yna, a gwasgasant ef rhygddyt a'r faril ddiod, nes yr oedd ynt hwy yn credu fod y chwys yn tori allan dros ei arleisiau! Mi warantaf y gŵr bach i geisio lliwio pechod yn dduach nag ydyw eto."

Siân. "Ha, Wil! y mae yn beth anmhosibl i liwio pechod yn dduach nag ydyw. Mae lludw pur oleu i fawn y gors hon wrth eu llosgi; ond nid oes ludw gwyn i bechod bradychwr yn nhân uffern!"

Wil. "Peidiwch ac arfer rhyw *terms* câs wrth siarad am bechod, chwaethach pechaduriaid. 'Bradychwr,' meddwch, am y bachgen bach gwirionaf yn yr holl wlad. Yr ydych chwi, Siân, yn rhy *serious* o lawer gyda phethau bychain fel yma. 'Does dim *doubt* na ddaw Dafydd, Llwyndeiliog, yn ol i'r eglwys toc; ac ni ryfeldwn i ddim, na ddaw Mari i mewn gydag ef hefyd, wedi y priodont."

Siân. "Pe deuai yn ei ol cyn pon tair lleuad, 'yr hwn a'i bradychodd ef' a fydd ef mwy? Ac esfallai *na* ddaw hefyd; y mae mwy wedi peidio a d'od yn ol byth, nag a ddaeth wedi myned allan yr un fath ag yntau."

Wil. "Mae y Methodistiaid yn *odd* yn y fan yna. Fe luniwyd y rheol yna, fel rheolau eraill sydd yn 'llyfr y corff,' cyn i'r 'corff' gynnydlu i oedran a deall gŵr. Yr wyf fi yn edrych ar y rheol yna yn ein llywodraeth a'n trefn eglwysig ni, yn debyg iawn yr un fath a llawer o bethau beius, sydd ynglŷn â rhyw hen *corporations*, mewn ystyr wlad yddol. Y mae eisieu *reform*."

Siân. "Pe llunid y *bill*, diammhau y caid torf o ieuencyd crefyddol dioruchwyliaeth, os nad diras, yn barod i'w bleidio a'i lawarwyddo; ond pe b'ai i'r '*act of toleration*' hon i briodi rhai anghrefyddol gy:eryd lle ymhllith y Methodistiaid, megysenwadau eraill, yr un peth fyddai y Bibl yn dyweyd dranoeth wed'yn—'Yn unig yn yr Arglwydd.' O reol anwyl! Yn wir, Wil, y mae mor hoff genyf am Iesu Grist, fel y priodwn yfory nesaf, pe cawn ei *bicture* yn gymhar."

Wil. "Ha—yn wir, un *odd* y'ch chwi! Yr wyf fi yn golygu, ferch (ni wn i a wyf yn *wrong* ai peidio,) am bob pwnc mewn crefydd, ac y dylid arfer dysgyblaeth er ei amddiffyn, y dylai gael rhagor o le yn yr athrawiaeth a bregethir, nag y mae 'ieuo yn anghymharus' yn ei gael yn ein pulpudau ni. Pa bryd y clywsoch chwi bregeth ar y pwnc hwn? Ni chlywais i bregeth erioed arno; ac nid wyf yn cofio i'r ysgol gael 'pwnc' ar y mater chwaith. Coeliwch chwi fi, Siân, nid y'nt, ein pregethwyr ni, yn ddigon goleu a phenderfynol ynghylch y peth hwn. Ond y mae yn ddiannhau y dylid cael dwylaw *delicate* i drin pwnc tywyll fel yma."

Sidn. "Ah, Will! Nid yw y pwnc yn dywyll ond i'r dall. Ond y mae troseddu y rheol yma wedi arwain rhai i dywyllwch personol ac amgylchiadol am eu hoes. Cof am Samson. Yr oedd-ych chwi er's meityn yn dyweyd y deuai Dafydd a Mari i mewn toc. A ddaeth Dalila at grefydd gyda Samson? Ond a gadael y daw Dafydd yn ei ol i'r eglwys, fe fydd y peth fel creithiau y frech wen, yn ei wyneb ef byth mwy."

Wil "Twt—nol! Daw, does dim *doubt* nad oedd yn meddwl d'od yn ei ol, pan dorwyd ef allan. Clywais ef yn dyweyd y gallasai fod o fwy o ddefnydd yn yr eglwys, wedi priodi Mari, o'r Cae bras gynt, oblegid fod ganddi tipyn o *bortion*: 'oblegid,' ebe fe, 'gallaf fod yn well at yr achos wed'yn, er ei bod hi yn ddi-grefydd yn bresennol, na phe byddwn yn priodi rhyw ferch fach dduwiol, heb ddim llawer ganddi.'

Sidn. "O, Wil! dyna Saul, fab Cis, yn gymhwys. Tynodd hwnnw at y brasder, yr y'ch yn cofio, wedi i Dduw orchymyn fel arall iddo; a dyna, wyddoch, oe id ei esgus gorwael dros gybydd-dod ei galon ddrwg, 'ei fod yn meddwl gwneyd aberth braf o honyn i Dduw Israel;' eithr fe gafodd ar ddeall yn fuan fod 'gwrandoaw yn well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddo!', ya ngolwg y Duw hwnnw, y ceisiodd efe, fel Dafydd, Llwyndeilio, chwareu *slight of hand* ger ei fron. Torodd allan ffordd iddo ei hun gyda chrefydd a llywodraeth, a threngodd wrth fwyta ffwrwyth chwergw o hono. Ie, 'gwell i'r achos wedi cael rhagor o'r byd yn wir!' Gwae grefydd erioed iddi weled llawer o bobl yr arian yma. Mae y rhan amlaf o honyn o'r un defnydd gyda chrefydd ac ydyw gwyr ceffylau mewn anghladd. Y gwyr traed ydvynt yn cario'r elor. Felly hefyd gyda chrefydd, y rhan amlaf—lle mae cyfoethogion yn yr eglwysi, y rhai tlofaf ydvynt y ffyddlonaf. Edrych-wch dros ein *society* ni yn awr. Mae Mr. L_____, a Mrs. D_____, &c., pobl a chanddynt *income* lled 'bert' yn flyneddol, pan fydd casgliad ar droed y mae Elis, y *cooper*, Thomas, y crydd, a Dafydd, y gôf, a rhai fel yna, yn rhoi cymaint a hwytâu yn fisol ac achlysuol. Mi glywais Betsy, morwyn Glan nant, yn dyweyd, ei bod hi wedi bwriadu unwaith roi deunaw at 'ddyyled y Goror,' er's tro 'nol, nes iddi weled ei meistres yn rhoi dim ond swllt. A ellwch chwi farnu fod crefydd wedi cymeryd gafael ar enaid hono?"

Wil "Wel! na, rhaid *allow*, os na fydd calon sancteiddiedig, a llaw gysegredig, yn perchen y logell lawn, nad yw y llogell hono ond melldith mewn eglwys. Ond i adael hyna. Beth yw eich meddwl chwi mewn gair am y rheiny a dorir allan am briodi yr an-nuwiol, ac yn dyfod yn ol wed'yn yn ebrwydd? Pa edifeirwch eill fod ganddynt? Bid siwr, os am bechu eu torwyd allan, eu bod yn edifarhau pan ddeuant yn ol. Yn awr, edifarhau am ba beth y maent? Mae'n wir i Pedr syrthio ac edifarhau yn fuan, ond rhag ofn y gwadodd ef. Ond am y rhai hyn, nid rhag ofn ydyw gyda hwynt, ond o fod a bodd, a llwyrfryd calon. Y mae yma wahaniaeth dirfawr, onid oes?"

Sidn. "Oes y mae; ond prin yr *wyf* fi yn gallu llyncu eich

*term chwithau yn awr,—‘eu tori allan.’ Buaswn i yn dyweyd eu bod yn tori eu hunain allan, yn newisiad gwrthddrych eu serch, ac nid cael eu tori allan. Nid yn unig y mae diffyg crefydd, ond y mae graddau mawr o ddiffig *actio synwyd*, dybygwn i, yn y bobl hynny a barhant i ymwneyd & phethau cysegredig, a chymdeithas y saint, wedi y penderfynant weithredu yn groes i reolaus y gymdeithas lle byddont. A dyma fy marn bersonol i, am y rhai a ddewisant gymhariaid annuwiol o flaen crefydd, mai ychydig iawn o Gristionogion duwiol a wnaethant hynny erioed. Haws o lawer genyf goelio mai rhagrithwyr crefyddol ydynt o archwaeth, fel y gallant fiasu ar gyfeillach gnawdol tomen o lygredigaeth o'r fath ag ydyw pob mab a merch amddifad o ras. Y mae i bob anian ei hymborth priodol, megys y mae i bob genau ei archwaeth priodol. Anaml, onidê, y gwelwyd y byd anghrefyddol yn ymofyn am gymhariaid o blith duwielion, tra'r oedd tipyn o flas halen yn lew arnynt. Pan fydd y morwynion yn Seion yn cael eu blino a chynnnygion culion, drwg, anghrefyddol, a halogedig, y mae yn llawn bryd iddynt edrych arnynt eu hunain, rhag mai rhyw friwiau pwdr, drygsawrus, sydd yn tori allan arnynt hwy, sydd yn tynu y cler duon yma ar eu hol o wlad Moab. Os yw y Bibl yn wir, y mae yn beth mwy naturiol i'r annuwiol i gablu nac i garu sancteiddrwydd. Ni wn i yn y byd chwaith beth sydd a wnelo'r annuwiol a chysegr Duw. Yn ddiau, bydd gan rai fel yma gyfrif trwm i'w roi i'w Gwneuthurwr am eu gwaith yn myned fel Bel-sassar, i yfed gwin pleser carwriaeth gnawdol yn llestri Teml y Duw byw! ‘Os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnw.’”*

Wil. “Gwnaech chwi, Siân, bregethwr glew, pe baech yn myned ati. Ond, dd'wed'soch chwi ddim eto am yr edifeirwch yma wrth dd'od yn ol; edifarhau am ba beth y maent? Edifarhau am briodi?”

Siân. “Na, nid fel yna eto. Gallwn ddangos fy meddwl am hyn i chwi yn well trwy ddefnyddio cymhariaeth, os cymerwch gymhariaeth agos a *simple*. Yr ydych yn cofio i'r *Squire* S—, yn niwedd yr Haf y llynedd, wahodd plant y pentref yn gyffredinol i ddyfod i'w ardd, i gael eu gwala o'r *fruits*, yn lle eu bod yn myned yn 'ofer.' A chyda'r wawr dranoeth, dyma hwy yn d'od, gydag awch locustiaid! I ffwrdd a hwy yn eu cyfer (fel y rheini'y gynt i mewn i Jericho) dros y mur ceryg, a thrwy y llwyni ceirios, a'r eirin cochion, &c.—Twm Dibris, James Anhywaeth, a Dic Byrbwyll, &c. Ond erbyn eu bod yn dringo y pren *pear*, dyma Ann y forwyn yn d'od âg allwedd drws yr ardd allan, i'w gollwng i mewn trwy y fferdd gyfreithlon. Dechreuai grio arnynt beidio rhwygo'r colfenau fel hyny. ‘D'ym ni'n prisio fawr,’ atebai Phil. Rhifygus, yr y'm ni wedi cael cenad y *Squire*.’ Gyda hyn dyma i'r *Squire* ei hun yn d'ed allan, a'r *whip* oedd ganddo yn dysgu *manners* i'r cŵn hela, gan gyrhaedd y *crots* druein, tra yr oedd yr eirin, &c., rhwng eu dannedd, nes eu bod agos yr un leisiau a'r creaduriaid yn y *kennel*. Cwymppard un o honynyt o ben y pren *pear*, ac y mae yn gloff hyd heddyl. ‘Nawr, nid am fyned i'r ardd

yr oedd y gŵr boneddig yn cosbi; yr oedd wedi eu gwahodd heb wahaniaeth i'r ardd, ac wedi rhoi allwedd yr ardd i'r forwyn y nos o'r blaen; a difyrwch ei galon fuasai edrych ar y plant yn gwledda ar y fruits. Ond am fyned i'r ardd yn y dull, ac ar hyd y ffordd yr aethant, yr oedd ef yn ceryddu."

Wil. "Wel, yn siwr, dyna oleu newydd ar y peth. Nid edifar-hau am fyned i'r ystâd briodasol, y mae'r gwrthgylwyr hyn wrth dd'od yn ol, ynte, 'rw'yn gwel'd, ond am fyned i'r ystâd anrh-ydeddus hono, ar hyd ffordd dianrhymeddu Duw?"

Sîdn. "Ie, yn siwr; oblegid 'anrhymeddus yw priodas yn mhawb.' Ond nid anrhymeddus ffordd pawb wrth fyned iddi. Heblaw bod eu ffordd yn un bechadurus, y mae yn *indecent*. Byddai yn beth cas i weled meibion brenin yn ymgofleidio & merched drwg y dref; neu y *tywysogesau* yn cofleidio *y sweeps* parddûog, yn eu dillad gwaith! Ond y mae yn fwy cas, yn fil mwy gwrthun, i weled un a aned oddiuchod, o Dduw, yn ymgyfathrachu &r byd sydd yn gorwedd mewn drygioni. Dacw—mae'r bobl yn myned at eu gwaith, gadewch i ni gyfodi."

Wil. "Pa bryd y caf eich gweled eto ferch?"

Sîdn. "O! dear; ni wn i yn y byd,—gwarantaf y byddwch yn d'od acw ddydd y cneifio. Ffarwel."

Wil. "Ffarwel, heddyw."

AERONIAN.

Drygedd Meddwdod.

MEDDWLIWN mai hawdd yw profi, y gall meddwdod fod o niwed mawr ac annhraethadwy i wladwriaeth. Clywsom &n clustiau fod meddwdod wedi llithio dynion i weithredoedd mor waedlyd, erchyll, ac annaturiol, a rhosio eu plant, alladd eu rhieni. Clywsom hefyd, pan oedd dyn yn gorfod cyflawni un o'r tri drwg canlynol, sef meddwi, treisio gwraig ei gymydog, neu ladd ei gymydog. Dewisodd y dyn feddwi, gan dybied mai hwnnw oedd y drwg lleiaf; a chwedi meddwi, cyflawnodd y ddau ddrwg arall yn ddigon didaro. Clywsom hefyd lawer gwaith, y byddai yr hen Spartaniaid yn meddwi eu caeth-weision ar amserau, yn unig er dangos i'w plant gynllun o ddyn yn yr agwedd mwyaf ffiadaid ac annymunol ag y gellir byth ei weled, er eu hattal rhag bod yn euog o ddrwg mor groes a dinystriol i anian.

Pe byddai y meddwon yn meddwi mewn daeardyllau, neu ogofâu y ddsear o olwg dynoliaeth, ac yn aros yno nes dyfod i'w synwyrau, nř byddent cynddrwg, o herwydd eu bod yn llygru eraill: ond nid felly y maent ysywaeth; ond y mae y meddwyn yn casglu ei gyf-eillion ynghyd, ac fel pe baent am herio Duw a dyn i'w cael hwy oddiwrth eu harferiad gwarthus ac afian.

Mae y drwg o feddwdod yn waeth nac anifeilaidd—mae yn wir-foddol wallgofrwydd. A phwy a fynega y niwed wna y gwallgof? os unwaith wedi meddwi, nid credur rhesymol mwy yn un o'i weith-redoedd. Galwai yr hen bobl feddwdod yn glwyf y pen, dadymchwel-iad y synwyrau, tymhesti y tafod, cynhwrf yn y corff, llongddrylliad

y rhinweddau, &c. Mae y drwg hwn o'r niwed mwyaf i'r dyn ei hun, trwy ddwyn ei feddiannau, ei synwyrau, a'i iechyd i'w deulu, trwy ddwyn eu lluniaeth a'u cysuron. Gwelwch y meddwyn yn hanner ei ddyddiau wedi dirywio ei iechyd, dyddymu, neu o leisaf, wedi dyrusu ei synwyrau, treulio ei feddiannau, yn ffieiddbeth yn ngolwg byd, yn terfynu ei einioes mewn carchar, neu trwy ei ddwylaw ei hun, neu ar y pren dyoddef. Gwelwch ei eppil yn grwydriaid diymgeledd a diddysg ar faes y byd, heb gael cynllun na moeswers dda erioed, yn rhy gyffredin yn canlyn y cynllun gwrthun a gawsant, ac felly yn annystyriol; yn dyfod yn fraw, yn gywilydd, ac yn oru es trwy ganlynol ddrwg weithredoedd, yn eu hoes a'u cymydogaeth. Dychymygwn y gwelwn effaith ddinystriol meddwdod y tad yn canlyn ei eppil annedwydd i'r drydedd a'r bedwaredd genedlaeth. Mae y drwg hwn yn darostwng dyn yn effeithiol o'i gyflwr anrhyydeddus creadigol, trwy gymeryd ymaith y galon-medrusrwydd a doethineb y rhai sydd yn cynnysgaeth ei ragoroldeb. Pan ddel dyn unwaith dan lywodraeth y drwg hwn, mae awenau rheswm, a ddylent ei gadw o fewn terfynau gweddeidd-dra, yn syrthio o'i law. Meddwdod sydd ddrwg arweiniol, ag iddo lu o ddrygau eraill i'w ganlyn—neu, fel y dywedodd un gŵr duwiol unwaith gyda golwg ar feddwdod, ei fod yn rhagborth, yn cynnwys agoriad i bob drwg arall. Gofynnwch i'r lleidr pen y ffordd, dan y pren dyoddef. Pa beth a'th ddygodd di yma? Dyna fyddai'r ateb yn ddiammhau. Meddwdod a wnaeth i mi wyro oddiar lwybr diniweidrwydd: a hefyd, yr holl bechodau eraill hefyd, megys ymladdfeydd ac ymrysonau, tadogant ddechreuaud eu dirywriad y rhan fwyaf ar feddwdod. Y mae'n amlwg fod meddwdod yn niweidiol i'r wladwriaeth yn gyffredinol. Gan ei fod yn treulio y golud anghenrheidiol i gynnal y wlad, yn dyddymu y doethineb rheidiol i lywodraethu y wlad, ac yn difodi y nerth anhebgorol er amddiffyn y wlad; yn terfynu moesau da, yn attal pob rhinweddau, ac yn sychu ffynnonell pob cysuron, yn gwneyd dyn yn elyn iddo ei hun, i bawb o'i amgylch, ac yn waeth na'r cwbl, i'w Greawdwr ei hun; ond hefyd, y mae meddwdod yn dwynperthynas ag hanfodiad dyn mewn byd i ddyfod: mae'n rhaid i ni oll ymddangos o flaen y Barnwr cyfawn i roddi cyfrif pa fodd y darfu i ni ymddwyn gyda'r talentau a dderbyniasom. A wyt ti yn diystyr u golud ei ddaioni ef, heb wybod fod daioni Duw yn dywydys di i edifeirwch? Ni chwanegaf yn bresennol, gan roddi lle i rywun llawer cymhwysach i ysgrifenu nag ydwyf fi ar y pwnc hwn, gan ddysgwyl trwy gyfrwng y "Geiniogwerth" waled traethawd ar hyn.

Nytatserp.

Bocae.

Cân Cymdeithasfa Sir Aberteifi.

A GYNNAWYD CHWEFROR YR 17EG A'R 18FED, 1796.

O! brysia, dywysog llu': Arglwydd,
Yn ebrwydd i arddel dy air,
Ti wyddost yn hysbys yr amser,
Dydd Mercher a Iau'nol gwyl Fair.

Bydd yno fawr nifer yn erbyn
Am weled y Brenin yn d'od,
Gan godi banerau yn uchel,
Yn arwydd fed rhyfel ar droed.

Aflwyddiant i Satan a'i amcan,
I guro rhai egwan i lawr,
Mab Dafydd ar gyfer Goliah,
Mi wranta y cwympta se'r cawr.
Ac er mor greuloned yw'r filain,
Fe'i gwelwyd e'n ochain cyn hyn,
Fe'i maeddwyd, f'e'i concerwyd gan
hwnw,
Fu farw ar Galfari fryn.
Yr haul a ynt a safai yn Gideon,
A'r lleuad yn Agelon draw;
A'r cennlysg ar hen afon Cison
A roes y gelynion mewn braw.
Mi deithiais i dre' Aberteifi,
Lle gwelais gwmpeini mawr iawn
'Roedd miloedd o'r lluoedd rwy'n
credu,
Dan faner yr Iesu a'i ddawn.
A chwech o wyr arfog a safodd,
Argyhoedd rhwng nefoedd a llawr,
A Roberts o'r Gog iedd ddechreuoedd
A'i ddoniau mor ddysglaer a'r
wawr.

Y degfed o lyfr y Datgnddiad,
A'r adnod flaenorol o hon,
Lle dywedir am angel cryf arall,
Ddisgy nodd o'r nefoedd yn llon.
A'i droed oedd fel pres o gadernid,
A'i wyneb fel haul heb un llen,
A'i enw yn bur ogoeddus,
Ag enys o gwmpas ei ben.
Yr ail a'i canlynodd e'n dirion,
Grey addtwyn a'i chwariodd e'n
deg,
A'i destun oedd yn Zechariah,
Y bennod y drvdedd ar ddeg.

Lle dywedir am flynnon a gor yd,
A darddodd i waered o'r bryn,
I olchi atlendid a phechod,
A gwnedd y diueog yn wyn.
A Jones o Drefaldwyn yn drydydd
Osodai'n ddiuedd i mân,
O'r humined o lyfr y Caniadau,
Am hanes rinweddau rhad râs.
Gosod fi megys sel ar dy galon,
Ac ar dy fraich hefyd'r unwedd.

Cân cariad sydd gryf megys angeu,
Eiddigedd mor greulon a'r bedd.
A'r brawd Dafydd Parry'n bedwerydd
A'i ddoniau oedd ddefnydd i'r
gwan,
I'r bummed o lyfr y Pregethwr
Fe'i chariodd fel milwr ei ran.
Pan byddech yn myn'd i dy'r
Arglwydd,
Yn ebrwydd o gwylia ar dy droed;
Fe chwilir yn faawl dy feddwl
Gan un wyr y cwbl erioed.
Y pummed a'i fyng 'n galonog,
Llwyd enwog, a'i ddoniau oedd
wyth,
I'r drydedd ar ddeg o'r Corinthiaid,
Lledywediram weled trwy ddrych.
Mewn dammeg yn awr yr adwaenom
Ond wyneb yn wyneb a fwlid;
Ffydd, gobaith, a chariad, sy'n aros,
Nes trodd y tywllnos 'n ddydd.
A Rowlands parchedig ync weched
I'r nifer o Numeri yr ai,
A'r adnod ddiweddaf o'r bennod,
Sôn am y cyfainmod di-fai.
Ac selly gosodir fy enw
Ar deulu yr Israel yn awr,
Ac mi a'u bendithiaf hwy gwed'yn
Medd Brenhin y netoedd a'r
llawr.
Y gŵr a'r march gwyn a drafeiliodd,
I chwilio bob congl o'r byd,
I alw paganiaid, a'r Indiaid,
A'r Mahometaniaid i gyd.
I alw had Abraham, sydd grwydriaid,
Sy'n para mor ddigred ei gwedd,
I gredu fod Iesu'n teyrnasu
Yn rasol ar orsedd o hedd.
Os gofyn rhyw Gymro o estron
Pryd bu'r Assassiwn yn Llyfn,
Mil saith cant, a'u cyfri hwy'ngryno,
Pum ugain ond pedwar at hyn.
Y ddwyfed ar bymtheg o Chweffor
A dal i'r deunawfed yn dyn,
Gobeithio bydd canu am dani
'Nol llosgi pob mynydd a brym.

Darostyngiad Pen yr Eglwys.

Y bwystfil mawr creulona'
A syrthiodd o'i orseddfa;

A brefu mae yn wael ei sut,
Fel llo o'i gut yn Gaeta.
Gadawer iddo frefu ;
Na fydded mo'i adferu :
A'i ddeiliaid oll a ddelo i'w pwyll,
I wel'd ei dwyll yn dallu.
Yn ofer y ho'r ymdrechion
O blaid y bwystfil creulon,
I wneuthur drwg, ac nid dim da,
Mae wedi para digon.

Pont-robert.

J. HUGHES.

Gair at y rhai a arferant gysgu yn yr Addoliad.

"Ac efe a ddaeth ac a'u casodd hwy yn cysgu, ac a ddywedodd wrth Pedr, Simes, ai cysgu yr wyt ti ? oni ellit wylio un awr."

NID oes neb yn fwy parod i gyd-ddyoddef â'n gwendid ni na 'n Harchoff-giriad mawr ; casodd ef ei demtio yn mhob peth yr un ffynud a ninnau. A phan oedd llygaid y dysgyblion wedi trymhau, ar y noswaith rymedd hono yn ngardd Gethaemane, pwy yn ei dywydd garw, ond efe, a gydymdeimlai â hwy gan ddywedyd, "Yr ysbryd yn ddiau sydd barod, ond y cnawd sydd wan." Ond meddyliem ni mai rhyfyg fyddai meddwl fod ein Harglwydd bendigedig yn cydymdeimlo â'r cysgaduriaid hynny, sydd, er dirfawr ddirmyg arno, a'r rhai fo yn ei bregethu, yn cysgu nid y nos, ond liw dydd goleu, ar ddydd yr Arglwydd, pryd y dylent fod yn wresog yn yr ysbryd yn ei wasanaethu.

Yr oedd Eutychus yn ffodiog ei fod yn byw yn oes y gwyrthiau ; pe amgen, ni chawsai amser i edifarhau yn y fuchedd hon am ei bechod, yn cyagu ar nos Sabbath yn yr addoliad. A phe derbynai Duw, Barnwr pawb, esgusodion neb dros gyagu yn ei dŷ, feddyliem ni mai yr eiddo Eutychus a wrandewid gyntaf ; oblegid yn un peth, yr oedd yn nos, a'r bregeth yn hwy nag arferol—fe barhaodd y pregethwr yn ymadrodd hyd haner nos. Ond beth a ddywed llawer Cymro dros ei ymddygiad yn cysgu ei bod o'r bron yn haner dydd ; ac heb allu gwylled, tra na bydd yr yn adrodd yn parhau, ond awr neu ddwy.

Hefyd, mae y geiriau yn rhoi ar ddeall i ui ei bod wedi bod yn frwydr lled boeth rhwng Eutychus a'i ormeswr. Diammhau genym mai nid a'i ben rhwng ei ddeulin yr oedd, neu ar ymyl y cŵr, fel pe buasai yn eyfarch ergyd gan ei wrthwynebwr, yr oedd yn agweddu ; ond iddo gyfodi ar ei draed, gan ymdrechu ei ymlid ymaith ; oblegid dywedir mai ei orchfygu a gafodd gan gwsg. Ond y canlyniad fu, er rhybudd i bawb a gyagant yn nhŷ Dduw, iddo gwympo o'r drydedd lofft, ac a gyfodwyd i fynu yn farw.

Act. xx. 7—10.

Fy nghyd-deithydd tu a'r byd tragicwyddol, "Gwylia ar dy droed, pan fyddch yn myned i dŷ Dduw, a bydd barotach i wrandaw nag i roi aberth ffyliaid." Ymae Duw yn gofyn y meddyliau a'r serchiadau, y rhai sydd mor wasanaethgar i'r enaid ag yw'r traed i'r corff. Dyosg dy esgidian gan hynny, a golch dy draed ; ymlanhewch oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, a chofiwch fod Duw yn gofyn yr oll o'r dyn i'w wasanaeth ; o herwydd hynny yr attolygai yr apostol ar ei frodyr, "Er trugaredau Duw, roddi o honyn eu cyrif yn aberth byw, sanctaidd, cymeraidwy gan Dduw ; yr hyn oedd eu rhesymol wasanaeth." Cofiw mai offeiriadu ydyw add-

oli Duw, offrymu aberthau ysbrydel i Dduw yn ei gysegr; na fydded fod ein hagweddau wrth addoli yn rhoddi anmharch i gysegr Duw. Cofiw mai lle cysegredig ydyw, nid i gysgu, ond i addoli. Y mae Duw yn ei-ddigus dros ei gysegr. "Perchwch fy nghysegr," medd Duw, ddwywaith wrth ei bobl. *Lef. xix. 30; a xxvi. 2.*

Dylem gofio parchu y cysegr, trwy beidio cysgu ynddo. Yn un peth, o'n rhan ein hunain. Pwy a chanddo o'al am iechyd ei gorff, a gysgai yn y fath le; ond beth a soniwn am iechyd corff. Pwy, gan ofalu am iach-awdwriaeth dragwydol ei enaid, a glywai arno gysgu, ac yntan yn gwrbod fod ffydd yn dyfod, nid trwy gysgu, ond trwy glywed, a chlywed trwy air Duw.

Dylem hefyd barchu y cysegr, trwy beidio cysgu ynddo, o herwydd gweision Crist, y rhai sydd yn gweini ynddo. Wedi i was yr Arglwydd, fod mewn ymdrech meddwl, am chwe' diwrnod, pa beth i'w waeddi uwch ben pechaduriaid; ac ar y seithfed, feddwg i'r pulpud yr hyn y llafuriodd am dano. Ond O! ddyn annedwydd. Fe ddywed ei wrandawyr yn ei wyneb nad yw ei lafur am wythnos ddim yn werth eu sylw a'u gwrandawiad am un awr.

Dywedit am y Dr South, yr hwn oedd gapelwr i Charles yr II., ei fod yn pregethu ar ddydd penodol o flaen y llys, yr hwn a gyfansoddid o'r dynion mwyaf annuwiol yn y wlad. Gwelai ar ganol ei bregeth, fod cwsg welli cymeryd meddiant o'i wrandawyr. Pan welodd hyny, safai y Doctor yn ddioged, yna fe waeddodd allan a llef uchel, dair o weithiau ar Arglwydd Lauderdale. Safai ei arglyddiaeth i fynu. Fy arglywydd, ebai South, mae yn ddrwg genyf dori ar eich hûn. Ond dymunaf ar i chwi beidio chwyrnu mor uchel, rhag i chwi ddeffro ei Fawrhydi.

Trugaredd i lawer Cymro fyddai iddo, pan yn cysgu yn y capel, gael ei anerch gan yr un genad ag a anerchodd yr hen dafarnwr hwnnw gynt yn Eglwys Aldwinclle. Yr oedd wrth natur, yn gystal ac o herwydd ei alwedigaeth, yn elyn calon y Methodistaidd. Ni fedrai ddychymygu i ba ddyben y cyrchai yr holl wlad i Eglwys Aldwinclle; ond yn gymaint a'i fod yn hoff o ganu, ac wedi clywed fod yno ganu o'r fath ragoraf; fe benderfynodd y dydd gwyl nesaf i fesur y ffordd hyd yno, er ei bod yn chwech o filltiroedd; rhoddodd heibio y gyfeddach: ac wedi cyrhaedd yno, trwy ddirfawr ymdrech yr ymthiodd i un o'r corau, yr hon o'r braidd ydoedd yn rhy gul i'w gymeryd i mewn iddi. 'Gyda hyfrydwch y gwrandawai ar yr hymnan yn cael eu canu; ond cauai ei glustiau rhag gwrandaw y weddi. Yn y poethder, ac yn flin gan y daith, cauai ei lygaid hefyd i gysgu, hyd oni anerchwyd ei drwyn gan wybedyn; yna fe dynodd ei ddwylaw oddiar ei glustiau, mewn trefn i gosbi yr afonyddwr. A chyda bod y pyrth wedi eu hagor, y pregethwr, a'i lais fel taran gref, a roddodd allan ei destun, sef y geiriau hyny, "Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed." Yr argraff ar ei feddwl oedd yn anwrthwynebol, nid esel-ychai y neidr fyddar yn hwy; deffrôwyd ei deimladau, bu y diwrnod yma megys dechreu dyddiau iddo fe. D'gon bellach, yr amser a aeth beibio o'r einioes i dyngu ac i feddwi. Gweddio a gwrandaw, fu ei waith o hyny allan; ac ar ol deunaw mlynedd o rodio gyda Duw, bu farw, gan orfoleddu yn ei obaith a chan fendithio offeryn ei ddychweliad.

Y mae yn debyg fod y Cymry, yn enwedig mewn llawer o fanau, yn fwyr oл nag un genedl, o ran eu hagweddau allanol wrth addoli. Yn y "Traethodydd" am Gorphenaf, 1849, y mae Mr. Ebenezer Davies, yn hanes ei deithiau trwy barthau o'r America, yn aylwi ar ymddygiad ei frodwr y Cymry, yn Cincinnati, ac yn eu gwneuthur yn ddrych i'r byd i sylwi arnynt. "Y testun," meddai, "ydoedd, 'Pa fodd y diangwn ni, os es-

luswn iachawdwriaeth gymaint! Yr oedd y bregeth, yn un dda a ffyddlawn; ond nid oedd y gynnulleidfa, y meibion yn un ochr i'r capel, a'r merched yn yr ochr arall, yn arddangos llawer o astudrwydd. Yr oedd y meibion yn enwedig, i'w cyfrif yn mysg y gwrandawyr salwaf a welais erioed. Yr oedd ynt yn poeri yn ddibaid, a'r poeredd hwnnw yn gydfynedol & phethau nad gweddus eu henwi, ac felly yn holol ffiadd a thramgyddus. Yr oedd ynt yn bur wahanol i'r gynnulleidfa lanwaith a phrydfertho bobl idduon a melynion oedd genyf fi yn Amsterdam Newydd. Yn mhen urain mynyd ar ol i'r pregethwr ddechreu ar ei bregeth, yr oedd y naili hanner o'r dynion & u penau i lawr yn pwysio ar eu breichiau plethedig ar benau y corau o'u blaen. Pa un bynag oedd ynt yn cysgu, ai nid oedd ynt! yr oedd ynt ar wedd rhai yn cysgu yn drwm. Yr oedd hyn yn ymddygiad anfesgar iawn, heb son am ansawdd ddideimlad y meddwl a arwyddid trwyddo. Yr oeddwn yn synu pa sut y gallasai y pregethwr fyned ymlaen o gwbl gyda 'r fath wrandawyr e'i flaen. Mae yn ddrwg genyf ddyweyd, fod y Cymry yn rhy fynych yn arddangos diffyg mawr o weddeidd-dra a defosiwn yn eu cynnulleidfa oedd crefyddol." TUDAL. 395.

Fe weddai i ni hefyd ymddwyn yn weddus yn yr addoliad, nid yn unig o barch i weision Crist, ond hefyd o herwydd yr angelion, pa rai sydd yn dystion o'n dull yn addoli. Yr oedd hyn yn cael ei gysgodi yn nheml Solomon yn y cerfiedig luniau cerubiaid, y rhai a gerfiodd efe o amgylch ar holl barwyddyd y tŷ: 1 Bren. vi. 9. Yr oedd hefyd, yn un o wersi yr apostol i'r Corinthiaid: 1 Cor. xi. 10. Ond wele fy na dynion, nae angelion yma. "Mor ofnadwy yw y lle hwn: nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nesoedd." "Diau fod yr Arglywydd yn y lle hwn," ebe Jacob, "ac nis gwyddwn ni." Ac meddai yr Arglywydd Iesu ei hunan, "Cany s lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt."

Na ddywedded neb o hyd allan, am gysgu yn yr addoliad, dyma fy ngwendid. Ystyriwn gan hyny, fel y rhai hyny gynt, ein bod oll yn bresennol ger bron Duw, nid i gysgu, ond i wrandaw yr holl bethau a or-chymynodd Duw i'w weision i'w traethu. Na chyaged neb gan hyny yn y fath bresennoldeb, a chymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n ham-gylch—yn cael ei gyfansoddi o bobl Dduw, yr angelion sanctaidd, te, ac Arglywydd pawb oll ei hunan, & i lygaid fel flam dân, yn sylwi arnom—yr hwn a edwyn ein gweithredoeddi berfffeithrwydd, ac a ddwg bob gweithred i farn y dydd mawr. Gan hyny, na chysgwn fel rhai eraill; eithr gwyliau, a byddwn sobr.

Machynlleth.

J. J. JONES.

Hanesion.

ITALI.—Mae y Ffrancod wedi adfern i'r pab ei awdurdod wladol ac ysbyrdol ar y Rhufeiniaid. Ond yn ol pob ymddangosiad, nid oes ond gallu maiwrol a'i ceidw ar yr orsedd, os na chymerir ryw ffordd arall i'w llywodraethu heblaw anwybodaeth a gormes cardinaliaid. Mae rhuddid ac iawnderau y Rhufeiniaid yn cael eu hanghofio, cymaint yn yr adferiad ag oedd ynt cyn y floedigaeth. Mae yr hen sefydliadau a'r llygredigaethau yn cael eu cychwyn o newydd. Ymddengys fod y Ffrancod yn cael cymaint o drafserth i wneyd i'r pab ddeall amgylchiadau ei sefyllfa, a'r ddyledswydd sydd arno i lywodraethu yn ol syniadau a theimladau yr oes bresennol, ag a gawsant i ddarostwng y Rhufeiniaid dewrwych. Nid oes gan y pab a'i

gardinaliaid ddychymyg fod gan ddyunion iawnderau i'w parchu, rhyddid i'w amddiffyn, cydwybodau i wrando arnynt a meddyliau i'w coethi. Eu syniad hwy am ddynion ydyw, nad oes ganddynt ddign i wneyd a hwy eu hunain nac a'u Creawdwr, ond ymddyosg o holl briodoliaethau creaduriaid rhesymol a chyfrifol, a'u haberthu ar allor Ei Sancteiddrwydd.

FRAINC.—Nid oes dim cyfnewidiadau o bwys wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn y wlad hon. Ymddengys eu bod wedi cael digon ar gyfnewidiadau am y rhawg. Mae y llywydd, Louis Bonaparte, wedi somi pawb yr ochr oreu; y mae yn amlygu mwy o ddoethineb mewn amgylchiadau cyfyng, mwy o benderfyniad i gyfarfod peryglon, a mwy o gymedroldeb i fantoli gwahanol bleidiau, nag oedd ei gyfeillion ya dysgwyl gael ynddo. Wrth feddwl am ef yn llywydd, ni feddylasant ond am enw; ond y maent wedi cael dyn. Mae plaid gref yn Ffrainc yn condemnio yr ymgyrch a wnaed ar Rhufain.

CYDYMDEIMLAD A'R HUNGARIAID.—Un o'r teimladau cryfaf yn Lloegr y dyddiau hyn, ydyw cydymdeimlad a'r Hungariaid. Mae cyfarfodydd cyhoeddus a llisosog, wedi eu cynnal yn mhrif drefydd Lloegr a Scotland i'r perwyl. Edrychir ar y frwydr sydd yn myned ymlaen rhwng Hungari a'r cynghrair Awstria-Rwsiaidd, yn frwydr rhwng rhyddid a gormes. Dywedir fod y cydymdeimlad a ddangosir yma wedi effeithio yn fawr er gwangaloni yr Awstriaid. Dywedai Dr. Vaughan, mewn araeth arderchog a draddododd mewn cyfarfod yn Manchester, "Po fwyaf y gosodwn eis hwynebau yn erbyn ymladdau a cholli gwaed, cymaint a hyny yn fwy y dylem ddangos eincasineba'n gwrthwynebiad i bob gormes ac anghyflawned. Ymddengys oddiwrth y newyddiaduron, fod llywodraeth Awstria wedi bod yn ceisio benthyg dwy filiwn o bunnau gan Rothschild i gario y frwydr ymlaen. Mae yn debyg ond i'r Iuddeu arianog hwn sierhau llog uchel, y bydd yn anhawdd ganddo nacau, pa mor anghyson bynag y byddo hyny mewn aelod seneddol dros Llundain.

Y FRENINES YN YR IWERDON.—Mae y frenines a'i theulu wedi bod yn ymweled a'r rhan druenus yma o'i hymherodraeth. Nis galasai gael croesaw mwy nag a gafodd, nis gallasai y Gwyddel, diarebol am sirioldeb a helaethrwydd ei groesaw, roddi mwy nag a wnaeth. Ni w elwyd erioed mwy o bobl, wedi ymgasglu yn mhob cornel lle yr oedd gobaith cael cipplwg ar ei Mawrhydi; ac mae llawer blwvddyn hir er pan welwyd cymaint o lawenydd ar wynebau y Gwyddelod. Ymweodd y frenines a'i phriod, a'r ysgolion cyhoeddus a chyffredinol yn Dublin, y rhaisydd o dan nawdd y llywodraeth, i roddi addysg i Babydd a Phrotestant yn ddiwahaniaeth. Dysgwylir y bydd yr ymwelliad hwn a'r wlad sydd wedi dyoddef cymaint oddiwrth newyn a haint, oddiwrth gasineb pleidiau crefyddol a gwriadol, yn lles mawr iddi.

Y GYNNALEDD WESLEYAIDD.—Cynnaliwyd cynnadledd (*conference*) flynedol y Wesleyaid yn Manchester y flwyddyn hon, yn nechreu mis Awst. Mae y gynnadledd hon wedi gwneyd mwy o son am dani ei hun eleni nag arferol. Nis gallwn ei chanmol am foneddigieddrwydd a chymedroldeb ei hymddygiad mewn un modd. Mae rhwng ddyn o'r enw George Osborne, sidd yn ymddangos fel blaenor yn eu mysg, mewn araeth faith yn cyfeirio yn mysg pethau ereill at ddirwest, ac yn dyweyd mewn atebiad i'r rhesymau a ddygir ymlaen dros ddirwest, a'r anghenheidrwydd i bawb, yn enwedig gweinidogion yr esengyl, i wneyd eu goreu er sobreiddio y wlad, "Mai nid baban na hurtyn ydyw efe—y myn ef wydraid o win pan y de-wiso, y myn ef drafaelio yn y cerbydau goreu ar y rheilffyrdd, y myn ef gael byd da helaethwych beunydd." A glywyd neb o'r blaen yn siarad yn de-

bycach i faban nwydwyllt, ac yn ymresymu yn debycach i hurtyn. Ond pwy a fuasai yn meddwl y cawsid chwe' chant o weinidogion yr efengyl i wrandaw ar y fath filloreg a hon gyda banllefau o gymeradwyaeth.

Y BUDDYGOLIAETHAU HUNGARAIDD.—Dywadir fod trigolion Vienna mewn sefyllfa o gynhyrfaid a phryder dwys, ac nad yw y penaethiaid yn cydweled â'u gilydd pa un oreu iddynt, ai gwneuthur heddwch, ai cario ymlaen ryfel. Y teimlad cyffredin yn Vienna sydd dros heddwch.

Ar y 3ydd o Awst, ennillodd yr Hungariaid un o'r brwydrâu mwyaf a ddangosodd gynnydd y rhyfel annibynol. Collodd y llu gorchfygedig ei le, ei ynau, ei ddarpariadau rhyfel, gyda phont dros y Danube. Yr oedd yr yspail a syrthiodd i ddwylaw yr Hungariaid, ar y 3ydd a'r pedwerydd yn anferth. Cymerwyd yr holl fagnelau yn Acs a Mocs, carcharwyd catrawd gyfan o fyddin Mazzuchelli, a chymerwyd y gist filwraidd; carwyd ym-aith ddau faes-gyffordd, yr hyn oedd yn ennilliad tra rhagorol; arweiniwyd 2,760 o ychain gyda 'u hymborth i le diogel; heblaw llawer o ddefnyddiau rhyfel a bwyddydd, 100,000 cwt. (o 112 pwys bob un) o beillied, gyda 40,000 o wisgoedd rhyfelwyr, a phump o gychod mawrion, wedi eu llwytho â 17,000 pwys o bylor ac yd. Ar yr un amser cymerwyd 30,000 ar yr ochr aswy i'r Danube. Yna trodd Klapka (Hungariaid) ei arfan yn erbyn Görge, lle y syrthiodd llynges Awstriaidd gyfan i'w ddwylaw, gyda phob math o adgyflawnwadau. Aeth i mewn i Raab ar y 4ydd, a dywedir fod Hermannstadt wedi ei hadgymeryd gan yr Hungariaid, a bod tramwyfa yr Awstriaid wedi ei chau i fynu yn hollol. Dyddiwyd cenadwri Paakewitch, (Awstriad) yn niweddi mis Mehefin. Yr oedd ei wyr yn meirw fel gwybed. Ac y mae yn sier, os na all efe orchfygu yr Hungariaid cyn diwedd Awst, y bydd ei fyddin wedi lleihau gymaint trwy farwolaeth a selni, fel ag i w luddias i'w gorchfygu am y tymbor hwn. Y mae y Rwsiaid a'r Awstriaid yn ymrafaelio fel cath a chi, ac y mae cadflaenoraid o bob tu yn grwgach o herwydd eu bod yn cael eu cynnal yn rhy wael. Y mae y swyddogion Rwsiaidd yn casâu y rhyfel. Y mae yr hinsawdd yn effeithio ar bob un o honynut, a chlefydau yn ymledu yn eu plith. Nid oes dim portiant iddynt i'w gael i'w hanifeiliaid, ac y mae eu hymborth yn hynod o ddrwg.

YMDDIRIED YN NUW AMSER HAINT.—Yr oedd Lord Craven yn byw yn Llundain pan oedd y pla mawr yn dinyistro yno; ond i ddianc rhag y perygl, penderfynodd encilio i'w annedd yn y wlad. Yr oedd ei gerbyd wrth y drws, a'r celfi (*baggage*) i mewn, a phob peth yn barod i'r daith. Fel yr oedd yn rhodio trwy ei neuadd i'r dyben o fyned i'r cerbyd, clywodd ei was neu'r oedd yn dyweyd wrth was arall, "Yr wy ffi yn meddwl wrth fod fy Arglwydd yn ymadael o Lundain i ochelyd y pla, fod ei Dduw yn byw yn y wlad, ac nid yn y dref." Yr oedd y negro tlawd yn dyweyd hyn, o ddiiniweidrwydd ei galon, fel yr oedd yn credu bod llawer o dduwiau; ond y geiriau pa fodd bynag, a gyfriddod Lord Craven. Yntau yn deimladwy, a ystyriodd, "Fy Nuw sydd yn nihob man, ac a fedr fy nghadw yn y dref fel yn y wlad. Yn awr, mi a arhosaf lle yr wyf; fe ddarfau anwybodaeth y negro yna bregethu pregeth fuddiol i mi. Arglwydd, maddeu fy anghrediniaeth, a'r anhyder yn dy drugaredd di a wnaeth i mi feddwl rhedeg oddiwrth dy law di." Yna, efe a orchymynodd i'r meirch gael eu cymeryd o'r cerbyd, ac a arosodd yn Llundain; ac yr oedd yn bur wasanaethgar i'r cleifion, ac ni chyffhyrddodd yr haist âg ei.

Y COLERA.—Mae y Colera wedi gwneyd ei ymddangosiad mewn amryw fanau yn Nghymru, yn enwedig tua Merthyr Tydfil a Dowlais yn y Deheudir; ac y mae ei gerddediat yn peri dychryn a braw ar yr holl drigolion. Cadwed y Cymry eu hauneddau yn iân ac yn drefnus.

Y GEINIOGWERTH.

Dr. Owen a'i Waith.

Y DR. JOHN OWEN ydoedd fab i Henry Owen, yr hwn oedd weinidog yr efengyl yn Stadham, yn swydd Rhydychain, yn mha le ei ganwyd yn y flwyddyn 1616. Fe ddywedir iddo hanu oddiwrth Lewis Owen, Yswain, o'r Llysyn, gerllaw Dolgelley, a hwnw oedd yn hanu trwy unionlin oddiwrth Llewelyn ab Gwrgan, tywysog Morganwg, felly yn Gymro o waelodiaeth. Yn y flwyddyn 1628, pan yn ddeuddeg oed, cafodd ei anfon a'i dderbyn i Goleg y Frenines, Rhysdychain, yno y cafodd efe ei radd gyntaf, a hyny pan yn un ar bymtheg oed, yn y flwyddyn 1632. Bu yno yn hynod o ddiwyd yn astudio, ac ni orffwysai ond yn unig tua phedair awr. Ei holl amcan oedd iddo gael rhwng swydd dda ac uchel yn yr Eglwys neu y wladwriaeth. Fe fu hyn yn achos galar iddo ar ol hynny. Ar y pryd gwnaethpw d amryw gyfreithiau newyddion yn yr ysgol gan yr Archesgob Laud, canghellwr y brifysgol (sef tua'r flwyddyn 1637), a pha rai nid oedd y Dr yn cydweled, a ar yr achlysur gorfu arno ymael a Rhydychain. Ar ol hynny darfud iddo fyned yn ganllan i Sir Richard Dormer, o Ashton, o'r swydd hono (cyn hyn cafo idd ei gwbl urddo gan Esgob Bancroft). Aeth ar ol hynny i swydd Berks, i fod yn ganllan i John, Arglwydd Lovelace, o Thurley. Ond pan dorodd y rhyfel wlaol allan, efe a gemerod blaid y senedd; parodd hynny iddo golli ffafri llawer. Aeth ar ol , ramgylchiad uchod tua Llundai'n, yn mha le, y mae yn debyg, yr ymunodd a'r Anghydruswyr. Ar ol myned yno bu yn isel iawn yn ei ffeidwl. a hyny am ei gylchrif tragyweddol yn benaf. Ac ar un Sabbath aeth i wran'aw ar y Parch Edmund Calamy, G.C., fil y tybiai, ond rhyw un arall o'r wlad oedd yno ar y pryd; a'i destun oedd yn Math. viii. 26: "Paham yr ydych yn ofnus, O chwio ychydig ffydd?" Cafodd fendifith i'w enaid yn y bregethalynodd ynddo hyd angen. Yn y flwyddyn 1642, gwnaeth lyfr yn gosod allan "Natur Annwiaeth," yr hwn yn fuan a gododd ei awdur i sylw y senedd, a bu yn sail i'w ddyrchaiaid yn y caulyniaid. Yn fuan drachefn, yr eisteid fod oedd i buro yr Eglwys oddiwrth weiaidogion gwarthus, a roddasant id i bersoniaeth Fordham, yn Essex. Bu yno ychydig gyda blwyddyn, cafodd ei amddifadu o'r lle hwn gan y noddwr, &c. Iarll Warwick a roddodd iddo bersoniaeth Coggleshall, yn yr un swydd. Byddai yn gyffredin yn pregethu i ddwy fil o bobl. Ni bu yno yn hir cyn newid ei farn am Henaluriaeth, ac fe ymunodd a'r Annibynwyr. Ar y 29ain o Ebrill, 1646, galwyd ef i bregethu ger bron y senedd, na ddydd oedd yn cael ei gadw yn Wyl gan yr hen Burmaniaid. Dangosodd fwy o ysbryd rhydd y tra hwn nag a arferwyd gan ei gydbleidiwyr ar y pryd, ac yn fwy felly pan ei galwyd i bregethu yno ar y dydd caalynol i doriad pen y brenin, Charles I., yr hwn a gymerodd le Ionawr 30ain, 1649. Yn y bregeth

HYDREF, 1849.]

hon dywedodd yn hyll yn erbyn gormes, a hunan elw, ac erlidig-asth, ac ni chymeradwyodd eu gwaith o dori pen y brenin. Ar yr 28ain o'r Chwefror canlynol, sef ar y dydd oedd wedi ei neillduo i ympryd a gweddi yn achos yr Iwerddon, yr oedd i bregethu drachefn o flaen y senedd a phrif swyddogion y fyddin, yn mha le y darfu i Cromwell ei glywed am y tro cyntaf a chafodd effaith mor dda arno nes iddo ei alw yn gaplan iddo ei hunan. Yn fuan ar ei hyn y aeth i Dublin i olygu y brifysgol, ac i bregethu, a bu yno am tua naw mis. Yn y flwyddyn 1651, wrth orchymyn y senedd, cafodd ei ddyrchafu yn ddeon Eglwys Crist yn Rhydychain, ac yn y flwyddyn ganlynol cafodd radd Doctor Duwinyddiaeth, ac hefyd yn rhag-ganghellwr i'r brifysgol yn yr un lle. Fe gyflawnodd ei swydd yn ffyddlawn ac yr anrhayeddus am bum mlynedd, sef hyd farwolaeth Cromwell, pryd y dyrchafwydy Dr. Reynolds, yr hwn oedd Henaduriad, yn ei le. Ar adferiad Charles yr Ail aeth i Stadham, lle ei enedigaeth, a phregethai yno mor fynych ag y gallai; ond bu raid iddo ymadael oddiyno o herwydd yr afonydd-wch a dderbynai oddiwrth filwyr cartrefol Rhydychain, a phenderfynodd gartrefu yn Llundain. Yno yr ysgrifenodd lyfr o'renw "Fiat Lux," mewn atebiad i ysgrifiadau mynach Franciscaidd: y gwaith hwn a dynodd sylw Arglywydd Clarendon arno, yr hwn a gynnigiodd iddo ddyrchafiad os cydffurffai, ond efe a wrthododd. Dyoddefodd gymaint fel y meddylodd fyned ar alwad i Loegr Newydd, yn athraw y brifysgol yno, ond efe a attaliwyd trwy orchymyn y brenin; ac hefyd cafodd wahoddiad i Holland i'r un swydd, ond cariad at ei wlad a'i cymhellodd i aros gartref. Pan roddodd y brenin drwyddedau (licenses) i'r Anghyddfurfwyr, cymerodd yntau dŷ ac a bregethodd ynddo, a daeth llawer o fawrion Llundain i'w wrandaw. Darfu iddo, mewn cysylltiad â Baxter, Bates, ac amryw eraill, sefydlu y Ddarlith Wythnosol yn neuadd Pinners; ac ar farwolaeth Mr. Caryl dewiswyd ef yn weinidog, ar ba eglwys y bu y Dr. Watts ar ol hynny. Yr oedd gando gyfeillion ymhlið y mawrion—nid oedd y brenin Charles heb ddangos cyfeillgarwch iddo weithiau. Rhododd fil o *guineas* iddo unwaith i'w cyfranu i'r dyoddefwyr ymhlið yr Anghyddfurfwyr. Bu yn eiriol gyda'r brenin dros John Bunyan, yr hwn oedd wedi bod ddeuddeng mlynedd yn y carchar am grefydd. Yr oedd y brenin yn dyweyd wrtho ei fod ef yn synu fod dyn dysgedig: o'i fath ef yn dadleu dros *dinceriaid*, ac yn eu hannog i bregethu. "O!" medd Dr. Owen, "mi a roddwn i fyny fy hell ddysegeidiâeth am ddoniau y tineer i bregethu."

Yn y flwyddyn 1677, priodwyd ef yr ail waith, a thrwy hynny cafodd etifeddiaeth yn Ealing, yn Middlesex; ac yno wedi treulio bŵwyd llafurus, dæth ei amser i ymddattod. Mewn llythyr at gyfaill yr oedd ya dyweyd, "Yr wyf yn myned ato Ef yr hwn a gerais, yn hytrach yr hwn a'm carodd i a chariad tragicwyddol, yr hwn yw sail fy holl gysur." Bu farw Awst 24ain, 1683, yn saith a thrugain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn monwent *Bunhillfields, City road*, yn ninas Llundain, lle mae ei fedd i'w weled yn bresennol, a hynny nid yn nepell oddiwrth ei gyfaill hoff John Bunyan, ac hefyd y..

enwog Dr. Watts, a'r anfarwol James Hughes, Jewin Crescent, ac amryw eraill a fuont ddynion enwog, y rhai y bydd eu coffadwriaeth yn fendigedig. Yr oedd y Dr. Owen yn un o'r dynion mwyaf a fagwyd yn Mhrydain erioed, yn hynod o ran ei ddysg, ei dduwioldeb, ei ffyddlondeb, a'i ddiwydrwydd yn achos ei Dduw, yn mhob man, a phob amgylchiad, ac yn caru llesiad ei gyd-ddynion, pwy bynag a fyddent. Yr oedd o ran ei farn yn Galfinaidd, fel ag y gwelir yn ei ysgrifiadau heddyw, pa rai a fyddant mewn bri tra fyddo y byd mewn bod. Ysgrifenodd chwech o lyfrau unplyg, un ar hugain yn bedwarplyg, a deg ar hugain yn wythplyg. Y prif rai ydyw y rhai a ganlyn :—1. Ei waith yn esbonio ar lyfr yr Hebreaid :—2. Ar yr Ysbryd Glan, 1674 :—3 “*Vindice Evangelicae*,” &c., mewn atebiad i T. Biddle, 1655 :—4. “*Theologoumena, sive de Naturâ, Ortu, Progressu et studio veræ Theologiae*,” 1661 :—Ei esboniad ar *Salm* cxxx, 1660 :—6. Ar Gyfawnhad, 1677 :—7. Ar natur pechoi mewn credinwyr, 1658 :—8. Casgliai o'i bregethau a'i draethodau, a'r olaf oedd ar gogoniant Crist, yr hwn y dywedir iddo gael ei anfon i'r wasg ar y dydd y bu farw. Y mae amrywo'r llyfrau uchod yn yr iaith Gymraeg, a gobeithir cyn hir, y cawn weled ei esboniad ar yr Hebreaid, ie, a'i holl lyfrau yn wir, pa rai sydd yn drysorau anmhrisiadwy. Y maent yn glod i'w hawdur, yr hwn a ddechreuodd ei yrfa mewn llafur, ac a'i teithiodd trwy lawer o galedi, ond yn y diwedd aeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Yno caiff weled gogoniant y Person y darfu iddo ysgrifenu mor raggerol am dano; yr oedd yma yn edrych arno megys trwy ddrych, ond yno wyneb yn wyneb, heb unrallen i fod rhngddynt am dragwyddoldeb. Caal bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw.

D. R. DELTA.

Ymfudiaeth.

NID ydyw yr Arglwydd wedi creu y ddaear yn ofer, ond i'w phreswylio y creodd efe hi; “a'r ddaear a roddes efe i feibion dynion:” a'r gorchymyn cyntaf a safodd dyn oedd, “ffrwythwch ac amlhewch a llenwch y ddaear.” Yn mhen tua phymtheg cant o flyneddau ar ol hyny, cawn hanes eu bod wedi ffrwytho ac amlhau yn nghymydogaeth Noa, yr hon oedd gerllaw cymydogaeth Adda, ac wedi llygru eu gilydi wrth drigo ynghyd, yn lle ymwasgaru i lenwi'r ddaear, nes o'r diwedd iddynt fyned yn rhy ddrwg i “hir amynedd Duw yn nyddiu Noa” eu dyo:idef ar y ddaear. Ar ol difetha pen dynionad Noa a'i deulu oddiar wyneb y ddaear trwy y dwfr diluw, y mae yr Arglwydd yn rhoddi yr un gorchymyn i'r teulu hwnnw wrth ddechreu poblogi y byd newydd ag a roddodd efe i Adda wrth ddechreu poblogi yr hen fyd, sef “ffrwythwch, llosogwch a heawch y ddaear;” dyna y fendith a'r hon y bendithiodd yr Arglwydd Noa a'i feibion ar ol eu gwaredu oddi tan felldith y cymdilu. All y gallwa weled mai diystyr y fendith hon oedd

dechreuad llygredigaeth yr hen fydd, ac mai diogelwch y byd newydd oedd iddynt ymwasgaru i gymeryd mediant o'u hetifeddaeth. Ynghylch can' mlynedd ar ol y diluw, pan ydoedd meibion Noa wedi lliosogi yn y gymydogaeth nes llenwi mynydd Ararat, cyfarwyddodd yr Arglwydd Noa, trwy ysbryd prophwydoliaeth, i ranu y ddaear rhwng ei feibion, rhag iddynt hwythau ymlygru gyda'u gilydd, yn lle llenwi'r ddaear. Yn unhaen deugain mlynedd ar ol y rhaniad, cawn eu hanes wedi dechreu cychwyn i'w taith hyd wastadedd Sinar; ond cyn iddynt fyned dros cerfyn gwlad eu genedigaeth, dealloedd meibion Japheth eu bod hwy i fyned tua'r Gogledd oer, a meibion Cam ddrygionus i fyned dan y felldith tuag Afrika boeth, nes duo eu crwyn gan y gwres, a bod meibion Sem i gael aros yn hyfryd wla! eu genedigaeth; gan hyny gwnaethant benderfyniad i drigo yn y gwastadedd hwnnw, deued a ddelai o fwriadau Duw, a phrophwydoliaeth eu tad—dywedasant, "Moeswch bri i dfeini, adeiladwn i ni ddinas a thŵr, a gwnaen i ni enw rhag ein gwasgaru ar hyd wneb yr holl ddaear." Wele drigolion y byd newydd eto wedi syrthio i'r un pwll o lygredigaeth a thrigolion yr hen fydd, gan ddiystyr u pob cyfarwyddiadau i'w ochel, nes iddynt hwythau dynu barn Duw arnynt, er nad oedd y farn a ddaeth arnynt hwy mor ddinystriol a barn yr hen fydd, eto yr ydoedd yn fwy effrithiol tuag at gyflawni bwriad Duw er poblogi y ddaear. Erbyn iddynt hwy gyduno i wneyd eu cymghor eu hunain, weley cymghor tragywyddol yn dywedyd, "Deuwch, disgynwn, a chymysgwyn yno eu hiaith hwynt, fel na ddeallont iaith eu gilydd; felly yr Arglwydd a'u gwasarodd hwynt oddiyno ar hyd w, neb yr holl ddaear," ac y mae y wasgarfa northol hono yn parhau i fyned rhagddi hyd y dydd hwn, a'r moddion effeithiol i hyny, sef amrywiaeth ieithoedd, yn lliosogi. Ac egluryw fod pob tuedd croes i ymwasgaru ar hyd wyleb yr holl ddaear yn parhau i ddwyn nofau o anfoddlonrwydd Duw ar ddynion: ar y dinasoedd mwyaf enwog, fel yr un yn ngwastadedd Sinar, y mae y march coch yn arfer ymosod waetha'; a gorlawnder y trigolion ar gyfer cynnrych eu gwlad sydd yn eu dwyn dan garnau y march du; ac eglur yw mai y lleoedd amlaf eu trigolion sydd yn cael eu sathru gan y march gwelwlas yn y dyddian hyn: hefyd, i ba beth ond i orlawnder trigolion y gellir priodoli y dinestr anwrthwynebol a wneir ar liaws o'n cenedl gan ddarfod edigaeth. Pan oedd ein gwla' yn anaml ei thrigolion, tua phe-iwar ugain mlynedd yn ol, nid oedd dim son am y clefyd dinystriol hwn, ac nid oes dim o hono heddi, w mewn gwledydd anaml eu trigolion; ond os geill rhyw un ag sidd yn deall y natur ddynol yn well i a mi amwheu fod amldra dynion yn llygredigaeth i'w natur, y mae yn wirionedd rhy brofiadol i nebeid wadu fo'i amldra dynion yn llygredigaeth ofna' wy i'w moesau a'u mediannau hefyd. Onid oes llawer mwy o achos cwyno yn Nghymru yn awr nag oedd hanner can' mlynedd yn ol, o herwydd ehwennych tai, a thiroedd, a bywiolaethau cymydigion? Onid ycyw yr amethwyr, a'r m-snachwyr, a'r ereffitwyr, a'r gweithwyr, wedi ymraru yn eu herbyn eu hunain, nes magu letain malais rhwng iddynt a'u gilydd, nes suio llawer eglwys a chymydogion, a llawer trwy anturio dan seiliau eu gilydd, yn tynu eu tai ar eu penau.

eu hunain, ac yn yspeilio meddiannau eu cymydogion trwy feth-daliad yn fwy anocheladwy na lladron. Wrth ddamsang traed eu gilydd y mae llawer o'r perthynasau agosaf yn myned yn fwy di-surch at eu gilydd nag estroniaid. Felly ni a welwn fod go lawnder o ddynion yn peri iddynt wthio eu gilydd i dloidi, a thlodi yn eu gwthio i anonestrwydd, ac anonestrwydd yn eu gwthio ar draws holl ddeddfau eu natur eu hunain, a deddfau y nefoedd hefyd.

Gan fod llawer o wlad yr addewid heb ei meddianu, gwell fyddai i lawer yn ychwaneg o genedl y Cymry fyned allan i chwilio am dani, fel y Daniaid, na damsang eu gilydd rhwng y mynyddoedd, fel hyn, nes ydyw y fendith werthfawrocaf yn faich trymaf. Cael llawer o blant oedd y fendith fwyaf dymunol gan hâd Abraham, fel y gallent feddiannu cyfran helaeth o'r etifeddiaeth addewedig, a mawr fyddai gofid y diblant; ond y mae yn ddiareb yn Nghymru heddyw, fod "gofid perchenn plant yn dyblu'r diblant," a'r rhai sydd wedi cael y gyfran helaethaf o fendith Duw i Noa a'i feibion, yw y rhai sydd yn y gorthrwmder mwyaf yn Nghymru; a'r rhai mwyaf amddiffiad o'r hyn a elwir yn fendith yr Arglwydd i Aser, ac yn ras Duw gan Jacob, yw y rhai a ystyri'r ddedwyddaf. Pa beth sydd wedi gyrru y cwbl o chwith fel hyn? A ydyw cenedl y Cymry yn euog o'r un troedd a'r Babeliaid yn ngwastadedd Sinar? neu a ydyw rhandir meibion Japheth wedi ei llanw yn rhy gynnar cyn dyfod cyflawnder bendithion y mil blyneddau ar eu cyfer? Eglur yw ein bod yn cael ein diystyr u'n llethu gan genedl falch a gor-thrymus. Cyfoded rhyw Gymro galluog ei yspieiddrych ar lan Môr y Werydd, fel Moses ar lan y Môr Coch, gan gyfeirio at y wawr sydd yn tywynu ar wlad y Gorllewin, gwaedded ar ei gydgenedl, "Sef-wch ac edrychwch ar iachawdwriaeth yr Arglwydd."

MYRDDYN

XI. *Llythyr Hen Wr Mynyddig.*

ANWYL GYDGENDEDL,

Mae golygwyr y "Geiniogwerth" wedi ceisio genyf finnau ysgrifenu yn erbyn anfeisoldeb y Cymry. Yr wyf finnau yn gweled wrth hyny, a gwel pobl eraill yr un fath yn ddiammhau, eu bod hwy, sydd yn wîr doethion iawn, yn barnu fî mod innau ymhlieth y rhai tebycaf e gael gwrandawiad gan y Cymry; canys dywedant yn eu hanerchiad ar hyny yn y "Geiniogwerth," am Mai diweddaf, mai at wîr o'r fath hyny yr anfonent i geisio gaudynt ysgrifennu. Yn awr, onid ydyw hyn yn rhywbeth i hen ddynan fel myfi? Pwy fuasai byth yn meddwl pan oeddwn yn dechreu fy awduriaeth y daethwn i fod mor enwog? Beth waeth pa fodd yr ymddyga yr adolygwyr bellach?

Dywed y golygwyr hefyd, eu bod yn hyderus y byddai i bob ewyllsiwr da i genedl y Cymry gydsynio â'u cais trwy ysgrifenu. Ac nis mynwn innau am bris ar y ddaear, gael fy nrwg-dybio o barth meddu ewylls da tuag at genedl y Cymry; gan hyny yr wyf

yh ysgrifenu. A'r anfoes a benodwyd i mi ysgrifenu yn ei erbyn ar hyn o bryd, yw anghyfiawnder.

Gwneir anghyfiawnder wrth werthu yn fynych, trwy godi crogbris am yr hyn a werthir, neu ynto werthu eiddo gwael yn enw a phris un da, neu ynto fod y mesur neu y pwysau yn rhy fychan. Mynych y gwelir y pryswr hefyd yn euog o'r un peth, trwy naill ai ceisio prynu yr eiddo am lai nag a dâl, neu ei brynu a phfeidio talu. yn yr amser penedol am dano, neu hwyrach beidio a thalu byth. Hefyd gwneir anghyfiawnder yn fynych pan byddo un yn tori i fyny, fel y dywedir, trwy i'r dyn drosi ei eiddo i law rhywun arall, yna nis gall ei ofnwyrr ond cytheryd a gaffont. Ac yn y cyffredin, mewn amgylchiniadau felly, cedwir rhan fawr o'r eiddo i fod yn feddiant i'r methodiau ei human. Llawer o ffyrdd eraill sydd, yn mha rai y gwales anghyfiawnder. Gallwn lenwi fy llythyr, ac i hwn fod yr hwyaf leon ynt oll, heb ond yn unig enwi y gwa-haol ffyrdd hyn; ond ni byddai hyny yn gwbl unol a'm hamcan ar hyn o achlysur.

Awydd am arian, am feddiannau, mae'n debyg, ydyw y prif achos fod rhai yn gwneuthur anghyfiawnder. A phe gallwn ond dangos fod gwneuthur anghyfiawnder yn myned yn erbyn iddynt gyfoethogi, end odid fawr na byddai hyny yn un o'r pethau tebycaf i beri iddynt glywed a theimlo. Canys y mae llawer o argoelion fod yn haws gwneuthur i'r fath hyn deiniol trwy eu llogeillau na thrwy eu cydwybodaau. Gwasga yr ystyriaeth o golli ceiniog a dimai yn ddwysach ar feddyliau llawer o'r bobl hyn, pan y dlygwyddo hyny fod, nag y gwasgodd yr ystyriaeth o fod wedi pechu yn erbyn Duw erioed ar eu meddyliau.

Ond y mae yn dra eglur, dybygid, os arfera dyn anghyfiawnder, y milwria hyny yn erbyn ei lwyddiant. Meddylier am y gwerthwr anghyfiawn, beth fydd y canlyniad iddo ef? Mae yn siwr o golli ei gwsmeriaid yn fuan, oddigerth y rhai drwg am dalu; canys y mae y rhai gonest yn rhwym i edrych pa fodd y prynant, er mwyn dyfod i ben a medru talu. Ond am rai anghyfiawn, nid ydynt hwy mor feddylgar am dalu, ac o'r herwydd nid ydynt mor ófalus rhag addaw gormod am rywbeth wrth brynu. Felly y fath olaf fydd cwsmeriaid y gwerthwr crogbrisaid. Dylgwyddodd er ys tro yn ol, fod cifydd wedi dyfod adref o'r farchnad, yn adrodd i'r wraig helynt y diwrnod, a dywedai i bwy, a pha fodd yr oedd wedi gwerthu y cig. Ond ymhliith eraill, dywedai ei fod wedi gwerthu rhyw gymaint o gig i H. Ll. o'r Ll—dd, "A gawsoch chwi arian ganddo Dafydd?" gofynai Catherine, gyda gradd o frys. "Naddo," atebai Dafydd, "ond efe a dâl yn fuan." "O, na wna byth," atebai hithau. "Wel, gad iddo yntau," ebe Dafydd, "mi werthais, i man y cig iddoyn bur ddrud. Onid oedd y ddau wedi cyfarfod eu gylchedd i'r dim yn yr amgylchiad yma? A lled debyg ydyw yn gyffredin. Hefyd, mynuch iawn y gwelir y dyn yn cael ei fradychu gan yr awydd am y crogbris, i gadw yr eiddo heb ei werthu nes y dyddio y farchnad hwyrach wedi gostwng, neu fod yr eiddo wedi gwaethyg yn ei ansawdd: yna nis gall gael am dano yn agos yr hyn y bûwyd

yn ei gynnyg yn daer idd' unwaith, a bydd raid ei werthu am a geffir. Ac o ba le y daw yr ennill fel hyn?

Hefyd y prynwr anghyfawn, a drwg am dalu, paa yr adnabyddir ef, nis gwertha neb iddo ef o'u bodd; ac os gwerthant, byddiau yn siwr o werthu yn ddrutach, nag i dalwr da. Bydd raid talu hafyd weithiau er maint fyddo y loes, a hyny ond odid yn rhwng yr hir a hwyr: hwyrach pan fyddo yr esgidiau neu y dillad wedi hen ddarfod. Ac y mae talu mewn amgylchiad felly yn ddiflas hyd yn nod i'r gonestaf. Ac efe a aiff o'r diwedd, fel y delo ei gymeriad yn sefydledig yn y ffordd hon, yn gyfryw na cha mo'i goelio am ddim mewn unrhyw amgylchiad. A gall hyn fod o gahlyn-iadau, difrifol iddo. Heblaw hyny, edrychir arno gan ei gydnabod yn u na'u hyspeiliai o'u meddiannau pe gallai, yn ei ffordd ef o wneuthur hyny. Pa le y mae yr ennill i hwn ar ei ymddygiad.

Hefyd, y dyn a doro yn anghyfawn, y mae yntau yn gwneuthur y ddirfawr golled iddo ei hun. Er hwyrach y meddylia efe ddarfed iddo ymddwyn yn synwyrol iawn, gystal ac yn lew iawn, ond i'r gwrthwyneb y mae. Hwyrach ei fod wedi glewa cynnifer o ugeiniadau neu gannogedd oddiar ei ofynwyr; beth er hyny? canys y mae wedi gwerthu ei gymeriad a'i enw da am hyny. Ffair wan iawn yn wir. Pe buasai yn gadael i'r cyfan fyned rhwng ei ofynwyr, a hyny grym lawer yn fyr o fod yn ugain swllt y bunt iddynt, eto yn ol y syniad a'r teimlad cyffredin, edrychasiad arno—os tori, eto wedi tori yn gyfawn. Ac felly buasai ei enw da, ganddo. A thybygwn fod yn llawer gwell i ddyn, heb olygu dim ond byw yn y byd hwn, ail ddechreu ei fyda'i gymeriad ganddo, er bod heb ddimal o arian, na bod ganddo swim mawr o arian wedi eu celcio yn anoriant oddiwrth ei ofynwyr, a'i gymeriad wedi ei golli drwy hyny. Fel hyn, fel y buasai yn hawdd dangos, colled sydd ar anghyfawnder yn mhob dull a modd y gellir ei arfer.

Mae yn hen sylw am y dyn fyddo yn ofalus am dalu ei ffordd, fod Duw yn rhoedi modd iddo wneuthur hyny. Ac y mae yn ddigen amlwg fod hyn yn wirionedd. Ac nid yw mor anhawdd dywedyd, yn mha le y mae, a pheth ydyw y modd hwnnw. Mae'r modd gyda'r dyn, lle bynag y hyddo. Mae yn agosach ato na'r cwbfrwrdd, ie, na'i logell, na'i grym, na'i groen—mae yn y dyn. Mewn gwirionedd, y gofal sydd yn y meddwl am dalu ydyw y modd i hyny. Oddiar y gofal hwn, mae y dyn yn trefnu ei holl dreuliadau yn mhob pheth yn gydweddol a'i dderbyniadau. Gofala na phryno ddim na bydd ganddo a dalo am dano yn y fan ond odid, neu o'r hyn lleiaf bob sicrwydd y gall dalu yn yr amser ammodedig. Byddai well gan y fath hyn o ddyn ddyoddef cryn eisieu, neu droi allan i gardeta, na phrynu ac heb byth dalu. Ac yn ddiau, dylai cyflawnder fod yn egwyddor, mor gref a hyn yn mhob dyn ar wyneb y ddaear.

Mae rhywtheth mawr mewn talu yn yr amser, a bod yn ddi-dyaled, yn ddiammhau, pe awgen ni buasai y Cyfryngwr byth yn gwneuthur gwrth er mwyn cyrhaedd bod felly, ar ran Pedr ac Ebrau, yn amser heliad y dreth gynt. Pell oddiwitho ef fuasai cellwr a natur i'� hawdwr; ond yr oedd bod heb ddyled yn gyfryw

nôd yn ei olwg, fel yr oedd yn werth ganddo alw Hollalluogrwydd i'r maes i'w gvrhaedd. O! mae'r cymeriad o fod yn gyflawn yn anrhuddusach filoedd o weithiau na'r enw o fod yn gvfoethog. Mae perchen llygaid ysbrydol yn gwele i felly, er nad yw y byd cibddall yn gallu canfod y fath beth. Ac y mae bod yn gyflawn yn beth a all pawb ei feddu, ond meddwl am hyny a'i ddymuno, pryd nad oes mo un o fil yn llwydded i fod yn gyfoethog, er fod bron bawb yn ymgyrhaedd am hyny. Ac yn wir, fel y dywed yr hen air, "Cyfoethog ydyw y diddyled." Yr wyf yn cofio hen wr yn yr ardal lle y'm magwyd, a fyddai yn arfer dywed yd, y gallasai efe fyned a dimai ar ben ei fys o'r naili ben i'r plwyf i'r llall, ac nad allasai neb ei gofyn hi ganddo. Un arall, ei air fyddai, y gallasai fyned a dimai ar big ei ffon felly. Nid oeddwn y pryd hwnnw yn gweled rhyw lawer o rinwedd mewn bod felly, ond erbyn hyn yr wyf yn gweled y rhinwedd hon yn fawr ac yn ogoneddus iawn. A braidd na theimlwn awydd y fnyd hon, o buasai fodd, cael gweled yr hen wr wedi cael dimai a thwll ynddi, a'i gosod ar big y ffon, a gosod y ffon fel y gesyd milwr ei wn ar ei fynwes, a'r bagl ar gamedd ei fraich, yna ymdaith yn gloff yn yr ysmocffroc wrthban, fel yr arferai fed, o ben uchaf y plwyf i'r pen isaf. Buasai yn y seremoni i lygaid y meddylgar olygfa dra mawreddig. A phryd nad allasai neb ofyn y ddimai ganddo, buasai yn yr amgylchiad fuddygoliaeth ardderchog iawn, llawer ardderchocach i'm tyb i na'r un o fuddygoliaethau Julius Caesar, yn enwedig os ystyriwn fod yr hen wr wedi magu cymaint ag wyth o blant, a hyny wrth ei ddiwrnod gwaith, ac heb bwys o dimi ar na phlwyf na pherson.

Mae bod yn gyflawn yn gynaint ei bwys, fel na ddylai neb feddwl ei fod yn dduwiol, os yn amddifad o'r rhinwedd hon. Ebe yr ysgrythyr, "Trwy un y gwneir llawer yn gyflawn." Yr hwn y cyfrifir cyflawnnder Crist iddo er ei gyflawnhad, a wneir hefyd yn ddyn cyflawn o egwyddor ac ymarferiad. Mae y drefn yn mha un y cyflawnhêr of yn yr ystyr gyntaf, yn effeithio yn naturiol er ei unioni yn yr ystyr olaf. Trwy ffydd y derbynir y cyflawnnder cyfrifol, ac y mae ffydd hefyd yn dwyn yr enaid i'r fath gymdeithas a Duw, a'i drefn, a'i lywodraeth, ag sydd yn sicro unioni y galon. Ysgrifennai y "Dyn Dystaw" ei feddyliau am drefn gras fel hyn:— "Dyma yr amlyiad dysgleiriaf a welwyd erieed o wirionedd a chyflawnnder ymarferol. Yr oedd yn well gan Dduw ddryllio ei unigannedig Fab na dirymu rheolau tragywyddol moesoldeb. Nid yw holl gyfundrefn yr efengyl ond un dadguddiad cyson o uniondeb ymarferol y Duwdod." Mae y fath fawreid anfeidrol yn cael a osod ar gyflawnnder yn meichniaeth yr Arglwydd Iesu a'i aberth, hefyd dygir yr hwn sydd yn ymwneyd trwy ffydd a'r Iesu a gyflawnhad i'w berson, i'r fath ymsyniad o hyn, ac hefyd i'r fath gymdeithas a Duw a'i drefn, a gweinyddiad ei lywodraeth, nas metha ei ennill i garu cyflawnnder, a phenderfynu ei gyflawn ddilyn. Trwy ffydd mae y dyn fel wedi dyfod i fyd y gwrthddrychau hyn, ac yn ymdaith gyda hwy, gan deimlo eu dylanwad, ac felly yn eithaf naturiol ennillir ef i fod yn ddyn cyflawn. Peidied nab a

meddwl, gan hyny, ei fod yn gyfiaawn gyfrifol, os nad yw yn g;fiawn ymarferol. Gwir y gwelir weithiau yr epoa castiog ar hyd yr heol-ydd, wedi ei wisgo mewn dillad dyn. Ond nis gwelwyd ac nis gwelir yn y byd hwn na'r byd a ddaw ddyn castiog, twyllodrus, ac anghyfiaawn wedi ei wisgo yn nghyflawnder Crist. Mae hyd yn nod y meddylddrych o'r fath wrthddrych yn ddigon er peri diflasod syrffedig ar bob dyn o archwaeth dduwiol. Na, byth ni ddefnyddia Duw y cyflawnder a weithiwyd gan ei anwyl Fab, yn ei chwŷs gwaedlyd, a'i angeu poenus, yn wisg i guddio ynddi dwyll ac anghyflawnder ; pe telly gwnelai y Duw mawr ei hunan anghyflawnder.

Gan hyny, meddaf eto, na fydded i neb obeithio ei fod yn dduwiol a chadwedig, os yn ddyn diegwyddor a diofal am gyflawnder. Na, beth bynag a ddichon fod hyd ei broffes, a'i sŵn a'i lwrw gyda chrefydd, ie, er ei holl ymddyddianion am grefydd, a'i ddarllen, a'i ganu, a'i weddio, ie, er ei holl orfoleddu efallai, ac hwyrach y dylid dywedyd, er ei holl bregethu, eto os yn ddyn heb ymarfer cyflawnder, y mae yn drais a sarhâd ar Dduw a'i drefn i'w fath ef unwaith obeithio ei fod yn dduwiol.

Cwm.

HEN WR MINYDDIG.

Prynu yr Amser.

CANMOLIAETH a roddir yn aml gan feistr i was da ydyw, ei fod yn un diwyd gyda'i orchwyl, yn defnyddio pob mynyd i'w fantais oreu er dwyn mwyaf o elw i'w feistr, a chanmoliaeth cda ydyw. Ond defnyddir y geiriau "prynu yr amser" gan Paul yn ei epistol at yr Ephesiad, yn fwy gyda golwg ar iawn arfer yr adeg bresennol i barotōi gogyfer a'i sefyllfa dragwyddol ; ac os yw y cyntaf yn deilwng o ganmoliaeth, diau fod yr olaf felly. Prif orchwyl bywyd dyn ddylai fod sicrhau hapusrwydd iddo ei hun byth ; nid yw bywyd dyn yn y byd hwn ond marchnâfa lle y mae pawb yn prynu, ac yn elwa mewn rhyw ffordd, a gosodir pawb i fyw yn y byd arall ar yr elw—y *proceeds*—ddaeth oddiwrth y fasnach yma.

Dylem ddefnyddio yr adeg bresennol i'r fantais oreu gyda golwg ar bethau tragywyddol, an i ei bod yn hynod fer. Gellid meddwl fod hyn yn cael ei olygu gan Paul pan y defnyddiai y gair "prynu." Pethau gwerthfawr a phrin a brynnir genym yn wastad ; ac O ! mor brin ydyw amser. Nid oes gan y mwyaf o ddynion awdurdod arno am un foment ; da y dywedwyd ein bod yn ei gael fel yr ydym yn ei dreulio, nid oes genym yr un *stock* o hono wrth law. Bydd lluoedd o'r rhai sydd yn darllen y rhifyn hwn o'r "Geiniogwerth," yn un o fisoeedd y flwyddyn nesaf wedi myned i ffordd yr holl ddaear, eu cyflwr am byth wedi ei benderfynu mewn gwynfyd neu wae : ie, ddarllenyydd, y mae dy amser di mor fyr ac anser fel nas gelli sicrhau y darleni y rhifyn presennol cyn i dy dynged dragwyddol fod wedi ei sicrhau. Pa faint bynag yw dy oerian, un o'r dyddiau nesaf bydd angeu a'i ddwylaw oerion yn cymeryd gafael

ynot, a phe byddit yn meddu cyfoeth y byd, a gallu ac awdurdod ei lywodraethwyr oll, nid ers yr un fynyd wrthyt—rhaid myned, parod neu annharod. Nid ydym yn sicer o un foment ond yr un bresennol—yr un sydd yn ein meddiant; am hyn y dyledswydd pob dyn yw defnyddio hon i ymofyn am grefydd, oblegid osawn oddiyma heb ei chael, heb grédu ei hathrawiaethau, a'u gweithio atien, bydd wedi darfod gyda ni am byth! Gallwn ganu yn iach i ddedwyddwch am dragwyddoldeb, a'n gorchwyl o hyn y allan byth fydd gwaeo i ni erioed gael cyfie i elwa, ond i ni ei dreulio yn segura.

Y mae fod canlyniadau tragicwyddol i'n dull ni yn treulio amser yn un rheswm cryf paham y dylem ei brynu, a'i ddefnyddio i'r fantais oreu er gwneyd ein sefyllfa yn hapus yn y tragicwyddoldeb yr ydym yn myned iddo. Y mae dynien yn gyffredin yn ofalus i beidio treulio rhan o fywyd yn y fath fodd ag i fod yn anfanteisiol i'w bywyd rhagllaw. Rhoddir bob amser rhyw fath o addyag i'r plentyn er ei gymhwys o weithredu yn briodol pan fyddo yn ddyn; gofelir rhag i hadau afeichyd gymeryd gafael yn ei gyfansoddiaid pan yn ieuanc, allant fod yn anghysur iddo yn ei fywyd dyfodol; bydd teithiwr cyn cychwyn oddicartref yn gofalu am bob cysuron anghenrheidiol ar ei daith, defnyddia bob cyfie i wybod ynglych anhawsderau a pheryglon y ffyrdd y mae i'w teithio. Ond rhaid dyweyd am y rhan fwyaf o wrandawyr yr efengyl yn Nghymru, efallai rhai o ddarllenwyr y "Geiniogwerth," fe ddichon eu bod yn ddiofal am y tragicwyddoldeb ofnadwy y maent yn myned iddo; gwyddent yn burion mai yr ychydig amser sydd ganddynt yma yr unig adeg i barotöi gogyfer a'u cyflwr yno, ac y costia y myndau a gamddefnyddir yma amddifadrwydd bythol o bob dedwyddwch yno; ond eto prin y meddylient am barotöi gyferbyn a'u cyflwr tragicwyddol. Telir ganwaith fwy o sylw ganddynt i helyntion bychain a dibwys y byd presennol nag i'r pethau y mae yr hyn a fyddant byth yn ymddibynu ar eu hymddygiad tuag atynt. Arddangosiad teg yw y bywyd hwn o'n sefyllfa ni yn y bywyd dyfodol; y mae y naill a'r llall yn dwyn cyferbyniad hollos i'w gilydd; y mae pawb yma yn casglu gwenwyn neu fél i fyw arno yn nhragwyddoldeb. Os wyt ti, ddarlenydd, yn dilyn pechod, yn gwrthod holl gynnygiadau crefydd i ti, ac yn mynu dy lwybr dy hun, yr wyt yn casglu i ti dy hun ddigofaint erbyn dydd digofaint—rhudd pob gwrthodiad angerdd mwy ofnadwy i'r tan annifoddadwy. Rhyw ddiwinnod bydd Duw yn gwneyd dy gyfrif di i fyny, dwg ger dy fron bob cynnygiad o Fab Duw a wrthodaist ti erioed, pob gor-chymyn a droseddaist, pob pechod a gyflawnaist, ac o honyn t eir digon o ddefnyddiau i dy wneyd di yn druenus byth. Os oes canlyniadau fel yna yn dilyn camddefnyddiad amser, gellid meddwl mai rhesymol dysgwyl i bob dyn wneyd y goreu o'r bywyd sydd ganddo, a pheiddio ymddiried i fywyd rhagllaw, neu awx angeu, i wneyd y cwbl yn dda; gorchwyl ein bywyd ddylai fod, creisio crefydd; nid oes genym ddimm arall gwerth son am dano i'w wneyd yu y byd yma. Nid yw einioes dyn yna y byd ond llai na dim o'i chymharu a thragywyddoldeb, a bychan ydyw gofyn i tj. drefulio moment

yn y fath fodd ag i sicrhau dedwyddwch i ti dy hunan, a gochal digofaint Duw byth. Digofaint Duw! O eiriau ofnadwy! Beth yw eu hystyr? Beth yw eu teimlo? Beth yw bod tan ei ddigofaint? Beth bynag yw eu cynnwys, a pha mor ddychrynllyd bynag, yw agwedd y rhai sydd yn eu teimlo, nid yw yn anamhosibl i ti, ond dilyn yr yrfa yr wyt yn bresennol arni, fod yn deall yn brofiadol cyn diwedd y flwyddyn hon beth ydyw; ac i ychwanegu at dy drueni byddi yn teimlo dy fod felly oblegid i ti ymdroi yma ac aow, a gadael. i'r adeg ddianc, a thithau golli y cyfle i fod yn gadwedig...

LLYWARCH.

Oediad:

“**Y** MAE llawer o grefyddolion yfory, ag sydd yn gosod eu diwrnod gyda Duw. Y dydd a'rdydd mi edifarhaf, adim yn gynt; fel pebyddia i ganddynt lywodraeth ar amser, ac yn hananfarchnadyddion gras; pryd mai Duw yn unig biau cyfranu amser a gras. Ambrose a ddywed, ‘Duw a addawodd faddeuant i'r edifeiriol; ond ni addawodd yfory i'r esgeulus.’ St. Austin a ddywed, ‘Nid yw yr hwn ag sydd yn rhoddi maddeuant i'r edifeiriol, bob amser yn rhoddi edifeirwch i'r pechadur. Os rhoddaf fi Dduw heibio heddyw, dichon y rhydd yntau finnau heibio yfory; os troaf heibio yr awr hon o ras, dichon na chaf byth awr rasol ychwaneg. Os gwrtlodaf heddyw ddwylaw ei drugaredd, dichon yr estyna law ei gyflawned allan yfory. Y mae yn wir, tra y mae genyf amser, y gallaf ddod i mewn; ond y mae mor wir, pan y dynunaf ddyfod i mewn, dichon na bydd genyf amser. Y mae hyn yn sicr, pan yr edifarhaf y derbyniaf drugaredd; ond y mae mor sicr a hyny pan y dynunaf gael trugaredd, dichon na chaf edifeirwch. O Arglwydd, tydi a roddaiat yr awr hon o ras i mi edifarhau, dyro hefyd ras yr awr hon i'm galluogi i edifarhau.”

H. E.

Llyfr Cydwybod.

“**A** DDYMMENIT gael gwylod, pa un a ydyw dy enw wedi ei yagrifenu yn llyfr y bywyd ai peidio? Yna darllen yr hyn a yagrifenaist yn llyfr cydwybod. Nid oes anghenrhaid am i ti ofyn, pwy, a esgyna i'r nefoedd i chwilio cofrestrau tragicwyddoldeb? Dim ond disgyn, i'th galon dy hun, ac yno darllen pa beth ydwyt, a pha beth a fyddi. Er bed cofi yfr Duw yn gauedig, ac yn cael ei gadw frygoda Duw, eto y mae llyfr dy gydwybod yn agored, ac yn cael ei gadw i lawr yn dy fynwes; a pha beth bynag a yagrifeni yno, byddi yn sicr a'i ddarllen eto ar ol hyn. Os yagrifenaif yn y llyfr Duw ond llinellau cochion damnedigaeth; ond os yagrifenaif air Duw yn llyfr cydwybod, gallaf fod yn benderfynol i Dduw ysgrifenu fy enw yn llyfr y bywyd. Yn nydd mawr y farn, pan y bydd i'r llyfrau gael eu hagoryd, y darllenaf y llinellau mawyaf dynunol, neu ynto y mwyaf annymunol. Yna mi a yagrifenaif yn y fath fodd yma, fel na bydd arnaf ddim cywilydd i'w darllen ar ol hyn.”

H. E.

Solon a Croesus.

Y MAE enw Croesus, pummed a di-weddaf frenin Lydia, yr hwn a deyrnasai 557 cyn Crist, wedi myned yn ddiareb i osod allan un yn meddu anferth gyfoeth.

Pan ddaeth Solon, deddfwr Athen, yr hwn oedd un o'r rhai ardderchocaf o hen ddoethion Groeg, i Sardis, lle y cynnalai Croesus ei lys, derbynid ef mewn dull cydweddol a pharch y fath ddyn. Ymddangosai y brenin yn nghwmni ei lyswyr, yn ei hoil rwysga'i wychder breninol, wedi ymwisgo yn ei addurniadau mwyaf gorwych. Er hynny, ni aml godd Solon na synedigaeth na rhyfeddod. Synai ac anfoddlonai yr oerfelgarwch a'r difaterwch hwn y brenin; a gor-chymnodd ar fod i'w holl drysorau, ei ystafelloedd gorwychaf, ei ddodrefn drudfawr, ei feini gwerthfawr, ei gerfddelwau a'i ddar-luniau, gael eu dangos i'r athronydd. Wedi i Solon weled y cwbl, dygwyd ef yn ol at y brenin, yr hwn a ofynai iddo a welodd efe erioed ddedwyddach dyn nag ef. "Do," atebai Solon, "gwelais un Telius, dinesydd disyml, ond teilwng, o Athen, yr hwn a dreuliodd ei ddyddiau uwchlaw anghen, yr hwn a welodd ei wlad mewn cflwr llwyddiannus, yr hwn a feddai blant y rhai a berchid yn gyffredinol, ac wedi cael yr hyfrydwch o weled plant ei blant, a fu farw wrth amdciffyn ei wlad." Y cyfryw atebiad, yn yr hwn y cyfrifid aur ac arian megys diwerth, a ymddangosai i Croesus yn amlygu anwybodaeth a hurtrwydd hynod. Eto, gan ymdawelu am ei restru yn yr ail radd o ddedwyddwch, gofynai iddo, "A adwaenai efe rywun dedwyddach nag ef, heblaw Telius." Atebai Solon, "Adwaenwyf, Cleobis a Biton o Argos, dau frawd, cynnelwau perffaith o gariad brawdol, ac o'r parch dyledus oddiwrth blant i'w rhieni. Ar wyl arbenig, pan oedd eu mam, offeiriades i Juno, tan orfod myned i'r deml, a phan nad oedd yr ychain yn barod i'w cherbyd, yn ddilas aent hwy i'r trec a thynent y cerbyd, yn nghauol bendithion y bobl. Pob mam ag oedd yn wyddfodol a longyfarchai yr offeiriades ar gyfrif rhagoroldeb ei meibien. Hithau yn uchder ei llawenydd, ac yn ngwres ei diolchgarwch a daer ymbiliodd ar y dduwies wobrwyd ei phlant a'r fendith orou a fedrai y nef ei rhoddi. Gwrandawydei gweddiau; wedi i'r aberthu fyned trosodd, syrthiasant i dawel esmwyth gwsg yn y deml, yn yr hwn y buont farw. "Felly," meddai Croesus, "nid ydych yn fy ystyried i o gwbl yn nifer y rhai dedwydd. "Frenin Lydia," atebai Solon, "nid yw gwir athroniaeth, yr hen a ystyria mor agored i gyfnewidiadau a damweiniau yw bywyd dyn, yn caniatâu i ni ymogoneddu yn ein llwyddiant ein hunain, na mawrygu dedwyddwch eraill; yr hwn efallai a ddiiflana neu a brofir yn arwynebol. Ni ellir cyfrif un dyn yn ddedwydd, ond yr hwn a fendithir gan y nef a llwyddiant hyd ei ddiwedd. Am y rhai sydd yn wastad mewn perygl, ystyriem eu dedwyddwch mor ansier ag yw y goron i'r arwr cyn terfynu yr ymrysonfa. Nid hir y bu Croesus heb deimlo gwirionedd yr hyn a ddywedai Solon wrtho. Wedi ei orchfygu gan Cyrus brenin Persia, a chymeryd ei brifddinas, eymerwyd yntau yn garcharor, a thrwy orchymyn y gorchfygwr,

gosodid ef ar y pentwr i'w losgi yn fyw. Yn awr y tywysog annedwydd a gofiai am eiriau Solon, y doethwr Athenaidd, aea lefai allan, "O Solon, Solon, Solon!" Cyrus yr hwn oedd yn wyddfodol, efo swyddogion ei llys, a swyddai wybod paham y galwai Croesus yr enw hwnw gyda'r fath daerni. Wedi adro'i d iddo y rheswm, gan ddwys ystyried ansicrwydd pob peth daearol, gan ymgynhyrfu mewn tosturi, archodd gymeryd y brenin oddi ar y pentwr; ac o hyny allan rhoddiodd iddo bob parch ac anrhwyd i d. Fel hyn cafodd Solon yr anrhwydedd o achub bywyd un brenin a rhoddi addysg werthfawr i un arall.

Cyf. LIECHIDON.

Celwydd.

Mae y pechod o ddyweyd celwydd yn un ag y mae y Bibl yn dangos yn amlwg fod yr Arglwydd yn ei ffieiddio yn ddirfawr; eto mae y bai hwn yn un lled gyffredin yn ein gwlad, yn cael ei arfer gan lawer iawn, yn llawer amlach nag yr ydys yn gyffredin yn dal sylw.

Mae personau o bob sefyllfa yn euog o'r drwg yma, o'r gwasanaethwyr sydd ar ol cyflogi yn dyweyd fod eu cyflog yn fwy nag ydyw, hyd y masnachwr sydd yn trin ei filoedd gan ddywejedd da am y drwg wrth werthu, a drwg am y da wrth brynu. "Drwg, drwg! medd y prynwr; ond pan el o'r neilldu, efe a ymfrostia." Mae y dosbarth hwnnw sydd yn prynu ac yn gwerthu, ac yn enwedig y rhai sydd yn ffeirio anifeiliaid, yn ddwfn iawn yn y drwg hwn. Mae ffeiriau a marchnadoedd Cymry yn llenwi yr awyr â dadwrdd celwyddog, a thwyll anwireddau dychrynllyd. Nid yr hyn a elwir yn "gelwydd goleu," a arferir gymaint, ond un duachei liw, tywyllach ei ansawdd, yn tarddu oddiar fala's a dichell ac ysfa ddielog i fod hau a llesha'u ei hun, ar draul annedwyddu a cholledu ei gymydog. Y celwydd a olygir yma sydd fath o dwylleiriadaeth gelfydd, yn cael ei ddilyn weithiau â rhith ystumiau o symhrwydd, i hudo yr anichellgar i dybied mai gwirionedd yw yr hyn a haerir, pan nad yw ddim amgen na chydbléthiad cywrain o gelwydd a dichell.

Mae rhai wedi myned mor bell a dyweyd nad ydynt yn euog o gelwydd, ond iddynt ymattal rhag geiriau celwyddog; er iddynt ymdrechu i'r eithaf i wneyd i'r sawl fyddo yn prynu gandynt, &c. gredu celwydd. Nid ymddengys fod y rhai hyn yn ystyried fod y fath beth ag asio celwydd, trwy roddi wrth eu gilydd yn ystrywgar ymadroddion ag ydynt ar eu penau eu huusain yn ymddangos yn wirionedd; ond o'u cysylltu ynghyd mewn dichell gywrain, tros-glywyddant i'r meddwl dyb gyfeiliornus, a chyfansoddant gelwydd o'r fath enbydaf, megys yn yr engrheiftiau a ganlyn:—

1. Yr oedd dyn un tro yn gwerthu ceffyl, ac wrth i'r prynwr ofyn a wnae ef dynu Atebai y gwerthwr, "O! tynu! chwi lawenhæch pe gwelech ef yn tynu." Ond yn mhen ychydig, aed â'r ceffyl yn ei ol am na wnae dynu, pryd yr haerai y gwerthwr celwyddog nad

oedd ef wedi dyweyd y gwnai dynu; ond y busai y prynwr druan, yn llawenhau pe gwelsai ef yn tynu. Felly gwthododd gymryd y ceffyl yn ol.

2. Aeth dyn a chaseg i'r ffair i'w gwerthu, pan ddaeth rywun ato i'w hedrych, ar feddwl ei phrynu. Gofynnodd ei hoed, atebai y gwerthwr yn ddigwyliydd, "Naw oed ydyw, a deg galanmai:" gyda bwriad i'r ymofynydd feddwl, mai rhwng naw a deg oed; pan mawn gwirionedd yr oedd yn bedair ar hymtheg, yr hyn hefyd a allai yr ateb uchod arwyddocau.

3. Yr oedd gŵr yn y ffair gyda buwch ar werth, yr oedd ei wraig yna hefyd, a'r ddau fel Ananias a Sapphira yn cytuno i ddyweyd celwydd. Pan ddaeth dyn i geisio prynu y fuwch, dywedai y gŵr, gydag edrychiad sobr, ei bod wedi dyfod a llo er's tair wythnos, a'i bod yn fuwch heb ei bath; a dyma y wraig yn mesu ymlaen ac yn dyweyd, "Yr wyf fi yn byw yn buragos ato ef—y mae hi yn fuwch heb ei bath." Ac yr oedd yn un heb lawer o'i bath; oblegid yr oedd hi heb ddyfod a llo er's blwyddyn, ac heb ei godro er's dau ddiwrnod.

Digon bellach o ddynoethiad ar nodweddiad moesol dosbarth o'n cydwladwyr, ag y dymunwn o'm calon beri iddynt gywilyddio a gadael heibio y fath ffordd isel, lechwraidd ac anghymreig o drin y byd. Arswyded a ffieiddied pawb bob math o gelwydd; a bydded i bawb, yn enwedig athrawon yr Ysgol Sabbothol, osod eu hwynnebau yn unol yn ei erbyn, nes yr ennillio pobl Cymru y nodweddiad uchel ysgrythyrol hwnnw, "Ei meibion ni ddywedant gelwydd."

Laura Bridgman.

YMAE yr hanes a ganlyn, am yr hwn yr ydym yn ddyledus i Dr. Kitto, yn profi na ddylai neb lwrhau yn ngwynueb anhawsderau a phrefedigaethau; ac i'r dyben hwnnw yr ydym yn ei roddi ger bron ein darllenwyr.

Ganwyd Laura Bridgman yn Hanover, Hampshire Newydd, America, yn y flwyddyn 1829. Dywedir ei bod yn blentyn prydferth, yn meddu llygaid gleision bywiog. Ond yr oedd mor eiddil pan yn flwydd a hanner oed, fel nad oedd ei rhieni yn dysgwyliddi fyw yn hir. Yr oedd yn ddarestyngedig i lewygfeydd, y rhai a'i dirdynent yn y modd mwyaf poenus. Ond gwellodd wedi hynny am ychydig amser; a phan yn ugain mis oed, yr oedd yn barhaith iach. Am y pedwar mis canlynol, mwynhaedd iechyd cyffredin; a dangosodd lawer o sylw a pharodrwydd i dderbyn gwybodaeth. Ond clafychodd dracheфа yn ddisymwth. Effeithiodd y clefyd hwn gymaint ar ei llygaid a'i chlustiau *fel y rhedodd eu cymwystad allan*. Fel hyn yr oedd ei golwg a'i chlyw wedi eu colli am byth: ond nid oedd ei dyoddefiadau drosodd eto. Parhaodd y clefyd hablarieiddio am saith wythnos. Cadwyd hi yn ei gwely mewna ystafell dywell am bum mis. Ni ddaeth yn alluog i gerdded ei hunan

eyn pen blwyddyn, nac i eistedd i fyny am ddiwrnod cyfan cyn pen dwy flynedd. Sylwyd erbyn hyn fod ei harogliad wedi ei ddystriwio bron yn holol; a gwelwyd hefyd ar ol hyn nad oedd ei har-chwaeth yn gystal a'r cyffredin. Yr oedd yn bedair blwydd oed pan adferwyd ei hiachyd.

“Ond pa fath gyflwr yr oedd hi ynddo!” medd Dr. Howe. “Yr oedd tywyllwch a dystawrwydd y bedd o'i hamgylch: nid oedd gwensiadau mam na llais tad yn effeithio arni hi. Nid oedd ynt hwy, a'i brodyr, a'i chwiorydd, ond sylweddau corfforol, heb ddim gwahaniaeth rhygddyt a'r dodrefn, ond yn unig mewn cynhes-rwydd a galu i ymsymud; ac hyd yn nod yn yr ystyriaethau hyn nid oedd ynt yn gwahaniaethu oddiwrth y ci a'r gath. Ond yr ysor yd anfarwol oedd o'i mewn nis gallai farw; ac er fod y rhan fwyaf o gyfryngau cymundeb, rhygddi hi a'r byd wedi eu tori ymaith, dechreuddi ddangos ei hun trwy y rhai eraill. Mor fuan ag y dysgodd gerdded, dechreuddi chwilio yr ystafell, ac yna y ty. Daeth yn gydnabyddus a llun, pwysau, a gwres, pob dodrefnynt ag y medrai roddi ei llaw arno. Canlynai ei mam, a theimlai ei dylaw a'i breichiau, fel yr oedd yn gweithio oddeutu'r ty; ac yr eedd ei hawydd i ddynwared yn ei harwain hithau i wneyd yr un pethau. Dysgodd wno i chydig a gwau hosanau.”

Daeth Dr. Howe yn gydnabyddus a'r amgylchiad hwn yn y flwyddyn 1837, pan oedd Laura yn agos i wyt hmlwydd oed: a'i galon dosturiol a'i harweiniodd yn ddioed i'r lle yr oedd yn pres-wilio. Cafodd ei bod o gorff lluniaidd; ei phen yn fawr a phryd-farth; a'i holl gyfansoddiad yn iachus. Llwyddwyd yn fuan gyda'i rhieni i ganiatâu iddi gael ei rhoddi yn yr *asylum* yn Boston, a chymherwyd hi yno yn mis Hydref yr un flwyddyn. Gadawyd hi am bythefnos i ddyfod ati ei hun o'r dyryswhch meddwl a achlysur-wyd gan ei symudiad, cyn dechreu ar y gwaith o'i haddysagu. Nid oedd ond un o ddwy ffordd i'w chymeryd; naill ai dwyn ymlaen a pherfeithio yr iaith o arwyddion yr hon yr oedd hi eisoes wedi ei harferyd mewn rhan, neu ddyfeisio rhyw fodion i roi addysg i'r gwybodaeth iddi am natur a defnyddioldeb llythyrenau. Bu Dr. Howe yn ddigon doeth i ddewis yr olaf.

Y profion cyntaf a wnaed trwy gymeryd y pethau mwyaf arferol megis cylyll, llwysau, agoriadau, &c., a'u henwau wedi eu cyssylltu wrth ynt mewn llythyrenau teimladwy. Yr enwau hyn a deimlid ganddi yn ofalus; ac yn fuan daeth i ddeall fod cymaint o wahaniaeth rhwng y llythyrenau a gyfansoddant y gair *spoon* a'r rhai a gyfansoddant y gair *key* ag sydd o wahaniaeth mewn llun rhwng llwy ac agoriad. Yna rhoddwyd yr enwau ar eu penau eu hunain yn ei llaw; a sylwedd hithau yn fuan eu bod yn gyffelyb i'r rhai eedd ar y llwy a'r agoriad. Dangosodd ei gwybodaeth o'r cyffelybwyrwydd hwn trwy roddi yr enw *key* ar yr agoriad, a'r enw *spoon* ar y llwy: a thrwy arwyddion teimladwy annegwyd hi i fyned ymlaen gyda'r eyfryw ddarganfyddiadau. Gwnaed yn gyffelyb gyda phethau eraill; a dysgodd hithau yn hawdd roddi yr enwau priodol wrth ynt. Pa fodd bynag, yr oedd yn amlwg nad oedd yma unrhyw

weithrediad o eiddo y deall heblaw cōf a dynwarediad. Yr oedd yn cofio fod y gair *book* yn cael ei roddi ar y llyfr, ac yr oedd hithau yn gwneyd yr un fath trwy ddynwarediad, ond heb un syniad am y berthynas oedd rhyngddynt a'u gilydd.

Yn mhen ychydig amser, yn lle geiriau cyfain, rhoddwyd llythyr-enau unigol iddi; y rhai a osodwyd mewn trefn, fel ag i ffurfio y geiriau *book*, *key*, &c. Wedi iddi eu teimlo yn y wedd hon, cymysgwyd hwy yn un pentwr, a gwnaed arwydd am iddi hithau eu trefnu i wneyd y geiriau *book*, *key*, &c., a hi a wnaeth felly. Hyd yn hyn, nid oedd nemawr wahaniaeth o ran y dull o ddysgu rhyng-ddi hi a chreadur direswin. "Yr oedd y plentyn druan," meddy Dr. Howe, yn "eistedd mewn syndod dystaw, ac yn amyneddggar, yn dynwared pob peth a wnelid gan ei athrawes. Ond yn awr, y gwirionedd a ddechreuodd lewyrchu arni; ei deall a ddechreuodd weithio; canfyddodd fod ffordd trwy yr hon y gallai wneuthur arwydd o unrhyw beth oedd yn ei meddwl. Nid oedd mwyach yn gyffelyb i'r ci neu'r *parrot*; ond yr oedd yno ysbyrd anfarwol yn ymafiyd yn awyddus mewn cadwen newydd o gymundeb âg ysbydion eraill. Gallwn bron benodi yr eiliad pan y tywynedd y gwirionedd hwn ar ei meddwl, ac y taenodd y llewyrch dros ei gwynebpryd.: gwelais fod y rhwystr mawr wedi ei orchfygu; ac nad oedd dim ond parhâd yn yr un llwybr yn anghenrheidiol rhagllaw."

Gyda golwg ar hyn, y mae Mr. Dickens yn sylwi, "Da y gall y beneddwyr hwn alw hono yn fynyd hyfryd, pan y pelydrodd y gobaith gwanaf ar feddwl tywyll Laura Bridgman. Trwy ystod ei fwyd, bydd adgoфio y fynyd hono yn ffynnonell o ddedwyddwch pur." Felly y bydd, meddwn ninnau: dylasid ysgrifenu i lawr y mis, a'r diwrnod, pan wnaed y darganfyddiad hwn yn hanes dyn; pan gadarnhâwyd tuhwnt i bob dadl y gwirionedd mawr, nad oes un cyflwr o fywyd dynol ar y ddaear yn holol ddiobaith; a pha le bynag y mae meddwl, nad oes un carchar o'r hwn nis dichon iddo gael ei waredu.

Ond rhaid i ni fyned ymlaen gyda'r hanes. Ni chyrhaeddwyd y canlyniad a nodwyd uchod, nes ar ol treulio rhai wythnosau mewn llafur, yr hwn a allasai ymddangos ar y pryd yn ddiles. Rhoddwyd iddi restr o llythyrenau, wedi eu gwneyd o fetel; ynghyd a bwrdd, yn yr hwn yr oedd tyllau i osod y llythyrenau ynddynt. Yna pan gaffai unrhyw beth yn ei llaw, gallai bigo allan y llythyrenau a ffurfient ei enw, a'u trefnu ar y bwrdd. Arferwyd hi yn y ffordd hon dros amryw wythnosau, nes y daeth yn feddianol ar nifer mawr o eiriau. Yn nesaf, cymerwyd y caun pwysig o'i dysgu i ddynodi y gwahanol llythyrenau a'i bysedd. Cyflawnai ei thasg yn fuan ac yn hawdd, oblegid erbyn hyn yr oedd ei deall yn dechreu gweithio er cynorthwyo ei haddysgydd.

Yr adroddiad cyntaf mewn perthynas iddi a gyhoeddwyd pan oedd wedi bod oddeutu tri mis dan addysg. Mae yn dywedyd ei bod y pryd hyny newydd ddysgu pa fodd i ffurfio y llythyrenau a'i bysedd fel yr arferir gan rai mud a byddar; a'i fod yn destun o

lawengyd a syndod i weled mor gyflym, mor gywir, ac n. or awy. idus, yr oedd hi yn myned ymlaen gyda'i gwaith. Darlunir y dull fel y canlyn :—“ Mae ei hathrawes yn rhoddi gwrth-drych newydd yn ei llaw, megys pwyntel (*pencūl*) er anghraift ; galewir iddi ei deinlo yn fanwl, a rhoddir iddi r̄w syniad am ei ddyben. Yna mae yr athrawes yn ei d̄sgu i sillebu yr enw, trwy wneyd arwyddion à'i bysedd ei hun i ddynodi y llythyrenau. Mae y plentyn yn ymafiyd yn ei llaw, ac yn teimlo ei bysedd fel y mae y llythyrenau yn cael eu ffurio. Y mae yn troi ei phen ychydig ar un ochr, fel un yn gwrandaw yn astud ; ei gwefusau ydynt agored ; prin y gellid meddwl ei bod yn anadlu ; ac y mae ei gwynebpryd, yr hwn oedd brycerus ar y cyntaf, yn gwenu yn raddol fel y mae yn amgyffred ei gwers : yna mae hithau yn codi ei bysedd bychain, ac yn sillebu y gair : yn nesaf, mae yn cymeryd y llythyrenau metelai'd, ac yn eu gosod mewn trefn : ac yn olaf, mae yn cymeryd yr holl lythyrenau a gyfansodiant y gair, ac yn eu dodi wrth, neu ar y pwyntel, neu beth bynag fyddo y gwrthdrych.

Ar ddiwedd y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd adroddiad arall, yr hwn a gynnwys yr ymadroddion a ganlyn :—

“ Profwyd tuhwnt i bob amwheuaeth, na all weled pelydr o oleuni, na chlywed unrhyw sŵn, ac nad ydyw byth yn arfer ei synwyr o arogliaid, os oes ganddi un. Fel hyn y mae ei meddwl yn trigo mewn tywyllwch a llonvddwch mor ddwfn a bedd cauedig ganol y nos. Nid oes ganddi un drychfeddwl o olygfeydd pryd-erth, na sŵn per, nac arogl hyfryd ; eto, y mae yn ymddangos mor chwârœus a'r aderyn neu'r oen ; ac y mae ysgogiad ei chynneddau meddyliol, neu gaffaeliad rhyw ddrychfeddwl newydd, yn rhoddi iddi bleser bywiog, yr hwn a nodir yn amlwg yn ei gwynebpryd darluniadol. Nid yw byth yn ymddangos ei bod yn ymofidio, ond y mae bob arser yn među hynawsedd ac agweddfoses mebyd. Y mae yn hoff o ddigrifwch a chwareu : a phan fyddo yn chwareu gyda phlant eraill, ei chwerthiniad hi a swnia uchaf o'r lliaws.

“ Pan ei gadewir ei hunan, ymddenges yn bur dde iwydd os bydd ganddi beth i'w wau, neu i'w wnio ; ac weithiau am oriau, os na bydd ganddi orchwyl, h: a'i d. fyra ei hun yn amlwg drwy gydymuddvdian dychymygol, neu drwy al wyn ol argraffiadau a aethant heibio ; hi a eyfrifa ei b. sedd, neu a silleba enwau y pethau a ddesgodd yn ddiweddar yn llaw-egwyddor y mud a byddar. Yn yr hunan-gymuned unigol hwn ynddengys ei bod yn ymresymu, yn aifyfyrio, ac yn dadleu : os silleba air yn gyfeiliornus gyda bysedd ei llaw ddeheu, hi a'i teryn ebrwydd à'i llaw aswy, fel y gwnai ei hathraw, yn arwydd o anfoddhad ; os yniawn, y mae yn ysgafn daro ei hunan ar ei phen, ac a edrycha wedi ei boddio. Weithiau silleba air yn gyfeiliornus a'r llaw aswy, ac a edrych yn gellwerus am ychydig, ac a chwardda, ac yna tery ei llaw aswy à'i llaw ddeheu, fel pe i'w cheryddu.

“ Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddodd ddeheudra mawr yn yr arferiad o law-egwyddor y mud a byddar, ac y mae yn sillebu allan y geiriau a wyr mor fuan ac mor ddehau, fel na all ond y rhai sydd

wedi cynnefino â'r iaith hon ddilyn gyda'r llygad symudiadau cyflwm ei bysedd.

"Ond er mor ryfedd ydyw y cyflwmder â pha un yr ysgrifena ei meddyliau ar yr awyr, eto mwy rhyfedd ydyw yr hawadro â'r cywreinrwydd â pha un y darllena eiriau wedi eu hyagrifenu fel hyn gan eraill : trwy grafangu eu dwylaw hwy yn ei dwylaw ei han, a dilyn peb symudiad o'u bysedd fel y mae llythyren ar ol llythyren yn trosglwyddo eu harwyddocâd i'w meddwl. Fel hyn y mae cydymddyddan â'i chyd-chwareuwyr deillion, ac ni all dim ddangos gallu y meddwl i ddwyn sylwedd corfforol yn wasanaethgar iddo yn fwy effeithiol, na chyfarfod rhngddynt. Canys os ydyw talent a medrusrwydd mawr yn anghenrheidiol i ddau ddynwareddydd i ddarlungo eu meddyliau a'u teimladau trwy symudiadau y corff ac ymddangosiad y gwynebpryd, pa faint anhawddach ydyw, pan y mae tywllwch wedi amdoi pob un o honyn, ac na all un o honyn glywed dim sŵn.

"Pan y mae Laura yn rhodio ar hyd ffordd a'i dwylaw yn estynedig o'i blaen, y mae yn adnabod pawb a'i cyferfydd yn ebrwydd, ac yn myned heibio gydag arwydd o adnabyddiaeth : ond os geneth o'i hoedran, neu yn enwedig un o'i hoff gwmpeini, y mae yno yn ebrwydd wên hyfryd o adnabyddiaeth, cofleidio, tŷn-wasgu dwylaw, a chyflwm hysbysu ar y bysedd bychain, troall-ysgogiadau cyflwm pa rai sydd yn trosglwyddo meddyliau a theimladau o un meddwl i un arall. Y mae yno ofyniadau ac atebion, cyfnewidiadau o lawenydd a galar, y mae yno gusana ac ymadaw, fel rhwng plant sydd a'u holl synwyrau ganddynt."

Wedi i Laura fod am ddeunaw mis yn y sefydliad, ymwelwyd â hi am y tro cyntaf gan ei mam : ac nid yn unig mae hanes yr ymweliad, fel ei rhoddir gan Dr. Howe, yn un o'r rhai mwyaf cynhyrfiel a ddesgrifwyd erioed gan na phin na phwyntel, ond gwasanaetha i daflu ychydig o oleu ar y modd y mae ei chynnedd e adnabyddiaeth yn gweithredu.

Safai y fam am beth amser, gan syllu gyda llygad gwlybion ar ei phlentyn anffodiog, yr hon oedd yn chwareu o gylch yr ystafell yn holol anhysbys o'i phresennoldeb. Yn fuan rhedai Laura ar ei thraws, dechreuodd yn ebrwydd deimlo ei dwylaw, gan chwilio ei dillad, ac ymdrechu eael allan pwy oedd hi ; eithr pan na lwyddai yn hyn, troai oddiwrthi fel oddiwrth un dyeithr, ac ni allai y wraig druan guddio y loes a deimlo id am nad oedd ei phlentyn yn ei hadnabod.

Yna hi a roddodd i Laura gadwynau, y rhai a arferai wisgo gartref, y rhai a adnabuwyd gan y plentyn yn union, yr hon a'i rhoddodd o amgylch ei gwddf, gyda llawer o lawenydd, ac a'm ceisodd i yn ebrwydd i ddyweddyd ei bod yn deall mai o'i chartref yr oedd y gadwen wedi dyfod. Ymdrechai y fam yn awr ei chofleidio, eithr Laura druan a'i gyrodd ymaith, gan ddewis bod gyda'i chymdeithion.

Yn awr, rhoddwyd peth arall oddicartref iddi, a dechreuai yn awr drych yn dra chynhyrfus ; chwiliodd y wraig ddyeithr yn fwy

gofalus, a rhoddodd ar ddeall i mi ei bod yn gwybod ei bod yn dyfod o Hanover; goddefai ei chofleidiadau, eithri gadawai hi gyda difaterwch ar yr arwydd lleiaf. Yr oedd tralod y fam yn awr yn amlwg i'w weled; canys er iddi ofni na byddai iddi ei hadnabod, yr oedd y gwirionedd poenus o gael ymddwyn tuag ati gyda difaterwch oeraidd gan blentyn anwyl yn ormod i natur gwraig eioddef.

"Ar ol ychydig, wrth i'w mam gymeryd gafael ynddi drachefn, ymddangosai fod drychfeddwli gwanaidd yn treiglo dros feddwl Laura, nas gallai fod yn ddyeithr; gan hynny, hi a deimlai ei dwylaw yn bur awyddus, tra y cymeroedd ei hedrychiad ymddangosiad o bryder dybryd; aeth yn bur welw, ac yna yn goch yn ebrwydd; yr oedd gobaith yn ymddangos yn ymryson ag ammheuaeth a phryder, ac ni ddarluniwyd cyffroadau ymrysongar erioed mor gryf ar y gwyneb dynol: ar y mynydyn hwn o ansicrwydd, tynodd ei mam hi ati, a chusanodd hi yn serchiadol, pan ar unwaith y dyleglieriodd y gwirionedd ar y plentyn, ac y ciliodd pob petrusder a phryder o'i gwyneb, ac megys gyda dangosiad o lawenydd mawr llechai yn awyddus yn mynwes ei mam, ac a ildiai i'w chofleidiadau hoff.

At ol hyn, anghofiwyd y gadwen; diystyrid y teganau a roddid iddi; yn awr, ymdrechau ei chyd-chwareyddion yn ofer i'w thynu oddiwrth ei mam, am y rhai ychydig fynydau yn ol y gadaword y wraig ddyeithr yn llawen; ac er yn uuddhau unrhyw arwydd i fy nilyn i fel arferol, yr oedd yn gwneyd hynny gyda chryn anewyllysgarwch. Glynai wrthyf fel pe buasai wedi dyrys u ac yn ofnus; a phan, ar ol ychydig amser, y dygaia hi at ei mam, llamodd i'w breichiau a glynodd wrthi gyda llawenydd mawr.

Dangossieihymadawiad serch, dealltwriaeth, agwroldeb y plentyn yn gyfartal. Dilynnodd Laura ei mam i'r drws, gan lynnwr wrth ei hochr o hyd, nes y daethant at y trothwy, lle y gorhwysoedd am ychydig, ac y teimloedd oddiamgylch, i gael gwybod pwys oedd yn ei hymyl. Ac wrth deimlo y *matron*, o'r hon yr oedd yn bur hoff, ymafaelodd ynddi ag un llaw, gan gydio yn grynedig yn ei mam a'r llall; ac fel hyn y safai am fynyd: yna gollyngodd law ei mam, rhoddodd ei chadach ar ei llygaid, a chan droi oddiamgylch, glynai yn y *matron*, gan ocheneidio, tra yr ymadawodd ei mam gyda chynhyrfiadau mor ddwys a rhai ei phlentyn.

Atebion i'r Gofyniadau.

- I. Pa sawl gwaith yr anrhyydeddwyd Crist a llef o'r nef, &c.?
1. Wrth afon yr Iorddonen wedi ei fedyddio gan Ioan, Mat. iii. 17; Marc i. 11; Luc iii. 22.
2. Ar ei weddnewidiad, Mat. xvii. 5; Marc ix. 7; Luc ix. 35.
3. Ychydig cyn dyoddef ar y groes, Ioan xii. 28.

- II. Pa sawl gwaith yr eneiniwyd Crist, &c.?
1. Yn y groth yn nghysegriad y natur ddynol iddo.
2. Yn gyoeddus, pa a ddisgynodd yr Ysbryd arno yn ei fedydd, cyn dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, Mat. iii. 16,

3. Yn ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, pan yr oedd ffrwythau yr Ysbryd yn arogl mor beraidd yn ei gymeriad sanctaidd, a'i rodiad diargyhoedd, Eph. v. 2: Heb. ix. 14.

4. Yn ei esgyniad buddygoliaethus i'r nefoedd pan "dderbyniodd roddion i ddynion :" a pharhâ ei aberth a'i eiriolaeth yn eu rhinwedd a'u perarogledd heddyw yn ngwlad gogoniant, ie, arogant hyd y ddaear isod, Eph. iv 8—11.—Gwel "Geiriadur," dan y gair *Eneiniow*. Eueiniwyd ef hefyd,

1. Gan bechadures fawr yn nhŷ Simon y Pharisead, Luc vii. 37, 38.

2. Pan yn bwyta yn nhŷ Simon y gwahanglwyfus, ychydig cyn y pasg, gan Mair. Dywed Matthew a Marc iddi dywallt yr enaint ar ei ben ef; ond Ioan a ddywed i iddi ei dywallt ar ei draed—tebygol fod y naill yn nodi yr hyn a adawsai y lleill allan, ac iddi eneiniow ei ben a'i draed, Mat. xxvi. 6—11; Marc xiv. 3—9; Ioan xii. 2—8.

III. Pa sawl gwaith y purodd Crist y deml oddiwith y newidwyr, y prynwyr, a'r gwerthwyr, &c.?

1. Ar y pasg cyntaf wedi ei fedyddio, Ioan ii. 13—17.

2. Tua thair blynedd wedi hyn, sef ar y pedwerydd pasg ar ol ei fedyddio, Mat. xxi. 12—13; Marc xi. 15—19; Luc. xix. 45—48.

IV. Pa sawl gwaith y mae genym hanes i Grist, wedi dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, ymweled â Nazareth lle y magesid ef?

Dwy waith, Luc iv. 16; a Mat. xiii. 54—58.

V. Pa sawl holiad y bu Crist danynt o'r ardd i'r groes, &c.?

1. Ger bron Annas yr archoffeiriad, Ioan xviii. 13.

2. Yn llŷs Caiaphas, yr hwn oedd archoffeiriad y flwyddyn hono, Ioan xviii. 34; Mat. xxvi. 57—58.

3. O flaen cyngor y deg a thriugain neu y sanhedrim, Luc xxii. 66.

4. O flaen Pilat y rhaglaw, y waith gyntaf, Ioan xviii. 28. Mat. xxvii. 1.

5. O flaen Herod Antipas, tetrarch Galilea, Luc xxiii. 7.

6. O flaen Pilat, yr ail waith, Luc xxiii. 13—16.

7. O flaen Pilat, y drydedd waith, Mat. xxvii. 19; Ioan xix. 4—15.

VI. Pasawl gwaith yr ymddangosodd Crist wedi ei adgyfodi o feirw!

1. I Mair Magdalén, Ioan xx. 14.

2. I'r gwragedd eraill, Mat. xxviii. 9. Marc xvi. 9.

3. I Pedr, I Cor. xv. 5; Luc xxiv. 34.

4. I'r ddau oedd yn myned i Emmaüs, Marc xvi. 12, 13; Luc xxiv. 13—32.

5. Hwyr yr un dydd yn absen Thomas, Marc xvi. 14; Luc xxiv. 36. Ioan xx. 19—24.

6. Pan oedd Thomas yn bresennol, Ioan xx. 24—29.

7. Wrth fôr Tiberias, Ioan xxi. 1—14.

8. I'r dysgyblion ar fynydd Galilea, Mat. xxviii. 16.

9. I fwy na phum cant o frod yr, I Cor. xv. 6.

10. I Iago yr apostol, I Cor. xv. 6.

11. I'r holl apostolion ynghyd, I Cor. xv. 7.

12. I'r apostolion ar ei esgyniad, Luc xxiv. 50, 51; Act. ix. 10.

CARWB CYWIRDDER.

Dafydd a Goliah.

Dwyr fyddin gerth ar ddeufryn gwyrdd,
 Israeliad a Philistiaid oedd,
 Uwch dyffryn teg yn rhifo 'u myrdd,
 "I'r gad, i'r gad," y rhodden floedd.

O blith Philistiaid deuai cawr,
 Gwisgedig oll gan bres a dur;
 Taranawl lef a roddai 'n awr,
 Rho'i Israel oll mewn braw a chur.

Gan herio 'r nef a chablu 'n chwilt
 Y llefai, "Pa fyddino 'r y'ch ?
 Anfonwch wr yn awr o'ch plith,
 Rhyw ddewr ryfelwr cadarn gwyeh.

"A hwn ymladdaf finnau 'n llon,
 Dau fy'yd benben—hyn yw 'm bryd,
 A'r sawl a gollo 'r ornest hon,
 Boed cenedl hwn yn gaeth i gyd."

Ymfrostiai eilwaith, cablai Ior,
 Ar Israel y bytheiriai wawd,
 Mewn twrf afonydd fel y môr,
 "Gwarthruddais," meddai "Israel diawd."

Fel hyn am ddeugain niwrnod maith
 Bu fore a hwyr yn fawr ei fôst;
 Ei rym, ei wedd, ei eirf, a'i iaith,
 I Israel barant ddychryn tost.

Ar sad ymweliad, wele 'n dod
 Ryw wridog lanc o Beth'l'em draw,
 Bugeilfab Jesse, mawr ei glod,
 A bwyd i'w frodyr yn ei law.

I'r gwersyll pan gyrhaeddodd ef,
 Byddinai 'r llu, rhoent floedd i'r gad,
 A'r cawr ddaeth rhwng y ddwyblaid gref,
 Bytheiriai gabledd dros y wlad.

Yn mhelydr haul, ei eirf fel tân,
 A'i ysogogiadau 'n peri braw;
 Israeliad oll fel prysfed mân,
 Ac ef fel tŵr symudol draw.

Gwrolai Dafydd megys llew,
 Golynai, "Pa'm dyoddefwn warth
 Pa faint a fydd i'r gwron glew
 A laddo 'r cawr?—nid yw ond tarth."

Ar hyn Eliab chwerw a fu
 Wrth Dafydd, gwnaeth edliwiad tost,
 "Dy falchder gŵn, a'th ddrygedd di,
 Am wel'd yr hynt mae 'th daith a'th fast;

Atebai Dafydd, "Ni wna'th sen
 Fy nigalon, Duw yw 'm nerth;
 Ymlaen yr af, gostyngaf ben
 Y Cawr a'r holl Philistiaid certh."

Gofynai eilwaith, " Beth a fydd
 I'r hwn a laddo 'r diffaeth gawr ?"
 Caiff ferch y brenin, a'i dj yu rhydd,
 A breintiau fil a chyfoeth mawr !"

Ar hyn at Saul y dygid ef,
 Parhau yn wrwl 'r oedd o hyd ;
 Am ladd y cawr yr oedd ei lef,
 Am ladd y cawr yr oedd ei fryd.

Petrusai Saul, ys llencyn oedd,
 I gwrrd y fath ryfelwr llym ;
 'Roedd treiddiawi sŵn y cawr, ddig floedd,
 I'w glust o hyd mewn eithaf gymr.

Medd Dafydd, " Bugail fu'm i'm tad,
 Daeth llew ac arth a'dygant oen ;
 Eis ar eu hol, heb ofni brad,
 Gan ddwya eu 'sglyfaeth yn ddiboen.

Yn marf y llew, pan ataf trôdd,
 Ymeflais, lleddais lew ac arth !
 A'r cawr cableddus, yr un modd
 A laddaf eto er ei warth.

Y Duw 'm gwarêdodd rhagddynt hwy,
 A'm gwared eto rhag y cawr ;
 Pe byddai nerth yn ugain mwyr,
 Yn nerth fy .Nuw, fe gwyp i lawr."

Ar hyn rhodd Saul éi arfau certh
 Am Dafydd—helm a llurig gref ;
 Cyfrifai Dafydd hwy 'n ddiwerth,
 A cherdded ynddynt ni wmai ef.

Pum careg dodai yn éi god,
 Bugeilffon daf yn ei law,
 A'r orwest weithian oedd ei nôd,
 Wynebâi 'r cawr heb ofni braw.

Ar hyn y cawr yn fawr ei fost,
 Diystyrai Dafydd coch ei wrid ;
 Trwy Ddagon y melldithiau 'n dost,
 Ei galon falch fytheiriai lid.

Eb ef, " Pa beth, pa beth—ai ci
 Wyffi pan y defnyddi ffon ?
 Myn Dagon, lladdaf, darniaf di,
 Myn duwiau Gath, bydd gwae i'th fron !

I adar nef a milod llawr,
 Mewn eiliad bydd dy gnawd yn fwyd ;
 Pa ryfyg !—ti wynebu 'r cawr,
 Dyhiryn diffaeth gwael a llwyd.

Medd Dafydd, " Nerth dy fraich, a'th gledd,
 A'th waywffon, a'th dorian fawr,
 Yw'th ymffroet di, wr balch ei wedd ;
 Ni phery 'th lwydd ond mynyd awr.

Er gwaeled fy fy Nuw a'th rydd . . .
 I'm dwylaw hyn o'th ushder eirth;
 Dy ben'gymeras, dyma 'r dydd,
 Oddiar dy gorff, er maint dy nerth!

I adar nef a milod llawr
 Y byddi yn ddanteithiol wledd;
 Fel y gwyhyddo 'r byd yn awr,
 Fod Duw yn Israel ar ei sedd."

Gan siglo 'i ben, melldithiai 'r cawr,
 A'i 'r helm oddiar ei daloen certh,
 Chwyrn daflai Dafydd ato 'n awr
 Y gareg——cwymppodd er ei nerth.

O'r waedd! o'r waedd! pan cwymppai 'r cawr,
 Philistiaid mewn alaethus fraw,
 Ac Israel mewn gorfoedd mawr
 Am roddi 'r gelyn yn eu llaw.

Cymerai Dafydd redfa hwys,
 Prysurai gledd y cawr i'w law,
 A sangai ar ei gelais ddwys,
 I dori ei ben heb deimlo braw.

A dygid pen ac arfau 'r cawr
 I Salem fel rhyw arwydd llon,
 O'r hynod fuddygoliaeth fawr,
 A gwyrth y nef yr enyd hon.

I Abner, Saul ofynai 'n syn,
 "Pwy blaen 'r llanc? myn wybod pwy?"
 A dygid Dafydd ato ar hyn,
 Er iddo gael hysbysrwydd mwy.

Medd Saul, mewn synded wrtho 'n awr,
 Wr ieuanc dewr, mab pwy wyt ti?
 "Mab Jesse," medd, gan grymu i lawr,
 "O frenin mawr, bydd byth mewn bri."

Llanbrynmair.

W. W.

Amaethyddiaeth.

DYLAI tri pheth cael eu cadw mewn golwg yn barhaus gan yr amaethwr wrth drin ei dir, sef codi y cyndau gwerthfawrocaf â chyn lleied o goest ag sydd bosibl, heb niweidio ond lleied ag a ellir ar y tie.

Os bydd un o'r pethau hyn ar ol, nid yw yn cyrhaedd yr amcan priodol. Gyda golwg ar bob peth a elwir yn welliant, byddai yn dda ei bwys o yn y storian yma, i edrych a etyb yn y tri golygiad a nodwyd, cyn ei ddwyn i ymserfiad; felai oedd barnu pa un ai gwelliant a'i newydd-deb fydd. Mae y gair Seisnig *improvement*, yn colli ei ystyr gwreiddiol yn fynyeh yn ein dyddian ni. Defayddir ef yn lled aml i ddynodi newydd-deb yn unig, ond es na fydd y newydd-deb hwnnw yn cyrhaedd yr ystyriaethau a nodwyd, mae yn hollol annheilwng o'r enw *improvement*.

Yr oedd ein hynafiaid wedi cyrhaedd un o'r nodau hyn yn lled dda; ond yr oedd ynt yn ddiffygiol yn y lleill, ac y mae ambell un yn rhodio yr hen lwybr hwnw eto, yma a thraw ar hyd Gymry. Yr oedd ynt hwy yn lled gynnil yn y gost a'r drafferth a gymerent i drin eu tir; ond nid oedd eu cynnyrch yn canmawl fawr ar eu trefnidaeth: a phan y dihelyddent ua mae, galawent hwnw yn union a gyrent ar y cefyl a gerddai rwyddaf, nes yr eedd yr hen ddaear yn cael cam a cholled o dan eu dwylaw.

Y mae dosbarth arall o bobl, ac hwyrach eich bod yn byw yn agos i ambell un o honyn, pris ofal pa rai yw tynu allan o'r tir i gyfarfod â'r gofynnion sydd arno. Nid yw gwrteithio yn ddim bron gan y rhai 'n, ond hen arferiad ddrwg i fodio y meistr tir. Cawn eu clywed hwy yn fynych yn cwyno ar yr "agreement," ei bod yn eu rhwymo hwy i roddi hyn a hyn o galch i'r tir cyn hau gwenith ynddo. Medd, liem y byddai yn dda gan eu calonau gael eu rhyddhau oddiwrth dîarglwyddiath yr "agreement," y gwnaent ryw wyrthiau wedi hyny. Y mae ambell un o'r tylwyth yma yn llwyddo yn lled dda am dro, ac yn casglu ynghyd gryn swp o arian, trwy eu diwydrwydd a'u gofal, a'u bod yn ofalus am roddi yr had yn y ddaear yn brydlon ac ar hin addas; ac uwchlaw y cwbl eu gofal penaf yw cadw pob ceiniog a ddaw i mewn. Os buom yn cwyno i'r hen ddaear dan ddwylaw y lleill, y mae llawer mwy o achos yn bresennol. Os oedd y lleill yn gyru ar y cefyl a gerddai, y mae y rhai'n yn gyru yn ddiarbed ar y cefyl cloff a'r anafus. Penderfynant fyned ymlaen, a gneyd *pocket* dda er gweithio yn groes i ddeddfau natur.

Mae rhai hefyd i'w cael nad ydynt yn perthyn i un o'r dosbarthiadau uchod. Dynion sydd yn bur adnabyddus yn y manau lle mae gwrteithiau, a phethau yn dwyn yr enw, yn cael eu gwerthu. Y mae y rhai'n yn ddarllenwyr cyson ar y "Farmer's Magazine," a'u hoff waith yd, a gwneyd prawfiadau, heb gymharu celfyddyd a synwyr cyffredin: a chymerant yn ganiataol fod pob peth a ysgrifennir yn wirionedd, a phob gwrtith a ganmolir gan ryw un yn gymhwys iddynt hwy i'w ddefnyddio yn ddiuedig. Nid yw y teulu yma byth yn gwastatau y cyfrif, fel y byddai y dosbarth arall yn hoff o ddyweyd wrthynt pe caent gyfle; a phe baent yn tynu 'r balance, caent ei fod yr ochr chwith i'r ddalen.

Y rhai hyn sydd yn dwyn i mewn yr holl welliantau y soniasom am danynt. Y mae ganddynt ryw gyllun newydd bob lleuad. Esiamplau y rhai hyn sydd yn dra niweidiol yn y pen draw i'r dosbarthiadau eraill; casglant oddiwrth ymddygladau y bobl yma, os hyna yw gwelliant mewn amaethyddiath, os llwytho 'r tir a phob math o stwff costus, a chelfi na wyr neb i beth y maent dda, os dyna welliant, gwell hebddo. Y mae yr ochr ddiweddfaf, neu y rhai sydd yn myned i draul fawr gyda 'u tir, yn llawer llai peryglus, yn enwedig i amaethwyr Cymry, y rhai ydynt yn lled gyffredin yn edrych lle y rhoddant y geiniog wedi ei chael, wedi i'r Saeson eu hamddifadu o frasder eu gwlaid, a'u gyru i'r mynyddau llwm i ymboeni gyda thir sâl.

Ni a welwn nad oes un o'r dosbarthiadau a enwyd yn cerdded canol y ffordd gyda thrin tir, sef dilyn deddfau natur; a'r hyn y mae a fynd yr amaethwyr yn fwy na neb; ac ond iddo wneuthur hyny, dawei waith yn llawer mwy pleserus. Tuag at wneyd hyny, gyda golwg ar y enydau, y mae yn anghenrheidiol iddo ddeall yn gyntaf, natur y cnwd y mae yn ei godi. Yn ail, natur y tir y mae yn tyfu arno. Yn drydydd, natur y gwrtaith y mae yn ei roddi i'w dir. Hyn a'i galluoga, gyda bendith yr Arglwydd, i godi y enydau gwerthfawroaf ar y gost leiaf, a'r lleiaf o niwed i'w dir.

Dysgeidiaeth a Gwagddysgeidiaeth.

Y DOERTH a genfyddra gorion eraill, ac a ddymuna eu cyrhaedd. Dyn o feddwl gwag a hunandigonol a wel feiau eraill, ac a ymfalchia o'i gyraeiddiadau, er lleied ydynt.

Nid oes dim a ddymunir yn fwy pryderus gan lawer, nag enw am wybodaeth; ond nid ydyw gwybodaeth yn werthfawr, ond yn unig pan yngweini er weineyddiad bywyd, ac nid fel gwag ymddangosiad.

Pan yn diliynol dysgeidiaeth, y wybodaeth werthfawrocaf ydyw gwylod y terfynau at ba rai y goddef ein cynneddfau i ni ddynesu, ac nid myned heibio iddynt; a'n doethineb mwyaf ninnau ydyw aros yn fodlawn yn anwybodus o'r hyn sydd tuhwnt i'n galluoedd.

Y rhai sydd fwyaf gwirioneddol ddysgedig ydynt y rhai lleiaf awdurdodol yn eu haeriadau, a'r mawyaf llednais yn eu barnau. Anwybodaeth yn unig, yr hon na wêl tuhwnt i derfynau eigwybodaeth ei hun, sydd yn benderfynol ac yn feistrolaidd yn ei thybiau.

Y mwyaf dysgedig a'r mwyaf teilwng sydd leiaf tueddol at wag ymddangosiad. Gwelant hwy mor lleied a wyddant mewn cymhariaeth i eangder dysgeidiaeth, a theimlant eu banmherffeithrwydd yn ol safon (*standard*) daioni perffaith. Y mae gostyngieiddrwydd yn anwabano! oddiwrth math uchel o riuwedd, a lledneisrwydd ydyw y cynllun mwyaf darnodawl o raggeroldeb meddyliol.

Yr hwn a gymer ychydig o gamrau i esgyniad dysgeidiaeth, ac heb weled yr olygsa eang o'i flaen, ac yn syllu ar yr ychydig ffordd o'i ol, sydd falch o'i esgyniad uchel. Ffoledd ydyw ymfalchiol o'n hychydig wybodaeth, ac ansynwyrol ydyw dangos ein rhagorion. Nid ydyw llawer o'n gwylod ydyw ond rhyw dybiadau yn gorfoleddu y naill ar y llall, ac am ein rhagoriaethau, os dangosir hwynt yn am!, he'y a fyddant fel rhyw belydrau gweiniaid a ddarfyddant cyn toriad y dydd. Os dangosir hwynt gyda gwagagonedd, tramgyddant ein hunan-gariad, a hwyach cyffröant geufigen ac athrod.

Os ydwyt yn meddiannu ar dalentau uchel, rhodd dy gymwynaswr nefol ydynt; gosod werrh arnynt; gosod werth priodol arnynt, a dangos dy ddiolchgarwch, trwy eu rhoddi ar waith mewn cyddefniad â'r haelioni a'u rhoddodd. Ond os balchiol yr ydwyt o dy roddion, ac yn eu cyfrif fel offerynau gwagagonedd yn unig, yr ydwyt yn camarfer y rhodd yn anghyflawn tuag at gymdeithas, ac yn anniolchgar i'r Hollalluog.

Dysgeidiaeth, fel arian, sydd i gael ei gwerthfawrogi yn unig trwy ei chymhwysiad. Os na chymhwysir hi er daioni ei meddiannedd, a chymdeithas, y mae fel cronfa y cybydd, yn guddiedig yn ei gist. Os camarferir hi, y mae fel golud yr afriadlon, y rhai a wasanaethant ei ddrygedd, ac a ledanant eu dylanwad drwy y gymwdogaeth.

Y dybiaeth wag fod un yn meddiannu doethineb, a'r dymuniad pryderns o'i ddangos, ydynt yn rhwystrau cyfartal yn ffordd gwellâd y meddwl. Yn falch o'i uchafiad tybiedig, colla y diwydrwydd meddwl a gyrraedd wybodaeth; ac yn awyddus i gyfranu yr ychydig wybodaeth sydd ganddo, gwna esgeuluso y cyfleusdra o gyrraedd inwy, neu yn hytrach, diystyra gael ei ddysgu pan yn meddwl ei hun yn alluog i ddysgu eraill.—*Hogg.*

Gorchfygu Yspeiliwr.

AMRYW flyneddau yn ol, pregethwr Methodistaidd yn yr Iwerddon, oed yn ymdaith tua'r pentref yn mha un yr oedd i gyfranu gair y bywyd, yn e

ei arferiad gyffredin o gyflawni ei ddyledswydd; ac a attaliwyd ar y ffordd gan dri o yspeilwyr. Un o honynt a ymafodd yn awenau ei ffrwyn, y llall a dynodd allan ei lawddryll, ac a archodd ei arian, a'r trydydd oedd edrychyd yn unig.

Y dyn defosional a difrifol a edrychodd ar bob un o honynt yn ei wyneb, ac a ddywedodd gyda Hawer o ddwyader a sobrwydd, "Gyfeillion a ddarfu i chwi weddlo ar Dduw cyn ymadael a chartref? A ddarfu i chwi weddlo am i Dduw eich bendithio yn eich anturiaeth heddyw?" Y cwestiwn a'u cynhyrffodd am eiliad. Ond wedi iddynt feddiannu eu hunain drachefn, un o honynt a ddywedodd, "Nid oes genym amser i ateb y fath gwestiynau: eisieu eich arian sydd arnom ni." "Pregethwr tlawd ydwyf," oedd yr ateb; "ond yr ychydig arian sydd genyf chwi a'u cewch."

Ychydig syltau oedd yr oll a feddai i'w roddi iddynt.

"A oes genych yr un oriadur?"

"Oes."

"Rhoddwch hi i ni, gan hyny."

Wrth dynu ei oriadur o'i logell, ei farchgodau (*saddle bags*) a amlygwyd.

"Pa beth sydd genych yna?" oedd y cwestiwn drachefn.

"Nis gallaf ddyweyd nad oes genyf ddim ynddynt ond llyfrau crefyddol, oherwydd y mae genyf bâr o esgidiau a lleiniau i'w newid hefyd."

"Rhaid i ni eu cael."

Y pregethwr duwiol a ddisgynodd. Cymerasant feddiant o'r marchgodau, ac ni ofynasant ychwaneg. Yn ddiattreg efe a ddechreuodd ddattod botymau ei gôt a'i thynu hi oddiam ei ysgwyddau—ar yr un pryd gofynai, "A fynwch chwi fy nghoehl?" "Na chymerwn," oedd yr ateb, "Yr ydych yn ddyn haelfrydig, ni chymerwn ychwaneg." Yna efe a'u cyfarchodd fel hyn: "Rhoddais i chwi yr oll a ofynasoch genyf, a rhoddaswn i chwi fwy po meddaswn ychwaneg. " Mae genyf un ffâs i'w gofyn genych."

"Pa beth yw hyny?"

"Fod i chwi benlinio, a chaniatâu i mi weddlo ar y Duw Hollallnog trosoch, a gofyn iddo droi eich calonau a'ch gosod ar well ffordd."

"Ni bydd i mi ddim a wnelwyf a phethau y dyn," atebai yr arweinydd o honynt."

"Na minnau ychwaith," meddai un arall. "Cymerwch eich oriadur; cymerwch eich arian; cymerwch eich marchgodau. Os bydd i ni ddim a wnelom a chwi, barnau Duw a'n goddiweddant."

Felly dychwelwyd yr holl nwyfau. Ni wna i hyn er hyny foddloni y Cristion ymroddgar. Ond efe a gymhellodd weddiarnent. Efe a benliniodd, ac un o'r yspeilwyr a benliniodd gydag ef. Un a weddiodd, y llall a wylodd, gan gyffesu ei bechodaau a dyweddyd, mai hon oedd yr adeg gyntaf yn ei fywyd, iddo wneuthur y fath beth, ond na chai fod yn ddiweddaf. Pa cyn bellied y cadwedd ei air, sydd yn amlwg yn unig i'r hwn "Mae y goleuni a'r tywyllwch yr un ffunud iddo," a'r hwn mae ei "amrantau yn profi meibion dynion."

CARW CYWIRDEB.

Ffeithiau hynod.

MEWN gwledydd gwareiddiedig mae anifeiliaid yn helpu dyn mewn llafurio a chynnrychu, i wneuthur cymaint bedair a hanner o weithiau ag a allai ei gyflawni ei hunan.

Holl esgyrn dyn a bwysant o ddeuddeg i unarbymtheg o bwysau, a'r gwaed o saith ar hugain i wyth ar hugain o bwysau.

Mae yr ymenydd mewn dyn yn un rhan o wyth ar hugain o'r corff, o'r opes, nid yw yn y cefyl ond un rhan o bedwar cant.

Hanesion.

RHFAIN.—Ar ol darostwng y Rhufeiniaid yn enw y pab, gan y Ffrancod mae y gwahaniaeth a'r anghytundeb barn rhwng y pab a'r Ffrancod ue hunain yn myned yn fwy bob wythnos. Nid oes gan y pab un meddwl ond defnyddio y fuddygoliaeth i adasefydlu gorthrwm y chwil-lys ac i gadw ei ddeiliaid i lyfu llwch ei draed. Mae y Ffrancod ar y llaw arall yn proffesi mai eu dyben ydyw defnyddio y fuddygoliaeth i sefydlu llywodraeth rydd, heb fod gan y pab ond awdurdod eglwysig yn ei law. Ni phrofwyd orioed yn amlycach nag yn yr amgylchiadau presennol, fod Pabyddiaeth yn aghyson & rhyddid ac iawnderau dynion.

JESUITIAID.—Mae yr urdd feldigedig hon o eiddo Eglwys Rufain wedi cael ei haisefydlu a'i chydnabod gan amryw o lywodraethau gormesol y cyfaudir. Mae gormeawyr pob gwlad wedi deall mai yr unig obaith i sefydlu eu gorseddfeinciau anghyflawn, ydyw trwy lenwi eu llysoedd & Jesuitiaid.

HUNGARY.—Mae trigolion dewrfryd y wlad hon yn eu hymdrechiadau yn erbyn gormeadeyrn Awstria, wedi cael eu darostwng am dymmor, beth bynasg, gan luoedd nifteiriol, Awstria a Rwsia. Mae gwreichionen o anibyniaeth ac o gariad at ryddid yn cyfröi eiddigedd ac yn afonyddu cwsag Nicolas a Francis Joseph; ac os ymddengys yn eu tiriogaethau ū hunain, defnyddiant farbariaid fel Radetzky a Haynau i'w sathra allan.

CYNNADLEDD HEDDWCH.—Yngysfarfyddodd lliaws mawr o gynnrychiolwyr o America, Lloegr, a gwahanol wledydd Cyfandir Ewrop, yn Paris, i ymddyddan ac areithio ar heddwch rhwng teyrnasoedd a'u gilydd, ac i benderfynu ar foddion pellach i roddi hysbysrwydd cyffredinol am egwyddorion heddwch, ac i sierbau ei dylanwad yn llysoedd breninoedd a llywodraethwyr y byd. Traddodwyd areithiau grymus ac effeithiol. Mae y gynnadledd, trwy barch a dylanwad ei haelodau, ynghyda chymedroldeb a phenderfyniad ei hymdriniaeth a'r mater, wedi argymhell gwrth-drych ei hymdrechiadau i sylw llawer.

YR ALBAN.—Y mae cyfeillion crefydd yn yr Alban yn fywiog a diflino yn eu hymdrechiadau dros gadwraeth y Sabbath, ac yn gosod eu gwynebau yn benderfynol yn erbyn trafeilio gyda'r rheilffyrdd ar y dydd sanctsidd. Mae cymdeithasu wedi eu ffurio i sierbau traddodiad darlithiau a phregethau, a chyhoeddiad llyfrau.

ESGOBAETH NORWICH.—Mae llawer o'n darllenwyr, mae'n dehyg, bellach, yn hysbys o farwolaeth y Dr. Edward Stanley, Esgob Norwich. Gwna hyn achosi dyrchafiad y Dr. Graham, Esgob Cserilleon, i le yn Nhŷ yr Arglwyddi; ond ni chaiff Esgob newydd Norwich yr anrhyydedd, os ydyw yn anrhyydedd hesyd, o eistedd yno hwd nes y bydd un arall o'r esgobion farw. Pan hasiwyd y weithred seneddol i wneuthur Manceinion yn Esgobaeth annibynol, meddyliwyd mai gwell oedd peidio ychwanegu at nifer yr arglwyddi ysbyrydol; o ganlyniad, cytunwyd ar y drefn ganlynol na byddai i'r esgob ieuangaf (y ddau archesgob, esgobion Llundai, Durham, a Winchester, i fod yn eithriadau) gael eistedd yn Nhŷ yr Arglwyddi. Mae marwolaeth Dr. Stanley yn rhoddi y faint hon i Esgob Caerleon. Gellir bod yn lled hyderus mai Dr. Whewell, Meistr Coleg y Drindod, Caergrawnt, a ddilynai y Dr. Stanley yn esgobaeth Norwich. Er mai arferiad y llywodraeth presennol ydyw cymeryd dynion o Rhydychain a Chaergrawnt bob yn ail i esgobaethau Seisonig, ac er mai o Gaergrawnt y cymerwyd yrolaf, eto golygir fod y cysylltiad rhwng Norwich a Chaergrawnt y fath fel yr eir heibio i'r drefn arferol ar yr achlysur presennol.

CYFERYNIAD.—Yn ddiweddar, cafwyd wedi ysgrifenu ar furiau eglwys Paris, “Y mae y bugail da yn rhoddi ei einioes dros y defaid; ond y mae Pap Pius yn lladd ei ddefaid ef.”

EGLWYS LOEGR.—Mae yr eglwys hon wedi cyhoeddi yn un o'i llysoedd uchaf (*The Court of Arches*), llŷs Archesgob Caergaint, trwy enau swyddog y llŷs, a chynrychiolydd yr archesgob, *fod bedydd babanod yn ailenedigaeth!* Mae Mr. Gorham, yr hwn a apeliodd at farw y llŷs yn erbyn Esgob Exeter, ar ol ei orchfygu yn llŷs yr archesgob, wedi codi yr apel i'r llŷs uchaf a fedd yr eglwys. Dywedir fod caulyniaid o bwys i'w dysgwyl ar ol y penderfyniad nesaf a'r olaf. Y tebygolrwydd yw mai gwyr lleyg (rhai heb fod mewn urddau) yn unig fydd yn eistedd mewn barn ar y mater y tro nesaf, fel o'r blaen, er mae yn llŷs yr archesgob y bu o'r blaen. Dywedir mai pedwar ar bymtheg o farnwyr fydd, heb un gweinidog yr efengyl yn eu mysg, a hyny i benderfynu athrawiaethau yr efengyl! Onid yw yn bryd i Eglwyswyr gywilyddio dros eu hegwyd? A ddyoddefid y fath afresymoldeb gydag unrhyw beth arall, sef gosod dŷnion na wyddant ond ychydik, os dim, am y peth, yn farnwyr arno. Ac mae lle i ofni y gellir dyweyd yn yr amgylchedd presennol, nad yw eu parch yn llawer mwy na'u gwybodaeth, os cymaint.

Y GYNNALEDD WESLEYAIDD.—Diarddelwyd tri o weinidogion gan y gynnadledd ddiweddaidd, nid am athrawiaeth gyfeiliornus, na bucheddau anfoesol, nac anffyddlondeb gweinidogaethol, ond am y tybid, nid am y profid, eu bod yn gysylltiedig â rhwng bapryau dŵen a gyhoeddwyd dwy flynedd neu dair yn ol, yn cyhuddo y blaid sydd yn llywodraethu o wastraff mewn arian a phartiaeth yn nghyfliead gweinideigion. Yn lle gwyrthbrofi y cyhuddiadau hyn, cymerwyd gafael yn y rhai y tybid oedd yn euog o'u hysgrifenu, a diarddelwyd hwynt. Mae hyn wedi creu cyffro nid bychan yn mysg y bobl, y rhai a gedwir yn ofalus o'r gynnadledd. Mae rhai o'r cyfarfod ydwyaf a gynnaliwyd erioed gan y Wesleyaid wedi eu cynnal i gydymdeimlo â'r gweinidogion diarddeledig. Ac yn marn y cyffredin o'r newyddiaduron Seisnig, os ydym i'w credu, y peth tebycaf a allwn gael i'r cwil-lŷs Pabaid, ydyw y gynnadledd Wesleyaidd.

Y CHOLERA.—Mae mwy wedi marw o'r Cholera yn Llundain yn y ddau fis diweddaid nag a fu farw mewn deunaw mis pan y bu yr haint echrysawn yn y wlad hon o'r blaen yn y flwyddyn 1831—2. Ond yn y parthau o'r brifddinas lle mae y cholera wedi bod waethaf y mae cyfarta'wch y marwolaethau yn llaif nag ydyw yn y nifer fwyaf o ddinasoedd y cyfandir, ac yn llaif nag ydyw mewn llawer o ddinasoedd a threfydd Prydain. Yn Rwsia mae 10 19 o'r boblogaeth wedi marw yn y parthau y bu yr haint; yn Paris y mae 10.52 o'r holl boblogaeth wedi eu symud i fyd arall; yn Dumfries yn yr Alban 10.34; ond yn Llundain, yn y parthau lle y mae wedi bod drymaf, un o gant ydoedd.

SICRHAU BYWYD.—Y mae ofn marw trwy y cholera wedi effeithio i beri i lawer ymuno â'r cymdeithasau daionus sydd yn sicrhau swm o arian i berthynasau ar ol marwolaeth yr hwn fyddo wedi ymuno trwy dalu swm bychan yn ystod ei oes ef. Dylai pawb sydd yn deall gwerth y cymdeithasau hyn i weddwon a phlant aniddisaidd, wneyd eu goreu i oleuo eu cymydogion ar hyn. Diau nad oes yn y deyrnas hon ddiwr 'safyddiadau mor lleso' i gysur teuluaid.

Y GEINIOGWERTH.

"Peth neatia ar ddyn yw natur dda."

MR. GOLYGWYR.—Nid oes neb o'ch darllenwyr, miwn, yn gwybod dim am Rhiw—ar y ffordd o'r B—i Draws—. Nid oedd dim hynod o ran hyny yn y tŷ, os na chyfrifech ei adeilddull yn hynod. Nid oedd wedi ei adeiladu yn bigawg, gornelawg, a ffenestr strawg, yn ol cynllun tai yn yr hen amser gynt, pan oedd Bess yn teyrnasu; nac yn debyg i ddull diddull yr oes hon, heb ond pedwar pared ar lawrfaes gwastad, a simne bob cornel, a drws yn y canol; ond yr oedd y Rhiw yn nghe sail rhyw dorlan, heb fod traul na thraffterh wedi bod i saer maen eilio pared cefn iddo erioed, o herwydd fod natur ei hunan yn gyfnerth daearol o'r tu cefn iddo. Ond am nad oes a fynwyf gymaint a'i tŷ sydd heddyw yn fyrrdyn, ni chwanegaf ei bortreiadu, ond y mae arnaf chwant galw ar y ddeuddyn a'i preswyliai o lonyddwch bro anghof i ymddangos yn symwrwydd eu dillynfoes o flaen darllenwyr y "Geiniogwerth," fel y byddo naill ai i'w gair neu i'w gweithred beri rhyw ddymuniad yn mynwes yr ieuenctyd i ymgryhaedd at yr hyn a ddeallir pan y dywedir—"diniweidrwydd yr hen bobl."

Am yr hen Cadwaladr a'i wraig Mallt, ni fedrent lythyren ar lyfr, ac yr oedd eu holl raggeroldeb hwy ar eu cymydogion yn tarddu oddiar ryw sylw amgenach a dalasent i hen arferion a defodau yr henafaid. Cabled y sawl a gablo, y mae llawer addysg dda weithiau yn nghanol swrn o draiaodiadau yr henafaid. Ni wyddai Mallt ddim am Gatwg ddoeth, na Cyrus o Iâl, eto yr oedd eudywediadau mor lithrig ar ei thafod a phe buasent ewythr od iiddi frodwr ei thad, yn cydchwareu â hi ar y twyn. Nid oedd odid o amgylchiad, na dim yn dygwydd, na ddiweddlöai Mallt ei sylw a diareb synwyrlawn. Yr oedd hen ogr rhawn ar shilff grogedig, i ba un y lluchid bron ddernyn o bob peth, ac os teimlech awydd rhyfeddu at grynsŵth y gofr rhawn, atebid chwi gan Mallt yn union, mai oddiar ystyriaeth o'r hen air, "cadw dy afraid at dy raid" y gwneid felly; a dyma'r fan yn union yr elai Cadwaladr i chwilio am hespen ar y llidiart, neu linyn i glymu y ffust. Yr oedd yr aelwyd mor lân ag y gallesid dysgwyl, a hyny yn benaf o groesaw i'r tylwyth teg yn oriau y nos; ac er na ddygwyddodd iddynt erioed fod mor haelionus âg an rhegu Mallt na'r forwyn a chwech cheinieg wrth ymadaw y bore, eto gwyddai am lawer un y gwnaethent hyny â hwy, ac ni thei'n lai ar ei chalon gablu y craehod gwyrdwisiag am eu cybydd-dra. Fel hyn gellir dywedyd fod holi arferion a moesau teulu y Rhiw yn cael eu magu a'u meithrin a dywediadau gorchestel yr hen bobl.

Nid oedd tan iawn o ragoriadaeth rhwng Cadwaladr y meistr a Robin y gwas, a llai na hyny fyth rhwng yr hen wraig Mallt ag

[TACHWEDD, 1849.]

Elsbeth y forwyn. Rhw y arferiad newydd yn ddiau (bid hi well neu waeth) sydd wedi codi y canolfur presennol rhwng y meistr a'r gwasanaethyddion. Ni welodd Cadwaladr erioed *factori* i nyddu a gario gwlan, a phe clywsai Mallt am y peiriannau lawer sydd i wâu hosanau, llefasai ya ganmil uwch am waethygiad yr amser-oedd; ond gardiai Robin ar ol noswyllo, a nyddai Elsbeth y droell ar y llawr, tra y gweai Mallt, ac y dyddenid y teulu âg adroddion Cadwaladr o'i orchestion ar lawr y twmpath chwareu, neu yn ymladdau y pentref; ac felly nid oedd neb yn y teulu yn ymswyn am uchafiaeth, nac yn cwyno o herwydd isafiaeth.

Wrth glywed ei feistr yn canmawi ei fedrusrwydd yn ymladdau y pentref, teimlai Robin yntau y dyn yn ymgynhyrfu o'i fewn, a barnai y dylasai gael chwareu rhan yn y cylch hwnw, cyn cael esgyn i ben pinac enwogrwydd. Nid yn unig portreadai ei hunan yn ei ddychymyg heb grâs am ei gefn, yn ymwylltio fel tarw gwylt, pan yr ymaifid ynddo gan liaws o feibion a merched yn ei berswadio, ond swniai mewn geiriau weithiau y twrw mawr a wnelai, a'r gorchestion a gyflawnai, pan yr elai y tro nesaf i ffair y pentref;—ond taflai Mallt ddwfr oer am ben y tân mawr drwy ddywedyd yn bwyllog—“Robin, Robin, y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda.”

Nid oedd nac ymryson nac ymddadleu byth yn rheulu y Rhiw; ac ni chwympent allan â'u cymydogion—nid am ea bod yn blant tangnerefedd, nac yn deall dim am dangnerefedd y Cristion, ond yr oedd Mallt bob amser yn medru lliniaru pob terfysg a'r hen air—“Peth *neatia* ar ddyn yw natur dda.”

Yr oedd y dyddiau yn dechreu newid. Buasai farw yr hen Owen Meyrig a'i wraig, o'r Hafod, yn ymyl y Rhiw; ac er fod y cloddiau yn adfeiliadeg, a'r llidiardau yn lled ryddion, ac anifeiliad y naill fferm yn tori drosodd i'r llall, ni wneid amgen na'u troi hwy yn eu hol heb sŵn na sén, na gair o gerydd, o herwydd y credai Mallt a'r teulu oll, mai “Y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda.”

Ond daethai yno *denant* newydd, mewn rhwysg a gwrhydri mawr—mynai wneyd cloddiau cadarngruffy, a llidiardau newyddion, ac yr oedd hyn i deimlad hen deulu y Rhiw yn debyg iawn i un yn sathru pob arwydd ogymydog da dan eidraed; ond ni fynai Mallt yngan gair, gan grybwyll o hyd mai “Y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda.”

Yn nghanol llawer tywydd blin a phrofedaeth lêm, bu yr hen air—“Y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda,” yn fodion i gadw teulu y Rhiw yn ddisarhad. Tra y bu i *denant* newydd yr Hafod ymddyfetha yn ei awydd am fod yn arglywydd y rhandir hôno, a phawb yn ei ofni gan mor sarugaidd a bygythiol oedd ei iaith a'i ymddygiad, yr oedd yr hen Gadwaladr a Mallt ei wraig yn ymrwyfo dîwy y byd yn lled gariadus, o herwydd yn mhob amgylchiad lledid pob tuedd i ymryson a checraeth a'r hen air cywir, “Y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda.”

.Y mae yr hen Gadwaladr a Mallt mewn byd arall er ys blyneddau, ac yn wir y mae yn burion hyny; o herwydd ni chydwedd-asai holl foesau cymheullyd y dyddiau hyn âg archwaeth yr un o'r

ddau hen ddyn ; er mae'n ddiau genyf yr aethai Mallt trwy ei gyrrfa yn yr oes hon yn llawer llai ei phrofedigaeth na miloedd o rai mwy eu dawn a'u dysg ar gefn ymarfer a'r hen air, "y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda."

Bellach, da y gwna eich darlenyddien ieuainc gofio Mallt a'i hen air hoffus. Os cywir y dywed rhyw hen nodiedydd, Fod y Creawdwr wedi trefnu, yn y dechreu, i galon dyn rei rhyw nifer penodedig o guriadau y rhai a gymerent ryw gylch cymesur o flyneddau i'w gwblhau ; ond os bydd i ddyn ymollwng i arferiad o'r diodydd symbyllawl, neu ymgynlleiriogi mewn nwydau gorwyllt, y mae y galon yn dychlamu ac yn gwneyd y curiadau hynny ya gyflymach, ac o'r herwydd yn cyflawni y gwaith a osodwyd iddi mewn llai o amser, a'r dyn yn marw yn gynt o hynny—os yw hyn yn gywir—"Peth *neatia* i ddyn yw natur dda."

Gyfeillion ieuainc, os mynwch fyned trwy eich oes yn ddifyr a rhadlawn, yn esmwyth eich calon, yn lliosog eich cyfeillion, yn anwyl eich cwmni, yn gledwiw eich ymddygiad, yn ddiofid i'ch perthymasau, yn fendith i'r fro, ac yn addurn i'r gymydogaeth, cofiwch ymarweddu yn unol â hen air Mallt o'r Rhiw—"Y peth *neatia* ar ddyn yw natur dda."

TEGIDON.

Llythyr oddiorth y diweddar Barch. William Charles, Mon, at Bregethor ieuanc.

Gwalchmai, Ebrill 14eg, 1842.

GAREDIG GYFAILL,

NA feddyliwch ddywed yd ynoch eich hun, anghofiwyd fi fel un marw allan o olwg, trwy fy ngwaith yn oedi ysgrifenu atoch ; oblegid nad felly yr oedd. Treuliais yr wythnosau a basiodd ar gyfer glyn cysgod angeu—yn meddwl yn fynych mai ei rodio a wrawn. Pe adroddwn fy nheimladau, nid oes genyf neb i'w cystadlu â hwy ond yr eiddo Paul. Fe'm curwyd â gwial y gelyn, torodd llong gobaith am fyw tanaf lawer teirgwaith ; noswaith a diwrnod yn fynych y bu'm yn nyfnfôr ammhœuon. Nid oedd genyf ond treio cofio Duw o dir yr Iorddonen. Ammheuaus lawer am fy nghyflwr rhyngef a Duw, a'm penderfyniad heddyw yw, os oedd y wrechionen nefol ynof, mai yr hwn a gauodd y môr â dorau a'i cadwedd rhag diffodd. Os planwyd planigion gras, rhaid fod y galon yn ardd gauedig gan Dduw, a ffodd iddi o Galfaria i gario gwrtraith o angeu y groes, nes peri iddo darddu a thyfu. Yr oedd y tymor a basiodd arnaf y fath ag a fuasai yn sychu y dwfr bywiol oni b'ai fod ei wraidd yn ffynnon y dyfroedd byw. Yr unig beth oedd yn tawelu fy meddwl am fy sefyllfa ysbrydol ydyw, clywed dau yn siârad o'm mewn, a'r rhai hynny yn groes i'w gilydd. Un yn dywed yd, "Pechwn fel yr amlhao gras ;" "Na ato Duw," medd y llall. "Paham y dysgwyliaf wrth yr

Arglywydd," medd un ; " dysgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth," medd y llall. " Oferedd yw gwasanaethu Duw," medd un ; " minnau nesau at Dduw sydd dda i mi," medd y llall. Nis gwn pa enw i'w roi ar bethau fel hyn, os nad ydynt sancteiddrwydd a phechod yn croesi eu gilydd. Trwy drugaredd, yr wyf yn meddwl fy mod wedi taro wrth ryw Pisgah yn yr anialwch, a'i ben yn ddigon uchel i ganfod gwlad yr addewid.

" Dim cwyno mwy, dim cwyno mwy,
Ond canu am glwy Calfaria fryn."

O! anwyl frawd, clywais eich bod yn dechreu ar y gwaith o bregethu—pregethu Crist—pregethu y gair—pregethu yr efengyl. " A phwy sydd ddigonol i'r pethau hyn ?" Yr oedd yn llawenydd mawr genyf glywed, a Duw a'ch llwyddo. Gobeithiaf y byddwch yn Noa, pregethwr cyflawnwr i'r byd llygredig ; Boanerges i'r byd anystyriol; ac yn Apolos cadarn yn yr ysgrythyrau i'r byd ymofyn-gar. Cyfoder chwi i fyny â meddwl cryf fel Butler, rheswm cadarn fel Jonathan Edwards, ysbyrd efengylaidd fel Flavel, a thafod lithrig fel Demosthenes. Dychymygwch mor gywrain a Christmas Evans, ehedwch mor gyflym a Williams, o'r Wern, areithiwch mor nerthol ag Elias, o'r Fron. Yn mhob peth ym-debygolwch i Iesu Grist. Addfwyn a gostyngedig o galon, a gras Duw oedd arno ef. Bydded eich ysbyrd y fath ag a wylai fel Iesu uwch ben Jerusalem wedi ei rhoi i fyny, ac a lawenhai fel Barnabas wrth weled gras Duw. Y golofn yma yr ydych yn ei chyfodi na roddwch eich enw eich hun arni, ead y gogoniant i gyd i Dduw. Yr oedd Esther yn cadw at reolau Mordecai wedi cael dyrchafiad fel cynt. Felly ninnau, nid ydyw myned yn bregethwr yn rhoddi lle i ni anghofio yr hen reolau o edifarhau am bechod, defnyddio gwaed y groes, a gweddio yn ddibaid, &c. fel cynt.

O anwyl gyfaill ! rhoddwch holl arfogaeth Duw am danoch i fyned i'r maes. Gallai fod ofnau am eich anfoniad yn eich poeni. Yr wyf yn meddwl y gellir penderfynu hyny os bydd rhyw ychydig o gynhwysderau yn cydgyfarfod, megys duwioldeb, gwybodaeth, synwyr, awydd gwneyd peth dros Iesu, &c., pan y mae pethau fel hyn yn cydgyfarfod gellir hyderu am anfoniad. Gallai fod ofn dyn yn dwyn magl i chwi. . . . Cefais radd o feddyginiath fel hyn pan yn sefyll uwch ben cynnulleidfa, gwn y bydd yno rai yn gwybod mwy na mi, ond efallai y byddaffi wedi ystyried y peth fydd dan sylw yn fwya manwl na hwyt; felly byddaf yn bwrrw ymaith ofn. Chwi gyfarfyddwch â llawer math o bobl, a'r peth goreu at hyn ydyw treio adnabod eich hun, oblegid weithau rhaid i chwi roi ychydig o bris arnoch eich hun yn wyneb cael eich tynu i lawr; bryd arall rhaid i chwi gofio pwys ydych rhag eich cyfodi yn rhy uchel. Ni oes dim yn well at bob peth na holl arfogaeth Duw.

Mae genych chwi g-feillion anwyl i'ch hyfforddi mewn addfwyn-gar, cyngorion pa rai derbynwch fel perlau. Ymwrwlwch, na mae eich dwylaw; mae gwobr i'ch gwaith. Mae addewid Iesu i nod gyda chwi ; fe weithiodd ef iachawdwriaeth ei han a phawb weul ei adael : cewch chwithau ei chvhoeddi hi, ac meid efe.

"Wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Pregethwch Grist beth bynag; cysylltwch bob peth à Christ, efe a wneith y tro i bechadur. Cedwch y drws yn ddigon llydan i bechaduriaid ddyfod ato ef; gwell ei cholli hi yr ochr hono na'r llali. Byddwch yn fwy am *bethau* nag am *eiriau*. Darllenais am henafiaid Groeg y byddai eu dywediadau yn fyr ac yn gynnwysfawr; rhoddent fôr o fater mewn dyferyn o eiriau. Mae rhai yn dda am *baentio* y derw a'r ffawydd, fel yr ymddangosant yn hardd; ond gweithio y coed eu hunain yw y goreu. Goreu po leiaf o *baent* fyddo genym yn ein pregethau—sylwedd wneiff y tro. Ewch ymlaen, gellwch ymgysuro y byddwch yn well pregethwr na mi, bydd un yn waelach na chwi beth bynag. Nis gwn pa bryd y caf eich gweled. Mae yn dywyll a ddeuaf i'r gymanfa ai peidio.

Ydwyt, anwyl gyfaill, yr eiddoch,

WILLIAM CHARLES.

Chwedl am y Parch. Rowland Hill.

PAN oedd y Parch. R. Hill unwaith yn ymdeithio wrtho ei hunan, ymosodwyd arno gan leidr penffordd, yr hwn, trwy gryndod ei lais a'i ddull a ymddangosai yn ieuanc yn ei alwedigaeth. Ar ol rhoddi i'r dyn ei arian a'i oriawr, cywreinrwydd a barodd idde ei holi am yr achosion a wnaeth iddo gymeryd y fath orchwyl peryglus. Cyfadd-efodd y dyn yn rhwydd ei fod ef allan o waith, a bod ei wraig a'i blant ar drengu o newyn, ac i anobaith ei yru yn yspeiliwr; ond mai dyma y weithred gyntaf o'r fath a gyfawnasai efe. Mr. Hill wedi ei daraw gan gywirdeb amlwg y dyn, ac yn teimlo am ei gyfyngder, a hysbysodd iddo ei enw, a pha le yr oedd yn byw, ac a barodd iddo alw gydag ef dranoeth. Y dyn a wnaeth felly, ac a gymerwyd yn ddioed i wasanaeth y duwinydd dyngarol hwn, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth. Ac nid amlygodd Mr. Hill yr amgylchiad i neb. hyd oni adroddodd efe y cwbl yn y bregeth anghladd a bregethodd efe ar farwolaeth ei was.

R. E.

Dattod gweithredoedd y diafol.

MR. GOL.—Dygwyddodd i gyfaill i mi wrth wrandaw y Parch. William Roberts, Clynnog, ysgrifenu y darn canlynol o'i bregeth, a'i anfon i mi er ys dwy flynedd a hanner yn ol; ac wrth edrych am rywiol bapyrâu sydd genyf canfyddais hwn, ac wrth edrych drosto bernais ef yn ddarn destlus i ymddangos yn y "Geiniogwerth," ac os byddwch yn cydfarnu, wele ef at eich gwasanaeth.

D. O.

"I hyn yr ymddangosodd Mab Duw fel y dattodai weithredoedd diafol;" 1 *Ioan* iii 8. Yr oedd dau gyfeiliornad mawr yn y byd yr amser yr apostolion, ac y maent eto. Yn 1. Sel Pharisaeidd,

sef ceisio ymgyfiawnhau yn y ddeddf. Yn 2. Penrhuddid, sef dynion yn tuyu y casgliad oddiwrth athrawiaeth gras, "trigwn yn wastad mewn pechyd." Yn erbyn y cyfeiliornadol y dywedir gan yr apostol yn y bennod hen. Mae yma amryw resymau dros beidio a phachu, un o ba rai ydyw geiriau y testun. Gwelwn yma dri pheth. Yn 1. Y diafol—y gelyn mawr a'i weithredoedd. Yn 2. Nodir un yma wedi dyfod i'r maes i'w wrthwynebu. Yn 3. Nodir y dull y daeth—"ymddangosodd." Ni enwir y diafol byth yn y rhif liosog, am hyn y tybiwyd mai *un* sydd, ac mai archangel ydoedd, ac iddo falchiō ar ei swydd, a hudo eraill gydag ef; felly dywedir, "diafol a'i angelion." Ac fe ymosododd diafol ar ddyn, ac ymaent yn gaethion ganddo, wedi eu gorchfygu ganddo, ac yn cael eu dal ganddo wrth ei ewyllys. Ac hefyd maent yn gaethweision gwirfoddol iddo, wedi ymwerthu iddo. Mae gwaith diafol yn cynnwys yn fwyaf penodol, yn 1. Dianrhodeddu Duw. Yn 2. Dinistr dyn. Yn 3. Codi ei achos ei hun i fyny. Yn 4. Dymchwelyd achos Mab Duw. Cyhoeddodd Crist ryfel a'r diafol gyda ei fod wedi gorchfygu dynolryw. A chan fod Crist wedi dyfod, fe gaiff Duw ei anrhyydedd, dyn ei achub, y diafol ei dynu i lawr, ac achos Mab Duw ei godi. Fe aeth yn *general engagement* rhwng Mab Duw a'r diafol pan ymddangosodd yn y byd, yn enwedig ar ol ei fedyddio. Fe fu ddeugain niwrnod yn cael ei demtio ganddo y pryd hwnnw: nid allwn ddirlnad pa faint o boen i'w enaid cyfawn ef oedd bod am gyhyd heb glwedd dim ond iaith uffernol. Tair temtasiwn sydd ar lawr, y rhai llymaf oedd ef wedi gadw hyd ddiwedd y deugain niwrnaod, y rhai ydynt chwant y cnawd, chwant y llygaid, a balchder y bywyd. Chwant y cnawd oedd dyweyd, "arch i'r ceryg hyn fod yn fara." Chwant y llygaid oedd dangos iddo "holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniaut;" a balchder y bywyd oedd ei demtio i syrthio o ben pinacil y deml. Ar y groes wedi hyn y daeth holl allu y tywyllwch i ymladd âg ef yn y tair awr tywyll hynny. Ond efe a'u gorchfygodd ac a yspeiliodd y tywysogaethau gan orfoleddu arnynt arni hi. Yn awr y mae yn dattod ei weithredoedd trwy bregethiad yr efengyl, a lledaniad yr ysgrifythrau.

Y Ceiniogau.

ADRODDWYD yr hanes a ganlyn, ryw amser yn ol, gan y Parch Dr. Raffles, Le'r pwll. Mewn cyfarfod cenuadol a gynnaliwyd yn y tref hono, yr oead gweinidog Cymreig yn bresennol, a deisyfwyd arno gyfarch y gynnulleidfa (llawer o ba rai oed idynt Gymry) âg ychydig eiriau yn yr iaith Gymraeg. Hyn a wnaeth; a'r effaith rymus a gynnwrychodd ei ddywediadau ar ei gydwladwyr a barodd i'r Doctor ac eraill, oedd ynteb heb ddeall yr iaith, ofyn iddo pa beth oedd yr hyn a ddywedasai. "O," atebai yntau, "siaredais wrthynt yngylch y ceiniogau." "Y ceiniogau!—pa beth a ddywedasoch yngylch y ceiniogau?" "Wel," ebe efe, "dywedais wrthynt—

Y mae rhai o honoch yn dyweyd, 'Ni fedrwn ni roi mwy na cheiniog yr wythnos, a pha les a wna ceiniog?' Wrth ddyfod trws y bryniau ar fy nhaith i Le'r pwli, gwela'i's aber fach, a dywedais, 'Aber, i ba le yr äi?' 'O, yr wyf yn myned i lawr i'r ffirwd fwy.' 'Ffirwd, i ba le yr äi di?' 'O, yr wyf yn ymlifo i'r afon fawr Mersey.' 'Mersey, i ba le yr äi dithau?' 'O, yr wyf yn myned i lawr i Le'r pwli.' 'A pha beth a wnëi yn Le'r pwli?' 'O, cymeraf y llongau allan o'r dociau yn Le'r pwli, a chludaf hwynt i'r môr, ac yno lluchiaif hwy o amgylch fel pluen, a chariaf hwy i wlad bell, ac yna, yn mhen gronyn, dygaf hwynt yn ol, wedi eu llwytho & chynnrych gwledydd eraill.' Ac felly y dywedaf finnau:—'Ceiñiogau, i ba le yr ewch chwi?' 'O, yr ydym yn myned i'r gymdeithas genadol.' 'A syltau, i ba le yr ewch chwithau?' 'O, yr ydym yn myned i'r gangen gymdeithas genadol.' 'A hanner punnau a phunnau, i ba le yr ewch chwithau?' 'O, yr ydym yn myned i'r gymdeithas genadol gynnorthwyol; a phan gyrraedd yno, awn i Lundain.' 'A phan gyrraedd doch Llundain, pa beth a wnewch?' 'O, cymerwn allan genadau, a chludwn hwy i derfynau eithaf y ddaear, fel pa le bynag y gwelir gwyneb Brython, yr adnabyddir Duw Prydain, a Bibl Prydain.'

Gair at Ferched Cymru.

LAWER a ddywedwyd am danoch yn ddiweddar, a hyny nid bob amser yn yr ysbryd mwyaf tirion; ond ar ddymuniad fy nghyfeillion sydd yn golygu y "Geiniogwerth," yr wyf yn cymeryd fy hyfdra i lefaru ychydig wrthych, a dymunwn wneuthur hyny yn y medd mwyaf didramgydd. Wrthych chwi yn benaf yr wyf yn dysgwyl, dan fendith yr Arglwydd, am ddiwygiad yn arferion ein cenedl. Nid wyf yn ystyried eich bod chwi yn fwy euog na'r rhyw arall; ond credu yr ydwyf fod yn haws eich ennill chwi i weled yr hyn sydd rinweddol a chanmoladwy: a phe medrid unwaith eich ennill chwi, dyna y gwaith bron ar ben.

Rhaid i mi addef nad wyf wedi cael mantais i wybod llawer am eich arferion, gan fy mod yn treulio y rhan fwyaf o'm hamser yn fy nghell, yn nghanol fy llyfrau. Ond bydd amgylchiadau yn fy ngalw weithiau i wahanol ranau o Loegr; ac anaml y caniatâr i mi ganmawl fy ngwlad, na ddygir ymlaen eich ymddygiadau chwi fel prawf o anfoesoldeb ein cenedl: a bydd yn rhaid i minnau dewi mewn cywilydd. Ac hyd yn nod pan gauwyf fy hun yn fy llyfr-gell, daw rhyw gyhoeddiad neu gilydd i'm llaw yn y fan hono yn diraddio merched Cymru. Yn mhob gwlad lle y mae llyfrau yn cael eu darllen, a gwybodaeth o agwedd y byd yn cael ei danu, y mae son am ferched Cymru. Nid oes llawer o amser er pan ymddangosodd traethawd mewn cyhoeddiad Pabaidd yn ceisio taflu gwarth ar y grefydd Brotestanaidd o herwydd anfoesoldeb merched Cymru. Pa hyd y rhaid i ni oddef yr anfri hwn? A oes dim a

bair i chwi deimlo dros eich gwlaid, a thros eich cymeriad eich hunan? A ydych yn foddlawn i grefydd gael ei gwaradwyddo o'ch plegid chwi? A raid i ni oblegid eich ymlyniad chwi wrth un hen arferiad ffaidd gael ein cyfrif yn is mewn moesoldeb a dynoliaeth na'r cenedloedd mwyaf anwaraidd? Na, gobeithiaf y penderfynwch ac yr ymrwymwch yn unfrydol y dilêr y gwarth hwn yn dragwyd oddiar wyneb ein gwlaid.

"Anrhyydeddus yw priodas yn mhawb;" o ganlyniad nid rhaid i chwi gywilyddio oblegid unrhyw gyfeillach a fyddo yn arwain i'r sefyllfa hono mewn ffordd anrhyydeddus. Dylech ymddyddan llawer a'ch rhieni ar y mater; a dylech roddi cyfle iddynt hwy i farnu a yw eich dewisiad yn ddoeth. Fel hyn y maent yn gwneuthur mewn gwledydd eraill, ac fel hyn y mae pobl gall yn ein gwlad ninnau. Y maent yn caniatâu i ddyn ieuanc ddyfod i'r ty ganol dydd, neu o leiaf mewn amser prydlawn, ac yn llawenhau wrth ei weled yn ennill parch yr holl deulu trwy ei ymddygiad dirores. Ond y mae syniadau a theimladau rhyw ddosbarth yn Nghymru wedi eu gwyrdroi. Y maent yn hyf i gyflawni yr hyn y dylai fod arnynt gywilydd o'i blegid; ac y mae arnynt ormod o gywilydd i ddilyn y llwybr sydd wir anrhyydeddus. Yr wyl yn credu fod y cywilydd ffol hwn yn wreiddyn i'r rhan fwyaf o'r drwg sydd yn hynodi cenedl y Cymry; ac am hyny adysgrifiaf rai llinellau o'r "Cotter's Saturday Night," er mwyn dangos pa fodd y maent yn dwyn yr achos hwn ymlaen yn Scotland, hyd yn nod ymhlieth y rhai mwyaf iselradd o'r trigolion:—

A gwresog lawn groeso, mae Gwen yn dwyn heibio,
Lanc hardd, tâl, a chryno, da, effro, di wad;
Mae 'r fain yn llygadaidd, a'r hoewferch yn llonaidd,
Fod iddo hynawsaidd gynnwysiad.

Ymffrostio am geffylau, am erydr, am ogau,
A gwartheg a'u gwyrtiau, pert eiriau, mae 'r tad;
Wrth wrando 'i fost wladaidd, mae 'r llanc yn llawenaidd,
Ond gwylaidd a mulaidd ei ymwelliad.

Y wraig mewn cyfrwystra sy'n canfod ei wyldra,
Gŵyr beth a achosa ei ddyldra wedd wan;
A da ganddi syniad, fod i'w phlant gymeriad,
Fel eraill, a chariad gwych eirian.

O gariad dedwyddol, p'le ceir di 'n drigfanol?
Wyt anghydmariaethol hyfrydol fyw rad:
Teimladwy orfoledd mewn calon lawn rhinwedd,
Gwirionedd yw 'th sylwedd a'th seiliad.

Mi droedais nid 'chydig, ar hyd y flinedig
Gylch daith dra thrancedig a llithrig oll hon;
Call brofiad sy'n peri i'm adrodd hyu ichwi,
A nodi 'i ddaioni i ddynion.

Os yw nef yn rhoddi o'i anwyl hedd ini,
Adfywiol i'n lloni mewn cyni man caeth;
'Rwy 'n meddwl fod ie'ncyd yn profi 'r blas hyfryd
Yn enyd diweirfyd di oerfaeth.

"Gwylltiedd," Llyfr VI. tudal. 159.

Beth sydd yn rhwystro i ferched Cymru wneuthur yr un modd ? Y mae arnynt, meddant hwy, ormod o gywilydd. Yn awr, teimlad addas yn ei le priodol yw cywilydd ; ac nid oes golwg fwy adgas yn bod na merch ieuanc *heb fedru cywilyddio*. Ond gofalwch am ymddwyn yn wylaidd a diwair, ac yna *ni bydd raid i chwi gywilyddio*. Ond y mae y gair gwylter bron wedi ei golli o'r iaith Gymraeg. Sonir llawer am gywilydd, ond ychydig iawn am y gwylter sydd yn cyfansoddi yr addurn prydferthaf ar ferched, a'r amddiffyn eryfaf i bob rhinwedd. Nid wyf yn credu nad yw merched Cymru mor wylaidd à merched eraill, ond fel y maent yn cael eu caniddysgu. Diau fod gwylter wedi eu blanu yn eu natur hwythau gan y Creawdwr ; ond wrth ystyried y geiriau budron a siaredir yn eu clyw, a'r dull yr egwyddorir hwynt o'u mebyd yn hen arferion y tywyllwch, a llygredigaeth y feiriau, pa ryfedd os gwelir hwynt yn fuan wedi eu hamddifadu o'u gwylter, heb ddim wedi ei adael ond teimlad o gwilydd ? Ac nid hir y byddant heb golli hwnw. Y mae eu gwylter trwy gael ei gamarwain, yn myned yn achos o'u harferion mwyaf gwarthus, ac yn cael ei droi o'r diwedd yn ddigywilydd-dra.

Ferched Cymru, os mynwch gael eich parchu, na adewch heibio eich gwylter. *Na oddefioch i neb ymddwyn yn hyf tuag atoch*. Nid oes dim yn sicrach na bod yr hyfdra haerllug a arferir gan rwyfath o feibion a merched at eu gilydd yn hollos anghydweddol à phob teimlad o barch : a lle na byddo parch nis gall fod gwir gariad. Ond y maent yn dywedyd fod rhai o honoch mor ffôl a hoffi ymddygiad o'r fath yma ; ac mai yr ëofndra mwyaf digywilydd sydd yn ennill eich cymeradwyaeth. A ydyw hyn yn wir ? Ai gwell genych y rhai sydd yn ymddwyn tuag atoch fel pe byddech buteiniaid, na'r rhai sydd yn dangos yn eu hymddygiad eu bod yn eich parchu ? Yr wyf yn gorfol ofni ei fod yn rhy wir am *rai* o honoch. Ond y mae un peth yn ddiammheuol ; pâle bynag mae merch ieuanc, neu hen, yn teimlo fel hyn, nid yw hono yn werth ei pharchu. A phâle bynag y mae mab yn medru ymddwyn fel hyn, y mae hwnw heb ddysgu y wers gyntaf mewn moesgarwch cyffredin, Nid oes dim yn sicrach prawf o gyflwr anwaraidd unrhyw bobl nag ymddygiad ëofn à dibris at y rhyw fenywaidd. Y mae merch a fyddo heb ymadael à'i gwylter yn haeddu y parch nesaf at addoliad ; a dylai y mab ieuanc ei chyfarch bob amser gyda chyffelyb deimladau a phe byddai yn mhresenoldeb brenines Lloegr. Mynwch y parch hwn, ferched Cymru : ac uwchlaw y cwbl, na ddibrisiwch ef lle y byddo. Dichon fod cryn lawer o anfedrusrwydd o'i gwmpas, dichon ei fed yn effeithio ar y tafod fel na fedr siarad mor lithrig ag y dymunai, dichon nad yw y llanc, fel y dywed Burns,

“Ond gwyltaid a mulaidd ei ymwelliad.”

Er hyny, y mae yno, o dan y gwyleidd-dra hwnw, elfenau gwerthfawrocach nag aar pur, heb y rhai y mae yn anmhosibl i chwi fod yn ddedwydd yn y cyflwr priodasol.

Os bydd parch ynoch tuag at eich gilydd, y mae hyny yn rhwym

o greu parch i'r sefyllfa briodasol. Ni fydd arnoch gywilydd son am dani wrth eich gilydd, ac wrth eich rhieni. Byddwch yn teimlo mai "anrhaydeddus yw priodas :" a'r un peth yn eich golwg fyddai bod yn euog o'r lladrud mwyaf ysgeler, a meddwl am yspeilio y sefyllfa hōno o'r anrhaydedd sydd yn perthyn iddi. Byddwch yn gofalu am fod eich priodas yn "lân briodas." Byddwch yn edrych ymlaen ati fel cyfnod holol newydd, a hwnw y cyfnod pwysicaf yn eich holl fywyd ; pan fyddwch yn myned i berthynas newydd â'ch gilydd, a hōno yn berthynas mor uchel fel y mae yr apostol Paul yn ei chymharu i'r undeb dirgeledig rhwng Crist a'i eglwys ; pan fyddwch o hyny allan, oll yn oll y naill i'r llall, a hyny mewn rhyddid cyfreithlawn, oblegid fod y rhyddid hwnw wedi ei dediogelu & rhwymau annattadol hyd angen. Ond hyd hyny, nac arferwch, ac na chaniatŵch unrhyw ryddid a fyddo yn gormesu ar derfynau y cyflwr priodasol, ac yn eich iselu chwithau yn ngolwg eich gilydd, ac yn eich golwg eich hunain. Eich gwaith yn awr yw parotôi erbyn y cyflwr hwnw, a dysgu y wers fawr o hunan-lywodraethiad.

MEUDWY.

Helbulon Cyfoeth.

Adroddydd yr hanes a ganlyn oedd un Mr. Thornley a ymsefydlodd er ys cynnifer o flyneddau yn ol yn Van Dieman's Land. Y Mr. Crab yn yr hanes oedd ymsefydlydd arall ag oedd yno o'r blaen, ac y cyfarfu Thornley âg ef mewn amgylchiad tra isel,—y brodorion wedi ei yspeilio, ac heb ddimm am dano ond math o grwyn, ac ar gychwyn adref, meddai ef, o'r fath wlad druenus. Crab oedd un o'r rhai hypnotaf yn y dosbarth hwnw, sydd bob amser yn edrych ar y goes gam—yn darllen yr ochr ddu, fel y dywedir. Pa fodd bynag, arosodd yno, yn byw gan mwyaf gyda Thornley, am liaws o flyneddau ; ond bot amser yn achwyn ar y wlad, a bob dydd ar gychwyn adref i Loegr. Ond rywfodd yno yr arosodd, a bu fyw nes cyrhaedd pedwar ugain a chwech miswydd oed, ac ennilodd lawer o gyfoeth ; ond bu farw yn y diwedd gan gysenwi Van Dieman's Land, "Y wlad druenus, druenus hon."

Wrth ymofyn am Crab hysbyswyd im' ei fod wedi myned allan ar ol ei yr ddefaid, yn mhen awr neu ddwy wedi ein cychwyn i Hobart Town, a'i fod heb ddychwelyd. Ni roddodd ei absenneldeb ddimm anesmwythder im' ar y pryd ; ond wedi i wythnes arall fyned heibio heb ei ymddangosiad, daethum yn alarus, a dechreuais feddwl yn ddifrifol am fyned allan i chwilio am dano. Fel yr oeddym yn son am dano, canfuom ein hen gyfall yn dyfod ar draws y ddôl at y tŷ. Yr oedd yn ymddangos yn wan a blinedig, ac yr oedd ei ddillad wedi diwyno ac ystaenio gan y daith. Yr oedd gando *fwindel* ar ei ysgwydd, pwysau yr hwn oedd yn ei lethu. Yr oedd yn cerdded ymlaen yn bendrwm, gan bwysu ar ei ffôn mewna dull anahebyg i'w arfer fywiog ef. Aethum yn ddiaros allan i'w gyfarfod, ac i'w gynnorthwyo i'r tŷ. Eisteddodd yn y gader fawr, gydag ochennaid drom, gan daflu ei faich ar y llawr, yr hwn a rugl-drystiodd wrth ddisgyn.

"Diolch i Dduw," meddai, "yr ydwyf gartref eto. Meddyliais na chawn eich gweled byth mwy. Y fath wlad ydyw hon! Dim llôg-gerbyd! na dim! Ond y mae yn talu i mi yn iawn, dylaswn ei gadael er ys talm; ond yn awr yr wyf wedi gwneyd fy meddwl i fyny. Mi a âf gyda y llong nesaf fydd yn myned. Nid oes dim ond trueni yma; chwi a gewch eich dystrywio a'ch lladd i gyd—dyna fy marn i."

"Paham, beth a ddygwyddodd?" gofynais, "pa beth ar y ddaear yw y mater gyda chwi?"

"Pa beth a ddygwyddodd pob peth na ddylasai ddygwydd? Dywedaf i chwi, os gadewch i mi gael amser; ond yn gyntaf y mae yn rhaid i mi gael rhywbeth i'w fwyt. Ha, dyna y mutton chops. Yn unig gadewch i mi gael ychydig o fwyd i'm corff a mi a ddywedaf i chwi.

"Fe berthyna yr oll i'r darn tir hwnnw sydd yn Cherrytree Bolton," meddai Crab, gan daraw y bwrdd a'i law galed, er rhoddi ychwaneg o bwys ar ei eiriau, nes oedd yr holl lestri *tea* yn neidio gan yr ysgydwad. "Fe berthyna y cwbl i orfysio y tir hwnnw, gyda yr hwn nid oedd genyf unrhyw neges, ac y mae yn talu yn dda i mi, ac y mae yn farn arnaf! Pa beth sydd a wnelwyf a thir yn y wlad estronawl hon? Pe buaswn heb y tir hwn ni buasai arnaf eisieu adeiladu tŷ arno, a phe na buasai arnaf eisieu adeiladu y tŷ, ni buasai arnaf eisieu gwerthu y defaid, ac yna ni chawswn fy ngofidio gyda y *dollars* melldigedig hyn! Ond myfi a âf ymaith gyda y lleng nesaf! Betsy, fy anwylyd, ysgrifena lythyr i mi, dyna eneth dda.

"Gyda hyfrydwch," meddai Betsy, yr hon oedd anwylyd yr hen wr. "At bwy?"

"At ystôr-geidwad yr Hobart Town—Mr. Stikitinem."

"Enw rhyfedd, onidê?"

"Math o Isellmyn ydyw, yr hwn sydd yn fy nghyflenwi a nwyfau. Buaswn yn ysgrifenu fy hunan, ond y mae byw yn y wlad druenus hon wedi niweidio fy llygaid, ac ni ellais byth weled i ddarllen ysgrifen yn rhwydd. Gallaf wneyd allan argraff bras yn dda, pan yn gwybod yngylch beth y mae, megys pennod o'r Bibl, neu ryw-beth tebyg. Ond ni ddarfu i mi erioed ysgrifenu llawer, o herwydd y mae fy llaw yn galed wrth ddal yr aradr, ac y mae peth bychan fel ysgrifell yn dyfod yn annuriol iddi."

"Pa beth ydych yn myned i wneyd gyda y *dollars* hyn?" gofynai fy ngwraig. "Yr wyf yn gofeithio, Mr. Crab, nad ydych yn myned i'w cadw yma; maent yn demtasiwn beryglus yn y llwyn."

"Y mae yn beth nad ydwyf yn ei wybod," meddai Crab, yn bruddaidd; "er yr amser eu cefais dyna y gofyniad a roddwyd im' gan bawb, a'r un nad allwn byth ei ateb. Ond cefais ddigon o drafferth i'w cael, ac yr ydwyf yn credu eu bod y rhai diweddaf a adawyd yn y drefedigaeth!"

"Darfu i chwi werthu defaid, dybygaf," meddwn, "pa beth a gawsoch am danynt!"

"Dim ond gefid—a'r *dollars* hyn. Un prynnydd a geisiai dair blynedd o goel, a chynnigiai ddeg swilt ar hugain y pen—ac yna

deugain swllt y pen, ond dywedais, 'arian ar law,' dyna fy ffordd i o farchnata; dyna y modd y prynais hwynt, a dyna y modd y gwerthaf hwynt. Yna prynnydd arall a gynnygiodd nis gwn pa faint o wartheg am danynt, a dywedais, 'pa fath rai ydynt, rhai gwyltton?' 'Diammheu,' meddai. 'A pha le y gallent fod?' meddwn. 'Y maent yn agos i *Circular Head*.' 'Yna,' atebais, 'gallant aros yn *Circular Head* hyd nes tyf eu penau lle y mae eu cynffonau; nid oes dim a wnelwyf a gwartheg gwyltton, y rhai a dramwyent dros yr holl ynys, ac ni wyddoch pa le i fyned i'w ceisio pan y bydd eu heisien. O'r diwedd daeth sefydlydd newydd, yr hwn oedd wedi clywed fod fy nefaid yn hardd-wlanog, ac a ddywedodd y prynai bedwar cant (400) o honynt.'

"Pa foddyr ydych yn meddwl talu?" gofynais. "Mewn nodau ariandy Dieman's Land," meddai.

"Nid wyf yn gwybod pa foddyr oedd—fe'm perswadiwyd, canys yr oedd yn un siaradus ddychrynllyd, a: yn un medrus dros ben. Ac felly yr aethom at fy nefaid oedd yn agos i Norfolk Plains, ac yna fe ddechreuodd y ddadl. Yr oedd arno eisieu dewis y mamogiaid, yr holl rai ieuainc, a'r goreuon, er eu bod oll o ran hyny yn dda; ond dywedais innau, 'Na, y mae hyny yn beth na wnaf mewn unrhyw foddyr ei ganiatâu. Cymerwch hwynt fel y rhedant o'r buarth.' Yna yr wyf yn tybied iddo siarad â mi am hanner awr, er fy argyhoeddi fod gan y prynnydd hawl iddewis; ond nid oeddwn am gymeryd fy argyhoeddi gan rai cyffelyb iddo ef, ac felly dywedais, 'Cymerwch hwynt neu gadewch hwynt, punt y pen yw y pris—arian ar law, fel y rhedant o'r buarth.' Yna fe gynnygiodd i bob un ddewis nes y caffai efe ei bedwar cant. Wel, tybiais fod hyny yn ddigon rhesymol, ac felly y trefnasom. Ac wedi eu nodi, ac yna myned i'w gyru ymaith, dywedais, 'Pa le y mae'r arian?' 'Rhoddwch i mi bin ac inc,' meddai, 'yn union, a rhoddaf i chwi cheque.' 'Cheque,' atebais, 'nid oes arnaf eisieu dim o'ch cheques—yr arian sydd arnaf fi eu heisien.' 'Yna,' meddai, 'rhaid i chwi ddyfod gyda mi i Launceston, o herwydd nad wyf mor ynfyd a chario arian gyda mi, ac yno cewch y tal.' 'Mae hyny yn bur dda,' dywedais innau, 'end yn y wlad yma nid ydym byth yn gollwng y defaid ymaith heb yr arian. Felly, os gwelewch yn dda, rhaid i'r pedwar cant defaid a nodasoch aros yma hyd oni thelir i mi am danynt.' 'O'r goreu,' meddai."

"A rhoddodd yr arian i chwi yn Launceston?"

"Cewch weled. Rhoddwch i mi gwpanaid arall o dea. Gadewch im' ddywedyd yr ystori yn fy ffordd fy hun; onide, ni ddarfyddaf byth. Felly, aethum gydag ef i Launceston, a chawsom chwart o gwrw yn y gwestyd yno, nid oedd yn ystwff gwael, ond nid oedd dim mewn cymhariaeth i'r hyn a gawn mewn tafarndy garref; yna ysgrifenedd *cheque*, fel ei galwai ef, a rhoddodd i'r gwestywr ^{Peniarth} gymeryd at farsiandwr yn y dref, a gwir ddigon, dygodd yn ol bedwar cant o nodau arianol o bedwar *dollar* yr un, fel y dywedais, ond nis gallwn ddeall yr ysgrifen oedd arnynt, oherwydd ^{Peniarth} llythyrenau mor addurnedig, ond meddyllais fod yn rhaid ^{Peniarth}

peth fod yn iawn, gan fod y gwestywr yno yn ei wirio. Ysgrifennodd orchymyn at fy mugail am y defaid, ac arwyddais ef; gofynodd am fy enw, dywedais, Samuel, dywedodd yntau na fuasai yn tybied hyny, ond beiddiai ddyweddyd y gwnai fy mugail ei ddeall, ac felly eisteddwn yno gyda phedwar cant o ddarnau papyr o'm blaen. Daeth y gwestywr i fewn ac eisteddodd yn fy ymwl, ac ymddyddanodd ynglych y newyddion, ac meddai, 'a glywsoch am y methiant mawr yn Hobart Town?' 'Y *flashy cove*, yr hwn oedd yn chwifio barcutan bapyr a fethodd godi y gwynt yn hwy?' 'Chwifio barcutan bapyr!' meddwn, 'beth ar y ddaear sydd ar ddyn eisieu yn chwifio barcutan? arferwn wneyd hyny pan yn fachgen.' 'Gwelaf,' meddai, 'nad ydych yn deali. Wrth chwifio barcutan y meddylir dwyn allan y rhai hyn,' gan gyfeirio at y nodau, 'ac yna pan y maent i'w talu ni fyddant o werth!'"

"Yr hyn a ddywedodd y gwestywr a gafodd effaith ddwys arnaf, oblegid meddyliais mewn mynyd fy mod wedi ymadael â phedwar cant o oreuon fy nefaid am bedwar cant o ddarnau nad oedd ynt yn ddigon da i dâni pibell. Ymdanodd chwys oer drosof yn y fan. 'Gwestywr,' meddwn, 'a ellwch fy nghymeryd at y marsiandwr a roddodd i chwi y nodau hyn?' 'Diammheu y gallaf,' atebodd, 'nid ydyw ond cam.' Meddwn wrth y marsiandwr, 'y mae genyf reswm penodol dros geisio arian yn lle nodau yn awr. Oni ellwch roddi *dollars* yn lle y nodau hyn?' 'Sicr iawn,' atebai, yn bur foneddigiaidd, 'ond buaswn yn meddwl y buasai *dollars* yn anfanteisiol i'w cario oddiamgylch.' 'Na, dim yn y byd,' meddwn, felly cyfrifodd hwynt, ac a'u rhoddodd mewn hen gôd, yna rhoddais fy nghadach llogell am y gôd, fel ag i edrych yn debyg i fwndel o ddillad, a chan eu rhoddi ar fy ffon, teflais hwynt dros fy ysgwydd, ac aethum yn fy ol i'r gwestdy. 'Mae hwn yn swm mawr o arian,' meddai y gwestywr, ac y mae yn hudoliaeth fawr i weision; gobeithio nad ydych am eu cadw yn fy nhŷ i.' Dyma y cyntaf o fy mhoenau. 'Na,' meddwn, 'yr wyf yn myned i gymeryd fy hunan adref — *dollars*, ac oll.' 'Cynghorwn i chwi i beidio a gadael i neb wybod fod genych y swm yna o arian gyda chwi; gall eich arwain i niwed.' 'Nac ofawch,' dywedais, 'gwn pa fodd i gymeryd gofal o honof fy hun.'"

"Wedi im' gael ychydig giniaw, cychwynnais ymaith, ond canfyddais fod y *dollars* yn llawer trymach nag y meddyliais eu bod, felly arhosais mewn bwth sefydlydd (*settler*), agos i ddeng milltir o Launceston, ac eisteddais, gan feddwl aros yno noson. 'Pa beth sydd genych yma?' meddai, gan amcanu codi fy llwyth, ac yn rhyfeddu at ei bwysau. 'Beth, nis gallant fod yn *ddollars*? ac eto y maent yn teimlo yn debyg!' '*Dollars*,' meddai ei wraig O! yn wir, fe'n llofruddir ni oll yn ein gwelyau. Mr. Crab, na adewch hwynt yma! Yr ydych yn sicr o fod wedi eich gwyllo, ac fe geisia y carcharorion eu cael, a llofruddiant ni oll. Pa fodd y meddyliaisch am eu dwyn hwynt yma?' 'Os dygais hwynt yma,' meddwn, fel pe buaswn wedi digio ychydig, 'gallaf eu cymeryd ymaith. Af ymlaen at dŷ yr hen Simon, beiddiaf ddyweyd y rhudd

efe lety noswaith.' Nid oedd ar y gŵr eisieu i mi fyned ymaith, a dywedodd mai ffolineb oedd hyny; ond canfyddais fod y wraig yn ewyllsio i mi fyned i ffordd, felly rheddais y *dollars* ar fy ysngwydd, ac aethum ymlaen at dŷ yr hen Simon, yr hwn nid eedd dros ddwy filltir ymlaen ar y ffordd.

"A ellwch roddi llety noswaith i mi?" gofynais. "Gyda'm holl galon," meddai. "Jem, dyro y *mutton chops* ar y tân. Pa beth sydd genych yma?" "Dywedaf wrthych ar unwaith," meddwn, "o herwydd gwn y gallaf eich ymddiried chwi. Bu'm yn gwerthu defaid, a dyma y *dollars* a gefais am danynt." "*Dollars!*" meddai, "pa fod y gellwch feddwl am fyned oddiamgylch gyda'r fath bentwr o arian? Fe gewch eich yspeillio a'ch llofruddio cyn y cyrhaeddoch adref. Ond gadewsh i mi eu rhoddi o'r golwg." Ar hyn taflod grochan gwag drostynt, braidd yn ddigon buan, oblegid ei was a ddaeth mewna mynyd wedy'n gyda y cig.

"Nid oeddwn ond braidd wedi gorphen bwyta ychydig *chops*, pwys a ddeuai i mewn ond tri eddyfethriaid, un o ba rai oedd wedi ei ryddhau trwy drwydded, a'r ddau arall oedd ynt wyr perthynol i'r llywodraeth, newydd gyrhaeddyd, ac yn myned i Launceston at y meistr oedd wedi ei benodi iddynt. Edrychodd Simon arnaf, yn gystal a dywedyd, 'Dyma hi wedi myned yn botes.' Ond nid oedd help am hyny; nis gallai yn hawdd wrthod llety i drafaelwyd ar noson yn y gauaf; felly edrychasant am le i eistedd, ac ebe un, 'A fyddai rhyw niwed mewn symud y crochan yma, meistr, er mwyn nesu y gader hon yn agos at y tân?' Edrychodd Simon arnaf wed'yn, a chanfyddais nad oedd yn hoffi hyny; felly cyfodais a dywedais, 'Cymerwch fy nghader i, yr ydwyf wedi bod yn eistedd wrth y tân trwy y prydawn, ac yr ydwyf yn ddigon cynhes.' Felly eisteddais fy hun ar y crochan. Nid oedd yn eisteddle esmwyth, canys yr oedd y tri throed yn hynod o boenus, a gadsel allan ei fod mor isel, ond tybiais ei fod y peth goreu i'w wneuthur; felly eisteddais yno yn bur anghysurus, ond yn amcanu ymddangos fel arall. 'Yr ydych yn ymddangos fel pe byddai genych eistedde go anesmwyth,' dywedai un o'r dynion yn fwyn. 'Dim o'r fath beth,' meddwn, o herwydd meddyliais ei fod yn tybied am ba achos yr eisteddwn yno; 'dim y fath beth—gwell genyfaros lle yr ydwyf.' Yna fe gynnygiodd y lleill eu heisteddleoedd i mi, ond mwyaf a geisient genyf godi mwyaf cyndyn oeddwn innau. 'Na, na,' meddyliais, yma yr arosaf, druain, hyd oni welaef chwi yn ddiogel o'r ty.

"Yr oedd yr hen Simon yn bur gynhyrfus, nid oedd ganddo ond un gwely a allai ei hebgor, yr hwn a gynnygiodd y carcharorion i mi wrth weled golwg barchus arnaf; ond ni symudwn oddi wrth fy nghrochan, er fod y traed yn fy mhoeni yn dost; ac yno gor fodwyd i mi aros drwy y nos, canys ni feiddiwn symud, fel iâr yn eistedd ar wyau: a noson fwy truenus ni threuliais erioed."

Chwerthasom oll at yr hanes hwn, yr hyn a wnaeth Crab yn ddigofus iawn.

"Y mae yn eithaf da, chwerthin, ond pa fod y dymunech eich hunain eistedd ar grochan yr holl nos?"

"Wel," meddwn, "pa fodd y ddiwedodd?"

"Diweddodd! meddyllais na ddiweddu byth! ond y mae pob peth yn diweddu rywbryd. Yn y boreu, aeth y dynion ymaith; pryd y dywedodd yr hen Simon yn ddioed, 'Er mwyn pob peth, Mr. Crab, ewch adref gyda brys. Ni chefais fynyd o gwsg drwy y nos.' Dywedais, 'Gellwch benderfynu na phoenaf chwi yn hir,' a cheisiais gyfodi, ond nis gallwn. Yr oeddwn wedi crymu wrth eistedd, fel yr oeddwn yn holol anystwyth, ac yr oedd y crochan fel pe buasai wedi tyfu wrthyf. 'Dim rhyfedd,' meddwn."

"Ond pa fodd y daethoch ymlaen?"

"Yr oedd mor dda gan yr hen Simon gael ymadael â mi a fy llwyth *dollars*, fel y rhoddodd y fén i'm danfon ychydig, a rhoisom god y *dollars* yn y crochan, a gorchuddiasom ef â manus. Cyn-northwyodd fi i'w godi i'r fen, ac arweiniodd y gwas yr ychain am oddeutu deuddeng milltir, yna safodd ac edrychodd arnaf fi, ac yna ar yr ychain. Cymerais hyny fel annaid i ddyfod allan, ond petruswyd fi yn fawr gyda yr arian, a'r crochan a'm poenai yn llawn cymaint. Ymafaelodd ef yn un ochr i'r crochan a minnau yn y llall, a rhoddasom ef i lawr ar fin y ffordd."

"'Gwarchod fi,' meddai, 'cyn drymed y mae yr hen *bot* wedi myned! nid oes bosibl i hyn fod oblegid y manus; y mae fel pot *dollars*.'

"Gwnaeth hyn i mi grynu, ac edrychais yn ei wyneb; ond gwelais ei fod yn ei ddyweyd yn hellol ddiniwed, ac ni feddyllais am hyny mwy, ac selly gyrodd yn ol, a sefais yno am beth wrth ochr fy arian yn myfyrio ychydig, oblegid ni wyddwn yn iawn beth i'w wneuthur. Yn fuan, clywais sŵn dirfawr gan ffrawylau yn trystio, a gwelais yno wartheg yn brasgamu i lawr ar y ffordd, y rhai yr oedd yr ystôr-geidwad yn eu hanfon i'r ystôr yn Launceston. Yr oedd yno ddeg ar hugain, neu ychwaneg. Ymlaen y daethant yn ddidrefn, a'r ceidwaid ar eu hol, gan drystio eu fflangellau, ac yn bloeddio arnynt i'w cadw ar y ffordd. Fy meddwl cyntaf oedd eistedd ar fy nghrochan i amddiffyn fy *dollars*, ond cyn i mi allu gwybod beth i'w wneuthur, ymlaen y daethant, ac fel yr eisteddais wedi ymgrymu, nis gwelsant fi nes yr oeddynt yn fy ymyl, a'r rhai olaf a wthient y rhai blaenaf, a'r dynion yn annog e'r tu ol gyda eu fflangellau a'u bloeddiadau, cyn y gallwn eu gechel yr oeddynt arnaf, ac un aner, gan chwythu arnaf, a rhoddi chwyrndafiad â'i phen, a'm taflodd drosodd a throsodd, a'r erochan a chwbl, a'r ceidwaid wrth fynaed heibio a'm rhegant, am roddi eu hanifeiliaid o'r ffordd. Ac yno y gorweddwn!"

"Ar fy ngair," meddai y wraig, yn y gosteg yma—oll o honom yn ymddangos yn hynod o sobr, oblegid ni feiddiem chwerthin am ben ei droion anhapus, pa rai a draethai gyda y fath sobrwydd—"buoch yn dra anhapus Mr. Crab; ond pa fodd y galleg feddwl am glude y fath lwyth o *dollars* o amgylch y wlad?"

"Pa fodd y gallwn beidio," meddai Crab, yn ddigofus; "ni chefais wneuthur hyny erioed gartref; ond yn y wlad druenus hon nid oes yma yr un ffordd i gludo rhywbeth pan y bydd arnoch eisieu."

"Ond paham na fuasech yn cymeryd y nodau arianol ? bwasent yn ysgafnach i'w cludo."

"Deliwch fi yn cymeryd eu *Bank notes*, fel eu galwant," atebodd Crab, "a ydych yn tybied na welais *note* erioed o'r blaen ? Nid ydynt yn debycach i nodau gwirioneddol nag ydyw calch i gaws. Na, na, dim yn debyg i *dollars* arian."

"Y mae'n debyg eu bod yn rhwystr mawr ar yr achlysur hwn," meddwn. "Ond yr ydwyt yn bryderus i wybod pa fodd y daeth yn y diwedd."

"Nis gallwn eu trefnu ffordd yn y byd. Felly bu gerfod arnaf eu tuyu o'r crochan, a'u rhoddi ar fy ysgwydd drachefn, ac wedi hynny ni wyddwn pa beth i wneyd gyda y crochan. Pan yr oeddwn yn meddwl, gwelais foneddwr a boneddiges yn dyfod ar hyd y ffordd mewn cerbyd, gyda thô iddo, a dau o feirch, uno flaen y llall, fel ag yr arferwn eu rhoddi mewn menn yn *Shropshire*; ond deuenyt yn hoew gyda chyflymder mawr. Pan y gelwais arnynt aros, y boneddwr a dynodd yn llym ar hyn, ac a ddywedodd, 'Beth yw yr achos o hyn ?' Atebais, 'A allaf fi fod mor hyf a gofyn, gan fod genych ddau o feirch wrth eich cerbyd, y naill i dynu y llall, a wnewch chwi adael y crochan hwn yn nhŷ yr hen Simon, ynghylch deuddeng milltir oddiyma ?' 'D—m eich crochan a chwithau eich hun !' dywedodd yn wir, er ei fod yn wr boneddig ; a'r foneddiges a chwarddodd, ac a ddywedodd, 'ar fy nglin, mae'n debyg !' ac yna y boneddwr a chwarddai yn uwch, ac a roddodd i'r march blaenaf gyffyrddiad â'i chwip, a'r march a safodd ar ei ddau droed ôl am foment, yn troi ya ei el yn debyg, a rhoddodd y foneddiges ryw ysgrech fechan, ac i ffordd a hwynt. 'Anffawd dda i chwi, a moesau gwell,' meddwn, a chymerais y crochan gydag un llaw, a chyda fy nghôd *dollars* ar yr ysgwydd arall, cerddais ymlaen, ond yr oedd yn waith blinderus, a chyn i mi fyned ddwy filltir, yr oeddwn wedi fy holol gloi i fyny. Eisteddais i lawr eto ar ymyli ffordd, ac mór flinedig fel yr oeddwn braidd a gadael y *dollars* lle yr oddynt, neu eu claddu yn y llwyn. Pan yn chwilio am le cyf-addas, gwelais fintai o bobl yn dyfod hyd y ffordd, a chanfyddais yn union mai haid yn myned at eu gwaith oddynt. Dychrynodd hyn fi yn ddirfawr, o herwydd meddyliais y gallent gael eu temptio i ymosod arnaf, ac am hynny teftais y gôd i'r crechan eto, ac a eisteddais arno mewn ffordd ddiofal, hyd nes yr aent heibio. Ond safasant ar y ffordd yn y lle yr oeddwn, a'r arolygwr a'u gosododd i weithio o'm hamgylch. Chwerthasant am fy mhen yn eistedd yn y dull hwnw ar ôl haiarn, ond eisteddais yn ddiysgog ; yna y daeth yr arolygwr ataf, a gofynodd i mi a oeddwn yn wael ; ond nid oedd arnaf eisiau dywedyd iddo fy nирgelwch. Pan, ya hapus, daeth menn yn cael ei thynu gan bedwar o ychain, yn mha un yr oedd, geneth hoew yn myned i'w phriodi i Hobart Town, a'r gwâr ietanc oedd gyda hi yn y fenn yn ei dal, i'w chadw yn ddiysgog, oherwydd fod y ffordd yn anwastad ; a hoew a llawen oddynt. Yn eistedd ei thad a'i mhawn mewn menu ar eu hol, ac yn fy nghanfod yn eistedd ar fy nghrochan, arosasant i edrych arnaf—yr enw ariannol y

chwarddodd ddigon i'w holli; ond beth ynef fi a achosai hyny nis gallaf gael allan, oblegid yr oeddwn yn ddigon truenus, heb fod yn gwybod beth i'w wneyd gyda'r *dollars* hyn, a'r dynion collfarnedig hyn o'm hamgylch yn ammheu rhywbeth, yr ydwyf yn sicr. Wel, gan fy mod yn eu gweled mor llawen, gelwais arwnt i roddi hybiad i mi. 'Ni chaiff yr hen crochan yna fod yn fy menn,' gwaeddai yr eneth, a chwarddai yn uwch nag o gwbl, 'pa beth bynag sydd ynddo,' meddai hi. 'Tewch, dywedaf wrthych yn fuan.' 'Cyn drymed ydyw!' dywedodd y gyrwr. 'Y mae yn drwm oblegid y lleithdra,' meddwn, heb wybod beth i'w ddyweyd, 'ar ol bod ar y ddaear;' ac yna yr oedd mwy o clwerthin, a'r dyn ieuanc a ddywedodd fy mod yn un castiog!'

"A pha foddy daethoch ymlaen gyda eich cymdeithion newydd?" meddai Betsy, gyda ei chadach ar ei safn.

"Dywedaf wrthych, ond na ffwianwch fi. Nid oeddwn yn dynuno i rai mor llawen feddwl fy mod yn cario y crochan o amgylch i ddim dyben; felly ar ol i ni fyned oddeutu deuddeng militir ar ein ffordd, dywedais wrthynt fy mod wedi gwerthu defaid, a fy mod yn dwyn y *dollars* adref."

"'Dollars!' gwaeddai yr eneth, 'Oh!—nefol drugarog! cawn ein llofruddie oll, a'r fintai garcharorion ar y ffordd a'n canlynant i gael yr arian. Da chwi, ewch o ein menn ni, ac ewch i'r llall,' ond yr oedd yr hen wraig mor ofnus a'r ieuanc; a gadawyd fi gyda'r *dollars* a'r crochan—a chyda chalon drom gwelais y menni yn myned o'm golwg! O'r diwedd bu gorvod arnaf adael crochan yr hen Simon ar fy ol, a chychwynais, a chyrhaeddais dŷ sefydlydd, ychydig cyn y deuwch at afon Elizabeth. Cefais lawer o drafferth i lwyddo gyda hwyt i adael i mi a fy *dollars* orphwyso yno dros y nos, ac yr oedd y wraig mor ofnus fel yr eisteddasom i fyny drwy y nos i wyliau yr arian, ac yr oedd yn dywedyd bob mynyd ei bod yn clywed sŵn traed dynion yn dyfod i dori y tŷ."

"Cychwynasant fi ymaith dranoeth gyda eu menn, yn llawen o gael ymadael a mi, a danfonasant fi ugain milltir, a cherddais y gweddill, a daethum i Jericho pan braidd yn dywyll. Y mae yno fintai o filwyr yn awr, a gofynais iddynt a gawn eistedd yn yr ystafell wyliau yr holl nos. Ac felly eisteddais yno, gyda fy nghôd ar fy ngluniau, braidd a hepian, ac yn ofnus i gysgu, ac yn agos wedi fy lladd gan bwysau y *dollars* yr holl nos. Dranoeth, cychwynais ar doriad y dydd. Meddyliais na ddaethwn byth i fyny Den Hill; ond yma yr ydwyf o'r diwedd, a dyna y *dollars* erchyll. Ond gwnant dalu fy nghludo adref, oblegid nid arhosaf yn y lle adgas hwn yn hwy. Yn awr, Betsy, a ydyw yr ysgrifell yn barod?"

"Bum yn dysgwyl wrthych yr holl amser," atebai Betsy, "pa beth a ddywedaf?"

"Ysgrifenwch y peth a ddywedaf wrthych."

"Mr. Stickitinem."

"Sir."

"Ymae hwn yn dyfod, gan obeithio eich bod yn iach, fel ag yr weyf dimau yn baesennol."

"Ond nid ydych yn iach," meddai Betsy, "nis gwelais chwi yn edrych mor ddrwg yn fy mywyd."

"Dyna y ffordd, fy anwylyd," meddai Crab, gan ysgwyd ei law, "y mae yn rhaid i lythyr gael ei ddechreu ryw ffordd, a dyna y ffordd y byddaf yn dechreu fy llythyrau bob amser;—y mae fel y cwlltwr sydd o flaen yr aradr—yn awr ymlaen, a dywedwch,"

"Y mae y wlad druenus hon wedi bod yn farwolaeth i mi, ac yr ydwyf yn bwriadu myned adref gyda y llong nesaf. Felly ceiswch le i mi, a dywedwch wrth y cadben i'r lle fod yn agos i'r *axle tree*, lle nad oes ysgydwad; oblegid yr ydwyf yn cofio fy mod yn gloesiaw pan yn dyfod drosodd," dywedodd Crab; "ond ni raid i chwi roddi hyny yn y llythyr."

"A pheth arall a ddywedaf," meddai Betsy.

"Dyweddwch y cwbl, fy anwylyd, ond gallwch ddywed y fod y bag siwgr diweddaf wedi gwylchu allan o bob cydwybod, ac mer dywodlyd a llwyth o ráian, a dywedwch wrtho, y rhoddaf ddeugain swllt y *bushel* am yr had gwair sydd gando yn weddill; ac am iddo geisio rhai o blanigion mefus-bren o'r blanigfa yn Pittwater; ac i fod yn ofalus am i'n gwely ar fwrdd y llong fod yn ddigon o hyd, canys collais ddwy fodfedd yn fy nhaldra wrth ddyfod troseidd, wedi fy nirwasgu yn y *steerage*; a gofynwch am iddo edrych a all gael dau o briddfeinwyr yn menthyg gan y llywodraeth; dymunwn weled tŷ hardd wedi ei godi yn y gwaelod draw—nid oes dim a edrych yn well na thŷ coch hardd o briddfeini, gyda physgodlyn o'i flaen, a deildŷ yn ngwaelod yr ardd. Ac y mae hyn yn peri i mi gofio y bydd arnaf eisieu morthwyl töi, a baril o hoelion; ac (y mae y *rum* a dwfr yma yn gwneuthur un yn gysglyd) i edrych a all y llong gario adref fy ngwlân am y flwyddyn ddiweddaf, a phab eth ydyw pris gwlan wyn. Ac y mae arnaf eisieu cwpl o lifwyr, a saer, i lifio y llong yn estyll, hynny ydyw, y boncyffiau—ac—y mae y daith hon wedi fy nharaw i fyny fel nas gallaf ysgrifenu mwy. Fy anwylyd, ysgrifenwch y gweddill eich hun—gwyddoch pa beth sydd arnaf eisieu ei ddyweyd—gwnaf orphen y gpanaid hon, ac yna âf i'm gwely."

"Ond pa beth a wnewch gyda y *dollars* hyn?" gofynai fy ngwraig.

"Y *dollars*," meddai Crab, ei ddeall wedi ei dreulio allan gan y daith, ac wedi ei ddyrys u gan y tair *ewpanaid rum* a dwfr, pa rai eedd wedi eu cymeryd yn ddiarwybod, "rhoddwch hwynt—rhoddwch hwynt—yn y crochan."

Dranoeth cyfododd Crab gyda'r goleuni, ac er cael ymadael â'r pryder o gael y *dollars* anffortunus hyn yn ei dŷ, claddodd hwynt gyda gofal a dirgelwch mawr yn y llwyn; ond yr un dydd, carcharor yn canfod y lle, wedi cael ei afonyddu mewn dull allan o'r ffordd, tiriodd y ddaear rydd gyda phawl, ac wedi cael y gôd a'r *dollars*, dygodd ef fel yr oedd i dŷ yr ustus. Gwnaed ymofyniad, yr hyn a achosodd i'r holl ardal siarad, y newydd a'n cyrraeddodd ninnau, a'r gôd a ddychwelwyd i Crab, yr hwn a gafodd rifedi y *dollars* yn eu lle.

Am y weithred hon o onestrwydd yr ustus a ganmolodd y carcharor

er cael maddeuant rhydd, yr hyn mewn amser a dderbyniodd, ac y mae yn awr yn sefydlydd llwyddianus. Ond yr oedd y gôd *dollars* yn ares yn barhäus i boeni Crab derfysglyd; ac fel yr oedd bodolaeth y fath bentwr o arian yn destun ymddyddan yr holl gymydogaeth, bu gorfol arnom eu hanfon i Hobart Town, yn cael eu diogelu gan Crab, a dau hedgeeidwad.

“Y mae *dollars* arian,” meddai Crab, “yn bethau hynod o wych i siarad am danynt, ac i’w dymuno, ond yn bur boenus i’w cario o amgylch, ac yn fwya peryglus fyth i’w cadw gyda chwi. Pe gallai un ymddiried i’r creaduriaid hyn yn yr ariandy, nid oes dim yn well na nodau ar ol y cwbl.”

Cyf. GAN GYFATLL.

Y gair “Sacrament.”

NID yw y gair sacrament yn yr Hen Destament na’r Newydd. Gair Lladin ydyw, *sacramentum*, ac a arwydda mewn ysgrifeniadau Lladin—1. Gosodiad swm o arian gan ddwyblaidd mewn achos cyfreithiol, gyda’r prif weinidog crefyddol, yr archoffeiriad; a’r blaidd a gollai oedd i fforffedio y swm penodedig. 2. Llw, yn enwedig llw milwraidd. Dywedir yn fynych mai yn yr ystyr yma y tresglwyddid y gair gan ysgrifenwyr eglwysig i arwyddo llw o ffydd-loneb i Grist. Mae y casgliad a geir oddiwrth y gair sacrament yn yr ystyr yma iddo yn dda, ac yn anghenrheidiol ei argymhell yn fynych, ac nid yw ammheu yr esboniad hwn o’r gair yn gwanhan yr anogaethau i ffyddlondeb i Grist fel ein Pen, o herwydd eddiwrth natur y cyfammod y mae y sacramentau yn seliau o hono, ac nid oddiwrth ystyr unrhyw air, pa mor briodol bynag y mae y cyfryw rwymedigaethau yn tarddu. Nid i osed allan fedydd a Swper yr Arglwydd y defnyddid y gair sacrament yn gyntaf, ond i osed allan unrhyw athrawiaeth neu ddirgelwch yn perthyn i grefydd. Yn fynych cyfarfyddir à’r ymadroddion hyn yn eu hysgrifeniadau;—“sacrament y Drindod,” “sacrament yr ymgawloliad,” “sacrament y ffydd.” Ac yn y cyfeithiad Lladin o’r Testament a ddefnyddid yn gyffredin, mae y gair Groeg am ddirgelwch yn cael ei gyfeithu *sacramentum*. Yn yr Ephesiad, “wedi hysbysu i ni ddirgelwch (*sacramentum*) ei ewylls.” Yn Timotheus, “ac yn ddiddadl mawr yw dirgelwch (*sacramentum*) duwioldeb.” Felly mewn lliaws mawr o esiamplau. Cyfngwyd y gair yn ddiwedd-arach at arwyddion cysegredig, y rhai a ddefnyddid i osod allan wirioneddau ysbrydol, “Arwyddion a ddefnyddir i osod allan bethau dwyfol a elwir yn sacramentau,” medd Augustine. Yn ddiweddaf oll, daeth y gair i gael ei ddefnyddio yn ei ystyr presennol am arwydd a sel y cyfammod newydd. Wrth feddwl am y defnydd cyffredinol a wneid o’r gair gan ysgrifenwyr boreuaf Cristionogaeth, nid yw yn debyg fod y defnydd hwn yn codi oddiar gyfeiriad at lw milwraidd yn ei gymhwysiad cyntaf, ond ei fod yn

arwyddo peth cysegredig, ac felly yn ei gymhwysiad presennol am arwydd a sei y cyfamnud newydd, ei feddwl ydyw, arwyddion cysegredig neu sanctaidd.



Nodiadau ysgrythyroedd

2 Tim. iv. 13. “Y cochl a adewais i yn Troas, gyd â Charpus, pan ddelych, dwg gyda thi, a'r llyfrau, yn enwedig y memrwn.” Mae gwahanol farnau am y gair a gyfeithir yma cochl. Mae rhai yn meddwl mai cist fechan i gadw ei lyfrau a feddylir, hyn ydyw barn Calfin. Mae rhai wedi gofyn paham yr oedd Paul yn peri Timotheus i ddyfod a'i gochl i Rufain o le mor bell a Throas, fel pe na buasai neb yn Rhufain i wneuthur un os oedd raid. I hyn y mae yr ateb yn rymus, os cist neu fath o gwâd yn cynnwys ei lyfrau, ei bapyrâu, a'i epistolau ydoedd. Ni feddai dinas fwyaf y byd ddim i gystadlu mewn gwerth â'r fath gist a hono. Mae nodiad Calfin ar yr adnod hon yn teilyngu sylw holl bregethwyd Cymru. “Ni a welwn nad oedd Paul yn ymyl marw ddim yn anghofio ei lyfrau. Yn mha le y mae y rhai a all ddyweyd eu bod wedi cynnyddu ddigon i'w cyflawnhau i fod yn esgeulus o ddarllen? Pwy a all feiddio cymharu ei-hun â Phaul? Yma fe gondemnir penboethni y dynion a ymfrostiant yn eu hanwybodaeth, ac a ddiôystyrant ddarllen. Ni a welwn yma mai dyledswydd duwiolion ydyw bod yn ddyfal gyda darllen.”

1 Tim. v. 13. “Hyd oni ddelwyf, glŷn wrth ddarllen.” Yr oedd Paul yn hysbys o ddiwydrwydd Timotheus, ac er hyny y mae yn ei annog i ddarllen gydag ymraddiad diflino. Pa fodd y gall gweinidogion ddysgu eraill, oni byddant yn ymraddgar i ddysgu eu hunain. Ac os oedd y fath un a Timotheus yn sefyll mewn anghen am annogaeth at lafur beunyddiol yn yr ysgrythyrau, pa faint mwy nyni. Pa beth a ddywedwn am ddiogi y rhai nad ydynt yn rhoi eu dyddiau a'u nosweithiau i astudio oraclau yr Ysbryd, er mwyn cymhwysyo eu hunain i'w swydd bwysig. Mae y cyfeiriad at amser, “hyd oni ddelwyf,” yn rhoddi grym mawr i'r annogaeth. Yr oedd Paul yn gobeithio gweled Timotheus ar fyrdwr, ond pa mor fuan bynag y cyfarfyddent, yr oedd yr Apostol yn awyddus i'r efengylwr ieuanc wneyd ei oreu o'r cyfwng, i beidio colli dim amser, i gynyddu mewn gwybodaeth.—*Calvin.*

Act. viii. 28. “Yn darllen y prophwyd Esay.” Tybir fod yr eunuch hwn yn ngwlad Judea tuag amser y croeshoeliad, ac iddo glywed llawer o son am Iesu o Nazareth, ac yr oedd yn naturiol iddo wrth ddychwelyd i gymharu y gwahanol brophwydoliaethau am y Messiah, er mwyn bod yn fwy penderfynol mai yr un a ddy-oddefodd y tu allan i byrrth Jerusalem oedd yr hwn a ddesgrifai y prophwyd. Neu, efallai, ei fod yn darllen y rhanau hyny a-glywodd yn y deml ar yr wyl, er mwyn eu cadarnhau yn fanylach yn ei gof. Y mae ymddygiad canmoladwy yr Eithiopiad hwn yn deiliwng o efelychiad pob cristien.

Myfyrdod wrth ddarllen “Y Llwybr i'r Berth,”¹ o gyfieithiad Tegidon.

Yn nghŵr y perthi dêiliog
Lle tyfai 'r glaswellt hir,
Lle canai 'r cor adeiniog
Eu mwyn anthemau 'n glir,
Lle nad oedd berw dynion
Yn boddi 'r dyn a'i clyw,
Ymgyrchай 'r merched duon
I ddirlgel gwredd â Duw.

Ni feiddiai 'r llew gwronaidd,
Ymorwedd yn y lle,
Na'r arth na'r blaidd ysglyfaidd,
Can's hwn oedd borth y ne';
Ni weldi sarff yn troelli
O gylch ei bonyñ hi,
Rhyw guddfan i addoli
Oedd hon o uchel fri.

Rhyw awel fach yn chwiban
Rhwngh mân gangenau 'r berth,
Oedd debyg iawn i'r organ
O fewn i'r deml berth.
Angelion lu eisteddant
Ar ryw awyrawl fainc,
Mewn mwyth fodhad y gwenent
Wrth y ddaearol gainc.

Mil mwy! 'roedd Duw ei hunan
O fewn cysgodfa 'r berth
Yn gwrandaw 'r isel gwynfan,
Ac yn cyfranu nerth;

Ei dirion drugareddau,
Yn aberth Iesu Grist,
Ddylifent yn gawodau
I loni 'r enaid trist.

Rhyw nawn aeth rhai angelion
I hen gysgodfa 'r berth,
Gan ddysgwyl y newyddion
O anghydmarol werth;
Er dysgwyl ac er dysgwyl
Ni throedai neb i'r lle,
Dychwelai 'r lluoedd anwyl
Mewn siomiant tua'r ne'.

Ond O! pa fodd y collwyd
Holl hen fwynderau 'r berth?
Aeth nef a'i holl syberwyd
Aeth Duw yn llwyr ddiwerth?
Mae 'r gwellt yn llwyni tewion,
O gylch y ffordd yn cau!
Mae llygredd dwfn y galon
'Run ffunud yn cryfâu!

Ond daeth y cerydd prydawn,
Y gaïr sydd yn ei bryd,
Y perlyn mwyn cariadawn
Sydd filoedd gwell na'r byd;
Y llwybr sy'n sathredig,
Y berth sy'n deml wiw,
Dychwelwyd y grwydredig
I lawn fwynhad o'i Dduw.

J. J.

“Wele fi, anfon fi.”

Draw ya anghysbell lwybrau Duw,
Yn nhragwyddoldeb maith;
Cyn llunio eres fodau 'r nen,
Na gweily 'r heli llaith.

Rhyw ddwyfol drem ar dynged dyn
Rhoed gan y Drindod mawr;
O ryfedd! yn y breinlys fry,
Bu achos llwch y llawr.

Y Tad ofynodd—Pwy a ã,
Pwy ymostynga i lawr;
Dan warth ac ing, dan felldith deddf,
Dan bwys digofaint mawr.

O gwpan erchyll, llawn o wae!
Ymwridai engyl Duw;
A chuddient eu hwynebau prudd
O dan eu hedyn syw.

¹ “Y Llwybr i'r Berth,” sydd lyfryn bychan dyddorol a godwyd allan o waith y Parch. J. A. James, o Birmingham, ar Wedi Ddirgela Chariad Brawdol; cymhellwn ef yn wreag i sylw ein darllenwyr.—GOL.

Y dwfn ddystawrwydd dorwyd gan
 'R Etifedd mawr ei fri,
 Atebai—"Wele fi, fy Nhad,"
 O! anfon, anfon fi.

"Fy Anwyl Fab, gwel Fethl'em draw,
 Gwel fynydd Calfari;"
 "Canfyddaf holl drueni'r daith,
 O! anfon, anfon fi."

"Fy unig Fab, gwel yma'r ddeddf
 A'i thrwm felldithion hi;"
 "Af danynt oll er achub dyn,
 O! anfon, anfon fi."

"O Fab fy mynwes, gwel y gwarth,
 Gwel usfern gerth a'i llu,
 A gwel ddigofaint heb ddim trai,
 Yn rhyw ddyfnderau du."

"Mi wela'r oll, ond cariad sy'n
 Gorlenwi 'm mynwes gu;
Floyd Coed.

Mi welaf ddyn yn trengu byth,
 O! anfon, anfon fi."

Pan ddaeth yr amser, syndawd fyth,
 Yn gyflawn oll i ben;
 Ymadaw wnaeth o uchel sedd
 Y llys tu draw i'r llen.

Amgylchid ef, gan engyl chwim
 Yn un gosgorddu mawr;
 Ymlunient yn gerbydau flur,
 I'w ddwyn o'i lys i lawr.

I Bethl'em Jada'n faban gwan,
 Y deuodd yn ein lle;
 I ein dyrchafu euog rai,
 A'n dwyn i deyrnas ne'.

O! ryfedd berson—pan y traeth
 Do'i'r nefoedd ar ei ol:
 Wrth esgyn fry—calonau'r ddaear
 A gludai yn ei gal.

E. AB CALFIN.

Salm. xci.

PRSWYLFA glud y Cristion yw
 Heddychol wedd ei Dad,
 O'i nefol bresennoldeb gwiw
 Y tardd ei holl fwynhad.

Mi dd'wedaf yn fy nghadarn Dŵr,
 Fy noddfa yw fy Naf;
 Fy Nuw, fy amddiffynfa siwr,
 Ei foli byth a wnaef.

O faglau'r heliwr Ior y sydd,
 O hyd yn cadw 'nhraed;
 Oddiwrth yr haint efe a'm cudd,
 Rhag iddo fferu'm gwaed.

O dan adenyydd Ior y nef
 Yn dawel byddaf byw,
 A'i air a gaf yn darian gref,
 Rhag saethau o bob rhyw.

'Chaff dychrynnos na saeth y dydd,
 Na'r haint echryslon mwy,
 Wneyd niwed im'—fy enaid sydd
 Dan aden marwel glwy.

Wrth d'stlys gweli fil gerllaw,
 Yn cwympo 'n wael eu bri,

A dengmil ar dy ddeheulaw—
 Ni chyffwrdd dim & thi.

Ni chai di ddim, ond gweled tal
 Annwfiol wammal ddyn;
 Am iti wneyd yr Arglwydd da,
 'N breswylfa it' dy hun.

Ni ddygywydd niwed iti byth
 Daw yr angeliaidd gör,
 I droi pob pla oddiwrth dy nyth,
 Wrth arch dy anwyl Ior.

I'th gadw yn yr oll o'th ffyrdd,
 Y rhai'n yn ffyrdd a fydd;
 Hwy 'th ddygant ar eu dwylaw cain
 Rhag niwed damwain brydd.

Y llew a'r asb a sethri di,
 Gorweddant yn eu gwaed;
 Y cenaw llew a dreigiau ri,
 A fethri dan dy draed.

Am iddo roddi 'n rhwydd ei serch
 Ar f' ardderchogrwydd I;
 Gwaredaf a dyrchafaf ef
 Uwch engyl nef mewna bri.

Am iddo 'nabod f' enw I,
Rhydd weddi hyd y nef;
Gwrandawaf finnau ar ei gri,
Mewn ing wyf gydag ef.
Bala.

O dan fy nawdd digonaf ef
A dyddiau llawn eu hyd,
Caiff wel'd fy iachawdwriaeth gref
Nes cyflawn lanw 'i fryd.

W. E.

Dirwest.

BARCH. SYR.—Wrth ddarllen y “*British Banner*,” am Medi 5ed, daethum o hyd i adolygiad ar lyfryn o gylfansoddiaid William Logan, Dirprwywr y Cynghrair Dirwestol Ysgotaidd, dan yr enw “*The Moral Statistics of Glasgow*.” Tarawyd fy meddwl & synded wrth ei ddarllen, a phenderfynais ymdrechu at Gymreigio goreu medrwn i, i'r dyben yn unig o argraffu y ffeithiau a gynuwysai yn fwy dwys ar fy meddwl, heb un bwriad am ei anfon i neb i'w gyhoeddi; ond cyn hir meddyliaisiau gan ei fod yn peri i mi ffieiddio y fasnach feddwol yn fwy nag erioed, y gallai effeithio yn gyffelyb ar eraill o'm cydwladwyr. Gan hyny, wele ef ger bron i chwi, ac os tybiwch y dichon i'r cyfeithiad anmherfaith o'r lloffion canlynol fod o ryw les i rai o ddarllenwyr y “Geiniogwerth” efallai y gwnewch ei roddi yn rhyw gongl o honi.

Gan fod y traethodyn dan sylw yn gosod allan mor fanwl effeithiau anghymedroldeb ar drigolion Glasgow, gellir ei ystyried fel yn rhoddi drychfeddwol o'i ddylanwad ar y wlad yn gyffredinol. Ei ffeithiau a eglur ddangosant y drygau amrywiol a gwenwynig a ddeilliant oddiwrth effeithiau diodydd alcoholaid, ac fel y cyfryw mae ei gylchdaniad yn dra chyfaddas i'w ddyben bwriadol. Dengys effeithiau anghymedroldeb ar glefydau yn gyffredinol, ac yn enwedig dyrysych meddyliol; a hefyd y cysylltiad sydd rhwng anghymedroldeb a tholdi, troseddau, puteindra benywaidd, a ieuencyd aflywodraethus. At yr uchod y mae pennodau ar anghymedroldeb ac Ysgolion Diwydrwydd, anghymedroldeb ac halogir Sabboth, anghymedroldeb a'r genadaeth; ac i ddiweddu, y mae cyfrif o draul y fasnach feddwol yn Glasgow.

Wrth ymchwilio i ba helaethrwydd y gellid ystyried anghymedroldeb yn achosi alichyd, Mr. Logan a gyfeiriodd lythyr at arolygydd y Glasgow *Royal Infirmary*, Dr. Steele, yn atebiad dyddorol yr hwn y cawn y dafien ganlynol o 190 o gleifion o'r clefyd ymdaenol a aethent dan ei sylw.

ARFERION BLAENOROL Y CLEIFION.	Cyf.	Ad ferwyd		Marw	
		Gwr.	Ben.	Gwr.	Ben.
Cymedrol—mewn amgylchiadau canolig.	60	19	21	12	8
Cymedrol—mewn amgylchiadau anghenus.	75	16	14	24	21
Anghymedrol—mewn amgylchiadau anghenus.	40	1	6	22	11
Anghymedrol—mewn amgylchiadau canolig.	15	2	3	6	4
Cyfanswm.		190	38	64	44

Oddiwrth yr uchod, gwelwn o 40 ogymeriadau anghymedrol ac anghenus, mai dim ond saith a adferwyd; pan o 60 ogymeriadau gwthwynebol adferwyd 40. Y mae yr achos o ganlyniad yn sefyll fel hyn: lle yr oedd anghen ac anghymedroldeb wedi cydgyarfod, llai nag un o bob 6 a adferwyd; ond lle yr

oedd y gwrthwyneb i hyny, dwy ran o dair a adferwyd. Y mae yn was-garedig ar hyd tudalenau y llyfrynn bychan hwnw am ryw daflenau eraill, o ba rai y gellid tynu y cyffelyb gasgliadau.

Wrth arddangos dylanwad anghymedroldeb ar ddyryswhch meddyliol, dengys fod cryn gysfartalrwydd nifer o breswylyddion nawdd-dŷ gorhwylli-aiad Glasgow, wedi eu gyru yno o herwydd y camddefnyddiad o wiroydd y poethion. Y daflen ganlynol a gynnwys fynegiad y sefydliad hwnw am y saith mlynedd diweddau.

Y flwyddyn.	Cyfanswm y Cleifion-	Etifeddol.	Anwy-byddus.	Anghymedroldeb.	Cyfartaedd achosion Anghymedroldeb
1840	149	3	34	20	13.4
1841	157	20	44	30	19.1
1842	199	54	20	46	23.1
1843	327	116	38	31	9.4
1844	290	77	41	53	18.2
1845	364	47	38	90	24.7
1846	414	49	62	105	25.3
Cyfanswm.	1960	366	277	375	19.7

Anghymedroldeb a thlodi. Meddwn wedi eu darostwng i dlodi trwy eu hanghymedroldeb eu hunain, a gysegrant yr hyn a ganiat ir iddynt gan Fwrdd Undeb y Tlodion, naill ai yn gwbl neu yn ranol i foddhau y tueddiant drygionus hwn. Hyd yn nod y pryd bwyd a dderbyniant, a droir ganddynt yn arian, ac a werir yn y *whiskey shops*. Oddiwrth y mynegiadau diweddaf, gwelir fod P.40,000 wedi eu talu yn roddion tu allan (*out door relief*), swm mawr o ba rai a wariwyd yn ddiammheu mewn yfed. Cyfaddefai un gwirod-werthwr ei fod ef yn derbyn deg punt yn ychwanegol ar d l-ddyddiau tlodion Glasgow. Ysgrifenydd y nawddle nosawl, i'r rhai heb lety, Glasgow, a ddywed, 'Y mae gwendidau corfforol ac anwadalwch masnach, yn ddiua wedi peri i rai ddyfod yma am noddfa, ond ychydig yw y rhai hyn y mewn cymhariaeth i'r rhai a yrir gan y botel whiskey.' Ymddyngys hefyd fod 9 o bob 10 o'r rhai a lesolwyd gan Gymdeithas Cyfaill yr Oedranus, wedi eu darostwng oll trwy yfed, ac yr oedd ynt oll ar y dlawdres pan eu derbyniwyd. Y cyfryw yw effaith anghymedroldeb er cynnrychru tlodi.

Anghymedroldeb a throseddau. Yn Glasgow, o 10,736 o garcharorion, yr oedd 4,507 o achos o anghymedroldeb. Yn Gorbals, allan o 5,013 o garcharorion, 2,309 a gyhuddid o fod yn 'feddw ac afreolus.' Heblaw y rhai hyn, y mae carcharorion na phrifwyd, a geuid i fynu dros nos fel rhai 'meddw ac anghyfaddas,' ond a ryddheid rhwng chwech a saith ya y boreu heb eu dwyn ger bron yr ynaden. Mewn deuddeg mis chwyddai y rhai hyn i 6,270 gwrywiaid, a 4,277 benywaid. Swyddfa arall gyffelyb a rydd gyfrif am 10,500 o buteiniaid a ryddheid o fewn yr un amser. Y carcharorion yn ngharchardai Glasgow a briodolant eu gefidiau yn gyffredin i'r 'peth dinystriol hwnw—whiskey.' Un hen wr, deg a thriugain oed, wedi ei ddeddfrydu i alltridiaeth, a dywedai yn dra difrifol, 'Whiskey, syr, a dim ond whiskey a'm dygoedd i hyn yma.' Dyna y fath yw dylanwad anghymedroldeb mewn troseiddau.

Anghymedroldeb a ieuencyt a flywodraethus. O 234 o fechgyn, yn y nawdd-dŷ, yr oedd gan 72 o honiwt dadau meddw, 69 famau. ~~meddw~~ * 1,700

62 o honynt a chanddynt eu tadau a'u mhamau yn feddwen. Mamaeth nawdd-dy benywaidd Glasgow, sydd yn holol o'r farn fod 19 o bob 20 o'r achosion a ddygir dan ei sylw hi yn codi oddiar anghymedroldeb.

Anghymedroldeb ac Ysgolion Sul. Y mae lliaws aneirif yn gadael ein Hysgolion Sul trwy anghymedroldeb. Awdur y llyfr sydd o'n blaen a ymweleodd a 78 o'r 88 carcharorion a brofwyd yn llys barnol Glasgow Medi diwedda, ac a dealloedd fod saith o honynt heb fedru darllen nac ysgrifenu; ond yr oedd 62 o'r 71 gweddill, wedi bod yn dal cysylltiad â'r Ysgolion Sul; a 59 o'r 62 a addefent mai anghymedroldeb a'u harweiniodd, nid yn unig i ymadael a'r ysgol, ond hefyd i drosedu y gyfraith.

Anghymedroldeb a chrefydd. Effeithiau dinystriol y camarferiad o ddiodydd alcoholiaidd, ar gadwraeth y Sabbath a'r genadaeth Cristianogol, a alwant yn nesaf am ein sylw, pa rai a ddilynir â chyfrif o draul y fasnach feddwl yn Glasgow.

Oddiwrth y bennod hon ymddengys fod *P.1,200,000* yn cael eu gwario am whiskey yn unig, bob blwyddyn; *P.1,000,000* o ba rai a werir gan y dosbarth gweithgar. Yn awr, gadewch i ni gymharu y cyfanswm a werir drwy yfed yn y ddinas hon a'r hyn a ddefnyddir mewn llwybrau eraill. Nid oes genym le i'r manion—cymerwch y cyfansymiau.

Traul yfed yn ol cyfrif Sheriff Alison,	<i>P.1,200,000</i>
Sefydliau crefyddol, elusengar, addysgiadol,	
Tâl tlawd, hedgeidwaid, carcharau, erlyniadau	<i>410,000</i>
 Traul yfed yn fwy na'r cwbl o	<i>P.790,000</i>

Creda yr awdur fed y swm uchod o *P.410,000* yn hytrach uwchlâu nag islaw y cyfanswm a wariwyd i ddybenion crefyddol a gwladgarol, yn cynnwys capelau, cyflogau gweinidogion, materion cenadol, ysbrytai, clafdai, nawdd-dai, ysgolion, ynghyd a charcharau ac erlyniadau carcharorion. Y fath ddarlun difrifol y mae hyn yn ei ddangos! Y mae y swm yma a werir am y diodydd hyn, o fewn i ychydig, yn treblu holl draul crefyddol a gwladol y ddinas!

Aberdar.

GWILYM.

Glanweithdra.

Y "GEINIOWERTH" AT Y CYMRY.

FY HOFF DDARLLENWYR.—A gaiff y "Geiniowert" eich cyfarch am unwaith yn ddirodres. Y peth yr wyf am aль eich sylw ato yn bresenuol yw *Glanweithdra*.

Ac yn gyntaf, glanweithdra teiau, neu anneddau; a dechreu gyda'r tu allan i'r ty. Ond syn i mi ddechreu dywedyd fy nheimlad ar y pwnc, a ydych yn barnu fod eisieu hyn? Os oes rhywun yn barnu yn groes, ac yn anfoddllawn i addef yr anghenheidrwydd am hyn, efallai y caniatewch i mi ddywedyd fy meddwl; ac hefyd yr addefwch fy mod i yn gymhwysach i farnu na neb o'm zelog ddarllenwyr; (pob parch ac anrhyydedd i chwi fy nerbynwyr lihosog), oblegid yr wyff fi wedi gweled manau ua welsach chwi erioed mo honynt; ac efallai na feddyliasoch am y gwahaniaeth mawr sydd rhwng y naill le a'r llall y byddaf yn myned-iddynt. Byddaf yn ymweled a dinasoedd gorwych, trefydd prydferth,

pentrefydd, cymmoedd, dyffrynoedd a mynyddoedd, &c. Chwi a addefwch fy mod yn cyfarfod âg amrywiaethau lawer yn y lleoedd uchod: ond mae amrywiaethau lleol yn y rhai'n i gyd naŵyr neb efallai am danynt ond myfi. Ac wrth i mi ymweled â'r holl fanau uchod unwaith bob mis, trwy ystod y flwyddyn, yr wyf yn canfod llawer ystum ar bethau. Byddaf yn ymweled â'r cwm cul, y gall bechgyn deg oed dafu careg drosto, ac â llawer ardal anghyspell, lle maent yn byw, bron yn gwbl, ar y pethau yr wyf yn gludo iddynt; ond yr hyn y maent yn gael o'r Bibl. Mae rhagluniaeth wedi rhoi mantais helaethach i mi na neb arall o'm cydoeswyr llênyddol i sylwi ar bethau, ac yr wyf finnau am droi y fantais i chwithau yn ol.

Tuag at fod yn lanwaith, mae un arferiad ymhell ar ol mewn rhai manau; sef *gwyngalchu tai*. Byddaf yn ymweled âg ambell i ardal lle mae 'r tai mor wned eu gwyniebau a'r eiddof finnau, cyn i'r argraffwr bardduo fy *wyneb* â'i ddwylaw duon. Mae y fath amrywiaethau i'w canfod mewn ambell ardal fydd yn effeithio cymaint ar yr edrychwr, nes y bydd ei galon yn hyfryd ysponcian wrth eu gweled, ac nid yr amrywiaethau naturiol yn unig sydd yn gwneyd hyn. Pa beth ynteu? Gwyngalchiad. Mae y fro yn frith o dai gwedi eu *gwyngalchu*. Mae chwaeth a *gianweithdra* bob amser yn gyfeillesau mawr i'w gilydd. Pe bawn yn gallugofyn i'm cludwr lawer tro, "B'leyr ei a fi?" os dangosa y fro fraith â'i thai gwynion oddiyma draw, gallwn fod yn eithaf sicr fod yno deulu o chwaeth goethedig yn cyfanneddu yr anneddau glân hyn. Hefyd, mae hyn yn beth hawdd iawn i bob un ei wneyd, lliwio ei dŷ. Mae y catch yn rhad, a'r llafur yn beth iachus, ac mae yr arogl yn dra dynunol a llesol.

"Adar e'r unlliw a ehedant i'r unile."

Mae awydd cryf arnaf finnau am gael fy holl dderbynwyr yr un lliw a mify hun; neu os byddant yn dewis, rhyw liw arall mwy at eu chwaeth; ond gwyn i mi, O! ie, y gwyn anwyl. Dyma yr olwg a gafodd y duwinydd ar y gwaredigion, mewn gynau gwynion. Mae yr hen ddull yma yn un eithaf da ac iachus i ddyn ac anifel. Hefyd, beth sydd yn fwy trymaidd i bob dyn sydd â'i chwaeth wedi ei choethi ond ychydig, na'r swp tai yn Ll—, oll mor llwyted eu gwynebau â'r llymru. Ow! gresyn, ie, Ow! Ow! yn wir. Ar ol yr holl garedigrwydd a dderbyniodd y preswylwyr oddiwrth yr anneddau hyn, fu yr un o honyt mor garedig a golchi eu gwynebau er ys yn agos i gan mlynedd, fwy neu lai. Pur angharedig yn wir—eich cadw rhag y gwyntoedd oerion, y rhewogydd geirwon a llymion, a'r gwres an-yoddefol. Ond druan oedd yr hen dŷ llwyd, dim yr un gymwynas am yr holl lesoldeb yma. Yr oeddwn yn dysgwyl yn fawr yn y gwanwyn a thua chalanmai, y buasai gwyneb arall ar lawer tŷ lle y byddaf yn myned; ond llwyd yw eto; mae y caleh yn ymyl hefyd, mae pob peth yn gyflëus, ac mae lliw y wraig a'r plant bach yn dyweyd y byddai yn beth pur llesol iddynt. Pa wahaniaeth a fyddai pe gwnaech i wyneb y ddaear ymddangos i'r teulu fry fel y mae y ffurflen yn ymddangos i ni ar noswaith loergan lieuad, holl dai y byd yn wynion fel ser, yn dewfrith drwy y gwastadedd. Ond nid peth i'r llygad yn unig yw *gwyngalchu*, ond peth i'r iechyd; ac nid oes dim yn tueddu gymaint at iechyd a glanweithdra, na dim yn profi glanweithdra yn well na gwyngalchiad.

Yr eiddoch,

Y "GEINIOWERTH."

Y Tafod.

Nid oes cymedroldeb yn perthyn i'r tafod. Y goreu oll, neu y gwaethaf oll ydyw. Yr aelod goreu, neu yr aelod gwaethaf sydd gan ddyn ydyw.

"Bydded eich ymadrodd bob amser yn rasol, wedi ei dymheru â halen," ond nid â phupyr. Tymherer ef yn dda, ond na fydded yn rhy boeth. Mae gan ddyn ddwy glust, un i wrandaw ar addysgiadau gwybodaeth gyffredinol, y llall i wrandaw ar orchymynion ei Greawdwr. Mae ganddo ddau lygad, un i weled ei ffordd ei hun, a'r llall i dosturio wrth ei frod yr mewn cyfngder. Mae ganddo ddwy law, un i weithio drosto ei hun, a'r llall i gyfranu i gyfreidiau eraill. Mae ganddo ddau droed, un i gerdded i'w orchwylion dyddiol, a'r llall i gerdded i dŷ Dduw. Ond ni roddodd ei Greawdwr iddo ond un tafod, i'w ddysgu y dylai wrandaw a gweithio a cherdded, gymaint ddwywaith ag y mae yn ei siarad.

Ni roddes Duw i ni ond un galon ac un tafod; ond mae dynion yn mynu dwy galon a dau dafod. Onid yw enllibwyr, a gwenieithwyr, ac organwyr, yn anghenfilod, mor annaturiol a phe b'ai ganddynt ond un llygad a dau dafod, un troed a dau ben.

Bydded dy eiriau yn anaml, yn wir, yn bwysig, fel na byddai yn siaradus, yn gelwyddog, yn wag-ogoneeddgar.

Blinid ein Iachawdwr yn fynych pan oedd ar y ddaear â chythreuliaid mud, ond yn ein dyddiau ni y mae mwy o gythreuliaid rhwadwy, y cythraul gweniaethus, y cythraul enllibus, y cythraul ymsengar, a checrus, a llawer o'r un eppil, y rhai y byddai yn drugaredd i'r byd pe byddent yn debycach i'w brod yr chythreuliaid mud.

"Y tafod, tan ydyw," dywed un ei fod yn waeth na thân usfern, nad yw hwnw yn blino ond y drygionus, ond y mae y tafod yn fynych yn felldith i ddrwg a da.

"Toraf ymaith yr hwn a enlibio ei gymydog yn ddirgel," y darlleniad Caldeaiod o'r geiriau hyn ydyw, "yr hwn a lefarô â thafod triphlyg," yr hwn sydd yn niweidio tri ar unwaith: efe ei hun, ei wrandawyr, a'r hwn a enlibir. Mae yr enllibiwr yn clwyfo ei gydwytod ei hun, yn rhoi celwydd yn ngenau ei wrandawyr, ac yn niweidio yrenlibiedig.

Hanesion.

Y WESLEYAID.—Deallwn fod rhai o'n cyfeillion y Wesleyaid wedi teimlo oddiwrth yr hyn a ddywedasom am araeth Mr. G. Osborn. Os gwnaethom gam â Mr. Osborn y mae yn ddrwg genym. Ond hyd y gwelsom ni, ein barn ni am dano oedd y farn gyffredinol y tu allan i'r cyfundeb Wesleyaid. Ac y mae miloedd yn y cyfundeb yn cymeradwyo syniadau fel y canlyn am dani:—"Annogwn y Parch. G. Osborn i fod yn fwy gwyliadwrus a chymedrol yn ei iaith, nid yw yr hyn a ddywedodd am ei benderfyniad i drafaelio yn y cerbydau goreu, i letya mewn *hotels*, i yfed gwin, &c. pan y myno' yn cyttuno â syniadau a rheolau John Wesley." Mae lliaws o lythyrau yn y "*Wesleyan Times*," oddiwrth Wesleyaid, yn cynnwys brawddegau tebyg i'r un uchod, am yr araeth dan sylw.

Os gwnaethom gam â'r gynnadledd trwy ddyweyd fod y cymeradwyo aeth gyda pha un y derbynwyd yr araeth yn fwy gwresog neu yn fwy unfrydol nag oedd, mae yn ddrwg genym hyny. Ac mae yn dda genym hysbysu ein darllenwyr, nad yw Mr. Osborn yn anghraifft, mewn un modd, o foneddigeiddrywydd, chwaeth, cysondeb Wesleyaid, a haelfrydedd Cristionogol y gynnadledd.

Y BLAID EFENGYLAIDD.—Dywed y “*Christian Times*” fod ganddo yt awdurdod goreu i hysbysu fod cynnwrf ymhlieth y blaid hon yn yr Eglwys Wladol. Eu bod yn edrych ymlaen gyda phryder a ty penderfyniad yn achos Gorham. Mae ein darllenwyr yn cofio, mai y mater sydd yn aros barn cyfeisfeddfod o'r cyfringynhor, ydyw natur bedydd: pa un ai ailenedigaeth ydyw, a'i nad e. Mae un frawddeg yn y cyngor a draddododd yr archesgob yn ddiweddar yn lled arwyddo os bydd ganddo eflais yn y penderfyniad, y bydd y penderfyniad yn erbyn y blaid efengylaidd, a thros y farn babaidd mai bedydd ydyw ailenedigaeth.

Y SABBOTH.—Mae y llywodraeth wedi cynnyg gwneyd cyfniewidiadau yn nhrefniadau y *Post-office* cyffredinol yn Llundain, a rhydd orsed ar lawer o'r gweithwyr i fod gyda'u gorchwylion ar y Sabbath. Mae hyn wedi creu teimlad mwy unfrydol a phenderfynol dros sancteiddioy sydd sanctaidd nag a welwyd er's blyneddau lawer.

RWSIA, AWSTRIA, A THWRCI.—Nid oes gwybodaeth yngylch penderfyniad Ymherawdwr Rwsia yngylch ei ymgais diweddar am gael yr ymnoddwyr Hungaraidd, yn awr yu Widdin, yn ymherodraeth Twrci i'w grafsangau: ond y farn gyffredin ydyw na chymer rhyfel le rhwng Rwsia a Twrci, ar ol i Nicholas weled brwdfrydedd Lloegr, ac undeb Ffrainc yn y mater, o blaid ymherodaeth y *Sultan* a'r ymnoddwyr. Tybia amryw na bydd iddo ganlyn ymlaen yn ei erlyniad ar ol gweled prysurdeb Arglwydd Palmerston yn noddi ac yn cefnogi Twrci. Ni wiw iddo dynu Lloegr, Ffrainc, a Thwrci yn ei ben ar unwaith; oblegid ni fyddai un gofath iddo eu gorchfygu oll ynghyd, er, esallai, y gallai roddi ysgydfa lled dda i un o honynt ar unwaith. Dywedir fod Awstria i ryw raddau yn gomedd cydweithredu â Rwsia yn awr, yn enwedig nad ydyw am gefnogi Rwsia yn ei chais annynol a grogi y pum mil ymnoddwyr sydd yn awr yn ngwlad y Twrc. Bydd hi yn foddlawn os alltudir hwy o'i chyffiniau i Loegr neu America; ond nid ydyw am grogi pawb a ffodd i Widdin, fel y dymuna Ymherawdwr Rwsia wneyd—mae Awstria yn rhy dyner galon i wneyd dim o'r fath beth! Dywed y newyddiaduron fod cenadwr penodedig wedi ei anfon o Vienna i Lundain, i hysbysu i lywodraeth Lloegr na fydd gomeddiad y *Sultan* i roddi Kossuth a'i gyfeillion i fyny ddim yn cael ei ystyried yn achos i ryfela yn ei gylch. Mae llywodraeth Twrci yn gwneuthur parotoadau mawrion gogyfer ag unrhyw ymosodiad a wneir ar eu gwlad gan Rwsia. Mae archiad wedi ei gyhoeddi fod llynges newydd i gael ei ffurio gyda'r prysurdeb mwyaf, a dangosa pawb frwdfrydedd neilidoel yn eu parotoadau amddiffynol.

RHFAIN.—Hysbysir fod ei Santeiddrwydd, y pab, yn mwynhau ei hun yn hynod yn Naples, yn nghymdeithas brenin y lle hwnw, a dywedir fod y tad yn lled bleidgar i fwyd a diod moethus, a'i fod yn cael byd da yn heliathwych bueuydd, yr hyn yn ddiammeu sydd yn dra derbynol gan ei ranau anifeilaidd, ac y mae y cardinaliaid yn ei gefnogl i fyw felly, a gadael holl faterion a llywodraeth yn eu dwylaw hwy. Cyhoeddwyd y ddiweddar gan y Cadfridog Rostellan, fod holl drigolion Rhufain i rodd i fyny bob math o arfau i'r swyddogion penodedig ymhen pedair awr ar hugain o amser ar ol cyhoeddiad ei archiad. Achos y gorchymyn yna ydoedd, fod amryw o filwyr Ffrainc wedi cael eu llofruddio ymddygelai. Mae hefyd yn gwarafun i bob math o arfau gael eu gwneuthur yu y ddin a hyn allan.

Y GEINIOGWERTH.

Llawenydd trwy Gredu.

MAES pechadur, trwy gredu, yn dyfod yn etifedd bywyd tragicwyddol; ac felly mae iddo gredu yn destun llawenydd i bawb, ond y diafol. Mae ef yn rhyfeddol yn erbyn i neb gredu; mae yn dyfod i'r oedfa bob tro, neu rai o'i genadau drosto, a'r neges yw, cymeryd ymaith y gair o galenau, rhag i neb gredu a bod yn gadwedig. Mae y diafol yn enbyd yn erbyn i neb gredu. Ti gei wneyd pob ystumiau gyda chrefydd, heb iddo fod ddim llawer yn erbyn, ond i ti beidio a chredu. Cei ddyfod i'r *society* a chymuno; ac ni ofala efe ddim pe byddai iddynt dy wneyd yn flaenor, ond iti beidio a chredu. Iē, ni wrth-wyneba y diafol gymaint i ti fod yn bregethwr, a bod yn un a gammolid gan ddynion hefyd, ond i ti beidio a chredu. Ti gei fyned yn gyfoethog os gelli, heb iddo wrthwynebu. Iē, yn wir, ni byddai yn waeth ganddo roddi help llaw i ti ymglyfoethogi, os byddai hynny rywbeth at dy gadw di yn ddiddig heb gredu. Cei ddysgu Groeg a Lladin hefyd y faint a fynech, ond i ti beidio a chredu. Cadw y dyn heb gredu yw amcan mawr y diafol o hyd; ac felly, efallai fod gweled pechadur yn credu, yn achos gofid iddo ef. Nid yw pechadur yn cael ei gadw, yn gwneyd mo honi ddim gwaeth arno ef chwaith; ond yn unig ei fod ef mor ddrwg ei ewylls: mae arno ef y fath gynfigen, fel y mae gweled y truan yn credu ac yn myned trwodd o farwolaeth i fywyd, yn ei ofidio. Ond os yw hyn yn ei ofidio druan, nid oes genyf ddim mwy o gŵyn iddo, na dywedyd, ei ofidio a gaffo efe. Ei ofidio a gaffo, a'i ofidio a gaiff hefyd, o hyn i ddiwed y byd, yn fwy o'r hanner nag o'r dechreu hyd yma. Fe amlha credu beunydd bellach. Ond am bawb arall, oddigerth y diafol a'i weision, y mae gweled pechadur yn credu yn destun llawenydd iddynt. Mae felly i'r eglwys ar y ddaear, a gweinidogion y gair yn enwedig. Mae felly i'r eglwys yn y nef. Darllenwn am lawenydd yn y nef, a llawenydd yn ngŵydd angelion Duw am un pechadur yn edifarhau. Mae hyn yn destun llawenydd i Grist hefyd. Yr oedd achubiaeth y wraig o Samaria gynt, yn destun y fath lawenydd iddo, fel yr anghofiodd fwyta ei fara. Dydd llawenydd ei galon ef yw ei ddydd dywedi a phechadur; *Can.* iii. 11. Mae i bechadur gredu yn destun llawenydd i Dduw. Pau y mae y troseddwr yn credu, mae yn dyfod i'r fath dir, ag y mae Duw yn gallu maddeu iddo, a'iachub—yr hyn y mae Duw yn ei wneyd dan ganu; *Seph.* iii. 17. Ond yn enwedig, y mae credu yn cynyrrchu llawenydd i'r pechadur ei hun, "Ac a fu lawen gan gredu i Dauw, efe a'i holl deulu; *Actau* xvi. 34; neu fel y mae rhai yn cyfeithu, "A chan gredu i Duw, efe a fu lawen dros yr holl dŷ." Yr oedd wedi tori allan i ganmawl a diolch, fel rhyw hen Fethodist, mi feddyliwn. Yr oedd yn diolch yn y fan lle yr oedd, y gallesid ei glywed dros yr holl dŷ; neu ynteu, yr oedd yn cerdded o'r naill ystafell i'r llin, ac yn diolch tipyn yn mhâl.

RHAGFYR, 1849.]

un, fel y cysegrai yr holl dŷ & moliant i Dduw. "Efe a fu lawen dros yr holl dŷ."

Mae pechadur yn y credu, yn gyntaf oll, yn gweled fod *modd i'w gadw*; ac y mae hyn yn gysur mawr i ddyn mewn pryder am ei fywyd. Gweled y *gellir ei gadw*. Iddo allu dywedyd,

"Pwy wyr na chai drugaredd,
Pwy wyr na byddai byw,
Er cymaint yw fy meiau,
Un rhymedd iawn yw Duw. "

Beth, a oeddi wedi meddwl na arbedid mohonot? O! oeddwn, wedi meddwl yn sicr mai usfern fyddai fy lle, ac nad oedd fodd fy arbed; ond heddyw rwy'n gweled fod gwawr. Wel, yr wyt ti yn bechadur mawr iawn. Mae hynny yn ddigon gwir fy mod i y penaf o bechaduriaid. Ond os ydwyf fi yn bechadur mawr, mae trugaredd fawr yn Nuw, ac y mae iawn mawr wedi ei gael. "Pwy aŵyr?" Gwelwyd rhai yn byw yn dda am wythnosau ar hyn—"Pwy aŵyr?" Hynod mor hyfryd a melus y byddent yn moliannu, a holl sail eu llawenyydd fyddai gweled fod modd i'w cadw—"Pwy aŵyr?" A braidd na ddywedwn, y gwn i o'r goreu pa fodd y bydd; os ceir y pechadur â'i lygaid at drugaredd fawr, mewn iawn mawr, mae ef yn sicr o lwyddo am ei fywyd: ni fethodd neb erioed wrth y drws yma.

Trwy gredu, mae y dyn yn myned trwodd o farwolaeth i fywyd, a hynny yn ei deimlad ei hun. "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragedywyddol, ac ni ddaw i farn; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd;" *Ioan v. 24.* Wel, ie, y mae yn myned trwodd yn llŷs y nef. Ydyw, y mae yn myned trwodd yno; ond y mae hefyd yn myned drwodd yn y llŷs bychan ar y ddaear—yn llŷs ei gydwydod ei hun. Dan argyhoeddiad, cyn credu, yr oedd y dyn yn rhwym dan ddedfryd marwolaeth, ac ar dir marwolaeth yn ei deimlad ei hun; ond trwy gredu efe a aeth trwodd. Yn debyg fel y gwelwyd y ddafad, rai gweithiau, wedi crwydro i dir cymydog, ac o'r diwedd fe ddeuai'r cŵn ar ei hanos; i ffordd & hithau, trwy y gwrych drain, ac yno yn y gwrych mae hi am beth, yn methu yn lan a myned oddiyno; yn ymmsgwyd, a'r drain yn pigo bob ochr, ac ofni i'r gelyn ddvfol o'r tu ol, ac ymaffyd ynddi bob mynyd; ond o'r diwedd y mae hi yn gallu myned trwodd i dir ei pherchenog, a hynod mor ddiogel a hapus y mae yn teimlo. Yn awr, nid oes gan y gelyn ddim i'w ddyweyd wrthi. Yn gyffelyb iawn am bechadur, o dan argyhoeddiad; y pryd hwn y mae yntau yn y gwrych drain megys, a'r drain yn dwysbigo hefyd; ond drwy gredu, mae'n myned drwod. Yn y credu mae ei gydwybod yn gweled fod pawb yn cael eu digon, deddf a chyflawnder, a phawb; ac felly y mae yn dysgwyl, a hyderu yn galonog am ei fywyd. Mae'n myned trwodd yn ei deimlad, o farwolaeth i fywyd. Mae'n cael ei fywyd pan wedi ei golli, ac felly mae'n llawenhau yn far. A pha ryfeid, bywyd sydd yn y chwareu. Bywyd! yr oedd wedi ei golli o'r blaen, a bywyd y mae wedi gael yn awr; nid oes fodd peidio a llawenhau.

Yr wyf yn cofio darllen yn rhywle, am un o filwyr Prydain, pan gyda ei gydfilwyr mewn llong yn nghêg un o afonydd Affrica, mynai ef fyned i ymdrochi; ond ei gyfeillion a'i preswadiant ei bod yn beryglus iawn iddo fyned i'r dwfr yn y fan hôno, oblegid bod yno liaws o grocodiliaid. Ond ni chymerai mo'i berswadio—yr oedd dan effeithiau y ddiod feddwol; ac felly i'r dwfr yr aeth. Yn fuan, dyma y bobl oddiar fwrdd y llong yn canfod crocodil yn dyfod tuag ato. Ond nid oedd dim a wneid a dyciai, er saethu, yr oedd y bwledi yn ysplentio ar hyd ei groen, yr un fath ag ar hyd craig. Fe ganfu y dyn ei hunan ei berygl, ond yr oedd y crocodil rhynghdo a'r llong erbyn hyn; ac felly nid oedd dim i wneyd ond ymgyrhaedd at y lân; er na buasai efe fawr well ar y lân nag yn y dwfr; oblegid y mae y crocodil yn medru rhedeg ar hyd y sychdir, yn gystal a nocio yn y dwfr. Ond y mae dyn mewn perygl yn du-eddol i fyned i rywle, felly yntau. A chyrhaeddodd y lân, a rhedai tua rhyw berth, a thyma yn neidio o'r berth glamp o deigr anferth. Yr oedd yntau yn gweled y buasai y dyn yn damaid a wnaethai y tro iddo yntau; ac i ddiogelu yr ysglyfaeth iddo ei hun, yr oedd raid gwastatâu y cyfrif â'r crocodil, ac i ymladd yu ddychrynllyd yr aethant. A thra buont hwy yn ymladd, cafodd y truan amser i ddianc i'r llong yn ei ol. A mawr oedd ei lawenydd, a diragrith iawn oedd ei ddiolch am y waredigeth. Y dyn a adroddai yr hanes a ddywedai, os gweleodd efe neb erioed yn diolch yn ddigrith, mai hwnw oedd efe. Yn ddiweddar, yr oedd wedi colli ei fywyd yn ei deimlad; ond yn awr, wedi cyrhaedd bwrdd y llong, mae wedi ei gael drachefn: pa ryfedd iddo ddiolch a llawenhau? Ac yn debyg iawn y mae yn mhrofiad pechadur: dan argyhoeddiad, cyn credu, mae wedi colli ei fywyd; ond wedi credu, mae wedi cael ei fywyd yn ei deimlad;—mae megys wedi cyrhaedd bwrdd y llong. Pa ryfedd gan hynny iddo lawenhau a diolch.

Trwy gredu, tawelir y gydwybod. Mae argyhoeddiad yn peri ystorm yn nghydwybod dyn; mae credu wedi hynny yn tawelu yr ystorm hôno. Yn debyg fel ar fôr Genesaret, y noswaith hôno yr oedd yr Iesu a'i ddysgyblion arno, a'r Iesu yn cysgu yn mhen ol y llong: disgynoddca fod o wynt ar y llyn, neu ar y môr, a chynhyrfodd ei dônau yn fawr iawn; yr oedd y tônau yn lluchio i'r llong, a hithau ar soddi, a'r dysgyblion yn ofni am eu bywyd yn fawr. Ymdrechent gyda y rhwyfau â'u holl egni am gyrhaedd y tir, ond heb fod ddim haws, yr oedd yr ystorm yn rhy gref. Ac felly bu raid myned at yr Iesu i ben ol y llong a'i ddeffro; yna mae yntau yn cyfodi, ac yn ceryddu y gwynt a'r tônau dwfr, gan ddyweddyd, "Gostega." Beth yw'r cynhyrfu a noethi dy ddannedd yr wyt, a dychrynu fy nghyfeillion yn y fan yma, "Gostega;" a bu tawelwch mawr. Buasai yn gall iawn yn y dysgyblion fyned ato yn gynt. Yn gyffelyb y mae yn mynwes y pechadur; mae argyhoeddiad yn peri ystorm, a chredu wedi hynny sy'n tawelu yr ystorm. Pan ymddyrrchafo tônau y gydwybod, mae y pechadur yn ofni am ei fywyd. Ond rhaid iddo yntau gael gwneyd prawf o'i ddyfais, a rhwyfo. Mae'u rhwyfo i ddiwygio, ac, efallai, yn rhwyfo i'r *society*. Ond er

pob rhwyfo, mae'r ystorm wedi dilyn ambell un mor dost, fel y bu raid troi wyneb at Waredwr ac iawn—at Iesu. A phan y cyfododd Crist o flaen llygaid y meddwl, trwy gredu ynddo, yn mawredd ei berson a digonolrwydd ei aberth, yna tawelwyd yr ystorm yn y fan. “A bu tawelwch mawr.” Mae hyn hefyd yn peri llawenydd, fel y darllenwn am y morwyr, yn y Salm, yn llefain ar yr ystorm, a Duw yn gwrandaw ac yn tawelu. “Yna y llawenhant am ei gostegu hi.” Felly yn ddiau am v pechadur a brofodd ystorm cydwybod euog, ac a brofodd hefyd ei thawelu trwy gredu yn Nghrist: yna llawenhan yntau hefyd am ei gostegu. O! mae'n anmhosibl peidio llawenhau a diolch. Diolch y mynyd hwn am fodd i dawelu cydwybod euog, a'i thawelu ar y fath dir hefyd, fel nas gall golygfeydd rhyfedd y farn ddiweddaf ddim ail godi ystorm ynndi.

Trwy gredu, mae v pechadur yn derbyn ysbryd y mabwysiad. “Ond cynnifer ac a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw.” Mae llawer o siarad am allu, ac anallu dyn; ond y mae hyn yn buramlwg, nad oes gan ddyn, dan argyhoeddiad, ddim gallu i'w ystyried ei hun yn blentyn i Dduw. Nis meiddia, gan gydwybod euog. Gwelwn hyn yn y darluniad o'r mab afralawn. Pan yn dychwelyd, nis gallai ddysgwyl na gofyn am gael ei gydnabod fel mab. “Gwna fi fel un o'th weision cyflog,” oedd y ris uchaf y medrai roddi ei droed arni. Nid oedd efe fawr yn meddwl y buasai wrth fyned o dŷ ei dad yn ei afiaeth fawr, fel yr oedd Christmas Evans, mewn rhyw bregeth, yn ei ddarlungio, mai fel hyn y byddai arno yn dychwelyd. Yr oedd yn myned o dŷ ei dad ar gefn ei geffyl mawr, a'i ehwip a'i fotasau â thopiau cochion, ac yn estyn un bys i ganu yn iach i'r hen wr ei dad. Ac i ffordd ag ef, a gwaedai wrth bob tollborth, nes codi yr holl bentref allan. Ond wedi byw yn afralawn am amser yn y wlad bell, ac erbyn yr amser iddo ddyfod adref, yr oedd pethau wedi newid yn fawr gyda'r gŵr. Erbyn hyn nid oedd o hanes y ceffyl mawr na'r botasau, na dim esgidiau, ond rhyw hen rai baglog; na'r un goat, ond un wael iawn, a dim ond un lawes wrthi. Dim an ei ben, ond rhyw hen gap fel turban y Twrc; a hynod mor llwydaidd a drwg oedd yr olwg arno. Ond gwaeth bron na'r cwbl oedd, nis medrai ddadleu y berthynas, na dysgwyl y buasai ei dad yn ei harddel. Ei gri ydoedd, gwna fi fel un o'th weision cyflog. Felly nis gall pechadur tan-argyhoeddiad, ddysgwyl i Dduw ei gydnabod yn blentyn iddo. Nis meiddia gan gydwybod euog nesu at Dduw a dyweddyd, O! fy Nhad. Ond trwy gredu mae v gydwybod fel yn cael gafael ar ddigon. Digon i gyflawni. Digon i'r ddeddf. Mae'n gweled nad oes neb yn cael colied, ac yntau, y pechadur, yn myned yn rhydd. Ac felly mae y gydwybod yn tawelu, ac mae'n cyrhaedd hyder fod Duw yn ei dderbyn, ac yn y canlyniad mae'n gallu nesu ato fel ei Dad. Mae hyn yn cynnyrchu llawenydd. Yr oedd y tad yn y ddammeg yn llawenhau yn fawr gael ei fab adref; ac mae'n ddiammheu nad oedd llawenydd y mab o gael ei dderbyn yn ddim llai; ac felly y darllenwn, “A hwy a ddechreuanasant fod yn llawen.” Yr wedd llawenodd o bobtu. Mae yn llawenydd Dduw, fel y mae yn

darparu 'r modd o gael derbyn pechadur ; ac mae yn llawenydd annhraethol i bechadur, ag a fyddo wedi teimlo, gael Duw yn Dad yn ol. Y fynyd gyntaf y teimlo dyn ei fod yn cael Duw yn Dduw a Thad iddo, y fynyd hono y mae yn teimlo ei fod yn ngfael a digon am dragwyddoldeb. A pha ryfedd ei fod yn llawen ?

Yn gysylltiedig â chredu mae y dyn yn dechreu gobeithio. "A Duw y gobaith a'ch cyflawno o bob llawenydd a thangnefedd gan gredu, fel y cynnyddoch mewn gobaith trwy nerth yr Ysbryd Glan;" *Rhuf. xv. 13.* Mae llawenydd a thangnefedd trwy gredu ; ac y mae'r llawenydd a'r tangnefedd hwn yn meithrin gobaith y dyn. Gyda bod Crist, Haul y cyflawnder, yn cyfodi o flaen llygaid y meddwl, trwy gredu ynddo, mae gwawr dydd gobaith yn toriar yr enaid. A pho cryfaf fyddo y credu, cryfaf o hyd fydd y gebaith. Mae y Cristion yn gobeithio yn gyntaf am nerth i barhau hyd y diwedd, am ddihangfa yn awr angeu, am adgyfodi gyda 'r saint ddydd a ddaw, a bod ar ddeheulaw y Barnwr yn y dydd hwnnw, a bod byth gyda 'r Arglwydd yn y nefoedd. Dyma gynnwysiad y bennod, megys o'r pethau y mae'n gobeithio am danynt. Ac os bydd y gobaith am y pethau hyn yn lled gryf yn y meddwl, mae yn anhawdd peidio a llawenhau. Cydymaith dyddan iawn yw gobaith. Gwyn dy fydd di, fy nghyfaill, os cei di afael arno. Fe ddywed wrthyd lawer chwedl ddyddan cyn cyrhaedd pen dy daith. Daw gyda thi drwy bob tywydd garw ; fe'u ddyddana lawer canol nos, pan na fedr neb arall ; ac ni'thedy pan yn marw. "Y cyflawn a obeithia pan fyddo yn ma:w." Mae gobaith yn peri llawenydd. Yn awr, mae'n amlwg oddiwrth hyn o sylwadau fod llawenydd yn nglyn â chredu ; ac os myni dithau lawenydd, yn dy grefydd, Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist a llawen fyddi.

Os fel yna y mae, medd rhywun, bod llawenydd yn gysylltiedig â chredu, mae arnaf ofn na chredais i erioed ; canys yr wyf fi yn ddyeithr iawn i lawenydd. Wel, fy nghyfyill, efallai dy fod wedi profi graddau o lawenydd, er nad oedd yn gryf iawn. Oni phrofaist tithau amser felly, pan oedd dy gydwytod yn derfsglyd iawn, ac yn ofni colledigaeth bob mynyd ; ond cefaisit ryw olwg ar Iesu Grist, a dawelodd dy feddwl ; ac er na phrofaist lawenydd nes peri i ti gynhyrfu trwy neidio a bloeddio ; eto cefaisit lawenydd nad allasai dim ond credu ei roddi. Mae eisieu i ni beiddio gwneyd cam â ni ein hunain, trwy benderfynu ein bod yn amddifad o lawenydd, a nyni yn profi graddau o hyny. Ond yr ochr arall, os yw y dyn yn holol amddifad e lawenydd, y gwir am dano yw, nad yw erioed wedi credu. Mae'n anmhosibl credu, na bydd taangnefedd a llawenydd yn canlyn. Gan hyny, os heb lawenydd a chysur yn dy grefydd, yr wyt heb gredu. Wel, yn wir, medd rhywun, yr wyf yn meddwl mai dyna y gwir am danaf fi. Ofni, ammheu, dyoddef brathiadau cydwytod euog, dyna yw fy nghrefydd i gyd ; ac ni phrofais i ddim llawenydd erioed, ac felly yr wyf heb gredu, a heb ddim crefydd yn y fan. A beth a wnaf ? Wel, gwna yr un peth ag a orchymwynwyd i gediwad y carchar, 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist.' Ac o wneyd hyny, fe fydd genyt grefydd yn y fan.

“Ond yr wyf yn ofni na chefais i ddim tro neillduol.” Mae hyny yn amlwg, na chefaist dro neillduol, canys pe cawsit hwnnw, buasit yn credu. Ond gwna y tro i ti gredu yn Nghrist fel yr wyt. Beth os heb dduwiol anian? ti wnei y tro fel yr wyt, heb ddim ond eu-ogrwydd ac astenid—fel yr wyt—fel yr wyt. O! bendigedig a fyddo ei enw, mae'r Iesu yn derbyn pechaduriaid fel y b'ont. Ac wedi eu cael felly, efe a'i gwna yn gyfryw ag y byddont yn ddifēus ger bron gorsedofainc Duw.

Llythyr oddiwrth y Parch. John Hughes, Pontrobert.

DARLENNAIS yn y “Geiniogwerth,” am fis Mai diweddaf, tudal. 127, y cyhuaddiad o “Anghysonderau benywaidd;” a darllenais drachefn yn y “Geiniogwerth,” am fis Gorphenwf, tudal. 191, y danodiad o'r “Anghysonderau benywaidd yn cael ei dafnu yn ol;” ond y gwirionedd anwadadwy ydyw, fod nifer mawr o feibion a merched ieuainc Cymru yn euog o'r cyfryw anghysonderau, ie, o anferth anfoesgarwch ac anfoesoldeb: ac nid dannod i'w gilydd yw y peth tebycaf o ddiwygio ieuencyd Cymru; ond dylai pob rhai ag sydd yn euog o'r cyfryw anweddeidd-dra, wyleiddio a chywilyddio, edifarhau a diwygio. Darllenais hefyd yn y “Geiniogwerth,” am Mai, tudal. 113—115, llythyr rhagorol y Parch. Richard Jones, Llanfair. Yr wyf ya gwir ddymuno ar fod y llythyr uchod dan sylw ac ystyriaeth pob mab a merch ieuanc yn Nghymru. Dymunwn hefyd i bob penteulu dawys ystyried cynnwysiad llythyr y Parch. William Roberts, Amlwch, sydd yn y “Geiniogwerth,” am Mai, tudal. 158—160.

Heb law yr anweddeidd-dra cywilyddus a ddarlunir yn llythry Parch. Richard Jones, sydd i'w ganfod ar liaws o ieuencyd yn mhrydnawniau y ffeiriau yn rhai o drefydd Cymru; dīau fod anweddeidd-dra mawr yn cael ei oddef yn llawer o deuluoedd Cymru, sef goddef i feibion a merched ieuainc gyfeillachu â'u gilydd yn eigion y nos—yn y tywyllwch, pan y byddo y penau teuluoedd yn cysgu. Hen arferiad yw hon ag y mae y canlyniad gofidus a chywilyddus o honi yn galw yn dra uchel ar holl benau teuluoedd Cymru gyd-ddeffrōi i arfer pob yndrech tuag at ei dilēu.

Y mae hefyd arferiad hynod o anweddus a thra gwageddus a pheryglus gan rai ieuencyd, a hyny yn dra ieuainc, o gyfeillach. â'u gilydd heb ddyben priodol, dim ond er mwyn rhyw wag ddifyr-wch, yr hyn yn fynych sydd yn arwain i anniweirdeb. Anhawdd ydyw gochelyd cyflawni pechodaau tra arferir yr achlysuron, a chyleusderau i'w cyflawni. Dywedai y Salmydd “Wrth eiriau dy enau yr ymgewais rhag llwybrau yr yspeilydd;” *Salm xvii. 4.* Cwynir mewn rhai ardaloedd fod llanciau ieuainc, o ddeuddeg i ddeunaw mlwydd oed, yn fwy anfoesol ac anystyriol a rhyfygus na'r rhai sydd yn hŷn na hwy, sef eu bod yn arfer yfed cwrw, ac wedi dysgu ac yn arfer tyngu, a hyny yn Saesneg, a dyma yr oll o Saesneg a

fedr rhai o honynt! Y mae yr agweddau a'r ymddygiadau hyn yn dra arswydus i feddwl am danynt yn ngwyneb rhagorfreintiau a manteision y dyddiau hyn. Ac onid ydyw yn bryd i athrawon yr Ysgolion Sabbothol, ynghyda phregethwyr yr efengyl, i ddeffroi i addysgu a rhybuddio am yr arferion erchyll a rhyfygus hyn?

Y mae anghenrheidrwydd mawr hefyd i ddeffroi i arferyd mwy o foddion ac ymdrechion o blaid dirwest, ac yn erbyn diotta, cyfeddach, a meddwdod; oblegid y mae rhai parthau yn Nghymru na chychwynwyd yr achos dirwestol ond i raddau bychan iawn; ac ardaloedd eraill lle y bu yr achos hwn yn lled enwog ac uchel, y mae yn bresennol wedi marweiddio ac adfaelio yn fawr, rhai dynion o gryn ddylanwad iel gwladwyr a chrefyddwyr, ag a fuont am dymmor yn ddirwestwyr gwresog, yn troi yn ol i arfer rhyw raddau o'r hen drwyth wenwynig a hudoliaethus, yr hyn yn ddiāu sydd yn wanychdod mawr i'r achos dirwestol, ac yn rym ac yn gefnogrwydd mawr i ddiotwyr a meddwon. Y mae yr olwg ar yr ardaloedd ag y mae pethau fel hyn ynddynt, yn drist ac yn ofidus i feddwl am danynt; y maent yn cyflym addfedu i ryw ymwelliad barnol, oddieithr i ryw foddion gael ei arferyd i beri diwygiad oddiwrth yr arferion llygredig uchod.

Pontrobert, Hydref 30ain, 1849.

JOHN HUGHES.

Beth sydd yn rhwystro y Cymry?

POBL ryfeddol yw y Cymry. Nid oes dim dadl nad ydynt yn rhagori yn mhob ystyr ar holl genedloedd y byd. Fel hyn y byddwn ni yn arfer llefaru am danom ein hunain; ac nid wyf yn beio llawer ar ryw deimlad gwladgarol o'r fath yma. Er hyny gwell genyf y gwladgarwch hwnnw sydd yn arwain dynion i *wneyd* heblaw slarad. Mwy caredig yw dyweyd wrth ddyn ei feiau yn ddiragrith, na son o hyd am ei rinweddau. Ac efallai fod y miselion Cymreig wedi canmawl llawn ddigon ar y Cymry, ac y byddai yn dda sylwi mwy ar y pethau sydd eto yn ddiffygol.

Gyda phob parch i Gymru a'i thrigolion, y mae yn rhaid addef ein bod ar ol mewn amryw ystyriaethau. Ond fy mwriad yn bresennol yw ymofyn beth all fod yr achos ein bod gymaint ar ol mewn ystyr wladol. Mae y lleoedd a'r swyddau uchelaf yn y deyrnas yn agored i'r Cymro; ond pa bryd y gwelwyd ef yn cyrhaedd yr un o honynt? Os bu anghreifftiau o hyn yn yr hen amser, y mae yn beth na welwyd er ys rhai oesoedd. Yr ydym yn clywed o hyd am fechgyn tlodion o Scotland yn dyfod i Loegr, ac yn gweithio eu ffordd i ddyrchafiad. Mynych iawn y mae Maer Llundain yn Scotiad, heb son dim am sefyllfaoedd uwch; ac felly yn yr holl drefydd mwyaf trwy y deyrnas. Ond pa bryd yn yr oesoedd diweddaf y bu Cymro yn y lle uchaf mewn un dref yn Lloegr? Nid wyf yn dyweyd nad oes ambell un yn cyrhaedd parch yn y cylch lle byddo: ond yr hyn sydd yn rhy amlwg i'w

wadu yw hyn, nad oes neb o Gymru mewn un man yn cyrhaedd y pínael uchaf, ac mai anfynych y maent yn cyrhaedd dyrchafiad canolig. Ac nid yn unig y maent yn gweled eraill yn myned o'u blaen ar ol iddynt groesi Clawdd Offa; ond hyd yn ned yn ein gwlad ni ein hunain y mae yr holl swyddau mwyaf anrhymeddeddus yn cael eu llenwi yn gyffredin gan Saeson neu Scotiaid. Beth yw yr achos o hyn? Ac os gellir gwybod yr achos, oni ddylid ymdrechu i'w symud?

Y mae yn amlwg mai nid yr iaith Gymraeg sydd yn cadw y Cymry ar ol: oblegid y mae gan y Scotiaid, a thrigolion gwledig Lloegr gymaint o waith dysgu siarad Saesneg a'r Cymro. Byddai dyn annysgedig o ganol Scotland neu sir Gaerefrog yn annealladwy mewn unrhyw barth arall o'r deyrnas; ac y mae y dosbarth iselaf yn mhob parth yn siarad iaith holol wahanol i'r hon a ddarllenir mewn llyfrau Saesneg. Gan hynny, pan elont hwy i geisio ymgyrhaedd at sefyllfa uwch, nid yn unig y mae yn rhaid iddynt ddysgu geiriau newyddion, ond y mae yn rhaid iddynt hefyd ddad-ddysgu yr hen ddull o siarad oedd ganddynt o'u mebyd. A phan feddyliom mor anhawdd yw y gwaith o ddad-ddysgu, y mae yn ymddangos nas gallant fod ar well tir, os ydynt ar gystal tir, yn yr ystyr yma, a'r Cymro. Ac er iddynt ymdrechu, os na ddechreuant yn bur foreu, y mae yr hen aceniad yn glynw wrthynt hyd y diwedd. Ond nid yw yr aceniad gwledig yn un rhwystr iddynt hwy; ac yn yr un modd, nid yw aceniad Cymreigaidd mewn gwirionedd yn un rhwystr i'r Cymro.

Beth ynte sydd yn cadw'r Cymro yn ol? Un achos yn ddiammheu yw diffyg teimlad o werth addysg mewn rhieni Cymreig. Nid ydynt erioed wedi eu hegwyddori yn iawn ar y mater hwn. Llawer o honynt nid ydynt yn gweled anghen am y graddau lleiaf o ddysg; a'r lleill ni feddyliant ond am ddigon i gynnorthwyo eu plant i ysgrifenu eu henwau, a chadw cyfrifon cyffredin. Nid oes ganddynt un syniad am werth dysg fel y mae yn agor y drws i ddyrchafiad a defnyddioldeb cenedlaethol. Onid fel hyn y mae? Iē, ysywaeth, fel y mae llawer bachgen gobethiol wedi profi er ei alar a'i golled. Ond yn Scotland y mae yn holol wahanol. Yno, y mae rhieni yn gorfodi y plant i fyned i'r ysgol; ac i'r dyben hwnnw y maent eu hunain yn fynych yn dyoddef llawer o brinder ac anghyflusdra. Fel prawf o hyn, cymeraf ryddid i goffâu yr hyn a ddarlenais yn hanes Alexander Somerville, wedi ei ysgrifenu ganddo ef ei hun; nid am fod yr hanes hwn yn rhagori ar gannoedd o rai eraill, ond am mai hwn yw y diweddaf a ddaeth dan fy sylw. Y mae Somerville wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr fel ysgrifenydd, dan yr enw, "*One who has whistled at the plough,*" ac wedi peri llawer o son am dano ar amryw achlysuren. Ond yr oedd ei rieni yn mysg y rhai tlotaf yn Scotland, a thrwy anhawsder mawr yr oedd ynta yn medru ennill digon i gynnal eu teulu. Nid oedd gan Alexander fychan, pan anfonwyd ef i'r ysgol, ond hen ddillad wedi eu gwisgo allan gan ei frawd, ac wedi eu clytio a'u cymhwysyo iddo yntau gan ei fam, ynghyd a hen het wedi ei gwneyd

yn llai o grym lawer nag ydoedd ar y cyntaf, i'w rhwydro i ddyfod tros ei lygaid. Yn yr amser hwnnw cyfrifid y *Radicals* fel gwrth-ryfelwyr; a byddai plant yr amaethwyr yn clywed eu rhieni gartref yn son fel y byddai y milwyr yn trechu y *Radicals*. Y plant hyn oedd yn gwneyd i fynn y nifer liosocaf yn yr ysgol: a phia beth a gymerasant fel chwareu ryw ddiwrnod, ond trefnu yr holl fechgyn oedd mewn dillad da fel milwyr, a'r lleill oedd mewn dillad gwael yn *Radicals*. Fel y gellid meddwl, yn mysig y *Radicals* y cafodd Alexander Somerville ei restru. Rhwygwyd hynny o ddillad oedd ganddo yn garpiau, tynwyd ymaith bob botwm oedd arnynt, os oedd yr hen het o'r blaen yn anhawdd gweled dani, yr oedd erbyn hyn yn hawdd gweled drwyddi: ac am ei fod yntau yn rhy wrol i gymeryd y fath driniaeth, cymerasant ef i'r dienyddle fel un rhy *radicalaidd* i fyw, a gadawyd ef o'r diwedd wedi ei hanner grogi. Aeth adref y noswaith hono yn wael ei wedd. Anfonwyd ef yn fuan i'r gwely, a'i fam gyda chalon friw a eisteddodd i fyny trwy y nos i wnio y carpiau wrth eu gilydd. Nid oedd wiw cwyno wrth yr ysgolfeistr, oblegid yr oedd efe yn pleidio plant yr amaethwyr a'r gwyr mawr. Ond gwnaeth y fam, fel yr oedd yn bur naturiol, ei goreu i'w gadw gartref, hyd nes gallent gael dillad gwell i'w rhoi am dano. "Na," meddai y tad, "nid oes neb a wyr pa les a ddaw o'i ddysg ar ol hyn: y mae yn rhaid i'r bachgen fyned i'r ysgol." Hwyrach y gellid cael un o fil yn Nghymru a wnai yn gyffelyb; ond yn Scotland nid yw ymddygiad fel hyn ond peth holol gyffredin.

Achos arall sydd yn peri fod y Cymry ar ol, yw diffyg penderfyniad a dyfal barhâd. Nid wyf yn credu fod hyn yn hanfodol i ni mwy na rhyw genedl arall: ond yr ydym wedi ein camddysgu i sylwi mwy ar deimladau nag ar egwyddorion; ac y mae hyn wedi effeithio hyd yn nod ar ein llwyddiant bydol. Pwnc mawr y Cymro yw bod yn gysurus am y fynydd bresennol; yn lle edrych ymlaen, a pharotöi yn ddyfal erbyn amser dyfodol. Y maent yn dyweyd am y rhan fwyaf o'r meibion a'r merched ieuainc sydd yn gweini yn Nghymru, eu bod yn gwario eu holl gyflwyniadau am ddillad, a *watches*, a theganau o'r fath, heb feddwl na gofalu pa beth sydd ganddynt wedi ei gynnifo erbyn myned i'r cyflwr priodasol. Pe na b'ai cyflog y Scot ond wyth bunt yn y flwyddyn, y mae yn sicr o roddi pedair o honynt i gadw yn y Banc Cynnifo, neu ryw le diogel arall; ac os bydd ei gyflog yn ugain punt, y mae yn cynnil deg neu ychwaneg. Fel hyn y mae y Scot yn llwyddo; a'r diffyg o hyn sydd yn cadw y Cymro ar ol. Dywedwch wrth y Cymro sydd yn derbyn deugain punt yn y flwyddyn, y byddai yn hawdd iddo fyw ar ddeg ar hugain, a rhoi heibio ddeg punt bob blwyddyn, a chewch glywed yn ebrwydd fod hynny yn anmhosibl, ei fod ef eisoes yn byw yn eithaf cynnil, a'i fod yn methu troi heibio un swilt. Ond pe na byddai ei gyflog ond deg ar hugain, yna byddai yn rhaid iddo ddeall fod yn bosibl byw ar ddeg ar hugain, a hynny efallai yn llawn mor gysurus. Y mae hyn oll yn tarddu i raddau mawr oddiar ddiffyg addysg. Nid yw Cymro anwybodus mwy na'r *Esquimaux* yn meddwl am ddim ond digon am dano, a llonaid ei

fol o fwyd. Nid oes dim yn werthfawr yn ei olwg os na bydd yn dda i'w fwyta, neu yn hardd i'w wisgo. Ond y mae tuedd ddarllengar, ac awydd am wybodaeth yn codi dyn uwchlaw blysiau anifeiliaidd, ac yn peri iddo feddwl am rywbeith heblaw pleserau y fynyd presennol. I'r graddau y mae y meddwl wedi ei goethi a'i éangu, i'r graddau hyny yr ydym yn darparu ar gyfer amseroedd dyfodol.

MEUDWY.

Y Dyn Annedwydd.

Y DYN annedwydd a aned yn ninas Dystryw, yn mhlwyf Damnedigaeth, a fagwyd yn nhŷ cyndynrwydd, a addysgwyd yn ysgol anufudd-dod, ac y mae yn awr yn byw ar wastadedd gwrthryfelgarwch. Y mae yn gweithio yn ngwasanaeth y diafol, yn malu yn melin aflenid, ac mae'r hopren yn llawn o lid bob amser, fel nad yw efe byth yn segur. Y wisg oreu a fedd ydyw hunan-gyflawnder, ac fe dynir hōno oddiamdano pan y bydd yn myned i'r rhyfel olaf ac ofnadwy hwnw; *Preg.* viii. 8; felly fe fydd heb yr un wisg i roddi am dano pan bydd mwyaf o anghen am dani—yn nydd yr ystорм fawr.

Y mae yn cerdded hyd heolydd gwagedd ac oferedd, a dringa weithiau i fyny i lwybr uchel-fyroen, i fynydd anghrediniaeth.

Ei fwyd a'i ddiod sy'n wael iawn, mae yn "bwytara bara annuwioldeb, ac yn yfed gwin traïs," a'r danteithion goreu a fedd ydynt gibau gwael y moch. Fel hyn y mae yn annedwydd yn byw, ac yn druenus yn marw.

Annedwydd yw yr hwn sydd a'i ewyllys yn gnawdol, ei serch yn ddaearol, ei ddeall yn dywyll, ei gof yn llygredig, ei gydwytod yn ddideimlad, ei enaid yn ymhyfrydu mewn pechyd, ei galon yn galed, a'i feddwl yn anghymeradwy. Yr hwn y mae "Dyw yn ddiglawn beunydd," yr hwn nad yw yn ceisio heddwch a Duw trwy Iesu Grist, yr hwn y mae cyfraith Duw wedi ei gondemnio, cyf-iawnder Duw wedi rhwymo cortyn damnedigaeth am ei wddf, a sancteiddrwydd Duw yn barod i dynu yn y cortyn, a dim ond anadl frau rhngddo a disgyn i afael yr ail farwolaeth, "lle nid yw eu prif hwyt yn marw, na'r tân yn diffodd," na'r un dafn o ddwfr i oeri ei dafod byth. Dyma ran y dyn annedwydd—mewn cyflwr truenus.

I ochelyd nodau y dyn uchod, mae yn rhaid "gweddio yn ddi-baid," gwylio yn barhäus, credu yn Iesu Grist, ymollwng i drefn Duw, byw yn ol rheol gair Duw, a rhodio yn addas i efengyl Duw, ymddidoli oddiwrth yr annuwiol, ymwadu âg annuwioldeb, ymddyddan yn sanctaidd, ac amcanu at ogont Duw.

Acarfair.

A.

Y Genadaeth Ddinasaid.

ANWYL GYFAILL,—Yr oeddych yn ceisio genyf roddi i chwi ryw ychydig o hanes fy llafur gyda'r genadaeth ddinasol, a pha lwydd sydd wedi bod arno. Ceisiaf yn awr roddi i chwi ryw fras olwg ar y pethau mwyaf teilwng o sylw. Ond efallai y byddai yn well i mi yn gyntaf roddi desgrifiad o ansawdd y *district*, neu faes fy llafur, ac o'r moddion a arferir i geisio dwyn y bobl i wybodaeth o'r gwirionedd.

Y mae y *district* yn cynnwys oddeutu wyth gant o deuluoedd, y rhan fwyaf o ba rai sydd yn dlodion iawn. Y mae llawer o honynyt yn byw ar werthu nwyfau yn yr heol, ac o amgylch y dref, y rhai a elwir *costermongers*; eraill ydynt yn gweithio yn y *docks*—yn dadlwytho llongau, &c; eraill wrth gyweirio hen esgidiau a'u gwerthu drachefn, y rhai a elwir yma *translators*; a llawer o honynyt eilwaith sydd yn byw ar anonestrwydd, megys pigo llogellau, tori tai, &c., a'r rhai hyn i gyd yn gyffredin yn ddynion llygredig eu buchedd, heb fod byth yn myned i un lle o addoliad, nac yn meddwl am eu diwedd.

Y moddion a arferir genym yw ymweled a'r teuluoedd hyn yn eu hanneddau, gan roddi *tracts* iddynt i'w darllen, a cheisio tynu ymddyddan crefyddol a hwynt. Wedi myned i'r tŷ (trwy eu caniatâd), os bydd hamdden, darllenair rhan o'r Bibl, gydag eglurhad syml, a therfynir y cwbl trwy weddi. Gofynir hefyd a fydd ganddynt Fibl, ac os na bydd, eu cymhell i'w geisio, a'u cyfarwyddo pa fodd i'w gael; a chymhellir hwynt hefyd i le o addoliad. Cedwir dau gyfarfod bob wythnos mewn ysgoldy neu ryw dŷ annedd, lle y cesglir cymaint ag a ellir o honynyt ynghyd, i'w dysgu ymhellach yn ffordd Duw. Dechreuir y cyfarfodydd hyn trwy ganu mawl, darllen rhan o'r Bibl, a gweddio, yna rhoddir anerchiad iddynt oddiwrth ran o'r ysgrythyr, a therfynir trwy ganu a gweddio drachefn. Y mae y cyfarfodydd hyn yn cael eu golygu fel yn rhag-arweiniol i'r addoliad mwy cyhoeddus yn y gwahanol gapeli ac Eglwysi, i'r rhai y cymhellir hwynt i fyned yn ol eu dewisiad eu hunain, o ran lle a gweinidog, ond eu bod yn Brotestanaidd ac efengylaidd. Nid ydym yn cael dim gan y genadaeth at dalu am ystafell i gadw y cyfarfodydd hyn, rhaid i ni ennill tir gyda rhyw deulu neu gilydd, trwy fod yn ddefnyddiol iddynt, a chael eu hystafell fel ffafri wed'yn i gynnal y cyfarfodydd ynddi, ac y mae hyn yn fy arwain ar unwaith i adrodd y ffraith gyntaf sydd genyf i osod ger eich bron allan o fy adroddiad blyneddol am y flwyddyn 1848. Yr oedd un teulu mwy annuwiol na chyffredin, o'r enw L_____, yn byw yn C_____, pa rai fyddai i gyd, rïeni a phlant, wedi arfer a meddwi, ymladd a'u gilydd, ac a'r cymydogion, ac yn aml yn y carchar o herwydd eu camymddygiadau. Wrth ymweled a'r heol lle yr oeddynt yn byw, byddai y cymydogion yn arfer dyweyd eu bod yn gofeithio y llwyddai fy llafur gyda'r teulu hwnnw i'w cael i ryw drefn, eu bod yn fiinder i'r gymydogaeth, &c. Ond i fod yn fyr, cyfeiriais fy ynadrechiadau yn neillduol at y teulu hwn, mewn

gweddi drostynt at Dduw am fy llwyddo. Anaml y byddent yn sobr, ac anobeithiol fu yr ymdrech am ryw ysbaid o amser. Ond o'r diweddd, llwyddodd yr Arglwydd fy ymgais i gael gan y wraig ddyfod i gyfarfod oedd genyf mewn ysgoldŷ cyfagos, lle y cyrhaeddodd y gair ei chalon, a: y gwnaed argraff ddwys ar ei meddwl. Testun yr anerchiad oedd y wraig o Ganaan. Wedi y cyfarfod hwn eto, er ei bod yn dangos teimladau dwysion ar y pryd, nid oedd genyf fawr obaith am dani; ond trwy drugaredd yr Arglwydd trödd allan yn llawer gwell na'm dysgwyliad. Aeth i ymuno yn gyntaf peth â chymdeithas ddirwestol yn y gymydogaeth, o honi ei hun; a pharhæodd o'r pryd hyny hyd heddyw yn ddiwyd gyda phob moddion o ras, dirgel a chyhoeddus, heb esgeuluso cymaint ag un cyfarfod, os byddai yn iach; a cheisiodd genyf ddyfod i gynnal cyfarfodydd yn ei thŷ hithan yn fuan, gan wahodd amrywo'i chymydogion i ddyfod ynghyd. Nid oedd y tŷ ond bychan, a llenwid ef yn rhy lawn i allu anadlu ynddo yn rhwydd yn gyffredin. Mewn amser hysbysodd Mrs. L. ei dymuniad i gael bwrw ei choelbren gyda phobl yr Arglwydd, ac wedi ymweled â hi rai troiau gan weinidog y capel lle byddai yn gwrandaw ar y Sabbath, a chael boddlonrwydd am ansawdd ei meddwl, derbyniwyd hi yn aelod eglwysig, ac i fynwes pawb o'r aelodau. Erbyn hyn yr oedd y tŷ yn lanwaith, a bwyd yn barod erbyn y delai yr hen Wr adref, a phob peth yn weddus ac mewn trenf. Yr oedd yn arferiad ganddi gadw y Bibl a'r llyfr hymnau bob amser ar y bwrdd, ynghyd a'r gwydrau (*spectacles*), lle byddai yn eistedd i'w darllen, gyda y blas mwyaf, bob hamdden a gaffai; a chanddi ryw ran o'r gwrionedd i ofyn eglurhad arno pan y byddwn yn galw heibio. Nis gallai byth ymddyddan am bethau crefydd, ac am ei hachos ei hun, heb wylo dagrau o edifeirwch a llawenydd yn gymysg; a mawr fyddai ei gofal a'i phryder am i'w meibion a'i merched hefyd gael crefydd. Byddai yn gweddio llawer drostynt, yn eu cynghori a'u rhybuddio, ac yn gafaelu yn mhob addewid a welai yn y Bibl o ymweliadau yr Arglwydd a phlant ei bobl. Ni byddai neb o'r cymydogion chwaith yn cael llonydd ganddi, naill ai byddai raid iddynt wrundai arni, neu symud oddiyno i fyw. Cafodd ei bywyd duwiol, a'i chyngchorion dwys, lawer iawn o effaith ar bawb sydd yn byw yn yr un heol a hi. Ni chaffai neb o honynf fod mewn cystudd, neu unrhyw drallod, heb iddi fyned i weini arnynt, a'u cynghori, ac yn aml weddio ei hunan gyda hwynt. Gwnaeth hyny yn ddiweddar gydag adyn tlawd oedd yn marw o'r *cholera*. Bu yn gweini arno gyda phob caredigrwydd, a'i gynghori a gweddio gydag ef a'i wraig drwy y nos, hyd nes y bu farw yn y boreu; yr oedd yntau ei hun hefyd wedi dyfod i weddio yn daer ychydig cyn marw, er ei fod o'r blaen yn anffyddiwr. Yr oedd hyn pan oeddwn o'r dref yn ddiweddgar.

Mynodd gadeiriau newydd at wasanaeth y cyfarfod, a chanwyll-arnau pres, a'r canwyllau goreu bob amser ar y bwrdd, gan wrthod cymeryd tâl am ddim o honynf. Ni chymerai hi byth ddim cyrth ei hun os byddai rhyw un o'r teulu yn glaf, ond rhoddai

lawer yn ol ei gallu i rai oedd dlotach, a dywedai yn aml, os byddai raid, yr äi hi i'r *workhouse*, oblegid y gallai gael presennoldeb yr Arglwydd yno hefyd; ond ei bod yn meddwl na byddai raid myned yno tra byddai ei hymddiried yn yr Arglwydd. Yr oedd y *land-lord* wedi rhoddi gosodiad y tai yn yr heol hono i'w gofal hi, ac yn ei hanrhymeddu à llawer o ymddiried.

Yn mhen ychydig amser gwelwyd yr hen Wr hefyd yn teimlo yn ddwys dan y gair, er na fyddai yn arfer dyweyd fawr ddim. Ond ryw noswaith, pan na allai ymattal yn hwy, torodd allan i wylo, a dywedodd yn ei ddull trws gl ei hun, "Well, Mr. W., I think I must cast my lot among you too, if you will allow me; for I am quite tired of my old life." Ac wedi ymddyddan âg yntau amryw weithiau gan y gweinidog lle yr arferent wrandaw, a chael bodd-lonrwydd am ei syniadau ac agwedd ei feddwl, derbyniwyd yntau hefyd i aelodaeth eglwysig. Llawer gwaith y cafodd yr ysgrifennyd y faint o gydeistedd à hwynt, a phedwar eraill o ffrwyth ei lafur, yn yr un seat, ar amser cymundeb.

Llawero bethau difyr a ellid adrodd am danynt pe b'ai amgylch-iadau yn caniatâu, ond gan fod y llythyr hwn wedi myned eisees mor faith, terfynaf yn bresennol gyda dyweyd eu bod ill dau hyd yma yn rhodio yn ddiargyhoedd, mewn gostyngeiddrwydd ysbyrd, a chysondeb ymarwediad. I Dduw yn unig y byddo y clod.

Yr eiddoch, &c.

Llundain.

E. W.

Cyfarchiad at ddarllenwyr ieuanc y "Geiniogwerth."

FY ANWYL BLANT,

Yr ydym weithiau braidd yn ofni eich bod chwi, fel dosbarth lliosog o ddarllenwyr y "Geiniogwerth," yn cael eich hesgeuluso yn ormodol, a hyny am fod cynnifer o'r pethau rhagorol a gwerth-fawr sydd yn ymddangos ynddi, yn rhy uchel i'ch cyrhaeddiadau. Ac am hyny, y mae yn ein bryd eich cyfarch chwi yn benodol y tro hwn, gan obeithio y bydd i chwi ddarllen y llinellau hyn yn ofalus, a meddwl am danynt hefyd ar ol eu darllen. A'n neges atoch yn benaf y tro hwn, fy anwyl blant, fydd galw eich sylw at esiampl brydferth o un ieuanc mewn dyddiau—ieuengach na'r rhan fwyaf o honoch chwi fydd yn darllen yr hanes hwn—un heb fyw ond ychydig flyneddau yn y byd, ond eto wedi byw digon ynddo i adnabod Iesu Grist ac i ddyfod yn ffrynd mawr âg ef, cyn marw. A'n dyben yn hyn ydyw, ceisio dangos i chwi mor brydferth ydyw bachgen bach, neu eneth fach, dduwiol: a hyny er mwyn codi awydd ynoch chwithau am fod yn rhai fyddo yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni—yn caru Iesu Grist ac yn cadw ei orchymynion ef; fel y byddo eich hoes, pa un bynag ai hir aï bër, yn gysur i chwi eich hunain, yn ddefnyddiol i eraill, ac yn ogoniant i Dduw.

Fe fu Iesu Grist ei hun yn blentyn bach unwaith. O! onid yw hyn yn rhyfedd i feddwl am dano?—fod yr un sydd heddyw yn eistedd ar ddeheulaw Duw, a'r angelion dysglaer a'r seraphiaid tanllyd yn plygu ger ei fron i'w addoli, ac yn prysuro am y cyntaf i gael yr anrhydedd o'i wasanaethu—a phawb drwy yr holl nefoedd, ie, a'r Duw mawr ei hunan hefyd, yn ymryson am roddi mwyaf o fawredd iddo—fod hwnnw unwaith wedi bod yn blentyn bychan ar y ddaear yn uffudhau i'w rieni, a'r rhai hyny yn dlodion! O! do, fy anwyl blant, fe fu yr Un Mawr, ag y mae y greadigaeth yn ymgrymu ger ei fron—fe fu hwnnw, ar ryw adeg o'i fywyd, yr un oed, yn uniawn i'r mis ac i'r diwrnod, a phob un o ddarllenwyr ieuainc y "Geiniogwerth!" Nid oes yr un o honoch chwi, pa mor ieuanc bynag ydych chwi, yn rhy ieuanc i allu dywedyd

"Yr Iesu a groeshoeliwyd
Ar fynydd Calfari,
Fu gynt yn blentyn egwan
Mor sychan a myf!"

A'i ddyben ef yn darostwng ei hun fel hyn, oedd er mwyn cael trefn i'ch dyrchafu chwi. Fe ddaeth y Cyfoethog hwn yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi. Fe ddaeth Mab Duw yn fab dyn, er mwyn cael meibion dynion yn feibion Duw. Darostyngiad anfeidrol iddo ef oedd dyfod yn fab dyn, ond dyrchafiad anfeidrol i chwi fydd cael eich gwneyd yn feibion ac yn ferched i Dduw.

Wel, onid yw yr un sydd wedi gwneyd caredigrwydd mor ryfeddol a chwi, yn deilwng o'ch serch, o'ch uffud-dod, a'ch amser, a phob peth sydd genych? Oni ddylai gael eich hoes, o'i chw̄r, i'w wasanaeth? A oes perygl i chwi, fy anwyl blant, ddechreu ei garu yn rhy foreu? O! nac oes. Y mae plant bach yn meirw. Y mae lliaws o'r un oed a phob un o honoch chwi, yn gorwedd heddyw yn y bedd oer, tywyll. Y mae yn ddiau fod yr eneth fach yr wylfi yn myned i roddi ychydig o'i hanes i chwi yn awr, yn llawer ieuengach na'r rhan fwyaf o'r genethod bychain fydd yn darllen yr hanes yma. Ac fe fu hi farw. Ond yr oedd arwyddion pur eglur arni hi ei bod wedi dechreu caru Iesu Grist ar y ddaear, a'i bod yn awr yn byw gydag ef yn y nefoedd, yn gweled ei ogont, ac yn ei garu yn fwy nag ericed!

Enw yr eneth fach hon ydoedd Ann Jones—merch ydoedd i John a Margaret Jones, Heol Whitford, Treffynnon. Hi a fu farw Medi 12fed, 1849, yn bum mlwydd a saith mis oed. Yr oedd rhyw bethau tra nodedig yn yr eneth fach hon bob amser, ag oedd yn tynu sylw pawb a'i hadwaenai: ac mor mor nodedig oedd ei hymddyddanion a'i geiriau, fel y byddai ei rhieni a'i chymydogion yn meddwl ac yn dyweyd yn aml, nad ydoedd wedi ei bwriadu i'r byd hwn. Nid oedd anialwch oer a diffaith y ddaear hon yn deilwng o flodœyn mor brydferth. Un peth nodedig ynddi oedd ei *haidd-fwynder*. Yr oedd o dymher naturiol mor addfwyn a serchog, fel tuag at ei charu, nad oedd eisieu dim ond ei hadnabod. Pan y byddai ei chwiorydd bychain weithiau yn ymrafaelio â'u gilydd, hi

a redai at ferch ieuanc grefyddol oedd yn byw yn agos ati, o'r hon yr oedd yn dra hoff, a'r hon oedd yn dra hoff o honi hitau—gan edrych yn bur drist, a dywedyd, O ! Miss—, y mae arnaf ofn nad aiff fy chwiorydd ddim i'r nefoedd : y maent yn enethod drwg, ac yn cweryla & u gilydd—paham na baent yn cofio—

“ Be kind to each other,
The night's coming on—
When friend and when brother
Perchance may be gone!”

Yr oedd y llinellau hyn wedi eu dysgu iddi gan y ferch ieuanc grybwylledig. Peth arall nodedig iawn mewn un mor ieuanc, oedd ei *difrifoldeb*. Yr oedd hi yn gallu chwareu fel plant eraill, a hyny gyda'r un bywiogrwydd a sirioldeb a hwythau ; ond pan yn ym-wneyd mewn rhyw fodd a phethau crefydd, byddai mor ddifrifol a phe na buasai gwên wedi bod ar ei genau erioed. Ni wnae un amser gyffwrdd â'i bwyd, gartref nac oddicartref, heb yn gyntaf ofyn bendith arno, ac wedi hyny, diolch am dano. Yr oedd wedi arfer gwneyd hyn er pan yn dair oed ! Hi a ãi ar ei gliniau yn mha le bynag y byddai, os gofynid iddi, ac a ddywedai, gyda'r fath ddifrifwch a theimlad, nes y byddai pawb yn synu—“ God be merciful to me a sinner, and make me a good girl, through Jesus Crist our Lord. Amen.” Byddai yn fynych iawn yn adrodd y llinellau hyny yn dra theimladwy—gan ysgwyd ei phen wrth eu dyweyd,

“ Poor and needy though I be,
God Almighty cares for me.”

Pan y dygwyddai fod ystom o wynt a gwlaw mwy na chyffredin, hi a ofynai, “ O ! fy mam, a dydw diwedd y byd wedi dyfod ? ” Ac os dygwyddai weled rhyw rai, ag yr oedd hi yn meddwl am danynt eu bod yn annuwiol, hi a ddywedai, “ Wel—fe fydd y rhai yna yn gwaeddi am i'r mynyddoedd a'r creigiau eu cuddio yn niwedd y byd, oni fyddant ? ”

Peth arall nodedig iawn ynddi ydœedd *tynnerwch ei chydweyvod*. Yr oedd yn hynod o ofalus hyd eithaf ei gwybodaeth, i beidio gwneyd na dyweyd dim, ag a fyddai yn digio Duw ; ac nis gallai ei oddef mewn eraill ychwaith. Pan y clywai rai o'i chymdeithion ieuainc yn adrodd rhyw ganiadau gwâg neu ymadroddion anwedd-aidd, rhedai yn uniawn at ei mham i gwyno o'r herwydd, gan ysgwyd ei phen, ac edrych yn bur dramgwyddedig. Yr oedd rhyw ogwydd penderfynol yn ei meddwl ieuanc a thyner yn erbyn pechod yn mhawb. Yr oedd yn hynod am ei gofal i ddyweyd y gwir ar bob achlysur ; a phan y byddai ammheuaeth ynglynol unrhyw beth, apelid ati hi yn hyderus am gael y gwirionedd, os byddai yn ei wybod, pa un bynag ai ffafrol a'i anffafrol iddi ei hunan fyddai hyny.

Tua dau fis cyn ei marwolaeth, hi a ddeuai un diwrnod yn ddifrifol iawn at y ferch ieuanc y crybwyllywd am dani, gan ddywedyd, “ A wyddoch chwi beth ? fe ddarfu i mi ddeffro ganel nos neithiwr,

ac mi ofynais i Iesu Grist fy ngwneyd yn eneth dda, a'm cymeryd i'r nefoedd!" Ac fe ryngodd bodd i'r Arglwydd ateb ei deisyfiad plentynaidd cyn pen nemawr o ddyddiau. Y nos Sabbath cyn ei marw, a hi eto yn iach, ar ol myned i'w gwely, dechreuaï ganu

"Mae Iesu Grist o'n hochr ni
Fe gollodd ef ei waed yn lli," &c.

Ac yr oedd yn rhaid i'w chwiorydd ymuno â hi, a chanu y buont am grynn amser. Dydd Llun, yr oedd yn iach fel arferol. Cymerwyd hi yn glaf ddydd Mawrth, o'r *English Cholera*; a thranoeth, dydd Mercher, daeth yr Iesu hwnnw, ag yr oedd hi yn ei garu mor fawr, i roddi cusan i'w hysbryd ieuanc, nes ei sugno ato ei hunan. Blodëuyn prydferth ydoedd, a ddaeth i'r byd, bron er mwyn dangos mor dlws y byddai yn tyfu yn ngardd y Baradwys fry!

"This lovely bud, so young—so fair
Called hence by early doom,
Just came to soh how sweet a flower
In Paradise would bloom!"

Yr oedd wedi dysgu lliaws o adnodosau o'r Bibl, a gallai eu hadrodd yn gywir, ynghyd a lliaws o bennillion hefyd. Un o'i hoff rai ydoedd yr un a ganlyn :—

"Jesus who reigns above the sky
And keeps the world in awe;
Was once a child as young as I
And kept his Father's law."

Wel, fy anwyl blant, y mae yn rhaid i ni ymattal yn awr, rhag myned yn rhy faith: ac yr ydym yn terfynu gyda gofyn i chwi, A oes arnoch chwithau, fechgyn a genethod bychain sydd yn darllen y "Geiniogwerth," ddim awydd i fod yn blant duwiol, fel yr eneth fach ag y buoch yn darllen am dani yn awr? O! fy anwyl blant, os ydych yn dymuno gwneyd rhywbeth i fod hau Iesu Grist, yn gydnabod am ei gariad mawr tuag atoch, nis gellwch wneyd hyny yn well trwy ddim, na thrwy offrymu blyneddau tyner eich ieu-enectyd ar ei allor. Ewch at Iesu Grist yn aml, aml, i ofyn iddo roddi i chwi galon newydd—calon i'w garu ac i'w wasanaethu; ac yna ni raid i chwi ofni dim sydd yn angeu, yn y farn, nac yn nhragwyddoldeb. Rhoddwch eich hunain i'w ofal mawr Ef, ac efe a'ch arwain trwy anialwch dyryslyd y byd—efe a gymer afael yn eich llaw yn angeu—ac a'ch caria yn ei freichiau yn ddiogel i'r byd mawr anweledig. Ac yna chwi a gewch fyw gydag ef, a'i glodfori yn oes oesoedd.

CAMBERON.

Arferion y Cymry.

BARCHEDIG OLYGYDD,

Goddefwch i ni, yr ieuenctyd, am dro, gael ateb drosom ein hunain. Wrth wrandaw pregethu, a darllen y "Geiniogwerth," &c.,

braidd na thybiem nad nyni yw'r achos o holl brif bechodau ein cenedl; ac na tharddodd erioed rinwedd oddiwrth bobl ieuainc. Gwir fod aflenid yn uchel ei ben, a rhwydd hynt i bawb a glyw ar ei galon lefaru yn ei erbyn. Ond, i mi ddychwelyd at fy amddiffyniad, nid nyni, yr ieuencyd, yw y gwreiddiol achos o hono, er mai ymhlieth yr ieuencyd y mae yn tyfu. Am y dull gwarthus y mae liaws o bobl ieuainc yn ei arfer yn eu rhag-gyfeillach, mi fentraf ddyweyd, mai *damweiniol ydyw*, ac nid o gariad at y dull sydd mewn arferiad mewn rhai manau, ond o ddifyg gwroldeb i wrth-sefyll temtasiwn. Dyma yr esiampl a adawodd yr oes o'r blaen i ni, ac yr oedd yn rhaid i ni dyfu i'n cyflawn faintoli cyn dyfod i wybod y perygl. Os dywedai rhywun, mewn ymddyddan personol, rywbedd am ei ddrygedd, dywedai dan chwerthin; fel pe na buasai nemawr berygl, ond fod yn *ffasiwn* dwdrio. Llawer merch all dadogi yr anwiredd i raddau helaeth ar ei mham, a llawer morwyn ar ei mheistres. Meddynt, "Rhaid i'r merched gael caru," ac, "Ni fydd y merched yn werth dim heb gael caru noson neu ddwy yn yr wythnos." A llawer mab all ei dadogi ar y cyngorion afaian a gafodd gan rywun oedd yn cydweithio âg ef, ag oedd yn y sefyllfa briodasol er's blynediau. Dynion drwg ac annuwiol, rhyw eppil dieflig mewn crwyn dynion, heb fod yn hanner synwyr y cyffredin o blant Adda—a hyfforddiant ryw blantos ffål a diddysg, es byddai tebyg i rwystr ar ffordd y dyhiryn i gael yr enethig, i rodio llwybrau ffiaidd ac afaian, ar hyd pa rai y daethant hwy i'r ystad briodasol. Ac o'r ochr arall, gwragedd oedranus, ond digywilydd, yn hyfforddi genethod ysgafn eu meddwl, i fod yn faglau i wyr ieuainc y Dywysogaeth. A lle y mae gwir barch i foesoldeb, y rhan amlaf, mae'n cael ei wrth-weithio a geiriau ffål i fod yn iselhad yn hytrach na dyrchafiad i rinwedd.

Ond y rhai a enwais, gwehilion y byd ydynt. Mae dosbarth arall tipyn mwy moesol, ond hwythau a gant ddwyn eu rhan. Os bydd cyfeillach, mewn ffordd anrhymeddedus, rhwng dau ieuanc, rhaid i hen wragedd gael hyny ar draws eu cegau o dŷ i dŷ am *dea*. Ni fydd gan Mrs. H— ddim gwell i'w roi o flaen y cwmpeini na rhyw wr ieuanc fydd mewn cariad at ferch y tŷ nesaf. Gadawed yr hen bobl lonydd i'r bobl ieuainc gyfeillachu a'u gilydd ar ffordd cyflawnder, a chywilyddiant o achos yr esiampl felldigedig a adawsant i'r oes sydd yn codi. Mae meddyliau yr ieuencyd yn barod i dderbyn addysg; ond cofied yr addysgwr na bydd tra-arglyddiaeth yn llechu dan ei gronllwyd; oblegid pobl ryddion ydym ni, ac yn casâu gorthrymder. Mae miloedd Cymru yn hiraethu am weïd diwygiad: mi hyderaf ei fod yn cychwyn mewn rhai manau; ond mae mwy yn gorhwyseb y rhieni nag y mae y rhan fwyaf, efallai, wedi meddwl. Plant sydd gwedi derbyn addysg dda, anfynych iawn y canfyddir yr un yn syrthio. Rhyw ddifyg yn yr hyfforddiant, yn fynychaf, sydd yn gadael ei effaith ar blant ein gwlaid ni. Meddai gwraig, "Ni fuasai fy machgen i ddim yn myn'd yn wylt, oni b'ai iddo fyn'd i weini i'r H—," a hithau, druan, ei hunan heb ddysgu dal ei thafod: felly, wrth ei fagu, yr

oedd yr hogyn wedi ei ddysgu yn dafod-ddrwg. "Mae ymddydd-anion drwg yn llygru moesau da." Hawdd yw clywed ymddyddanion o'r fath, gan lawer o rieni, a phenau teuluoeedd, ag sydd yn llygru moesau y plant a'r gweinidogion. Mae ffermwyr yn euog o lygru meddyliau eu gweinidogion gyda'u hymddyddanion an-weddaidd. Hawdd fyddai enwi ugeiniau o dai, yn sir Fon, lle y mae y gŵr a'r wraig mor ysgafn eu meddyliau, a llac eu tafod, a'r un hogyn neu hogen yn y gymydogaeth. Mewn llawer tŷ fferm, ceir y wraig yn siarad y fath eirlau, fel y mae yn anmhosibl fod trefn yn y fath deulu: nid oes yr un ymadrodd serth na choeg yn rhy aflan i'w arferyd. Dyna yw nodwedd lliaws o deuluoedd ag y mae llawer o weinidogion ganddynt. Yn y lleoedd hyn mae pob arferiad drwg yn cael magwraeth, a phob ymadroddion aflan yn cael cartref. Mae y pethau hyn yn rhy wir i'w gwadu. Diwygied ein gwlad.

MAB Y FFERMWWR.

Dyweddiadau Detholedig.

MAE Cristionogion, yn gyffredin, i'w beio oblegid tri pheth:—1. Am chwilio ynddynt eu hunain am yr hyn nid yw i'w gael yn un lle ond yn Nghrist yn unig. 2. Am chwilio yn y gyfraith am y pethau nad ydynt i'w cael ond yn yr efengyl yn unig. 3. Am geisio ar y daear am y pethau nad ydynt i'w cael ond yn y nefoedd. Mae chwech o bethau y dylai y Cristion mewn medd neillduol lafurio am danynt:—Bod yn ostyngedig ac yn ddiolchgar; yn wyliadwrus a siriol; yn fywiog heb fod yn ysgafn; yn sobr heb fod yn athrist; yn amyneddgar heb fod yn ddideimlad; ac yn ddiysgog heb fod yn gyndyn.

R. EVANS.

Cynghorion Ymarferol.

GWYR pawb fod yn fwy hawdd cofio cynghor os ceir ef ar gân. Y mae yr ystyriaeth o hyn wedi peri i mi gyfansoddi ychydig bennillion, os ydynt yn deilwng o'r enw, i'w gosod yn y "Geiniogwerth," o bryd i bryd, i'r dyben o argraffu ar feddyliau y darllenwyr rai hen reolau buddiol a draddodwyd i ni gan ein tadau a'n teidiau. Nid oes dim newydd yn eu cynnwysiad, na dim cywreinrwydd yn eu cyfansoddiad. Yr oll a wneuthum oedd eu rhoddi i odli rywffordd fel y byddent yn hawdd eu cofio. Cymerer y rhai canlynol am y tro hwn.

Cystal ceiniog a gynnillir
A dwy geiniog a ennillir.
I'r gweyl'yn gynnar, codi'n foreu,
Dyna'r 'stad a'r synwyr goreu.
Byth na oeda hyd y fory
Yr hyn a ell i wneuthur heddy'.

Haua di'n ddiwyd, pan fo eraill yn cysgu,
Cei ddigon o ſŷ i gadw ac i werthu.

Os myni gerdded heb gael nam,
Edrych o'th flaen cyn rhoddi cam.

Gwell dyagu 'n iawn un wers neu ddwy,
Na hanner dyagu llawer mwy.

Y Froufaith a ganai ryw ddydd ar y llwyn,
"Ymddygwech bob amser yn dirion a mwyn."

A glywaist ti ddywediat y Fran ar y rhos ?
"Fy mhlant hoff, gofawlch fod gartref cyn nos."

Y Ceiliog gynghorai wrth ochr y das wair,
"Os na fydd gwir achos na ddos byth i ffair."

Dywedai Robin goch, a'i big wrth y gwydr,
"Os ydych yn dlawd na fyddwch yn fudr."

"Byddwch lân fel myfi," meddai'r Golomen yn syw :
"Cyn siarad ymhellach, glanha gartref," meddai'r Dryw.

"Tu whit a tu whoo," fel dywedai'r Dylluan,
"Na fydd yn rhy barod i ddangos dy hunan."

A glywaist ti gân yr Uchedydd uwch ben ?
"Mor hyfryd yw easgyn o'r ddaear i'r nen."

"Rwyf wedi byw 'n hir," medd Dylluan Cwm Cawlwyd,
"Ac ni welais gysur fel cysur yr aelwyd."

"Myfi wyl yn hŷn," meddai Erry Gwern Abwy,
"Ac ni welais ragrith erioed yn ffynnadwy."

Meddai'r Llew wrth yr epa, yn nghanol ei ffrost,
"Na ddos i rysela heb gyfrif y gost."

Y Llew mawr pan welodd y llew bach gyda'i arf,
"Dos i Jericho," meddai, "nes tyfo dy farf."

A glywaist ti beth ddywedodd hen geffyl pregethwyr,
"Mae'n anhawdd iawn trafaelio os na cheir gwell swcwr."

A glywaist ti leferydd yr Ych oedd yn dyrnu ?
"Na adewch eich pregethwyr i hanner newynu."

A glywaist ti mo'r Gwenyn yn dyweyd fia Gorphenia' ?
"Os nad wyt am weithio, mae'n rhaid byw heb fwyt."

MEUDWY.

Cân Hen Wr y Cwm.

Wel dyma Wr a'i dŷ ymhell,	O dan fy nghlwy yn dwyn fy
O mae hi'n oer,	nghlais,
Yn wan a gwael mewn unig gell,	Yn glaf a llesg, pwy glyw fy llais ;
O mae hi'n oer !	Prudd yw fy nghwyn ! pwy rydd fy
Mewn bwthyn oer, pa beth a	nghais ?
wnaf,	O mae hi'n oer !
Hen wr trallodus clwyfus claf ?	
Ar wely gwellt galaru gaf,	O sylw'r byd mewn salw barth,
O mae hi'n oer !	O mae hi'n oer !

Mewn gwlieth o hyd, mewn gwlau a
tharth,
O mae hi'n oer!

Ar fynydd oer mae f' anedd wael,
Ynghyrau llwm rhyw gwm i'w gael,
Ac oeraf wynt yn euro f'ael;
O mae hi'n oer!

Byw weithiau'n llaith mewn bwth-
yn llwm
Yn wir y ceir Hen Wr y Cwm;
Mae heno'n troi yn rhew-wynt rwm,
O mae hi'n oer.

Mae'r gwynt yn uwch! mae lluwch
ger llaw,
O mae hi'n oer!
Er gwealed wyl, i'r gwely daw!
O mae hi'n oer!

Mae'n arw fod mewn oeraf fan
Rhyw unig wr mor hen a gwan,
Yn welw ei rudd, yn wael ei ran,
O mae hi'n oer!

O na chai hen greadur gwan
Cya llechu'n llwyr yn llwch y llan
I'w einioes fér ryw gynes fan;
O mae hi'n oer!

Mewn eira ceir Hen Wr y Cwm,
O mae hi'n oer!
Mewn gwynt a lluwch ac yntau'n
llwm,
O mae hi'n oer!

Er gweled llawnder llawer llu,
Rhag gofid oer y gauaf du
Ni feddaf loches gynes gu,
O mae hi'n oer!
O boenau dwys ar ben y daith!
Mewn eisieu'n fud am noson faith
Ar wely llwm mor wael a llaith,
O mae hi'n oer,

Mewn iasau tost—mewn eisieu tân,
O mae hi'n oer!
Heb wlanen glyd, heb lin na gwlan,
O mae hi'n oer!
Yn waela'i ran o ddynolryw,
Ar fin y bedd 'rwyf fi yn byw,
Yn hen a gwael, yn wan a gwylw,
O mae hi'n oer!
Un mynyd awr i mi'n id oes,

Ond chwerw lid a chur a loes;
Ni charaf fyw yn chwerw f'oes,
O mae hi'n oer!

Ni fynwn fyw o fan i fan,
O mae hi'n oer!
Yn llusgo corff mor llesg a gwan,
O mae hi'n oer!

Ar hyd y nos mae'n rhaid yn awr
I'r awel lem fy nghuro i lawr
Dan boenau dwys bob enyd awr,
O mae hi'n oer! [hedd]
Er chwennych bod mewn hynod
Claf yw fy nghorff, cul yw fy
ngwedd;
Rwy'n wers i bawb yn nrws y bedd,
O mae hi'n oer!

Mewn blinaf wynt, heb lo neu fawn,
O mae hi'n oer!
Heb dânn na gwrês, heb yd na grawn;
O mae hi'n oer!
Pwyddaw a'i rodd? pwy ddyry ran
O'i ddoniau'n gu i ddynyn gwan
Na synai fyn'd o fan i fan?
O mae hi'n oer!
Ni flina'i neb fel hyn yn hir,
Mae'r bedd gerilaw mewn dystaw
dir,
Mae yno'n well nag yma'n wir,
O mae hi'n oer!

Mae cannoedd yn eu lleoedd llawn
Ar noson oer,
Yn llon eu nwyf, yn llawen iawn
Ar noson oer!
Yn glaf a llwm, pwy glyw fy llef?
Ai'r bryniau'n awr? Na, Brenin
nef!
Mawr ydyw grym ymwared gref
Ar noson oer!
Gwel Duw fy nghain, clyw Duw fy
nghwyn—
Rhyw un a ddaw ar hyn, i ddwyn
Elusen fach, a'i lais yn fwyn,
Ar noson oer!

GWERYDDON ar noson iasoer
A gan hyn yn y gwynt oer.

Banciau Cynnilo.

Y Mae yn alarus meddwl nad yw y manteision a ddeilliant o'r sefydliadau gwerthfawr hyn yn ddigon adnabyddus, yn gystal a'u bod yn cynnig diogelwch gwell na'r clybiau mwyaf llesol, lle y mae cymaint o gyflwynau yr aelodau yn cael eu gwastraffu yn ddirwyon, ac am ddiod, er budd y tafarnwr.

Yr arferiad o roddi ychydig heibio, yw yr unig beth sydd yn eisieu. Gallai digon wneyd pe ceisient; a chan y gellir rhoddi heibio swm can lleied a swllt ar y tro, gyda llog am danynt pan gyrhaeddant naw, nis gall neb lai na sylwi ar ba ddechreuan bychan y gosodir, gyda hyfrydwch, sail i annibyniaeth dyfodol. Pe buasai yr arian a wariwyd, trwy yr arferion o yfed mewn *clybiau* a gwleddoedd, wedi eu defnyddio yn y modd hwn, pa faint a fuasai yn awr yn gallu hebgor y galar a ddilyna y cyfryw wastraff, pa un yn rhy fynych a ddryga'r iechyd, ac a arweinia i arferion anghy-medrol. Gŵyr yr ysgrifenydd anu un anghraifft ymhliith lliaws eraill, yn mha un y gofidiau aelod o *glwb*, er ei fod yn awr yn mlodau ei ddyddiau, na buasai wedi dechreu rhoddi arian yn yr ariandy cynnilo, yn mha un y buasai ganddo swm hardd erbyn hyn. Buasai yn aelod o ddaau *glwb* o'r blaen, y rhai a derfynasant mewn methdaliad: ac nid yw yn annhebyg y daw yr un y mae ynddo yn bresennol, i'r un diweddu.

Nid oes genym le i argraffu tafleni helaeth, y mae un anghraifft yn ddigon. Un swllt yn yr wythnos a gynnrycha bedair punt ar ddeg (14*p.*) mewn pum mlynedd, deg punt ar hugain (30*p.*) mewn deng mlynedd, a deg punt a thriugain (70*p.*) mewn ugain mlynedd; a dylid cofio fod yr arian yn yr ariandy cynnilo bob amsae'r at alwad y cynnilwr, pa bryd bynag y galwo am danynt; ac y maent yn cael eu diogelu gan lywodraeth y wlad. Y mae y swm lleiaf mor ddiogel ag un yr arian-dreiglydd mwyaf. Mewn *club* nis gall dyn gael hyn, a rhy fynych y *gwelir* y *club* ei hunan, yn mhrydnawn ei ddyddiau, yn troi allan i fethu talu.

Yr hen Joe a arferai alw yr ariandy cynnilo yn ardd meithrin arian y tlawd; canys dywedai, "Yr hados chwecheiniog a ddeuant yn fanwydd syltau, ac wrth i'r rhai hyn fwrw allan flagur hanner coronau, daw o'r diwedd goed aur."

Pe buasai lle, gallesid dyfynu llawer o ffeithiau gwerthfawr o ddaioni y sefydliadau hyn. Ond rhaid i ni ymdawelu gyda chrybwyl dwy neu dair yn unig. Yn y lle cyntaf:—

Ymaent yn rhagflaeniad i droseddu. Hysbysir ni mewn adroddiad ym welwr carcharau, na ddarfu dim ond un, mewn tref fechan, allan o fil oedd wedi rhoi arian yn y banc, yn benaf o'r dosparth gweithiol, yn yr yspaid o bum mlynedd, gael ei draddodi i garchar.

Ymaent yn tueddu i feithrin cymedroldeb. Mewn llaw-weithfa fawr, yn y gwaith haiarn, yr oedd y gweithwyr yn ddibaid yn cael eu blino gan wrechionen yn y gwddf, a rhoddent ran fawr o'u cyflog am wlybyroedd poethion i'w diffodd. Ond y canlyniad oedd, fod y meistr yn cael ei flino yn fynych gan ddodiad y gwaith heibio er mwyn boddio eu harchwaeth lykredig; ond trwy offerynoliaeth rheswm a thynerwch tuag atynt, dechreudd pethau ymddangos yn well. Llwyddwyd i'w cael yn aelodau o gymdeithas ddirwestol, a dechreuanant rod-li rhan o'u cyflog yn yr ariandy cynnilo. Iachäwyd hwy y'naill ar ol y llall o'u hirfaith anhwyl, ac fel hyn galluogwyd hwy i ddarpar cysuron i'w teuluoedd, i ba rai yr oedd eu harferion blaenorol wedi eu gwneuthur yn holiol ddyfeithriaid; ac y maent yn awr, nid yn unig yn fwy annibynnol a dedwydd, ond yn sefyll mewn mwy o barch yn ngolgw eu meistr.

Yr oedd rheolwr ariandy cynnilo yn bresennol pan ddaeth hen lafurwr i geisio rhau o'i drysor. Wedi gofyn pa faint oedd yn weddill, a chael ateb, dywedai, "Hyn yw yr oll sydd genyf i ymddibynu arno;" ac oddiwrth ei oedran mawr, yr oedd yn ddigon yn ol pob tebygolrwydd. Dywedi am y pleser a deimlai, mewn cael ei arian ei huu i fyw arnynt, yn lle bod dan orfed i erbyn am gymhorth plwyfol, gan chwanegu, "Pan oedd fy ngwraig a minnau yn ieuanc, arosem gartref a gofalem am eij harian, pan fyddai amryw o'n cymydigion yn gloddesta yn y dafarn: a dyma yr achos fod genyf arian fy hun i fyw arnynt.

Y maent yn fodion i gyrraedd cyfoeth. Ond gofynnithio y cofia y rhan fwyaf mai nid hy'n yw dyben ein bywyd: a dylai pob perchenog cyfoeth gofio beth mor ddiiles yw, oddieithr iddo gaelei ddefnyddio yn nygiad ymlaen ddiwylliant crefyddol a moesol eu cyd-ddynion llai eu manteision.

Cynnilwr, mewn treflan, a adroddodd yn ddiweddar i gyfaill, ddarford iddo ddechrebu heb ddim mwy na hanner coron yn ei logell; ond trwy gynnilddeb a gofal, galluogwyd ef yn fuas i roddi heibio ugain swllt; ac mewn dwy flynedd ar bymtheg yr oedd wedi caaglu deg punt a thrugain. Gyda hyn, a chymhorth rhyw gyfeillion tirion a sylwasent ar ei ddiwydrwydd, dechreuodd alwedigaeth, trwy ba un yr ennilodd 10,000*p.* mewn deng mlynedd. Y mae yn byw yn bresennol, mewn meddiant o swm llawer mwy—*Family Economist.*



Hanesian.

MAENT yn dyweyd fod y pab yn paratoi i ddychwelyd i Rufain.

Yn 1848 y bobl oedd yn meistroli ar gyfandir Ewrop. Yn 1849 mae y fantol wedi troi, a'r gormeswyr wedi cipio y cleddyf yn ol i'w dwylaw eu hunain. Cyn diwedd 1850 ni wyddis yn llaw pwys y bydd.

Nid yw yr Iwerddon yn dawel, yn weithgar, nac yn ddedwydd.

Mae diwygwyd Lloegr yn llawn bywyd a phenderfyniad. Cynnelir cyfarfod y lloiosog ac aiddgar, traddodir areithiau ymarferol, goleuedig, a chymedrol, yn erbyn beichiau rhyfel, rhagorfreintiau pendefigaeth, a chostau trymion y llywodraeth.

Mae gwr a gwraig wedi eu crogi yn Llundain, o'r enw Manning, am ladd dyn. Yr oedd ynt yn symby:u eu gilydd yn mlaen trwy anlladrwydd a *brandy*.

Yn Aberdeen telir 1,400*p.* am lanbau yr heolydd; ond y mae hyn yn cyannychu agos i 4,000*p.* Dyma dâl mewn sur melyn am gadw bywyd a gwerthfawr.

Un o brif wersi y *chollera* yn ein gwlad ni, medd y "*Times*," ydyw "ymolch a bydd lân."

Mae erthygl yn y "*Quarter'y*," prif gyhoeddiad Ucheleglwysewyr y deyrnas hon, ar "*Fethodistiaeth yn Nghymru*." Yn mhliith llawer o bethau eraill, dywedir "fod yn well genym son am ein breintiau na'u dyledswyddau;" mai y gwrionedd am danom ydyw, "ein bod yn profesu bod yn well na phobl eraill, a ninnau heb fod."

Bound by
H. WHITE AND SONS,
Carmarthen.



